

**TEITL: Cyfraniad Menywod i Ddarlledu Cyhoeddus yng Nghymru yn vstod Y  
Chwedegau Hirion  
(c. 1958–c.1974)**

**Non Vaughan Williams**

Cyflwynwyd i Brifysgol Abertawe er mwyn diwallu gofynion y Radd Doethur yn y  
Celfyddydau

Prifysgol Abertawe

Mehafin 2023

## **CRYNODEB**

Mae'r traethawd hwn yn canolbwyntio ar gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru yn ystod Y Chwedegau Hirion (c.1958–c.1974), yn bennaf eu cynnyrch cyfrwng y Gymraeg. Caiff y gwaith ei drin o safbwynt ffeminyddol ac mae profiad yr awdur fel cynhyrchydd radio a theledu gyda'r BBC yn darparu perspectif amgen wrth ddadansoddi cynnwys a chreadigrwydd rhaglenni. Rhydd y cyfnod o dan sylw gefnlen gymdeithasol gyfoethog i waith yr arloeswyr gyda Chymru fel llawer o wledydd gorllewinol yn profi gwrthdaro traddodiadau'r gorffennol a grymoedd rhyddid Eingl-Americanidd. Deffrôdd pobl ifainc Cymru, fel ieuentid ar draws Ewrop, a daeth darlledu yn ei dro yn ffocws eu hymgyrchoedd cenedlaetholgar. Ynghanol y bwrlwm, daeth pump o arloeswyr i'r amlwg, sef Ruth Price, Evelyn Williams, Nan Davies, Marion Griffith Williams a Teleri Bevan, a'u gyrfaoedd yn cwmpasu'r genres a'r darpariaethau canlynol, sy'n ffurfio penodau'r traethawd: adloniant ysgafn, darpariaeth ar gyfer plant, cylchgrawn newyddion, rhaglenni nodwedd a'r ddarpariaeth i fenywod. Caiff eu llwybrau tuag at eu cyflogaeth eu holrhain, ac wrth i oriau darlledu ehangu ar radio a theledu yn ystod y pumdegau a'r chwedegau, daeth yr angen iddynt oll arbenigo. O'r herwydd fe'u gwelwyd yn ymroi i un genre neu ddarpariaeth trwy gydol eu gyrfaoedd, gyda Bevan yn unig yn esgyn i'r lefel rheoli o fewn y BBC yng Nghymru. Ceisir dadansoddi eu gwaith, ac yn benodol eu perthynas gyda'u cynnyrch a ddarlledwyd ar y tonfeddi radio neu ar y sgrîn. Rhoddir sylw i'w cynrychiolaeth o fenywod mewn cyfnod lle bu i'r Mudiad Rhyddid Menywod yn rhyngwladol dynnu sylw at ddylanwad y cyfryngau ar y modd y cai menywod eu portreadu. Daeth i'r amlwg nad ymyrraeth ffeminyddol oedd gweledigaeth y mwyafrif ohonynt, yn hytrach eu nod oedd sefydlu gwasanaeth darlledu o'r safon uchaf yng Nghymru, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

**DATGANIADAU**

(i) Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn o'r blaen yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd.

Llofnod ... [redacted] ..... (ymgeisydd)

Dyddiad ..... 29/9/22 .....

(ii) Canlyniad fy ymchwiliadau fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle datgenir fel arall. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, caiff hyd a lled a natur y cywiro eu marcio'n amlwg mewn troednodyn/troednodiadau.

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau amlwg. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod .... [redacted] ..... (ymgeisydd)

Dyddiad ..... 29/9/22 .....

(iii) Rwy'n ardystio nad yw'r gwaith eisoes wedi'i dderbyn yn gyffredinol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd:

Llofnod ... [redacted] ..... (ymgeisydd)

Dyddiad ..... 22/9/22 .....

(iv) Rwy'n rhoi caniatâd i'r traethawd ymchwil, o'i dderbyn ar gyfer gradd ymchwil, fod ar gael i'w rannu'n electronig ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd (yn amodol ar gyfraith hawlfraint) a (b) i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ... [redacted] ..... (ymgeisydd)

Dyddiad ..... 22/9/22 .....

## CYNNWYS

	<u>TUD.</u>
Cyflwyniad	1
Adolygiad Llenyddol	15
<b>Pennod 1</b>	
<b>a: Y cyd-destun hanesyddol: cefndir yr arloeswyr</b>	<b>39</b>
<b>b: Y cyd-destun hanesyddol: Y Chwedegau Hirion</b>	<b>84</b>
<b>Pennod 2: Adloniant ysgafn: Ruth Price</b>	<b>104</b>
<b>Pennod 3: Y ddarpariaeth i blant: Evelyn Williams</b>	<b>132</b>
<b>Pennod 4: Y cylchgrawn newyddion Heddiw: Nan Davies, Betri George, Mary Middleton ac Elinor Patchell</b>	<b>160</b>
<b>Pennod 5: Rhaglenni nodwedd Nan Davies</b>	<b>202</b>
<b>Pennod 6: Y ddarpariaeth i fenywod: Marion Griffith Williams a Teleri Bevan</b>	<b>223</b>
<b>Pennod 7: Casgliad</b>	<b>255</b>
<b>Atodiad</b>	<b>280</b>
<b>Llyfryddiaeth</b>	<b>314</b>

## **Cydnabyddiaeth**

Mae wedi bod yn siwrnai hir, a hoffwn ddiolch am gyfeillgarwch a chefnogaeth teulu, ffrindiau a chydweithwyr ar hyd y ffordd. Mae diolch arbennig i Emyr, Mari, Megan, Beca, Hywel a Siwan sydd wedi byw y traethawd yma gyda mi dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolch hefyd i fy ngoruchwylwyr Dr Gwenno Ffrancon a'r Athro Kirsti Bohata.

## Cyflwyniad

Bydd y traethawd hwn yn cynrychioli yr astudiaeth gyntaf o gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y BBC yn benodol, a chymhwyso ymchwil ffeminyddol i allbwn Y Chwedegau Hirion (1958–1974).<sup>1</sup> Y nod yw darparu mewnwelediad i'r gyfundrefn yr oedd menywod a gyflogwyd gan y BBC yn gweithio o'i mewn, gan geisio natur eu cyfraniad. Dyma'r astudiaeth gyntaf i ystyried cyfraniad menywod yn benodol i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru ac er mwyn sicrhau ffocws ac undod i'r gwaith bydd y traethawd yn canolbwyntio ar allbwn darlledu cyhoeddus y BBC yn unig yn ystod Y Chwedegau Hirion. Ymhellach, er y dewis o ddegawd penodol i ganolbwyntio arno, bydd y traethawd yn olrhain cefndir a gyrfaedd cynnar yr arloeswyr o dan sylw hyd at y chwedegau, gan na aed ati hyd yma i gofnodi eu hanes a'u llwybrau at ddarlledu.

Bydd y prif ffocws ar bump menyw, sef Teleri Bevan,<sup>2</sup> Nan Davies,<sup>3</sup> Ruth Price,<sup>4</sup> Evelyn Williams<sup>5</sup> a Marion Griffith Williams<sup>6</sup> a gyrhaeddodd safloedd o ddylanwad ym myd darlledu, ac mae eu cyfraniad yn berthnasol i amrediad o genres neu ddarpariaethau sef adloniant ysgafn (Ruth Price), rhaglenni plant (Evelyn Williams), newyddion a ffeithiol (Nan Davies) a rhaglenni i fenywod (Marion Griffith Williams a Teleri Bevan). Bydd trywydd unigryw gyrfa Bevan yn cael ei archwilio gan mai hi oedd yr unig un o blith y menywod a enwir i gael cyfle a llwyddo ym maes rheolaeth darlledu yng Nghymru. Bydd y traethawd hefyd yn cydnabod cyfraniad Lorraine Davies, a fu'n gynhyrchydd drama o fewn y ddarpariaeth i blant ac yn gryn ddylanwad ar ddarlledu yng Nghymru yn gyffredinol er gwaethaf heriau personol a ddaeth i'w rhan oherwydd polisi'r BBC ar y pryd.<sup>7</sup> Bydd gwaith Myfanwy Howell o fewn darlledu cyhoeddus gyda'r BBC yn cael ei grybwyll, cyn iddi gael ei hudo gan

---

<sup>1</sup> Arthur Marwick, *The Sixties: cultural revolution in Britain, France, Italy, and the United States, c.1958-c.1974* (Llundain: Bloomsbury Reader, 2012).

<sup>2</sup> Teleri Bevan (1931–2020). BBC Cymru Fyw, *Teleri Bevan, 'Arloeswr Darlledu yng Nghymru' wedi marw* (18 Tachwedd 2020), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/54992271>> [cyrchwyd 18 Awst 2022].

<sup>3</sup> Annie (Nan) Davies (1910–1970). Dr Owen Edwards, *Davies, Annie (1910-1970), yn fwy adnabyddus fel Nan, cynhyrchydd radio, a theledu'n ddiweddarach*, Y Bywgraffiadur Cymreig, (2012), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-DAVI-ANN-1910>> [cyrchwyd 14 Medi 2019].

<sup>4</sup> Ruth Price (1924–2019), BBC Cymru Fyw, Huw Thomas, *Y cynhyrchydd arloesol Ruth Price wedi marw yn 90 oed* (24 Chwefror 2019), <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47349298>> [cyrchwyd 14 Medi 2019].

<sup>5</sup> Evelyn Williams (1911–1998). Tystysgrif marwolaeth, Swyddfa Cofrestru Cyffredinol, Lloegr a Chymru.

<sup>6</sup> Marion Griffith Williams (1921–2007). J. Beverly Smith, *Eames, Marion Griffith (Williams, Gwladys Marion Griffith) (1921-2007), nofelydd hanesyddol*, Y Bywgraffiadur Cymreig, (2012), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-EAME-MAR-1921>> [cyrchwyd 14 Medi 2019].

<sup>7</sup> Lorraine Davies (1914–2003). Teyrnged Angladd gan Wyn Thomas, rhoddedig gan ei weddw, Anne Thomas.

TWW a dod yn wyneb cyfarwydd y rhaglen brynhawn *Amser Te* (1958–1968).<sup>8</sup> Caiff talent Mai Jones, y cynhyrchydd adloniant ysgafn cyntaf gyda'r BBC yng Nghymru ei drafod, hi fu'n braenaru'r tir ar gyfer Sam Jones a'i (1936–39, 1947–67)<sup>9</sup> o Fangor a Meredydd Evans fel pennaeth yr Adran Adloniant yng Nghaerdydd yn hwyrach.<sup>10</sup>

Caiff y traethawd ei lunio o berspectif penodol gan i'r awdur weithio fel cynhyrchydd radio a theledu, o fewn y sector annibynnol ac o fewn y BBC ei hun. Rhydd hyn safbwynt penodol i'r gwaith ar y cysylltiad rhwng rhywedd cynhyrchydd a chynnwys, ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r penderfyniadau creadigol sy'n rhan gynhenid o gynhyrchu, ac ymhellach, ddealltwriaeth o hynny o fewn cyfundrefn unigryw y BBC. Caiff penderfyniadau cynhyrchu eu gwneud yn aml o dan bwysau darllediad byw, i gyfyngiad amser a chyllideb benodol sydd oll yn gosod terfynau a disgyblaeth ar greadigrwydd unigolyn.

Mae cyd-destun y cyfnod presennol yn un trawiadol o safbwynt thema ganolog yr ymchwil sy'n sail i'r traethawd, gyda thrafodaethau am Y Bwlch Rhywedd yn dominyddu'r disgwrs am amodau cyflogaeth dynion a menywod.<sup>11</sup> Yn Ebrill 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod yn rhaid i gwmnïau gyda 250 neu fwy o gyflogai gyhoeddi eu bwlch cyflog o fewn blwyddyn.<sup>12</sup> Ymhlith y rheiny a orfodwyd i ail-ystyried eu strwythurau cyflogaeth oedd y BBC ei hun, gyda darlledwyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd yn trafod eu hamodau gwaith yn y wasg.<sup>13</sup> Yn 2019, penderfynodd cyn-olygydd Tsieina y BBC, Carrie Gracie gofnodi ei phrofiad mewn cyfrol o dan y teitl arwyddocaol, *Equal: A Story of Women, Men and Money*.<sup>14</sup> Yn ogystal, yn sgil yr honiadau yn erbyn y cynhyrchydd ffilm Hollywood Harvey Weinstein, a ohebwyd yn gyntaf gan newyddiadurwyr *The New*

---

<sup>8</sup> Annie Myfanwy Howell (1903–1988). Cyfweiliad yr awdur gyda Betty Campbell, merch Myfanwy Howell, Awst 2017, a'i nodiadau personol am ei mam yn rhoddedig ganddi.

<sup>9</sup> *Noson Lawen*, gweler hanes y rhaglenni cynnar yn John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 120.

<sup>10</sup> Gladys Mai Jones (1899–1960). Huw Williams, Jones, *Gladys May, 'Mai' (1899-1960), pianydd, cyfansoddwr a chynhyrchydd rhaglenni ysgafn ar y radio*, Y Bywgraffiadur Cymreig, (1997), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-MAI-1899>> [cyrchwyd 14 Medi 2019].

<sup>11</sup> Y Bwlch Rhywedd: mesuriad cyfartaledd sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog menywod a dynion.

<sup>12</sup> Eleanor Lawrie, BBC, *Gender pay gaps must be declared by UK companies* (6 Ebrill 2017), <<https://www.bbc.co.uk/news/business-39502872>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>13</sup> Rhydd yr erthygl hon orolwg o'r stori dros gyfnod: BBC, *Timeline: How the BBC gender pay story has unfolded* (29 Mehefin 2018), <<https://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-42833551>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>14</sup> Carrie Gracie, *Equal: A Story of Women, Men and Money* (London: Virago Press, 2019).

*York Times*, Jodi Kantor a Megan Twohey ym mis Hydref 2017,<sup>15</sup> a'r ymgyrch ddilynol #MeToo ar rwydweithiau cymdeithasol,<sup>16</sup> daeth diddordeb cyhoeddus ag uniongyrchedd cynyddol i ystadegau ar gyflogaeth ym maes y diwydiannau creadigol. Er y newidiadau cymdeithasol a fu yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf ac ymgyrchu gan ffeministiaid, flwyddyn wedi gofyniad y Llywodraeth i gwmnïau ddatgelu eu bwlch cyflog er sicrhau tryloywder mewn cyflogaeth, roedd dynion yn parhau i dderbyn cyflogau uwch na menywod am yr un gwaith yn y Deyrnas Unedig.<sup>17</sup> Yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer Ebrill 2021 roedd y tâl canolog ar gyfer holl gyflogaeth yn 15.4% yn is ar gyfer menywod na dynion.<sup>18</sup>

Cyfnod o'r gorffennol serch hynny yw ffocws y traethawd, sef Y Chwedegau Hirion sy'n gosod cefnlen ddiddorol i yrfaedd yr arloeswyr o dan sylw. Dyma'r degawd pan oedd y menywod hynny a dderbyniodd addysg prifysgol am y tro cyntaf a gwaith cyflogedig yn dilyn hynny, yn dod i benllanw eu gyrfaedd. Caiff degawd y chwedegau ei dadogi â label y *Swinging Sixties* a'r cysyniad sydd ymhlyg yn hynny, sef y Gymdeithas Oddefol a welodd newidiadau cymdeithasol arwyddocaol ar draws Prydain. Mae'n gyfnod diddorol i ffocysu arno hefyd o safbwynt Cymru yn benodol wrth i'r to hŷn geisio cadw eu gafael mewn gwerthoedd traddodiadol ac i'r to iau ysu i lacio'r gafael hwnnw. Yn unol â'u cymheiriaid ifainc ar draws y byd gorllewinol daeth Cymry ifainc i herio'r drefn a daeth brwydr yr iaith yn ganolog i'w hymgyrchoedd, ynghyd â darlledu. Bydd y traethawd yn ystyried pa heriau a wynebwyd gan yr arloeswyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd, beth oedd natur eu cyflogaeth, a beth oedd eu rôl fel cynhyrchwyr. Mewn cyfnod a gaiff ei ystyried yn chwyldroadol o safbwynt cymdeithasol a gobraith o hawliau cynyddol i fenywod, bydd yr astudiaeth hon yn ystyried a oedd sefydliad fel y BBC yn ymateb yn fewnol i gyd-destun o'r fath, ac a adlewyrchid y newidiadau cymdeithasol oedd ar droed yn yr allbwn rhaglenni.

---

<sup>15</sup> Jodi Kantor a Megan Twohey, 'Harvey Weinstein Paid Off Sexual Harassment Accusers for Decades', *New York Times*, 5 Hydref 2017. <<https://www.nytimes.com/2017/10/05/us/harvey-weinstein-harassment-allegations.html>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>16</sup> Sefydlwyd y mudiad gwreiddiol *Me Too* gan Tarana Burke yn 2006 â'r nod o gynnig cymorth i ddioddefwyr trais rhywiol: <<https://metoomvmt.org>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]. Magodd y geiriau *Me Too* ystyr mwy arwyddocaol pan y'u defnyddiwyd ar gyfer hashnod #MeToo gan yr actores Alyssa Milano ar Twitter ar 15 Hydref 2017, yn dilyn y straeon am Harvey Weinstein. Alyssa Milano (@Alyssa\_Milano, 15 Hydref 2017), 'If you've been sexually harassed or assaulted write 'me too' as a reply to this tweet' neges drydar, <[https://twitter.com/alyssa\\_milano/status/919659438700670976?lang=en](https://twitter.com/alyssa_milano/status/919659438700670976?lang=en)> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>17</sup> Aleksandra Wisniewska, Billy Ehrenberg-Shannon, Cale Tilford a Caroline Nevitt, 'Gender Pay Gap: women still short-changed in the UK', *Financial Times*, 23 Ebrill 2019. <<https://ig.ft.com/gender-pay-gap-UK-2019/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>18</sup> House of Commons Library, 'The Gender Pay Gap' (20 Ebrill 2022), <<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn07068/>> [cyrchwyd 18 Awst 2022].



Mae'r ffaith na chadwyd ffeiliau staff nifer o'r gweithwyr benywaidd a gyflogwyd gan y Gorfforaeth ar draws Prydain yn rhoi awgrym i'r ymchwilydd cyfoes o'r modd yr ystyrid cyfraniad menywod o fewn y sefydliad a'r gwerth a roddwyd ar eu gwaith cynhyrchu.<sup>19</sup> O'u plith, dim ond ffeil Mai Jones a gadwyd gan y BBC. Cyfyd her felly wrth ymchwilio i'r maes hwn; proses o gasglu'r darnau ynghyd ydyw wrth geisio deall natur profiad a chyfraniad yr arloeswyr benywaidd.

Roedd strwythur cyflogaeth cynnar y BBC yn ymgorffori dwy haen o weithwyr, y rheiny a gyflogwyd yn fisol a'r rhai a gyflogwyd yn wythnosol. Dengys Murphy yn ei chyfrol ar hanes menywod cynnar y BBC nad oedd y rhaniad hwn o angenrheidrwydd yn dynodi dosbarth cymdeithasol.<sup>20</sup> Buasai staff cynhyrchu yn cael eu diffinio yn ôl y categori cyntaf a staff gweinyddol megis ysgrifenyddesau a gyflogwyd yn wythnosol yn ôl yr ail. 'The BBC's waged employees were more likely to be lower middle-class or aspiring working class but it could also be a stepping stone, especially for women graduates.'<sup>21</sup> Bu i nifer o'r menywod a ddringodd i safleoedd uchel o fewn y BBC gychwyn eu gyrfa islaw'r llinell fel ysgrifenyddesau, megis Nan Davies a ymunodd â'r Gorfforaeth ym 1935 ac a ddaeth, ar drothwy'r 1960au, yn olygydd cyntaf y gyfres gylchgrawn newyddion (1961–1981).<sup>22</sup> Yn ei gyfrol ar hanes y BBC yng Nghymru, cyfeiriodd John Davies ati hi ochr yn ochr â thair o'r menywod eraill fydd dan sylw yn y traethawd hwn, meddai: 'During the first sixty years of the BBC's operations in Wales, Teleri Bevan was the fourth woman (Nan Davies, Mai Jones and Lorraine Davies were the other three) to hold a fairly senior position – a dismal record indeed.'<sup>23</sup>

Syndod felly yw yr ystyrid y BBC yn ystod degawd cyntaf ei fodolaeth yn weithle arloesol o ran y cyfleoedd cyfartal a gynigid i staff, yn wahanol i nifer o sectorau cyflogaeth eraill megis y gwasanaeth sifil a'r proffesiwn dysgu oedd yn agored i fenywod.<sup>24</sup> Serch hynny daeth tro ar fyd yn 1932 pan gyflwynwyd y Gwaharddiad

---

<sup>19</sup> Kate Murphy, *Behind the Wireless: A History of Early Women at the BBC* (London: Palgrave Macmillan, 2016), t. 9.

<sup>20</sup> Murphy, t. 29.

<sup>21</sup> Murphy, tt. 29-30.

<sup>22</sup> Cychwynnodd y gyfres *Heddiw* ar 17 Ebrill 1961, gweler BBC Genome, *Heddiw* (17 Ebrill 1961), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/760eafc724ca4e6ca287a4d37425de24>> [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2018]. Daeth i ben ar 30 Gorffennaf 1982, gweler BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/736925e2c499cab8aea5f920da11d9f3>> [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2018].

<sup>23</sup> Davies, t. 346.

<sup>24</sup> Murphy, t. 6.

Priodas, oedd yn atal cyflogi menywod priod. Er i'r gwaharddiad gael ei godi yn 1944, ac yn ei sgil rhoi yr hawl i fenywod barhau yn eu swyddi, hyd yn oed os oeddent yn priodi aelod o staff y BBC, parheid i wahardd penodi menywod o'r fath i swyddi newydd. Gwyddys i hyn effeithio ar yrfa y cynhyrhydd Lorraine Davies ym 1954,<sup>25</sup> gan ei bod yn briod â Hywel Davies, Pennaeth Rhaglenni.<sup>26</sup> Bydd ymchwil cynradd yng nghofnodion mewnol y BBC yng Nghymru yn cynnig cyfle i ddeall y trafodaethau a arweiniodd at benderfyniadau ar weithredu polisi, a'r modd y gweithredwyd ar gyfarwyddiadau y BBC yn ganolog yn Llundain gan y tîm yng Nghymru. Mewn cyfnod a welodd dyndra gwleidyddol, gyda Chymru yn ymgyrchu am fwy o hunaniaeth darlledu, bydd yn fanteisiol cael mewnwelediad i natur y berthynas rhwng y canol Prydeinig a'r ymylon Cymraeg a Chymreig, ar yr awyr a thu ôl i'r llenni.

Ymchwil ansoddol fydd sail y traethawd, gan ddefnyddio methodolegau megis cyfweliad, a dadansoddi testunol ochr yn ochr ag archwiliad o ddogfennau mewnol y BBC a chyhoeddiadau newyddion y cyfnod. Bydd yr awdur yn gweithredu fel *bricoleur*,<sup>27</sup> yn pwytho tystiolaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn dod at gasgliad. Mae ymchwilwyr o'r fath yn hyblyg a chreadigol, ac yn medru manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth sydd ar gael boed hynny ar ffurf cyfweliadau, argraffiadau, dogfennau, gwefannau neu unrhyw ddeunyddiau arall.<sup>28</sup> Ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer gwaith o'r fath yw bywgraffiadau, ac, fel nodwyd gan David Hendy, mae modd iddynt gyfoethogi ein dealltwriaeth o dalentau, rhagfarnau, chwaeth a gwendidau y rheiny a gyflogwyd gan y BBC, ac, yn sgil hynny, ehangu amrediad yr ymchwil ar hanes darlledu.<sup>29</sup> O blith y menywod a enwyd ar gyfer y traethawd hwn, dim ond Teleri Bevan a aeth ati i ysgrifennu ei hunangofiant a hynny ar ffurf dwy gyfrol.<sup>30</sup> Dengys cipolwg ar hunangofiannau gan, a chofiannau i ddarlledwyr gwrywaidd i'w hawduron weld gwerth mewn cofnodi profiadau ac atgofion, yn eu plith y rheiny fu'n gwneud eu bywoliaeth ar yr awyr yn ogystal â'r unigolion a weithiodd yn

---

<sup>25</sup> Davies, t. 269.

<sup>26</sup> Hywel Davies, (1919–1965). Dr Owen Edwards, *Davies, Hywel (1919-1965), darlledwr*, Y Bywgraffiadur Cymreig, (1997), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-DAVI-HYW-1919>> [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2018].

<sup>27</sup> Norman K. Denzin a Yvonna S. Lincoln, *Handbook of qualitative research*, trydydd rhifyn (Thousand Oaks, CA; Llundain: Sage, 2005).

<sup>28</sup> Sarah J. Tracy, *Qualitative Research Methods* (Chichester: Wiley Blackwell, 2013), t. 26.

<sup>29</sup> David Hendy, 'Biography and the Emotions as a Missing "Narrative": Media History: A Case Study of Lance Sieveking and the Early BBC', *Media History*, 18: 3-4 (2016), 361-378.

<sup>30</sup> Teleri Bevan, *Years of my Time: Glimpses from a Cardiganshire Upbringing* (Llandysul: Gomer, 1997); Teleri Bevan, *Years on Air* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2004).

ddiwyd i sefydlu cyfundrefn ddarlledu yng Nghymru.<sup>31</sup> Er mai enwau'r darlledwyr gwrywaidd sydd amlycaf wrth gofnodi hanes eu bywyd a'u gyrfaedd, bydd yr astudiaeth hon yn ystyried eu hatgofion er mwyn darparu mewnwelediad i'r cyfundrefnau yr oeddent yn rhan ohonynt ac yn sgil hynny ddealltwriaeth o'r wleidyddiaeth rhywedd oedd yn weithredol yn y sefydliad.

Dynion sydd hefyd, ar y cyfan, wedi bwrw ati i gofnodi hanes darlledu ym Mhrydain<sup>32</sup>, sy'n arwain, boed yn fwriadol ai peidio, at safbwynt gwrywaidd.<sup>33</sup> Yn ei ail gyfrol ar hanes darlledu mae Briggs yn rhoi sylw byr i gyfraniad menywod, 'Women, indeed, were employed at many different levels of the BBC, far more than in comparable organisations. No history of the BBC would be complete without reference to the key part they played in the daily running of the organization.'<sup>34</sup> Aiff ymlaen i gyfeirio at unigolion, 'Miss Isa Benzie was a key figure in the development of overseas broadcasting. Mrs Esmond was a genuine pioneer of the early News Service, and Janet Adam Smith of *The Listener*, Florence Minns, Kathleen Lines, and Elise Sprott all moved over from secretarial work to posts of considerable responsibility.'<sup>35</sup> Ni cheir dadansoddiad o'u cyfraniad, ac er y gydnabyddiaeth i bwysigrwydd cofnodi eu cyfraniad allweddol, dim ond dwy dudalen o sylw a gânt yn y gyfrol hon gan Briggs. Un o'r academyddion benywaidd prin ym maes hanes darlledu Prydeinig yw Jean Seaton ac yn ei chyfrol mae hi'n rhoi sylw dyladwy i gyfraniad penodol menywod i ddarlledu, gan ystyried cofnodion unigolion fel modd o ddod ag ymchwil archif yn fyw, ac yn allwedd i ddeall cymhellion nifer o'r rheiny a gyflogwyd dros y degawdau gan y BBC, nifer ohonynt yn ei thyb hi yn 'brilliant, witty, clever and articulate people.'<sup>36</sup> Dim ond un o'r menywod a enwyd a drosglwyddodd ei phapurau i archif genedlaethol sef Marion Griffith Williams. O

---

<sup>31</sup> Detholiad o gyfrolau: R.Alun Evans, *Stand-by! Bywyd a Gwaith Sam Jones* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998); Hywel Gwynfryn, *Y dyn i hun*, (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2004); Alun Williams a Manon Rhys, *Alun Williams* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1982); Alun Llywelyn Williams, *Gwamwyn yn y Ddinas: Darn o Hunangofiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1975).

<sup>32</sup> Detholiad o gyfrolau: Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom*, (Vol 1-V), (Rhydychen: Oxford University Press, 1961, 1965, 1970, 1979, 1995); Aneurin Talfan Davies, *Darlledu a'r Genedl* (Llundain: BBC, 1972); John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994); *Wales in vision: the people and politics of television*, gol. gan Patrick Hannan (Llandysul: Gomer/BBC Cymru Wales, 1990); *Wales on the wireless: a broadcasting anthology*, gol. gan Patrick Hannan (Llandysul: Gomer/BBC Cymru Wales, 1988); Dyfnallt Morgan, *Babi Sam yn dathlu hanner canrif o ddarlledu o Fangor, 1935—1985, atgofion a gobethion penblwydd* (Caernarfon: Gwasanaeth Archifau Gwynedd, Bangor: BBC, 1985); Rowland Lucas, *The voice of a nation?: a concise account of the BBC in Wales 1923-1973* (Llandysul: Gomer, 1981).

<sup>33</sup> Jeff Hearn, *Men in the Public Eye*, ail rifyn, (Llundain: Routledge, 1992); *Manful Assertions: Masculinities in Britain since 1800*, gol. gan Michael Roper a John Tosh (Llundain: Routledge, 1991).

<sup>34</sup> Asa Briggs, *The Golden Age of Broadcasting: The History of Broadcasting in the UK*, Vol. 2 (Rhydychen: Oxford University Press, 1965), t. 457.

<sup>35</sup> Briggs, *The Golden Age of Broadcasting: The History of Broadcasting in the UK*, Vol. 2, tt. 457-58.

<sup>36</sup> Briggs, *The Golden Age of Broadcasting: The History of Broadcasting in the UK*, Vol. 2, tt.156-57.

archwilio'r casgliad, efallai mai ei gyrfa hwyrach fel nofelydd hanesyddol o dan ei henw teuluol, Marion Eames, oedd yn dilysu'r penderfyniad hwnnw, yn hytrach na'i gyrfa fel cynhyrchydd radio.<sup>37</sup>

O brofiad, gŵyr awdur y traethawd hwn bod cynhyrchwyr yn meddu ar elfen o reolaeth ar gynnwys eu cynyrchiadau, o'r herwydd mae modd dadansoddi syniadau y cynhyrchwyr benywaidd, eu dewis o bynciau, yn ogystal â'u dewis o unigolion i'w cyflogi naill ai i gyflwyno, gohebu, sgriptio, neu berfformio ar raglenni. Mae modd cynnal ymchwil cynradd i'r agwedd hon trwy ddarllen agos o ddogfennau cynhyrchu mewnol megis sgriptiau rhaglenni. Dyry y fath ddogfennau fewnwelediad i'r gwaith creadigol a threfniadol sy'n arwain at gynhyrchiad, yn ogystal â chip ar y modd yr oedd y cynhyrchwyr hyn yn meddwl am eu cynnyrch. Credaf fod sylw Hendy yn berthnasol yn y cyd-destun hwn '... one of the central problems in broadcasting history is creativity – how good broadcasting gets made'<sup>38</sup> Nod y traethawd yw codi'r clawr ar y creadigrwydd arweiniodd at raglenni a gynhyrchwyd yng Nghymru. Rhydd deunydd a gyhoeddwyd gan y BBC ei hun fewnwelediad i weledigaeth cynhyrchydd hefyd, gan ddatgelu y cyd-destun mae cynhyrchydd am i'r gynulleidfa ei mabwysiadu cyn gwyllo neu wrando ar raglen. Bydd darllen agos o ddogfennau megis *The Radio Times* (argraffiad Cymru) a'r wasg gyfredol ar y pryd a gyhoeddai erthyglau nodwedd a gwybodaeth am raglenni (*billings*) yn medru darparu'r wybodaeth hon. Fel y noda Seaton, dylid ystyried rhaglenni fel mynyddoedd ia, 'What you see is a fraction of the work that goes into making them, and sometimes that thought is more important than the programmes themselves.'<sup>39</sup>

Yn y traddodiad o gynhyrchu rhaglenni, gwyddys mai tueddu i glystyru o fewn y genres cylchgrawn, drama ac adloniant ysgafn, rhaglenni menywod a'r ddarpariaeth rhaglenni plant a wnai staff benywaidd, gyda'r genres newyddion a ffeithiol yn cael eu hystyried yn dalcen caled i weithwyr benywaidd. Neilltuodd mwyafrif y menywod o dan sylw eu gyrfaedd i'r genres a'r ddarpariaeth draddodiadol i fenywod, gyda dim ond Nan Davies, Teleri Bevan a Marion Griffith Williams yn

---

<sup>37</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, GB 0210 MEAMES, M4/2, Erthyglau, Anerchiadau a Darlithiau, (1970–2007).

<sup>38</sup> Hendy, 'Biography and the Emotions as a Missing "Narrative" in Media History: A Case Study of Lance Sieveking and the Early BBC', t. 363.

<sup>39</sup> Jean Seaton, 'Writing the History of Broadcasting' yn *History and the Media*, gol. gan David Cannadine (Llundain: Macmillan, 2004), tt.141-159 (tt. 156-57).

mentro at y genres a'r darpariaethau ffeithiol. Mae i'r duedd hon berthnasedd gydag ymchwil cynulleidfa a wnaed yn y 1970au gan Hobson, sy'n casglu mai'r genres sydd y tu hwnt i'r sffêr cyhoeddus sy'n apelio at gynulleidfaoedd benywaidd megis drama ac opera sebon, ac mai genres megis newyddion sy'n apelio at gynulleidfaoedd gwrywaidd.<sup>40</sup> Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heriwyd y canfyddiad hwn gan ymchwil sy'n nodi mai diffyg amser yn hytrach na diffyg diddordeb sy'n gyfrifol am natur ymwneud menywod â'r genre newyddion.<sup>41</sup>

Roedd genres ffeithiol a chylchgrawn yn cynnig cyfleoedd i staff greu cynnwys yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid yn unig i'w darlledu yng Nghymru, ond y tu hwnt yn ogystal. Mae'r ymdriniaeth o bynciau ar gyfresi a anelwyd at fenywod er enghraifft yn codi cwestiynau diddorol am arlwy ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru a'r gynulleidfa Brydeinig. Mae'n codi cwestiynau diddorol hefyd ynglŷn ag arferion cynhyrchu yr arloeswyr: wrth iddynt symud o'r naill wasanaeth radio i'r llall, ac o'r naill gynulleidfa i'r llall, bydd yn ddiddorol ystyried cysondeb eu safonau cynhyrchu yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae gyrfaoedd yr arloeswyr a nodwyd yn pontio cyfnod diddorol o drawsnewid pan oedd teledu yn parhau yn ei fabandod yng Nghymru a gofid am ddifodiant y cyfrwng radio. Rhydd y dadansoddiad o raglenni teledu a radio gyfle i ganolbwyntio ar nodweddion penodol y ddau gyfrwng, ac i archwilio sut yr oedd yr arloeswyr yn ymdopi gyda chyfrwng newydd a ddbynnai ar y ddelwedd yn hytrach na'r gair i adrodd ei stori.

Yn Archif y BBC yng Nghaerdydd, ac Archif Sgrîn a Sain y Llyfrgell Gendlaethol mae modd cael mynediad at rai cynrychiadau o'r cyfnod o dan sylw. Dylid cofio bod nifer o raglenni ar y pryd yn cael eu darlledu yn fyw, er hyn mae nifer y rhaglenni sydd wedi eu cadw yn cynyddu wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt. Rhydd y rhaglenni sydd ar gof a chadw gyfle i gynnal ymchwil testunol i gynnwys cynrychiadau, sy'n fodd o archwilio creadigrwydd y cynhyrchwyr benywaidd, sut aethant ati i addasu eu sgiliau clywedol i ofynion cyfrwng gweledol, a pha heriau yr oedd yn rhaid iddynt eu goresgyn. Mae gofynion cynhyrchiad teledu yn dipyn gwahanol i gynhyrchiad radio, nid yn unig o safbwynt yr angen i adrodd stori trwy

---

<sup>40</sup> D. Hobson, 'Housewives and the mass media', yn *Culture, Media, Language: Working Papers in Cultural Studies, 1972-79*, gol. gan Stuart Hall, Dorothy Hobson, Andrew Lowe a Paul Willis (Llundain: Hutchinson, 1980), tt. 105-114.

<sup>41</sup> David Gauntlett ac Annette Hill, *TV Living Television, Culture and Everyday Life* (Llundain ac Efrog Newydd: BFI, 1999). Gweler yn benodol Pennod 3: 'New Consumptions and Everyday Life' a phennod 8: 'Gender and Television'.

gyfrwng llun, ond hefyd o safbwynt yr angen i gydweithio gydag amrediad o bersonél technegol a chreffft. Gŵyr awdur y traethawd hwn y gall creu cynnyrch ar gyfer y cyfrwng radio fod yn waith ynysig dros ben, ond rhydd ryddid i wireddu gweledigaeth greadigol. Yn anorfod mae natur gydweithredol y cyfrwng teledu, sy'n cynnig awyrgylch gwaith cymdeithasol, yn gofyn am gyfaddawdu a'r potensial o lastwreiddio gweledigaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf collwyd nifer o'r unigolion a fu'n gweithio fel cyw ddarlledwyr yn ystod y cyfnod o dan sylw, pobl megis Owen Edwards,<sup>42</sup> Mari Griffith,<sup>43</sup> Geraint Stanley Jones,<sup>44</sup> a Gareth Price.<sup>45</sup> Er hyn, mae modd cyfweld rhai unigolion a fu'n rhan o ddatblygiad darlledu yng Nghymru yn ystod Y Chwedegau Hirion, sy'n debygol o gofio'r arloeswyr benywaidd, y rheiny a gyflogwyd fel cyflwynwyr, sgriptwyr, perfformwyr a staff cynhyrchu. Bu i rai gychwyn ar eu gyrfaedd cyflwyno yn ystod y cyfnod, megis Beti George o fewn y genre newyddion, a Hywel Gwynfryn a ymddangosai ar raglenni newyddion ac adloniant ysgafn. Mae'r ddau yma yn enghreifftiau o'r unigolion cyntaf i lwyddo i wneud bywoliaeth fel cyflwynwyr proffesiynol yng Nghymru, ac maent yn parhau ar y tonfeddi hyd heddiw (2022). Enwau eraill a ddaw i'r meddwl yw William Aaron a gafodd ei gyfle cyntaf o fewn y maes ffeithiol gan Nan Davies ar *Heddiw*; ac Olive Michael, ysgrifenyddes ar y gwasanaeth newyddion Cymraeg o Lundain adeg y Blitz. Datblygodd Michael yn actores ar ddramâu fel *S.O.S. Galw Gari Tryfan*,<sup>46</sup> gyda'r cynhyrchydd Lorraine Davies, ac ar yr opera sebon gyntaf ddyddiol yn y Gymraeg *Teulu'r Siop* (1954–1957).<sup>47</sup>

O ystyried y cyfweliad fel dull methodolegol ansoddol, dylid nodi bod tri math o gyfweliad yn bosib, sef y cyfweliad wedi ei strwythuro, y cyfweliad wedi ei

---

<sup>42</sup> Owen Edwards (1933–2010). S4C, *Teyrnged i Owen Edwards* (31 Awst 2010), <<https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/27441/teyrnged-i-owen-edwards/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>43</sup> Mari Griffith (1940–2019). BBC Cymru Fyw, *Y cyflwynydd a'r nosfelydd, Mari Griffith wedi marw*, (14 Medi 2019) <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/48093521>> [cyrchwyd 13 Rhagfyr 2019].

<sup>44</sup> Geraint Stanley Jones (1936–2015). S4C, *Teyrnged S4C i gyn Prif Weithredwr, Geraint Stanley Jones*, (26 Awst 2015) <<https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/28177/teyrnged-s4c-i-gyn-prif-weithredwr-geraint-stanley-jones/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>45</sup> Gareth Price (1940–2018). Huw Thomas, BBC Cymru Fyw, *Cyn-reolwr BBC Cymru, Gareth Price wedi marw yn 78 oed*, (8 Awst 2018) <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/45106734>> [cyrchwyd 6 Medi 2019].

<sup>46</sup> Mae'n anodd penodi pa bryd yn union y cychwynnodd y gyfres gan ei bod yn rhan o arlwy *Awr y Plant*. Ceir cyfeiriad gan John Davies at ddarllediad yn 1949, a cheir cyfeiriad pellach at ddarlledu ar gychwyn y 1950au. Gweler Davies, t. 193 a t. 271. Caiff y rhaglen mwyaf diweddar ar wefan BBC Genome ei nodi ar 12 Tachwedd 1963. BBC Genome, *Awr y Plant: S.O.S. Galw Gari Tryfan*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=galw+gari+tryfan>> [cyrchwyd 7 Medi 2019].

<sup>47</sup> *Teulu'r Siop* (1953–57). BBC Genome, *Teulu'r Siop: Welsh Serial*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=teulu%27r+siop#top>> [cyrchwyd 7 Medi 2019].

strwythuro yn rhannol a'r cyfweliad heb ei strwythuro.<sup>48</sup> Cyfweliadau heb eu strwythuro yw'r rhai lleiaf dibynadwy o safbwynt ymchwil, oherwydd y potensial am lefel uchel o duedd a'r her wrth geisio cymharu ymatebion. Ar y llaw arall mae cyfweliadau o'r fath â'r potensial i fod yn hwy ac yn fwy cynhwysfawr, ac felly yn fwy cyfoethog a diddorol nag atebion ysgrifenedig dyweder.<sup>49</sup> Ar gyfer y traethawd hwn bydd yn amhosib creu cyfweliadau wedi eu strwythuro yn union yr un fath ar gyfer pob unigolyn gan fod ystod eu profiad mor eang ac amrywiol, felly ar gyfer y traethawd hwn caiff yr ymchwil ei gasglu trwy gynnal cyfweliadau sgysiol anffurfiol.<sup>50</sup>

Caiff y traethawd ei ysgrifennu o berspectif astudiaethau'r cyfryngau ffeminyddol, ac, fel dengys yr adolygiad llenyddol, mae hwn yn faes ysgolheictod ifanc. Gwaith ar y genre opera sebon ac ar gynulleidfaoedd a sefydlodd y maes yn y prif ffrwd academiaidd yn ystod y 1980au, ac ers hynny mae academyddion wedi troi eu sylw at amrediad o genres. Bydd ffocws yr adolygiad llenyddol ar ymchwil ffeminyddol i'r genres ffeithiol (gan gynnwys rhaglenni wedi eu hanelu at fenywod), newyddion, drama ac adloniant ysgafn, yn ogystal â'r ddarpariaeth rhaglenni i blant.

Bydd pennod gyntaf y traethawd yn rhoi sylw i gefndir hanesyddol yr arloeswyr benywaidd a'u gyrfa o fewn y BBC, a fydd yn ei dro yn fodd o olrhain datblygiad darlledu yng Nghymru. Dyma'r adeg welodd gychwyn cystadleuaeth o du teledu masnachol, sefydlu BBC Cymru Wales ac ymgyrchoedd aelodau Cymdeithas yr Iaith a'u sylw ar ddarlledu. Try ail ran y bennod at gyfnod a gaiff ei gysylltu gydag egni ieuencid sef Y Chwedegau Hirion (c.1958–1974) gan archwilio'r modd mae'r label o Gymdeithas Oddefol wedi ei osod ar y cyfnod. Caiff gorolwg hanesyddol o'r cyfnod ei ddarparu, gan ddarlunio y math o le oedd Cymru yn gymdeithasol yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg hynny, gyda chynnydd graddol mewn hawliau i fenywod ar y gorwel yn ystod y saithdegau. Edrychir ar rôl menywod mewn cymdeithas a'r cyfleoedd a gododd yn sgil diwydiannau newydd y ffatri a'r swyddfa, a'r cyfleoedd i ferched ifainc yn y diwydiant darlledu.

---

<sup>48</sup> Alan Bryman, Tom Clark, Liam Foster a Luke Sloan, *Bryman's Social Research Methods*, chweched rhifyn (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2021).

<sup>49</sup> Ina Bertrand a Peter Hughes, *Media Research Methods: Audiences, Institutions, Texts*, ail rifyn (Llundain: Palgrave, 2018).

<sup>50</sup> Michael Quinn Patton, *Qualitative Evaluation and Research Methods*, ail rifyn (Newbury Park, CA: Sage, 1990).

Er mwyn trafod canfyddiadau'r ymchwil penderfynwyd mabwysiadu genre fel sail i'r strwythur. Mewn astudiaethau cynhyrchu ac mewn ymchwil ffeminyddol caiff genre ei ddefnyddio fel dull cyffredin o drefnu ymchwil. Amlygwyd mewn gwaith ymchwil astudiaethau'r cyfryngau bod ymchwilwyr academiaidd yn dewis trefnu eu canfyddiadau trwy ganolbwyntio ar genres penodol. Fel y nodwyd eisoes, y genre opera sebon oedd un o'r meysydd cyntaf i'w ymchwilio o safbwynt ffeminyddol, cyn i academyddion droi at y genres eraill yn eu tro. Dengys ymchwil ar astudiaethau cynhyrchu sy'n canolbwyntio ar gyfnod y 1950au a'r 1960au bod genre hefyd yn thema allweddol o fewn y diwydiant ei hun, yn ystod cyfnod o ehangu yn nifer o oriau darlledu gan y BBC, a'r cynnydd yn y nifer o staff ar draws Prydain. Arweiniodd hyn, yn anorfod, at ddull o drefnu rhaglenni a phersonél a hwylusai y gwaith dydd i ddydd a'r gweithdrefnau ariannu. Daeth diwedd ar y swyddi hynny a nodweddi gyfnod cynnar darlledu hyd at y pumdegau lle yr oedd unigolion yn gweithio ar draws gwahanol genres, i gyfnod lle roedd angen iddynt arbenigo ar genre penodol, a dyna sy'n nodweddu gyrfaedd y menywod o dan sylw. Rhennir y canfyddiadau felly yn ddwy ran, y naill yn cwmpasu cynnwys nad yw'n ffeithiol, sef adloniant ysgafn a rhaglenni plant; a'r llall yn ffocysu ar gynnwys ffeithiol, sef newyddion cylchgrawn, rhaglenni dogfen a rhaglenni ar gyfer menywod.

Yn ystod ei ddyddiau cynnar bu i'r cyfrwng radio droi at genres parod megis cynnyrch y *music hall* a'r theatr er mwyn darparu deunydd i wrandawyr, ac fe oroesodd llawer o'r cynnyrch hwnnw ar ffurf adloniant ysgafn pan y'i mabwysiadwyd gan y cyfrwng teledu hefyd. Ffigwr allweddol yn y datblygiad hwnnw yng Nghymru oedd Mai Jones, y cyfrwng sain fu ei phrif lwyfan, ac mae ei chyfraniad yn perthyn i gyfnod ddaeth i ben ar drothwy'r Chwedegau Hirion, er llwyddodd lleisiau adnabyddus ei chyfresi, fel Harry Secombe ar *Welsh Rarebit* (1938–1957) ddatblygu yn wynebau cyfarwydd ar deledu. I'r cyfrwng teledu y perthyn gwaddol Ruth Price, a bydd Pennod 2 yn rhoi sylw i'w chyfraniad fel cynhyrchydd y gyfres *Hob y Deri Dando* (1964–68) fu'n braenaru'r tir i'w chyfres eiconig *Disc a Dawn* (1967–1973) a ddarlledwyd ym merw cyfnod o ymgyrchu cenedlaetholgar. Byr fu ei hadnabyddiaeth o'r cyfrwng radio, a bydd yn ddiddorol i ystyried sut y meistrolwyd cyfrwng gweledol ganddi a hithau heb ei llethu gan ddegawdau o bŵer y gair.



Rhaglenni plant fydd ffocws Pennod 3, ac, yn benodol, gyfraniad Evelyn Williams. Er iddi hyfforddi fel athrawes, actores oedd hi wrth ei chreffft, a hi oedd yr Elen gyntaf wrth ochr y ditectif Alec yn *S.O.S. Galw Gari Tryfan* a gynhyrchwyd yng Nghaerdydd. Bu iddi dreulio nifer o flynyddoedd yng nghanolfan y BBC ym Mangor, cyn dychwelyd i Gaerdydd i arwain y gwasanaeth teledu Cymraeg i blant. Trosglwyddwyd nifer o'i syniadau o'r cyfrwng radio i'r cyfrwng teledu, a bydd dadansoddiad o rai o'r cynyrchiadau hynny yn fodd i ddeall sut yr ymatebodd Williams i'r pwysau a deimlai rheolwyr y BBC yng Nghymru i sicrhau deunydd yn y Gymraeg ar gyfer plant.

Ar gychwyn y chwedegau, a sefydlu BBC Cymru Wales ar y gorwel, teimlwyd cyfrifoldeb hefyd o fedru profi dilysrwydd gwasanaeth newyddion dyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Trodd Hywel Davies, y pennaeth rhaglenni ar y pryd, at Nan Davies i wireddu'r weledigaeth honno gyda'r gyfres *Heddiw*, fu'n feithrinfa i nifer o unigolion aeth ymlaen i chwarae rhan allweddol mewn darlledu, megis William Aaron, Owen Edwards, Beti George, Geraint Stanley Jones ac Arwel Ellis Owen. Bydd Pennod 4 yn rhoi sylw i'r gyfres a ddisgrifiwyd fel 'topical magazine',<sup>51</sup> er mwyn deall yr arlwy gyson a fu'n cynnig gwybodaeth ac adloniant i gynulleidfaedd Cymru am ugain mlynedd, ochr yn ochr gyda darpariaeth galetach *Y Dydd* ar deledu masnachol.

Thema gyson yng ngwaith Nan Davies oedd y tirlun gwledig a'i bobl a bydd Pennod 5 yn ffocysu ar ddeunydd ffeithiol a gynhyrchwyd ganddi. Wedi iddi sefydlu'r gyfres *Heddiw* cafodd ysbaid o'i gofynion i deithio i dde America i gynrychioli Patagonia mewn llun, a sain er mwyn cofnodi canmlwyddiant yr ymfudo cyntaf yn 1865. Cynhyrnodd gyfoeth o ddeunydd sy'n darlunio'r tirlun ac mae'r cyfweliadau gyda'r brodorion yn fodd o roi llais i hunaniaeth Gwladfawyr o wahanol genedlaethau. Cafodd Davies ei meithrin yn y cyfrwng radio, a bydd yn ddiddorol i ystyried sut y llwyddodd i adrodd stori'r Gwladfawyr trwy gyfrwng delwedd yn bennaf yn hytrach na dibynnu ar y gair, ac i bwysu a mesur a lwyddodd i ddianc o hualau'r cyfrwng radio. Bu rhyddid o gyfrifoldebau golygyddol *Heddiw* ym mlynnyddoedd olaf ei gyrfa

---

<sup>51</sup> Fel hyn y disgrifiwyd *Heddiw* yn *The Radio Times*, BBC Genome, *Heddiw*, 5 Medi 1961. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/01dfdf108507404ca5019e074cc16849>> [cyrchwyd 20 Rhagfyr 2019].

yn gyfle i greu cynnwys o'r un anian â hynny yn nes at gartref, ac aeth ati i ddehongli cymunedau gwledig Cymru a'r heriau a wynebant.

Er i Davies ymwneud â darpariaeth ar gyfer menywod ar y radio yn ystod blynyddoedd cynnar ei gyrfa, daeth y cyfrifoldeb o sicrhau darpariaeth gyson o'r fath i ran eraill, sef Marion Griffith Williams a Teleri Bevan. Bydd Pennod 6 yn olrhain ymdrechion y ddwy ddarlledwraig brofiadol o gefndiroedd cwbl wahanol, wrth iddynt osod sail cadarn ar gyfer cyfres wythnosol, *Merched yn Bennaf* a lansiwyd yn 1965.<sup>52</sup> Yr oeddent eisoes yn gyfarwydd â gweithio ar arlwy *Woman's Hour* (1946–), ac aethant ati i fabwysiadu arferion cynhyrchu y gyfres rwydwaith ar gyfer Cymru gyda dogn go dda o Gymreictod a rhyddid o ran dewis o bynciau. Cyn diwedd Y Chwedegau Hirion bu i Williams gael blas ar waith ysgrifennu a phenderfynodd neilltuo ei gyrfa yn llwyr i ysgrifennu nofelau hanesyddol. Cysegrodd Bevan ei bywyd i ddarlledu gan gamu'n raddol o fyd cynhyrchu i rengoedd rheoli o fewn BBC Cymru a'i phenodi yn olygydd cyntaf BBC Radio Wales, ac yn ddiweddarach fel Rheolwr Cymru dros-dro, y fenyw gyntaf i lwyddo i wneud hynny cyn i Gareth Price gymryd yr awenau.<sup>53</sup>

Rhydd y penodau a nodwyd gyfle, trwy amrywiaeth o fethodolegau ansoddol, i ystyried sut y llwyddodd menywod mewn safleoedd cynhyrchu i siapio darlledu cyhoeddus yng Nghymru a hynny o fewn amrediad eang o genres. Roedd eu gyrfaedd yn cwmpasu adeg gyffrous yn natblygiad darlledu, twf y cyfrwng teledu ac ail-eni y cyfrwng radio a hynny mewn gwlad oedd yn profi newidiadau cymdeithasol dwfn a deffroad y mudiad cenedlaethol ymhlith pobl ifainc. Bydd yn ddiddorol ystyried beth aeth â'u bryd fel cynhyrchwyr, ac os oedd eu dewisiadau creadigol wedi arwain at ymyrraeth ffeminyddol ar yr awyr ac ar y sgrîn, ac at newid yng ngwleidyddiaeth rhywedd y BBC yng Nghymru.

---

<sup>52</sup> Er bod rhifyn cyntaf *Merched yn Bennaf* yn ddigon hawdd i'w gadarnhau fel 7 Ionawr 1965, nid yw mor rhwydd pennu pa bryd ddaeth y gyfres i ben. Nodir 6 Rhagfyr 1983 fel dyddiad y darllediad mwyaf diweddar ar wefan BBC Genome. Cyn hynny nodir 1967 fel blwyddyn ddiweddaraf darlledu'r rhaglen er y gwyddys iddi barhau yn y blynyddoedd rhwng 1967 ac 1983. BBC Genome, *Merched yn Bennaf*

<<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=%22merched+yn+bennaf%22#top>>, [cyrchwyd 6 Mai 2023].

<sup>53</sup> Darlledwyd BBC Radio Wales am y tro cyntaf ar 13 Tachwedd 1978. Gweler, Davies, tt. 346–47. Rhwng 2000 a 2011 bu'r fenyw gyntaf sef Menna Richards yn Rheolwr Cymru y BBC. Gweler, BBC Wales News, *BBC Wales head Menna Richards to leave in 2011* (10 Tachwedd 2010), <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11725961>> [cyrchwyd 2 Gorffennaf 2018].



## Adolygiad Llenyddol

Bydd yr adolygiad llenyddol hwn yn bwrw golwg ar ymchwil academiaidd a wnaed ym maes y cyfryngau, o safbwynt ffeminyddol, gyda ffocws penodol ar y cyfnod o dan sylw, sef Y Chwedegau Hirion. Rhydd y traethawd yn y pen-draw ogwydd ychwanegol ac amgen i ymchwil ar hanes darlledu cyhoeddus yng Nghymru, sydd wedi ei olrhain gan yr academydd Dr John Davies a chan nifer a fu'n gweithio i'r Gorfforaeth yng Nghymru, naill ai ar yr awyr neu y tu ôl i'r llenni. Caiff eu cyhoeddiadau eu cydnabod a'u trafod yn nwy bennod gyntaf y traethawd, sy'n darparu gorolwg hanesyddol o gyfnod Y Chwedegau Hirion ac o ddatblygiad darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Yn yr adolygiad llenyddol hwn, rhoddir sylw yn gyntaf i ddatblygiad ysgolheictod ffeminyddol o fewn astudiaethau'r cyfryngau gyda thwf ffeminyddiaeth, cyn troi at y cysyniad o'r sffêr cyhoeddus a'r sffêr preifat a'u cysylltiad gyda'r gwrywaidd a'r benywaidd. Bydd hynny'n arwain at drafodaeth ar ymdrech y cyfryngau darlledu i greu cymdeithas hegemonaid yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd a diddymiad symbolaidd menywod o gynnyrch cyfryngol. Caiff y cysyniad o ddiddymiad o fewn y gwahanol genres canlynol eu trafod sef: adloniant ysgafn, drama, rhaglenni plant a newyddion a rhaglenni ffeithiol, yn ystod Y Chwedegau Hirion. O ystyried profiad awdur y traethawd fel cynhyrchydd teledu a radio, bydd sylw yn cael ei roi hefyd i astudiaethau cynhyrchu sy'n dadansoddi'r berthynas rhwng rhywedd y cynhyrchydd a chynnyrch a'r cysylltiad gyda chyflogaeth menywod o fewn y diwydiant darlledu.

Fel maes astudiaeth, esblygodd theori cyfryngau ffeminyddol ochr yn ochr â thwf yr Ail Don Ffeminyddol ac mae beirniadaeth o'r cyfryngau wedi bod yn ganolog i'r Mudiad Rhyddid Menywod.<sup>1</sup> Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod maes astudiaeth sy'n canolbwyntio ar y cyfryngau wedi esblygu yn y modd hwn, ac mae darllediad y brotest enwog o losgi'r bra ym Mhasiant Miss America 1968 yn cael ei nodi fel digwyddiad o bwys yn y berthynas heriol rhwng y cyfryngau a ffeministiaeth.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Helen Baehr a Ann Gray, *Turning it on: A reader in Women and Media* (Llundain: Arnold, 1996), t. xi.

<sup>2</sup> *ibid.*, t. xi.

Mae yna garreg filltir bwysig arall i'w nodi wrth archwilio gwreiddiau ymwybyddiaeth ffeminyddol yr Ail Don, sef cyhoeddi y gyfrol *The Feminine Mystique* gan Betty Friedan.<sup>3</sup> Caiff thema'r gyfrol ei grynhoi yn nheitl y bennod gyntaf sef, *The Problem that Has No Name*, sy'n crisialu yr hyn a welai Friedan oedd yn effeithio ar fywydau a phrofiadau menywod yn yr Unol Daleithiau. A hithau'n wraig, ac yn fam i dri o blant ifainc oedd yn profi'r her o fagu teulu a gweithio y tu allan i'r cartref, cychwynnodd yn 1957, ar gyfnod o astudiaeth pum mlynedd i geisio deall hanfod 'y broblem'. Daeth i'r casgliad bod gagendor yn bodoli rhwng bywyd ymddangosiadol gyffyrddus nifer o fenywod a realiti eu bywydau pob dydd, a bod gan y cyfryngau torfol rôl allweddol mewn cynnal a hyrwyddo delwedd o'r fenyw berffaith, nad oedd yn taro deuddeg gyda'r mwyafrif helaeth o fenywod oedd yn chwilio am rywbeth amgenach, heb sylweddoli beth yn union oedd natur y rhywbeth amgenach hwnnw.<sup>4</sup>

Roedd y greadigaeth o'r fenyw berffaith gan y cyfryngau torfol yn ganlyniad i'r ymdrech i ddychwelyd menywod o'r sffêr cyhoeddus, a brofwyd gan nifer ohonynt yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, i'r sffêr preifat.<sup>5</sup> Mae'r cysyniad o'r sfferau wedi nodweddu llenyddiaeth y mwyafrif o ddiwylliannau Gorllewinol, ym Mhrydain yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed cai ei gymhwyso ar gyfer cymhariaethau rhywiaethol,<sup>6</sup> ac mae wedi profi i fod yn fframwaith cyfleus er mwyn dadansoddi trefn gymdeithasol a phrofiadau menywod yn dilyn y Chwyldro Diwydiannol.<sup>7</sup> Yn ystod y cyfnod hwnnw denwyd dynion o'r cartref gan waith yn y byd cyhoeddus a ddaeth i gynrychioli pŵer a dylanwad, mewn gwrthgyferbyniad daeth byd preifat y cartref i'w gysylltu gyda gwerthoedd moesol a chefnogaeth, ac yn fangre i'r fenyw.<sup>8</sup> Daeth y gwahaniaethu yma i gynrychioli rhaniad ar sail rhywedd, gan honni bod dynion yn dominyddu'r sffêr cyhoeddus a menywod y sffêr preifat. Fel nodwyd gan Vickery, mae gwaith Rosenberg a Cott yn amlygu'r theori bod y sffêr preifat yn meithrin ymdeimlad o rannu profiad ar sail rhywedd, ymdeimlad a

---

<sup>3</sup> Betty Friedan, *The Feminine Mystique* (Llundain: Penguin, 1965).

<sup>4</sup> Mae'n werth cyfeirio hefyd at ddau destun arwyddocaol pellach a ysgrifennwyd o safbwynt ffeminyddol ac a gyhoeddwyd ym Mhrydain ar gychwyn y saithdegau sef Germaine Greer, *The Female Eunuch* (Llundain: McGibbon & Kee, 1970) ac Elaine Morgan, *The Descent of Woman: The Classic Study of Evolution* (Llundain, Souvenir Press, 1972).

<sup>5</sup> Gweler gwaith Judith Williamson: *Consuming Passions: the dynamics of popular culture* (Llundain: Boyars, 1986), t. 106; Margaret Stacey a Marion Price, *Women, Power and Politics* (Llundain; Efrog Newydd: Tavistock, 1981), t. 27.

<sup>6</sup> Jane Rendall, 'Women and the Public Sphere', *Gender and Society*, 11.3 (1999), tt. 475-468.

<sup>7</sup> Amanda Vickery, 'Golden Age to Separate Spheres? A Review of the Categories and Chronology of English Women's History', *Historical Journal*, 36, 2 (1993), tt. 383-414.

<sup>8</sup> Gweler gwaith ar y sffêr cyhoeddus: Jurgen Habermas, *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society* (Cambridge: Massachusetts: The MIT Press, 1991).

gafodd ei fynegi gan ffeministiaeth Oes Fictoria ac a fabwysiadwyd gan Y Mudiad Rhyddid Menywod yn y saithdegau.<sup>9</sup> Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ymchwilwyr sy'n ymddiddori mewn hanes menywod wedi herio fframwaith y sfferau gan gynnig dadansoddiadau mwy cynhwysfawr o brofiadau menywod yn y cartref a thu hwnt,<sup>10</sup> ond i academyddion cyfryngol ffeminyddol mae'r cysyniad o'r sfferau yn darparu fframwaith pwrpasol ar gyfer trafod y modd y caiff menywod eu cyfarch gan y cyfryngau.

Yr un modd ag y bu i nifer o fenywod brofi gwaith y tu hwnt i'r aelwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gwelwyd yr un cyfle yn codi drachefn yn ystod yr Ail Ryfel Byd wrth iddynt weithio tu hwnt i gyfyngiadau'r cartref. Wedi i'r rhyfel ddod i ben daeth cylchgronau a hysbysebu i chwarae rhan allweddol yn yr ymdrech i'w dychwelyd at y sffêr breifat, gan fynd ati i gyfarch menywod fel unigolion unffurf a ddylai gymryd balchder yn eu cartrefi. Cai'r disgwrs hysbysebu ei ddominyddu gan dair delwedd o hunaniaeth fenywaidd, sef y rheolwr cartref galluog, y fam wedi ei llethu gan euogrwydd, a'r *flapper*, oll yn bwydo'r ddelwedd o'r fenyw berffaith.<sup>11</sup> Heriwyd y cysyniad hwn gan yr Ail Don Ffeminyddol, a daeth cyfrol Friedan i arwain y cyhuddiad gan ffeminyddiaeth, bod diwylliant prynwriaeth y cyfnod yn creu hunaniaethau i fenywod oedd yn hynod o geidwadol.<sup>12</sup>

Yn yr un modd â bwriad cylchgronau a hysbysebion i rwydo sylw'r gynulleidfa fenywaidd, roedd eu rhwydo yn allweddol hefyd i ddatblygiad teledu yn ystod canol yr ugeinfed ganrif.<sup>13</sup> Er mwyn ceisio sicrhau cynulleidfa gyson, ddibynadwy, roedd angen sefydlu patrwm gwyllo yn y cartref, a thybiwyd bod y swyddogaeth honno'n gorwedd ar ysgwyddau'r fenyw.<sup>14</sup> Yn gyson â'r dybiaeth, ystyriai darlledwyr y set deledu yn rhan ganolog o ddodrefn y cartref a phleser domestig,<sup>15</sup> ac roedd yr hysbysebion cynnar yn arddangos a hyrwyddo nwyddau bychain i'r cartref y buasai

---

<sup>9</sup> Vickery, t. 385.

<sup>10</sup> Amanda Vickery a Linda K. Kerber, 'Separate sphere, female worlds, woman's place: the rhetoric of women's history', *Journal of American History*, LXXV (1988), tt. 9-39.

<sup>11</sup> Myra Macdonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media* (Llundain: Bloomsbury Academic, 1995), t. 77.

<sup>12</sup> *ibid.*, t. 86.

<sup>13</sup> Rachel Moseley, Helen Wheatley a Helen Wood, 'Introduction: Television in the Afternoon', *Critical Studies in Television: The International Journal of Television Studies*, 9.2 (2014), 1-19.

<sup>14</sup> Janet Thumim, *Inventing Television Culture: men, women and the box* (Rhydychen: Oxford University Press, 2004), t. 25.

<sup>15</sup> Helen Wheatley, 'Television in the Ideal Home' yn *Television for Women: New Directions*, gol. gan Rachel Moseley, Helen Wheatley a Helen Wood (Abingdon: Routledge, 2017), tt. 205-222.

menywod yn debygol o'u prynu.<sup>16</sup> Mae'r rhesymau a nodir uchod yn cymryd yn ganiataol mai menywod oedd yn gwneud penderfyniadau o safbwynt gwario arian ar y cartref wrth iddynt ennill mwy o amser hamdden yn sgil peiriannau a hwylusai'r gwaith tŷ.<sup>17</sup> O'r 1930au hyd at y 1950au esblygodd y set deledu o gael ei hystyried fel newyddbeth technolegol hynod, i fod yn declyn moethus i'r cartref, cyn ei datblygu ymhellach i fod yn ddyfais fforddiadwy a hanfodol i'r cartref modern delfrydol.<sup>18</sup> Fel y noda Streeter a Wahl, mae hyn yn cysylltu gyda'r cysyniad o'r drefn batriarchaidd, ystyrir bod y gynulleidfa, sef y gynulleidfa fenywaidd yn y cyd-destun hwn, yn gyfwerth â defnyddwyr, cânt eu delfrydu mewn disgwrs, ac mae hyn yn taro deuddeg gyda delfrydiaeth chwareus patriarchaeth o'r benywaidd.<sup>19</sup> Caiff y drefn gymdeithasol ei chynnal os oes modd dibynnu ar fenywod i berfformio tasgau penodol y bydd dynion yn eu mwynhau, tra'u bod yn parhau mewn rheolaeth, ac felly mewn pŵer.<sup>20</sup> Elfen allweddol i'r drefn gymdeithasol a ddeisyfwyd ar y pryd oedd y cartref delfrydol, oedd yn rhan hanfodol o'r ymdrech i greu uniad cenedlaethol wedi'r Ail Ryfel Byd, cyfnod a gai ei nodweddu gan ofid am ostyngiad yn y cyfradd geni ac am sefydlogrwydd y teulu.<sup>21</sup>

O fewn cyd-destun o'r fath daeth y set deledu a'r cyfrwng teledu i sefydlu eu hunain ym mywyd Prydeinwyr ac Americanwyr yn ystod y 1950au. Roedd yr hyn dylai teledu fod yn destun trafod parhaus, ac agweddau megis pŵer y cwmnïau mawrion, a'r sensoriaeth a'r rheolaeth dros gynnwys yn dominyddu'r disgwrs. Amlygwyd gan Thumim sut oedd cymdeithas, fel y teledu ar y pryd, yn mynd trwy broses o greu, a phwyslais ar gonsensws o hunaniaeth genedlaethol.<sup>22</sup> Ar gyfer dinasyddion, y ddelwedd a ffafriwyd oedd y teulu gwyn, dosbarth canol oedd yn berchen ar gartref, a weithredai fel uned ddatganoledig o'r wladwriaeth batriarchaidd, a dyma'r model a gai ei gyfarch gan raglenni a hysbysebion ar deledu.<sup>23</sup> Roedd y cyfrwng teledu ei hun hefyd ymhlyg yng nghreadigaeth y ddelfrydiaeth yma, trwy ei raglenni a gynigai ddelweddau o nwyddau, lleoliadau, y cartref ac ymddygiad y dylai cynulleidfa oedd

---

<sup>16</sup> Helen Wheatley, 'Television in the Ideal Home' yn *Television for Women*, t. 205.

<sup>17</sup> *ibid.*, t. 205.

<sup>18</sup> *ibid.*, tt. 205-22.

<sup>19</sup> Thomas Streeter a Wendy Wahl, 'Audience Theory and Feminism: Property, Gender, and the Television Audience', yn *Camera Obscura*, 11-12.3-1. (1994), 243-61 (t. 249).

<sup>20</sup> Janet Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women and the Box*, (Rhydychen: Oxford University Press, 2004) t. 32.

<sup>21</sup> Wheatley, t. 208.

<sup>22</sup> *Small Screens, Big Ideas: Television in the 1950s*, gol. gan Janet Thumim (Llundain: I.B.Tauris & Co Ltd, 2002), t.7.

<sup>23</sup> *ibid.*

anelu ato.<sup>24</sup> Roedd yna awydd i adfer cymdeithas fel yr oedd hi cyn yr Ail Ryfel Byd, trwy gydnabod cymuned genedlaethol falch, unedig ac yn fwy pwysig na dim homogenaidd. Mae i hyn berthnasedd i'r traethawd yma wrth ystyried sefydliad fel y BBC a'i awydd i greu undod Prydeinig, ac awydd y Cymry i sefydlu strwythur darlledu cenedlaethol i'w hunain.

Roedd y BBC yn ei hanfod yn sensitif i unrhyw awgrym tanseiliol, ac roedd y berthynas rhwng menywod, teledu a diwylliant defnyddwyr yn amlygu'r ffaith bod teledu yn hepgor hunaniaethau benywaidd amgen, er enghraifft menywod mewn gyrfa, lesbiaid a menywod duon.<sup>25</sup> Cai hyn ei gyfeirio ato fel, 'symbolic annihilation of women', ac mae'n ffenomenon sydd yn nodweddu'r holl gyfryngau torfol, nid teledu yn unig.<sup>26</sup> Er mai'r Unol Daleithiau oedd prif ffocws Tuchman a'i chydymchwilyr, amlygwyd yr un duedd mewn gwaith ymchwil traws ddiwylliannol a gomisiynwyd gan UNESCO (1979).<sup>27</sup> Nod yr adroddiad hwnnw oedd darparu gorolwg byd-eang ar ymchwil cyfryngol ffeminyddol. Ceir cyfeiriadau at Affrica, Asia ac America Ladin, ond mae'r prif ffocws ar Ogledd America a Gorllewin Ewrop, oherwydd cynnyrch y rhanbarthau hynny o'r byd oedd wedi denu sylw academyddion cyfryngol. Caiff ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddarlledu rhwydwaith ym Mhrydain ei gynnwys, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at ddarlledu rhanbarthol gwledydd Prydain. Bydd ffocws yr astudiaeth hon ar Gymru yn caniatáu archwiliad i'r graddau y ceir diddymiad symbolaidd menywod o gynnyrch Cymraeg.

Roedd graddfa y diddymiad symbolaidd o fenywod ar deledu yn amrywio o'r naill genre i'r llall. O fewn rhaglenni newyddion gellid ystyried tair agwedd sy'n berthnasol i fenywod: cyflwynwyr neu ohebwy, gwneuthurwyr newyddion a materion sydd o ddiddordeb i fenywod. Cai menywod eu tan-gynrychioli mewn rolau cyflwyno a gohebu, fel y dengys ymchwil Koerber o raglenni newyddion a materion cyhoeddus y BBC ac ITV yn ystod y 1970au.<sup>28</sup> Mae hyn yn gymharus gyda

---

<sup>24</sup> *Small Screens, Big Ideas: Television in the 1950s*, gol. gan Janet Thumim, t. 7.

<sup>25</sup> *Private Screenings: Television and the Female Consumer*, gol. gan Lynn Spigel a Denise Mann (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1992).

<sup>26</sup> Gaye Tuchman, Arlene Kaplan Daniels a James Benét, *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1978). Teitl y cyflwyniad yw, 'The Symbolic Annihilation of Women by the Mass Media', tt. 3-38.

<sup>27</sup> Mieke Ceulemans a Guido Fauconnier, *Mass Media: The Image, Role, and Social Conditions of Women: A collection and analysis of research materials* (Paris: UNESCO, 1979).

<sup>28</sup> Carmel Koerber, 'Television' yn *Is This Your Life? Images of Women in the Media*, gol. gan Josephine King a Mary Stott (Llundain: Virago: 1977), tt. 123-142.



chanfyddiadau ymchwil ar raglenni newyddion yn Yr Almaen, a nodai bod menywod yn llai amlwg fel gohebwy'r newyddion a gwneuthurwy'r newyddion na dynion. Os oeddent yn ymddangos fel gohebwy'r fe'u cyfyngwyd i straeon oedd yn ymwneud â'r teulu neu ag iechyd.<sup>29</sup> Roedd safle o awdurdod dynion ar y newyddion ar deledu, genre sy'n dibynnu'n helaeth ar wleidyddiaeth, yn adlewyrchiad addas o ddominyddiaeth dynion mewn bywyd cyhoeddus,<sup>30</sup> fel 'primary definers',<sup>31</sup> a'r rheswm y cai menywod eu hepgor oedd nad oeddent yn rhan o'r sffêr hwnnw.

Caiff awdurdod gwrywaidd ei danlinellu hefyd gan y gweledol sy'n rhan o god cyfathrebu traddodiadol rhaglenni newyddion. Mae siwt, crys a thei a'r dull o edrych yn uniongyrchol ar y gwylwyr yn teimlo'n hollol naturiol wrth edrych ar ddyn, a'r unig beth sydd ar goll yw'r hyn sydd ganddo i'w ddweud. Caiff y cysyniad mai ef sy'n rheoli yn hytrach na chael ei reoli ei atgyfnerthu gan y saethiad pen ac ysgwydd.<sup>32</sup> I gyflwynwyr benywaidd mae hyn yn peri problem, oherwydd fel mae Mulvey ac eraill wedi ei amlygu, mae'r ddelwedd o fenyw yno i'r gwyliwr edrych arni, yn hytrach na'i bod hi yn edrych ar y gwyliwr.<sup>33</sup> Mae'r fframio pen ac ysgwydd a'r edrychiad cyfarch i lygad y camera felly yn annaturiol iddi a'r hyn sydd ar goll yw gweddill ei chorff.<sup>34</sup> Ond nid y gweledol yn unig sy'n broblematic, mae'r cysyniad o siarad hefyd yn gosod her, gan fod siarad menywod yn cael ei gysylltu gyda'r benywaidd a gyda chlebran,<sup>35</sup> sef y gwrthwyneb i iaith newyddion sy'n ffeithiol ac yn ffurfiol. Cyfyd sefyllfa o densiwn felly, rhwng y ddelwedd fenywaidd a'r siarad nad yw'n fenywaidd, sy'n arwain at her i gyflwynwyr newyddion benywaidd.<sup>36</sup> Gellid dadlau nad yw ymddangosiad menyw fel darllenwydd newyddion yn gam ymlaen gan mai trosglwyddydd newyddion yn unig ydyw yn hytrach na'r asiant a'i creodd.<sup>37</sup>

---

<sup>29</sup> E. Küchenhoff, 'Die Darstellung der Frau im Fernsehen' (o'i gyfieithu yn llythrennol: 'Cynrychiolaeth Menywod ar y Teledu'), yn Furian, M. (HRsg.): *Kinder und Jugendliche im Spannungsfeld der Massenmedien* (o'i gyfieithu yn llythrennol: 'Plant a Phobl Ifainc yng Nghydadwaith y Cyfryngau Torfol', Stuttgart: Bonz Verlag, 1977), dyfynnwyd yn Ceulemans a Fauconnier, t.25.

<sup>30</sup> *ibid.*, t. 25.

<sup>31</sup> Stuart Hall, *Policing the Crisis: mugging, the state and law & order*, 2il rifyn (Llundain: Red Globe Press, 2013).

<sup>32</sup> Patricia Holland, 'When a Woman Reads the News', yn *Boxed In: Women and Television*, gol. gan Helen Baehr a Gillian Dyer (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1987), tt.133-150.

<sup>33</sup> Laura Mulvey, *Visual and Other Pleasures*, 2il rifyn (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2009).

<sup>34</sup> Holland, t. 138.

<sup>35</sup> Gweler Dale Spender, *Man Made Language* (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1980).

<sup>36</sup> Holland, t. 138.

<sup>37</sup> *ibid.*, t. 149.

Canfyddiadau tebyg i Orllewin Ewrop sydd i'w gweld mewn astudiaethau ar raglenni newyddion Gogledd America, roedd menywod yn fwy tebygol o ymddangos fel gwneuthurwyr newyddion os oeddent yn droseddwyr, dioddefwyr, darparwyr adloniant neu yn perthyn i ddynion enwog.<sup>38</sup> Nid cyd-ddigwyddiad felly i drigolion yr UD nodi dro ar ôl tro mewn Arolwg Gallup blynyddol (1948–1975) wrth ymateb i'r cwestiwn 'pa fenyw yr ydych wedi clywed neu ddarllen amdani sy'n fyw heddiw mewn unrhyw ran o'r byd yr ydych yn ei hedmygu fwyaf', y menywod ddaeth i'r brig oedd y rheiny a enillodd enwogrwydd trwy eu cysylltiad gyda dynion 'teilwng'. Daeth enwau fel Jacqueline Kennedy Onassis, Betty Ford, a Happy Rockefeller i'r brig, y math o fenywod a gafodd eu labelu gan Lang yn 'satellite women', a thros gyfnod o 27 mlynedd yr arolwg, bu cynnydd yn y pledleisiau i'r categori hwn o fenywod.<sup>39</sup> Bydd yn ddiddorol ystyried felly, pa fenywod amlwg sydd yn ymddangos ar raglenni yng Nghymru yn ystod y cyfnod o dan sylw. A oedd yna 'satellite women' oedd yn denu sylw oherwydd eu cysylltiad gyda dynion 'teilwng' neu a oeddent yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu ar sail eu teilyngdod eu hunain?

O ran straeon a ystyrir o ddiddordeb i fenywod mewn rhaglenni newyddion, nodâ Cantor bod y canran o amser darlledu gai ei neilltuo iddynt yn bitw, a'r casgliad sy'n deillio o hynny i'r gynulleidfa yw nad yw menywod yn cael eu hystyried yn bwysig nac yn arwyddocaol o fewn rhaglenni newyddion.<sup>40</sup> Roedd diwylliant ystafell newyddion a roddai argraff o ethos newyddiadurol proffesiynol, mewn gwirionedd yn seiliedig ar dyn-fel-y-norm a'r fenyw-fel-ymwthwraig sy'n tarfu ar y drefn,<sup>41</sup> a threiddiai hyn i'r holl agweddau yn ymwneud â newyddion. Er hyn, canfyddiad gwerth cyfeirio ato o Ogledd America oedd bod rhaglenni newyddion lleol yn cynrychioli menywod yn amlach na rhaglenni rhwydwaith. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth ystyried newyddion o Gymru, er y ffocws ar newyddion cenedlaethol, roedd y traddodiad o raglenni cylchgrawn newyddion fel *Heddiw* (1962–1982) yn rhoi lle i ddiddordeb lleol yn yr elfen gylchgrawn. Mae'n fwriad i archwilio lle mae menywod yn ymddangos, ac ystyried a oeddent yn fwy tebygol o gael eu gweld yn yr elfen gylchgrawn nac yng nghyd-destun newyddion caled.

---

<sup>38</sup> WNBC News Monitoring, *Findings of the Women's Advisory Council (WAC)* (Efrog Newydd: 1976) dyfynnwyd yn Ceulemans a Guido Fauconnier, t. 17.

<sup>39</sup> Gladys Lang, 'The Most Admired Woman: Image-Making in the News', yn Tuchman et al., *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media*, tt. 147-160.

<sup>40</sup> Muriel G. Cantor, 'Women and Public Broadcasting' yn *Journal of Communication*, 27.1 (Gaeaf 1976), 14-9.

<sup>41</sup> Carolyn M. Byerly a Karen Ross, *Women and Media: A Critical Introduction* (Rhydychen: Blackwell Publishing, 2006), t. 79.

Un agwedd ar feirniadaeth gyfryngol ffeminyddol sydd o ddiddordeb mawr i mi fel awdur y traethawd hwn, yw'r ymchwiliad sy'n archwilio cyfraniad menywod o fewn y diwydiant darlledu, a'r berthynas rhyngddynt fel cynhyrchwyr a'r hyn sydd ar y sgrîn. Mae'r cysylltiad rhwng rhywedd y cynhyrchydd a'r cynnyrch ei hun yn un cymhleth, a dim ond pan fo gan y cynhyrchydd benywaidd reolaeth lwyr dros gynhyrchiad y gellir disgwyl i berspectif o blaid menywod gael ei gyfleu.<sup>42</sup> Rhydd statws y ddarlledwraig Nan Davies fel golygydd cyntaf y gyfres *Heddiw*, gyfle i archwilio perthnasedd y canfyddiad hwn yng nghyd-destun y maes ffeithiol yng Nghymru.

O fewn y maes ffeithiol y deuai menywod o hyd i gyfleoedd rheoli yn y 'permeable boundary' rhwng newyddion a materion cyfoes.<sup>43</sup> O fewn darlledu cyhoeddus mae Mary Adams<sup>44</sup> a Grace Wyndham Goldie<sup>45</sup> yn enghreifftiau o'r math yma o fenywod. Ond roedd eu hagweddau hwy yn ogystal â'u cydweithwyr gwrywaidd tuag at natur swyddi yn arddangos rhagdybiaethau ar sail rhywedd. Bu cynnydd yn y cyfeiriadau at rywedd o fewn rolau newydd i bersonél darlledu trwy gydol y 1950au, ond mae Thumim yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ystyried rhagdybiaethau o'r fath a nodweddi'r cyfnod fel cyfraniadau at yr ymdrech hegemoniaidd ym maes gwleidyddiaeth rhywedd.<sup>46</sup> Bydd archwilio strwythurau darlledu y BBC yn medru datgelu natur y wleidyddiaeth rhywedd y gweithiai'r unigolion benywaidd o'i mewn yng Nghymru, ac ymchwilio i gofnodion y Gorfforaeth yn medru datgelu agweddau at swyddi ac ymgeiswyr posib. Hyd yma defnyddiwyd cofnodion pwyllgorau mewnol sefydliadau darlledu Cymru gan academyddion i olrhain hanes datblygiad darlledu,<sup>47</sup> ond bydd y traethawd hwn yn archwilio cofnodion o'r fath, megis Pwyllgor Darlledu Cymru er mwyn ceisio olrhain llwybr gyrfa y menywod blaenllaw a gyflogwyd gan y Gorfforaeth.

---

<sup>42</sup> Macdonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media*, t. 4.

<sup>43</sup> Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women and the Box*, t. 45.

<sup>44</sup> Mary Adams (1898–1984). Ymunodd gyda'r BBC yn 1930, ac ymddeolodd yn 1958. Gweler y canlynol: Kate Murphy, *Behind the Wireless, A History of Early Women at the BBC* (Llundain: Palgrave Macmillan, 2016), tt. 181-6.

<sup>45</sup> Grace Wyndham Goldie, (1900–1986). Ymunodd gyda'r BBC yn 1944, ac ymddeolodd yn 1965. Gweler y canlynol: Grace Wyndham Goldie, *Facing the Nation: Television and Politics, 1936–76* (Llundain, Bodley Head, 1977); John Grist, *Grace Wyndham Goldie, First Lady of Television* (Authorsonline, 2006).

<sup>46</sup> Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women and the Box*, t. 50.

<sup>47</sup> John Davies, *BBC and Broadcasting in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994); Jamie Medhurst, *A History of Independent Television in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010); Elain Price, *Nid Sianel Gyffredin Mohoni!: Hanes Sefydlu S4C* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016).

O dan y maes ffeithiol y cynhyrchwyd rhaglenni penodol i fenywod gan y BBC, ac mae ‘menywod’ fel ‘plant’ a ‘phlant bach neu oed cyn ysgol’ yn segmentau penodol o’r gynulleidfa y mae’r Gorfforaeth wedi eu hystyried ar wahân i’r gynulleidfa gyffredinol. Noda Thumin y gellid darllen y diffiniad o’r segmentau yma fel mynegiant o’r grŵp dominyddol ‘nid-menywod’ ac ‘nid-plant’, sef ‘dynion’.<sup>48</sup> Mae labelu genre fel petai’n perthyn i’w wylwyr yn arwyddo bod y rheiny sy’n creu cynnwys i genres o’r fath yn gweithredu o fewn cyd-destun cyhoeddus, gan ddarparu gyda gofal ar gyfer cynulleidfa oedd penodol sy’n debygol o gael eu dylanwadu gan yr hyn mae artistiaid, ysgrifenyddwyr ac auteurs yn ei greu.<sup>49</sup>

Yr her a wynebai’r cynhyrchwyr ar raglenni teledu cynnar ar gyfer menywod yn ystod y 1950au oedd penderfynu ar union natur y cynnwys er mwyn denu y gynulleidfa darged. Ar un llaw roedd angen darparu cynnwys diddorol a newydd, ond hefyd ddeunydd oedd yn gweddu i’r ‘diddordeb menywod’ confensiynol. Yn ystod blynyddoedd cynnar y degawd mae yna adeg arwyddocaol a gaiff ei dynodi gan Thumim fel ‘open moment’, lle roedd y rhaglenni yn nodi ymgais o ddirif i ystyried profiadau menywod yng nghyd-destun digwyddiadau diwylliannol a gwleidyddol.<sup>50</sup> Mae’r cylch yn cyfyngu ei hun wrth i’r degawd fynd rhagddi, a daw’r arlwy i adlewyrchu cyfrifoldebau traddodiadol menywod o fewn cymdeithas patriarchaidd, sef darparu gofal o’r crud i’r bedd, goruchwyllo’r gofod domestig a rheoli nwyddau a gwasanaethau yn y cartref.<sup>51</sup>

Ar gychwyn y 1950au roedd Mary Adams, y cyfeiriwyd ati eisoes, wedi awgrymu i’r Pennaeth Teledu ar y pryd, Cecil McGivern, y gallai ei hadran hi, sef *Talks*, gynnig rhaglenni prynhawn ar gyfer cynulleidfa fenywaidd. Nid mater hollol newydd i’r BBC oedd cynnig arlwy o’r fath, yn unol ag arferion o fewn genres eraill, roedd y cyfrwng newydd, teledu, yn ei fabandod yn benthg llawer o ffurfiau a genres gan ei ragflaenydd sain, ac roedd cynnwys wedi ei anelu at fenywod wedi nodweddu’r arlwy radio ers blynyddoedd. Yn 1938 rhoddwyd darlith gan Elise Sprott, Cynrychiolydd y Wasg y BBC i gynulleidfa ryngwladol ar ‘Planning Broadcasts for Women in Great Britain’, a chyfeiriodd at y sgysiau ar goginio, lles plant, ffasiwn a

<sup>48</sup> Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women and the Box*, t. 39.

<sup>49</sup> Máire Messenger-Davies dyfynnwyd yn *The Television Genre Book*, gol. gan Glen Creeber, 2il rifyn (Llundain: BFI, 2008), t. 94.

<sup>50</sup> Thumim, t. 61.

<sup>51</sup> *ibid.*, t. 64.

gwleidyddiaeth a ddarllledwyd yn wythnosol, sy'n adlewyrchu amrediad o bynciau.<sup>52</sup> Dyma fu'r arlwy gyson yn ystod y cyfnod rhwng y ddau Ryfel Byd, gan ei fod yn ddarpariaeth rad o ran costau, a bod sgwrs wedi ei sgrïptio a'i hymarfer yn creu darllediad byw, di-risg a rhwydd i'w gynhyrchu. Erbyn canol y 1960au nid yw'r diffiniad o'r gynulleidfa fenywaidd na'r arlwy ar ei chyfer mor amlwg ar deledu ag ydyw ar y radio, ond deil i atsain yn y ddarpariaeth i blant lle mae'r cyfeiriad at wyllo teuluol yn parhau, a'r fenyw yn ganolog iddo.<sup>53</sup>

Er y sylw i'r fenyw yn y drafodaeth ar yr arlwy i blant, ni chai hynny ei adlewyrchu yn y cynnyrch ei hun. Mewn rhaglenni o'r UD yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd tuedd i fwy o ddynion gwyn gael eu gweld na menywod, ac roedd yr amrediad o rolau a bortreadwyd gan ddynion yn ehangach na'r rhai a roddid i fenywod, a gai eu gweld mewn rolau traddodiadol.<sup>54</sup> O ystyried graddfa cyflogaeth menywod yn ystod y cyfnod, nid oedd y portread yn un cywir, ond roedd portread o ddynion a chyflogaeth yn agos at y gwirionedd.<sup>55</sup> Amlygwyd tri math o gymeriad mewn rhaglenni plant, sef y dyn, y dyn priod a'r fenyw, a chai'r menywod eu portreadu fel pobl ddibynnol ac emosiynol.<sup>56</sup> O ran eu delwedd, roeddent yn ifainc, atyniadol ac wedi eu gwisgo'n dda sy'n bortread cyfyngedig o gymharu ag amrediad yr ymddangosiadau ar gyfer dynion.<sup>57</sup> Yn eu gorolwg o ymchwil ar raglenni plant dros hanner can mlynedd yn yr Unol Daleithiau mae Pecora et al., yn nodi 1974 fel blwyddyn arwyddocaol o ran cyhoeddi ymchwil o berspectif ffeminyddol, yn sydyn daeth agweddau ar rywedd (ynghyd ag agweddau ar hiliaeth) i nodweddu ymchwil yn y maes, oedd yn cyd-fynd gyda thwff y Mudiad Rhyddid Menywod.<sup>58</sup> O'r 1940au hyd at hynny, materion yn ymwneud ag iechyd, effaith teledu ar addysg a sgiliau darllen plant, ac effaith trais ar y teledu ar blant fu'n dominyddu'r maes.<sup>59</sup> Ynghanol y 1950au y cychwynnodd astudiaethau ar ddylanwad teledu ar blant, mwy neu lai ar

---

<sup>52</sup> Murphy, *Behind the Wireless, A History of Early Women at the BBC*, t. 189.

<sup>53</sup> Deil hefyd yn y rhaglen radio *Woman's Hour*, ar BBC Radio 4 hyd heddiw. Nid yw'r ddarpariaeth o raglenni penodol ar gyfer menywod wedi ei harchwilio yng Nghymru, er gwyddys bod traddodiad cryf ohono ar y cyfrwng radio, a hanai o ganolfan y BBC ym Mangor, ar ffurf *Byd Merched* ddiwedd y 1930au, a'r etifedd mwy diweddar oedd *Merched yn Bennaf*.

<sup>54</sup> Charlotte O'Kelly, 'Sexism in Children's Television', *Journalism Quarterly*, 51.4 (Gaeaf 1974), 722-4.

<sup>55</sup> Linda Jane Busby, 'Defining the Sex-Role Standard in Network Children's Programs' yn *Journalism Quarterly*, 51.4 (Gaeaf 1974), 690-6.

<sup>56</sup> Michelle L. Long a Rita J. Simon, 'The Roles and Statuses of Women on Children and Family TV Programs' yn *Journalism Quarterly*, 51.1 (Gwanwyn 1974), 107-10.

<sup>57</sup> *ibid.*

<sup>58</sup> Ceir gorolwg o ymchwil ar deledu plant yn y canlynol: Norma Pecora, John P. Murray, Ellen Ann Wartella, *Children and Television: Fifty Years of Research*, (Efrog Newydd; Llundain: Lawrence Erlbaum Associates, 2006).

<sup>59</sup> Pecora et al., t.183

yr un pryd yn yr Unol Daleithiau, Canada a Lloegr.<sup>60</sup> Un o'r canfyddiadau mwyaf perthnasol i bwnc y traethawd hwn yw bod dylanwad bychan ond cyson gan deledu ar y modd yr oedd plant yn ystyried swyddi, gwerthoedd swyddi, llwyddiant ac amgylchfyd cymdeithasol.<sup>61</sup> Dominyddwyd astudiaethau yn yr Unol Daleithiau gan ymchwil o gyfeiriad gwyddoniaeth gymdeithasol a arweiniodd at ddefnydd cyson o'r cysyniad o effaith niweidiol (model hypodermig) y cyfryngau ar blant.<sup>62</sup> Yn y Deyrnas Unedig (ac Awstralia) mae ymchwil cyfryngol cyffredinol yn y traddodiad astudiaethau diwylliannol wedi bod yn fwy amlwg, ond prin yw'r sylw i blant a'u dyheadau o fewn y traddodiad hwn, ac ni wyddys am ymchwil ffeminyddol ar raglenni plant yng Nghymru. Bu Adran Blant fywiog gan y BBC yng Nghymru, gyda rhaglenni yn cael eu darparu o'r ganolfan ym Mangor ac o Gaerdydd. Gwraig a fu'n weithgar o fewn y ddarpariaeth hon oedd Evelyn Williams a gychwynnodd ar ei gwaith cynhyrchu yn y gogledd, gan ddarparu rhaglenni radio i blant, cyn symud i weithio yng Nghaerdydd a sefydlu arlwy deledu i blant yng Nghymru. Bydd y traethawd hwn yn rhoi sylw i'w chyfraniad, ac i ddatblygiad y genre hwn yn y Gymraeg.

Roedd y mathau o rolau dibynnol i fenywod a welid mewn rhaglenni plant yn nodweddu rhaglenni adloniant ysgafn yn ogystal, genre nad yw wedi ei leoli fel diddordeb canolog o fewn astudiaethau cyfryngol. O'r ymchwil sy'n bodoli, nodir bod menywod ar raglenni'r genre hwn yn dueddol o ymddangos fel addurn ysgafn ochr yn ochr â *compere* gwrywaidd.<sup>63</sup> Yng Nghymru mae yna draddodiad cryf o raglenni adloniant ysgafn ar y cyfrwng radio, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r ffigurau amlwg fu'n meithrin y ddarpariaeth oedd Sam Jones gyda *Noson Lawen*, a Mai Jones gyda *Welsh Rarebit*. Bydd sylw yn cael ei roi i'r ddau yn y traethawd hwn, gan ystyried y dylanwadau oedd arnynt a'r awydd i greu arlwy Gymreig ei hanian. O dan ymbarél y genre adloniant ysgafn y daw rhaglenni cerddoriaeth a phop, a bydd cyfraniad Ruth Price a'r gyfres *Disc a Dawn* (1967–1973) i'r genre hwn yn cael ei archwilio.

---

<sup>60</sup> Pecora et al., t. 183.

<sup>61</sup> H.T. Himmelweit, Oppenheim a P. Vince, *Television and the child: An empirical study of the effects of television on the young* (Llundain: Oxford University Press, 1958), tt.17-8.

<sup>62</sup> Máire Messenger Davies, *'Dear BBC': Children, Television Storytelling and the Public Sphere*, (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2001), tt. 8-9.

<sup>63</sup> Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women and the Box*, t.178.

O dan ymbarél y genre adloniant ysgafn y daw rhaglenni sgysiol hefyd, a dengys ymchwil Koerber ar wythnos o ddarlledu ym mis Mehefin 1975 mai cyfyngedig oedd y nifer o fenywod a ymddangosai naill ai fel cyflwynwyr neu westeion.<sup>64</sup> Noda mai dynion sydd yn fwyaf amlwg mewn cyfathrebu geiriol, nhw sy'n cymedroli sgwrs a chaiff gwesteion benywaidd eu trin yn wahanol i rai gwrywaidd.<sup>65</sup> Ymddengys gweithgareddau proffesiynol dynion yn bwnc sgysiol mynych, ond caiff sffêr gweithgaredd traddodiadol menywod, sef y cartref a phlant, ei anwybyddu, sy'n cadarnhau'r honiad bod menywod ond yn 'ymddangos' ar deledu, tra mai dynion yw'r 'actorion'.<sup>66</sup>

Maes arall na chaiff ei ystyried yn ganolog i astudiaethau cyfryngol yw cynhyrchu yn gyffredinol, fel mae awduron y gyfrol *Television for Women: New Directions* yn ei gydnabod.<sup>67</sup> Mae prinder ymchwil hefyd o fewn y maes astudiaethau cynhyrchu teledu ar y cysylltiad rhwng rhaglenni rhywedd benodol a natur rhywedd y tîm cynhyrchu, yn ogystal ag ar y mater o ddylanwad rhywedd tîmau cynhyrchu ar gynyrchiadau teledu.<sup>68</sup> Yn rhinwedd profiad yr awdur fel cynhyrchydd radio a theledu bydd y traethawd hwn yn cynnig mewnwelediad i brosesau cynhyrchu ac yn cyfrannu at y maes astudiaeth penodol yma. O'r gwaith a wnaed eisoes, ymddengys bod menywod a weithiai ar gynyrchiadau teledu yn ystod y 1970au a'r 1980au i'w canfod mewn rolau rhywiaethol trwm heb fawr o gyfle am gynnydd gyrfaol, a gellir tybio bod yr un yn wir am y degawd blaenorol. Newidodd hynny gyda chyflwyniad y swydd Ymchwilydd yn gynnar yn ystod y 1970au, yn ogystal ag awydd y BBC i gynyddu cyfleoedd i fenywod esgyn yr ysgol yrfaol i safleoedd cynhyrchu hŷn a rheolaeth. Er bod tîmau cynhyrchu teledu yn draddodiadol wedi eu dominyddu gan ddynion ar y lefelau uchaf, y prif faen tramgwydd i fenywod oedd cyfuno mamolaeth a gofynion heriol cynhyrchu teledu. Cynigai rhaglenni *day-time* gyfleoedd iddynt gyfuno magu plant gyda gyrfa mewn cynhyrchu teledu, gan fod yr oriau gwaith yn gyson ac yn cyd-fynd gydag oriau ysgol a chyfleusterau crèche. Enghraifft o'r math yma o ddarpariaeth oedd *Pebble Mill at One*, a gynhyrchwyd gan ganolfan y BBC yn

---

<sup>64</sup> Koerber, *ibid.*, t. 127. Er bod yr ymchwil yma yn canolbwyntio ar flwyddyn wedi ystod cyfnod y traethawd hwn, mae'n cyfeirio at y cyflwynwyr Russell Harty a Michael Parkinson yn benodol a gychwynnodd ar eu gyrfaedd teledu yn ystod y 1960au.

<sup>65</sup> *ibid.*, t. 132.

<sup>66</sup> Küchenhoff, dyfynnwyd yn Mieke Ceulemans a Guido Fauconnier, *Mass Media: The Image, Role, and Social Conditions of Women: A collection and analysis of research materials*, t. 26.

<sup>67</sup> Rachel Moseley, Helen Wheatley a Helen Wood, *Television for Women: New Directions*, t. 2.

<sup>68</sup> Vanessa Jackson, 'Women pushed their way forward and became quite a force within the BBC': women's roles in television production and the production of programmes for women', yn *Television for Women: New Directions*, tt. 53-70 (t. 66).

Birmingham, oedd â chyfleuster crèche ar y safle. Am y rhesymau a nodir uchod, tueddai menywod i glystyru mewn rhaglenni *day-time* a chylchgrawn, ac er bod cydnabyddiaeth ymysg timau cynhyrchu bod rhaglen fel *Pebble Mill at One* yn meddu ar ddull o gyfarch benywaidd, ni chai hynny ei drafod yn benodol wrth ystyried y cynnwys. Gwyddys bod cyllidebau rhaglenni o'r fath sydd wedi eu gwreiddio mewn stiwdio yn llai na chyllidebau genres eraill, ac ni chai eu cynnyrch ei ystyried yn werth chweil; o'r herwydd nid oeddent yn apelgar i ddynion a weithiai mewn cynhyrchu teledu, roeddent hwy yn fwy tebygol o gael eu denu gan ddarlledu ffeithiol a ystyrriod yn fwy difrifol.<sup>69</sup> O ystyried diffyg cysondeb amseriad darlledu rhaglenni, a oedd yn amlach na pheidio yn fyw, gan y BBC yng Nghymru yn ystod Y Chwedegau Hirion, mae'n ddiddorol ystyried sut oedd menywod, a weithiai yn y maes cynhyrchu, a chanddynt gyfrifoldebau teuluol yn ymdopi. Er hyn o'r arloeswyr a enwyd, roedd y mwyafrif naill ai yn sengl neu yn briod a heb blant, dim ond dwy ohonynt oedd yn famau, sef Teleri Bevan a Myfanwy Howell.

Mae'r un agwedd ddifrifol a welid o fewn y diwydiant darlledu tuag at arlwy ysgafn a ystyrir yn fenywaidd, megis *day-time* a sioeau siarad (*chat shows*) wedi nodweddu agwedd y sefydliad academiaidd tuag at ysgolheictod astudiaethau'r cyfryngau yn gyffredinol fel newydd-ddyfodiad i'r tirlun beirniadol. Noda Brunson y cyfnod o 1976 i ganol y 1980au fel cyfnod ffurfiannol beirniadaeth deledu ffeminyddol a honna mai prif nodwedd y cyfnod oedd symudiad lleisiau ffeminyddol o du allan i'r prif ffrwd cyfryngol academiaidd i'r tu mewn.<sup>70</sup> Y duedd ymysg academyddion ffeminyddol ar gychwyn y cyfnod oedd canolbwyntio ar gyfarch eu chwiorydd yn y Mudiad Rhyddid Menywod, ond erbyn y 1980au, daethant i feddu ar leisiau mwy hyderus, gan fagu hyder i gyfarch academyddion eraill.<sup>71</sup> Mae Brunson yn priodoli y symudiad hwn i ddau faes ymchwil, sef yr opera sebon a chynulleidfaoedd. Er yr her o ennill cydnabyddiaeth i genre ysgafn benywaidd fel yr opera sebon yn yr Unol Daleithiau, roedd y sefyllfa ym Mhrydain ychydig yn wahanol. Cafodd y gwaith ar *Coronation Street* (ITV: 1960 – ) ei gydnabod fel gwaith o bwys, ond efallai bod hynny i'w briodoli i'r portread o ddsbarth cymdeithasol penodol sef y dosbarth

---

<sup>69</sup> Vanessa Jackson, 'Women pushed their way forward and became quite a force within the BBC': women's roles in television production and the production of programmes for women', t. 69.

<sup>70</sup> Charlotte Brunson, 'Identity in feminist television criticism', *Media, Culture and Society*, 15 (1993), 309-20.

<sup>71</sup> *ibid.*, t. 309.



gweithiol, maes a ystyriwyd yn werth chweil o ran ysgolheictod.<sup>72</sup> Ni roddwyd yr un bri ar y gyfres *Crossroads* (1964–1988, 2001–2003), sef maes diddordeb Hobson,<sup>73</sup> a Brunson,<sup>74</sup> fe'i dilornwyd fel enghraifft o deledu masnachol ar ei waethaf, er gwaethaf ei boblogrwydd ymysg y gynulleidfa a arweiniodd at y gyfres yn cystadlu'n frwd gyda *Coronation Street* am ffigurau gwyllo yn ystod yr 1980au.

Mae Brunson yn tynnu sylw at gyfnod nodedig rhwng 1972 ac 1992,<sup>75</sup> wrth i academyddion fynd i'r afael o ddifrif gyda'r genre opera sebon, i gychwyn fel rhan o astudiaethau cyfryngol ehangach, cyn troi i ganolbwyntio'n benodol ar y genre. Roedd y twf hwn yn rhan o ddiddordeb cyffredinol mewn ffurfiau cyfryngau torfol ffeminyddol, gan gynnwys ffuglen ramantus, melodrama, cylchgronau i ferched ac i fenywod.<sup>76</sup> Amlygodd yr astudiaethau ar yr opera sebon bod y ffurf wedi ennill ei phlwyf ymysg y gynulleidfa fenywaidd, 'and the mainstream academy's disdain for the genre was rooted in both its gendered inflection and its functioning as a low-brow entertainment'.<sup>77</sup> Fel noda Brunson, o fewn cyhoeddiadau sy'n cynnig gorolwg o'r cyfryngau, gan Fiske a Hartley, a chan Masterman, prin, os o gwbl, yw'r cyfeiriadau at yr opera sebon, ac mae'n amlwg eu bod yn gosod hierarchaeth glir o raglenni sy'n haeddu sylw beirniadol, nid oes llawer o sylw i ffurfiau eraill, poblogaidd o deledu.<sup>78</sup>

Y ddrama gyfres, a'r opera sebon yn benodol ddaeth i herio'r cysyniad o ddiddymiad symbolaidd menywod. Yn ystod y 1960au enillodd le cyson yn yr amserlenni teledu ar draws y byd, gan ddarparu i'r gynulleidfa fersiynau amrywiol o fenywod, a hynny yn ystod yr oriau brig yn ogystal ag yn ystod y dydd, mewn amserlenni a ddominyddwyd fel arall gan ddynion.<sup>79</sup> Mae'r astudiaethau cynnar o'r opera sebon yn cydnabod y berthynas arbennig rhwng menywod yn y cartref a'r cynnwys ar y sgrîn, ac yn amlygu cyd-amseriad patrymau rhythmig, domestig gydag arferion gwyllo yn ystod y dydd.<sup>80</sup> Gwêl y rheiny a ganolbwyntiodd ar y *telenovelas*, sef

---

<sup>72</sup> Richard Dyer, Christine Geraghty, Marion Jordan, Terry Lovel, Richard Paterson, John Stewart, *Coronation Street* (Llundain: BFI, 1981).

<sup>73</sup> Gweler: Dorothy Hobson, *Crossroads: drama of a soap opera* (London: Methuen Publishing, 1982).

<sup>74</sup> Charlotte Brunson, 'Crossroads: Notes on a Soap Opera' yn *Screen* 22 (1981), 32-7.

<sup>75</sup> Charlotte Brunson, 'The role of soap opera in the development of feminist television scholarship', yn *To Be Continued... Soap Operas Around the World*, gol. gan Robert C. Allen (Llundain: Routledge, 1995), tt. 49-65.

<sup>76</sup> Charlotte Brunson, *The Feminist, the Housewife and the Soap Opera* (Rhydychen: Oxford University Press, 2000), t. 25.

<sup>77</sup> Byerly a Ross, *Women and Media: A Critical Introduction*, t.22.

<sup>78</sup> Morag Shiach, *Discourse on Popular Culture: class, gender and history in cultural analysis: 1730 to the present* (Caergrawnt: Polity Press, 1998), t. 194.

<sup>79</sup> Thumim, *Inventing Television Culture: men, women and the box*, t.179.

operâu sebon America Ladin, gyfuniad o'r traddodiadol a'r modern yn yr amseru hwn, gyda'r stori yn datblygu dros nifer o fisoedd yn atsain patrymau'r tymhorau a bywyd teuluol, tra bod y testun tameidiog a'r dilyniannau sydyn yn fodern eu nawws.<sup>81</sup> Rhydd y torri mynych rhwng golygfeydd, a'r tensiynau yn yr uned deuluol gyfle i fenywod yn y cartref uniaethu gyda phrysurdeb bywyd teuluol a chymeriadau'r opera sebon, fel y maent yn uniaethu gydag aelodau o'u teuluoedd eu hunain.<sup>82</sup> Mae'r pleser o wyllo yn thema amlwg yn y gwaith ymchwil cynnar, a'r pleser o beidio mwynhau, a chael boddhad o wyllo er mwyn beirniadu, yn elfen bwysig o'r profiad hwnnw.<sup>83</sup>

Mae gwaith ymchwil ar yr opera sebon sy'n mabwysiadu dull o ddadansoddi cynnwys, yn amlygu bod yr un nifer o fenywod yn cael eu portreadu â dynion, sy'n ganfyddiad gwahanol i nifer o ffurfiau eraill o ddrama ac yn wahanol i'r genres cyffredinol eraill a gyfeiriwyd atynt hyd yma. Caiff dynion eu portreadu mewn rolau proffesiynol a'r duedd yw i fenywod gael eu gweld mewn rolau cefnogol megis gwragedd, cariadon, ysgrifenyddesau neu gynorthwywyr.<sup>84</sup> Er hyn mae'r nifer o fenywod proffesiynol yn uwch na realiti o ryw ychydig; i ddynion mae'r portreadau yn gor-gynrychioli'r proffesiynol i raddau helaeth.<sup>85</sup> Eil-beth i'r ddau ryw serch hynny yw gyrfa, o gymharu gyda phwysigrwydd bywyd personol a theulu.<sup>86</sup> Mae operâu sebon fel dramâu teledu yn gyffredinol yn lleihau cyfleoedd i fenywod gael eu gweld goruwch dynion, ond yn llwyddo i fodloni y gynulleidfa fenywaidd trwy bortreadu cymeriadau benywaidd mewn rolau canolog.<sup>87</sup> Gellid ystyried dadansoddiad ansoddol o'r fath yn rhan o'r diddordeb ymchwil a adnabyddir fel *heroine television*, ac er nad yw cymeriadau opera sebon ar yr olwg gyntaf yn arwresau, gellid cymhwyso'r diffiniad fel gwerthfawrogiad o bortread o fenywod

---

<sup>80</sup> Gweler: Carol Lopate, 'You'll Never Want to Leave Home', *Feminist Studies*, 3.34 (Gwanwyn-Haf, 1976), 69-82; Tania Modleski, 'The Search for Tomorrow in Today's Soap Operas: Notes on a Feminine Narrative Form', *Film Quarterly*, 33.1 (Hydref, 1979), 12-21; Richard Dyer, Christine Geraghty, Marion Jordan, Terry Lovel, Richard Paterson, John Stewart, *Coronation Street* (Llundain: BFI, 1981); Dorothy Hobson, *Crossroads: drama of a soap opera* (London: Methuen Publishing, 1982); Christine Geraghty, *Women and Soap Opera* (Rhydychen: Basil Blackwell, 1992).

<sup>81</sup> Michèle Mattelart ac Armand Mattelart, *The Carnival of Images: Brazilian TV Fiction* (Efrog Newydd: Bergin & Garvey, 1990), t. 51.

<sup>82</sup> Tania Modleski, *Loving With a Vengeance: mass-produced fantasies for women* (Efrog Newydd, Llundain: Routledge, 1982).

<sup>83</sup> Gweler gwaith Modleski (1979) a Hobson (1982).

<sup>84</sup> Nathan Katzman, 'Television Soap-Operas: What's Been Going On Anyway?', yn *Public Opinion Quarterly*, 36.2 (Haf 1972), 200-12.

<sup>85</sup> Mildred Downing, 'Heroine of the Daytime Serial' yn *Journal of Communication*, 24.2 (Gwanwyn 1974), 130-7.

<sup>86</sup> Kathryn Weibel, *Mirror, Mirror: Images of Women Reflected in Popular Culture* (Efrog Newydd: Anchor Books, 1977).

<sup>87</sup> Gweler: Joseph Turov, 'Advising and Ordering: Daytime Prime Time' yn *Journal of Communication*, 24.2 (1974) 138-41.

sy'n gweithio y tu allan a thu mewn i'r cartref, rhai ohonynt a chanddynt blant, yn aml heb berthynas sefydlog gyda dynion ac yn ceisio ymdopi.<sup>88</sup>

Archwiliwyd cynnyrch *heroine television* yn helaeth ym Mhrydain ym maes cyfresi drama drosedd, a hynny'n fwyaf amlwg yng ngwaith Lynda La Plante a'i chyfres llwyddiannus *Prime Suspect* (ITV: saith cyfres rhwng 1991 a 2006).<sup>89</sup> Yn dilyn ei phrofiad fel actores ar ddramâu teledu, aeth La Plante ati i gynnig rolau heriol i ferched ac i ymddiried ynddynt i gario'r naratif mewn cyfresi llwyddiannus ar deledu masnachol fel *Widows* (1983–1985)<sup>90</sup> ac yna *Prime Suspect*.<sup>91</sup> Heriodd *status quo* y ddrama sengl gan awduron gwrywaidd, megis Dennis Potter a Ken Loach a ddominyddai y genre drama ar ddarlledu cyhoeddus yn ystod y cyfnod, mewn cyfresi fel *The Wednesday Play* (1964–1970). Ymddengys felly bod teledu masnachol yn fwy mentrus yn eu comisiynu o ran portreadau o fenywod, er enghraifft gyda chyfres ddrama drosedd llawn antur *The Avengers* (1961–1969), y cyntaf o'i bath i gynnig rôl i fenywod lle oeddent yn meddu ar yr un statws â'u cyd-sêr gwrywaidd.<sup>92</sup> Er hyn, mae'r cyfarwyddo, a'r saethiadau agos ar gorff Honor Blackman a bortreadai'r cymeriad Cathy Gale yn bodloni'r *male gaze*.<sup>93</sup> Ochr yn ochr gydag operâu sebon fel *Coronation Street* (ITV, 1960–), *Crossroads* (ITV, 1964–1988, 2001–2003), *Emmerdale Farm* (ITV, 1972–) *Pobol y Cwm* (BBC Cymru Wales, 1974–) ac *Eastenders* (BBC: 1985–) daeth gwaith La Plante i gynnig amrediad o bortreadau o fenywod i gynulleidfaoedd.

Cychwynnodd opera sebon Gymraeg y BBC, sef *Pobol y Cwm* trwy ddarlledu yn wythnosol yn 1974, sy'n ei gosod ar derfyn amser yr astudiaeth hon gyda'r diffiniad o'r Chwedegau Hirion yn dod i ben yr un flwyddyn. Dyma'r opera sebon deledu sydd wedi darlledu hiraf gan y Gorfforaeth ac mae'n parhau i ddarlledu heddiw (2022). O'r gwaith academiaidd a wnaed ar *Pobol y Cwm*, mae thema o hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol yn amlygu ei hun, gyda chyfnod diwedd y 1980au a'r

---

<sup>88</sup> Brunson, 'The role of soap opera in the development of feminist television scholarship', t. 54.

<sup>89</sup> *ibid.*

<sup>90</sup> Gweler Gillian Skirrow, 'Women/acting/power' yn *Boxed In: Women and Television*, gol. gan Baehr and Dyer, tt. 164–183.

<sup>91</sup> Gweler Janet Hallam, *Lynda La Plante* (Manceinion: Manchester University Press, 2011).

<sup>92</sup> Gweler James Chapman, *Saints and Avengers: Adventure Series of the 1960s* (Llundain: Efrog Newydd: I.B.Tauris, 2002).

<sup>93</sup> Term a grewyd gan Laura Mulvey yn 1975 i gyfleu dull rhywiol o sylu ar fenywod ar sgrin gan leoli'r gynulleidfa ym mhersbectif dyn heterorywiol. Gweler Laura Mulvey, *Visual and Other Pleasures*, 2il rifyn (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2009).

1990au cynnar yn denu sylw ysgolheigion.<sup>94</sup> Nodweddwyd y cyfnod hwn gyda'r opera sebon yn cael ei darlledu'n ddyddiol (1988),<sup>95</sup> ac am gyfnod o dri mis yn 1994, fe'i darlledwyd yn Lloegr.<sup>96</sup> Cyfyngir gwybodaeth am ddyddiau ffurfiannol yr opera sebon i destunau poblogaidd a gyhoeddwyd adeg dathlu cerrig milltir penodol yn ystod ei chyfnod hirhoedlog.<sup>97</sup> Er na fu i *Pobol y Cwm* ymddangos fel cyfres radio cyn ei dyfodiad ar deledu, roedd cyfresi drama poblogaidd megis *S.O.S. Galw Gari Tryfan* i blant, a *Teulu Tŷ Coch* a *Teulu'r Mans* i oedolion, wedi eu darlledu ar y radio yng Nghymru. Roedd actoresau megis Harriet Lewis (1920–1999), a ddaeth i bortreadu Maggie Post ar *Pobol y Cwm*, wedi ennill profiad ar gyfresi drama ac adloniant ysgafn radio o bob math cyn mentro i fyd teledu.

Prin yw'r ymchwil cyffredinol i'r cyfrwng radio fel darparwr cynnwys o'i gymharu gyda theledu, mae ei gyfraniad o ran technoleg cyfathrebu a hanes datblygiad darlledu yn tueddu i ddwyn y sylw. Roedd llawer o'r operâu sebon cynnar ar gyfer teledu yn yr Unol Daleithiau yn ystod y 1950au wedi eu trosglwyddo o gyfresi radio, megis *The Guiding Light* a sgriptiwyd ac a gynhyrchwyd gan Ina Phillips,<sup>98</sup> ond ym Mhrydain arhosodd un o'r operâu sebon mwyaf llwyddiannus, *The Archers* (1951–) ar y tonfeddi radio. Yn yr Unol Daleithiau cymerwyd yn ganiataol ers yr operâu sebon cyntaf yn ystod y 1930au bod yr arlwy penodol yma ar gyfer cynulleidfa fenywaidd, ac yn ystod y prosiectau ymchwil y Radio Research Bureau ar gychwyn y 1940au, ni aed ati i gyfweld dynion a allai fod yn gwrando.<sup>99</sup> Mor gynnar â'r 1930au roedd cynhyrchydd benywaidd fel Ina Phillips yn manipiwleiddio llinellau storïol at ddibenion hysbysebwr ac yn darparu cynulleidfa fenywaidd barod ar eu cyfer.<sup>100</sup> Mae hyn yn atsain y drafodaeth flaenorol ar hysbysebion teledu, a'r awydd i greu defnyddwyr parod trwy gyfrwng darlledu torfol.<sup>101</sup>

---

<sup>94</sup> Alison Griffiths, 'National and Cultural Identity in a Welsh-language Soap Opera', yn *To Be Continued...Soap Operas Around the World*, gol. gan Allen, tt. 81-97; Caroline Lewis, 'Welsh soap: "Pobol Y Cwm" and Welsh national identity', *Critical Survey*, 7.2 (1995), 152-157.

<sup>95</sup> Griffiths, 'National and Cultural Identity in a Welsh-language Soap Opera', t. 85.

<sup>96</sup> Lewis, 'Welsh soap: "Pobol Y Cwm" and Welsh national identity', t.155.

<sup>97</sup> Lowri Haf Cooke, *Pobol y Cwm: Pen-bhwydd Hapus yn 40* (Llandysul: Gomer, 2014).

<sup>98</sup> Er enghraifft, un o'r operâu sebon hynaf *The Guiding Light*, a gychwynnodd ar radio NBC yn 1937 ac a drosglwyddyd i wasanaeth teledu CBS ym 1952. Daeth i ben yn 2009 wedi 72 mlynedd o ddarlledu. Gweler: Bill Carter, 'CBS turns out 'Guiding Light'', *New York Times*, 1 Ebrill 2009.

<<https://archive.nytimes.com/www.nytimes.com/2009/04/02/arts/television/02ligh.html>> [cyrchwyd 28 Hydref 2009].

Sgriptiwyd *The Guiding Light* yn wreiddiol gan Ina Phillips.

<sup>99</sup> *Radio Research 1942-3*, gol. gan Paul Lazarsfeld a Frank Stanton (Efrog Newydd: Duell Sloane and Pearce, 1944), dyfynnwyd yn Brunson, yn 'The role of soap opera in the development of feminist television scholarship', t. 58.

<sup>100</sup> Ellen Seiter, "'To Teach and to Sell": Ina Phillips and her Sponsors, 1930-1954', *Journal of Film and Video*, 41.1 (1989) 21-35.

<sup>101</sup> Marilyn Lavin, 'Creating Consumers in the 1930s: Ina Phillips and the Radio Soap Opera', *Journal of Consumer Research*, 22.1 (1995) 75-89.

Rhaid nodi mai'r cyfrwng teledu sy'n dominyddu ysgolheictod ffeminyddol, sy'n ystyriaeth ddiddorol o ystyried yr amser sy'n cael ei dreulio gan unigolion yng nghwmni rhaglenni radio.<sup>102</sup> Mae gosodiad Mitchell, yn darlunio difrifoldeb y sefyllfa, 'If radio is Cinderella then women and radio studies still has 'pumpkin' status.'<sup>103</sup> Yn yr astudiaethau hynny sy'n bodoli mae tuedd i ganolbwyntio ar y meintiol ac ar raglenni i fenywod, prin yw'r ymchwil ansoddol ar ddelweddau o fenywod a gaiff eu hadlewyrchu gan y cyfrwng yn gyffredinol. Enghraifft o astudiaeth ansoddol yw pennod y newyddiadurwraig Mileva Ross yn y llyfr *Is This Your Life? Images of women in the media*, ac er bod barn Ross, fel ei chydysgrifenydd a golygyddion y gyfrol, yn arddangos tuedd ffeminyddol cryf, mae'r bennod ar y cyfrwng radio yn nodi sut y cai'r cyfrwng ei ystyried fel sain cefndirol, a ddarparai gysylltiad i fenywod gyda'r byd y tu hwnt i'r cartref.<sup>104</sup> Y gred, a seiliwyd ar arferion darlledu masnachol, oedd bod yn well gan fenywod glywed dyn yn siarad gyda nhw,<sup>105</sup> er bod y math o sgwrsio yn efelychu perthynas breifat yn hytrach na chyhoeddus, a bod ymchwil yn profi bod lleisiau benywaidd yn dderbyniol.<sup>106</sup> Mae'r gred hon yn cysylltu gyda rhagdybiaeth cynhyrchwyr nad yw lleisiau menywod yn bleserus i wrando arnynt oherwydd eu bod ar draw uwch na llais tawel ac awdurdodol dyn. Fe'u disgrifir fel 'shrill, reedy and thin, and connote unreasonableness, silliness or edginess',<sup>107</sup> ac mae hyn yn cysylltu gyda'r cysyniad negyddol o fenywod fel 'nags' a 'femme fatales'.<sup>108</sup> Datblygodd y rhagfarn hon yn rhwystr i fenywod o fewn y diwydiant,<sup>109</sup> ac yn sail i benderfyniadau dros beidio â'u cyflogi fel cyflwynwyr newyddion a sylwebwyr chwaraeon ar deledu.<sup>110</sup> Er hyn mae'r cyfrwng radio fel y wasg gylchgrawn wedi ei gweld yn haws rhoi lleisiau i fenywod gan eu bod yn fwy tebygol o ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, y

<sup>102</sup> Anne Karpf, 'Women and radio' yn *Women's Studies International Quarterly: Women and Media*, 3.1 (1980), 41-54 (t. 43).

<sup>103</sup> *Women and Radio: Airing Differences*, gol. gan Caroline Mitchell, (Llundain: Routledge, 2001), t. 4. Scannell gyfeiriodd at radio fel cyfrwng Sinderela, Paddy Scannell, 'Review of books by R. le Roy Bannerman and A. Crisell', *Media, Culture and Society*, 10.3 (1998) 385-88.

<sup>104</sup> Mileva Ross, 'Radio' yn *Is This Your Life? Images of Women in the Media*, gol. gan Josephine King a Mary Stott, tt. 9-35.

<sup>105</sup> *ibid.*

<sup>106</sup> Vernon A. Stone, 'Attitudes towards Television News-women', *Journal of Broadcasting*, 17.1 (Gaeaf 1973-74), tt. 49-62; Susan Whittaker a Ron Whitaker, 'Relative Effectiveness of Male and Female Newscasters', *Journal of Broadcasting*, 20.2 (Gwanwyn 1976), tt.177-84.

<sup>107</sup> Macdonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media*, t. 45.

<sup>108</sup> Rosalind Gill, 'Justifying injustice, broadcasters' accounts of inequality in radio' yn *Women and Radio: Airing Differences*, tt. 137-51.

<sup>109</sup> W. Bowman, *Distaff Journalists: Women as a Minority Group in the News Media*, PhD. thesis, University of Illinois, (1974) dyfynwyd yn Mieke Ceulemans a Guido Fauconnier, *Mass Media: The Image, Role, and Social Conditions of Women: A collection and analysis of research materials*, t. 51.

<sup>110</sup> Macdonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media*, t. 49.

‘segmentau’ y cyfeiriwyd atynt ynghynt, ac yn fwy clos yn eu dull o gyfarch na chyfryngau torfol eraill.<sup>111</sup>

Mae pennod Ross,<sup>112</sup> ynghyd â chyfrol Mitchell,<sup>113</sup> yn cynrychioli yr ychydig enghreifftiau o waith ymchwil ar draws Ewrop sy’n canolbwyntio’n llwyr ar y cyfrwng radio o safbwynt ffeminyddol. Casgliad Ross oedd bod yn rhaid i fenywod ymgymryd â swyddi creu polisi er mwyn i unrhyw gynnydd gael ei wneud yn adlewyrchiad rôl menywod mewn cymdeithas. Nodwyd bod gorsafoedd lleol darlledu cyhoeddus a masnachol yn fwy blaengar eu hagwedd tuag at fenywod na gorsafoedd cenedlaethol. Gellid darllen hyn fel cyd-destun llai difrifol ar gyfer gwaith cynhyrchu, gan fod gorsafoedd o’r fath yn cael eu gweld fel methrinfeydd i ddarlledwyr i gamu’n uwch, a chan fod cyllidebau yn llai mae pawb yn gorfod bwrw iddi ymhob math o rolau.<sup>114</sup>

Agwedd nas trafodwyd yn fanwl hyd yma yw’r ymchwil ar gyflogaeth menywod o fewn y diwydiant darlledu. Cyfeiriwyd eisoes at y cysylltiad rhwng rhywedd cynhyrchydd a natur cynnwys, a bod yn rhaid i fenywod fod mewn sefyllfa o bŵer cyn bod modd dylanwadu ar gynnwys. Gan fod cydbwysedd rhywedd o fewn y diwydiant yn ystod y cyfnod o dan sylw yn anghyfartal gyda mwy o ddynion mewn swyddi o ddylanwad, mae’n arwain bod y perspectifau o fenywod a welir ar y cyfryngau yn cyfleu cysyniad dynion o fenywod.<sup>115</sup> Caiff dominyddiaeth teledu mewn astudiaethau ar gynnwys ei ailadrodd yn yr agwedd hon o ymchwil ar gyflogaeth menywod, a thrachefn mae astudiaethau wedi eu cyfyngu i Ogledd America ac Ewrop. Mae cyflogaeth menywod mewn darlledu yn y gwledydd sy’n datblygu wedi ei anwybyddu, er y gydnabyddiaeth bod y cyfrwng radio yn benodol yn meddu ar bŵer i symyblu datblygiad cymdeithasol ac i addysgu.<sup>116</sup>

Caiff absenoldeb menywod ar y lefelau uchaf o reolaeth o fewn y diwydiant darlledu radio ei ystyried yn hynod o niweidiol i gynrychiolaeth menywod ar y cyfrwng am ddau brif reswm: y rheiny ar y lefel uchaf sy’n gwneud penderfyniadau cyflogi, a’r

---

<sup>111</sup> Macdonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media*, t. 49.

<sup>112</sup> Mileva Ross, *Is This Your Life? Images of Women in the Media*, tt. 5-35.

<sup>113</sup> *Women and Radio: Airing Differences*, gol. gan Mitchell. .

<sup>114</sup> Mae hyn yn atsain canfyddiad Macdonald, gweler t. 37, tn 6.

<sup>115</sup> Mieke Ceulemans a Guido Fauconnier, t. 67.

<sup>116</sup> *ibid.*, t. 16.

rheiny ar y lefel uchaf sydd hefyd mewn safle i ddylanwadu ar gynnwys rhaglenni.<sup>117</sup> Daeth Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1976 i fynnu bod darlledwyr yn rhoi newid ar waith yn eu hagwedd tuag at gyflogi menywod, ond oherwydd bod diffyg profiad ganddynt ar lefelau uwch o weithredu bu'n anodd iawn llenwi'r swyddi. Mae'r dadleuon yma'n berthnasol i deledu hefyd, ac o'r ymchwil helaeth ar gyflogaeth menywod yn y cyfrwng hwn, y genre newyddion, a'r maes cynhyrchu teledu a rheolaeth sydd wedi denu'r sylw mwyaf.

Amlygwyd gan Bowman yn 1974, o fewn ystafelloedd newyddion yr Unol Daleithiau, fod menywod yn cynrychioli lleiafrif ar staff golygyddol radio a theledu, gan weithredu ar waelod yr hierarchiaeth darlledu. Gwelent hi'n anodd dringo'r ysgol yrfaol gan eu bod yn gweithio yn y 'soft beats', y cynnwys hynny a gaiff ei weld yn fwy addas i fenywod, ond sy'n llai defnyddiol ar gyfer dringo'r ysgol.<sup>118</sup> Mae hyn yn cyd-fynd gyda chanfyddiadau a gyfeiriwyd atynt eisoes ar ymwneud menywod â'r genre newyddion. Cai cyflwynwyr a gohebwy'r benywaidd ar sgrîn eu hystyried fel 'talent' (fel y caiff cyflwynwyr ar raglenni genre adloniant ysgafn eu hystyried, er enghraifft), er bod y diffiniad yma'n niwlog, ymddengys ei fod yn ymwneud gyda chysyniadau am ieuenctid a harddwch. Roedd y sefyllfa yn fwy dybryd yng Ngorllewin Ewrop, hyd at Dachwedd 1975 nid oedd y BBC yn cyflogi unrhyw ohebwy'r newyddion benywaidd, a dim ond un darllynydd newyddion.<sup>119</sup> Gwyddys bod Barbara Mandell a Nan Winton wedi cyflwyno'r newyddion ar y BBC ac ITV, yn 1955 a 1960 (yn ôl eu trefn). Yng Nghymru, cafwyd cyflwynwyr a gohebwy'r benywaidd ar y gyfres *Heddiw*, ac ar *Y Dydd* (1964–1982), a bydd y traethawd hwn yn dadansoddi natur eu cyfraniad ac i ganfod os mai yn y *soft beats* yr oeddent hwy i'w canfod, neu a ymddiriedwyd ynddynt i gario straeon trymion eu natur.

Cynigiai'r genres materion cyfoes a dogfen well cyfleoedd o ran gohebu a chyflwyno, ond roedd y swyddi tu ôl y llenni yn parhau yn hafan i ddynion, gyda menywod yn cynrychioli 10% o weithlu o'r fath yn y BBC. Gwelir patrymau tebyg yng Ngwlad Belg a'r Almaen, ond yn Llychlyn roedd y systemau darlledu yn fwy

---

<sup>117</sup> Ross, t. 28.

<sup>118</sup> W. Bowman, dyfynnwyd yn Mieke Ceulemans a Guido Fauconnier, *Mass Media: The Image, Role, and Social Conditions of Women: A collection and analysis of research materials*, t. 53.

<sup>119</sup> Koerber, *ibid.*, t. 54.

ffafriol i fenywod, gan eu bod yn derbyn tâl cyfartal ynghyd â'r hawl i ohebu ar straeon newyddion cymharus â'u cyfoedion gwrywaidd. Er hyn, fel dengys Marzolf, maent yn absennol o reolaeth teledu fel yng ngweddill Ewrop.<sup>120</sup>

Rhydd ymchwil yr undeb *Association of Cinematograph, Television and Allied Technicians* (ACTT)<sup>121</sup> a gyhoeddwyd yn 1975, fewnwelediad i strwythurau swyddi ITV, a cheir ychydig o ddata am staff y BBC.<sup>122</sup> Gweithiai mwyafrif aelodau'r undeb ym maes teledu, ac o 1969 gwelwyd cynnydd uwch yn aelodaeth menywod na dynion. Dim ond 8% o fenywod oedd yn gyfarwyddwyr neu yn gynhyrchwyr, ac roedd enghreifftiau amlwg o wahaniaethu yn cael eu hadrodd. Nodwyd bod llawer o swyddi yn ymddangos ar gau iddynt, er enghraifft cyfarwyddwr, golygydd, ymchwilydd hŷn, a'r swyddi gyda'r nifer uchaf o fenywod oedd y PA (*production assistant*) oedd fymryn uwch ei statws nag ysgrifenyddes.

Mae'r ymchwil ar gyflogaeth menywod mewn darlledu yn amlygu bod delweddau cyfryngol yn tueddu i ddiffinio'r fenyw o fewn cyfyngiadau rôl domestig ac yn ei hapêl rywiol i ddynion. Nid yw'r ddelwedd ddeublyg hon yn cael ei herio gan bortreadau amgen dilys sy'n adlewyrchu cyfraniad menywod at gymdeithas gyfoes. Perthyn y rheiny sy'n gyfrifol am y stereoteipio uchod i system a sefydliadau sydd wedi eu dominyddu gan ddynion, gan arddangos tuedd wrywaidd.<sup>123</sup> Caiff cyflogaeth ei drefnu mewn modd sy'n cadw menywod mewn swyddi sy'n amddifad o bŵer a statws, sydd yn ei dro yn arwain at gynnal y duedd wrywaidd a'r stereoteipio a nodwyd.<sup>124</sup> Mae menywod sy'n gweithio yn y cyfryngau torfol yn llai tebygol o gael eu dylanwadu gan stereoteipio o'r fath<sup>125</sup> ac maent yn awyddus i newid rolau rhyw a darlunio ffordd o fyw sy'n adlewyrchu cymdeithas gyfoes.<sup>126</sup> Sylweddolwyd bod angen creu newid yn y nifer o fenywod sy'n cael eu cyflogi yn y cyfryngau, ac ail

---

<sup>120</sup> M. Marzolf, *Up from the Footnote: A History of Women Journalists* (Efrog Newydd: Hastings House, 1977), tt. 286-8.

<sup>121</sup> ACTT, *Patterns of Discrimination Against Women in the Film and Television Industries*, (Llundain: ACTT, 1975).

<sup>122</sup> Nid oedd rheidrwydd ar staff y BBC i ymuno gyda'r undeb, yn wahanol i staff yn y sector fasnachol.

<sup>123</sup> Margaret Gallagher, *An Unfinished Story: Gender Patterns in Media Employment* (UNESCO Publishing, 1995).

<sup>124</sup> Carolyn M. Byerly, 'Women and the concentration of media ownership', *Seeking Equity for Women in Journalism and Mass Communication Education*, gol. gan Raomna R. Rush, Carol E. Oukrop, Pamela J. Creedon (Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum Associates, 2004), tt. 245-73.

<sup>125</sup> Jack E. Orwant a Muriel G. Cantor, 'How Sex Stereotyping Affects Perceptions of News Preferences', *Journalism Quarterly*, 54.1 (Gwanwyn 1977) 99-139.

<sup>126</sup> S. Merritt a H. Gross, *Women's Page/Life-style Editors: Does Sex Make a Difference?* adroddiad nas cyhoeddwyd, (Illinois: Governors State University, 1977).



ystyried strwythurau cyflogaeth er mwyn cynyddu'r siawns am ddarlun mwy hafal a blaengar o fenywod.<sup>127</sup>

Dros y degawdau diwethaf mae ymdrechion wedi eu rhoi ar waith i wireddu'r deisyfiad a fynegwyd uchod, ac i beri newid mewn sefydliadau a chwmmiau cyfryngol. Gellir nodi'r ymdrechion hyn ar y cyd fel Gweithredaeth Cyfryngol Menywod, ac fel ffenomenon nid yw wedi ei ymchwilio'n ddigonol o fewn ysgolheictod ffeminyddol a chyfryngol.<sup>128</sup> Dengys y Model ar gyfer Gweithredaeth Cyfryngol Menywod sy'n seiliedig ar gyfweiliadau gyda 90 o fenywod ar draws y byd, bod eu gweithgaredd yn dilyn pedwar llwybr clir, sef: gwleidyddiaeth i gyfryngau, y proffesiwn cyfryngol i wleidyddiaeth, asiant peri newid a mentrau cyfryngol menywod. Amlygir bod yn rhaid wrth newid ar lefel-macro er mwyn galluogi i newidiadau ddigwydd ar lefel micro, lle caiff penderfyniadau dydd i ddydd unrhyw sefydliad eu gweithredu.<sup>129</sup> Yn ogystal, gan adeiladu ar waith Gallagher,<sup>130</sup> mae angen gweithredu ar lefelau meso a micro i ddatblygu strategaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fydd yn arwain at rwydweithiau er ysgogi newid cyfryngol gan effeithio ar bolisiau llywodraethol, polisiau cyfryngol corfforaethol a gweithdrefnau cynhyrchu sy'n ymwneud gyda chreu cynnwys.<sup>131</sup> Er mwyn medru cynhyrchu deunydd sy'n cynnig llais i fenywod a naratif amgen i'r prif sefydliadau darlledu, trodd rhai menywod at weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau cydweithredol, tra dewisodd eraill gychwyn eu cwmnïau eu hunain. Wrth galon y model hwn mae dealltwriaeth o'r hawl i gyfathrebu, ac ymhlyg yn hynny, hawl menywod i gyfathrebu er mwyn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Mae'r adolygiad llenyddol hwn wedi amlygu gwaith ymchwil ar y cyfryngau darlledu, sef teledu a radio yn ystod Y Chwedegau Hirion o safbwynt ffeminyddol. Rhoddwyd sylw i genres a darpariaethau amrywiol a sylwyd bod cyfanswm a natur yr ymchwil yn amrywio o'r naill ddarpariaeth neu genre i'r llall gyda rhaglenni i blant ac adloniant ysgafn wedi eu harchwilio i raddau llai na'r gweddill o safbwynt ffeminyddol. Mae'r genre opera sebon (drama), fel rhaglenni *day-time* a rhaglenni

---

<sup>127</sup> *ibid.*, t. 67.

<sup>128</sup> Byerly a Ross, *Women and Media: A Critical Introduction*, t. 101.

<sup>129</sup> Diane Elson, 'Micro, meso, macro: gender and economic analysis in the context of policy reform', *The Strategic Silence: Gender and Economic Policy*, gol. gan yn Isabella Bakker (Llundain: Zed Books), tt. 33-45.

<sup>130</sup> Margaret Gallagher, *Gender Setting: New Agendas for Media Monitoring and Advocacy* (Llundain: Zed Books, 2001), tt. 8-9.

<sup>131</sup> Elson, tt. 35-45.

sgyrsiol (adloniant ysgafn) yn ogystal â rhaglenni i fenywod (ffeithiol) yn cael eu hystyried yn ysgafn eu natur a'u dull o gyfarch yn fenywaidd; o'r herwydd, yn hanesyddol fe'u difriwyd, er eu poblogrwydd, gan y sefydliadau darlledu, a chan y gymuned academiaidd o fewn disgyblaeth astudiaethau'r cyfryngau. Amlygwyd mai'r ddrama gyfres, a'r opera sebon yn benodol yw un o'r genres, ynghyd ag ymchwil cynulleidfa, sydd wedi arwain y ffordd o ran sut y caiff astudiaeth gyfryngol ffeminyddol ei derbyn o fewn ysgolheictod astudiaethau'r cyfryngau. Prin yw'r ymchwil ansoddol ar gynnyrch cyfryngol Cymraeg a Chymreig ymhob genre, trodd academyddion eu sylw at y dasg angenrheidiol o gofnodi datblygiad darlledu yng Nghymru.<sup>132</sup> Prinach fyth yw astudiaeth ffeminyddol o'r cynnyrch hwnnw. Rhydd profiad awdur y traethawd fel cynhyrchydd teledu a radio fewnwelediad i'r berthynas rhwng cynhyrchydd a chynnwys, boed hynny ar lefel talent ar yr awyr a'r sgrîn neu ar lefel meithrin staff cynhyrchu a sgriptio. Yng nghwrs y gwaith bydd modd cwestiynu strwythurau cyflogaeth o fewn y BBC yng Nghymru yn ystod Y Chwedegau Hirion, a'r wleidyddiaeth rhywedd oedd yn weithredol yn eu canolfannau yng Nghymru ac y gweithiai'r arloeswyr benywaidd o'i mewn. Rhydd hyn gyfle hefyd i chwilota am enghreifftiau o Weithrediad Cyfryngol Menywod sydd wedi herio'r drefn ac effeithio ar bolisi, neu ar gynnwys, ac sydd wedi arwain at yr amrediad o bortreadau o fenywod a welir ar y sgrîn ac a glywir ar yr awyr yng Nghymru heddiw.

---

<sup>132</sup> Gweler Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, 1994; Jamie Medhurst, *A History of Independent Television in Wales* 2010; Elain Price, *Nid Sianel Gyffredin Mohoni!: Hanes Sefydlu S4C*, 2016.



## **Pennod 1a:**

### **Y cyd-destun hanesyddol: cefndir yr arloeswyr**

Bwriad y rhan gyntaf o'r bennod hon yw olrhain cefndir arloeswyr benywaidd darlledu cyhoeddus yng Nghymru a bydd hyn yn darparu'r sail cadarn i'r penodau hwyrach fydd yn dadansoddi eu cyfraniad yn ystod y Chwedegau Hirion. Y tridegau yw'r cyfnod cyntaf y ceir cip ar eu cyfraniad lle mae modd olrhain gwaith Mai Jones, Nan Davies a Myfanwy Howell, y gyntaf ohonynt yng nghanolfan y BBC yng Nghaerdydd a'r ddwy arall ym Mangor. Neilltuodd Jones ei hun i'r genre adloniant ysgafn yn llwyr o'r cychwyn cyntaf, tra bod Davies a Howell wedi ymhél gydag amrediad o ddarpariaeth hyd at ddiwedd y pumdegau. Yn ystod ail hanner y pumdegau gwelwyd proffesiynoli o fewn y diwydiant darlledu oherwydd y twf yn y nifer o staff ac ehangu yn nifer yr oriau darlledu, ac yn sgil hynny yr angen i arbenigo. Ymunodd Marion Griffith Williams â'r BBC yng Nghaerdydd fel swyddog cyhoeddusrwydd cynorthwyol, cyn iddi gael ei denu gan waith cynhyrchu radio. Denwyd Evelyn Williams hefyd i weithio tu ôl i'r llenni ar y ddarpariaeth i blant, er fel actores y'i cyflogwyd hi'n wreiddiol gyda *repertory company* cyntaf y BBC yng Nghaerdydd. *Awr y Plant* oedd y man cychwyn hefyd ar gyfer y tair arloeswraig arall y mae'r traethawd hwn yn canolbwyntio arnynt, sef Lorraine Davies, Ruth Price a Teleri Bevan. Arweiniodd y feithrinfa honno at yrfaedd i'r tair yn y genre drama, adloniant ysgafn a rhaglenni ffeithiol, gyda Bevan yn unig yn llwyddo i gamu o gynhyrchu at reoli mewn darlledu cyhoeddus, er iddi dreulio cyfnod byr fel cyflwynydd ar deledu masnachol. Denwyd Howell yn llwyr gan y fenter fasnachol yng Nghymru, sef TWW, gan ddatblygu yn wyneb cyfarwydd i wylwyr ar draws y wlad. Gellid priodoli llwybr gyrfa yr arloeswyr hyn i gyd i'w cefndiroedd, natur y canolfannau darlledu y'u lleolwyd ynddynt a'u sefyllfaoedd personol, a chaiff y dair agwedd eu harchwilio yn y bennod hon.

Roedd rhaglenni wedi eu darlledu o Gaerdydd ers yr 1920au pan agorwyd stiwdio yno ar 13 Chwefror 1923, y bedwaredd i'w sefydlu ym Mhrydain,<sup>1</sup> a hynny flwyddyn wedi i'r *British Broadcasting Company* gychwyn darlledu.<sup>2</sup> Roedd canolfannau eisoes wedi eu hagor yn Llundain, Birmingham a Manceinion. Y pedair

<sup>1</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984).

<sup>2</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom. Volume 1, The Birth of Broadcasting* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1961). Gweler pennod 1 – 5 am hanes ffurfio'r BBC, tt. 1-296.

canolfan a fwriadwyd yn dilyn agoriad Caerdydd oedd Newcastle, Plymouth, Aberdeen a Glasgow neu Gaeredin, ond y cyntaf a ddewiswyd yn y pen-draw. Lleolwyd y ganolfan yng Nghaerdydd yn Stryd y Castell am bron i flwyddyn cyn ei symud i Park Place, a'r darllediadau cyntaf yn rhai 'masnachol, lleol a di-Gymraeg'.<sup>3</sup> Yn 1924 datblygwyd Abertawe yn is-orsaf i Gaerdydd, ond roedd y cysyniad o fod yn ail i'w cymydog dwyreiniol yn dân ar groen dinasyddion Abertawe, oedd yn grediniol mai yn eu tref hwy y dylai'r BBC fod wedi sefydlu eu prif ganolfan yng Nghymru,<sup>4</sup> ac nid oedd pennaeth y BBC yn ganolog, John Reith, wedi rhagweld unrhyw 'inter-civic jealousy'.<sup>5</sup> Ychydig dros ddegawd yn ddiweddarach yr agorwyd canolfan ym Mangor a hynny ym mis Tachwedd 1935, ddeufis wedi'r term 'Welsh Region' gael ei ddefnyddio a'i gydnabod am y tro cyntaf gan y BBC.<sup>6</sup>

Erbyn y tridegau roedd y BBC yn gweithredu fel corfforaeth yn hytrach na chwmmi,<sup>7</sup> gyda Phwyllgor Crawford wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion a amlinellwyd gan Reith yn ei gyhoeddiad *Broadcast over Britain*.<sup>8</sup> Sefydlwyd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig dan Siarter Brenhinol gyda'r dasg o hysbysu, addysgu ac adlonni, gyda'i refeniw yn ddibynnol ar ffi trwydded a phenodwyd John Reith yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn atebol i fwrdd o lywodraethwyr.<sup>9</sup> Mae'r cyfnod hwn hefyd yn dynodi sefydlu y ddau wasanaeth, sef y *National Programme*, a'r *Regional Programme* o dan y *Regional Scheme*. Er gwaetha'r teitl rhanbarthol, arwain at roi mwy o awdurdod a phwysigrwydd ar raglenni o Lundain wnaeth y strwythur, gan dybio bod cyfrifoldeb am y cyffredinol a'r gorau yn hanu o'r metropolis canolog. 'Y prif nod oedd tanlinellu unoliaeth y genedl Brydeinig, ac er pob ymdrech gan rai Cymry i bwysleisio pwysigrwydd cydnabod Cymru yn genedl, rhan o'r Western Region ar y cyd â gorllewin Lloegr oedd Cymru o 1927 hyd 1935.'<sup>10</sup> Mynegwyd gofid bod y Gorfforaeth, wrth iddynt greu rhanbarth ymylol *The West* a gynhwysai dde Cymru a de orllewin Lloegr, yn rhwygo'r wlad gan wasanaethu gweddill Cymru â darpariaeth

<sup>3</sup> R. Alun Evans, *Stand-by: Bywyd a Gwaith Sam Jones* (Llandysul: Gomer, 1998), t. xiii.

<sup>4</sup> Davies, t. 5.

<sup>5</sup> Paddy Scannell a David Cardiff, *A Social History of British Broadcasting: Volume One 1922–1939 Serving the Nation* (Oxford: Basil Blackwell Ltd.), t. 305.

<sup>6</sup> Rowland Lucas, *Voice of a Nation: A concise account of the BBC in Wales* (Llandysul: Gomer, 1981), t. 57.

<sup>7</sup> Tom Burns, *The BBC: Public Institution and Private World* (London; Basingstoke: The Macmillan Press, 1977), t. 6. Roedd y BBC wedi cychwyn darlledu fel corfforaeth ers Dydd Calan 1927.

<sup>8</sup> John Reith, *Broadcast over Britain* (Llundain: Hodder and Staughton, 1924).

<sup>9</sup> Andrew Crisell, *An Introductory History of British Broadcasting*, ail rifyn, (Llundain: Routledge, 2005), t. 28.

<sup>10</sup> R. Alun Evans, 'Bywyd a gwaith Sam Jones, a hanes dechrau a datblygu darlledu yn y Gogledd: BBC Bangor 1935–63' (thesis doethurrol heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 1998), t. 8.

Saesneg y *National Service* o Lundain ar drosglwyddydd Daventry.<sup>11</sup> Nid natur ddiwylliannol na ieithyddol ardal oedd wrth wraidd y cynllun rhanbarthol, fel y nododd Scannell a Cardiff, ‘The design of the regional scheme, and the siting of the transmitters and stations, was determined by administrative, technical and economic considerations before any notion of what regionalism might actually mean in terms of people, places and cultural characteristics.’<sup>12</sup> Arweiniodd ffurfiant y rhanbarth *The West* at wrthwynebiadau trwy gydol degawd cyntaf darlledu am well cydnabyddiaeth i Gymru, ond roedd diffyg eglurder yr alwad, ai gwasanaeth Cymreig neu Gymraeg a olygid yn gwanhau y ddadl.<sup>13</sup>

Un o’r mudiadau fu’n pwyso o blaid hunaniaeth darlledu i Gymru a rhaglenni Cymraeg eu hiaith oedd y mudiad Cylch Dewi, gyda’r Athro W. J. Gruffydd<sup>14</sup> a’r llenor Saunders Lewis<sup>15</sup> ymhlith ei aelodau. Atseiniwyd eu galwadau mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn Awst 1927 o dan y teitl *Welsh in Education and Life*, a gomisiynwyd gan lywydd y Bwrdd Addysg, a nodai ‘Wireless is achieving the complete anglicization of the intellectual life of the nation. We regard the present policy of the British Broadcasting Corporation as one of the most serious menaces to the life of the Welsh language.’<sup>16</sup> Bu aelodau Cylch Dewi yn darparu deunydd achlysurol ar gyfer rhaglenni o Gaerdydd, ond ni chai eu cyfraniadau eu clywed ar draws Cymru oherwydd lleoliad a diffyg cyrhaeddiad trosglwyddyddion. Yn eironig ddigon cai darllediadau Cymraeg o Ddulyn gan W.S. Gwynn Williams rhwng 1927 ac 1928 ar Radio Éireann eu clywed yng ngogledd Cymru, ffaith a ddenodd sylw beirniadol yn y wasg ar y pryd.<sup>17</sup>

Yn nhymor yr Hydref 1928 gwnaed cais gan Gofrestrydd Prifysgol Cymru i ddirprwyaeth gyfarfod â Reith i drafod y posibilrwydd o orsaf a adlewyrchai hunaniaeth Cymru. Erbyn Hydref 1931, roedd 10 o 13 cyngor sir Cymreig yn cefnogi’r alwad am well gwasanaeth darlledu i Gymru,<sup>18</sup> ac arweiniodd hynny yn y

---

<sup>11</sup> Davies, t. 55.

<sup>12</sup> Scannell a Cardiff, t. 321.

<sup>13</sup> *ibid.*, t. 47.

<sup>14</sup> William John Gruffydd (1881-1954), T. Parry, (1997). GRUFFYDD, WILLIAM JOHN (1881 - 1954), ysgolhaig, bardd, beirniad a golygydd, *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-GRUF-JOH-1881>> [cyrchwyd 12 Mai 2020].

<sup>15</sup> John Saunders Lewis (1893-1985), T. R. Chapman, (2014). LEWIS, JOHN SAUNDERS (1893-1985), gwleidydd, beirniad a dramodydd, *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-LEWI-SAU-1893>> [cyrchwyd 12 Mai 2020].

<sup>16</sup> Board of Education, Wales. *Welsh in Education and Life* (Llundain: H.M. Stationery off, 1927), t. 164.

<sup>17</sup> Davies, t. 48.

<sup>18</sup> *ibid.*, t. 55.

pen-draw at gyfarfodydd rhwng Reith a Chyngor Prifysgol Cymru. Mynegodd E.R. Appleton,<sup>19</sup> cynrychiolydd *The West Region* ei ofid bod y ‘cultural nationalists’ wedi uno gyda’r cenedlaetholwyr gwleidyddol a bod y BBC wedi colli y tir canol yn y drafodaeth.<sup>20</sup> Er iddo gydnabod her diwallu anghenion uniad de-orllewin Lloegr a de Cymru,<sup>21</sup> diddorol yw ei safbwynt at yr iaith Gymraeg, a gaiff ei grisialu yn ei gyfiawnhad dros fodolaeth ei ranbarth yn llawlyfr y BBC yn 1934, ‘What the world needs today is more dead languages’,<sup>22</sup> datganiad sy’n crisialu yr agwedd yr oedd Cymry’r cyfnod yn ei wynebu mewn trafodaethau gydag ef a’r Gorfforaeth. Dyma’r adeg y cychwynnodd gŵr o’r enw Sam Jones fel ‘part-time general Welsh assistant’ yng Nghaerdydd,<sup>23</sup> ei benodiad yn ymdrech i ateb y cyhuddiad am ddiffyg staff a fedrai’r Gymraeg er mwyn cynhyrchu rhaglenni Cymraeg eu hiaith, brodor o Glydach yng Nghwm Tawe oedd Jones, ac ar y pryd roedd yn ohebydd gyda *The Western Mail*.<sup>24</sup>

Er gwaethaf diffyg unoliaeth y gwasanaeth darlledu yng Nghymru hyd yma, erbyn 1935 roedd hanner cartrefi’r wlad wedi eu trwyddedu i dderbyn darllediadau radio,<sup>25</sup> naill ai trwy set *valve* neu *crystal*. Perthynai mwyafrif y trwyddedau hynny i drigolion sir a gynrychiolai 20% o boblogaeth y wlad, sef Sir Gaernarfon, er gwaethaf y ffaith ei bod ‘ar y ‘fading edge’ o bob trosglwyddydd’.<sup>26</sup> Roedd rhaglenni Cymraeg wedi cychwyn cael eu darlledu o Fanceinion a Lerpwl,<sup>27</sup> a thybed ai y rhain a’r datblygiadau yn yr arfaeth ar gyfer canolfan ddarlledu yn y gogledd oedd wedi cyfrannu at awch yr Arfoniaid am ddarlledu? Codwyd trosglwyddydd ym Mhenmon er na ddaeth yn weithredol tan 1 Chwefror 1937, a olygai na chai ymdrechion glew y staff yng nghanolfan y BBC Bangor eu clywed yn yr ardal a’u hamgylchynnai am bron i flwyddyn a hanner.<sup>28</sup> Daeth sefydlu’r *Welsh Region* â chyfle i benodi staff i wasanaethu’r rhanbarth newydd. Hysbysebwyd naw swydd ym Mai 1935, derbyniwyd 700 o geisiadau a phenodwyd naw o ddynion i lenwi’r swyddi. Yn eu plith yr oedd T. Rowland Hughes, Arwel Hughes a Mansel Thomas, to o ddynion a

<sup>19</sup> Davies, t. 51. Penodwyd E.R. Appleton ar 27 Mawrth 1924 fel olynydd i gyfarwyddwr gorsaf Caerdydd, Corbett-Smith. Ar 4 Chwefror 1929 fe’i dyrchafwyd yn Gyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin, ac ymhellach yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru a De-orllewin Lloegr o 1935–36. Cafodd ei olynu yn ei swydd gan Rhys Hopkin Morris fel Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru.

<sup>20</sup> *ibid.*, t. 62.

<sup>21</sup> Lucas, t. 53.

<sup>22</sup> Davies, t. 58.

<sup>23</sup> Samuel Cornelius Jones (1898-1974) <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-JONE-SAM-1898>> [cyrchwyd 11 Mai 2020].

<sup>24</sup> Davies, t. 56. Penodwyd Sam Jones i swydd lawn amser yn Chwefror 1933.

<sup>25</sup> Davies, t. 393.

<sup>26</sup> *BBC Yearbook* 1936, dyfynnwyd yn R. Alun Evans, (thesis doethurol heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 1998), t. 138.

<sup>27</sup> Davies, t. 56.

<sup>28</sup> R. Alun Evans, *Stand By!*, pennod 3: ‘Magu Teulu (1935-43)’, tt. 89-147.

gynrychiolai'r 'cream of the Welsh-speaking intelligentsia' yn ystod y tridegau a nifer ohonynt yn blant y Mans.<sup>29</sup> Y swydd uchaf ei statws oedd Cyfarwyddwr Rhaglenni, a thybiwyd mai Sam Jones fuasai'n cael ei chynnig gan ei fod eisoes yn ymroi i'r gwaith. Er hyn roedd gan Appleton amheuan am addasrwydd Jones ac aeth ar drywydd gŵr o'r enw William Hughes Jones, a gyfeirwyd ato fel Elidir Sais oherwydd ei duedd i siarad Saesneg gyda'i gyd-Gymry Cymraeg.<sup>30</sup> Cynigiwyd cysur swydd pennaeth y ganolfan newydd ym Mangor i Jones, ond mewn llythyr at T. Rowland Hughes crisialodd ei holl siom wrth iddo gyfeirio at Y Fenai, 'I hate the bloody ditch'; er hynny derbyn y swydd a wnaeth, gan ddychwelyd i'r gogledd a'r man lle bu'n astudio, gan ymgartrefu yno gyda'i wraig Maud, nepell o'r ganolfan ddarlledu newydd ym Mryn Meirion.<sup>31</sup>

Ymysg y staff cyntaf a benodwyd i weithio gyda Sam Jones oedd Nan Davies, a dderbyniodd swydd fel ysgrifenyddes. Efallai iddi weld hysbyseb yn *The Daily Post* ym Medi 1935, yn gofyn am 'Shorthand Typist, Commissionaire, Gardener, Two Cleaning Women and an Office-Boy'<sup>32</sup> a hithau ar y pryd yn gweithio yn Llyfrgell Rydd Caerdydd ar yr Ais.<sup>33</sup> Roedd wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth yn 1933 mewn Hanes a Lladin, a swyddi ysgrifenyddol o'r fath a gynigiwyd i nifer o raddedigion benywaidd y cyfnod rhwng y rhyfeloedd.<sup>34</sup> Yn Lloegr llwyddodd unigolion penderfynol a gychwynnodd eu gyrfaoaedd fel ysgrifenyddesau, fel Isa Benzie a Cecilia Reeves i ddringo'r ysgol, gyda'r naill yn dod yn Gyfarwyddwr Tramor a'r llall yn Gynrychiolydd Paris yn y BBC.<sup>35</sup> Gwnaeth Davies yr un modd wrth i'w gallu amlygu ei hun, a bu ei doniau o gymorth i'w phennaeth Sam Jones gan ddod â budd amlwg i'r arlwy o Fangor. Cyfeiriodd Davies at y cynnwrf cynnar a deimlai:

---

<sup>29</sup> Davies, t. 71. Roedd y sefyllfa yn debyg yn Lloegr hefyd, gyda nifer o'r staff yn blant i offeiriad.

<sup>30</sup> *ibid.*, t. 393.

<sup>31</sup> Evans, *Stand By!*, t. 89.

<sup>32</sup> Geiriad yr hysbyseb. Victor Williams yn Dyfnallt Morgan, *Babi Sam* (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), t. 43.

<sup>33</sup> Roedd Llyfrgell Rydd Caerdydd (1882–1998) wedi ei lleoli ar Yr Ais, yn yr adeilad a adwaenir heddiw fel Yr Hen Lyfrgell. Penodwyd Nan Davies i swydd 'Special (Female)' ar 7 Chwefror 1933, ar gyflog o £160 y flwyddyn, a chychwynnodd ar ei gwaith ar 20 Chwefror 1933. Gwelodd gynnydd ar ei chyflog o £10 y flwyddyn a bu yno tan 31 Mai 1935. Yn ystod y cyfnod hwn nodir cyfeiriad Davies fel 71 Manor Street (sydd yn ardal Y Waun, Caerdydd) ac yna 65 Monthermer Road (ardal Cathays, Caerdydd). Gwybodaeth mewn ebost gan Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays, Cyngor Caerdydd, 7 Mai 2017.

<sup>34</sup> Kate Murphy, *Behind the Wireless: A History of Early Women at the BBC* (Llundain: Palgrave Macmillan, 2016), t.78.

<sup>35</sup> *ibid.*, t. 79.



Mae'n ddigri i feddwl mai dau o'r De oeddem ni yn paratoi'r rhaglenni cynnar hynny o Fangor – Mr Sam Jones yn Shoni go iawn o Glytach, a minnau'n rhyw hanner Shoni o Sir Aberteifi. Yr oedd y Gogledd yn wlad newydd i mi, ac mae'n sicr i'r diddordeb eithriadol hynny a deimlen at bethau oedd mor newydd i ni gael ei drosglwyddo rywfodd i'n rhaglenni – rhyw rannu ein brwdfrydedd ein hunain gyda'r gwrandawyr fyddem ni 'rwy' i bron â meddwl.<sup>36</sup>

Teimlwyd yr un cyffro gan fachgen lleol, Victor Williams, a welodd yr hysbyseb uchod, ac ef a gafodd swydd yr *office-boy* ac yntau ond yn bymtheg oed. Byddai yn y pen-draw yn hyfforddi fel peiriannydd gyda'r Gorfforaeth, a dyma sut y disgrifodd ei ddiwrnod cyntaf:

Dyma gychwyn gyda'r BBC ar Dachwedd 11eg, a chwrdd â gweddill y criw newydd ac [sic.] Miss Nan Davies, ysgrifenyddes Mr Jones; ac ar yr ochr dechnegol â Mr Sidney Hett, y prif-beiriannydd, a'i staff o ddau neu dri gyda'u cefndir fel *radio officers* ar y môr. O'r cychwyn cawsom ar ddeall ein bod mewn byd arbennig – byd y darlledu, doedd dim posib i neb fod yn agos at y pennaeth heb ddal y chwilen, ac arhosodd y brwdfrydedd cynnar hefo fi ar hyd fy ngyrfa.<sup>37</sup>

Mae Williams yn dwyn i gof weithgareddau fel tennis bwrdd ar ôl cinio, te ar y lawnt yn yr haf, teithiau cerdded i Eryri a thripiâu ar y Fenai.<sup>38</sup> Cafodd yr awyrgylch anffurfiol a chlos hwn ei ddarlunio gan Morfudd Mason Lewis<sup>39</sup>, a benodwyd yn ysgrifenyddes i Sam Jones yn 1937:<sup>40</sup>

Ac oedd Sam yn disgwyl i chi gymryd rhan yn y cyfan i gyd, nid gweithio naw tan bump, nid gweithio yn y swyddfa yn teipio llythyrau ac yn ffonio a trefnu pethe. Ond mi fydde fe'n dweud yn aml, 'mae gen i rihyrsal bach heno, a licen i chi aros ymlaen, a mae pawb YN aros', ac mi o'dd pawb yn aros. Nan a finne a hyd yn oed y *commissionaire*, yntau'n neud te cyn bod ni'n dechre ar waith y nos. A minne weithie yn ffreio sosejjs yn ei gwtsh bach e cyn mynd ati.<sup>41</sup>

<sup>36</sup> Nan Davies, *Dyddiau Cynnar ym Mangor*, darlledwyd 12 Chwefror 1948. R. Alun Evans, (thesis doethurol heb ei gyhoeddi), t. 147.

<sup>37</sup> Morgan, *Babi Sam*, t. 43.

<sup>38</sup> *ibid.*, t. 43.

<sup>39</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, *Cywain: Dathlu 50 mlynedd o ddarlledu*, 16 Chwefror 1973, Hywel Gwynfryn, Ednyfed Hudson Davies. Cymru: BBC Cymru. Daeth Morfudd Mason Lewis yn llais Cymru i genhedlaeth gyfan rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn sgil ei gwaith yn llais *continuity*, sef y bwch rhwng rhaglenni.

<sup>40</sup> Evans, *Stand-by*, t. 109. Ers 15 Chwefror 1936 roedd teitl swydd Sam Jones wedi newid o fod yn 'Gynrychiolydd Bangor' i fod yn 'Gynrychiolydd Gogledd Cymru', ac roedd Nan Davies wedi symud i fod yn 'Gynorthwy-ydd Rhaglenni'. Daeth Susie Evans (nee Thomas) i fod yn ysgrifenyddes i Jones cyn i Morfudd Morris (nee Mason Lewis) gael ei phenodi i'r swydd.

<sup>41</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, *Cywain*.

Yn ddiâu, byddai'r arfer o ymwneud â chymysgedd o raglenni wedi galluogi Davies i fagu profiad o weithio ar amrywiaeth o *genres*, ac mae cipolwg ar restrau, neu'r *billings*, yn *The Radio Times* yn ystod y tridegau a'r pedwardegau yn cadarnhau hyn. Yn 1939, er enghraifft, cynhyrchodd ddogfen ar fywyd pysgotwr yng Nghonwy (*Fishers of the Shallows*),<sup>42</sup> rhaglen ffeithiol i'r rheiny oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig (*Cefn Gwlad*)<sup>43</sup>, addasiad dramatig o ddyddiaduron Edgar Christian a oedd yn fforiwr o Ganada a chanddo gysylltiad gyda Chaernarfon (*Unflinching*)<sup>44</sup>, a chyflwynodd fwletin newyddion (*Olwyn yr Awr*)<sup>45</sup>. Mae'r modd y bu iddi wau rhwng rhaglenni yn ei mam-iaith a'i hail iaith yn dangos ei bod yn hollol hyderus yn y ddwy, a'r arlwy yn adlewyrchu gweledigaeth gynnar y BBC o gynnig cymysgedd o gynnwys i bawb, gan obeithio y deuent ar draws rhywbeth a'u diddorai.

Mewn cyfarfod o Gyngor Darlledu Cymru ugain mlynedd yn ddiweddarach pan wahoddwyd Davies i siarad am ei swydd, adlewyrchodd ar yr amodau gwaith yng Nghymru:

Being a member of the Talks Department in a Region is very different from being a member of the Talks Department in London, where, with a large staff of about 40 producers, a far greater measure of specialization is possible. In the Regions, we have to be Jack – or Jills – of all Trades. And in Wales, if there is a Welsh equivalent of Jack of all Trades, we have also to be that as far as programmes in the Welsh language are concerned.<sup>46</sup>

<sup>42</sup> BBC Genome, *Fishers of the Shallows* (10 Mawrth 1939),

<<http://genome.ch.bbc.co.uk/b67c9924bdbf45c59ca719cee0116398>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Nodir 'The Life Story of an inshore [sic.] Fisherman. As trid [sic.] to Marjorie Wynn-WillUiams [sic.] by Kick Parkinson, inshore fisherman of Conway, North Wales [sic]. Produced by Nan Davies (' Pysgvs&odwyr [sic.] y Beisddyfroedd ': rhaglen am afon Conwy).' Mae'r nodyn gwreiddiol yn dangos nifer o gamgymeriadau teipio sy'n nodweddiadol o'r disgrifiadau o raglenni o Gymru.

<sup>43</sup> Ibid., *Cefn Gwlad* (1939–1951), (4 Ebrill 1939) <<https://genome.ch.bbc.co.uk/b3794864214e418880e74e02f0548589>>

[cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Nodir: 'Rhaglen yn bennaf i bobl y wlad. Yn cynnwys: Nodion Naturiaethwr - John Jones, Tafodiaith ddiethr tref Caernarfon - T. Hudson Williams, Helynt y Llwybr - stori wedi ei seilio ar ffaith Cronicl Plwy Clynnog - Alice Griffith, Lloffion Gwlad - Tom Jones Hughes, Hidlion Mis - R. Alun Roberts. Y rhaglen wedi ei threfnu gan Nan Davies.'

<sup>44</sup> Ibid., *Unflinching* (4 Mai 1939), <<http://genome.ch.bbc.co.uk/c1bd6359098042a7919f7a153c7a6030>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Nodir: 'A tale of heroism in the wastes of Canada, based on the diary of Edgar Christian. The programme, prepared by George Seaver and Betty Dew Roberts and produced by Nan Davies, makes use of the diary and of letters from Christian to his Parents at Caernarvon, North Wales. (To be recorded and broadcast again in the Regional programme tomorrow at 2.45) (*Dewrgalon* stori arwriaeth a thranc Edgar Christian yn niffeithwch gwyn Canada).'

<sup>45</sup> Ibid., *Olwyn yr Awr* (19 Ebrill 1939),

<<http://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=olwyn+yr+awr&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00#search>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Nodir: 'Cefndir Newyddion Mis o dan ofal Nan Davies (Radio Newsreel).' Darlledwyd saith o raglenni misol yn y gyfres hon, o Ragfyr 1938 i Fehefin 1939 gyda'r wybodaeth am dair ohonynt yn enwi Nan Davies, a'r lleill yn nodi enw Elwyn Evans.

<sup>46</sup> BBC Written Archive Centre RBCW54/55, 'Precis of statement made by Miss Nan Davies, Talks Producer', t. 1.

Mae hyn yn cysylltu gyda'r canfyddiad a amlygwyd yn yr adolygiad llenyddol o fenywod yn cael mwy o gyfleoedd mewn darlledu rhanbarthol neu leol, oherwydd amodau economaidd, ac na ystyriwyd y ddarpariaeth mor ddifrifol â darlledu cenedlaethol.

Yn ystod y pedwardegau un o'r rhaglenni Saesneg y cafodd Nan Davies gyfle i ymwneud â hi oedd *Country Magazine* (1942–1954), a gaiff ei disgrifio yn *The Radio Times* fel rhaglen bythefnosol o gefn-gwlad, ac fe'i darlledwyd am y tro cyntaf ar wasanaeth yr *Home Service* ar ddydd Sul, 3 Mai 1942.<sup>47</sup> Roedd Davies wedi ei magu yn un o chwech o blant ar aelwyd amaethyddol yn ardal wledig Tregaron, felly deallai anghenion y gynulleidfa gefn-gwlad i'r dim. Yn achlysurol deuai'r gyfres o wahanol siroedd yn Lloegr, ond ar 1 Tachwedd 1942, ceid cyfeiriad at *Scottish Edition*, a'r staff yng Nghymru yn darparu *Welsh Edition* ar 29 Tachwedd 1942. Fe'i disgrifiwyd yn *The Radio Times* fel, 'Fortnightly programme No. 16 - Welsh edition. Introduced by William Aspden. Arranged and produced by Nan Davies.' Mae'r ffaith mai dim ond enw Davies a nodwyd yn amlygu bod awenau cyfrifoldeb wedi cael eu trosglwyddo iddi hi yn llwyr er mwyn gwireddu'r rhaglen ar yr awyr. Bu'r gyfres ar yr awyr am ddeuddeg mlynedd yn ddi-dorr; a bu i Davies ddarparu pedair ar ddeg o raglenni gan amrywio'r arlwy o *General Number from Wales* i raglenni o ardaloedd penodol fel Sir Gaernarfon, Sir Frycheiniog a Sir Benfro rhwng 1942-1946, a rhwng 1949 a 1954. Enwau eraill o Gymru a fu'n gysylltiedig â'r gyfres gefn-gwlad hon oedd Sam Jones ei hun, P.H. Burton a Myfanwy Howell.

Merch o Langefni, Ynys Môn oedd Myfanwy Howell (nee Roberts) (1903–1988), a dderbyniodd radd dosbarth cyntaf yn y *Natural Sciences Tripos* o Brifysgol Caergrawnt yn 1924, a gradd MA yn 1928.<sup>48</sup> Hwyluswyd ei mynediad i'r brifysgol gan Ysgoloriaeth Gilchrist a dderbyniodd yn 1921, y ferch gyntaf o Gymru i'w

---

<sup>47</sup> BBC Genome, *Country Magazine*, <<http://genome.ch.bbc.co.uk/0e28f29eb44f4e82b5c23b61e39bbbf2>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Nodir: 'Country Magazine: a programme mainly for country people.' <<http://genome.ch.bbc.co.uk/b3794864214e418880e74e02f0548589>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017]. Cyn Y Rhyfel darlledwyd y gyfres yn fisol ar y gwasanaeth rhanbarthol, ond o'r 6ed o Chwefror 1942 darlledwyd saith o raglenni ar wasanaeth yr *Home Service*, pump ohonynt yn unig sy'n enwi aelod o staff sef Myfanwy Howell. <<http://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=cefn+gwlad&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00#search>> [cyrchwyd 5 Chwefror 2017].

<sup>48</sup> Ni fyddai Howell wedi cael mynychu seremoni raddio gan nad oedd y brifysgol hon yn gwobrwyo graddau i fenywod tan 1948. Ebyst gan lyfrgellydd Coleg Girton, Caergrawnt, 28 Ebrill 2020 a 13 Mai 2020. Term sy'n benodol i Brifysgol Caergrawnt yw'r *tripos*, sy'n disgrifio maes cyffredinol o astudiaeth.

derbyn.<sup>49</sup> Roedd Howell yn hynod falch o gael astudio yng Ngholeg Girton gan mai Cymraes o'r enw Emily Davies oedd un o'i sefydlwyr,<sup>50</sup> a pharhaodd ei diddordeb yn niwylliant Cymru yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol gan iddi fynychu'r Gymdeithas Gymreig a'r capel, a dyna lle y cyfarfu ei darpar wŵr, Cymro o'r enw Illtyd Mark Howell oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Sant Ioan.<sup>51</sup> Wedi iddi raddio bu'n gweithio fel athrawes yn *Swansea Girls' High School* (1924–26), lle cai Gwyddoniaeth ei ddysgu yn labordai Ysgol Ramadeg y Bechgyn oherwydd diffyg adnoddau yn ysgol y merched, ac yna dychwelodd yn nes i'w hardal enedigol a'i phenodi yn athrawes yn Ysgol Ramadeg Caernarfon (1926–29). Yn ystod y cyfnod hwn bu Howell a'i brawd Gwilym Roberts yn weithgar gydag ymgyrch etholiadol Megan Lloyd George, oedd yn ymgeisydd Rhyddfrydol dros etholaeth Sir Fôn. Bu George yn llwyddiannus gan ennill ei sedd yn San Steffan yn 1929, yr Aelod Seneddol benywaidd cyntaf i gynrychioli Cymru.<sup>52</sup>

Yn 1929 hefyd y priododd Howell, ac ymgartrefodd yng Nghasnewydd lle gweithiai ei gŵr ym musnes haearn a dur y teulu. Flwyddyn yn ddiweddarach ganwyd eu hunig blentyn, Betty, ac roeddent fel teulu'n ddigon cefnog i gael cymorth nyrs ac yna *nanny* pan oedd hi'n hŷn. Yn ystod y degawd dilynol dechreuodd Howell ymwneud â darlledu a chychwyn ysgrifennu sgrïptiau ar gyfer gwasanaeth ysgolion y BBC. Ceir y cyfeiriad cyntaf ati mewn rhaglen ugain munud o dan y teitl *Tro i'r Wyl Lyfrau* a ddarlledwyd ar 22 Chwefror 1937 ar wasanaeth *The Regional Programme: Wales and the West*. Dyma a nodir yn *billings The Radio Times*:

(A visit to the Welsh Book Festival, at the Lesser Hall, City Hall, Cardiff). Crwydra sylwedydd ymysg y llyfrau a'r llawysgrifau a rhydd ddisgrifiad ohonynt a pheth o hanes y gwyddonwyr Cymreig. Sonnir hefyd am arwyddocad gwyr [sic.] fel Hugh Owen Thomas, Syr Robert Jones a William Preece yn natblygiad gwyddoniaeth. Y sylwedydd fydd Myfanwy Howell.<sup>53</sup>

<sup>49</sup> R. Alun Evans, thesis doethurol heb ei gyhoeddi, t. 216.

<sup>50</sup> Emily Davies (1830–1921), <<https://www.english-heritage.org.uk/visit/blue-plaques/emily-davies/>> [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2020]. Roedd Davies yn ferch i John Davies (1795–1861), yr offeiriad a'r athronydd, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-JOH-1795>> [cyrchwyd 30 Gorffennaf 2020].

<sup>51</sup> Cyfweliad rhwng yr awdur a merch Myfanwy Howell, Betty Parker, Awst 2017.

<sup>52</sup> Parhaodd cysylltiad y teulu gyda theulu George. Mae ei merch Betty yn cofio ymweliadau yng nghwmni Lloyd George i Dŷ'r Cyffredin ac â chartref y teulu yn Llanystumdwy. Cyfweliad Betty Parker, Awst 2017.

<sup>53</sup> BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ba51e2c0db8d474baf118a801dd3caf>> [cyrchwyd 30 Ebrill 2020].

Roedd Howell yn troi at faes oedd yn gyfarwydd iddi ar gyfer yr eitem hon, maes a brofodd yn heriol i ddarlledwyr a ddarparai raglenni Cymraeg eu hiaith, fel y cydnabu Nan Davies flynyddoedd yn ddiweddarach.<sup>54</sup> At faes tebyg y trodd Howell ar gyfer mwyafrif ei chyfraniadau i Wasnaeth Ysgolion y BBC ar *The Regional Programme* ym mis Medi 1937, gan gynnig cyfres wythnosol o 12 o raglenni o dan y teitl *Natur O'n Cwmpas*.<sup>55</sup> Câi plant Cymru gyfle cyson i glywed am natur ac am anifeiliaid gwahanol mewn rhaglenni gyda theitlau fel 'Yr Ystlum' ac 'Y Coed yn Mynd i Gysgu'. Darlledwyd dwy gyfres bellach y flwyddyn ganlynol, a nododd y *billings* ar gyfer rhaglen gyntaf yr ail gyfres, 'Tipyn o hanes rhamantus ac anturus Llysywen neu Slywen. Daw pysgotwr at y meicroffon gyda Myfanwy Howell i roddi dipyn o'i brofiad personol o lisywod.'<sup>56</sup> Dyna fuasai'r arfer yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cyfyngiadau offer darlledu, buasai'n rhaid i'r person a gai ei gyfweld ymweld â stiwdio gyda sgript, a seiliwyd ar ei brofiad, wedi ei chynllunio yn fanwl o flaen-llaw.

Mae ambell i raglen arall yn awgrymu ysgogiad ar gyfer gweithgaredd pellach gan athrawon yn yr ysgolion, 'Y mae pawb yn adnabod pryf genwair neu abwydyn. Creadur bach defnyddiol iawn ydyw. Gallwn wneud arbrofion syml arnynt yn yr ysgol i weld sut y maent yn gweithio.'<sup>57</sup> Mae'r cyfeiriad at y ferf luosog 'gallwn' yn cyfleu'r cynodiad o berthynas agos gyda'r gwrandawyr, a chaiff hyn ei atsain mewn nodwedd arall yn y cyfresi yma sef yr awydd i osod plant ynghanol y gweithgaredd, 'Hanes plant ysgol a geisiodd gadw dyddiadur Natur gan nodi ynddo bob peth a welent a ddangosai rod y tymhorau. Cawn glywed sut y gwyddent fod y gwanwyn yn dod.'<sup>58</sup> Daeth yr agwedd hon i amlygu ei hun yng ngwaith Howell yn ddiweddarach, gan iddi ddod â dau blentyn o'r enw Hughie a Beti i sylw gwrandawyr yn gyson ar *Awr y Plant*.<sup>59</sup> 'Beti' oedd ei merch, ac mae hithau'n cofio'r profiadau hyn, ac wedi cadw sgript un o'r rhaglenni gyda Tom Jones, garddwr Bryn Meirion.<sup>60</sup> Mae'r atgof hwn yn cyd-fynd â disgrifiad o raglen a ddarlledwyd ar 7 Hydref 1941, 'Dowch am

---

<sup>54</sup> Gweler Pennod 4, t. 171, tn. 77.

<sup>55</sup> BBC Genome, *Darlledu i'r Ysgolion yng Nghymru*, 24 Ionawr i 28 Mawrth 1938, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/114291e852734055a478f30f2e86dd3f>> [cyrchwyd 30 Ebrill 2020].

<sup>56</sup> *ibid.*

<sup>57</sup> *ibid.*, 7 Mawrth 1938, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/c365baed352c45f9b0163487ca82a78a>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>58</sup> *ibid.*, 21 Chwefror 1938, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/d68c3f5a8eb3422f9586142ceb61d532>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>59</sup> *ibid.*, *Yma ac Acw*, 3 Tachwedd 1938, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/ffda931669d44bf9b7314888ff258021?page=59>> [cyrchwyd 1 Mai 2020]. Dechreuodd Howell gyfrannu at y ddarpariaeth i blant ar 28 Hydref 1938 gyda rhaglen o dan y teitl 'Yma ac Acw' yn sôn am 'ryfeddodau'r coed a'r meysydd'.

<sup>60</sup> Roedd yr hysbyseb gyntaf am swyddi i ganolfan y BBC ym Mangor yn 1935 yn gofyn am arddwr. Gweler tudalen 4 uchod. Cyfweiliad yr awdur gyda Betty Parker, Awst 2017.

Dro: Gyda diwedd yr haf daw diwedd hefyd ar grwydro Myfanwy Howell a Hughie a Beti. Ond os deil y tywydd cawn gyfle i fynd gyda hwy ar un daith arall i erddi'r plas, yng nghwmni Tom Jones y garddwr.<sup>61</sup> Erbyn hyn buasai Betty yn unarddeg oed, ac wedi bod yn byw gyda'i mamgu yn Sir Fôn ers pum mlynedd, gan iddi gael ei danfon yno o gartref ei rhieni yng Nghasnewydd pan sylweddolwyd nad oedd hi'n medru'r Gymraeg. Er ei bod yn disgrifio hyn fel penderfyniad eithaf rhyfedd, cafodd blentyndod hapus, a chafodd ei chyfnod yn y gogledd ei ymestyn gryn dipyn yn hwy nag a fwriadwyd oherwydd dyfodiad Yr Ail Ryfel Byd.

Ar 3 Medi 1939 cyhoeddwyd bod Prydain yn mynd i ryfel a phenderfynodd y BBC sefydlu gwasanaeth yr *Home Service* i ddisodli y *National* a'r *Regional*, gyda'r bwriad o uno Prydain. Golygai hyn na fuasai darpariaeth i Gymru yn benodol yn cael ei darlledu, ac o'r herwydd nid oedd unrhyw fwriad i ddarlledu rhaglenni Cymraeg yn ystod y cyfnod. Lleisiodd Rhys Hopkin Morris, Cyfarwyddwr Cymru, ofid nifer bod yna rannau o'r boblogaeth oedd yn uniaith Gymraeg, ac felly wedi eu heithrio o gyhoeddiadau pwysig a newyddion.<sup>62</sup> Roedd pryder hefyd y buasai'r ymdrech i adfer unrhyw raglenni Cymraeg a nodweddi'r amserlen cyn y Rhyfel yn profi'n dalcen caled wedi hynny. Ymdrechodd Hopkin Morris i ddiogelu'r ddarpariaeth ac yn y pen-draw cytunwyd ar gyfartaledd o 2 awr 15 munud yr wythnos o arlwy, sef tua hanner yr hyn a gynhyrchwyd cyn y Rhyfel.<sup>63</sup> Roedd angen i raglenni Saesneg eu hiaith a gynhyrchwyd yng Nghymru sicrhau apêl tu hwnt i ffiniau'r wlad, ac roedd unrhyw awgrym o ddiwallu'r Cymry na fedrai'r Gymraeg yn peri problem i'r Brif Swyddfa yn Llundain oherwydd tybiwyd y buasai ymateb i anghenion o'r fath yn arwain at alwadau o du rhanbarthau Lloegr.<sup>64</sup> Mae'r ymateb hwn yn arwydd o'r modd y deisyfai'r BBC unoliaeth ar draws eu darpariaeth yn ystod cyfnod y Rhyfel a'r modd yr ystyrid Cymru ganddynt fel un o'u rhanbarthau yn hytrach nac fel gwlad ag iddi hunaniaeth darlledu.

Caiff y weledigaeth hon ei hadlewyrchu yn y cynnyrch oherwydd roedd yr arlwy o Gymru a ddarlledwyd yn ystod cyfnod y Rhyfel yn efelychu yr hyn a ddarparwyd

---

<sup>61</sup> BBC, *The Radio Times, 1923–2009, Awr y Plant*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ae3fbb7026584fa983bbc0c84d8536bc>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>62</sup> Davies, t. 391. Penodwyd Rhys Hopkin Morris i olynu Appleton yn 1936, gyda theitl 'Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru' i'r swydd rhwng 1936 a 1939, ac yna'r teitl 'Cyfarwyddwr Cymru' rhwng 1939 a 1945.

<sup>63</sup> Thomas Hajkowski, *BBC and National Identity in Britain, 1922-53* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2010), t. 182.

<sup>64</sup> *ibid.*, t. 184.

gan y BBC yn ganolog, ei nod oedd i amlygu ymdrech ryfel Prydain a chysylltu hynny gyda Chymru, Cymreigrwydd neu themâu propaganda ehangach.<sup>65</sup> Rhaglen a adlewyrchai'r tair elfen yma oedd *Women of the Land* a ddarllledwyd ar 27 Mawrth 1940 gan Nan Davies ar gyfer yr *Home Service*, ac a gynigai: 'A recorded picture of the Land Army in the Vale of Glamorgan'.<sup>66</sup> Mae'n ddiddorol ystyried pam mai i Fro Morgannwg yn benodol yr aed i wneud y rhaglen hon, nodwyd yn *The Radio Times* bod hyn yn gwbl briodol: '...for the county is one of of the few that has been able to find employment for all its recruits'.<sup>67</sup> Roedd y rhaglen yn darlunio menywod wrth eu gwaith ar ffermydd amrywiol ac yn rhoi darlun o'r gwahanol fathau o swyddi oedd ar gael i fenywod ar y tir. Nodwyd i'r rhaglen gael ei threfnu gan Dorothy Howard Rowlands, ond iddi gael ei chynhyrchu gan Davies. Nodwyd yn *The Radio Times*, 'Producer Nan Davies has made no attempt to "glamorise" the work of the land girl, but is presenting a straightforward radio picture of her life and activities.'<sup>68</sup>

Gallai Davies uniaethu gyda phrofiad Merched y Tir i ryw raddau gan y byddai'n dychwelyd at ei theulu yn Nhregaron yn ystod gwyliau'r haf i adfer ei hegri neu, fel y'i disgrifiwyd gan ei nai, Gwyn Davies, i 're-charge'r batteries', ac i ymuno yn achlysur y cynhaeaf gwair.<sup>69</sup> Roedd y syniad o ddefnyddio'r cyfrwng radio i greu lluniau ym meddwl y gwrandäwr er mwyn dod â'r byd yn fyw yn un y cyfeiriwyd ato'n fynych yn ystod y cyfnod hwn. Defnyddiwyd y term 'radio picture' mewn dau gynhyrchiad arall o waith Davies sef *The Home Front: Through the Night* a ddisgrifir fel 'a radio picture of a night journey across South Wales in wartime'<sup>70</sup> a *Children's Hour*; 'The Land of Morgan': written and produced by Nan Davies. This is a radio picture of the county of Glamorgan in South Wales.'<sup>71</sup> Adlewyrcha hyn y modd yr oedd darllledwyr yn defnyddio cyfrwng clywedol i beintio lluniau ym meddwl y gwrandäwr, crefft a brofodd yn llyffethair wrth iddynt geisio addasu eu hunain i gyfrwng teledu yn hwyrach yn ystod eu gyrfaoedd.

---

<sup>65</sup> Hajkowski, t. 186.

<sup>66</sup> BBC Genome, *Women of the Land* (27 Mawrth 1940), <<http://genome.ch.bbc.co.uk/ee0d3b30f1c54402a9d0c29097da3d03>> [cyrchwyd 7 Chwefror 2017].

<sup>67</sup> *ibid.*

<sup>68</sup> BBC Genome, *Women of the Land* (27 Mawrth 1940).

<sup>69</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur a Gwyn Davies, Mai 2016.

<sup>70</sup> BBC Genome, *The Home Front: Through the Night* (30 Ebrill 1940), <<http://genome.ch.bbc.co.uk/06931634802943a09e69213dd91eeda0>> [cyrchwyd 7 Chwefror 2017].

<sup>71</sup> BBC Genome., *Children's Hour: The Land of Morgan* (20 Awst 1944), <<http://genome.ch.bbc.co.uk/6b3a6b59a6a5453190d8812e5962e29d>> [cyrchwyd 7 Chwefror 2017].

Enghraifft o gyfres yn y Gymraeg oedd yn cysylltu gyda'r thema o bropaganda rhyfel oedd *Fel na Choller Dim* a ddarllwyd yn ystod haf 1940, a'i bwriad oedd egluro 'Sut i wneud y gorau allan o'n bwydydd. War-time diet, a talk in Welsh'.<sup>72</sup> Cyflwynwyd y rhaglen gan Myfanwy Howell a fu'n traddodi darlithoedd propaganda i aelodau gwahanol gymunedau ar ran y Weinyddiaeth Wybodaeth, ynghyd â sgyrsiau ar fwyd a maeth. Gellid cymharu profiad Howell gyda'r cyflwynydd coginio Marguerite Patten,<sup>73</sup> a fu'n gweithio i'r Adran Cyngor Bwyd gyda'r Weinyddiaeth Fwyd yn ystod y Rhyfel ac yn cyfrannu i raglenni'r BBC fel *Woman's Hour* (1946–)<sup>74</sup> a *Kitchen Front* (1940–44)<sup>75</sup> ar y radio gan ganolbwyntio ar gynghori sut i ymdopi gyda dogni bwyd. Roedd modd olrhain y diddordeb hwn gan Howell i'w maes astudiaeth yng Nghaergrawnt, gan iddi yn ystod ei chyfnod yno fynychu darlithoedd y biocemegydd Syr Gowland Hopkins ar Werthoedd Bwyd a Fitaminau.<sup>76</sup> Gweddaï yr agwedd hon hefyd gyda bwriad mudiad yr ymunodd Howell ag ef yn ystod y dauddegau ac a barhaodd yn agos at ei chalon trwy gydol ei hoes sef Sefydliad y Merched a sefydlwyd yn Sir Fôn yn 1915 â'r nod o adfywio ardaloedd gwledig ac annog menywod i gynhyrchu bwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.<sup>77</sup>

Ar ddyfodiad yr Ail Ryfel Byd roedd Howell wedi penderfynu dychwelyd i Sir Fôn i ymuno gyda'i merch,<sup>78</sup> ac arweiniodd ei hymwneud gyda rhaglenni y BBC ym Mangor at ei phenodi i swydd ar 26 Mai 1941 fel cynorthwy-ydd rhaglenni.<sup>79</sup> Adlewyrchai hyn arfer y BBC o benodi menywod ar adeg pan oedd gofid am y nifer

---

<sup>72</sup> BBC Genome, *Fel na Choller Dim* (29 Awst 1940), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/7877b316f3274945ae67efc7490b6da8>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>73</sup> Marguerite Patten (1915–2015), BBC: BBC History, *Speaking to you at Home*. <<https://www.bbc.co.uk/historyofthebbc/100-voices/pioneering-women/speaking-to-you-at-home>> [cyrchwyd 1 Mai 2020]. Wedi'r Rhyfel bu Patten yn cyfrannu i *Designed for Women* a *For the Housewife*. Bu'n allweddol yn ei rôl o siarad gyda menywod a'u haddysgu ar gyfnod pwysig. Gweler ymhellach droednodyn 158.

<sup>74</sup> *Woman's Hour*, (1946–), BBC: BBC History, *Woman's Hour, 7 October, 1946*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/october/womans-hour>> [cyrchwyd 6 Mai 2023].

<sup>75</sup> *Kitchen Front* (1940–44), Sian Nicholas, BBC: History of the BBC, *Under siege: The Kitchen Front*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/research/kitchen-front>> [cyrchwyd 6 Mai 2023].

<sup>76</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur a Betty Parker, merch Myfanwy Howell, Awst 2017.

<sup>77</sup> The Women's Institute, *History*, <<https://www.thewi.org.uk/about-us/history-of-the-wi>> [cyrchwyd 02 Mai 2020]. Yn 1949 fe'i hetholwyd yn Gadeirydd cyntaf Pwyllgor Siroedd Cymru ac fe'u cynrychiolai ar y Pwyllgor *Executive* Cenedlaethol a olygai deithiau cyson i Lundain, yn ogystal ag ymweld â changhennau ar draws Cymru. Archif Genedlaethol Sefydliad y Menywod, Llyfrgell Menywod, LSE. Howell oedd cadeirydd cynhadledd flynyddol y mudiad yn Aberhonddu yn 1953 ac yng Nghaerfyrddin y flwyddyn ddilynol. <<https://archives.lse.ac.uk/Record.aspx?src=CalmView.Catalog&id=5FWI%2fA%2f2%2f2%2f07&pos=1>> [cyrchwyd 02 Mai 2020].

<sup>78</sup> Penderfynwyd gwerthu y cartref yng Nghasnewydd ac aeth ei gŵr Illtyd i fyw mewn fflat yng nghartref ei dad yn y ddinas. Cyfweiliad Betty Parker, Awst 2017.

<sup>79</sup> Evans, (traethawd doethurrol heb ei gyhoeddi), t. 205.



o weithwyr gan i'r dynion gael eu galw i wasanaethu.<sup>80</sup> Roedd yna gyswllt eisoes rhwng Howell â Sam Jones, gan mai un o ffrindiau agos Howell ers dyddiau ysgol oedd ei wraig Maud, a rhannai'r ddwy ddiddordeb mewn chwarae hoci.<sup>81</sup> Drannoeth ei phenodi, nododd yn ei dyddiadur 'Announced my first programme – Hogia'r Gogledd', a chyn pen dim roedd yn ysgwyddo cyfrifoldeb, 'June 7: Left in charge for first time.'<sup>82</sup> Ystyriodd adael y BBC ym mis Mai 1942 gan lwyddo yn ei chais am swydd yn swyddfa leol y Weinyddiaeth Lafur, fel 'Womanpower Officer' ond dewis dal ati ym maes darlledu a wnaeth yn y pen-draw.<sup>83</sup> Bu'n gweithio'n rhan-amser am gyfnod rhwng 26 Mai 1942 a 1 Hydref 1942,<sup>84</sup> cyn ymddiswyddo ar 31 Gorffennaf 1946. Roedd y penderfyniad hwn yn gyson gyda pholisi'r BBC wedi diwedd y Rhyfel, 'Their [women's] salary scales were lower, and, if married, they would be obliged to resign when hostilities ended, thus allowing the reappointment of male employees who had undertaken other duties during the war.'<sup>85</sup> Collodd y BBC unigolyn disglair a fedrai droi ei llaw at bob math o genres a rhaglenni, gan gynnwys pynciau gwyddonol eu natur, ac ymdopi â gwaith cynhyrchu a chyflwyno.

Menyw arall a benodwyd i swydd gyda'r BBC yn ystod y Rhyfel oedd brodor o Llynedd sef Lorraine Davies (née Thomas), neu Jameson fel oedd ar y pryd,<sup>86</sup> un arall o weithwyr benywaidd cyfnod y Rhyfel.<sup>87</sup> Roedd Davies wedi hyfforddi fel athrawes yng Ngholeg y Barri a dengys cylchgrawn y coleg, *Tân y Ddraig* yn 1934, iddi fod yn weithgar ar bwyllgor Y Gymdeithas Gymraeg ochr yn ochr â Norah Isaac.<sup>88</sup> Cafodd gyfle hefyd i bortreadu'r ferch o flodau mewn fersiwn cynnar o ddrama *Blodeuwedd* Saunders Lewis, 'a chymaint oedd llawenydd Mr. Lewis wrth weld a chlywed y perfformiad fel y'i hysbrydolwyd, chwedl yntau, i orffen ei waith.'<sup>89</sup> Cafodd gyfle hefyd i chwarae'r brif ran mewn cynhyrchiad o Hedda Gabler, gyda

---

<sup>80</sup> Davies, t. 137. Yng Nghymru consgriptiwyd cyflogai megis Alun Llywelyn-Williams i'r fyddin a Geraint Dyfnallt Owen i'r Gwasanaeth Cudd-Wybodaeth.

<sup>81</sup> Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 216. Parhaodd Howell i chwarae hoci yn ystod ei blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Caergrawnt. Mae llun ohoni a'i henw wedi ei nodi fel 'A.M. Roberts' yn nhîm hoci Coleg Girton 1921-2, ond nid yw yn ymddangos yn nhimau 1922-3 na 1923-4. Ebst gan lyfrgellydd Coleg Girton, Prifysgol Caergrawnt, 30 Gorffennaf 2020. Cyfeirnod archif: GCPH 10/7/24.

<sup>82</sup> Dyddiadur Myfanwy Howell, oedd ar y pryd ym mediant ei merch, Betty Parker. Dyfynnwyd yn Evans, t. 205.

<sup>83</sup> *ibid.*, 20 Mai 1942.

<sup>84</sup> Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 205.

<sup>85</sup> Archif Genedlaethol Sefydliad y Menywod, Llyfrgell Menywod, LSE. Howell oedd cadeirydd cynhadledd flynyddol y mudiad yn Aberhonddu yn 1953 ac yng Nghaerfyrddin y flwyddyn ddilynol. <<https://archives.lse.ac.uk/Record.aspx?src=CalmView.Catalog&id=5FWI%2fA%2f2%2f2%2f07&pos=1>> [cyrchwyd 22 Mehefin 2020].

<sup>86</sup> Ganwyd Davies yn Aber-dâr ond symudodd y teulu i ardal Glyn-nedd pan oedd hi'n ifanc. Roedd yn un o dri o blant, glöwr oedd ei thad a'i mam yn wniadwraig o fri, talent a etifeddwyd gan Davies.

<sup>87</sup> Davies, t. 136.

<sup>88</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1934, t. 9.

<sup>89</sup> *ibid.*

Isaac yn portreadu modryb Julia, ac fe'u hyfforddwyd gan Miss Cassie Davies oedd yn ddarlithydd yno ar y pryd.<sup>90</sup> Ni chyfyngwyd talent Lorraine Davies i'r llwyfan yn unig; cyhoeddwyd cerdd bruddglwyfus ganddi yn *Tân y Ddraig* sef 'Bu Rhywbeth Farw Heno yn Byd',<sup>91</sup> ynghyd ag erthygl yn egluro natur yr addysg yn Ysgol St Nicholas lle oedd ar ymarfer dysgu.<sup>92</sup> Dengys hyn oll bod cwmpawd ei diddordeb yn eang, a'i bod ymhlith yr ychydig o fyfyrwyr a ymddangosai yn y cylchgrawn, yn ogystal â chyfrannu ato . Yn 1935 cafodd gyfle i ymwneud gyda'r BBC, a chydabuwyd ei hymdrechion,

We congratulate Lorraine Thomas and Norah Isaac and all the others who did so well before the microphone that requests for more have come from the BBC...never before have the Welsh speaking students played such an important part in outside affairs.<sup>93</sup>

Pan drodd at ddarlledu yn hwyrach yn ei bywyd, nid oedd y cyfrwng radio felly yn gwbl newydd iddi.

Derbyniodd Davies ei chymhwyster fel athrawes yn 1934 a chafodd swydd ddysgu yn Romford, Llundain.<sup>94</sup> Yno y cyfarfu â'i gŵr, Francis Noel Jameson oedd hefyd yn athro, priodasant ym mis Medi 1939, a bu'r ddau yn dysgu yn Nwyrain Llundain yn ystod cyfnod y cyrchoedd awyr ar y ddinas yn ystod yr Ail Ryfed Byd.<sup>95</sup>

Derbyniodd Jameson wahoddiad i ddychwelyd fel athro i'w gyn-ysgol yn Efrog ond er dianc o berygl Llundain lladdwyd Jameson yn 1942 pan fu cyrch awyr yn ystod y nos ar eu cartref yn Efrog.<sup>96</sup> Bu Davies yn gorwedd o dan y rwbel yn ei ymyl am 24 awr cyn iddi gael ei hachub.

Wedi'r digwyddiad trist treuliodd Davies flwyddyn yn adfer ei hiechyd gan ddychwelyd i'w hardal enedigol yng Nglyn-nedd i wella'n llwyr.<sup>97</sup> Daeth cyfle i ail-

---

<sup>90</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1934, t. 17.

<sup>91</sup> *ibid.*, t. 11.

<sup>92</sup> *ibid.*, t. 28.

<sup>93</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1935, t. 8.

<sup>94</sup> *ibid.*

<sup>95</sup> Free BMD Database, <<https://www.freebmd.org.uk/cgi/information.pl?cite=5iXeKJpNISFE09VBSlyUCA&scan=1>> [cyrchwyd 7 Mai 2020]. Priodwyd Francis Noel Jameson ac Eiolr Lorraine Thomas ym Medi 1939 yn Ilford, Llundain. Ni fu Jameson yn gwasanaethu yn y Rhyfel am resymau iechyd.

<sup>96</sup> *ibid.*, lladdwyd Jameson ym Mehefin 1942 ac yntau yn 36 oed.

<<https://www.freebmd.org.uk/cgi/information.pl?cite=LLnoWNNmsDSU2EnWiwrJeQ&scan=1>> [cyrchwyd 7 Mai 2020].

Gweler hefyd Bevan, *Years on Air*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2004), t. 20.

<sup>97</sup> Wyn Thomas, teyrnged angladd Lorraine Davies, 2003.

gynnau ei diddordeb mewn actio gyda grwpiau amatur lleol, a gwahoddiad i ailgydio yn ei gyrfa fel athrawes yn ei chyn-ysgol sef yr Ysgol Ramadeg yng Nghastell-nedd, yn dysgu Saesneg ac yna fel athrawes yn Ysgol Howells yng Nghaerdydd. Ni wyddys pam y dewisodd adael ei gyrfa addysgu, ond ymddengys iddi gael ei pherswadio i ymuno â'r BBC fel olynnydd i Morfudd Mason Lewis ar *Awr y Plant*.<sup>98</sup> Fe'i penodwyd i weithio yng nghanolfan y BBC yng Nghaerdydd ar gynyrchiadau drama y ddarpariaeth i blant, *Children's Hour* ac *Awr y Plant* a ddarllledwyd yn ystod y cyfnod y Rhyfel ar yr *Home Service*. Mae'n werth ystyried pam y'i denwyd gan arlwy drama y ddarpariaeth i blant, ond mae cipolwg ar drywydd ei bywyd cyn ymuno â'r BBC yn darlunio gwraig ifanc oedd yn meddu ar allu naturiol i actio, ac efallai y tybiai y gallai roi o'i phrofiad i actorion eraill. Ceir y cyfeiriad cyntaf ati ar 26 Hydref 1944 yn gysylltiedig gydag addasiad o helyntion 'Twm Shon Catti' o dan y teitl 'Bull in Boots', nodir 'produced by Lorraine Jameson'.<sup>99</sup> Cafodd barhau yn ei swydd wedi'r Rhyfel ac efallai bod hynny i'w briodoli i'r ffaith mai gweddwr ifanc ydoedd. Yn y Rhestr Staff gyntaf sydd ar gael, sef mis Mai 1947 ceir cyfeiriad at 'Mrs E.L. Jameson' a nodir ei swydd fel 'Children's Hour Organiser', ond 'Mrs E.L. Davies' a nodwyd yn y rôl yma o Fai 1948 tan fis Tachwedd 1956. Roedd hi bellach yn wraig i Hywel Davies, gŵr a ymunodd gyda'r BBC yn ystod cyfnod y Rhyfel (roedd wedi ei wrthod i wasanaethu ar sail iechyd) ac a ddaeth yn y pen-draw yn un o brif ddarlledwyr Cymru.<sup>100</sup>

Dros gyfnod o ddeuddeg mlynedd gyda'r BBC cynhyrchodd Lorraine Davies nifer helaeth o ddramâu ac o edrych ar *billings* y rhaglenni yn *The Radio Times* daw cyfanswm ei chyfraniad i'r amlwg. Ceir dramâu ag iddynt flas Cymreig megis 'Angharad's Well: an old Welsh folk tale retold by Joan Roberts and read by Sarah Leigh'<sup>101</sup> ochr yn ochr â chynnyrch o wledydd Ewropeaidd eraill, megis 'Three Mice for the Abbot: An old Dutch legend dramatized and adapted for radio by Antonia Ridge.'<sup>102</sup> Gweithiai gydag amrediad o sgriptwyr megis Eynon Evans a Marjorie Wynn-Williams, ac mae enwau Nan Davies a Lyn Joshua hefyd yn ymddangos. Er ei

<sup>98</sup> Wyn Thomas, teymged yn angladd Lorraine Davies, 2003.

<sup>99</sup> BBC Genome, *Bull in Boots* (26 Hydref 1944), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/ada5370a0dbc405c8648f92c798c91e2>> [cyrchwyd 22 Mai 2020].

<sup>100</sup> BMD, bu i Lorraine Jameson briodi â Hywel Davies ym mis Rhagfyr 1947.

<<https://www.freebmd.org.uk/cgi/information.pl?cite=31GnDlwdXhM4zzyDFiEX1A&scan=1>> [cyrchwyd 7 Mai 2020].

<sup>101</sup> BBC Genome, *Angharad's Well*, (11 Awst 1948), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/724e5b6a28344e448d4c7b757702af58>> [cyrchwyd 22 Mai 2020].

<sup>102</sup> *ibid.*, *Three Mice for the Abbott* (13 Mawrth 1949), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ea426cdb72674d738be5ed13e894ad09>> [cyrchwyd 22 Mai 2020].

profiad fel actores, cyfyngai ei hun yn llwyr i waith cynhyrchu, a cheir enghreifftiau o ddramâu sengl ynghyd â chyfresi a gomisiynwyd ganddi a oedd naill ai yn addasiadau o nofelau adnabyddus, megis *Heidi* (1950)<sup>103</sup> neu yn gyfresi gwreiddiol. Un o'r sgrïptwyr cyson oedd Tudur Watkins oedd yn brifathro yn Abertridwr, a chafodd cymeriad o'i eiddo, Storm y ci defaid, sawl cyfres ar droad y 1950au, sy'n amlygu ymdrech yn y broses gynhyrchu i greu dilyniant ymysg y gwrandawyr ifainc.<sup>104</sup>

Fel y nodwyd eisoes, caiff plant eu cydnabod fel segment o'r gynulleidfa a gaiff eu targedu gan ddarlledwyr, a segment arall a dargedwyd yn benodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd oedd aelodau'r lluoedd arfog. Bu Nan Davies a Myfanwy Howell yn rhan o'r ymdrech i'w diddanu hwy ar wasanaeth y *Forces Programme* a gychwynwyd yn 1940,<sup>105</sup> gyda'r rhaglen *Sut Hwyl* (1941–4).<sup>106</sup> Caiff Sam Jones a John Griffiths eu nodi fel trefnwyr, yn ogystal â Mai Jones. Ar ei chychwyn caiff y gyfres ei disgrifio fel a ganlyn, 'Darnau difyr at y bore sef, pennill ac englyn a chân, gydag ambell stori ddigrif...(A Welsh light programme)',<sup>107</sup> ac yn hwyrach fel 'Rhaglen o ddiddordeb i fechgyn a merched y Lluoedd Arfog'.<sup>108</sup> Ar ôl cyfnod ei darlledu ar wasanaeth *For the Forces* cafodd ei throsglwyddo i wasanaeth yr *Home Service*, gan ddarlledu o 9 Rhagfyr 1944 i 1 Mai 1952.

Yn ystod cyfnod y Rhyfel cyfoethogwyd profiad darlledu Davies a gweddill y staff yng nghanolfan y BBC ym Mangor gan ad-leoliad dros dro Adran Adloniant y BBC o'u cartref arferol ym Mryste.<sup>109</sup> Darlledwyd rhaglenni adnabyddus fel *It's That Man Again (ITMA)* (1939–1946)<sup>110</sup> o Fryn Meirion,<sup>111</sup> a chai trigolion lleol y cyfle i fod yn y gynulleidfa a phrofi talentau sêr adnabyddus megis Tommy Handley yn y cnawd, ac yn eu plith yn gyson yr oedd Myfanwy Howell a'i merch Betty.

Arweiniodd cyffro y cyfnod hwn at esblygiad y rhaglen *Noson Lawen* (1936–39,

<sup>103</sup> BBC Genome, Heidi, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=Heidi+lorraine+davies>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>104</sup> BBC Genome, *Guard the Eagles*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/800070b394b044f587d403c7d37cc16a>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>105</sup> Davies, t. 127. Cychwynwyd treialu gwasanaeth i'r lluoedd arfog ar 7 Ionawr 1940 a'i ymestyn yn wasanaeth llawn ar 18 Chwefror 1940.

<sup>106</sup> BBC Genome, *Sut Hwyl?* <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=asc&q=sut+hwyl&svc=9371542#search>> [cyrchwyd 1 Mai 2020]

<sup>107</sup> *ibid.*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/c232085618f6482a9fe1a5baf3f4c555>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>108</sup> *ibid.*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/12504a6b57574ce88e5cae2d10e48277>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>109</sup> Evans, *Stand-by*, tt. 134. Cyrhaeddodd yr Adran Adloniant BBC Bangor ar 8 Ebrill 1941.

<sup>110</sup> *It's That Man Again (ITMA)*, (1939–1946) BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/aed1d5161c224e659a8b64f66d59a1d>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>111</sup> R. Alun Evans, *Stand-by*, tt. 136–47.

1947–67)<sup>112</sup> o dan gyfarwyddyd Sam Jones, ac er bod rhaglenni cerddorol ac adloniant wedi eu darlledu ar y tonfeddi radio yng Nghymru er 1924 o dan y teitl hwn, a Sam Jones wrth y llyw ers 1936, daeth cyfnod y pedwardegau ag egni newydd a gogwydd ffres i hen fformat a thraddodiad, gan ddod â nodweddion y genre adloniant ysgafn i'r ddarpariaeth Gymraeg.<sup>113</sup>

Yn esblygiad y ffurf daeth cyfle i Sam Jones roi llwyfan cenedlaethol i gymeriadau o'r gogledd megis Richard Hughes, neu fel y'i hadwaenid, Y Co Bach, ac roedd y rhain yn gymeriadau a gai eu canfod gan Nan Davies neu Myfanwy Howell wrth iddynt grwydro'r gogledd yn chwilio am dalent. Nid oedd Jones yn gyrru, efallai bod gan ei fyddardod rywbeth i wneud â hyn, ac roedd yn dibynnu ar ei wraig Maud i fod wrth y llyw.<sup>114</sup> Prin oedd y menywod a fedrai yrru yn ystod y 1930au,<sup>115</sup> ond yn ffodus i Jones, roedd Howell a Davies yn eu plith, a daeth y car i hwyluso eu gwaith hwy fel darlledwyr eraill, a'u galluogi i ddod â lleisiau newydd i sylw'r genedl, fel y nododd Elizabeth Foster, un o gydweithwyr Howell amdani, '...although she lived in Newport, was very frequently in Bangor, getting gen about this and that and interviewing various people. She was always off in her car to some unknown locality and frequently took me with her.'<sup>116</sup> Gwyddai Howell bod Sam Jones yn chwilio am arweinydd i'r *Noson Lawen*, a hi a grybwyllodd iddo enw'r gwas fferm o Sir Fôn, Charles Williams. Yn ei amser hamdden yr oedd Williams yn actio a chynhyrchu dramâu gyda chwmmi amatur yn Llangefni, ac un o'r actorion oedd brawd Howell, Gwilym Roberts.<sup>117</sup> Pwll arall o dalent y medrai Sam Jones droi ato oedd myfyrwyr y Brifysgol, yn eu plith Cledwyn Jones, Robin Williams, a'r gŵr a ddaeth yn enwog fel Bing Bangor, Meredydd Evans.<sup>118</sup> Daethpwyd ar eu traws gan Jones mewn cyngerdd a gynhaliwyd ym Mangor i groesawu milwyr oedd gartref ar y pryd, a daeth y tri yn gyfarwydd ar aelwydydd Cymru fel Triawd y Coleg, a'u canu

---

<sup>112</sup> *Noson Lawen*, gweler hanes y rhaglenni cynnar yn John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 120.

<sup>113</sup> Davies, t. 119. Darlledwyd y *Noson Lawen* am y tro cyntaf gyda Sam Jones yn cynhyrchu ar 14 Mawrth 1936.

<sup>114</sup> R. Alun Evans, *Stand-by*, t. 90.

<sup>115</sup> Mae prinder ystadegau ar y nifer o ddynion a menywod oedd yn berchen ar drwydded yrru. Gwnaed arolwg gan Yr Adran Drafnidiaeth mewn ardaloedd penodol yn 1933 a ganfu bod menywod yn cynrychioli 12% o ddeiliaid trwydded. Gweler Sean O'Connell, *The Car and British Society: Class, Gender and Motoring, 1896-1939*, (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 1989), t. 46.

<sup>116</sup> Elizabeth Forster a adleolwyd i Fangor gydag adran adloniant y BBC, dyfynnwyd ym Morgan, tt. 64-5.

<sup>117</sup> Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 216.

<sup>118</sup> Meredydd Evans (1919-2015), Jones, R. Arwel, *Evans, Meredydd ('Merêd') (1919 - 2015), ymgyrchydd, cerddor, athronydd a chynhyrchydd teledu* (2019), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-EVAN-MER-1919>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

harmoni clos yn datblygu yn uchafbwynt y gyfres dros y blynyddoedd.<sup>119</sup> Meredydd Evans oedd yn gyfrifol am y geiriau a'r alawon bob amser, a buasai Sam Jones yn ei gloi mewn ystafell ar fore Sadwrn i gyfansoddi cyn darlledu y rhaglen *Noson Lawen* yn fyw gyda'r nos.<sup>120</sup> Sicrhawyd felly gan Jones arlwy a feddai ar apêl eang a gyfunai y talent o'r Coleg ar y Bryn gyda dawn pobl leol, a chai ei siarsio rhag gorddibyniaeth ar y cyntaf gan Bob Owen, Croesor,<sup>121</sup> 'dyma [Noson Lawen] y "very" lle i bigo allan dalentau gogyfer â'r di-wifr yn lle eich bod yn cyfyngu eich hun ormod i'r cylch academiaidd a'r proffesoriaid.'<sup>122</sup>

Erbyn y cyfnod hwn roedd Mai Jones wedi ei sefydlu ei hun fel awdurdod ar adloniant ysgafn yng Nghymru, ac fe'i danfonwyd i Fangor i gynorthwyo Sam Jones. Caiff yr atgof amdani ei adrodd gan Robin Williams, un o Driawd y Coleg:

Wrth graffu heddiw i'r cyfnod cynnar a phell hwnnw, y mae merch yn mynnu ymrithio allan o'r gwyll. Merch ddifai atyniadol, merch heb fod yn medru Cymraeg cyn belled ag y sylwais i, ond merch oedd a gafael cryf ganddi eisoes yn rhaglenni'r de, rhai fel 'Welsh Rarebit' a'u tebyg. Roedd Mai Jones yn ffigur amlwg, yn hir gyfarwydd a thrin darlledwyr, ac yn bersonoliaeth bur bwerus.<sup>123</sup>

Hi oedd wrth y piano ar noson gyntaf darlledu *Noson Lawen* gyda'r triawd, ac roedd yn barod ei chynghorion iddynt, tra bod 'Sam Jones yn tuthian o gwmpas y fangre yn lled ddiamcan rywsut.'<sup>124</sup> Dyfalodd Williams:

... a oedd perygl i gastell Sam ym Mangor gael ei gipio...Ond gwn i ymweliadau Mai â Neuadd y Penrhyn beidio yn ddiatreg, ac yn ddiesboniad cyn belled ag yr oeddem ni yn y cwestiwn, ac o hynny ymlaen, efe, Sam Jones, oedd ymherodr y 'Penrhyn'.<sup>125</sup>

Gellid priodoli yr hyder yn anian Mai Jones, a synhwyrwyd gan Williams, i'r blynyddoedd o brofiad a feddai fel perfformwraig. Ers y dauddegau bu'n perfformio

---

<sup>119</sup> BBC Radio Cymru, *Beti a'i Phobl* (7 Mai 2015), <<https://www.bbc.co.uk/programmes/b05t3gnf>> [cyrchwyd 7 Mai 2020].  
Beti George yn cyfweled Cledwyn Jones.

<sup>120</sup> *ibid.*

<sup>121</sup> Bob Owen (1885–1962), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-OWEN-ROB-1885>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>122</sup> Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 145.

<sup>123</sup> Williams, dyfynnwyd yn Dyfnallt Morgan, t. 85.

<sup>124</sup> *ibid.*

<sup>125</sup> *ibid.*

gyda grwpiau adloniant megis *The Carrol Sisters*, *The Three Janes* a *The Five Magnets*, a chlywyd ei dawn ar y radio am y tro cyntaf o ganolfan y BBC yn Savoy Hill, Llundain yn 1928 gyda band *Jack Payne*, bu iddi wedyn ddarlledu o Belfast, Birmingham, Bryste, a Chaerdydd.<sup>126</sup> Merch o Gasnewydd oedd Jones, ac er diffyg sicrwydd Robin Williams a fedrai'r Gymraeg (fel nodwyd uchod), Cymro Cymraeg oedd ei thad ac fe'i magwyd i fedru siarad yr iaith.<sup>127</sup> Daeth ei dawn gerddorol i'r amlwg o oedran ifanc, ac enillodd ysgoloriaeth Caradog i Goleg Prifysgol Caerdydd i astudio cyfansoddi a chanu'r piano gyda'r Dr David Evans.<sup>128</sup> Enillodd ymhellach gymhwyster diploma ARCM i ddysgu'r piano o'r *Royal College of Music*, Llundain yn 1924.<sup>129</sup> Yn yr un flwyddyn bu'n bianydd swyddogol yn Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pŵl gan gychwyn ar yrfa fel pianydd cyngerdd a arweiniodd at oes o wasanaeth lliwgar ym maes adloniant ysgafn.

Ceir y cyfeiriad cyntaf at Jones yn *The Radio Times* fel cyfrannydd ar *Children's Hour* o Gaerdydd ar 4 Mehefin 1930, 'Mai Jones and Lyn Joshua - Syncopation and a Ukulele', a bu iddi gydweithio â Joshua droeon yn ystod ei gyrfa. Eu hymdrech enwocaf ar y cyd oedd y gân *We'll Keep a Welcome* (tua 1943), a glywyd fel diwedd glo i'r rhaglen boblogaidd *Welsh Rarebit* ac fe'i disgrifiwyd yn hwyrach fel 'auxillary Welsh anthem'.<sup>130</sup> Jones, ynghyd â Joshua oedd un o weithwyr llawrydd prysuraf y BBC yng Nghaerdydd yn ystod y 1930au,<sup>131</sup> a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr amrediad o raglenni y bu'n ymwneud â nhw. Er enghraifft, ar 21 Tachwedd 1934 cafwyd rhaglen o dan y teitl 'Mai Jones (pianoforte)...' a'r disgrifiad, '...in a non-stop medley of tunes old and new', fe'i darlledwyd i'r *West Region*, a cheir llun ohoni mewn saethiad agos ar waelod y ddalen yn edrych yn *glamorous* iawn. Nodir ymhellach:

---

<sup>126</sup> Mai Jones (1899-1960). Huw Williams, *Jones, Gladys May (1899 - 1960), pianydd, cyfansoddwr a chynhyrchydd rhaglenni ysgafn ar y radio*, Y Bywgraffiadur Cymreig, (1997), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-MAI-1899>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>127</sup> Yr Archif Genedlaethol, Cyfrifiad 1911 ar gyfer 40 Christchurch Road, Casnewydd cyfeirnod RG14PN31987 RG78PN1840 RD587 SD2 ED28 SN303/31987.

<sup>128</sup> Mai Jones, Y Bywgraffiadur Cymreig.

<sup>129</sup> Eboest gan aelod o staff, llyfrgell RCM, 29 Mehefin 2020.

<sup>130</sup> Elwyn Evans, 'We'll Keep a Welcome in the Hillsides', *Cofnodion Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion*, 1991, tt. 307-9. <<https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1386666/1423792/310#?xywh=-1343%2C-321%2C4948%2C3913>>

[cyrchwyd 1 Mai 2020]

<sup>131</sup> *ibid.*

Mai Jones trained as a classical pianist and later went in for syncopated playing. She has written the music for several revues broadcast from West Region. She broadcasts as pianist, piano-accordionist, in a double turn – The Carroll Sisters – and as pianist and arranger of the act The Three Janes.<sup>132</sup>

Mae'r enghreifftiau uchod yn amlygu ei dawn i gydweithio gydag ystod o bobl o gefndiroedd a thraddodiadau gwahanol, gan ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd amrywiol y rhanbarth a wasanaethai. Yr oedd yr un mor gyfforddus ar lwyfan adloniant ysgafn a dargedwyd at gynulleidfaoedd de-orllewin Lloegr ag ydoedd yn cynorthwyo criw o ferched o gefn gwlad Ceredigion, sef Adar Tregaron, fel y tystia rhifyn *The Radio Times* o Dachwedd 1935.<sup>133</sup> Mewn rhaglen o'r un teitl nodwyd:

Unwaith yn rhagor daw'r Fwyalchen, Aderyn Du, Gwddi-hw, Y Dryw, Sigldi-Gwt, Swigw-las-fach, Ji-binc, Jac Dô, Crychydd Cam, Ceiliog, Iar, Clacwydd, Hwyaaden Wyllt ac adar cerdd eraill i'r stiwdio i'ch diddori. Arweinir gan y Prif Aderyn, Dai Williams (sydd yn dal yn rhyfedd heb gollu ei blu). Paratoir bwyd i'r Adar gan Idwal Jones a Mai Jones. (A Light Musical Programme by the Tregaron Birds).<sup>134</sup>

Arweiniodd ei pherthynas o gydweithio gydag Idwal Jones at y gân *Nos Da/Good Night* (1946), ond un o'i chyfansoddiadau enwocaf oedd *Rhondda Rhapsody* (1951) sef yr alaw a glywyd i arwyddo cychwyn *Welsh Rarebit* (1938–1957).

Trosglwyddwyd y gyfres *Welsh Rarebit* i wasanaeth *For the Forces* ar 29 Chwefror 1940, gyda Jones yn cael ei henwi fel pianydd. Ni nodwyd ei henw fel cynhyrhydd arni tan 1941 pan ddechreuwyd cynnig y rhaglen hefyd ar wasanaeth yr *Home Service*, a dyma'r cyfnod y'i penodwyd yn aelod llawn amser o'r staff.<sup>135</sup> Fe fu bwriad i'w phenodi yn gynhyrhydd Adloniant Ysgafn i'r BBC yng Nghaerdydd yn ystod canol y 1930au, ond roedd yna ddiffyg dealltwriaeth am beth oedd *light ent* Cymreig. Jones oedd y dewis amlwg ar gyfer y gwaith ond roedd amheuan a fedrai menyw ymgymryd â'r dasg sy'n adlewyrchu agwedd rywiaethol tuag at safle o

<sup>132</sup> BBC Genome, *Mai Jones (pianoforte)* (21 Tachwedd 1934), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/db7a3739cca548cfa5490f29f04c6dfe>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>133</sup> BBC Genome, *Mai Jones (pianoforte)*, (21 Tachwedd 1934).

<sup>134</sup> *ibid.*, *Adar Tregaron*, 16 Tachwedd 1935, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/7e2053e880f24d15a895efda8da132df>> [cyrchwyd 1 Mai 2020].

<sup>135</sup> Cadarnhawyd mewn ebost o BBC WAC, 5 Hydref 2017.



gyfrifoldeb, ac roedd y ffaith ei bod yn galw pawb yn ‘darling’ yn dân ar groen Hopkin Morris.<sup>136</sup> Mae atgof Teleri Bevan ohoni yn adleisio’r ddelwedd hon,

In my book, Mai Jones epitomised show business... Tall blonde, heavily made-up, with full, bright, pillar-box-red lipstick on her lips, she was every inch a show-biz theatrical person; dressed in pastel-coloured gowns and wide-brimmed hats, it always seemed to me as if she was prepared for her next performance.<sup>137</sup>

Unwaith y cafodd Jones ei phenodi i swydd ‘producer’ (nid oedd y term Cymraeg ‘cynhyrhydd’ fel petai wedi ei fabwysiadu yn ystod y cyfnod hwn, tueddid i gyfeirio at drefnwyr rhaglenni), aeth ati i ddatblygu yr elfen adloniant ysgafn yn y gyfres *Welsh Rarebit*. Bwriad gwreiddiol y gyfres oedd cynnig cysur i’r Cymry hynny oedd yn gwasanaethu oddi cartref adeg y rhyfel, ond datblygodd y gyfres yn gyfrwng i godi calonnau y rheiny oedd gartref yng Nghymru ar adeg dywyll, ac yn hwyrach ar draws Prydain gan ddenu hyd at 12 miliwn o wrandawyr.<sup>138</sup>

Wedi’r Rhyfel roedd ansicrwydd a fuasai’r BBC yn adfer y patrwm chwe rhanbarth ond dyna a wnaed a dychwelwyd at gynhyrchu darpariaeth o Gymru oedd yn gymharus gyda’r cyfnod cyn y Rhyfel. Roedd yn gyson hefyd gyda’r hyn a ddarllwyd yn yr Alban a gogledd Lloegr, sef 20.5 awr yr wythnos i’r *Home Service*. Ond roedd cyllideb rhaglenni yng Nghymru yn dipyn llai ynghyd â nifer y staff, er enghraifft yn 1946 roedd y gyllideb yn £800 yr wythnos, a chyflogwyd 29 o staff a dalwyd yn fisol, roedd y gyllideb i’r Alban a Gogledd Lloegr yn £1250 i’r naill a’r llall, gyda staff o 43 a 41 yn ôl eu trefn.<sup>139</sup> Bellach darparwyd tri gwasanaeth darlledu yn y Deyrnas Unedig sef y *Third*, yr *Home* a’r *Light Programme* ac yn sgil ei llwyddiant ysgubol, cychwynwyd darlledu cyfres *Welsh Rarebit* ar yr olaf ar 8 Ebrill 1949. Daeth Jones â helyntion Tommy Trouble a lleisiau’r *Lyrian Singers* i sylw gwrandawyr ar draws Prydain,<sup>140</sup> gan ddarparu llwyfan eang i berfformwyr fel Harry Secombe, Stan Stennett a Gladys Morgan. Dyma’r cyfnod y bu i Jones briodi’r

<sup>136</sup> Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 119.

<sup>137</sup> Bevan, *Years on Air*, t. 23.

<sup>138</sup> Rowland Lucas, *BBC Radio Times*, ‘Welsh Rarebit Returns to Television’ (29 Tachwedd 1957).  
<<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/b0e3e73aa658413d92b93c7553af5e45?page=7>> [cyrchwyd 1 Mai 2020]

<sup>139</sup> Davies, t. 150.

<sup>140</sup> Darllwyd y gyfres ar y teledu unwaith yn Awst 1952, a thrachefn yn 1957.

cerddor David (Davey) Davies o'r Garnant, oedd yn beiriannydd gyda'r BBC wrth ei alwedigaeth.<sup>141</sup>

Achlysur ag iddo'r nod o godi ysbryd pobl Prydain wedi'r Rhyfel oedd priodas y Dywysoges Elizabeth a Philip Mountbatten yn Abaty Westminster ar 20 Tachwedd 1947. Darlledwyd y briodas yn fyw gan ddenu 20 miliwn o wylwyr.<sup>142</sup>

Penderfynwyd gan y BBC i dargedu segment penodol o'r gynulleidfa sef menywod, gan y tybiwyd eu bod yn fwy agored na dynion i'r cysyniad o ramant a phriodas. Y canolbwynt ar gyfer denu'r gynulleidfa fenywaidd oedd y ffrog briodas, a rhoddwyd caniatad i Audrey Russell, un o ohebwy'r BBC i weld y ffrog o flaen-llaw gyda'r addewid na fyddai'n rhyddhau manylion cyn y diwrnod mawr.<sup>143</sup> Sicrhawyd lle i Russell a gohebwy'r benywaidd eraill yn yr abaty, ac yn eu plith Myfanwy Howell,

BBC production files show that the broadcaster positioned another female observer, Joan Gilbert, inside Westminster Abbey 'so that the ladies in our audience may hear all about the dresses' she saw from her vantage point; and the BBC's Welsh division also managed to obtain a place in the abbey for Myfanwy Howell, the editor of its regional women's programme, so that she could later broadcast an eyewitness account of the event (she would sit next to the Women's Hour correspondent, who would go on to do the same for a national audience).<sup>144</sup>

Erbyn hyn yr oedd Howell nôl yn gweithio gyda'r BBC ym Mangor, ac mae hyn yn gwrth-ddweud polisi'r BBC ar y pryd o ddirwyn cyflogaeth menywod i ben ar ddiwedd cyfnod y Rhyfel gan fod y dynion a fu'n gwasanaethu wedi dychwelyd. Nid oedd gohebu ar achlysuron brenhinol yn ddieithr iddi oherwydd yn 1937 bu'n gohebu am goroniad y Brenin George V gyda lle wedi ei sicrhau iddi ar hyd llwybr yr orymdaith ar bwys Marble Arch, ac yn 1953 mynychodd goroniad y Frenhines Elizabeth. Roedd ei diddordeb yn y teulu brenhinol wedi ei sbarduno o oedran

---

<sup>141</sup> Priodwyd Gwladys May (Mai) Jones a David (Davey) Davies yng Nghasnewydd yn 1947. Ef oedd yn gyfrifol am yr alaw i eiriau T. Rowland Hughes, *Y Darlun*. Gweler: H. Williams, (1997). JONES, GLADYS MAY, 'MAI' (1899 - 1960), pianydd, cyfansoddwr a chynhyrchydd rhaglenni ysgafn ar y radio. *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-MAI-1899>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>142</sup> John Cain, *The BBC: 70 years of Broadcasting* (Llundain: BBC, 1992), t. 63.

<sup>143</sup> Edward Owens, *The Family Firm: Monarchy, mass media and the British public, 1932-53* (Llundain: Gwasg Prifysgol Llundain, 2019), t. 318.

<sup>144</sup> *ibid.* Dyma'r unig gyfeiriad at Howell y daethpwyd ar ei draws yn ei disgrifio fel golygydd rhanbarthol rhaglen i fenywod. Derbyniodd y C.B.E. gan y Frenhines Elisabeth fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth i Gymru trwy'r W.I., darlledu a'i gwaith i'r Weinyddiaeth Bensiynau. Cafodd ei hanrhydeddu gan Gymru fel Aelod Anrhydeddus o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar yn 1946, ddeuddydd cyn i'r Dywysoges Elizabeth gael ei derbyn i'r Orsedd.

cynnar gan i'w thad fynd â hi i Gastell Caernarfon i fynychu arwisgiad y Tywysog Edward fel Tywysog Cymru yn 1911 pan oedd hi'n 8 oed. Dychwelodd 58 mlynedd yn ddiweddarach gyda'i gŵr Illtyd dan wahoddiad swyddogol i fynychu arwisgiad y Tywysog Siarl fel Tywysog Cymru yn 1969.<sup>145</sup>

Er gwaethaf y cyfrifoldeb a roddwyd iddi ohebu ar achlysuron brenhinol, o edrych ar ei chyflogaeth gyda'r BBC, gellir ond ei ddisgrifio fel un ysbeidiol, bu'n 'Drefnydd Plant dros dro' hyd 11 Rhagfyr 1947 tan i Ifan O. Williams gael ei benodi ac wedi iddi sicrhau bod Williams wedi setlo yn ei swydd, nododd yn ei dyddiadur ar 3 Chwefror 1948, 'back in my old job as Programme Assistant' a bu yn y swydd honno, 'swydd-helpu-pawb-efo-popeth'<sup>146</sup> tan 31 Rhagfyr 1948.<sup>147</sup> Ni wyddys beth oedd yn gyfrifol am batrwm pytiog ei chyflogaeth, ond ymddengys bod y BBC yn galw arni i lenwi swyddi dros dro pan oedd angen, oedd yn dibrisio ei chyfraniad a'i photensial, ac ni chai gynnig swydd lawn amser parhaol, ond efallai nad oedd hi'n deisyfu hynny. Yn gynharach y mis hwnnw bu iddi ysgrifennu yn ei dyddiadur, 'Heber [Jenkins, swyddog gweinyddol] up in Bangor. Asked me to stay on at BBC – hopeless.'<sup>148</sup> Ni wyddys beth oedd yn ei hatal rhag parhau gyda'i swydd ym Mangor, a dychwelodd i fyw gyda'i gŵr Illtyd yng Nghasnewydd ar 14 Ionawr 1949.<sup>149</sup>

Bu cyflogaeth Nan Davies gyda'r BBC yn fwy cyson, ond ni fu ei chyfnod gyda'r Gorfforaeth yn un di-dorr ychwaith, gan iddi yn 1946 ddychwelyd i Dregaron i ofalu ar ôl ei mam yn ei gwaeledd, swyddogaeth a ddeuai i ran merched o fewn y teulu. Wedi marwolaeth ei mam, penderfynodd aros i gynorthwyo'r teulu ac ymunodd â staff Urdd Gobaith Cymru ym Mai 1946 fel Warden Aelwydydd Tregaron a Phontrhydfendigaid. Noda R.E. Griffith yn yr ail gyfrol ar hanes y mudiad, fod Davies yn ystod y cyfnod hwn yn 'adnabyddus trwy Gymru eisoes fel trefnydd *Awr y Plant* a lluo o raglenni.' Nodir hefyd:

---

<sup>145</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Betty Parker.

<sup>146</sup> Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 296.

<sup>147</sup> Cadarnheir dyddiadau ei chyflogaeth mewn ebost gan BBC WAC, 5 Hydref 2017.

<sup>148</sup> Dyddiadur Myfanwy Howell, dyfynnwyd yn Evans, (traethawd doethurol heb ei gyhoeddi), t. 296.

<sup>149</sup> *ibid.*

Nid oedd y pryd hynny unrhyw anhawster i ddenu bechgyn a merched ifanc disglair, yn athrawon ac yn raddedigion, i gefnu ar swyddi diogel a dod i weithio i'r Urdd ar gyflogau llawer is oherwydd eu cred ddi-sigl yng nghenhadaeth y mudiad.<sup>150</sup>

Yr oedd prif swyddfa'r mudiad yn Aberystwyth ac yno yr aeth Davies y flwyddyn ganlynol i weithio fel Ysgrifennydd Casgliadau, gan ganolbwyntio ar Gronfa'r Jiwibili Arian, cyn dod yn bennaeth yr Adran Apeliadau, un o bedair adran o fewn y mudiad ar y pryd. Serch hynny, ymestynnai ei chyfraniad y tu hwnt i'w swydd bob dydd gan iddi feirniadu cystadleuaeth drama'r Urdd yng Nghorwen ym 1946, lle bu 35 o gwmnïau'n cystadlu. Hi hefyd fu'n gyfrifol am y cynhyrchiad *Molawd Cymru* a berfformiwyd ar drothwy Eisteddfod Pontarddulais a'r Hendy yn 1949, gan fanteisio ar ei chysylltiadau gyda staff y BBC:

Syniad Nan Davies oedd y rhaglen hon, hi a'i lluniodd ac a'i cynhyrchodd, gyda'r gerddoriaeth yn waith Mansel Davies o'r BBC a T. Haydn Thomas yn gweithredu fel cyfarwyddwr cerddorol. Roedd yn rhaglen wreiddiol ar batrwm hollol newydd, yn gyfuniad mentrus o dechneg theatr a thechneg radio.<sup>151</sup>

Mae'r cyfeiriad yn y frawddeg olaf at ei dawn gyda gwaith theatr a'i gwaith radio yn un diddorol, a bu iddi ddwyn y ddrama at y cyfrwng sain droeon yn ystod cyfnod cynnar ei gyrfa fel yr amlygwyd. Yn dilyn llwyddiant *Molawd Cymru* symudwyd Davies, o'r hyn y gellir ei gasglu ar ei chais ei hun, i fod yn Bennaeth ar Adran Rhaglenni a Chynlluniau Gwaith yr Adrannau a'r Aelwydydd. Dim ond ychydig fisoedd y bu yn y swydd, ac fel mae R.E. Griffith yn nodi, 'pwysodd y BBC arni i fynd yn ôl, ac atebodd hithau'r alwad. Cafodd yr Urdd dair blynedd o wasanaeth nodedig ganddi.'<sup>152</sup> Ni phallodd ei chysylltiad gyda'r Urdd serch hynny wedi iddi ail-gydio yn ei gwaith fel darlledwraig ar 6 Mai 1949,<sup>153</sup> roedd Myfanwy Howell

<sup>150</sup> Robert Emrys Griffith, *Urdd Gobaith Cymru: 1946-1960, Cyfrol 2* (Aberystwyth: Urdd Gobaith Cymru, 1972), t. 23.

<sup>151</sup> Robert Emrys Griffith, t. 92.

<sup>152</sup> *ibid.*, t. 106. Bu iddi agor Y Ffair Fawr yng Ngŵyl Sir Aberteifi yr Urdd a gynhaliwyd yn Nhregaron ym Mehefin 1954 a threfnodd ddarllediadau o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar hyd y blynyddoedd gan gynnwys Eisteddfod Aberdâr ym mlwyddyn gyntaf y gyfres deledu *Heddiw* yn 1961.

<sup>153</sup> Archif Bangor, Casgliad 29972, Memo i: 'Miss A. Davies, staff no. 1389, Programme Production: 6 May 1949. Following your appointment on a monthly contract as from 1<sup>st</sup> May, 1949, your salary will be paid by direct transfer to your Banking account.' Roedd gan Davies gyfrif banc ym manc Barclays, Stryd Fawr, Bangor.

wedi gadael y BBC y mis Rhagfyr blaenorol, a gellid ond dychmygu i Sam Jones brofi colled profiad a diwydrwydd ar y tîm ym Mangor.

O fewn ychydig fisoedd i ddychwelyd, cafodd Davies ei dyrchafu yn Drefnydd Sgyrsiau, cyfieithiad o'r term 'Talks Producer' (fel nodwyd uchod yn nghyd-destun penodiad Mai Jones) a hynny heb godiad yn ei chyflog. Danfonodd Alun Oldfield-Davies, Rheolwr Cymru ar y pryd, lythyr ati ar 3 Tachwedd 1949:

Deallaf yn awr nad oedd ceisiau addawol iawn am y swydd o Drefnydd Sgyrsiau (y swydd a wacawyd gan John Gwilym Jones) ac felly fe gewch ddarn o bapur maes o law yn eich trawsblannu o'r un swydd i'r llall.<sup>154</sup>

Fel y nododd R. Alun Evans, mae naws y frawddeg uchod yn awgrymu methiant ar ran y Gorfforaeth i lenwi swydd yn hytrach na chanmol ei dyrchafiad, ond daeth y dychweliad i Fangor â chyfleoedd cyfarwydd a rhai newydd yn ei sgil. Adferodd ei chysylltiad â'r rhaglen *Country Magazine* a lansiodd gyfres gylchgrawn natur o dan y teitl *Byd Natur* ym 1951.<sup>155</sup> Cafodd gyfle hefyd i gyflwyno cyfraniadau achlysurol Cymru i'r gyfres *Woman's Hour* oedd wedi cychwyn ar 7 Hydref 1946,<sup>156</sup> a chlywyd ei llais am y tro cyntaf ar ddydd Gwener, 16 Mawrth 1951, ar y *Welsh Edition* a'r gwrandawyr yn cael eu tywys ganddi o un eitem amrywiol i'r llall:

'Those Elusive Eggs': Marion Roberts, a farmer's wife from Merionethshire, wonders whether it may not be simpler to buy her ration of eggs over the counter; 'The Great Arctic Highway': Marjorie Wynn-Williams recalls a few incidents experienced during a mail-bus trip on the Lapland highway; 'The Cupboard was Bare': Nesta Evans describes the food problems of Welsh housewives two hundred years ago; 'Harp and Voice': Enid Parry introduces Welsh folk songs, sung by Sassie Rees to harp accompaniment by Osian Ellis; 'Harvest of the Seashore': Lever (sic.) bread – made from a special type of seaweed – and cockles are two very popular items in the menus of many South Walians. In this recorded interview Alun Williams discusses their work with a few of the cockle and laver-bread sellers at Swansea Market.

<sup>154</sup> R. Alun Evans, *Stand-by!*, t. 220.

<sup>155</sup> Parhaodd y gyfres hon tan 1994 o dan ofal cynhyrchwyr amrywiol sy'n dyst i'w llwyddiant. Gellid tybied bod *Galwad Cynnar*, sy'n parhau i ddarlledu (2020) ar BBC Radio Cymru yn yr un traddodiad.

<sup>156</sup> BBC, BBC History. 'Women's Programmes: Programmes for Women, by Women', cyfweiliad gan Norman Collins, sefydlydd *Woman's Hour*, <<https://www.bbc.co.uk/historyofthebbc/100-voices/pioneering-women/womens-programmes>> [cyrchwyd 26 Mehefin 2020].

Short story: 'Old Age' by Kate Roberts, translated by Wyn Griffith. Read by Nesta Harries.<sup>157</sup>

Mae'r fformat uchod yn gyson gyda threfn rhaglenni'r gyfres – cymysgedd o sgysiau byrion, ambell gân, a darlleniad o ffuglen – a adlewyrchai weledigaeth Norman Collins. Ei nod pan gychwynwyd y gyfres ganddo oedd sicrhau sgysiau deallusol a apeliai at fenywod, gan herio cred y BBC ar y pryd bod yn rhaid i eitem fod yn 13 munud 30 eiliad o hyd er mwyn medru mynegi cynnwys o unrhyw bwys.<sup>158</sup> Roedd sicrhau llais i bobl cyffredin yn rhan greiddiol o'r gyfres, fel llais y wraig fferm o Sir Feirionnydd a nodir uchod, ac yn nodwedd unigryw yn y ddarpariaeth ddarlledu ar y pryd. Roedd yn fodd hefyd o sicrhau nad oedd y rhaglen yn 'too London, South-East based'.<sup>159</sup> Modd arall o sicrhau hynny oedd dirprwyo'r cynhyrchu i wahanol rannau o Brydain a gosod lleisiau lleol wrth y llyw. Cydnabu Sam Jones ddawn a llwyddiant Davies fel cyflwynydd mewn llythyr at y Rheolwr: 'In Woman's Hour, Week 14, Miss Nan Davies was placed second to Violet Carson (North) as a *compere* in the Listener's Research Appreciation Indices...'.<sup>160</sup> Dengys hyn i Sam Jones fynd i'r ymdrech i dynnu sylw at ei llwyddiant a'i fod yn falch o'r ffaith bod cyflwynydd o Gymraes ym Mangor yn medru apelio at wrandawyr ar draws Prydain gan gystadlu gyda'r goreuon o Loegr. Ni fuasai darparu ar gyfer cynulleidfa fenywaidd yn brofiad newydd i Davies gan iddi ymwneud â chyfres o'r fath a ddarlledwyd o Fangor ar gychwyn ei gyrfa, sef *Byd Merched* (1937–9).<sup>161</sup>

Ddegawd yn ddiweddarach mae memorandau mewnol yn tystio i awydd Davies i sicrhau lle cyson yn yr amserlen ddarlledu ar gyfer cyfres i fenywod o'r safon uchaf yn y Gymraeg. Ar 29 Hydref 1949 estynnodd wahoddiad i '15 to 20 representative women from various parts of North Wales to Bangor to discuss these programmes for women.'<sup>162</sup> Estynnodd wahoddiad hefyd i Evelyn Gibbs, golygydd *Woman's Hour* fel bo modd i'r rheiny fuasai'n mynychu fanteisio ar ei gwybodaeth. Mae

<sup>157</sup> BBC Genome, *Woman's Hour*, 16 Mawrth 1951, <<http://genome.ch.bbc.co.uk/31f159c780bf48dda6e97c342ceaf659>> [cyrchwyd 14 Chwefror 2017].

<sup>158</sup> BBC, BBC History. 'Women's Programmes: Programmes for Women, by Women', cyfweiliad gan Norman Collins

<sup>159</sup> *ibid.*, cyfweiliad gan Monica Sims, cynhyrchydd *Woman's Hour*.

<sup>160</sup> Evans, *Babi Sam*, t. 221.

<sup>161</sup> BBC Genome, *Byd Merched* (1937–1939),

<<http://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=byd+merched&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00>> [cyrchwyd 14 Chwefror 2017]. Cyflwynwyd y gyfres gan Myfanwy Eames, sef awdur y llyfr *Llyfr Prydiau Bwyd: Llawlyfr i Rianedd Cymru* (1932) a hi oedd yn gyfrifol am dudalennau'r merched yng nghylchgrawn *Y Ford Gron* (1930–35).

<sup>162</sup> BBC Written Archive Centre, Caversham, RBCW54/55, 'Precis of statement made by Miss Nan Davies, Talks Producer', t. 1.

memorandwm mewnol dilynol i'r Head of Welsh Programmes yn darlunio ei galwad i sicrhau slot canol wythnos am 11am, cynyddu nifer y rhaglenni ac ymestyn hyd rhaglenni i 40 munud.<sup>163</sup> Cafodd rhai o'u gofynion eu hateb, gan i adroddiad rhaglen ar gyfer y Mehefin dilynol nodi bod *Congl y Cartref* (1949–1950) wedi darlledu rhaglen 45 munud wythnosol yn gyson ers cychwyn y flwyddyn hyd ganol Mai, er dylid nodi i hynny fod mewn slot hwyrach nag a ddeisyfwyd, yn hwyr y prynhawn.<sup>164</sup>

Estynnodd Davies wahoddiad i'w ffrind Myfanwy Howell gyfrannu syniadau am eitemau iddi, yn ogystal ag i *Woman's Hour*, a hithau'n gwerthfawrogi'r cyfle:

Diolch o galon am ofyn i mi 'neud hyn – rydw i wrth fy modd cael fy mys yn y pwddin o hyd!! Mae'n well gen i fod wrthi hi i'r BBC na dim yn y byd. Mae Sam yn iawn – clwy' ydi o, nad oes modd cael llwyr iachâd oddi wrtho.<sup>165</sup>

Roedd y dewis o eitemau o Gymru ar *Woman's Hour* yn amlwg yn Gymreig o ran eu haniau ond yn eang eu hapêl, a dyna sy'n nodweddu natur cyffredinol yr arlwy o Gymru ar y gyfres yn ystod y cyfnod hwn. Clywyd lleisiau ac enwau cyfarwydd i bobl Cymru yn ymddangos fel cyfranwyr, megis y rhai a enwid uchod ynghyd ag Amabel Williams-Ellis<sup>166</sup> a Cassie Davies<sup>167</sup>. Darparwyd cynnwys oedd yn gyfuniad o rôl traddodiadol y fenyw yn y cartref, a'i swyddogaeth y tu hwnt i'r cartref, gan ddod â sffêr bywyd cyhoeddus i gartrefi menywod.

Er yr arwydd byr o gysondeb a gafwyd gyda chyfresi fel *Congl y Cartref*, pytiog fu'r arlwy yn y Gymraeg ac o Gymru i fenywod yn benodol hyd at ganol y chwedegau, sy'n adlewyrchu diffyg ymrwymiad i'r fath ddarpariaeth. Erbyn y cyfnod hwn roedd rhaglenni eraill wedi mynd â sylw Davies, a daeth y cyfrifoldeb o gynnig cyfres

---

<sup>163</sup> Prifysgol Bangor: Archifau a Chasgliadau Arbennig, memo i 'HWP (Head of Welsh Programmes), Cardiff', 'Women's Talks'. 3 Tachwedd 1949.

<sup>164</sup> *ibid.*, 'Departmental Report from Talk Department, Bangor for the attention of Controller Wales, 20 June 1950. BBC Genome. The series did not return under the said title, however a regular series under the title *Gwraig y Tŷ* (1951–1957, *The Housewife*) was broadcast on the Home Service between 1951 and 1957, but no production staff names are noted in *The Radio Times*. The series transferred to television as a weekly series under the same title from 1960–1961.'

<sup>165</sup> Evans, *Stand-by*, t. 220.

<sup>166</sup> Amabel Ellis-Williams (1894–1984), National Portrait Gallery, <<https://www.npg.org.uk/collections/search/person/mp54185/mary-annabel-nassau-amabel-williams-ellis-nee-strachey-lady-williams-ellis>> [cyrchwyd 7 Mehefin 2020].

<sup>167</sup> Cassie Davies (1898–1988), Llion Wigley, *Davies, Cassie Jane (1898-1988), addysgydd a chenedlaetholwraig*, (2018), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-DAVI-JAN-1898>> [cyrchwyd 7 Mehefin 2020].

gyson sef *Merched yn Bennaf* i ran Marion Griffith Williams (nee Eames), oedd wedi bod yn gweithio i Adran Cyhoeddusrwydd y BBC yng Nghaerdydd ers y pumdegau fel nodwyd eisoes. Fel cydnabu Williams ei hun, roedd swydd o'r fath yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i'r darlledwr ac yn gyfle i ddod i adnabod pawb, gan fod swyddog yn yr adran honno '...a'i fys ym mrywes pawb.' Cafodd ei phenodi fel swyddog cynorthwyol ac ymddengys i'r BBC ddod ar ei galw hi yn hytrach nag iddi ymgeisio am swydd sy'n adlewyrchu diffyg polisi recriwtio ac apwyntio.

Fel rhan o'i gwaith disgwyliid i Williams baratoi pwt o baragraff i'r wasg am raglenni a *billings* i'r *Radio Times*, tasg a ddeuai'n ddigon rhwydd iddi os mai cyfresi cerddorol neu lenyddol oedd angen sylw. Fe'i hyfforddwyd i ganu'r piano gan gymdoges yn nhref Dolgellau lle ymgartrefodd y teulu o Ben-bedw pan oedd Williams yn bedair, ac fe'i hyfforddwyd hefyd i ganu'r delyn. Cafodd ei chariad at gerddoriaeth ei feithrin yn Ysgol Dr Williams, Dolgellau ac yno hefyd cafodd ei hedmygedd at lenyddiaeth ei gyniwair, ond llenyddiaeth Saesneg yn hytrach na Chymraeg, gan mai pwnc i'w ddewis ochr yn ochr â'r Ffrangeg oedd y Gymraeg, 'The school did not promote the Welsh language as it was not seen as an important passport for the wider society that the pupils were being educated for.'<sup>168</sup> Roedd Williams yn ddigon balch o gael dewis iaith dramor gan iddi fagu atgasedd at y Gymraeg yn dilyn crechwen ei chyd-ddisgyblion cynradd am na fedrai siarad y Gymraeg mor hyderus â hwy, ac mae hynny'n syndod o ystyried ei chyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg fel nofelydd hanesyddol yn hwyrach yn ystod ei gyrfa.<sup>169</sup>

Yr hyn a fagodd gariad ym mynwes Williams tuag at yr iaith oedd ei chyfnod yn gweithio yn llyfrgell Dolgellau ac yn hwyrach yn llyfrgell Prifysgol Aberystwyth. Yno hefyd yr ymunodd ag Aelwyd yr Urdd, a chael cyfle i ymwneud gyda phobl fel Norah Issac a Dilys Gunston-Jones (oedd yn cyd-letya â hi). Buasai Gwenallt, Jacob Davies a Saunders Lewis yn ymuno ar adegau, a rhoddodd yr aelwyd gyfle iddi ymwneud â barddoniaeth a chanu'r delyn er pwysleisiodd mai ar y cyrion yr oedd hi.

Dychwelodd i Ddolgellau am gyfnod lle bu'n ysgrifennu erthyglau yn Gymraeg ac yn Saesneg i bapurau Plaid Cymru. Gweithredodd fel asiant gwleidyddol i'r blaid a

---

<sup>168</sup> *Y Dydd*, 14 Ebrill, 2007, t. 5.

<sup>169</sup> *ibid.*



bu'n olygydd y cyhoeddiad newyddion wythnosol, *Y Dydd* ond arweiniodd ei thalent cerddorol ati'n cael cynnig ysgoloriaeth i astudio yng ngholeg cerdd y Guild Hall, Llundain.<sup>170</sup> Y bwriad gwreiddiol oedd dychwelyd i Ddolgellau fel athrawes Cerdd, ond yn y ddinas cyfarfu â'i darpar wŵr, y Crynwr a'r newyddiadurwr Griffith Williams, a bu'r ddau yn byw yn ardal Pimlico, Llundain am gyfnod wedi iddynt briodi yn 1955. Parhaodd â'i diddordeb mewn ysgrifennu a bu'n gweithio i gylchgrawn Sefydliad y Merched, *Home and Country* am gyfnod. Roedd amseriad y cais iddi ymuno gydag Adran Gyhoeddusrwydd y BBC yng Nghaerdydd yn berffaith gan i'w gŵr dderbyn swydd gyda'r *Western Mail*, ac ymgymrodd hi â'i gwaith fel swyddog cynorthwyol yn 1959. Er mwyn ei galluogi i ysgrifennu am gynyrchiadau gwahanol a deall eu hanfod cai ei gwahodd i '...“eistedd mewn” ar bob math o raglenni radio a theledu' ac wedi tair blynedd yn yr Adran Gyhoeddusrwydd mynegodd, 'ar ôl sgwennu cymaint am raglenni pobl eraill dyma fi'n dechrau teimlo awydd i greu fy rhaglenni fy hun. Felly dyma geisio am swydd cynhyrchedd sgysiau a'i chael.'<sup>171</sup>

Bu i Williams ymwneud gyda *Good Morning Wales* (1963–2019)<sup>172</sup> a *Merched yn Bennaf* a lansiwyd yn Ionawr 1965 ar gais Hywel Davies. Yn wahanol i ymdrechion pytiog y gorffennol i ddiwallu anghenion menywod yn benodol, sefydlwyd *Merched yn Bennaf* fel cyfres gyson. Pwysleisiwyd gan Williams bod croeso i ddyinion hefyd a dyna oedd yn gyfrifol am deitl y rhaglen, a adlewyrchai weledigaeth y gyfres rwydwaith gyfatebol *Woman's Hour* gyda'i hamrediad eang o eitemau. Fel a wnaed yn y pumdegau a Nan Davies wrth y llyw, cynhyrchwyd ambell i rifyn Cymreig o'r gyfres a ddarledwyd ar draws Prydain, a buasai Williams yn gyfrifol am y darllediadau. Mae'n debyg i'w chysylltiad cyntaf gyda radio ddeillio o'r gyfres hon, gan iddi gyfrannu sgwrs flynyddoedd ynghynt, yn olrhain ei phrofiad fel golygydd gyda chyhoeddiad *Y Dydd*.

Yn yr un modd ag y denwyd Marion Griffith Williams o'r Adran Gyhoeddusrwydd tuag at waith cynhyrchu ar y radio, felly hefyd Evelyn Williams. Magodd hithau ddealltwriaeth o ddarpariaeth benodol cyn iddi gael ei denu i gynhyrchu o fewn y

<sup>170</sup> Eleri Hopcyn, *Dylanwadau* (Llandysul: Gomer, 1995), t. 10.

<sup>171</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Marion Griffith Williams, M42/3.

<sup>172</sup> *Good Morning Wales*, (1963–2019), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=good+morning+wales>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

ddarpariaeth honno. Fe'i hyfforddwyd fel athrawes yng Ngholeg Morgannwg, Y Barri, a mae'r cyfeiriadau ati yng nghyhoeddiad y coleg, *Tân y Ddraig* yn tystio i'w ddiddordebau y tu hwnt i'r dosbarth. Yn 1930, cofnodwyd ei bod yn aelod o'r Gymdeithas Geltaidd,<sup>173</sup> bu'n actio yn nrama Gŵyl Ddewi'r coleg,<sup>174</sup> rhannodd y wobr gyntaf am y delyneg yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi a chyhoeddwyd ysgrif ganddi o dan y teitl *Raleigh* yn adrodd ei phrofiad o gwmpo oddi ar feic.<sup>175</sup> Y flwyddyn olynol roedd yr un mor brysur, roedd yn aelod o'r *Dramatic Society* a bu'n actio drachefn yn nrama'r Gymdeithas Geltaidd yr oedd bellach yn is-lywydd arni. Y ddrama a berfformiwyd oedd *Ffordd y Menywod*, sef cyfieithiad o ddrama Sbaeneg, a ddisgrifiwyd fel 'comedi ddiddorol...yn dangos fel y mynn menyw gael ei ffordd er gwaetha' pob dyn i'w rhwystro', a phortreadai Williams y meddyg, Don Cecilio.<sup>176</sup> Dengys yr holl weithgareddau yma ei phrysurdeb a'i diddordeb yn y celfyddydau, er hyn ni esgeuluodd ei hastudiaethau a chofnodwyd iddi gwblhau ei chwrs a llwyddo yn 1931.<sup>177</sup>

Roedd ganddi hefyd ddiddordeb yn y Gymraeg, ac mae'n debyg y buasai wedi ei dylanwadu gan brifathrawes Coleg Hyfforddi Morgannwg, Y Barri, Ellen Evans,<sup>178</sup> a chan Cassie Davies oedd yn parhau i weithio yno fel darlithydd. Crybwyllwyd y Gymdeithas Geltaidd eisoes, estynnwyd croeso i aelodau newydd gan y ddwy, ac fe'u 'anogwyd hwy i fod yn ffyddlon i bopeth Cymraeg.'<sup>179</sup> Wrth gyfeirio at Davies, sef llywydd y gymdeithas, nodwyd gan yr ysgrifenyddes, 'Dylai ei brwdfrydedd a'i chariad at Gymru ennyn ynom ninnau hefyd ryw gymaint o awydd am wneuthur rhywbeth "i godi'r hen wlad yn ei hôl", a'i gyrru yn ei blaen.'<sup>180</sup> Wedi iddi gymhwyso, defnyddiodd Williams y cyhoeddiad *Tân y Ddraig* i hyrwyddo Ysgol Haf a chynhadledd y Plaid Genedlaethol oedd i'w gynnal ym Mrynawr yn 1932:<sup>181</sup>

---

<sup>173</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1930, t. 10.

<sup>174</sup> *ibid.*, t. 11

<sup>175</sup> *ibid.*, t.30.

<sup>176</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1931, t. 7.

<sup>177</sup> *ibid.*, 1932, t. 5.

<sup>178</sup> Ellen Evans (1891–1953), Evan David Jones, *Jones, Evans, Ellen (1891-1953), prifathrawes Coleg Hyfforddi Morgannwg, Y Barri* (1997), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-EVAN-ELL-1891>> [cyrchwyd 2 Mai 2020].

<sup>179</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1930, t. 10.

<sup>180</sup> *ibid.*, t. 12.

<sup>181</sup> Cymdeithas Hanes Plaid Cymru, Ysgol Haf, <<http://www.hanesplaidcymru.org/ysgol-haf-2/>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

Os am weld anturiaeth lwyddiannus ymysg mynyddoedd  
Cymru, os am gynorthwyo i berffeithio'r anturiaeth trwy  
ddwyn yr elfen Gymreig i mewn iddi, os am fwynhau cwmni  
diddan a chael hwyl ddi-hafal, dowch i'r Ysgol Haf ym  
Mrynmawr yr ail wythnos yn Awst.<sup>182</sup>

Yn ystod y cyfnod hwn ail-enwyd y Gymdeithas Gymraeg yn y coleg yn Aelwyd yr  
Urdd, a daeth Williams hithau yn ysgrifenyddes ar aelwyd newydd Cadwgan a  
ffurfiwyd yn Y Rhondda yn 1933.<sup>183</sup> Erbyn y tridegau a'r mudiad wedi bodoli ers  
degawd, roedd wedi sefydlu ei hun a chynnydd yn nifer yr aelodaeth a'r aelwydydd  
ar draws Cymru. Talodd Norah Isaac oedd yn bennaeth rhanbarth Morgannwg Urdd  
Gobaith Cymru, deyrnged i raddedigion Coleg Hyfforddi Morgannwg, Y Barri megis  
Williams oedd yn weithgar gyda'r mudiad, 'Sêl, gweithgarwch a hunan-aberth yw  
nodweddion pob un o'r rhain, a chymeraf fantais o'r cyfle hwn i ddiolch o galon  
iddynt am eu cefnogaeth i'r Urdd ym Morgannwg a Mynwy.'<sup>184</sup>

Nid yw'n glir os y bu Williams yn ennill ei bywoliaeth fel athrawes, ond gellid tybio  
hynny. Ni phallodd ei diddordeb yn y ddrama, nac mewn actio a phenderfynodd  
neilltuo ei hamser yn llwyr i hyn. Bu'n perfformio gyda grŵp drama a berfformiai ar  
draws Cymru o dan y teitl Chwaryddion y Genhinen,<sup>185</sup> ac ymunodd gyda chwmni  
*repertory* y BBC yng Nghaerdydd oedd wedi ei sefydlu er 1946. Ymysg ei  
chyfraniadau cynnar i'r BBC oedd portreadu cymeriadau yn nramâu *Children's Hour*  
ac *Awr y Plant* a cheir y cyfeiriad cyntaf ati ar 17 Gorffennaf 1946 mewn comedi o  
dan y teitl *Pig Problem*, sef addasiad o stori fer gan Eynon Evans, a gynhyrchwyd  
gan Dafydd Gruffydd.<sup>186</sup> Gwelir ei henw yn hwyrach fel addasydd y ddrama *Jane  
Clegg* gan y Gwyddel St. John Ervine,<sup>187</sup> a oedd yn adnabyddus am ei gymeriadau  
benywaidd cryf.<sup>188</sup> Yn 1951 fe'i hadleolwyd i BBC Bangor, ac yn rhestr staff y BBC  
yn Ebrill 1951, nodir 'Miss A.E. Williams' fel 'Children's Hour Assistant' ym  
Mangor yn cynorthwyo Lorraine Davies. Disgrifiwyd y wraig sengl hon gan ei

<sup>182</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1932, t. 39.

<sup>183</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1932, t. 39. Nodwyd bod Efelyn [sic.] Williams yn ysgrifenyddes. Gweler hefyd: 'A New Branch of the Urdd – Pentre, Rhondda', *Western Mail*, 5 Gorffennaf 1933. Nodwyd fan hyn bod Williams yn un o ddwy o ysgrifenyddesau.

<sup>184</sup> Archifau Morgannwg, *Tân y Ddraig*, 1937, t. 28.

<sup>185</sup> 'Welsh Actors Bear Heatwave', *Western Mail*, 20 Awst 1947, t. 2.

<sup>186</sup> BBC Genome, *The Pig Problem*, 17 Gorffennaf 1946, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/217934fd62354d669b00a027b5edbfcd>> [cyrchwyd 14 Gorffennaf 2020].

<sup>187</sup> *ibid.*, *Jane Clegg* (28 Mai 1948), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/70199bf136f869deb6f8c8ed6abe1255>> [cyrchwyd 14 Gorffennaf 2020].

<sup>188</sup> Gweler ymhellach: St John Ervine, *The Selected Plays of John Ervine* (Swydd Buckingham: Colin Smythe Publications, 1988).

chydweithiwr y dramodydd John Gwilym Jones fel, ‘...y ferch fwyaf hudolus yn y sefydliad, bob amser fel pin aur mewn papur lliw.’<sup>189</sup> Byddai’n gystadleuaeth rhyngddynt eu dau, ynghyd â Nan Davies i fachu’r *Times* am y cyntaf dros ginio er mwyn pendroni dros y croesair,<sup>190</sup> a phrofodd y ganolfan ym Mangor yn feithrinfa werthfawr i Williams hithau ar gychwyn ei gyrfa gynhyrchu.

Yn ystod ei chyfnod ym Mangor bu Williams yn cynhyrchu cyfresi drama di-ri gan annog a meithrin sgriptwyr newydd, fel Huw Lloyd Edwards. Cai gyfle hefyd i weithio gyda cherddorion fel Phyllis Kinney, Meredydd Evans a Sassie Rees gan fagu dilyniant brwd i ddarpariaeth *Awr y Plant*, ac i gynnwys o Gymru ar *Children’s Hour*.<sup>191</sup> Bu’n cynhyrchu cyfres nodwedd *O Sir i Sir*,<sup>192</sup> gyda Myfanwy Howell yn cyflwyno, ac eitemau i gyfres debyg yn Saesneg o dan y teitl, *My Part of the World* (1963).<sup>193</sup>

Trosglwyddodd nifer o’i chyfresi yn llwyddiannus i deledu yn hwyrach megis y ddwy gyfres ar gyfer y plant lleiaf, *Jim Cro Crwstyn*, (1951–68)<sup>194</sup> a fu’n rhedeg am bron i bymtheg mlynedd ar y radio, ac *Ar Lin Mam*, (1959–75) a fu’n rhedeg am wyth mlynedd ar y radio.<sup>195</sup> Roedd angen i Williams hefyd ddod o hyd i blant i actio, ac wedi iddi gynnal clyweliadau i ddegau o fechgyn ysgol daeth o hyd i ddau actor ifanc, Hywel Gwynfryn ac Euryn Ogwen Williams a ddaeth maes o law i ennill eu bywoliaeth mewn darlledu. Daeth y cysylltiad â chyfle i Gwynfryn gyfarfod â’r actores a bortreadai Elen, yr arwres y bu’n gwranddo arni fel plentyn ar y ddrama gyfres *S.O.S. Galw Gari Tryfan*,<sup>196</sup> roedd tiwnio mewn am 5.10pm ar nos Fawrth yn ddefod gyson iddo yntau, fel llawer o blant Cymru.<sup>197</sup> Sgriptiwyd y gyfres i gychwyn

<sup>189</sup> John Gwilym Jones, dyfynnwyd yn Evans, *Babi Sam*, t. 103.

<sup>190</sup> *ibid.*

<sup>191</sup> Evelyn Williams yn Morgan., tt. 98–99

<sup>192</sup> Mae’n heriol i ddod o hyd i ddyddiadau ar gyfer y gyfres *O Sir i Sir*. Ymddengys ond ddwy waith ar wefan BBC Genome fel rhan o ddarpariaeth *Awr y Plant*, ond nid oes cofnod pellach o’r gyfres. BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=%22o+sir+i+sir%22#top>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>193</sup> *My Part of the World* (1963), BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=%22my+part+of+the+world%22>> [cyrchwyd 9 Mai 2023].

<sup>194</sup> *Jim Cro Crwstyn*, (1951–68), BBC Genome, <[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_radio&q=Jim+Cro+Crwstyn](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_radio&q=Jim+Cro+Crwstyn)> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

Ymddangosodd yn achlysurol fel rhan o’r gyfres deledu *Telewele a Beunydd* o 1958 i 1968, BBC Genome, <[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_tv&q=Jim+Cro+Crwstyn](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_tv&q=Jim+Cro+Crwstyn)> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>195</sup> Evans, *Stand-by*, t. 219. Ar *Lin Mam* (1959–75). Bu’r gyfres yn rhedeg fel rhan o arlwy *Awr y Plant* ar y radio rhwng 1959 ac 1967, BBC Genome, <[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_radio&q=ar+lin+mam#top](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_radio&q=ar+lin+mam#top)> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

Fe’i darlledwyd ar y teledu o dan y teitl *Ar Lin Mam* rhwng 1970 ac 1975, BBC Genome,

<[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_tv&q=ar+lin+mam](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_tv&q=ar+lin+mam)> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>196</sup> BBC: Cymru Fyw, ‘Cofio Actor Arloesol Galw Gari Tryfan’ (19 Ionawr 2017),

<<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38666684>> [cyrchwyd 21 Mai 2020]. O ran dyddiadau darlledu’r gyfres, gweler t. 8, tn. 46.

<sup>197</sup> Janet Davies, *The Welsh Language: A History* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), t. 146.

gan ‘Meirion Jones’ ond yn hwyrach o dan enw go iawn y llenor Idwal Jones, oedd yn weinidog gydag enwad yr Annibynwyr.<sup>198</sup> Fe’i darlledwyd yn achlysurol rhwng 1950 ac 1963, a’i chynhyrchu yn y blynyddoedd cynnar gan Lorraine Davies,<sup>199</sup> bellach roedd gan BBC yng Nghymru arwr cyfredol a amlygodd i arddegwyr y pumdegau bod y Gymraeg yn parhau yn berthnasol iddynt hwythau.<sup>200</sup>

Roedd sicrhau rhaglenni yn y Gymraeg yn un o’r agweddau a nodweddiad drafodaethau Pwyllgor Ymgynghorol Cymru a sefydlwyd yn sgil Papur Gwyn 1946 a nododd bod angen i bob rhanbarth gael pwyllgor o’r fath.<sup>201</sup> Darparwyd tystiolaeth ganddynt i Bwyllgor Beveridge<sup>202</sup> yn 1950 ac mae eu datganiad yn amlygu eu prif fyrddwn, sef bod angen i Gymru gael ei hystyried fel ‘national broadcasting unit, within the pattern of British broadcasting’ ac na ddylid ei hystyried fel ‘a mere region of the BBC’.<sup>203</sup> Crybwyllwyd materion yn ymwneud â Chymru gan gyrrff eraill sef Undeb Cymru Fydd, Plaid Cymru a’r *Welsh Parliamentary Party* (sef grŵp o Aelodau Seneddol Llafur, Rhyddfrydol a Cheidwadol Cymreig). Fel y noda Medhurst wrth drafod Adroddiad Beveridge, yr hyn sy’n amlwg o’r dystiolaeth a ddaeth o Gymru yw, ‘a competing notion of the “national”’, nid oedd cysyniad y BBC o’r cenedlaethol yr un peth â chysyniad pobl Cymru o’u gwlad, ac o’r herwydd ni thalwyd sylw digonol i anghenion penodol y genedl Gymreig yng nghyd-destun diwylliant nac iaith.<sup>204</sup>

Adleisiwyd hyn gan olynnydd Hopkin Morris, sef Oldfield-Davies.<sup>205</sup> Meddai, ‘the basic job of the BBC in Wales is to nourish and encourage national unity and to add wealth, depth, and value to all aspects of national life’,<sup>206</sup> datganiad a adlewyrchai ei gefnogaeth i’r cysyniad o hunaniaeth darlledu ond er hyn gwrthwynebai alwad y

---

<sup>198</sup> Idwal Jones (1910–1985) <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cymruaryrawyr/database/galwgaritryfan.shtml>> [cyrchwyd 20 Mai 2020]. Deuai o Dal-y-sarn yn wreiddiol, ond fe’i cysylltir â Llanrwst lle bu’n weinidog ar ddiwedd ei yrfa.

<sup>199</sup> Gareth Price, *Broadcasters of BBC Wales, 1964–1990* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017), t. 27.

<sup>200</sup> Martin Jones, *Wales since 1939* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2013), t. 194.

<sup>201</sup> Penodwyd 21 o aelodau o restr o 24 a ddarparwyd gan Oldfield-Davies, ac yn eu plith yr oedd Kate Roberts ac Enid Parry ynghyd â T.H. Parry-Williams.

<sup>202</sup> Adroddiad Pwyllgor Beveridge, 18 Ionawr 1951. Roedd Siarter y BBC yn dod i ben yn 1951, ac yn 1949 comisynodd y Llywodraeth Lafur adroddiad ar ddyfodol darlledu. Am drafodaeth fanwl ar Bwyllgor Beveridge, gweler pennod 4, Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom, Vol. IV: Sound and Vision* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995), tt. 265–385.

<sup>203</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom, Vol. IV: Sound and Vision* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995), t. 308.

<sup>204</sup> Jamie Medhurst, ‘“Minorities with a Message”: The Beveridge Report on Broadcasting (1949–1951) and Wales’, *Twentieth Century British History*, 19.2 (2008), tt. 217–33.

<sup>205</sup> Davies, t. 391. Apwyntwyd Alun Oldfield-Davies i swydd Cyfarwyddwr Cymru yn 1945, a newidwyd teitl ei swydd yn 1948 i Reolwr Cymru. Bu yn y swydd honno tan 1967.

<sup>206</sup> *ibid.*, t. 192.

enedlaetholwyr am ddatganoliad llwyr darlledu i Gymru.<sup>207</sup> Roedd Beveridge ei hun yn agored i syniadau cyffredinol o ddatganoli a rhoi mwy o lais i'r rhanbarthau, ond ei argymhelliad yn y pen-draw oedd i ddarlledu yng Nghymru barhau o dan unoliaeth y BBC a chaniatau i Gymru ei Phwyllgor Darlledu ei hun. Fe'i sefydlwyd yn 1953, gan ymgymryd â'r dasg o gadw golwg ar faterion yn ymwneud â chynnwys rhaglenni, cyllid a staff. Sicrhawyd lle i'r cadeirydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr y BBC a hynny'n darparu cyfle i fynegi llais Cymru yn Llundain.<sup>208</sup>

Un o'r materion mwyaf heriol a ddaeth i ran y Pwyllgor Darlledu yn ystod ei flynyddoedd cynnar oedd mater staffio yn ymwneud yn benodol â Lorraine Davies. Daeth swydd cynyrchudd drama yn wag, ond er mai hi oedd y dewis amlwg ar gyfer y gwaith, roedd y ffaith ei bod yn briod â Hywel Davies oedd yn Gynorthwy-ydd i'r Pennaeth Rhaglenni ar y pryd yn ei hatal rhag cael dyrchafiad. Er i'r BBC ddiddymu'r Gwaharddiad Priodas yn 1944, daliai i wahardd dyrchafiad i fenywod oedd yn briod â chyflogai o fewn y BBC, ac er i'r BBC yng Nghymru herio'r polisi yn achos Davies, plygu i drefn Llundain fu raid yn y pen-draw. Wedi cryn oedi penodwyd Emyr Humphreys i'r swydd. Yn ddiweddarach, yn rhestr staff Mai 1957 mae enw Davies wedi ei groesi allan, ac enw Ifan O. Williams yn cael ei nodi mewn llawysgrifen fel *Children's Hour Organiser*. Mae dileu ei henw yn dystiolaeth glir sy'n adlewyrchu un arall o bolisiâu y BBC, sef os oedd un aelod o gwmpwl priod a gyflogwyd gan y BBC yn esgyn i safle rheoli gydag awdurdod dros y llall, gadael y sefydliad oedd yr unig opsiwn.<sup>209</sup> Roedd Hywel Davies wedi ei ddyrchafu yn Bennaeth Rhaglenni ar ymddeoliad Watkin Jones felly gorfu i'w wraig roi gorau i'w gwaith. Yn eironig ddigon bu i Lorraine Davies ddychwelyd at ddarlledu ac at y swydd cynhyrchudd drama a nacawyd iddi, a hynny gyda marwolaeth ei gŵr yn 1965 ac yntau ond yn 46 oed.

Mae gweithredu polisiâu o'r fath yn adlewyrchu sefydliad oedd yn dipyn gwahanol i'r un a ffurfiwyd yn y dauddegau ac a gynigai gyfleoedd cyfartal i fenywod, gyda'r BBC yn gwahaniaethu ei hun oddi wrth y sector addysg a'r gwasanaeth sifil yn hyn o beth. Ond daeth tro ar fyd erbyn y pumdegau:

---

<sup>207</sup> Hajkowski, t. 196.

<sup>208</sup> Cadeirydd Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru oedd Arglwydd Macdonald o Waenysgor a fu'n gwasanaethu o 1952–1960. Davies, t. 391.

<sup>209</sup> Bevan, *Years on Air*, tt. 40-41.

There are many possible reasons why, post war, the BBC lost its edge and was no longer in the vanguard of equal opportunities employers. From being a dynamic, young organisation in the new industry of broadcasting, it became increasingly professionalised, which favoured men. Also, by the late 1950s, many of the women who had risen to prominent positions in the 1930s and 1940s were retiring.<sup>210</sup>

Arweiniai hyn at lai o uchelgais ymysg staff benywaidd,<sup>211</sup> ond yn ôl swyddogion y BBC, cyflogwyd rhai menywod i swyddi yn ystod cyfnod y Rhyfel nad oeddent gystal â hynny yn eu gwaith, ac na fuasant wedi eu penodi mewn amgylchiadau arferol. Arweiniodd hyn yn ei dro at ddrwgdeimlad a rhagfarn yn erbyn y rhai â'u holynodd, er hyn, llwyddodd y rhai disglair neu efallai mwyaf penderfynol o blith yr arloeswyr cynnar i ddal ati a phrofi eu gallu mewn swyddi uwch. Roedd diffyg mewn penodi menywod i swyddi o'r fath yn parhau yn nodwedd o'r sefydliad ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 1969:

It is significant that when this small group of women retire within a fairly short time, there are no obvious women successors to them and, in fact, the number of really senior women will probably fall sharply within the next few years.<sup>212</sup>

Merch ifanc a lwyddodd i ddringo maes o law i safle rheoli gyda'r BBC oedd Teleri Bevan (née Phillips) ac o fewn y ddarpariaeth ar gyfer plant y'i cyflogwyd hithau yn wreiddiol pan y'i penodwyd yn 1955. Arhosodd y broses gyfweld yn ei chof, gan i aelod o'r panel yng Nghaerdydd ofyn iddi, 'Tell me, how will you get on with men?', llwyddodd i ofyn, 'How will they get on with me?' i dderbyn ateb swta 'We will decide that'.<sup>213</sup> Nododd Bevan mai dyma'r tro cyntaf iddi brofi agwedd rywiaethol o'r fath, sy'n ddatganiad cryf o ystyried amrediad ei phrofiadau mewn cymunedau amaethyddol traddodiadol a'r ffaith iddi fod yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor mewn adran lle roedd menywod yn y lleiafrif.

---

<sup>210</sup> BBC: BBC History, Kate Murphy, *Equal Opportunities?* <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/pioneering-women/equal-opportunities>> [cyrchwyd 27 Mehefin 2020].

<sup>211</sup> *ibid.*, Francis Line, rheolwr BBC Radio 2 a gychwynnodd fel ysgrifynyddes yn 1957.

<sup>212</sup> Michael Fogarty, A.L. Allen, Isobel Allen, Patricia Walters, *Women in Top Jobs: Four Studies in Achievement* (Llundain: George Allen & Unwin Ltd., 1971), t. 165.

<sup>213</sup> Teleri Bevan, *Years on Air*, t. 11.

Pan y'i penodwyd i weithio gyda Lorraine Davies ac Evelyn Williams, roedd awr a hanner o raglenni radio yr wythnos yn cael eu cynhyrchu ar gyfer *Awr y Plant*, ynghyd â rhaglenni Saesneg yn gyson i *Children's Hour*, 'It was a busy, demanding schedule, and both women were creative, skilled practitioners in a wider range of programming, from story telling, serials and single plays to music-making, outside broadcasts and quizzes.'<sup>214</sup> Felly er bod Davies a Williams wedi eu neilltuo i genre penodol o'r cychwyn cyntaf, mae'r amrediad o wahanol fathau o raglenni a nodwedddai yrfa gynnar nifer o staff y BBC yng Nghymru yn parhau o fewn y ddarpariaeth i blant.

Gellid dadlau bod Bevan yn ymgeisydd perffaith ar gyfer y swydd, oherwydd meddai ar gyfuniad o wybodaeth wyddonol, dealltwriaeth o gefn-gwlad a diddordeb yn y celfyddydau. Deuai o deulu amaethyddol yn ardal Llangwryfon ac roedd ei thad yn ddarlithydd Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, ond i Brifysgol Bangor yr aeth hi i astudio yn 1949 ar gyfer gradd BSc mewn Botaneg a Botaneg Amaethyddol.<sup>215</sup> Yn ystod ei chyfnod ym Mangor bu'n ddiwyd fel is-lywydd Cyngor Cynrychioliadol y Myfyrwyr gan ymdrochi mewn gweithgareddau cymdeithasol ac allgyrsiol ym maes drama ac adloniant. Treuliai ei gwyliau haf yn Llundain gan gynorthwyo ei modryb a redai siop gornel, fel llawer o Gymry Ceredigion. Manteisiai i'r eithaf ar y cyfle i fynychu digwyddiadau yn stadiwm White City, a gweld sêr fel Ivor Novello a Sybil Thorndike yn theatrau a neuaddau cyngerdd y ddinas.<sup>216</sup>

I East Anglia yr aeth swydd gyntaf Bevan â hi, a hynny am ddeunaw mis fel trefnydd clybiau gyda Mudiad y Ffermwyr Ifainc, ond gwelodd hysbyseb yn *The Telegraph* am *assistant radio producer* gyda'r BBC a chyfle i agor cil y drws ar y byd adloniant oedd wedi ei swyno ers yn blentyn.<sup>217</sup> Er y cwestiwn yn ei chyfweliad am ei gallu i ymdopi gyda dynion yn y gweithle, pan y'i penodwyd treuliodd y rhan fwyaf o'i hamser yn gweithio gyda Lorraine Davies a'i chynorthwy-ydd Evelyn Williams ym Mangor, a buan y dealodd nad oedd Davies am wneud pethau'n hawdd iddi.<sup>218</sup>

---

<sup>214</sup> Teleri Bevan, *Years on Air*, t. 18.

<sup>215</sup> Teleri Bevan, *Years of my Time* (Llandysul: Gomer, 1997), t. 183.

<sup>216</sup> *ibid.*, t. 186.

<sup>217</sup> *ibid.*, t. 9.

<sup>218</sup> *ibid.*, t. 20.



Lorraine was stylish, disciplined and organised, renowned for her editorial judgement and script analysis, her production skills recognised instantly to be of the highest quality and standard. That first week, I watched her in action during rehearsals of an adventure drama. She was like a power dynamo.<sup>219</sup>

Mae'r dyfyniad hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y cynhyrchydd, ac er i Bevan dreulio chwe wythnos ar gwrs radio yn Llundain, mae'n cydnabod gwerth yr ysgol brofiad wrth draed Davies. Treuliodd ei blynyddoedd cynnar yn cael ei thrwytho yn y cyfrwng radio, ond roedd pwysau cynyddol i ymdopi gyda'r cyfrwng teledu ac mae Bevan yn cyfaddef iddi orfod gwneud hynny yn go sydyn gyda'r gyfres *Telewele* (1953–1974).

Roedd dyfodiad teledu yn agwedd o bwys i'r Pwyllgor Ymgynghorol yng Nghymru ac mae eu trafodaethau yn amlygu eu hawydd i weld Cymru yn medru manteisio ar y cyfrwng newydd. Roedd lluniau wedi eu darlledu o Alexandra Palace yn Llundain ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac agorwyd trosglwyddyddion yn Sutton Coldfield a Holme Moss i ddarlledu i ranbarthau Canolbarth a Gogledd Lloegr yn 1949 ac 1951. Roedd cryfder y signalau a'r cynnwys a gynhyrchwyd yn Llundain yn gwaedu i ardaloedd ar y ffin ac i ogledd Cymru, ac i ychwanegu at ofid y Pwyllgor nid oedd unrhyw fwrriad i godi mast ar dir Cymru. Yn y pen-draw penderfynwyd bod angen trosglwyddydd yn ne orllewin Prydain, ond arweiniodd hyn at reolwyr y BBC yn ailadrodd y camau gwag a wnaed gan eu rhagflaenwyr, ac yn seilio eu penderfyniadau i gyfarch eu cynulleidfaoedd ar sail gofynion technegol yn hytrach na diwylliannol. Tybient y buasai darllediadau teledu o'r canol Llundain yn diwallu anghenion pobl Cymru (fel a wnaed yn 1922 gyda dyfodiad radio) ac yn ddiweddarach bod codi mast ar dir Cymru yn mynd i fodloni anghenion de Cymru a de orllewin Lloegr o dan un hunaniaeth. Agorwyd mast Wenfô ar gyrion Caerdydd ar 15 Awst 1952, a'r noson agoriadol honno mynegodd Megan Lloyd George bod y ddau ranbarth wedi dod at ei gilydd er mwyn gwahanu, 'We should not rest until each separate nation [in the United Kingdom] has a television station of its own.'<sup>220</sup>

---

<sup>219</sup> Teleri Bevan, *Years of my Time*, t. 19.

<sup>220</sup> Davies, t. 175.

Yr her i staff cynhyrchu y BBC oedd ceisio dygymod gyda chyfrwng newydd ac, er mwyn eu galluogi i gamu yn hyderus o'r hen gyfrwng i gyfrwng newydd, fe'u danfonwyd ar gyrsiau hyfforddiant i Lundain, ac yn eu plith yn 1954 yr oedd Nan Davies.<sup>221</sup> Y flwyddyn ddilynol fe'i hadleolwyd o Fangor i Gaerdydd, a chafodd gyfle i ddychwelyd i'r ddinas lle bu'n gweithio am gyfnod byr wedi iddi raddio. Bellach roedd Caerdydd wedi ei choroni yn brifddinas a Davies hithau yn ddarlledwraig brofiadol, ond profodd y blynyddoedd dilynol yn heriol iddi hi, fel yn achos staff eraill oedd wedi aeddfedu gyda'r cyfrwng radio. Bellach fe'u gorfodwyd i geisio rhyddhau eu hunain o hualau cyfrwng clywedol, ac ymdopi gyda heriau cyfrwng newydd. Roedd Davies fel nifer o'i chyfoedion, megis Myfanwy Howell a Iorwerth Peate, yn perthyn i genhedlaeth y gair.<sup>222</sup>

Trodd Howell o'r cyfrwng radio at faes teledu masnachol, ac at gyflwyno yn benodol, pan gynigwyd swydd iddi gan ddeiliad y drwydded fasnachol gyntaf yng Nghymru. sef *Television Wales and the West*. Darlledwyd y rhaglenni masnachol gyntaf ym Mhrydain ar 22 Medi 1955, ac er i Bwyllgor Beveridge awgrymu cadw monopoli y BBC ar ddarlledu roedd eu gofid bod darlledu yn cael ei Lundaineiddio gan y BBC yn gosod pwyslais ar y cysyniad rhanbarthol, a fraenarodd y tir ar gyfer patrwm darlledu masnachol.<sup>223</sup> Cyhoeddwyd bwriad i gyflwyno cystadleuaeth i'r BBC yn Neddf Deledu 1954 gan greu darpariaeth teledu masnachol o dan oruchwyliaeth corff cyhoeddus yr *ITA (Independent Television Authority)* oedd yn sicrhau system ddarlledu dipyn gwahanol i un fasanachol bur yr Unol Daleithiau. Fel y noda Crisell, 'It is a measure of the Reithian values which still pervaded broadcasting, and perhaps of a more general distrust of unfettered money-making, that commercial television was set up as an extension of the public service concept'.<sup>224</sup>

Cyflwynwyd y syniad o drwyddedau rhanbarthol gyda'r *ITA* yn eu dyrannu i gwmnïau masnachol amrywiol. I gychwyn cafwyd tair prif drwydded cyn ehangu i ardaloedd eraill o Brydain, gan wobrwyo cytundeb i gwmni *TWW* yn Hydref 1956.

---

<sup>221</sup> BBC Written Archive Centre, Caversham: Cofnodion Cyngor Darlledu 14,15 Medi 1954, 'minute no. 63: Programme Report. 'Mr Watkin-Jones reported two members of the sound staff (Miss Nan Davies and Mr Elwyn Evans) were attending a General Television course in London.'

<sup>222</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur ac R. Alun Evans, Hydref 2015.

<sup>223</sup> Medhurst, "'Minorities with a Message": The Beveridge Report on Broadcasting (1949–1951) and Wales'tt. 217-33.

<sup>224</sup> Crisell, t. 90.

Cafwyd ymdrech felly i briodi de Cymru gyda de-orllewin Lloegr drachefn, gyda'r darlledwyr masnachol yn dilyn penderfyniadau gwag eu cymheiriaid o fewn darlledu cyhoeddus. Codwyd trosglwyddydd yn San Hilari,<sup>225</sup> ond roedd rhaglenni masnachol eisoes wedi eu darlledu i ddwyrain Cymru o drosglwyddydd Lichfield yn y Midlands, ac yng ngogledd Cymru o drosglwyddydd yn Swydd Gaerhirfryn.<sup>226</sup> Deiliaid y trwyddedau oedd ATV ac ABC Television ar y cyd, a chwmi Granada a benderfynodd ddarlledu rhaglen Gymraeg *Dewch i Mewn* (1957–61) o Fanceinion.<sup>227</sup> Dyma'r rhaglen gyntaf o'i bath, 'a light, mid-afternoon, Welsh-language magazine programme', ac fe'i darlledwyd gan *TWW* i dde Cymru yn hwyrach.<sup>228</sup> Deallodd y darlledwyr masnachol bod mantais mewn targedu y gynulleidfa brynhawn oedd yn tueddu i gynnwys segment penodol, sef y gynulleidfa fenywaidd, ac aeth *Granada* ati i ddarlledu rhaglen *TWW* sef *Amser Te* a lanswyd yn 1958 gyda Myfanwy Howell yn wyneb y gyfres. O ystyried obsesiwn cyfredol teledu gyda wynebau ifainc, yn enwedig wrth ystyried cyflwynwyr benywaidd, mae'n ddiddorol nodi bod Howell erbyn hyn yn 55 oed.<sup>229</sup> Gellid honni bod penaethiaid y sianel yn cymryd cam diogel gan y buasai Howell yn adnabyddus i ran helaeth o'r gynulleidfa ers ei dyddiau cyflwyno ar y radio a'i gwaith gyda mudiad y W.I. Ond mae'n werth ystyried hyn o safbwynt Howell hefyd, ac mae'n ddiddorol ei bod yn barod i ymgymryd â her newydd a hithau'n ganol oed. Gellid dadlau nad oedd yr her yn un newydd mewn gwirionedd gan fod ganddi storfa o brofiad, ac roedd siarad yn naturiol gydag unrhywun yn nodwedd o'i phersonoliaeth, sef un o brif anghenion rhaglen *day-time* o'r fath. Cyfeiriodd ei ffrind Elizabeth Foster ati fel a ganlyn:

I learnt a very great deal from Myfi, who was an inexhaustible talker...[she] had so much to say about subjects of which I knew nothing that I found it no hardship to be silent and listen to all that poured out for she never seemed to feel the need to draw breath.<sup>230</sup>

<sup>225</sup> Jamie Medhurst, *A History of Independent Television in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), t. 5.

<sup>226</sup> *ibid.*, t. 28. Agorwyd trosglwyddydd Lichfield ar 17 Chwefror 1956 a Winter Hill, Lancashire ar 3 Tachwedd 1956.

<sup>227</sup> Medhurst, *A History of Independent Television in Wales*, t. 29.

<sup>228</sup> *ibid.*, t. 30.

<sup>229</sup> Gweler hanes Miriam O'Reilly, cyflwynydd *Countryfile* a enillodd achos yn erbyn y BBC oherwydd gwahaniaethu ar sail oedran, *Guardian*, 11 Ionawr 2011, <<https://www.theguardian.com/media/2011/jan/11/countryfile-miriam-oreilly-tribunal>> [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2020]. Caiff yr agwedd hon sylw hefyd yn y canlynol: *Carrie Gracie, Unequal: A Story of Women, Men and Money* (Llundain: Virago Press, 2019).

<sup>230</sup> Elizabeth Forster yn Morgan, t. 64.

Er ei gwreiddiau dwfn yng nghyfrwng y gair, llwyddodd Howell i addasu'n llwyddiannus i ofynion teledu, a gellid dadlau ei bod yn haws gwneud y cam o'r cyfrwng radio i'r cyfrwng teledu ym maes cyflwyno rhaglenni sgyrsiol nag ym maes cynhyrchu gan mai yr un yw hanfod y dasg. Bu ar y sgrîn am ddeng mlynedd gan groesawu pob math o gyfranwyr i'r stiwdio, yn eu plith wylwyr a ddanfonai eu ryseitiai coginio ati. Arweiniodd hyn ati'n cynhyrchu llyfryn coginio o dan y teitl *Amser Te* (1960) oedd yn seiliedig ar ryseitiai'r gwylwyr ac amlygodd drachefn ei diddordeb mewn maeth a bwyd.<sup>231</sup>

Aros yn driw i ddarlledu cyhoeddus y gwnaeth Evelyn Williams ac ar drothwy'r chwedegau fe'i hadleolwyd hithau i Gaerdydd. Parhaodd ei henw ar restr staff Bangor tan Dachwedd 1959, ond yn Rhagfyr 1960 mae'n ymddangos o dan restr staff Caerdydd fel 'Miss Evelyn Williams' ac fe'i nodir fel *Organiser Children's Programmes*. Mae ei henw yn gysylltiedig gyda rhaglenni plant yng Nghaerdydd tan iddi ymddeol ym 1974, caiff ei nodi yn Rhestr Staff 1973 fel 'Miss A.E. Williams' o dan y pennawd 'Children's Programmes (R. & T.V.) fel 'Organiser, Children's Programmes'. Mae'r cyfuniad o radio a theledu yn ei disgrifiad swydd yn adlewyrchiad o bolisi'r BBC i greu undod rhwng staff radio a theledu, '[with] the notion eventually of a completely interchangeable staff'.<sup>232</sup>

Gwraig sengl arall ddaeth i olynu Williams ym Mangor yn 1961 sef Ruth Price, gan adael ei gyrfa ym myd addysg fel prifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn Iago ym Mhontarddlais. O Fathri, Sir Benfro y deuai'n wreiddiol, lle y'i magwyd gan ei mamgu a'i thadcu, gan iddi golli ei mam yn ifanc.<sup>233</sup> O Ysgol Uwchradd Tŷ-ddewi aeth i hyfforddi fel athrawes yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe rhwng 1942 ac 1944 ac aeth ei gyrfa â hi yn athrawes ifanc i Sir Drefaldwyn, ac yna yn athrawes peripatetig Cymraeg ail-iaith yng Nghaerdydd. Ym 1947 dychwelodd i ofalu am ei mamgu am chwe mis, dyletswydd y bu i Nan Davies ymgymryd ag ef fel nodwyd eisoes, cyn iddi ailgydio yn ei gyrfa yn ei sir enedigol.<sup>234</sup> Yn 1955 ymgymrodd â'r

---

<sup>231</sup> BBC: BBC History, <<https://www.bbc.co.uk/historyofthebbc/100-voices/pioneering-women/speaking-to-you-at-home>> [cyrchwyd 27 Mehefin 2020]. Gellir cymharu profiad Howell drachefn gyda Marguerite Patten (gweler troednodyn 71). Yn 1956 daeth Patten yn gyflwynydd ar gyfres deledu newydd i'r BBC sef *Cookery Club*, lle roedd gwylwyr yn danfon eu ryseitiai ati ac enillydd y rysait gorau yn cael dod i'r stiwdio. Myfanwy Howell, *Amser Te* (ITV Weekly, 1960).

<sup>232</sup> BBC Written Archive Centre, Caversham, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru: 10 Mawrth 1954, 'minute no 21: Statement on Feature Programmes'.

<sup>233</sup> R. Alun Evans, teyrnged yn angladd Ruth Price, 2019.

<sup>234</sup> Beti a'i Phobol, 21 Chwefror 1985,

her o arwain ysgol, sef Ysgol Gymraeg Bryn Iago oedd wedi agor y flwyddyn flaenorol, ond oherwydd salwch ni fu modd iddi ymgymryd â'r swydd tan rai misoedd yn ddiweddarach.<sup>235</sup>

Roedd awdurdod Gorllewin Morgannwg wedi agor dwy ysgol Gymraeg arall yn y sir yn yr un flwyddyn, ac er y gefnogaeth gan rieni oedd yn awyddus i weld eu plant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, roedd yna hefyd wrthwynebiadau chwyrn.<sup>236</sup>

Denwyd sylw staff y BBC yng Nghymru at gymeriad cryf y brifathrawes, oedd eisoes wedi cyfrannu yn achlysurol ar yr awyr, a chynigiwyd swydd iddi ym Mangor gan Sam Jones, yn y ddarpariaeth i blant. Byr fu ei harhosiad yn y gogledd, ond yn ystod ei chyfnod yno cychwynnodd raglen i bobl ifainc ar fore Sadwrn o dan y teitl *Clywch, Clywch* (1962–3).<sup>237</sup> Gellid ystyried y gyfres hon yn rhagflaenydd i'r rhaglenni *Helo, Sut Dach Chi?* ac yna *Sosban*, a ddaeth i nodweddu boreau Sadwrn i Gymry Cymraeg ifainc. Amlygai hefyd ddiddordeb Price mewn defnyddio cerddoriaeth i dargedu cynulleidfa ifanc a daeth hyn i nodweddu ei gwaith teledu yn hwyrach. Fe'i hadleolwyd i Gaerdydd yn 1963 fel cynorthwy-ydd cynhyrchu gan ddatblygu yn un o gynhyrchwyr adloniant ysgafn amlycaf Cymru ochr yn ochr â Meredydd Evans.<sup>238</sup> Bu farw ei rhagflaenydd o fewn y genre hwn, Mai Jones ychydig ynghynt yn 1960, flwyddyn wedi iddi ymddeol, ac ni chafodd Jones y cyfle i fynd i'r afael o ddifrif gydag adloniant ysgafn ar deledu.

Daeth cychwyn y chwedegau â chyfnod cyffrous o ddarlledu cyhoeddus i Gymru fel gweddill Prydain. Roedd Adroddiad Pilkington 1962 yn gyffredinol ganmoliaethus o'r BBC gan osod y bai ar deledu masnachol am anfodlonrwydd cyffredinol y cyhoedd gyda'r cyfrwng. Priodolwyd llawer o'r llwyddiant hwn i arweiniad Syr Hugh Carlton-Greene y Cyfarwyddwr Cyffredinol (1960–69) a lwyddodd erbyn cyhoeddi'r adroddiad i gynyddu cyfran y BBC o'r gynulleidfa i fod gyfwerth â'r gynulleidfa fasnachol am y tro cyntaf ers i deledu masnachol gychwyn darlledu.<sup>239</sup>

---

<sup>235</sup> Evans, *Stand-by*, t. 232. Roedd Price yn eisteddfodwraig o fri, hi oedd enillydd y brif gystadleuaeth adrodd i ferched yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957, bu'n feirniad cenedlaethol ar y grefft am nifer o flynyddoedd a chai flas ar feithrin diddordeb o'r fath yn ei disgyblion

<sup>236</sup> *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000*, gol. gan Iolo Wyn Williams (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2002).

<sup>237</sup> Evans, *Stand-by*, t. 232. BBC Genome, *Clywch Clywch!*

<<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=asc&q=clywch+clywch#search>> [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2020].

<sup>238</sup> Evans, *Stand-by*, t. 232.

<sup>239</sup> Crisell, t. 112.

Cytunwyd i godi ffi'r drwydded a rhoddwyd hawl i'r BBC sefydlu sianel ychwanegol sef BBC2 a lansiwyd ar 20 Ebrill 1964.<sup>240</sup> Cyflwynwyd tystiolaeth i Bwyllgor Pilkington o blaid rhaglenni yn y Gymraeg a rhaglenni a fyddai'n adlewyrchu Cymru a'i ffordd o fyw. Crisalwyd craidd y ddadl, fel y nododd Medhurst, gan T.I. Ellis, ysgrifennydd *Undeb Cymru Fydd* wrth iddo roi tystiolaeth ar lafar mewn ymateb i sylw gan y cadeirydd Syr Harry Pilkington, a gyfeiriodd at Gymru fel lleiafrif pwysig, 'You say minority, Sir; we say nation'.<sup>241</sup> Sefydlwyd gwasanaeth i Gymru gyfan sef BBC Cymru Wales ar 9 Chwefror 1964 a hynny dan ofal Pwyllgor Darlledu Cymru. Roedd hyn i'w nodi yn y Bumed Siarter, gan wahaniaethu Cymru oddi wrth ranbarthau Lloegr oedd yn garreg filltir bwysig dros ben.<sup>242</sup> Wrth i'r degawd fynd rhagddo daeth gofid am sefyllfa ariannol y Gorfforaeth a effeithiodd ar ddatblygiad safle newydd i'r BBC yng Nghymru yn Llandaf. Adleolwyd y staff gweinyddol a radio yno erbyn Medi 1966, ond roedd y staff teledu i aros yn ardal Broadway, ochr arall i ddinas Caerdydd, am y tro. Agorwyd y safle'n swyddogol ym mis Mawrth 1967,<sup>243</sup> ond heb un o'i darlledwyr disgleiriaf sef Hywel Davies a sbardunodd y freuddwyd am hunaniaeth darlledu a safle gwerth chweil ar gyrion y brif ddinas.<sup>244</sup>

Mae'r bennod hon wedi amlygu sut y cychwynnodd gyrfaoedd yr arloeswyr benywaidd gyda'r BBC yng Nghymru, gyda Nan Davies, Marion Griffith Williams a Mai Jones yn derbyn gwaith yn y man cyntaf fel ysgrifenyddes, swyddog cynorthwyol yn yr Adran Gyhoeddusrwydd a phianydd. Llwyddodd y tair i ddringo'r ysgol a'u dyrchafu yn gynhyrchwyr yn y maes ffeithiol a'r maes adloniant ysgafn. Er ei gwaith clodwiw fel cyflwynydd a chynorthwy-ydd cynhyrchu ni lwyddodd Myfanwy Howell i ganfod ei lle mewn darlledu cyhoeddus a sicrhau gwaith cyson, cynigiwyd hynny iddi gan ddarlledu masnachol a chollodd y BBC unigolyn disglair. Cynigodd y ddarpariaeth i blant (a ystyrid yn faes priodol i staff benywaidd) agoriad i sawl un o'r arloeswyr. Er mai fel actores y cyflogwyd Evelyn Williams i gychwyn, arweiniodd ei phrofiad ar raglenni plant at yrfa fel cynhyrchydd o fewn y ddarpariaeth i blant ar radio a theledu. Denwyd Ruth Price o fyd addysg at y

---

<sup>240</sup> Crisell, t. 120.

<sup>241</sup> Jamie Medhurst, 'You Say A Minority, Sir; We Say A Nation': *The Pilkington Committee on Broadcasting (1960–2) and Wales*, *The Welsh History Review*, 22.2, (2004), 305-332 (t. 329) <<https://doi.org/10.16922/whr.22.2.6>>.

<sup>242</sup> Davies, t. 231.

<sup>243</sup> *ibid.*, t. 277.

<sup>244</sup> *ibid.*, t. 278.

ddarpariaeth hon ond ym maes adloniant ysgafn y gwnaeth ei marc. Yr arlwy i blant hefyd a gynigodd agoriad i Lorraine Davies o fewn darlledu cyhoeddus, ac wedi iddi gollu ei gŵr daeth cyfle iddi ymgymeryd â'r swydd a wrthodwyd iddi ddegawd ynghynt. Dysgodd Teleri Bevan ei chreffft gyda Lorraine Davies, ac o'i gwaith cynnar ar raglenni plant llwyddodd i gyrraedd swydd reoli o fewn y BBC yng Nghymru, y fenyw gyntaf i wneud hynny.

Wrth iddynt oll fel darlledwyr wynebu'r cyfnod a adwaenir bellach fel y Chwedegau Hirion, roedd yna newid yn y gwynt. Roedd yna broffesiynoli anorfod yn digwydd yn wyneb ehangiad yn nifer y staff a chystadleuaeth o du darlledu masnachol. Bellach roedd angen diwallu anghenion gwrandawyr ar gyfrwng a ddibynnai ar y gair ac a deimlai o dan fygythiad, a cheisio ymateb i awch gwylwyr am gyfrwng newydd cyffrous. Yn ogystal roedd yna newidiadau cymdeithasol dirfawr ar droed yn fyd-eang a ffocws newydd ar leiafrifoedd a llais pobl ifainc. Yng Nghymru adlewyrchwyd hynny gyda sefydlu y mudiad cenedlaetholgar Cymdeithas yr Iaith a drodd eu sylw at ddarlledu. Daeth y diwydiant darlledu yn ffocws hefyd i ymgyrch y Mudiad Menywod yn fyd-eang gan arwain at newid mewn deddfwriaeth hawliau menywod ar gychwyn y saithdegau. Bwriad ail ran y bennod hon yw archwilio'r cyfnod a adnabyddir fel y Chwedegau Hirion a'r grymoedd croes ddaeth i'w nodweddu gan ddarparu cefnlen liwgar i fywyd yr arloeswyr benywaidd.





## Pennod 1b

### Y cyd-destun hanesyddol: Y Chwedegau Hirion

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i hanes y chwedegau, ac yn dadansoddi sut mae haneswyr wedi ei gweld fel dilyniant o'r degawdau a fu, ac ar yr un pryd wedi ei hystyried yn arwydd o gyfnod newydd a brofodd yn drobwyt i'r ugeinfed ganrif. Dewisodd rhai haneswyr fabwysiadu label Y Chwedegau Hirion er mwyn trefnu eu canfyddiadau, a chaiff ystod y cyfnod hwnnw o ddiwedd y pumdegau hyd at gychwyn y saithdegau ei olrhain. Bydd y bennod hon yn darparu ciplun o gymdeithas Cymru'r Chwedegau Hirion, fel bo'r darlennydd yn meddu ar gyd-destun hanesyddol priodol cyn i'w sylw gael ei arwain at ddarlledu ac ymdrechion yr arloeswyr benywaidd mewn darlledu cyhoeddus yn benodol.

Wrth fwrw golwg yn ôl dros unrhyw gyfnod yn y gorffennol, mae haneswyr yn tueddu i osod eu terfynau amser eu hunain ar flynyddoedd penodol er mwyn hwyluso eu hymchwil a'u hysgrifennu, sy'n gydnabyddiaeth nad yw cyfnodau hanesyddol yn syrthio yn gymen i derfynau degawdau a chanrifoedd.<sup>1</sup> Caiff ystod y cyfnodau eu gosod yn unol â diddordebau academyddion, ac os yw'r academyddion hynny yn cofio'r cyfnod o dan sylw gall eu profiad liwio eu canfyddiad ohoni. Ar un llaw gall y chwedegau arwyddo cyfleoedd a rhyddid newydd, ac ar y llaw arall gall ddynodi cyfnod o ddirywiad, a hiraeth am oes a fu. Mae'r rheiny ar y Dde yn wleidyddol yn gyson yn eu hymdrechion i dynnu gwynt o hwyl ac egni'r chwedegau,<sup>2</sup> 'If you look back on the Sixties and think there was more good than bad, you're probably a Democrat. If you think there was more harm than good, you're probably a Republican.'<sup>3</sup> Roedd y Prif Weinidiog Ceidwadol Margaret Thatcher yn barod i fwrw bai ar y chwedegau am broblemau cymdeithasol yr wythdegau, gan gyfeirio at gynnydd mewn cyfraddau ysgariad a throsedd, ynghyd â gostyngiad mewn gwerthoedd Cristnogol.<sup>4</sup> Nid Thatcher yn unig a honnai ddylanwad y degawd y tu hwnt i derfyn 1970; fel dengys Heale, cred rhai mai hon oedd degawd hiraf yr

---

<sup>1</sup> Arthur Marwick, *The Sixties: Cultural Revolution in Britain, France and the United States, c.1958-c.1964* (Llundain: Bloomsbury, 2012), t 5.

<sup>2</sup> Christopher Connery a Hortense J. Spillers, 'Introduction: The Still Vacillating Equilibrium of the World', *boundary 2*, 36.1 (2009), 1-5, (tt. 2-3).

<sup>3</sup> Michael J. Heale, 'The Sixties as History: A Review of the Political Historiography', *Reviews in American History*, 33.1 (2005), 133-152, (t. 134) <<http://www.dx.doi.org/doi:10.1353/rah.2005.0009>>.

<sup>4</sup> Nick Thomas, 'Will the real 1950s please stand up? Views of a contradictory decade', *Cultural and Social History*, 5.2 (2008), 227-235, (t. 228).

ugeinfed ganrif oherwydd ei dylanwad.<sup>5</sup> Yn yr un modd nododd Connery a Spillers ar ddiwedd degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, ‘we remain in a post-sixties era: many of the forces that arose to combat the sixties remain in power. These forces understood the challenge of the sixties. We should too.’<sup>6</sup>

Penderfynwyd mabwysiadu y cyfnod sy’n cael ei adnabod fel Y Chwedegau Hirion ar gyfer y traethawd hwn gan fod hynny’n cynnig cyfle i olrhain dylanwad y pumdegau hwyr oedd yn gyfnod cyffrous mewn darlledu gydag ehangiad teledu, twf arweiniodd at gynydd yn nifer y staff a weithiai mewn darlledu cyhoeddus. Dyma gyfnod cystadleuaeth mewn darlledu am y tro cyntaf gyda sefydlu darlledu masnachol yn y Deyrnas Unedig yn 1955. Rhydd y cipolwg ar y saithdegau gyfle i rag-weld newidiadau oedd ar droed o safbwynt y Mudiad Rhyddid Menywod a deddfu ar hawliau cyfartal i fenywod.

Frederic Jameson oedd y cyntaf i ddefnyddio’r term Y Chwedegau Hirion, gan arwyddo diwedd y pumdegau hyd at 1973–74 fel ystod o flynyddoedd arwyddocaol.<sup>7</sup> I ddynodi cychwyn y cyfnod trodd ei olygon tuag at y Trydydd Byd a digoloneiddio gan Brydain a Ffrainc yn Yr Affrig; enillodd Ghana ei hunaniaeth yn 1957 a’r un modd, drefedigaethau is-Sahara Ffrainc yn 1959.<sup>8</sup> Arweiniodd hyn at gychwyn dirywiad y grym imperialaidd ac at gwestiynu grym y sefydliadau a honnai eu bod yn siarad ag un llais. Bellach roedd cydnabyddiaeth i hunaniaethau lleiafrifol, a darparwyd model i leisiau amgen y Byd Cyntaf, megis lleiafrifoedd ethnig, menywod a hoywon droi ato yn hwyrach yn ystod y chwedegau.<sup>9</sup> I ddynodi diwedd Y Chwedegau Hirion cyfeiria Jameson at ddwy garreg filltir bwysig sef penderfyniad Lluoedd yr Unol Daleithiau i adael Fietnam yn 1973 ac argyfwng economaidd byd-eang 1974 a roes ddiwedd ar ehangiad economaidd y cyfnod wedi’r Ail Ryfel Byd a ffyniant y chwedegau.<sup>10</sup>

---

<sup>5</sup> Heale, t.134.

<sup>6</sup> Connery a Spillers, t. 3.

<sup>7</sup> Frederic Jameson, ‘Periodizing the 60s’, *Social Text*, 9/10 (1984), 178-209, (t. 180) <<http://dx.doi.org/doi:10.2307/466541>>.

<sup>8</sup> *ibid.*, t. 180.

<sup>9</sup> Caroline M. Hofferle, *British Student Activism in the Long Sixties* (Oxon. Abingdon: Routledge, 2013), t. 6.

<sup>10</sup> Jameson, t. 205.

Mabwysiadwyd label Y Chwedegau Hirion gan haneswyr eraill, yn eu plith Arthur Marwick a nododd y flwyddyn 1958 fel 'critical point of change',<sup>11</sup> pan oedd newidiadau bychain a di-nod y 1950au yn cychwyn dwyn ffrwyth, newidiadau a ddatblygodd yn elfennau pwerus yn ystod y 1960au. Gwêl yntau ddiwedd y cyfnod yn ymestyn i'r 1970au, gan i nifer o agweddau newydd y 1960au barhau hyd at hynny, a rhannodd ei gyfrol i dri is-gyfnod, sef 1958 i 1963, 1964 i 1968/9 a 1969 i 1974.

Ym maes Hanesyddiaeth, diddorol yw bwrw golwg ar y terfynau eraill y mae academyddion wedi eu gosod ar y degawd o dan sylw. Er enghraifft yn ei gyfrol ar yr ugeinfed ganrif nid yw Hobsbawm yn dewis neilltuo'r degawd fel cyfnod ar wahân, caiff ei hystyried ganddo yn rhan o oes aur sy'n cychwyn ym 1945 ac yn gorffen ym 1973, gyda'r argyfrwng olew rhyngwladol yn cau pen y mwdwl.<sup>12</sup> Mae Marwick a'i derfyn o 1974, yn bwrw golwg ar Brydain, Yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Eidal yn ei gyfrol, a noda bod haneswyr y ddwy wlad a nodir olaf, ynghyd â Gorllewin Yr Almaen yn gosod pwysigrwydd ar y pumdegau oherwydd ffyniant eu heconomïau yn ystod y degawd hwnnw.<sup>13</sup> Cyfeiria'r Ffrancwyr hefyd at *les trente glorieuses*, y tri deg mlynedd economaidd gwych wedi'r Ail Ryfel Byd sef y pumdegau, y chwedegau a'r saithdegau. Pwysleisia Marwick bod dadansoddiad o'r chwedegau yn gofyn am ystyriaeth o ffactorau ehanagach na'r economi yn unig, megis diwylliant, safonau newydd o ymddygiad rhywiol a phŵer cynyddol pobl ifainc.<sup>14</sup>

Yn gyffredinol caiff y flwyddyn 1968 ei nodi fel carreg filltir y degawd, a bod y flwyddyn yn fwy arwyddocaol na'r degawd ar ei hyd.<sup>15</sup> Dadl Marwick yw bod gosod pwysigrwydd ar y flwyddyn unigol yn gamarweiniol, ac yn arwydd o ddiffyg ystyriaeth i'r digwyddiadau allweddol a arweiniodd ati.<sup>16</sup> Cred yr awdur Bruce Schulman i'r degawd ddod i ben y flwyddyn honno, 'If one year delineated the end of the Sixties and the beginning of the Seventies, it was the year 1968. It struck many observers, then and now, as a revolutionary year.'<sup>17</sup> Dyma'r flwyddyn y bu i long

---

<sup>11</sup> Marwick, t. 6.

<sup>12</sup> Eric Hobsbawm, *The Age of Extremes: The Short Twentieth Century 1914-1991*, (Llundain: Michael Joseph, 1994).

<sup>13</sup> Marwick, t. 7.

<sup>14</sup> Ibid.

<sup>15</sup> Heale, t.135.

<sup>16</sup> Marwick, t. 8.

<sup>17</sup> Bruce J. Schulman, *The Seventies: The Great Shift in Culture, Society and Politics*, (Efrog Newydd: The Free Press, 2001), t. 1.

ofod Apollo 8 gylchu'r lleuad, y flwyddyn y lladdwyd Martin Luther King a Robert F. Kennedy. Yn 1968 cafwyd Deddf Hawliau Dynol ac anfodlonrwydd cynyddol am Ryfel Fietnam. Rhagwelai Jon Margolis y newid oedd ar droed, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn nheitol ei gyfrol, *The Last Innocent Year: America in 1964 – the Beginning of the Sixties*.<sup>18</sup> Yn gysylltiedig gyda'r cysyniadau yma mae label Y Chwedegau Byrion, neu'r 'high sixties' fel term ar gyfer blynyddoedd cwta, canol y degawd, a dyna'r teitl a osododd Marwick ar ei is-gyfnod o 1964 i 1969.<sup>19</sup>

Ond trwy ba lens mae haneswyr wedi gweld Cymru y chwedegau? Yn ffrâm eang ei gyfrol *Hanes Cymru*, mae John Davies yn troi at y chwedegau (degawd y bu ef ei hun yn weithgar ynddi fel ymgyrchydd iaith), yn ei bennod olaf o dan y teitl 'Caerdydd, Margam a Thryweryn: Cymru oddi ar 1939'.<sup>20</sup> Mae'r teitl yn darparu gorolwg o'r agweddau sy'n cael sylw yn y bennod, o sefydlu Caerdydd fel prifddinas Cymru yn 1955, i drai y diwydiant glo a buddsoddi mewn diwydiannau newydd, ac at dwf cenedlaetholdeb a sefydlu Cymdeithas yr Iaith yn 1962. Yn ei gyfrol *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales*, yn wahanol i Davies, diwedd yr Ail Ryfel Byd yn hytrach na'i ddechrau yw'r ffocws i Kenneth O. Morgan, 'Part III: The Renewal, 1945-1980', ac mae'r economi, y Gymdeithas Newydd, cenedlaetholdeb a datganoli oll yn denu ei sylw.<sup>21</sup> Beirniadaeth Beddoe yw bod haneswyr yn ymestyn y disgrifiad *post-war* hyd at gyfnod cyhoeddi ei chyfrol (2000), a bod tuedd i ganolbwyntio ar yr wythdegau a'r nawdegau. Yn sgil y grymoedd croes oedd ar waith dynoda 1945–1970 fel 'the most neglected, complex and fascinating periods in twentieth century Welsh women's history'.<sup>22</sup>

Un o'r cysyniadau sy'n graidd i astudiaeth hanesyddol o'r cyfnod o dan sylw yng Nghymru yw ymwybyddiaeth o'r genedl. Meddai John Davies, 'O'r holl feysydd deallusol y bu'r Cymry'n ymroi iddynt yn y degawdau wedi'r rhyfel, dichon mai'r mwyaf cynhyrchiol oedd rhai'n ymwneud â'r genedl ei hun'.<sup>23</sup> Dengys y modd daeth haneswyr i fwrw golwg ar y genedl, 'Cafwyd astudiaethau gwerthfawr ar y Cyfnod

---

<sup>18</sup> Jon Margolis, *The Last Innocent Year: America in 1964 – the Beginning of the Sixties*, (Efrog Newydd: William Morrow, 1999).

<sup>19</sup> Marwick, t. 223.

<sup>20</sup> Davies, t. 572-662.

<sup>21</sup> Kenneth O. Morgan, *Rebirth of a Nation: 1880-1890* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), tt. 307-442.

<sup>22</sup> Deidre Beddoe, *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-Century Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t. 135.

<sup>23</sup> Davies, t. 635.

Modern Cynnar...ond y Cyfnod Modern Diweddar a ddenodd fryd trwch y to newydd o haneswyr.<sup>24</sup> Trodd rhai eu golygon tuag at y de diwydiannol, gyda hanes y maes glo yn cael sylw haeddiannol i gydbwysu'r pwyslais honedig a fu ar y bröydd gwledig.<sup>25</sup>

Caiff y chwedegau â'u nodweddion unigryw eu cynnwys yng nghynifer o benodau cyfrol Merfyn Jones, *Cymru 2000*, a gyhoeddwyd ochr yn ochr gyda darllediad cyfres o'r un enw ar S4C.<sup>26</sup> Caiff penodau'r gyfrol eu trefnu fesul thema, sy'n nodwedd gyffredin wrth i gyfrwng fel teledu geisio roi trefn ar wybodaeth ar gyfer cynulleidfa leyg.<sup>27</sup> Ymhlith teitlau'r ddeuddeg pennod mae themâu y gellir eu rhagfynegi, megis Gwleidyddiaeth a'r Economi, ond ochr yn ochr â hwy mae adlewyrchiad o themâu sy'n berthnasol i'r Gymru gyfoes megis Cymru Amllddiwylliannol a Menywod. Diddorol yn y cyswllt hwn yw sylw Brown a Baker mai tueddu i gael eu getoeiddio o fewn un bennod mewn llyfrau hanes y mae menywod.<sup>28</sup> Mae yna drefniadaeth thematig hefyd i rai penodau yn y gyfrol a olygwyd gan Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams ar hanes yr iaith Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif, er enghraifft ar newyddiaduraeth, darlledu, crefydd, twristiaeth ac amaeth.<sup>29</sup> Bydd y rhan nesaf o'r bennod hon yn rhoi sylw i rai o'r themâu a grybwyllwyd gan yr haneswyr Cymraeg a nodwyd, er mwyn cynnig gorolwg o gymdeithas Y Chwedegau Hirion yng Nghymru (1958–1974).

Yn ôl Davies, 'Y chwedegau oedd degawd cynta'r "gymdeithas oddefol" pan faluriodd y moesoldeb Fictoraidd â chyflymder oedd yn ymylu ar fod yn anweddus.'<sup>30</sup> Mae'r term y Gymdeithas Oddefol yn rhoi'r argraff o oes newydd oedd yn fodlon rhoi gorau i'w moesoldeb dros nos, ond yn ôl Petigny, roedd gwawr yr oes honno i'w chanfod yn y degawd blaenorol, 'The behavior (sic.) that was hidden in the 1950s finally exploded into public view the following decade.'<sup>31</sup> Noda bod agweddau pobl wedi cychwyn newid yn ystod y pumdegau, wrth iddynt droi tuag at

---

<sup>24</sup> Davies, t. 636.

<sup>25</sup> *ibid.*, t. 637.

<sup>26</sup> Merfyn Jones, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).

<sup>27</sup> Am drafodaeth ehangach ar y modd caiff hanes ei drin gan y cyfryngau gweler: Ann Gray ac Erin Bell, *History on Television*, (Efrog Newydd: Routledge, 2013).

<sup>28</sup> B.J. Brown a Sally Baker, *Mothers, Wives and Changing Lives*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011).

<sup>29</sup> Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, *Eu Hiaith a Gadwant: Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000).

<sup>30</sup> Davies, t. 617.

<sup>31</sup> Alan Petigny, *The Permissive Society: America 1941-1965* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2009), t. 249.

syniadau mwy rhyddfrydol ar fagu plant, crefydd, seicoleg, statws menywod, gwyddoniaeth a defnydd o gyffuriau.<sup>32</sup> Yn yr un modd yn y Deyrnas Gyfunol roedd deddfau newydd y chwedegau yn hanu o syniadau a blannwyd ddegawdau ynghynt, ac o'r herwydd gellid honni bod y cysyniad o don ddiwygiadol oddefol yn golchi i'r lan yn ystod y chwedegau yn un camarweiniol.<sup>33</sup> Yn yr un modd ag y crybwyllwyd agweddau cyffredinol at y degawd eisoes, mae'r modd mae haneswyr yn portreadu'r Gymdeithas Oddefol yn ddibynnol ar eu safbwynt a'u profiad o'r chwedegau, naill ai maent yn gweld y chwyldro cymdeithasol fel ffenomenon oedd yn gwanhau ffeibr cymdeithasol y wlad, neu fel ffenomenon oedd yn rhyddhau unigolion o hualau moesoldeb.<sup>34</sup>

O dan lywodraeth Lafur blynyddoedd olaf y degawd (1966–1970) pasiwyd deddfau i adlewyrchu agwedd fwy ryddfrydol, a ddenodd gefnogaeth o gyfeiriad aelodau seneddol Ceidwadol yn ogystal. Gwelodd 1967 basio tair deddf nodedig sef y Ddeddf Erthyly, y Ddeddf Cynllunio Teulu a'r Ddeddf Troseddau Rhywiol. Rhoddai'r ddwy gyntaf yr hawl i fenywod gael rheolaeth dros eu cyrff, ac er bod y bilsen ar gael i fenywod priod ers 1961, daeth y newid hwn yn 1967 â dulliau atal genhedlu a chynghor ar gynllunio teuluol o dan ddarpariaeth y Gwasanaeth Iechyd, ynghyd â'r hawl i gynghori menywod priod a di-briod fel ei gilydd. Arweiniodd y Ddeddf Troseddau Rhywiol at gyfreithloni perthynas gyfunrywiol rhwng dau ddyn dros 21 oed yng Nghymru a Lloegr. Enghraifft nodedig arall sy'n crisialu'r agwedd newydd oedd diddymu'r Gosb Eithaf a hynny am gyfnod o bum mlynedd i gychwyn, yn 1964, tan ei diddymu yn gyfangwbl yn 1969. Ymateb negyddol a gafwyd o du'r cyhoedd i ddiddymu'r Gosb Eithaf, ac mae modd dadansoddi'r penderfyniad i ddeddfu yn ei herbyn fel enghraifft o fuddugoliaeth yr *elite* dros y dyn cyffredin.<sup>35</sup> Dylid nodi, nid ymateb i ofynion cymdeithas oddefol a fynnai'r newidiadau hyn oedd gwleidyddion, eithr gweithredent ar sail y cysyniad eu bod, oherwydd eu safle, yn medru ymateb i'r ymdeimlad o ryddid a diwylliant rhyddfrydol newydd a nodweddi'r degawd. Credent yn eu gallu i beri newid mewn cyfraith gwlad, a arweinodd yn ei dro at y cysyniad o Gymdeithas Oddefol.<sup>36</sup>

---

<sup>32</sup> Petigny, t. 249.

<sup>33</sup> Dominic Sandbrook, *Whiteheat: a history of the swinging sixties* (Llundain: Little, Brown, 2006), t. 341.

<sup>34</sup> Llion Wigley, 'Y Tad a'r mab a'r merched: crefydd, ieuencid a diwylliant yn y Gymru Gymraeg c.1958- c.1970' (thesis doethurol heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, 2011)

<sup>35</sup> Peter Hitchens, dyfynnwyd yn Sandbrook, t.340.

<sup>36</sup> Sandbrook, t. 340.

Glynnai cymdeithas y chwedegau at ei hanian geidwadol, er gwaethaf y dirywiad a welwyd yn y nifer a fynychai addoldai, fel nododd Morgan, 'chapel culture was in an advanced state of decay'.<sup>37</sup> Er i'r Eglwys yng Nghymru weld cynnydd yn y rheiny a fu'n cymryd Cymun Y Pasg ers diwedd yr Ail Ryfel Byd,<sup>38</sup> roedd yn rhaid i Esgob Llandaf nodi yn 1961, 'The man-in-industry is no longer the-man-in-church, the man-in-chapel and the man in the worshipping community'.<sup>39</sup> Proses araf oedd y dirywiad hwn mewn crefydd, ond fe'i cyflymwyd gan y degawd ac yn nhŷb rhai roedd gan y cyfryngau torfol ac yn enwedig teledu, rôl yn y modd y cylchredwyd syniadau newydd.<sup>40</sup> Nodwyd yn y gyfrol *Generation X*, 'Television has opened our eyes to the mumbo jumbo of organized religious ceremony,'<sup>41</sup> er hyn roedd dylanwad crefydd yn parhau i ddal ei afael yn dynn ar gymdeithas yng Nghymru, 'Religion may attract only a minority of the Welsh people to its services, but it continued to articulate a set of behavioural standards and moral expectations that were widely recognized, albeit sometimes only in the breach.'<sup>42</sup> Amlygodd y bleidlais cau tafarndai ar y Sul ym mis Hydref 1961 pa mor dynn oedd y gafael hwnnw, gyda'r wyth sir orllewinol yn pledleisio yn erbyn agor ar y Sul, a'r chwe sir ddwyreiniol o blaid.<sup>43</sup>

Anfarwolwyd agwedd gul y capeli mewn cynhyrchion llenyddiaeth a ffilm, megis nofel Caradog Prichard *Un Nos Ola Leuad* (1961), a'r nofel *How Green Was My Valley* (1931) a addaswyd yn ffilm o dan yr un teitl a'i rhyddhau yn 1941. Mae un o gyfranwyr y gyfrol *Mothers, Wives and Changing Lives* yn credu bod portreadau o'r fath o gymdeithas yng Nghymru wedi lliwio barn eraill, ac yn gwbl wahanol i'w phrofiad hi o fagwraeth yn y capel.<sup>44</sup> Noda Aaron, 'Fear and loathing of uncontained female sexuality, if not outright misogyny, are often assumed to have been of the essence of Welsh Non-conformity'.<sup>45</sup> Er bod tystiolaeth o ferched di-briod oedd yn canfod eu hunain yn feichiog yn cael eu neilltuo o gapeli, mae astudiaeth yn ardal

<sup>37</sup> D. Densil Morgan, *The Span of the Cross* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999) t. 253.

<sup>38</sup> *ibid.* t. 189. Dengys yr ystadegau fel a ganlyn: 1945: 155,911; 1959:170,338; 1960:182,864.

<sup>39</sup> Glyn Simon, Esgob Llandaf, dyfynnwyd yn Morgan, t. 221.

<sup>40</sup> Marwick, t. 432.

<sup>41</sup> Charles Hemblet a Jane Deverson, *Generation X* (Llundain: Tandem Books Limited, 1964), t. 33.

<sup>42</sup> Chris Williams, 'On a Border in History, Wales, 1945-1980' yn *The People of Wales: A Millennial History*, gol. gan Gareth Elwyn Jones a Dai Smith, (Llandysul: Gomer, 1999), tt. 207-241 (t. 209).

<sup>43</sup> Cafwyd y bleidlais hon yn dilyn Deddf Drwyddedu 1960.

<sup>44</sup> Brown a Baker, t. 134.

<sup>45</sup> Jane Aaron, 'Finding a Voice in Two Tongues: gender and colonization' yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt.183-198 (t. 183).

Llanfrothen yn ystod y pumdegau a'r chwedegau cynnar yn amlygu bod 2/5 o'r priodasau yn cael eu dilyn gan enedigaeth plentyn mewn wyth mis neu lai; amlygir hefyd bod y raddfa yma gyda'r uchaf yng Nghymru a Lloegr.<sup>46</sup> Dengys bod cymdeithas yn medru bod yn hyblyg yn y modd yr oedd yn ymdrin gyda merched beichiog er y cod capelyddol ymddangosiadol cul a hyrwyddwyd gan gyfryngau torfol a llenyddiaeth.<sup>47</sup>

Mae nifer o'r unigolion yn y sampl a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad fu'n sail i'r gyfrol *Mothers, Wives and Changing Lives* yn cyfeirio at gynhesrwydd a magwrfar capel trwy gyfrwng gweithgareddau fel y *Band of Hope*, yr Ysgol Sul, cymryd rhan mewn dramâu a chystadlu mewn eisteddfodau. Roedd y ddwy agwedd olaf yn caniatáu i blant brofi cyfleoedd y tu hwnt i'w hardal leol gan weld gwerth eu cyfalaf diwylliannol yn ehangach na'u cymuned eu hunain, 'Cultural capital is concerned with knowledge, skill, education and related advantages that can lead to a higher status in society, closely approximating the accretions of knowledge aspirations and spirituality which have been claimed to be central to Wales' identity.'<sup>48</sup> Mae rhywedd yn allweddol wrth feithrin cyfalaf o'r fath,<sup>49</sup> a chaiff menywod eu hystyried yn 'vectors of cultural capital' gyda mamau yn fwyaf amlwg yn y rôl yma.<sup>50</sup> Mewn diwylliannau lleiafrifol mae pwyslais ar y teulu yn rhan o hunaniaeth genedlaethol,<sup>51</sup> ac ar ysgwyddau'r fam y gorwedd y cyfrifoldeb o drosglwyddo iaith a diwylliant i'r genhedlaeth nesaf.<sup>52</sup> Ochr yn ochr gyda'r fam mae rhwydwaith o fenywod megis neiniau a modrybedd, yn ogystal â menywod y tu hwnt i'r teulu fel athrawon a hyfforddwyr, oll yn allweddol wrth hyrwyddo uchelgais ymysg merched a bechgyn fel ei gilydd, gan geisio sicrhau gwell amodau i'w plant nag a gawsant hwy. Gwelir patrymau tebyg yn Yr Alban ac yn Lloegr, ond yng Nghymru mae'r cysylltiad gyda chrefydd Anghydffurfiol, a'r gwerth a roddai'r grefydd honno ar gaffael gwybodaeth yn allweddol. Yr oedd menywod felly yn ddylanwadol yn eu rolau gwahanol, yn fwy felly nag y mae hanes wedi ei nodi yn y gorffennol.<sup>53</sup>

---

<sup>46</sup> Williams, t. 213.

<sup>47</sup> Isabel Emmett, *A North Wales village: a social anthropological study* (Llundain: Routledge & K. Paul, 1964).

<sup>48</sup> Brown a Baker, t. 116.

<sup>49</sup> Susan A. Dumais, 'Cultural capital, gender and school success: the role of habitus', *Sociology of Education*, 75.1 (2002), 44 - 68 (t. 47) <<http://doi.org/doi:10.2307/3090253>>.

<sup>50</sup> Brown a Baker, t. 109.

<sup>51</sup> Brec'hed Piette, 'Identity and Language: The Example of Welsh Women', *Feminism and Psychology*, 7.1 (1997), 129-137, (t. 31). <<https://doi.org/10.1177/0959353597071013>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020]

<sup>52</sup> Nira Yuval-Davies a Floya Anthias, *Woman, Nation, State* (Basingstoke: Macmillan, 1989), t. 9.

<sup>53</sup> Brown a Baker, t. 81.



Ymddengys bod cymdeithasau a sefydliadau a ystyrir yn batriarchaidd yn fodlon cynnig cyfleoedd i fenywod mewn sfferau penodol,<sup>54</sup> ac yng nghyd-destun y capeli, o fewn gweithgareddau traddodiadol yr oedd hynny, wrth ymwneud gyda hyfforddiant y plant, gweithred oedd yn cynnal y *status quo* yn hytrach nag yn ei herio. Caiff y rôl draddodiadol hon ei hatsain gan ddarlun Beata Lipman o Gymru fel gwlad sy'n gweithredu 'on the premise that the men and the boys do the leading and most of the thinking, the women bring up the supportive tea-making rear'.<sup>55</sup> Mae hyn yn dwyn i gof gerdd Menna Elfyn *A Wnaiſſ y Gwragedd aros ar Ôl?*,<sup>56</sup> ond roedd yna flaenoresau i'w canfod yn rhai o gapeli Cymru'r 50au a'r 60au.<sup>57</sup> Bu'r eglwys yn fwy hwyrfrydig i gydnabod menywod mewn rolau swyddogol a ffurfiol, gyda menywod Yr Eglwys yng Nghymru yn cael eu hordeinio yn 1997, dair blynedd ar ôl yr Eglwys yn Lloegr (er bod nifer o fenywod wedi bod yn gweithredu mewn rolau bugeiliol cyn hynny).<sup>58</sup>

Yng Nghymru ymddengys bod paradocs rhwng profiadau menywod oedd yn herio rhaniadau rhywedd a'u dulliau o siarad am ffeminyddiaeth, sy'n awgrymu bod eu profiadau o gymdeithas yn wahanol i alwadau'r Mudiad Rhyddid Menywod a'i gyfeiriadau at orthrwm a thrais, oedd yn canfod ei lais yn yr Unol Daleithiau ac i raddau llai yn Lloegr yn ystod y chwedegau.<sup>59</sup> Fel nododd Aaron, 'Feminism is frequently viewed with suspicion by Welsh identified communities as an alien and divisive Anglo-American phenomenon.'<sup>60</sup> Mae profiad teulu'r Beasleys, Llanelli yn werth cyfeirio ato yn y cyd-destun hwn, teulu a fu'n byw fersiwn o ffeminyddiaeth cyn i'r Ail Don Ffeminyddol ddominyddu'r disgwrs.<sup>61</sup> Bu mam y teulu, Eileen Beasley yn gweithio yn llawn amser ar adeg pan nad oedd hyn yn gyffredin ymhlith menywod priod gyda phlant, tra arhosai ei gŵr, Trevor, gartref i gynorthwyo gyda magu'r plant. Roedd hi hefyd yn gynghorydd tref a fu'n frwd dros faterion a ddaeth o

---

<sup>54</sup> Marion Collis, 'Marital conflict and men's leisure: how women negotiate male power in a small mining community', *Journal of Sociology*, 3 (1999), 5.1, 60–76. <<https://doi.org/10.1177/144078339903500104>>

<sup>55</sup> Beata Lipman, 'Diary of a Welsh Liberationist', *Planet*, 15 (1973), tt. 33-36.

<sup>56</sup> Menna Elfyn, *Mynd Lawr i'r Nefoedd*, (Llandysul, Gwasg Gomer, 1986), t. 27.

<sup>57</sup> Brown a Baker, t. 142

<sup>58</sup> Enid Morgan, 'Identity and religion' yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt. 267-272.

<sup>59</sup> Brown a Baker, t. 79.

<sup>60</sup> Aaron, t. 183.

<sup>61</sup> Brown a Baker, t. 55.

ddiddordeb i ffeministiaid yn ddiweddarach, megis amodau geni a help i fenywod sengl gyda phlant, a thai.

Yn gyffredinol bu gwacter o safbwynt ffeminyddiaeth yng Nghymru rhwng diwedd yr Ail Ryfel Byd a'r saithdegau cynnar, yn ystod y cyfnod hwn bu farw rhai o'r menywod fu'n flaenllaw dros hawliau menywod yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, a'r bwlch ar eu hól yn amlwg.<sup>62</sup> Er mai menywod oedd y prif ryw yng Nghymru ni adlewyrchwyd hynny mewn cynrychiolaeth wleidyddol; tair aelod seneddol benywaidd a fu'n gwasanaethu yn ystod y pumdegau a'r chwedegau, sef Eirene White (nee Lloyd Jones), Megan Lloyd George a Dorothy Rees.<sup>63</sup> Gweithgareddau cymdeithasol a chodi arian a nodweddi gymdeithasau i fenywod fel y *Women's Institute* ('*W.I.*') a'r *Townswomen's Guild* (er gwreiddiau radical y mudiad hwn).<sup>64</sup> Sefydlwyd *Merched y Wawr* yn 1967 gan Zonia Bowen, er mwyn cynnig cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fenywod, ac mae'r weithred honno yn amlygu sut yr oedd awydd menywod yng Nghymru i beri newid wedi ei glymu wrth frwydr yr iaith.<sup>65</sup> Mae profiad Ceinwen, merch teulu'r Beasleys y cyfeiriwyd atynt uchod yn darlunio hyn, 'It would seem that interest in politics and the fact "we were fighting for the language" subsumed greater issues.'<sup>66</sup> Yn dilyn araith Tynged yr Iaith gan Saunders Lewis yn 1962 sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith, a bu menywod yn amlwg yn y mudiad hwnnw hyd at heddiw (2022), er mai yn fwy diweddar y cawsant rolau arweiniol.<sup>67</sup> Caiff hyn ei gadarnhau gan yr awdur, ymgyrchydd a chyn-gadeirydd Cymdeithas yr Iaith, Angharad Tomos, nodai mai dynion oedd â'r rolau swyddogol hyd at y saithdegau, ond bod cyfartaledd rhywedd wastad wedi bodoli ar fwrdd rheoli'r gymdeithas ac yn rhengoedd y protestio, 'We're only actually segregated by our sex when it comes to police cells and prisons. Otherwise, we are inseparable.'<sup>68</sup> Ymddengys bod y ffocws ar iaith yn nodweddu gweithgareddau menywod mewn diwylliannau lleiafrifol eraill, megis yn Iwerddon,<sup>69</sup> ac ymhlith menywod Americanaidd brodorol yn yr Unol Daleithiau.<sup>70</sup> Yng Nghymru datblygodd rhai o

---

<sup>62</sup> Beddoe, t. 155. Caiff enwau'r canlynol eu nodi: bu farw Mary Collin yn 1955, Y Fonesig Rhondda a Barbara Foxley yn 1958, ac Edith Picton-Turbervill yn 1960.

<sup>63</sup> *ibid.*, t.156.

<sup>64</sup> *ibid.*

<sup>65</sup> Piette, tt. 131-132.

<sup>66</sup> Brown a Baker, t.55.

<sup>67</sup> *ibid.* t. 56.

<sup>68</sup> Angharad Tomos, 'A Welsh lady' yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, tt. 259-266 (t. 260).

<sup>69</sup> Charlotte Aull-Davies, 'Women, nationalism and feminism', *ibid.* tt. 242-255, (t. 253).

<sup>70</sup> Piette, t. 132.

fenywod amlwg y mudiad iaith yn ffeministaidd, sawl un ohonynt yn awduron a beirdd megis Menna Elfyn, Meg Elis ac Angharad Tomos ei hun, gyda chyfnod o garchar dros un hawl yn arwain at sylweddoliad o hawl arall.<sup>71</sup>

Dylid nodi mai nodwedd y Gymru Gymraeg oedd y diffyg ymwneud gyda'r Mudiad Rhyddid Menywod, bu menywod di-Gymraeg yn weithgar o gychwyn y saithdegau. Arweiniodd hyn at gynhadledd nodedig yng Nghaerdydd yn 1974 a drefnwyd ar y cyd rhwng Grŵp Gweithredu Menywod Caerdydd a'r Cyngor Cenedlaethol dros Ryddid Sifil, sefydlwyd Cymorth i Fenywod Caerdydd yn 1974 a sefydlwyd lloches i fenywod yn Abertawe yn 1975.<sup>72</sup> Awgrym Brown a Baker yw bod y rhesymau dros ddiffyg ymwneud menywod yn y Gymru Gymraeg gyda'r Mudiad Rhyddid Menywod yn ymestyn tu hwnt i geidwadaeth cymdeithasol a'r ymgyrch iaith.<sup>73</sup> Er bod rhai o themâu galwadau'r mudiad yn wybyddus i fenywod Cymru, ac er nad oeddent wedi ennill cyfloedd cyfartal ar lefel gyfreithiol, 'there were locally negotiated and interpersonally mediated means for women to enter male-dominated occupations, participate in chapel communities, engage in political activism and escape violent marriages.'<sup>74</sup>

Gyda threigl y chwedegau daeth dylanwadau newydd i erydu'r diddordeb yng ngweithgareddau traddodiadol y capel,<sup>75</sup> gydag atyniadau hamdden newydd ynghyd â chynnydd mewn perchnogaeth y car i'w weld yn y rhannau mwyaf gwledig o Gymru. Daeth cyflogaeth y tu allan i'r cartref i gynnig cyfloedd newydd i fenywod, ond bu i berthynas menywod gyda gwaith cyflogedig amrywio gryn dipyn trwy gydol yr ugeinfed ganrif. Ar ei throad, roedd pum miliwn o fenywod yn rhan o'r gweithlu ym Mhrydain, sef tua traean o'r holl weithlu, ond yn ystod yr 1920au gwelwyd 'odid ddim twf yng nghyfartaledd y menywod a oedd mewn swyddi'.<sup>76</sup> Wrth i'r ganrif fynd rhagddi gwelwyd cynnydd yn y nifer o fenywod oedd mewn gwaith, ac mae Beddoe<sup>77</sup> a Morgan<sup>78</sup> yn nodi ill dau bod hynny i'w briodoli i'r ddau ryfel byd. Er hyn diflannu dros nos wnaeth y bri a roddwyd ar fenywod mewn gwaith

<sup>71</sup> Menna Elfyn, 'Writing is a bird in hand', yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, tt. 280-286 (t. 282).

<sup>72</sup> Beddoe, t. 162

<sup>73</sup> Brown a Baker, t 59.

<sup>74</sup> *ibid.*

<sup>75</sup> Beddoe, tt. 148-9

<sup>76</sup> Davies, t. 538.

<sup>77</sup> Beddoe, t. 74.

<sup>78</sup> Morgan, tt. 351-352.

yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, trodd sylwadau'r wasg o 'our gallant girls' at 'our women who stole men's jobs' a daeth cymdeithas i gredu drachefn mai yn y cartref (naill ai ei chartref ei hun neu un rhywun arall) y dylai'r fenyw fod.<sup>79</sup> Nodwyd gan Beddoe, 'It was as though, in the immediate post-war period, women were seen as having got above themselves and had to be knocked back into shape and into a position of dependency on men'.<sup>80</sup> Yng Nghymru daeth y Dirwasgiad hefyd i ddylanwadu ar y mudiad nôl i'r cartref, gwelwyd tlodi dybryd a gafodd effaith ar fenywod.

Fe adawodd yr Ail Ryfel Byd fwy o'i ôl ar gynnydd mewn cyflogaeth menywod, gyda llai yn dychwelyd i'w sefyllfa wreiddiol nag a wnaeth wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yna ddwy agwedd yn brwydro yn erbyn y dychweliad hwnnw sef cynnydd yng nghyfradd ysgariad, a'r cynnydd mewn plant siawns.<sup>81</sup> 'Yn wir byddai cyflogaeth menywod yn un o ffenomenonau amlycaf ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn y Gymru ddiwydiannol yn anad unman.'<sup>82</sup> O edrych ar yr ystadegau, yn 1939 roedd 94,000 o fenywod Cymru mewn gwaith, a chynyddodd y nifer i 204,000 erbyn diwedd y rhyfel yn 1945.<sup>83</sup> Er llwyddiant y diwydiannau trymion yng Nghymru yn y gorffennol, prin oedd y cyfleoedd cyflogedig i fenywod yn y maes hwnnw, ac mae Gwyn Alf Williams yn haeru fod profiad y Cymry o ddiwydiannaeth wedi peri iddynt ailddiffinio y gair 'gwaith' mewn termau gwrywaidd, 'The very idea of work itself was reconstructed on masculine principles. Few regions of Britain have been, over generations, so totally immersed in so macho a perception of work, the home and the relations between the sexes.'<sup>84</sup> Arweiniodd hyn at rôl draddodiadol a dibynnol i fenywod yng Nghymru,<sup>85</sup> a orfodwyd i wynebu patriarchiaeth a ddisgrifiwyd gan Beddoe fel, 'a particularly virulent strain', gan beri i waddol y sffêr preifat barhau am amser hir.<sup>86</sup>

---

<sup>79</sup> Beddoe, t. 74.

<sup>80</sup> *ibid.*

<sup>81</sup> Beddoe, t. 140. Yn 1931, 628 o fenywod yng Nghymru oedd wedi ysgaru, erbyn 1961 roedd y ffigwr yn 7,4381 a degawd yn ddiweddarach yn 14,365. Mae ystadegau cyfradd y plant siawns ychydig yn fwy amrywiol, wedi cyfradd o 7.8% yn 1945 cafwyd gostyngiad yn ystod y pumdegau i 4% tan iddo godi drachefn yn 1967 i 6.86%.

<sup>82</sup> Davies, t. 582.

<sup>83</sup> *ibid.*

<sup>84</sup> Gwyn Alf Williams, 'Women Workers in Wales, 1968-1982', *Welsh History Review*, 11: 4, 1983 tt. 530-48 (tt. 530-1).

<sup>85</sup> *ibid.*

<sup>86</sup> Beddoe, tt. 180-181.

Rhwng Mehefin 1945 a Gorffennaf 1946, tybiwyd bod yna ddychweliad cyffredinol at ddibyniaeth menywod ar ddynion, gwelwyd cynnydd yn y nifer o fenywod di-waith yng Nghymru o 6,835 i 29,079,<sup>87</sup> ond daeth *Distribution of Industry Act 1945* â gobaith newydd, gydag addewid gan y Llywodraeth o 125,000 o swyddi newydd (70,000 i ddynion, a 55,000 i fenywod). Erbyn 1947 roedd mwy o ddiwydiannau newydd yng Nghymru nag yn unrhyw le arall ym Mhrydain, a rhan o'r apêl oedd y potensial ar gyfer llafurlu benywaidd.<sup>88</sup> Dynodwyd De Cymru yn Ardal Datblygu yn 1948 gan ddod â 105,201 o swyddi i weithwyr benywaidd, sef cynnydd o 90% er 1938 lle cafwyd 54,712 ohonynt.<sup>89</sup>

Gwelwyd cwmnïau Prydeinig yn agor ffatrioedd newydd mewn llefydd yng Nghymru megis Trefforest, Abertawe a Wrecsam ac erbyn 1955 roedd 34,550 o fenywod a 32,050 o ddynion yn cael eu cyflogi yn y gweithleoedd hyn.<sup>90</sup> Bron ugain mlynedd yn ddiweddarach, yn 1973, gwelwyd uchafbwynt yn y nifer a gyflogwyd sef 74,469 gyda 35,694 ohonynt yn fenywod.<sup>91</sup> Rhwng 1951 ac 1971 gwelwyd cynnydd o 49% yn y llafurlu benywaidd Cymreig, gyda lleihad o 6% yn y llafurlu gwrywaidd.<sup>92</sup> Erbyn 1965 ym Merthyr Tudful roedd traean y llafurlu yn fenywod,<sup>93</sup> ac erbyn diwedd y 1970au yn Nhreforci roedd hanner y llafurlu yn fenywod.<sup>94</sup> Adlewyrchai'r cynnydd hwn dwf mewn diwydiannau ysgafn a swyddi gweinyddol, gyda llawr y ffatri a'r amgylchfyd swyddfa yn cynnig gweithle y tybiwyd ei fod yn gwbl addas i fenywod. Roedd y cynnydd yma yn ffenomenon a brofwyd i raddau gwahanol ar draws Cymru, a hynny mewn ardaloedd gwahanol ar ac am resymau amrywiol.<sup>95</sup> Cyfeiriodd Teleri Bevan, cyn-Reolwr Dros Dro BBC Cymru, mewn cyfweliad, at 'fyddin' o fenywod yn gweithio ym maes darlledu pan ddechreuodd hi ar ei gyrfa yng Nghaerdydd yn 1955, a hynny gan fod nifer wedi dod at y gwaith yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, wedi cael blas arni ac wedi dal ati.<sup>96</sup> 'Women in Wales undoubtedly benefited from a new sense of personal and occupational

<sup>87</sup> Mari A. Williams, (2002) *A Forgotten Army* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 222.

<sup>88</sup> Beddoe, t. 139.

<sup>89</sup> *ibid.*

<sup>90</sup> Catrin Stevens, *Voices from the Factory Floor: The Experiences of Women Who Worked in the Manufacturing Industries in Wales, 1945-1975* (Stroud: Amberley, 2017), t. 8.

<sup>91</sup> Percival, G. 'The Government's Industrial Estates in Wales 1936-1975', thesis doethurrol heb ei gyhoeddi, t. 48, dyfynnwyd yn Stevens, t. 8.

<sup>92</sup> Davies, t. 605.

<sup>93</sup> Morgan, t. 35.

<sup>94</sup> Davies, t. 605.

<sup>95</sup> Gwyn Alf Williams, t. 535.

<sup>96</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Teleri Bevan, Ebrill 2014.

freedom in the post-1945 period.’<sup>97</sup> Ond wrth i haneswyr gwrywaidd ysgrifennu eu datganiadau am gynnydd mewn cyflogaeth menywod yn gyffredinol, mae Beddoe wedi tynnu sylw at y tensiynau personol a brofai menywod unigol, ar un llaw ceid ‘the powerful agents of conservatism and tradition’ a’u denai at ofynion y cartref, ac ar y llaw arall ‘the forces of economic change, often working in tandem with women’s aspirations’ a’u denai at ryddid byd gwaith, a’r math o swyddi newydd oedd yn agored iddynt.<sup>98</sup>

Ymhith y swyddi newydd, ystyriwyd gwaith ysgrifenyddol yn *glamorous*, a’r duedd oedd i ddiffrïo gwaith ffatri fel estyniad o lafur domestig ac addas i fenywod, ‘Women it was believed were suited for dull, repetitive work and particularly for tasks that demanded manual dexterity and patience.’<sup>99</sup> Ystyriwyd y gwaith gan nifer o’r gweithwyr benywaidd eu hunain fel tasg undonog, tra ymfalchïai eraill yn eu gwaith. Ond beth bynnag oedd natur y gwaith ei hun, roedd iddo arwyddocâd dyfnach, fel nodwyd gan Yvonne Morris, un o weithwyr ffatri ‘Tick Tock’ yn Ystradgynlais:

[Factory work] gave them a sense of independence and also a sense of who they were as individuals. Because most of them were married with families everybody [outside the factory] reacted to them that way – they were somebody’s wife and somebody’s mother, but while they were in the factories they were themselves, and ...they got back in touch with their identity and who they were.<sup>100</sup>

Bu creu y Wladwriaeth Les wedi’r Ail Ryfel Byd yn ffactor a hybodd y cysyniad traddodiadol o’r fenyw fel unigolyn dibynnol, ac er na ddiffiniwyd hi’n union yn y termau hynny yn Adroddiad Beveridge (1942) dyna oedd y realiti i fenywod priod. Daeth Deddf Yswiriant Gwladol 1946 i rym ddwy flynedd yn ddiweddarach gan nodi nad oedd disgwyl i fenywod priod, hyd yn oed os oeddent yn gweithio, i gyfrannu, ac fe seiliwyd eu hawl i fudd-daliadau ar gyfraniadau eu gwŷr.<sup>101</sup> Caniatawyd iddynt dalu cyfradd gostyngol os dymument, a pharhaodd yr opsiwn

---

<sup>97</sup> Morgan, t. 351.

<sup>98</sup> Beddoe, t. 135

<sup>99</sup> Stevens, tt. 11-12.

<sup>100</sup> *ibid.*

<sup>101</sup> Beddoe, t. 136.

hwnnw tan 1977.<sup>102</sup> Er apêl *The Women's Co-operative Guild* i'r Llywodraeth Lafur ddiwedd y pedwardegau i ailystyried hyn, a'r twf oedd ar droed yn y nifer o fenywod priod oedd mewn gwaith, fe'u hanwybyddwyd.<sup>103</sup> Daeth effaith y polisi hwn i'w benllanw yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2020), gyda menywod oedd yn cyrraedd oedran ymdeol yn canfod eu hunain yn brin o arian, sef un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y Bwlch Pensiwn Rhywedd. Tanlinellwyd dibyniaeth menywod priod ar eu gwŷr ymhellach gan realiti masnachu dydd i ddydd, oherwydd tan 1970 nid oedd hawl gan fenyw i gael morgais na nwyddau ar dâl benthyg onibai bod dyn yn arwyddo fel gwarantwr.<sup>104</sup> Eithriad i hyn fu'r Lwfans Teulu a ddaeth i rym yn 1946, a nododd hawl y fam i dderbyn taliadau, a hynny wedi brwydro hir er 1917, gan yr Aelod Seneddol Eleanor Rathborne.<sup>105</sup>

Mater arall gwerth cyfeirio ato, yw amodau gwaith menywod priod. Roedd Deddf (Dileu) Anghysonderau Rhyw 1919 wedi deddfu yn erbyn gwahardd menywod priod o'u swyddi, er hyn parhaodd arfer y Gwaharddiad Priodas o fewn strwythurau cyrff megis y Gwasanaeth Sifil, y BBC, cwmnïau mawrion fel ICI a'r proffesiwn addysg.<sup>106</sup> Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf dim ond traean o awdurdodau lleol a'i gweithredai, ond ar gychwyn y daudddegau gyda sefyllfa o ddiwethdra a chyni ariannol, fe'i gweithredwyd yn ehangach.<sup>107</sup> Collodd rhai menywod priod eu gwaith a gorfodwyd eraill i ymddiswyddo wrth iddynt briodi.<sup>108</sup> Gwnaed ymdrech bellach i ddiddymu'r Gwaharddiad gyda Deddf Addysg 1944, ac yn raddol gwelwyd cyflogwyr yn gweithredu ar hyn. Er yr ystyriwyd y BBC yn ei ddyddiau cynnar, fel y nodwyd eisoes yn weithle arloesol o ran cyfleoedd cyfartal,<sup>109</sup> daeth newid ar fyd gyda'r Gwaharddiad Priodas a gyflwynwyd yn 1932, ac a barhaodd mewn grym tan 1944. O'i ddiddymu caniatwyd i fenywod priod i barhau yn eu swyddi (hyd yn oed os oeddent yn briod gydag aelod o staff y BBC), ond fe'u gwaharddwyd rhag ymgeisio am ddirchafiad. Er yr ystadegau moel, digon anghyson fu gweithrediad y

---

<sup>102</sup> Gweler gwefan Llywodraeth San Steffan: <<https://www.gov.uk/reduced-national-insurance-married-women>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020]

<sup>103</sup> Beddoe, t. 137. O edrych ar yr ystadegau, yn 1911, roedd 78.8% o'r llafurlu benywaidd yn ddi-briod, 10.8% yn weddw a 10.4% yn briod; erbyn 1951 roedd 32% ohonynt yn briod, a deng mlynedd yn ddiweddarach yn 1961 roedd y ffigwr hwnnw wedi cynyddu i 50%.

<sup>104</sup> *ibid.*

<sup>105</sup> *ibid.*

<sup>106</sup> Gweler gwefan Llywodraeth San Steffan: <<https://history.blog.gov.uk/2015/05/26/a-perfect-nuisance-the-history-of-women-in-the-civil-service/>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020].

<sup>107</sup> Brown a Baker, t. 102.

<sup>108</sup> Alison Oram, *Women Teachers and Feminist Politics, 1900-39* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 1996), t. 61.

<sup>109</sup> Cyflwyniad y traethawd hwn, t. 4.

Gwaharddiad o fewn y BBC yn ganolog, a gwelwyd yr un anghysondeb o fewn y sector addysg.<sup>110</sup>

Roedd gyrfa o addysgu plant yn opsiwn dilys i fenywod addysgedig trwy gydol yr ugeinfed ganrif, a chaiff addysgu fel gyrfa ei hystyried yn enghraifft o ymdrech lwyddiannus i herio anghyfartaledd rhywedd, yn wahanol i yrfaeod eraill.<sup>111</sup> Caiff hyn ei gyfeirio ato fel benyweiddio addysg,<sup>112</sup> ac fe ddechreuodd y ffenomenon ynghynt yng ngogledd orllewin Cymru na gweddill y Deyrnas Unedig.<sup>113</sup> Rhoddai gyfle hefyd i unigolion ddychwelyd at fro eu mebyd i'w chyfoethogi trwy'r gyfundrefn addysg, agwedd bwysig yn nilysrwydd cymunedau difreintiedig gogledd orllewin Cymru,<sup>114</sup> a gellid cymhwyso'r gosodiad hwn i ardaloedd eraill yng ngorllewin Cymru, 'The fact that intelligent, well-informed people have stayed in the community in the past means that the community is worth staying in now.'<sup>115</sup> Mae'r meddylfryd yma yn cysylltu gyda gweledigaeth y mudiad Adfer, a fu'n weithgar o'r chwedegau hyd at yr wythdegau, a'u cysyniad o'r Fro Gymraeg.<sup>116</sup>

Ar draws Cymru, er 1944, roedd addysg yn orfodol hyd at 16 ar gyfer merched a bechgyn, gydag arholiad y 11+ yn rhannu plant yn ôl eu gallu i'r ysgol ramadeg neu'r ysgol gyfun leol. Dengys tystiolaeth bod mwy o lefydd ar gael i fechgyn na merched yn yr ysgolion gramadeg, ac mae ymchwil ar arferion yn Lloegr yn nodi bod merched yn gorfod sgorio'n uwch na bechgyn er mwyn cael mynediad i'r ysgolion hynny, y dybiaeth yw bod y sefyllfa yn debyg yng Nghymru.<sup>117</sup> Yng nghyswllt disgyblion galluog, ni chai gwahaniaeth ar sail rhyw ei nodi yng ngeiriad Adroddiad Norwood 1943 a arweiniodd at y Ddeddf Addysg 1944, ond roedd yna wahaniaethu yn digwydd ar lawr gwlad, gyda llai o adnoddau yn cael eu buddsoddi mewn ysgolion gramadeg i ferched, er enghraifft llai o ddarpariaeth labordai a'r penderfyniad bwriadol i beidio cynnig Ffiseg fel pwnc.<sup>118</sup> Roedd y sefyllfa i'r llai galluog yn dipyn gwahanol, gyda chryn wahaniaethu ar sail rhyw yn digwydd, wedi

<sup>110</sup> Brown a Baker, t. 102.

<sup>111</sup> *ibid.*, t. 100.

<sup>112</sup> Gweler ymhellach: Becky Francis, *Girls, and Achievement Addressing the Classroom Issues* (Llundain, Efrog Newydd: Routledge Falmer, 2000).

<sup>113</sup> Brown a Baker, t.100.

<sup>114</sup> *ibid.*, t. 100.

<sup>115</sup> Emmett, t. 12.

<sup>116</sup> Ysgrifennodd Owain Owain yn *Tafod y Ddraig*, 4, Ionawr 1964, am y cysyniad o'r Fro Gymraeg. Ymhellach yn *Y Cymro*, 12 Tachwedd 1964, nododd, 'Enillwn y Fro Gymraeg ac fe enillir Cymru, ac oni enillir y Fro Gymraeg, nid Cymru a enillir'. Daeth y weledigaeth hon yn sail i fanifesto y mudiad Adfer.

<sup>117</sup> Beddoe, t. 152.

<sup>118</sup> Beddoe, t. 152.



ei seilio ar y rhagdybiaeth mai dynion oedd y prif enillwyr cyflog, ac mai rôl menywod oedd bod yn wragedd a mamau. Y nod, a atseiniwyd yn Adroddiad Crowther 1959 ac Adroddiad Neusom 1963 oedd paratoi merched ar gyfer bywyd o ofalu am y cartref, ni cheid unrhyw gyfeiriad at y gydnabyddiaeth bod menywod ar gael i weithio wedi iddynt fagu plant. Roedd hyn yn gwbl groes i ystadegau'r cyfnod ar fenywod priod mewn gwaith.

Hyd at ganol y pumdegau dyrannwyd grant i fyfyrwyr addysg os oeddent yn rhoi eu haddewid i fynd i'r proffesiwn wedi iddynt gymhwyso, ac erbyn 1965 roedd 40% o fenywod a dderbyniodd radd o Brifysgol Cymru yn troi at swyddi fel athrawesau,<sup>119</sup> gyrfa a gynigiai swydd broffesiynol, sefydlog ynghyd â chyflog dda. Nododd Beddoe, 'Women teachers were a well-trained totally unionized, professional body',<sup>120</sup> ac arweiniodd hyn at sicrhau tâl cyfartal i athrawon yn 1954 ac fe'i cyflwynwyd yn raddol i'r gweithlu hyd at 1961. Roedd tâl cyfartal yn nodwedd o fewn y Gwasanaeth Sifil hefyd, ond roedd tuedd i fenywod gael eu cyflogi ar y graddfeydd is.<sup>121</sup>

Darlun cwbl wahanol a geid ar lawr y ffatri, gyda'r dosraniad dyletswyddau wedi ei rannu'n ddwfn ar hyd rhigol ystyriaethau rhywedd.<sup>122</sup> Y dynion oedd y rheolwyr a'r fformyn, a'r menywod oedd ar lawr y ffatri, er gwaetha'r ffaith bod llawer o fenywod wedi ymgymryd â chyfrifoldebau llai traddodiadol yn ystod cyfnod y Rhyfel. Mae'r rheswm am hynny yn cael ei nodi gan Michelle Ryan a weithiai yn ffatri Glassworks, Caerdydd ac yn atseinio'r cysyniad o unigolyn dibynnol drachefn, 'The men had come back, they needed their pride, they need their senses of being the bread winner... the head of the household... a wife could only help out'.<sup>123</sup> Nid oedd modd manteisio ar gynlluniau megis prentisiaethau ychwaith er mwyn dringo'r ysgol, gan mai bechgyn yn unig a gai'r fraint honno yn ystod y pumdegau a'r chwedegau.<sup>124</sup> Pwysleisiwyd rhaniadau rhywedd yn ystod y cyfleoedd i ymlacio yn y gweithle hefyd, gyda thystiolaeth o hierarchiaeth yn amlygu ei hun mewn arferion dydd i ddydd, megis y modd cai bwyd ei weini a gwahanol fath o fwyd i'r rheiny ar y

---

<sup>119</sup> Beddoe, t. 152.

<sup>120</sup> *ibid.*, tt. 142-143.

<sup>121</sup> *ibid.*, t. 143.

<sup>122</sup> Stevens, t. 12.

<sup>123</sup> *ibid.* t. 56.

<sup>124</sup> *ibid.* t. 12.

lefelau uwch o gymharu â'r lefelau is, lle y cyflogwyd y mwyafrif o fenywod, a orfodwyd i giwio am eu cinio.<sup>125</sup>

Yn ystod y pedwardegau a'r pumdegau roedd yn anodd i fenywod ymuno gydag undebau llafur, ond nid pawb oedd yn gweld yr angen gan eu bod mewn swyddi a atebai eu gofynion.<sup>126</sup> I'r rheiny oedd yn fwy ymwybodol o'u hawliau, byddent yn talu eu *subs* yn dawel bach, a'u prif asgwrn cynnen oedd y gwahaniaeth rhwng eu cyflogau hwy a rhai'r dynion. Ystyriwyd mai *pin money* oedd cyflog gwraig briod, gan mai dynion oedd y prif enillwyr, er enillai ambell wraig fwy na'i gŵr a weithiai fel glöwr, yn enwedig gydag opsiynau ar gyfer gweithio oriau dros ben.<sup>127</sup> Yn raddol daeth aelodaeth o undebau llafur yn fwy derbyniol gyda menywod yn ymuno yn eu lluoedd, ac erbyn blynyddoedd olaf y chwedegau roedd cynadleddau masnach i fenywod yn unig yn cael eu cynnal. Arweiniodd y gweithgaredd hwn at Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970 a ddaeth i rym yn 1975 a bu i weithred menywod ffatri Ford Dagenham yn 1968 i fynd ar streic i hawlio tâl cyfartal gael ei anfarwoli yn y ffilm *Made in Dagenham* (2010).<sup>128</sup> Yng Nghymru cafwyd achlysur tebyg ddegawd ynghynt gyda gweithwyr benywaidd ffatri yn Fforest-fach, Abertawe yn gadael eu gwaith am na atebwyd eu galwad am fwy o gyflog, gwyddent hwy serch hynny bod digon o waith ar gael, ac fe'u cyflogwyd drannoeth gan gwmni Mettoy's gerllaw.<sup>129</sup>

Er gwaethaf natur ailadroddus y gwaith ffatri ac amodau'r gweithle, cai merched ifainc eu denu o'r ysgol yn syth at y math newydd o gyfleoedd cyflogaeth, gan aros yn y gweithleoedd tan iddynt briodi a chael plant. Yn wir ystyriwyd gwaith fel toriad rhwng ysgol a phriodas, 'Many of the factory girls started there at 15 and stayed for Mr Right to come along, and once the first baby came, finished and home. They were perfectly happy with this order of things.'<sup>130</sup> Roedd rhai merched wedi mynychu ysgol ramadeg, â gallu academiaidd, ond cyfnod dros dro rhwng gadael ysgol a chael plant oedd gwaith cyflogedig iddynt hwythau.<sup>131</sup>

---

<sup>125</sup> Stevens, t. 12.

<sup>126</sup> *ibid.* t. 86.

<sup>127</sup> *ibid.* t. 56.

<sup>128</sup> *Made in Dagenham*, cyf. gan Nigel Cole (BBC, DeLuxe London, Number 9 Films Ltd., 2010).

<sup>129</sup> Stevens, t. 88.

<sup>130</sup> Mary Lyn Jones (VSW 045), a weithiai i *Anglo Celtic Watch Company* yn Ystradgynlais, a adnabyddwyd yn lleol fel 'Tick tock', dyfynnwyd yn Stevens, t. 11.

<sup>131</sup> Stevens, t. 11.

Bu i'r cyfleoedd gwaith cyflogedig yn niwydiannau newydd y ffatri a'r gweinyddu yn fodd o sicrhau na ailadroddwyd patrwm cyflogaeth menywod wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn sgil dirywiad y diwydiannau trymion gellid honni bod y term 'gwaith' wedi ei ailddiffinio drachefn mewn termau llai gwrywaidd, er bod natur gwaith yn parhau i gael ei rannu yn ôl rhywedd. Ond nid yw'r sefyllfa yn un hollol ddu a gwyn, amlygwyd bod sefydliadau patriarchaidd (ar eu hamodau eu hunain) yn darparu cyfleoedd i fenywod arwain; yn achos y capeli Anghydfurfiol neilltuwyd cyfrifoldebau iddynt arwain gweithgareddau yn ymwneud â phlant. Er y cyfrifoldebau traddodiadol eu natur, creodd hyn gryn argraff ar ferched a bechgyn ifainc fel ei gilydd gan hybu'r cysyniad o uchelgais. Mae modd diffinio hyn fel meithrin cyfalaf diwylliannol, ac amlygwyd rôl menywod yn yr anogaeth hynny, cyfraniad na chloriannwyd yn ddigonol yn y llyfrau hanes. Yr oedd athrawesau hwythau yn rhan o'r anogaeth yma gyda byd addysg yn cynnig gyrfa atyniadol i ferched oedd wedi derbyn addysg, trefniant a hwyluswyd gan grant i astudio o 1965 ymlaen.

Bydd y bennod nesaf yn troi at y cyntaf o'r arloeswyr y mae'r traethawd hwn yn canolbwyntio arnynt, menyw a gychwynnodd ei gyrfa fel athrawes, sef Ruth Price, ond a gysegrodd ei gyrfa yn y pen-draw i'r genre adloniant ysgafn. Ni chollodd yr awydd i feithrin pobl ifainc, fel dengys y artistiaid a chyflwynwyr a gafodd y profiad o fod ar lawr y stiwdio gyda hi, ac ni chollodd olwg ar safon o fewn genre poblogaidd ar gyfrwng dylanwadol a roddai flaenoriaeth i ddelwedd. Wrth i ddegawd y chwedegau fynd rhagddi daeth gweithgareddau hamdden ac atyniadau estron i ddwyn sylw cymdeithas yn raddol, gan lastwreiddio dylanwad y capeli, ond roedd gan y diwylliant Anghydfurfiol rôl i'w chwarae yn natblygiad cerddoriaeth ysgafn yng Nghymru a ddeuai o dan ofal yr Adran Adloniant yn BBC Cymru. Ffurfiwyd llawer o'r grwpiau canu ysgafn benywaidd o dan adain y capeli a'u paratoi i ymddangos ar y gyfres a gynhyrchwyd gan Price, sef *Disc a Dawn*. Roedd hi, a phennaeth ei hadran, Merdydd Evans yn grediniol bod modd plethu dylanwadau Eingl-Americanaidd i ddeunydd Cymraeg, yn hytrach na'u gwrthsefyll, gan sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol i bobl ifainc Cymru.



## Pennod 2:

### Adloniant Ysgafn: Ruth Price

Roedd y rheiny a fu'n ymwneud â sefydlu'r BBC ym Mhrydain yn meddu ar weledigaeth i ddiogelu deunydd cynhenid Prydeinig rhag dylanwadau estron, fel nodwyd gan Reith, 'It is even possible that the national outlook, and with it, character is gradually being Americanised.'<sup>1</sup> Roedd yna ddrwgdybiaeth o'r poblogaidd a apeliai at y mwyafrif, sef y gynulleidfa dorfol, agwedd na choleddwyd gan Meredydd Evans a Ruth Price wrth ymlafnio i ddarparu arlwy adloniant ysgafn o fewn y BBC yng Nghymru ddeugain mlynedd yn ddiweddarach. Ymhlyg yn y cysyniad o ddarlledu cyhoeddus mae'r bwriad a gaiff ei grynhoi gan y geiriau, 'To inform, educate and entertain', ac yn olaf y gosodwyd y gair adloniant. Cyn diwedd y ddegawd gyntaf ers ei sefydlu buasai Reith yn mynegi ei ofid am ddylanwad y ddarpariaeth adloniant ysgafn, 'everyone seems to take Radio merely as another form of light entertainment.'<sup>2</sup> Un o'r prif resymau am y cysylltiad oedd yn datblygu rhwng darlledu ac adloniant ysgafn oedd mai yn araf bach y magodd y BBC enw da iddo'i hun i fedru denu gwleidyddion, artistiaid uchel eu parch a llenorion uchel-ael at y meicroffôn.<sup>3</sup>

Roedd agwedd Reith yn deillio o'i gred bod gan ddarlledu rôl hanfodol mewn 'enlightment', sef cyfoethogi profiad y gwrandäwr cyffredin a pheri iddo wella ei chwaeth yn unol â disgwyliadau a ddiffiniwyd gan y dosbarth canol.<sup>4</sup> Roedd y gwrandäwr cyffredin yn ffocws cryn drafodaeth ymhlith y darlledwyr cynnar, a phryderwyd fod gan adloniant ysgafn y potensial i arwain at wrando tap, goddefol ei natur yn hytrach na gwrandäwr gweithredol a hyrwyddwyd gan y BBC yn eu bwriad o feithrin y gwrandäwr delfrydol.<sup>5</sup> Aed ati felly i greu math newydd o adloniant oedd yn benthg o draddodiadau'r *music hall* a'r *vaudeville* ond â'r nod o hepgor risg; addaswyd achlysur cyhoeddus y gynulleidfa fywiog, ddsbarth gweithiol yn ddarpariaeth wedi ei sgriptio, o dan reolaeth ar gyfer y gwrandäwr a fuasai wedi

---

<sup>1</sup> Dyfynnwyd yn Paddy Scannell a D. Cardiff, 'Serving the nation: public service broadcasting before the war', gol. gan B. Waites, A. Bennet a G. Thompson, *Popular Culture Past and Present* (Llundain: Routledge, 1982), tt. 180-181.

<sup>2</sup> John C.W. Reith, *Broadcast over Britain*, (Llundain: Hodder & Stroughton, 1924), t. 34.

<sup>3</sup> David Hendy, *The BBC: A People's History* (Llundain: Profile Books Ltd., 2022), t. 48.

<sup>4</sup> Jennifer Doctor, *The BBC and Ultra-Modern Music, 1922-1936: Shaping a Nation's Tastes* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2000), t. 28.

<sup>5</sup> Gweler trafodaeth Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Volume 1: The Birth of Broadcasting, 1896-1927* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995), t. 222.

gwneud dewis bwriadol i wrando o dawelwch ei aelwyd drosiadol, 'the radio hearth'.<sup>6</sup>

Yn wreiddiol daeth cyfrifoldeb am adloniant ysgafn o dan arweiniad Val Gilegud a'r Productions Department,<sup>7</sup> ond hwyluswyd llwyddiant y genre pan sefydlwyd y *Variety Department* yn 1933 ac Eric Maschwitz wrth y llyw.<sup>8</sup> Symudwyd yr adran i swyn theatr Neuadd St. George nepell o goridorau sych Broadcasting House, a chasglodd Maschwitz dîm o unigolion creadigol at ei gilydd a lwyddodd i ysgafnhau darpariaeth radio'r BBC, ac a fedrai o ganlyniad gystadlu â'r gorsafoedd radio masnachol.<sup>9</sup> Er hyn, dim ond wedi dyfodiad teledu masnachol yn y 1950au yr ystyriwyd o ddifrif bod hawl gan bobl i gael eu hadlonni, ochr yn ochr â'u hawl i gael eu hysbysu.<sup>10</sup> Ar drothwy'r degawd dilynol gwelwyd penderfyniad bwriadol i herio cystadleuaeth fasnachol pan ail luniwyd darpariaeth radio'r BBC yn wyneb llwyddiant y gorsafoedd radio masnachol *pirate*, megis Radio Caroline.<sup>11</sup>

Arweiniodd hyn at lansio BBC Radio One a anelai'n benodol at bobl ifainc gydag arlwy fwriadol boblogaidd. Dengys y ddau ddatblygiad uchod mewn cyfnodau gwahanol sylweddoliad gan staff y BBC ynghylch natur darpariaeth ddarlledu, nid abwyd achlysurol oedd rhaglenni poblogaidd megis chwaraeon, cerddoriaeth ac adloniant at ddarpariaeth uchel-ael, roedd yn rhaid diwallu anghenion y mwyafrif yn gyson er sicrhau goroesiad gwasanaeth cyhoeddus.<sup>12</sup>

Yng Nghymru un o'r rhai a lawn sylweddolai werth adloniant ysgafn i ddarlledu cyhoeddus oedd y cynhyrchydd Ruth Price, ac wrth fwrw golwg yn ôl ar ei gyrfa yn 2019 nododd, 'I fi, os nad yw'r adloniant ysgafn gyda chi, a chwaraeon, 'does 'da chi ddim sianel. Ac os gewch chi'r ddau beth yna'n iawn, mae sianel gyda chi ... mae pobl yn colli ffordd 'da'r busnes teledu 'ma trwy beidio rhoi hwnna [adloniant ysgafn] yn gynta' bron.'<sup>13</sup> Yn 1963. ymunodd Price â'r Adran Adloniant Ysgafn

---

<sup>6</sup> Simon Frith, 'The Pleasures of the Hearth: the making of BBC light entertainment' yn *Formations of Pleasure*, gol. gan Frederic Jameson (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1983), tt. 101-123.

<sup>7</sup> Val Gielgud (1900-1981), <[https://www.imdb.com/name/nm0317350/bio?ref\\_=nm\\_ov\\_bio\\_sm](https://www.imdb.com/name/nm0317350/bio?ref_=nm_ov_bio_sm)> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>8</sup> Hendy, t. 146. Eric Maschwitz (1901-1969), <[https://m.imdb.com/name/nm0556178/?ref\\_=m\\_nmtrv\\_nm](https://m.imdb.com/name/nm0556178/?ref_=m_nmtrv_nm)> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>9</sup> Hendy, t. 146.

<sup>10</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Volume IV: Sound and Vision* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1978), t. 720.

<sup>11</sup> Sefydlwyd Radio Caroline yn 1964. Gweler: Robert Chapman, *Selling the sixties: the pirates and pop music radio* (Llundain: Efrog Newydd: Routledge, 1992).

<sup>12</sup> Tom Burns, *The BBC: Public Institution and Private World* (Llundain: Macmillan, 1977), tt. 38-39.

<sup>13</sup> Archif BBC Cymru, *Teledu'r Cymry*, deunydd crai cyfweiliad Ruth Price, 2019. Rhif rhaglen berthnasol: WWNB171W.

newydd-anedig yng Nghaerdydd gyda'r Merdydd Evans wrth y llyw.<sup>14</sup> Roedd y ddau eisoes yn adnabod ei gilydd gan i Evans a'i wraig Phyllis Kinney<sup>15</sup> gyflwyno rhaglenni i Price yn ystod ei chyfnod gyda'r BBC ym Mangor yn cynhyrchu rhaglenni *Awr y Plant*.<sup>16</sup>

Er bod cychwyn adran o'r fath yn digwydd yng Nghymru dri degawd wedi ymdrechion Maschwitz a'r BBC yn ganolog, ni fu Cymru'n amddifad o ddarpariaeth adloniant ysgafn ar y tonfeddi radio. Yn absenoldeb traddodiadau'r *music hall* a *variety*, datblygodd y genre o draddodiad cynhenid canu gwerin, yr eisteddfod, y noson lawen draddodiadol ac o fenthyciadau Eingl-Americanaidd, ond roedd gafael parhaus y capeli ar gymdeithas yn dylanwadu ar foesoldeb y cynnwys a'r modd y'i cyflwynwyd.<sup>17</sup> Mae modd olrhain y datblygiad o'r gyfres radio *Noson Lawen* (1936–39, 1947–67), a darddodd ym Mangor, hyd at gyfres deledu *Disc a Dawn* (1967–73) a ddaeth o stabl yr Adran Adloniant y mae enw Evans yn gyfystyr ag ef. Swynai donfeddi radio'r pedwardegau gyda'i lais melfedaidd fel rhan o'r grŵp Triawd y Coleg ar y *Noson Lawen*,<sup>18</sup> a daeth i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o adlonwyr pan y'i penodwyd yn bennaeth ar yr Adran Adloniant, gan gasglu criw o unigolion at ei gilydd er mwyn darparu amrediad eang o raglenni adloniant.

Yn yr un modd ag yr ofnwyd dylanwadau estron gan y BBC yn ganolog, felly hefyd y BBC yng Nghymru wrth i hunaniaeth darlledu gael ei ddatblygu a'i sefydlu i gefnlen o ymgyrchu ieithyddol. Roedd yna awydd i ddiogelu traddodiadau cynhenid Cymreig ond ar yr un pryd croesawu dylanwadau estron er sicrhau perthnasedd yr iaith ymhlith ieuencid. Roedd hyn ar ei fwyaf amlwg yn y gyfres *Disc a Dawn* a fu'n allweddol yn natblygiad pop Cymraeg, fel nododd Hill, 'it is unclear how a Welsh language popular music would have developed had it not been for Welsh-language broadcasting',<sup>19</sup> ac roedd Evans a Price yn gyrru'r datblygiad hwnnw. Yn

---

<sup>14</sup> Meredydd Evans (1919–2015), R. Arwel Jones, Y Bywgraffiadur Cymreig, *Evans, Meredydd* '(Meréd) (1919-2015), ymgyrchydd, cerddor, athronydd a chynhyrchydd teledu (2019), <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-EVAN-MER-1919>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>15</sup> Phyllis Kinney (1922–), Nia Mai Daniel, Blog Y Llyfrgell Genedlaethol, *Phyllis Kinney: Y gantores o Michigan* (2020), <<https://blog.llyfrgell.cymru/phyllis-kinney-y-gantores-o-michigan/>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>16</sup> *Teledu'r Cymry*, deunydd crai cyfweiliad Ruth Price. Pan benodwyd Evans i'w swydd fel Pennaeth yr Adran Adloniant symudodd Kinney ac yntau i dŷ tri llawr yn y brifddinas, ac aeth Price i fyw mewn fflat ar y llawr uchaf.

<sup>17</sup> Sarah Hill, *'Blerwytirhwng?' The Place of Welsh Pop Music* (Aldershot, Swydd Hampshire, Lloegr; Burlington, VT: Ashgate, c.2007), t. 52.

<sup>18</sup> R. Arwel Jones, Y Bywgraffiadur Cymreig.

<sup>19</sup> Hill, t. 51.

haeddiannol cofnodwyd a chydnabuwyd ymdrechion Evans,<sup>20</sup> ond mae cyfraniad Price yn llai amlwg. Bydd y bennod hon yn dadansoddi ei chysylltiad gyda'r genre adloniant ysgafn, yn benodol y ddarpariaeth cerddoriaeth bop mewn cyfnod lle roedd y ffenomenon eisoes yn sgubo'r Deyrnas Unedig, a sut y cai ei adlewyrchu ar deledu mewn cyfnod lle roedd staff yn parhau i feistroli'r cyfrwng gweledol. Mae modd gosod y gyfres *Disc a Dawn* mewn tri chyfnod cynhyrchu, gyda'r cyflwynwyr Ronnie Williams,<sup>21</sup> Huw Jones<sup>22</sup> a Mici Plwm<sup>23</sup> wrth y llyw yn eu tro.

Fel y nodwyd eisoes, cychwynnodd Price ar ei gyrfa fel athrawes yn y sector cynradd ond fe'i hudwyd gan Sam Jones yn 1961 o'i swydd fel prifathrawes gyntaf yr Ysgol Gymraeg ym Mhontarddulais, i weithio i'r BBC ym Mangor ar y ddarpariaeth i blant.<sup>24</sup> Profodd gyfnod heriol tu hwnt ym Mhontarddulais gan garfan a wyrthwynebai dwf addysg Gymraeg yn y dref, fel y mynegwyd ganddi, 'aeth yn dân gwyllt golau,'<sup>25</sup> a gwelwyd penawdau megis 'Schoolboy's "Crime" – reading English'<sup>26</sup> ac 'Apartheid Accusation in Welsh Village'<sup>27</sup> yn cyrraedd tudalennau'r wasg yng Nghymru a thu hwnt. Yn nhyb Price, mynegiant o ansicrwydd oedd y gwrthwynebiadau hyn, gan bod datblygiad addysg Gymraeg yn newydd ar pryd,<sup>28</sup> buan y sylweddolodd bod yn rhaid iddi brofi llwyddiant yr addysg honno, felly aeth ati'n ddiwyd i sicrhau canlyniadau da i arholiad y 11+, sy'n darlunio ymateb doeth i sefyllfa ddadleuol.<sup>29</sup> Nid oedd darlledu yn gwbl newydd iddi, oherwydd roedd eisoes wedi cael profiad ohono yng Nghaerdydd ac yn Abertawe, y naill pan fu'n athrawes beribatetig Cymraeg fel ail-iaith yn y brifddinas, a'r llall yn ystod ei chyfnod ym

---

<sup>20</sup> R. Arwel Jones, Y Bywgraffiadur Cymreig, 'Anrhydeddwyd ef â DLitt er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1998 a chymrodoriaethau er anrhydedd gan Brifysgolion Bangor, Aberystwyth, y Drindod Dewi Sant a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn fuan ar ôl ei farwolaeth yn 2015 anrhydeddwyd ef â'r Good Tradition Award, Gwobrau Gwerin Radio 2 ac yn 2019, i nodi canmlwyddiant geni Merêd, cyflwynwyd Gwobr Ysbrydoliaeth Gwobrau Cerddoriaeth Cymru iddo ef a Phyllis.' Cyhoeddwyd cyfrolau ac erthyglau amdano, yn eu plith, *Merêd: detholiad o ysgrifau Dr. Meredydd Evans*, gol. gan Ann Ffranco a Geraint H. Jenkins, (Llandysul: Gomer, 1994) a *Merêd: dyn ar dân*, gol. gan Eluned Evans, (Talybont: Y Lolfa, 2016)

<sup>21</sup> Ronnie Williams (1939–1997), IMDB, <<https://www.imdb.com/name/nm0931595/>> [cyrchwyd 28 Ebrill 2022].

<sup>22</sup> Huw Jones, (1948–). Gweler ei hunangofiant, Huw Jones, *Dwi Ishio Bod yn Sais*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2020).

<sup>23</sup> Mici Plwm, (1944–). Gweler ei hunangofiant, Mici Plwm, *Cyfres y Cewri 25: Meical Ddrwg o Dwell y Mwg*, (Pwllheli: Gwasg Gwynedd, 2002).

<sup>24</sup> R. Alun Evans, *Stand-by*, (Llandysul: Gomer, 1998), t. 232. Nodwyd gan Evans, 'Er mai tua diwedd cyfnod Sam Jones y daeth Ruth Price i Fangor gwelodd fod 'ei ofal tadol yn parhau ac roedd ganddo ffordd hynod garedig o ddangos mai fe oedd y bôs!'. Ym mlwyddyn ei ymdeoliad y symudodd Price i Gaerdydd.

<sup>25</sup> Archif BBC Cymru, *Beti a'i Phobol*, 21 Chwefror 1985, Rhif rhaglen: 133C008.

<sup>26</sup> 'Schoolboy's "Crime" – reading English', *Western Mail*, 30 Gorffennaf 1957. Dyfynnwyd Price yn yr erthygl fel a ganlyn, 'If the 100 pupils are allowed to read English during Welsh lessons our plan to preserve the language will fail'.

<sup>27</sup> 'Apartheid Accusation in Welsh Village', *Northern Whig*, 5 Medi 1956. Cafwyd penawdau tebyg yn y *Birmingham Daily Post* a'r *Birmingham Daily Gazette* ar yr un dyddiad.

<sup>28</sup> Am wybodaeth bellach am hanes addysg Gymraeg, gweler: *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000*, gol. gan Iolo Wyn Williams (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2002).

<sup>29</sup> *Beti a'i Phobol*. Er yr ymdrech i sicrhau canlyniadau da, mynegodd Price yn ystod ei chyfweliad bod y pwyslais ar arholiad y 11+ yn rhoi cam-argraff bod llwyddiant o'r fath yn gyfystr ag addysg dda.



Mhontarddulais. Cai flas hefyd ar gynhyrchu sioeau gyda phlant yn yr ysgol, a theimlai rhyw ‘awydd i gynhyrchu i blant Cymru i gyd’.<sup>30</sup>

Ymysg y ddarpariaeth i *Awr y Plant* y bu’n ymwneud ag ef o Fangor oedd y gyfres *Wil Cwac Cwac* gan Jennie Thomas, a deuai lleisiau fel Elen Roger Jones a Charles Williams at y meic ochr yn ochr â sawl gweinidog yr Efengyl fel y Parchedig Aelwyn Roberts a bortreadai Ifan Twrci Tenau.<sup>31</sup> Yn ogystal â’r deunydd traddodiadol i wrandawyr ifainc, roedd Price hefyd wedi sylweddoli apêl cerddoriaeth bop i blant hŷn a dechreuwyd y gyfres *Clywch, Clywch!* (1962–63) ganddi yn 1962, a ddisgrifiwyd yn wreiddiol fel ‘Welsh magazine for older children’,<sup>32</sup> ac yn hwyrach fel ‘discussion’ a ‘light entertainment’.<sup>33</sup> Yn wahanol i ran helaeth o ddarpariaeth *Awr y Plant* a gai ei anelu at fabanod a phlant ifainc, mae’r gyfres hon yn darparu cip ar ymdrech gydwbybodol i ddiwallu anghenion plant hŷn ac ardegwyr gyda deunydd poblogaidd a cherddoriaeth yn benodol.<sup>34</sup> Pan symudodd Price i weithio i’r BBC yng Nghaerdydd parhaodd gyda’r weledigaeth hon yn ei gwaith ar y gyfres *Tipyn o Fynd*, (1963–66)<sup>35</sup> gan fachu y slot cynnar bore Sadwrn a ddaeth, maes o law, yn nodwedd gyson yn amserlenni darlledu cyhoeddus Cymraeg i bobl ifainc gyda’r rhaglen *Helo sut ‘dach chi? a Sosban*.<sup>36</sup>

Roedd y BBC yn ganolog yn gwbl ymwybodol o apêl y gorsafodd masnachol i’r demograffig hwn, er enghraifft mewn adroddiad ymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd yn 1962 roedd darpariaeth Radio Luxembourg i’r ardegwyr yn amlwg:

---

<sup>30</sup> *Beti a’i Phobol*.

<sup>31</sup> *ibid.*

<sup>32</sup> BBC, Genome, *Clywch, Clywch!*, 15 Mawrth 1962, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/1e624b94bfc59c7845fa231cc7b17e93>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>33</sup> *Ibid.*, *Clywch Clywch!* (13 Mehefin 1963) a (18 Gorffennaf 1963) <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?q=clywch+clywch#top>> [8 Mawrth 2022].

<sup>34</sup> Eithriad arall oedd y gyfres ddrama S.O.S. Galw Gari Tryfan.

<sup>35</sup> BBC, Genome, *Tipyn o Fynd* (27 Mehefin 1963). Fe’i disgrifir fel ‘Light Entertainment’ neu ddarpariaeth oedd yn cynnig ‘modern and traditional songs’, ac fe’i darlledwyd ar ddyddiau Iau neu ddyddiau Mawrth i gychwyn. Yn 1965 fe’i symudwyd i fore Sadwrn, a’i disgrifio fel ‘music for breakfast time’ a hynny’n ysbeidiol tan fis Rhagfyr 1966. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=tipyn+o+fynd>> [cyrchwyd 17 Mawrth 2022].

<sup>36</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 323. Lansiodd *Helo, sut d’ach chi?* ar 5 Hydref 1968. Am hanes cynnar y gyfres Sosban, gweler hunan gofiant ei chyflwynydd cyntaf, Richard Rees, *Bore Da, Gymru* (Tal-y-bont: Lofa, 2014).

... although Luxembourg's average audience was in total smaller than that of the Light Programme, in the age range 12–29 Luxembourg's was far larger (in the 15–19 age group Luxembourg's average audience was nearly six times as great as the Light Programme's).<sup>37</sup>

Yng Nghymru, dylid nodi i gyfres radio wedi ei thargedu at bobl ifainc yn benodol gael ei darlledu yn 1957 sef *Asbri* (1957–62) a ddisgrifiwyd fel 'Welsh magazine for youth', ac yn ystod ei rhediad tan fis Gorffennaf 1962 mae cyfeiriadau cyson at adloniant a hynny'n cael ei ddarparu gan bobl ifainc.<sup>38</sup> Nid yw'n glir o ba ganolfan ddarlledu y cynhyrchwyd y rhaglen, ond mae yna gyfeiriadau at ymweliadau â sawl clwb ieuenctid, clwb ffermwyr ifainc ac aelwyd yr Urdd ar draws Cymru o Rydymain i Dŷ'r Cymry yng Nghaerdydd, ac o Rosllannerchrugog i Dalgarreg. Mae'r arfer cynhyrchu hwn o ymwneud uniongyrchol â'r gynulleidfa yn eu cynefin yn fodd o bortreadu rhannau gwahanol o'r wlad ar yr awyr gan ddarparu acenion amrywiol a fyddai yn ei dro yn arwain at ymlyniad ar ran y gynulleidfa, ac yn fodd o sefydlu gwasanaeth darlledu cenedlaethol ei natur.

Un o'r cyfresi teledu cyntaf i Price ymwneud â hi wedi iddi symud i Gaerdydd yn 1963 oedd *Hob y Deri Dando* (1964–68) a fu'n braenaru'r tir i'r gyfres *Disc a Dawn*, ac a roddodd gyfle i'r Adran Adloniant gychwyn meistroli crefft cyfrwng gweledol. Defnyddiwyd teitl y gân werin am y tro cyntaf mewn rhaglen deledu Saesneg ei hiaith ar BBC 1 London ar ddydd Nadolig 1964, gyda Meredydd Evans yn cyflwyno a Price yn cynhyrchu, fe'i hysbyswyd yn *The Radio Times* mewn modd oedd yn rhag-weld ymateb y di-Gymraeg, 'What does it mean? Does it matter? Sing it out, loud and clear with a group of singers from Bangor, North Wales.'<sup>39</sup> Ymhlith yr artistiaid roedd Ryan Davies,<sup>40</sup> Ivor Emmanuel,<sup>41</sup> Margaret Williams<sup>42</sup> a Derek

<sup>37</sup> BBC, *An Audience Research Report: Luxembourg Listening*, Mawrth 1963. (LR/63/838), <file:///Users/emanon/Downloads/r9-9-27---luxembourg-listening---march-1963.pdf> [Cyrchwyd 6 Mawrth 2022]. Gweler cyd-destun ehangach: BBC 100, David Henty, *Listening to Radio*, <https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/radio-reinvented/listening-to-radio> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>38</sup> BBC, Genome, *Asbri* (1957-1962), <https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=asbri#top> [cyrchwyd 3 Mawrth 2022]. Dylid nodi i un rhaglen deledu o *Asbri* gael ei darlledu ar 16 Awst 1959, gydag Ifor Rees yn cynhyrchu ac Alun Williams yn cyflwyno, <https://genome.ch.bbc.co.uk/469a65d385d54827a36c9415aa8ee3be> [cyrchwyd 3 Mawrth 2022].

<sup>39</sup> BBC, Genome, *Hob y Deri Dando*, (25 Rhagfyr 1964), <https://genome.ch.bbc.co.uk/2eaaa79511ae426db7947543dc09cbbb> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>40</sup> Ryan Davies (1937–1977). Gweler Rhydderch Jones, *Cofiant Ryan*, (Abertawe: Gwasg y Mynydd Du, 1979).

<sup>41</sup> Ivor Emmanuel (1927–2007), Trevor Herbert, Y Bywgraffiadur Cymreig, EMMANUEL, IVOR LEWIS (1927–2007), *canwr ac actor*, (2015), <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-EMMA-LEW-1927> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022].

<sup>42</sup> BBC Cymru: Newyddion, *Margaret Williams, cantores o Sir Fôn yn wreiddiol*, (28 Mai 2004) <http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\_3750000/newsid\_3756900/3756933.stm> [cyrchwyd 28 Mawrth 2022].

Boote and the Proclaimers.<sup>43</sup> Darlledwyd rhaglenni tebyg drachefn ar yr un gwasanaeth ond o dan y teitl Saesneg *Derry Dando* yn ystod mis Ionawr a mis Ebrill 1965.<sup>44</sup> O fis Chwefror 1968 defnyddiwyd y teitl *Hob y Deri Dando* ar gyfres Gymraeg a ddarlledwyd ar BBC Cymru ac a gyflwynwyd gan Glan Davies a'i chynhyrchu gan Price,<sup>45</sup> fe'i disgrifiwyd fel 'Mwyn nosweithiau, dyddiau diddan / Hob y Deri Dando / Cymru lân yw cân a chytgan, / Hob y Deri Dando' sy'n rhoi blas o'r agwedd draddodiadol a nodweddi'r rhaglen.<sup>46</sup> Darlledwyd y gyfres yn wythnosol tan fis Gorffennaf 1968 gydag artistiaid fel Hogia Llandegai,<sup>47</sup> Y Triban, Y Pelydrau,<sup>48</sup> Meic Stevens,<sup>49</sup> Reg Edwards,<sup>50</sup> Yr Eirlysiau, Côr Tregaron a Chantorion Ardwyn yn cymryd rhan, a dengys yr amrediad o artistiaid a phartïon yr awydd i gynnig rhywbeth i bawb. Erys blas y gyfres radio *Noson Lawen* ar y rhaglenni, ac fel nodwyd gan Hill, ymdebygai i 'televised barndance, which focused primarily on music of the folk or traditional idiom.'<sup>51</sup> Gellir gwerthfawrogi'r gymhariaeth hon gan fod y camera yn agoriad y rhaglen yn cael mynediad at y cyfan drwy ddrysau bar *saloons* i sain cân werin y teitl yn cael ei chanu gan griw o leisiau ifainc, ac mae'r set yn efelychu sgubor fferm. Er hyn, nid yw'r gynulleidfa yn dawnsio, yn hytrach maent yn eistedd ar fynau gwair sydd wedi eu gosod ar ffurf cylch yn amlgychynu'r cyflwynydd sydd yn chwarae rôl tebyg i arweinydd noson lawen ar lwyfan neuadd bentref.

Mewn pennod a ddarlledwyd ar 10 Chwefror 1968, caiff y cyd-destun gwledig a thraddodiadol ei atgyfnerthu yn linc agoriadol Glanville Davies (fel yr ymddengys ei enw ar y sgrîn) wrth iddo ymddiheuro i'r gynulleidfa gartref eu bod yn hwyr oherwydd iddynt gael 'trwbwl gyda'r godro', ond bellach â'r 'da mas yn pori ar y ca' mae'r noson yn barod i gychwyn.<sup>52</sup> Nodwedd amlwg o'r steil cyflwyno yw

<sup>43</sup> Derek Boote (1942–1974). Gareth Price, *The Broadcasters of BBC Wales: 1964-1990* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017), t. 218.

<sup>44</sup> BBC, Genome, *Hob y Derry Dando*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/2eaaa79511ae426db7947543dc09cbbb>> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>45</sup> Glan Davies (1944–), Alun Wyn Bevan a Glan Davies, *Glan Davies: O'r Aman i'r Ystwyth* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2021). t. 98.

<sup>46</sup> BBC, Genome, *Hob y Deri Dando*, (30 Mai 1968), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/037d740bf89a424786b6653e6ffcb50a>> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>47</sup> Hogia Llandegai, yn wreiddiol Grŵp Sgiffil Llandegai. Gweler hanes cynnar y grŵp yn Hill, pennod 5, 'Wales Before 1963: Creating the Culture', tt. 51-58.

<sup>48</sup> Y Pelydrau, grŵp o ardal Trawsfynydd. Gweler Hefin Wyn, *Be Bop a Lula'r Delyn Aur: Hanes Canu Poblogaidd Cymraeg*, Tal-y-bont: Y Lolfa, 2002, tt. 81, 112, 122. A gweler: Roger Wallis a Krister Malm, 'Sain Cymru: the role of the Welsh phonographic industry in the development of a Welsh language pop/rock/folk scene', *Popular music* 3 (1983), 77-105, (t. 85).

<sup>49</sup> Meic Stevens (1942–), Meic Stevens, *Hunangofiant Y Brawd Houdini* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2003); Meic Stevens, *Y Crwydryn a Mi* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2009); Meic Stevens, *Mas o 'Ma* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2013).

<sup>50</sup> Reg Edwards, un o'r ddeuawd Aled a Reg. Deuai Reg Edwards o gyffiniau Bangor ac Aled Hughes o Frynsiencyn, Sir Fôn. Yn ôl Hefin Wyn, ystyriwyd Aled yn 'dipyn o Buddy Holly'. Hefin Wyn, t. 42.

<sup>51</sup> Hill, t. 61.

<sup>52</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Hob y Deri Dando*, 2 Chwefror 1968. Rhif y rhaglen: PCL5150Y/01.

amlygu i'r gynulleidfa gartref ei fod fel cyflwynydd yn adnabod y gynulleidfa stiwdio, ac mae'n rhoi anogaeth llawn egni i'r gynulleidfa o bobl ifainc yn eu harddegau hwyr a'u hugeiniau gan weiddi, 'O'dd hwnna ddim hanner cystal ag wythnos diwethaf, llawer fwy o sŵn 'da Aelwyd Brynman. Nawr c'mon Treforys, triwch e 'to, a codwch y to tro hyn! Reit... Hob y Deri Dando!'. Mae'r teimlad o un teulu cynnes mewn cylch yn parhau i gael ei gynnal pan fo'r artistiaid yn canu. Ni chânt eu gosod ar wahân i'r gynulleidfa ar lwyfan, yn hytrach maent yn eistedd yn eu canol ac mae'r rheiny sydd o'u cwmpas yn ddigon hapus i ymuno yn y canu gyda Davies yn eu harwain mewn modd hwyliog. Canlyniad hyn yw bod cefn Davies at y camera yn achlysurol, ond nid yw hynny o bwys oherwydd caiff y gwylwyr gartref y teimlad eu bod hwythau yn rhan o'r cylch, ac yn aelod o'r teulu sy'n eistedd ar y byrnau gwair.

Eitem gyntaf y rhaglen, sy'n darparu dilyniant bywiog, addas i'r arwyddgan agoriadol yw dehongliad o'r gân *Susannah* gan Barti Eryri, ac mae saethiadau agos ar aelodau gwrywaidd unigol yn eu darlunio yn canu'r geiriau i ferch sy'n eistedd wrth eu hymyl. Mae'r merched yn ymuno yn y gytgan, cyn iddynt hwythau ganu'r ail bennill i'r dynion. Yn gyfeiliant iddynt mae'r piano (sydd oddi ar y sgrîn) a bas dwbwl a gaiff ei chwarae ar y set gan Derek Boote. Mae'r dehongliad traddodiadol hwn sy'n cynnal confensiynau rhywedd yn cael ei ddilyn gan saethiad llydan o'r gynulleidfa yn cymeradwyo, a Davies yn eu plith, sy'n atgyfnerthu'r syniad ei fod yn un ohonynt. Estynna'r saethiad llydan yn gelfydd i gynnwys merch yn sefyll ar ei phen ei hun gyda gitâr yn cychwyn canu cân serch dawel, a chaiff y golau ei bylu ar weddill y stiwdio. Amlygodd Price werth y llais bach mewn rhaglen o'r fath, yn enwedig o'i gyfosod â sain llawn a chyfoethog, llais ydyw sy'n gofyn i'r gwrandaŵr ganolbwyntio ar yr alaw a'r geiriau yn hytrach nag ar lais y canwr neu'r gantores.<sup>53</sup>

O gynhyrchu yn y modd hwn, mae emosiwn y gynulleidfa yn y stiwdio a'r rheiny sy'n gwyllo yn cael ei fanipiweiddio o'r llon i'r lleddf a'r llon drachefn, a'u gwerthfawrogiad o'r naill a'r llall yn cael ei gyfoethogi gan y cyfosodiad. Mae saethiad unigol o artist benywaidd yn canu'r gitâr yn ddilyniant effeithiol i hwyl torfol yr eitem flaenorol, mae'r penderfyniad i hepgor linc rhwng y ddwy eitem yn

---

<sup>53</sup> *Beti a'i Phobol.*

cryfhau'r cyfosodiad o safbwynt cynhyrchu gan Price, ac yn peri i'r pontio o'r hwyl i'r syber fod yn un addas, ac yn well penderfyniad na gofyn i Davies i ymddifrifoli. Caiff y gantores ei chyflwyno gan Davies mewn ôl-linc fel Marilyn Jones, cyn iddo fynd ymlaen i gyflwyno'r eitem nesaf sef Y Derwyddon. Mae'r naws yn dychwelyd at yr hwyl torfol yng nghwmni y pedwar aelod gwrywaidd sy'n canu gyda'r gitâr a phib, ac wedi eu gwisgo mewn wasgodau brethyn sy'n atgoffa'r gwyliwr o gynodiadau gwledig y rhaglen.<sup>54</sup> Mae'r cyfan wedi ei saethu mewn un *take*, gan ei fod yn rhy ddrud i stopio a golygu'r tâp – sefyllfa a arweiniai at nerfusrwydd eithriadol ar ran Davies fel cyflwynwydd a'r artistiaid hefyd.<sup>55</sup> Er hyn, rhoddai Price gefnogaeth gadarn iddo, ac er ei bod hi'n mynnu'r safon uchaf, roedd ganddi arddull tawel o gynhyrchu a ddarluniwyd yn y ffordd y deuai o'r galeri i'r stiwdio i gywiro neu feirniadu os oedd angen, a gwneud hynny trwy siarad yn unigol gydag artist neu gyda Davies ei hun, yn hytrach na bytheirio'n gyhoeddus.<sup>56</sup>

Dengys yr eitemau uchod yn ôl eu trefn ymddangos, ymdrech gan Price y cynhyrchydd i symud yn ôl ac ymlaen rhwng côr, unawdwyr benywaidd, deuawd cymysg, canu torfol a grŵp gwrywaidd a dyna hanfod cynhyrchu da. Cynigiwyd felly amrediad o gynnwys clywedol a gweledol i'r gwyliwr, ceir cymysgedd o ddeunydd gwreiddiol, caneuon traddodiadol ac alawon estron ag iddynt eiriau Cymraeg, a'r cyfan yn cael ei ddarparu gan griw o bobl ifainc. Medrai Price droi at aelwydydd yr Urdd i ddarparu cynulleidfa barod a bywiog oedd yn ddigon cyfforddus i ymateb i rywun fel Davies, sy'n adlais o awydd y gyfres *Asbri* i fanteisio ar glybiau amrywiol fel nodwyd uchod. Derbyniwyd llythyron di-ri gan swyddfa'r Adran Adloniant yn gofyn i Price ymweld ag ardaloedd gwahanol er mwyn clywed a gweld artistiaid penodol, a byddai'n derbyn y gwahoddiadau gan fynychu nosweithiau llawen a chyngherddau.<sup>57</sup> Mae hyn yn adlais o ymdrechion Mai

---

<sup>54</sup> Mae gweddill eitemau y rhaglen yn darparu deuawd rhwng Marilyn Jones ac Aled Hughes, ac yna daw merch ifanc o'r enw Nancy Owen atynt i ganu. Caiff Davies wedyn gyfle i arwain y rheiny sy'n y stiwdio i ganu'r dôn gron *Pori mae yr Asyn* ac yna gwelir *Y Derwyddon* drachefn. O hynny eir yn syth at Nancy Owen sy'n arwain y gynulleidfa i ganu geiriau Cymraeg ar y dôn *Dee da doo da day*, ac mae hithau yn cerdded o gwmpas y stiwdio yn rhyngweithio gydag unigolion. O ystyried ei bod mewn stiwdio deledu mae Owen yn hyderus, ac mae aelodau'r gynulleidfa yn gwbl gyfforddus trwy gydol y recordiad heb gydnabod y camera o gwbl. Gellid priodoli eu naturioldeb i'r ffaith iddynt efallai ymarfer yn drylwyr yn y stiwdio o flaen-llaw, yn ogystal â'u bod yn gyfarwydd â sefyllfa gyffelyb yn eu haelwydydd yr Urdd. Daw Davies i ffarwelio â'r gynulleidfa gartref mewn darn i gamera gydag anogaeth iddynt dychwelyd yr wythnos ddilynol. Emyr ar dôn hwyliog gyda Pharti Eryri yw'r eitem olaf ond un, cyn i'r rhaglen ddod i'w therfyn gyda Derek Boote yn canu geiriau agoriadol y gân *Cheerio a toodaloo* i gyfeiliant ei fas dwbl. Daw Davies i gyfrannu ambell bennill ac mae'n dawnsio mewn modd doniol o gwmpas y gynulleidfa wrth iddynt ymuno ag ef yn y gytgan sy'n gadael atgof o hwyl diniwed ym meddwl y gynulleidfa gartref a fydd gobeithio yn selio eu penderfyniad i dychwelyd yr wythnos ddilynol.

<sup>55</sup> Glan Davies, cyfweiliad gyda'r awdur, Mawrth 2022.

<sup>56</sup> *ibid.*

<sup>57</sup> *Beti a'i Phobol.*

Jones fel cynhyrchydd adloniant ysgafn, ac o waith Myfanwy Howell a Nan Davies gyda'r BBC ym Mangor yn ystod y rhediad y *Noson Lawen*. Roedd canfod lleisiau newydd yn nodwedd amlwg o waith cynhyrchydd radio o'r cychwyn cyntaf, fel y nododd y cynhyrchydd Lionel Fielden:

To gather enough people – always new and more people – for the microphone meant a constant alertness ... Many people would think that our 'work' was not work at all, but a constant round of pleasure. But we could never forget it; every moment of experience could be grist for the microphone.<sup>58</sup>

Agwedd arall bwysig o waith staff cynhyrchu yw sicrhau ehangder eu cylch adnabod, fel nodwyd gan Hendy, 'Right from the start, *who* [sic.] you knew mattered a great deal at the BBC, it helped keep the schedule ticking over.'<sup>59</sup> Gall awdur y traethawd uniaethu gyda'r gosodiad hwn, yn sgil ei gwaith fel ymchwilydd cyfryngol yn ystod dyddiau cynnar ei gyrfa, a hynny mewn cyfnod cyn dyfodiad y we a defnydd rhwydweithiau cymdeithasol. Mae'r agwedd hon yr un mor wir o fewn darpariaeth adloniant ysgafn ag ydyw o fewn genres eraill. Buasai ardaloedd amrywiol o Gymru yn gyfarwydd i Price yn sgil ei chyfnod fel myfyrwraig, ei gwaith fel athrawes a'r cyfnod byr a dreuliodd yn gweithio i'r BBC yn y gogledd. Roedd ei chylch cydnabod o'r herwydd yn llydan, a'i hagwedd yn eangfrydig, fel nododd Cefin Roberts:

[Roedd ganddi'r] diddordeb eang 'ma mewn adloniant, o'r steddod i'r clwb i rywun o'dd yn canu ar ochr lôn, fuasai hi wedi cael yr antennae yn bell iawn i chwilio am dalent. A dyna dwi'n meddwl oeddech chi isio... rhywun o'dd yn gweld yn bellach na'u trwynau, ac yn sylwi ar dalent.<sup>60</sup>

Mae amrediad cefndir y rheiny a ddarganfyddwyd gan Price ac a lwyddodd y tu hwnt i stiwdio *Disc a Dawn* yn dystiolaeth o natur y diddordeb a grybwyllwyd uchod, pobl fel Mary Hopkin, Sue Roderick, Meic Stevens, Iris Williams a'r Hennesseys. O'u canfod a'u rhoi ar yr awyr, rhoddai Price anogaeth iddynt, gan fagu eu hyder i barhau

---

<sup>58</sup> Hendy, *The BBC: A People's History*, t. 48.

<sup>59</sup> *ibid.*, t. 49.

<sup>60</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Dei Tomos: Cofio Ruth Price*, darlledwyd 30 Ebrill 2019.

yn y proffesiwn, agwedd y gellid ei mynegi fel un famol a ymestynnai hefyd at y bobl ifainc a weithiai ar y rhaglen.<sup>61</sup>

Yn ogystal â chanfod artistiaid, rhan hanfodol o waith staff cynhyrchu Adran Adloniant hyd heddiw yw chwilio am dalent ar y sgrîn, boed yn gyflwynwyr neu yn gomedïwyr, ac mewn erthygl yn y *The Radio Times* o dan y teitl Chwys ac Ymroddiad, mynegodd Meredydd Evans yr her a wynebwyd ar gychwyn y chwedegau, wrth geisio dod o hyd i unigolion i weithio yn llawn amser i'r BBC:

Ag anwybyddu am y tro y cymhlethdod technegol sy ynghlwm wrth wneud y sgets a'r gân yn weladwy ar y bocs bach na ynghanol y stafell, mi ddylai fod yn boenus o amlwg ei bod yn rhaid, i gychwyn cael perfformwyr o fath arbennig. Yn wir, dyma gur-yn-pen mwyaf miniog cynhyrchydd o Gymru sy'n gweithio ym maes Adloniant Ysgafn ... Y mae angen arnom, uwchlaw popeth am y fenter honno all arwain llanc neu ferch ifanc (yn meddu ar y doniau angenrheidiol) i anelu at weithio amser-llawn mewn adloniant Cymraeg fel y mae Ryan Davies eisoes wedi gwneud.<sup>62</sup>

Roedd Evans wedi gweld Davies yn perfformio gyda chriw Cymdeithas Cymry Llundain yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gwawriodd arno y byddai'n gongl-faen arbennig i'r Adran Adloniant newydd, 'I said, well the very first one I want is Ryan Davies, here is the man, here is the obvious person, he was the centre, something to build on, and build around.'<sup>63</sup> Cynigiwyd cytundeb blwyddyn yn unig i Davies ond bu hynny'n ddigon iddo adael sicrwydd ei swydd fel athro yn Croydon a rhoi'r cyfle am ddyrchafiad i swydd prifathro o'r neilltu. Ymunodd â'r adran yn 1965.<sup>64</sup> Ofer er hynny fu ymdrechion Evans i berswadio Glan Davies i'w efelychu, 'Bu ymgais i 'nghorlannu i'r adran adloniant ond roedd hi'n NO BRAINER! Y dyfodol, o ran gwaith i Glan Davies, o'dd y diwydiant adeiladu – dyna'r diwydiant fydde'n fy nghynnal o ran bywoliaeth.'<sup>65</sup> Er hynny, llwyddodd i gyfuno ei ddewis yrfa gyda gwaith adloniant, megis y cyfle i olynu Ryan Davies fel cyflwynydd *Hob y Deri*

<sup>61</sup> Daw natur famol Ruth Price i'r amlwg yng nghyfweliadau'r awdur gydag Glan Davies, Endaf Emlyn (21 Ionawr 2022), Hywel Gwynfryn (7 Mawrth 2022) a Huw Jones (3 Tachwedd 2021). Mae tystiolaeth ohono hefyd yn sylwadau Sue Roderick ar raglen *Dei Tomos: Cofio Ruth Price*. Eglurodd Max Boyce yn ei gyfweliad gyda'r awdur (21 Hydref 2021), er na chododd y cyfle iddo weithio gyda Ruth Price wedi'r gyfres *Disc a Dawn*, pan fyddai'n gweithio ar gyfresi adloniant gyda Jack Williams, buasai'n dod ar ei thraws yn y BBC, a daeth y ddau yn ffrindiau mawr, gyda hithau'n falch iawn o'i lwyddiant.

<sup>62</sup> 'Chwys ac Ymroddiad', *BBC Radio Times*, 2 Chwefror 1967, t. 40.

<sup>63</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Welsh Great Series 5: Ryan Davies*, 9 Ionawr 2012. Rhif y rhaglen: WFEA665K/03.

<sup>64</sup> *ibid.*

<sup>65</sup> Alun Wyn Bevan a Glan Davies, t. 110.

*Dando*, a gododd yn ei dyb ef o'i ymddangosiad gydag Aelwyd yr Urdd Amanw, Brynaman yn Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun yn 1962 pan enillwyd Tlws y Noson Lawen ganddynt.<sup>66</sup> Cafodd gyfweiliad gan Price ac Evans, a bu'n rhaid iddo gyfaddef nad oedd erioed wedi gweld y rhaglen gan nad oedd BBC Cymru yn cael ei dderbyn yn ardal Brynaman er mawr ofid i'r trigolion.<sup>67</sup> Bu'n weithgar hefyd yn cyflwyno nosweithiau llawen a digwyddiadau cenedlaethol nodedig cerddorieth bop y cyfnod ar hyd a lled Cymru. Ryan Davies a gyflwynodd y *Pinaclau Pop* cyntaf ym Mhonrhydfendigaid ym mis Mehefin 1968, a Glan Davies a gafodd y gwahoddiad i gyflwyno'r ail ddiwyddiad mawr ym Mhonrhydfendigaid sef *Pinaclau Pop 2* ym mis Mai 1969.<sup>68</sup>

Mae'n debyg i Ryan Davies ragfynegi'n gywir wedi *Pinaclau Pop 1* y byddai gwerthiant recordiau pop Cymraeg yn 'mynd drwy'r to', ond parhau yn ddigon prin oedd recordiau o'r fath pan gychwynwyd y gyfres gyntaf o *Disc a Dawn* yn 1967.<sup>69</sup> O'r herwydd un elfen yn unig o'r rhaglen oedd y ddarpariaeth gerddorol a chai eitemau amrywiol eu cynnwys er mwyn medru llenwi slot rhaglen gylchgrawn hanner awr, eang ei hapêl i'r gwylwyr.

Roedd yr agwedd hon yn efelychu'r gyfres *Six-Five Special* (BBC, 1957–58)<sup>70</sup> gyda'r cyflwynydd Pete Murray, 'a hip young Radio Luxembourg disc jockey', a'r cyflwynydd benywaidd, Josephine (Jo) Douglas, oedd hefyd yn cynhyrchu.<sup>71</sup> Ochr yn ochr â'r ddau ceid eitemau gan Spike Milligan<sup>72</sup> a Peter Sellers<sup>73</sup> a ychwanegai gynnwys ysgafn ac abswrdd i'r arlwy. Profodd y gyfres i fod yn garreg filltir bwysig o ran adloniant a cherddoriaeth ysgafn ar deledu cyhoeddus. Dyma'r gyfres gyntaf gan y BBC i gynnwys cerddoriaeth roc-a-rôl a phop, a dyma'r tro cyntaf i'r gynulleidfa ymddangos yn y ffrâm, nodwedd a fabwysiadwyd gan *Hob y Deri Dando* fel y nodwyd uchod. Er mai ar fyr rybudd y cynlluniwyd *Six Five Special* yn 1957 er

---

<sup>66</sup> Alun Wyn Bevan a Glan Davies, t. 99.

<sup>67</sup> *ibid.*, t. 59.

<sup>68</sup> *ibid.*, t. 102.

<sup>69</sup> *ibid.*, t. 104. Perswadiwyd Recordiau Cambrian gan Glan Davies i recordio noson yn Neuadd y Farchnad Llanymddyfri o dan y teitl 'Glanville Davies a'i Ffrindiau'.

<sup>70</sup> BBC 100, *Six-Five Special*, (BBC, 1956-7). Cynhyrchwyd y gyfres gan Jack Good ac un o gyflwynwyr y gyfres, Jo Douglas. Diddorai'r naill mewn roc-a-rôl a'r llall yn yr hyn a apeliai at ardegwyr. <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/entertaining-the-nation/music/>> [cyrchwyd 3 Mawrth 2022].

<sup>71</sup> Anthony Good, *Oh Boy! (ITV, 1958-59)*, <<http://www.screenonline.org.uk/tv/id/561801/index.html>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]. Symudodd Good ymlaen i deledu masnachol i gynhyrchu *Oh Boy!* gan nad oedd y BBC yn fodlon gosod mwy o bwyslais ar gerddoriaeth a llai ar yr eitemau ychwanegol

<sup>72</sup> Spike Milligan, (1918–2002), IMDB <<https://www.imdb.com/name/nm0589711/>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022].

<sup>73</sup> Peter Sellers, (1925–1980), IMDB <<https://www.imdb.com/name/nm0589711/>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022].



mwyn llenwi'r bwlch rhwng 6 a 7 pm ar nos Sadwrn, bu'n llwyddiant ar unwaith fel y nodwyd yn y *BBC Handbook 1959*, 'Primarily designed for a teen-aged audience, this programme has become a national institution equally enjoyed by the parents'.<sup>74</sup> Gellid tybio bod yr edmygedd cyffredinol hynny yn deillio o'r slot darlledu a gwedd barchus crys a thei cyflwynwyr gwrywaidd y gyfres. Daeth *Disc a Dawn* i lenwi yr un slot amser a mabwysiadwyd yr un wedd ar gyfer cyflwynydd cyntaf, Ronnie Williams. Ar ddarlledu masnachol arwyddai Kent Walton yr un math o barchusrwydd wrth gyflwyno *Cool for Cats* (1956–61).<sup>75</sup> Dyma gyfres a achubodd y blaen ar ddarlledu cyhoeddus o safbwynt cyflwyno pop ar deledu a daeth y cyfresi *Oh Boy!* (1958–59)<sup>76</sup> a *Discs a Go-go* (1961–68)<sup>77</sup> i ddilyn, a'u cyflwynwyr gwrywaidd hwythau'n efelychu ffasiwn yr *American band-stand*.<sup>78</sup> Eithriad oedd cyflwynwyr benywaidd ar ddarpariaeth o'r fath fel Cynthia Pettigrew, model groenddu a fu'n cyd-gyflwyno *Discs a Go-go* am gyfnod byr,<sup>79</sup> a Jo Douglas ar *Six-Five Special*, ac, fel dengys y bennod hon, y gwŷr a fu'n wynebaw cyson ar y gyfres *Disc a Dawn* trwy gydol ei darllediad. O ystyried mai Price oedd yn cynhyrchu, ac iddi roi cyfle i artistiaid benywaidd ifainc, mae'n syndod na ddewiswyd cyflwynydd benywaidd ganddi yn ystod rhediad y gyfres.

Yn sgil y don yma o raglenni, daeth y cyfrwng teledu yn y Deyrnas Unedig i sefydlu ei hun fel arena pop masnachol y ceisiai roc wahaniaethu ei hun oddi wrtho.<sup>80</sup> Mae'n ddiddorol ystyried ystyr ehangach y gair pop yn y Gymraeg, sy'n fodd o egluro ymdrech y gyfres *Disc a Dawn* i apelio'n eang, fel y nododd Ned Thomas yn 1968:

---

<sup>74</sup> BBC, *BBC Handbook 1959* (Llundain: BBC, 1958), t. 99. Nodir ymhellach, 'It was immediately a great success: recording companies have taken up many of the young singers who make their début on this programme. It also provides an opportunity for small bands and ensembles to be presented to regular audiences of some seven million adults.'

<sup>75</sup> *Cool for Cats*, (ITV, 1956-61), IMDB, <<https://www.imdb.com/title/tt3884470/>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>76</sup> *Oh Boy!* (ITV, 1958–59) Gweler tn. 61 uchod.

<sup>77</sup> *Discs a Go-go*, (1961–68), IMDB, <<https://www.imdb.com/title/tt0403757/>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>78</sup> Simon Frith, 'Look! Hear! The uneasy relationship of Music and Television', *Popular Music*, 21.3 (2002), 277-290, (t. 283).

<sup>79</sup> Roedd yna ferch arall ar y set yn cynorthwyo Frank Harding yn siop goffi Gogos, 'the gayest coffee bar in town', sef Connie Greengrove, 'who played a stereotypical dumb blonde, literally saying nothing'. *Discs-a-gogo*, 'TV Pop Diaries': Pop Music on British Television' (1955 - 1999), <<http://www.tvpopdiaries.co.uk/credits.html>> [cyrchwyd 27 Ebrill 2022].

<sup>80</sup> Frith, 'Look! Hear! The uneasy relationship of Music and Television', t. 283.

‘Pop’ is a word that offers only a very rough equivalent of the new song in Wales. At its worst, Welsh pop is imitative of rather old-fashioned melody-styles (to sell well it has to appeal right across the generations) with naïve and sentimental lyrics; at its best it is satirical or political song running very close to Welsh reality and comparable with the Russian satirical songs of Galich or Vysotsky rather than anything one finds in England. The master of this genre is Dafydd Iwan.<sup>81</sup>

Yn 1965, ar raglen *Y Dydd* (1964-1982),<sup>82</sup> yr ymddangosodd Dafydd Iwan am y tro cyntaf ar deledu, digwyddiad a gaiff ei ystyried fel trobwynt cyflwyno pop ar y teledu yn y Gymraeg,<sup>83</sup> a chyn diwedd y degawd buasai’n ymddangos ar *Disc a Dawn*. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiad Hill bod datblygiad cerddoriaeth boblogaidd cyfrwng Cymraeg, er yn dilyn yr un ‘trajectory’ â cherddoriaeth bop Eingl-Americanaidd, yn gwneud hynny ar gyflymdra cronolegol gwahanol, ‘It follows the pace of a culture in the process of defining itself, of developing a sense of self-confidence, of providing for itself that which the dominant culture fails to provide for it.’<sup>84</sup>

Mae modd darllen y symudiad o *Hob y Deri Dando* a’i gynodiadau gwerin traddodiadol i gyfresi dilynol *Disc a Dawn* a’u hymdrech i ganolbwyntio ar gerddoriaeth bop yn fynegiant o ddiwylliant yn ceisio diffinio’i hun. Hwyluswyd y datblygiad hwnnw gan nifer o agweddau amrywiol megis *Pinaclau Pop* a grybwyllwyd eisoes, gweithgareddau gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glanllyn a sefydlu y cylchgrawn pop Cymraeg cyntaf *Asbri*.<sup>85</sup> Roedd y cysylltiad rhwng yr agweddau yma a’r darllediadau yn berthynas symbiotig ac agweddau sy’n darlunio hynny yw Deg Uchaf y Cymro, y calendr digwyddiadau a’r gystadleuaeth *Cân Disc a Dawn* a arweiniodd at y gystadleuaeth *Cân i Gymru* sy’n parhau i nodweddu’r tirwedd darlledu a cherddoriaeth boblogaidd yng Nghymru.<sup>86</sup>

Lawnsiwyd siart Deg Uchaf *Y Cymro* ym mis Rhagfyr 1967, a’r un modd ag y bu i’r

<sup>81</sup> Ned Thomas, 3ydd argraffiad *The Welsh Extremist: Modern Welsh Politics, Literature and Society* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1991), t. 98.

<sup>82</sup> Jamie Medhurst, *A history of independent Television in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), t. 140.

<sup>83</sup> Hill, t. 59.

<sup>84</sup> Hill, t. 10.

<sup>85</sup> Hefin Wyn, t. 94. Sefydlwyd y cylchgrawn *Asbri* yn 1969 gan Gyhoeddiadau Myrddin.

<sup>86</sup> BBC Cymru Fyw, *Lle Oeddwyn I: Margaret Williams, Cân i Gymru, 1969* (2019), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/47386792>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]. Cynhaliwyd y gystadleuaeth am y tro cyntaf yn 1969 gyda Ronnie Williams yn cyflwyno a’r enillydd oedd Margaret Williams a’r gân ‘Cwilt Cymreig’. Cafodd y rownd derfynol ei darlledu ar deledu rhwydwaith yn Saesneg ac yn Gymraeg, gan bod Meredydd Evans yn awyddus i Gymru gael ei gweld ar deledu rhwydwaith a’i chynrychioli yn yr *Eurovision Song Contest* oedd yn gynhyrchiad pwysig i’r BBC, ond nid felly y bu, parhawyd i gael un gân i gynrychioli Prydain.

cyfrwng radio brofi yn rhan hanfodol o fasnach y diwydiant recordiau yn ystod degawdau cynnar darlledu, felly hefyd y cyfrwng teledu yn ystod diwedd y pumdegau a'r chwedegau. Erbyn diwedd y chwedegau yng Nghymru roedd cwmnïau recordio megis Recordiau Cambrian a Recordiau'r Dryw wedi deall y diddordeb mewn canu poblogaidd Cymraeg ac yn cysylltu gyda thîm cynhyrchu *Disc a Dawn* wedi darllediad y penwythnos er mwyn arwyddo artistiaid,<sup>87</sup> a hynny yn ei dro yn tanio diddordeb y gynulleidfa a chynyddu potensial gwerthiant recordiau Cymraeg.<sup>88</sup>

Roedd yr hyn a gyrhaeddai frig siartiau gwerthiant recordiau Prydeinig o ddiddordeb i Ruth Price a chadwai lygad fanwl ar hynny, gan ei weld fel allwedd i ddenu diddordeb pobl ifainc at arlwy Cymraeg. Bu siart y *Top Twenty* yn rhan o ddarpariaeth nos Sul Radio Luxembourg ac fe'i mabwysiadwyd gan BBC Radio One pan y'i sefydlwyd. Yn ychwanegol, hanfod y rhaglen deledu *Juke Box Jury* (1959–1967) oedd ceisio rhag-weld beth fyddai'n *hit* ac yn debygol o gyrraedd brig y siartiau,<sup>89</sup> ac nid o angenrheidrwydd beth fyddai'n record dda.<sup>90</sup> Mae'r cysyniad o'r *hit* yn nodwedd bwysig o ganu pop y cyfnod a apeliai at ardegywyr. Nodwyd gan Railton 'It was the music of adolescent sexuality, of youthful energy and *only* [sic.] that.'<sup>91</sup> Ymhellach mae'n tynnu cymhariaeth rhwng pop a'r *carnavalesque*, yr un modd ag y mae'r carnifal yn ddigwyddiad byrhoedlog, felly hefyd y disgwylir i'r ferch ifanc aeddfedu o'i diddordeb dros dro mewn pop.<sup>92</sup> Ffenomenon ydyw felly sy'n cael ei gysylltu gyda'r benywaidd, gan apelio at y corff yn hytrach na'r meddwl:<sup>93</sup>

... this music is perhaps the only form of popular music to have a predominantly female audience, the threat that it poses is the threat of the feminine, and of female encroachment into what is still predominantly a male, and masculine, world.<sup>94</sup>

---

<sup>87</sup> Hill, t. 61. Cyfeiriwyd at y pwynt hwn gan Ruth Price, yn neunydd crai ei chyfweliad ar *Teledu'r Cymry*, a gan Hywel Gwynfryn yn ei gyfweliad gyda'r awdur.

<sup>88</sup> BBC Radio Cymru, *Cofio: Dyma 1967: Y penawdau, y pethau, y bobl*.

<[https://www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru/safle/cofio/pages/1967\\_fffeithiau.shtml](https://www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru/safle/cofio/pages/1967_fffeithiau.shtml)> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>89</sup> BBC 100, *Juke Box Jury (1959-1967)*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/june/juke-box-jury>> [cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

<sup>90</sup> Diane Railton, 'The Gendered Carnival of Pop', *Popular Music: Gender and Sexuality*, 20.3 (2001) 321-331, (t. 324).

<sup>91</sup> *ibid.*, t. 325.

<sup>92</sup> *ibid.*, t. 327.

<sup>93</sup> *ibid.*, t. 325. Nodwyd ymhellach gan Railton i'r symudiad hwyrach at roc ddynodi bod angen i gerddoriaeth feddu ar ystyr.

<sup>94</sup> *ibid.*, t. 321.

Fel y crybwyllwyd eisoes, cai llawer o'r talent a ffrydiai drwodd i *Disc a Dawn* ei feithrin gan y capeli, ac o'r herwydd cai'r bygythiad ffeminyddol a grybwyllir uchod ei ffrwyno gan eu moeseg, felly er y cyfle a hyrwyddwyd i lawer o ferched a bechgyn ifainc i ganu yn unigol ac mewn grwpiau, mae geiriau eu halawon yn cyfeirio at gariad pur, a chariad at wlad gan hepgor unrhyw gyfeiriad at y corff a chariad cnawdol.<sup>95</sup> Er mai cyfeirio at nodweddion roc yng Nghymru oedd y telynor Robin James-Jones yma, '[the Welsh] took everything they needed from rock, but discarded its central emphasis on sexuality,' gellid cymhwyso'i ddyfyniad i natur pop Cymraeg hefyd.<sup>96</sup>

Trefnai Price i rai o'r *hits* Saesneg gael eu cyfieithu yn ddiymdroi i'r Gymraeg a'u perfformio ar *Disc a Dawn* yr wythnos ddilynol, er i'r arfer hwn ddod o dan y lach yng ngwasg y cyfnod, a'r gwylwyr yn feirniadol o ynganiad artistiaid di-Gymraeg.<sup>97</sup> Nodwyd ganddi, 'Sdim byd o'i le ar gyfieithu. Unwaith mae cân wedi ei chanu, ma rhywun wedi creu cân, wel dwi'n teimlo mae'n perthyn i'r byd a mae hawl gan unrhywun i'w chanu hi ym mha iaith bynnag.' O ystyried bod 42 o raglenni gan Price i'w cynhyrchu mewn blwyddyn, er mwyn diwallu awch echrydus y cyfrwng teledu, mae modd deall ei phenderfyniad i gyfieithu caneuon y cyfnod.<sup>98</sup> Sicrhawyd felly gynnwys wythnosol digonol, a chlywyd grwpiau fel Y Triban a'r Hennesseys yn canu yn Gymraeg. Golygai hyn bod Price yn medru manteisio ar is-ddiwylliant cerddorol y cantorion di-Gymraeg a'r rheiny nad oedd mor hyderus yn eu defnydd o'r iaith.<sup>99</sup> Golygai hefyd bod gwylwyr o bob cwr o'r wlad yn cael gweld cantorion o'u hardaloedd hwy, ac yn cael clywed y Gymraeg.<sup>100</sup>

Ymhlith yr artistiaid hyn yr oedd Max Boyce, a ganai yn Saesneg, er ei fod yn medru'r Gymraeg. Eglurodd ei fod yn ddi-hyder i ganu'r gitâr ar deledu, yn aml aelodau grwpiau fel yr Hennesseys fuasai'n tiwnio'r offeryn iddo, a Derek Boote yn chwarae bas gan guddio lot o gamgymeriadau. Disgrifiwyd Price ganddo fel a

---

<sup>95</sup> Hill, t. 55.

<sup>96</sup> Robin James-Jones dyfynnwyd yn Meic Llewellyn, 'Popular Music in the Welsh Language and the Affirmation of Youth Identities', *Popular Music*, 19.3, (2000), 319-339 (t. 321).

<sup>97</sup> Hefin Wyn, pennod 12, 'Dixi Daun', tt. 191-201. Cadarnhawyd hyn gan Huw Jones yn ei gyfweiliad gyda'r awdur, fel cyflwynwydd hwyrach *Disc a Dawn*, pan fyddai'n canu mewn cyngherddau yn y gogledd a'r gorllewin byddai aelodau'r gynulleidfa yn mynegi eu hanfodlonrwydd wrtho. Cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>98</sup> John Davies, t. 259. Synnwyd y darlledwyr teledu cynnar gan awch y cyfrwng teledu, dyfynnwyd Gilegud gan Davies, 'Even more than sound radio...television is a Moloch.'

<sup>99</sup> Hill, tt. 18-19.

<sup>100</sup> Huw Jones, cyfweiliad gyda'r awdur.

ganlyn, ‘O’dd hi’n fenyw ddeallus, yn dangos llawer o ffydd ynnda’i ac yn sympathetic achos o’n i ddim yn rhugl yn Gymraeg. Ond o’dd hin gweld rhywbeth yn y caneuon oedd yn rhan o brofiad cymuned lofaol.’ Cofiai mai’r gân gyntaf iddo ei chanu ar *Disc a Dawn* oedd *Duw It’s Hard* a gyfieithwyd i’r Gymraeg, ac ar y gyfres y cafodd ei gyfweliad cyntaf yn y Gymraeg ar deledu. Dysgodd Price iddo’r dechneg o berfformio ar deledu, ac agor drws iddo gamu i fyd adloniant cyfrwng Cymraeg a’r gylchdaith o nosweithiau llawen a chyngherddau’r cyfnod a arweiniodd at gyfleoedd darlledu pellach trwy gyfrwng y ddwy iaith.<sup>101</sup>

Mae’n bwysig i gofio bod diffyg deunydd gwreiddiol addas ar y pryd gan mai prin oedd yr artistiaid a ysgrifennai eu caneuon eu hunain yn y Gymraeg, eithriad oedd Tony Jones o’r ddeuawd Tony ac Aloma, a Sue Roderick (neu Broderick fel oedd hi ar y pryd) a dderbyniodd gryn gefnogaeth gan Price o gyfnod ei harddegau. Cyfieithwyd caneuon i Boyce gan weindiog o Dreforus,<sup>102</sup> a chai caneuon eraill ar y gyfres eu cyfieithu gan Meredydd Evans a Rhydderch Jones. Dau arall a gadwyd yn brysur gan y ‘conveyer belt’ cyfieithu oedd Hywel Gwynfryn,<sup>103</sup> ac Endaf Emlyn.<sup>104</sup> Y gân gyntaf un i Gwynfryn ei chyfieithu oedd *Yr Eryr a’r Golomen* i Meic Stevens, a ysgrifennwyd yn wreiddiol gan y canwr yn Saesneg, *The Eagle and the Dove*, ond un o’r *hits* pop cyntaf y cofiai ei chyfieithu o dan y teitl ‘Angharad’ oedd cân yr artist Albanaidd Donovan, sef Jennifer Juniper.<sup>105</sup>

Yn y fersiynau cynharaf o’r rhaglen *Disc a Dawn* o Fedi 1969 sydd ar gael yn Archif y BBC, caiff blas cwbl wahanol i *Hob y Deri Dando* ei ddarparu i’r gynulleidfa. O’r cychwyn cyntaf ceir ymdrech yn nheitlau’r rhaglen i adlewyrchu steil artistig y cyfnod gyda graffeg addas, ac mae’r gerddoriaeth yn arwyddo ymadawiad clir oddi wrth y synau gwerin traddodiadol a chynodiadau gwledig. Ond er cynodiadau cyffrous yr arwyddgân a’i chynnwys gweledol, profai’r cynnwys nad oedd

<sup>101</sup> Max Boyce, cyfweliad gyda’r awdur, Hydref 2021.

<sup>102</sup> *ibid.*

<sup>103</sup> Hywel Gwynfryn (1942–), cyfweliad gyda’r awdur. Roedd Gwynfryn ar y pryd yn rhannu ei wythnos waith rhwng y rhaglen newyddion cylchgrawn *Heddiw* (o dan olygyddiaeth John Roberts Williams) a’r Adran Adloniant (o dan Meredydd Evans). Ni rannai’r cytundeb yn haearnidd, ond gan fod y ddau bennaeth yn deall ei gilydd, byddai Gwynfryn yn symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd rhwng y naill adran a’r llall, er nad oeddent wedi eu lleoli yn yr un man. Roedd *Heddiw* ar Heol Stacey, Caerdydd lle roedd y stiwdio a’r Adran Adloniant ar ail lawr adeilad yswiriant ar Heol Casnewydd. Gweler ei hunangofiant, Hywel Gwynfryn, *Cyfes y Cewri 28: Y Dyn ei Hun*, (Pwllheli: Gwasg Gwynedd, 2004).

<sup>104</sup> Endaf Emlyn (1944–), cyfweliad gyda’r awdur. Gweithiai Emlyn gyda Ronnie Williams yn yr Adran Gyhoeddi o dan oruchwyliath Morfudd Mason Lewis, a chyfrannai’n achlysurol i’r gyfres ddychanol *Stiwdio B* a gynhyrchwyd gan yr Adran Adloniant. Gweler David Berry, *Emlyn, Endaf: director, writer, producer, Actor, Musician*, <<http://www.screenonline.org.uk/people/id/554528/index.html>> [cyrchwyd 18 Mawrth 2022].

<sup>105</sup> Hywel Gwynfryn, cyfweliad gyda’r awdur. Cofiai Gwynfryn mai ‘Angharad’ oedd teitl y gân yn y Gymraeg ond nid yw’n cofio pwy a’i canodd.

cerddoriaeth bop Cymraeg wedi llwyddo i ymddihatru ei hun yn llwyr o'i wreiddiau traddodiadol, ac mae hynny'n cadarnhau canfyddiad Ned Thomas am natur pop Cymraeg y cyfeiriwyd ato eisoes.<sup>106</sup> Ar un rhaglen clywir nodau piano a gitâr Hogia'r Wyddfa yn arwain at y tri chanwr yn canu am *Y Llanc Ifanc o Lŷn*, ac ambell saethiad o ferch bryd tywyll, ei dillad llaes yn hofran yn y gwynt a darlun o'r arfordir y tu ôl iddi.<sup>107</sup> Ar raglen arall clywir lleisiau tair cantores, gyda dwy ohonynt yn chwarae'r gitâr sef Y Diliau yn canu am 'winllan a roddwyd yw Cymru ein gwlad', ac yn y rhaglen hon mae yna gynulleidfa sy'n ymdrechu i ddawnsio i berfformiadau'r artistiaid.<sup>108</sup> Mae'r tensiwn hwn rhwng y cyfoes a'r traddodiadol yn cael ei amlygu hefyd yn yr eitem ar siart Deg Uchaf *Y Cymro* a gaiff ei rannu gan y cyflwynydd Ronnie Williams mewn dull cyflym cyffrous DJ radio, dros luniau llonydd o'r artistiaid. Er i Dafydd Iwan a'i gân am yr Arwisgo sef Croesochwedegain gyrraedd rhif 2, ar y brig mae recordiad o Gymanfa Ganu Alun John yn Nhreforys.<sup>109</sup>

Cafodd y gân Croesochwedegain ei chynnwys yn y ddwy raglen a nodwyd, a chaiff y gwylwyr glywed penillion gwahanol o'r gân ynddynt. Nid yw Dafydd Iwan yn y stiwdio nac ar fideo, yn hytrach caiff y cynnwys gweledol ei ddarparu gan gartwnau llonydd sy'n dehongli agweddau gwahanol o'r gân. Defnyddiwyd yr arddull hwn ar y gyfres gyntaf o *Disc a Dawn*, a hynny i gyfannu eitem gyson gan Endaf Emlyn ar *hits* Saesneg y cyfnod gan fandiau fel The Kinks a The Lovin' Spoonful gan fod prinder recordiau pop Cymraeg.<sup>110</sup> Ystyriwyd y penderfyniad fel cam cyntaf dros-dro yn y broses o rannu cerddoriaeth boblogaidd gyda'r gynulleidfa, a fuasai yn y pen-draw yn arwain at rannu cerddoriaeth Gymraeg.<sup>111</sup> Yr oedd hefyd fel nododd Hill, yn amlygu, 'a seriousness of purpose and a discerning trend in musical tastes in Wales.'<sup>112</sup> Er hyn, gallai penderfyniad o'r fath ar raglen Gymraeg fod wedi denu beirniadaeth, ond nid yw Emlyn yn cofio unrhyw ymateb negyddol ac nid oes tystiolaeth o hynny yng ngwasg y cyfnod.<sup>113</sup> Bu cryn drafodaeth rhwng Meredydd

---

<sup>106</sup> Gweler t. 81, tn. 117.

<sup>107</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Disc a Dawn*, 6 Medi 1969. Rhif y rhaglen: PCL5018K/01.

<sup>108</sup> *ibid.*, 20 Medi 1969. Rhif y rhaglen: PCL5019E.

<sup>109</sup> Archif BBC Cymru Wales, deunydd crai cyfweiliad Endaf Emlyn, *Teledu'r Cymry*. Rhif rhaglen berthnasol: WWN171W.

<sup>110</sup> Endaf Emlyn, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>111</sup> *ibid.*

<sup>112</sup> Hill, t. 61.

<sup>113</sup> Hill, t. 61, awgrymwyd gan Hill i'r eitem ar recordiau Saesneg gael ei chynnwys oherwydd fod *Disc a Dawn* yn darlledu ar rwydwaith y BBC ganol wythnos wedi'r darllediad byw ar nos Sadwrn yng Nghymru. Er hyn, dengys tystiolaeth mai ym mis

Evans, Ruth Price a'r cyfarwyddwr Rhydderch Jones ynglŷn â pha luniau y gellid eu defnyddio i gyd-fynd ag eitem Emlyn, sy'n amlygu eu hymwybyddiaeth o ofynion y cyfrwng gweledol.<sup>114</sup> Ar awgrym Emlyn gofynnwyd i'w ffrind, yr artist David Griffiths i ddarparu sgetsys a chartŵnau addas.<sup>115</sup> Mae'r ymwybyddiaeth weledol hon yn amlwg yn sylwadau Evans drachefn, 'Dwn i ddim pam y mae'n rhaid inni Gymry dybied bod dawn naturiol at ddigrifwch a chân yn ddigonol. Mae elfen gref o gelfyddyd mewn teledu, yn gyffredinol, ac y mae rhagor gelfyddyd na dawn.'<sup>116</sup> Dengys hyn ddealltwriaeth o hanfod teledu ymhlith y tîm cynhyrchu, bu i Evans a Price dreulio tair wythnos yn Llundain ar gwrs hyfforddi teledu,<sup>117</sup> a chaiff y pwyslais a roddwyd ganddynt ar y sript deledu ym mharatoadau'r rhaglen ei dystio gan eraill.<sup>118</sup> Yn wahanol i nifer o gynhyrchwyr rhaglenni teledu y cyfnod nid oeddent ychwaith wedi eu llyffetheirio gan 30 mlynedd o brofiad cynhyrchu ym myd radio.<sup>119</sup>

Roedd diffyg recordiau Cymraeg yn fater y bu rhaid i Hywel Gwynfryn fel cyflwynydd, a'i gynhyrchydd Gareth Lloyd Williams ymrafael ag ef hefyd ar gyfer cyfres radio a lansiwyd yn 1968 sef *Helo sut 'dach chi?* Er mwyn sicrhau digon o gynnwys ar gyfer rhaglen hanner awr chwaraeid fersiynau offerynnol o ganeuon poblogaidd y cyfnod. Nid oedd unrhyw gysylltiad amlwg rhwng y gyfres hon a *Disc a Dawn*, ac nid oedd Gwynfryn yn defnyddio dulliau cyfredol o groes-hyrwyddo wrth geisio denu cynulleidfa i gynnwys tebyg a gaiff ei gynhyrchu gan yr un sefydliad darlledu. Un o brif amcanion Gwynfryn oedd ystwytho'r iaith Gymraeg a chreu rhaglen hwyliog ar fore Sadwrn.<sup>120</sup> Mae arddull Ronnie Williams ar *Disc a Dawn* yn ddigon anffurfiol hefyd wrth iddo fynnu sgwrs gyflym gyda'r artistiaid wedi iddynt ganu, er, oddi ar y camera mae'r artistiaid yn gwneud hynny sy'n taro rhywun braidd yn rhyfedd. Yn y rhaglen a ddarlledwyd ar yr 20 Medi 1969 lle mae

---

Chwefror 1969 y cychwynwyd gwneud hynny. Parodd yr arfer hwn o ail-ddarlledu tan mis Mai 1973 pan ddaeth y gyfres i ben. Gweler *BBC Radio Times*, 1967 ac 1968.

<sup>114</sup> Endaf Emlyn, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>115</sup> David Griffiths (1939–). Arts UK, <[https://artuk.org/discover/artists/griffiths-david-b-1939/view\\_as/grid/search/artists:griffiths-david-b1939/page/1](https://artuk.org/discover/artists/griffiths-david-b-1939/view_as/grid/search/artists:griffiths-david-b1939/page/1)> [cyrchwyd 10 Mawrth 2022].

<sup>116</sup> 'Chwys ac Ymroddiad', t. 40.

<sup>117</sup> *Teledu'r Cymry*, deunydd crai cyfweiliad Ruth Price. Roedd Evans ynghyd â Price wedi mynychu cwrs teledu gyda'r BBC yn Llundain ar gychwyn sefydlu yr Adran Adloniant ond dim ond tair o'r chwe wythnos o'r cwrs y llwyddwyd i'w fynychu gan bod angen cychwyn ar y gwaith darlledu. Bu John Hefin (drama) a Myrfyn Owen (cerddoriaeth) ar yr un cwrs, a bu i'r pedwar aros mewn llety gwely a brecwast yn Paddington a gai ei redeg gan Idwal Lloyd, cyn-brifathro o ardal Trefin yr oedd Ruth Price yn ei adnabod ers ei magwraeth ym Mathri, Sir Benfro.

<sup>118</sup> Cefin Roberts, *Dei Tomos: Cofio Ruth Price*; a Mici Plwm mewn cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>119</sup> Simon Frith, 'Look! Hear! The uneasy relationship of Music and Television', t. 278.

<sup>120</sup> John Davies, t. 323. Nodwyd gan Davies, '...Hywel Gwynfryn's energy, wit and charm caused him to be the personification of Welsh-language broadcasting in the late twentieth century.'

yna gynulleidfa yn y stiwdio, gwelir Williams yn eistedd ar gadair uchel wedi ei wisgo mewn crys a thei patrymog sy'n gweddu i'w gilydd, a phedair o fenywod ifainc o'i amgylch gyda sticeri *Disc a Dawn* ar eu dillad. Maent yn hanu o wahanol rannau o Gymru, ac mae'r ymwneud rhyngddynt â Williams yn sgysiol gydag elfen o dynnu coes diniwed. Mae'r saethiadau ohono a'r criw o ferched yn eu harddegau hwyr neu ugeiniau cynnar yn closio o'i gwmpas yn cyfleu neges o ddyn sy'n cael ei edmygu ar sgrîn, a'r portread ohono yn gyson ag arddull y gyfres *Top of the Pops* (1964–2006), a gychwynnodd ddarlledu o Fanceinon yn 1964, lle byddai cyflwynydd yn cael ei amgylchynu gan aelodau benywaidd o'r gynulleidfa.<sup>121</sup> Yn ogystal mae'r dewis hwn o sefyllfa i gyflwyno linciau rhwng y caneuon yn atgyfnerthu'r cysyniad a grybwyllwyd eisoes o raglen bop fel arlwy ysgafn, wedi ei gyfyngu i ardddegwyr a merched ifainc.<sup>122</sup> Mae'r dewis o gyflwynwyr gwrywaidd yn fodd o apelio at y gwylwyr benywaidd, ond hefyd yn fodd o reoli'r bygythiad ffeminyddol y cyfeiriwyd ato eisoes.<sup>123</sup>

Ar gyfer y drydedd gyfres o *Disc a Dawn* yn 1969 parhawyd gyda'r patrwm o un cyflwynydd gwrywaidd, sef Huw Jones, oedd yn taro tant gwbl amgen i Ronnie Williams.<sup>124</sup> Roedd Jones yn fyfyrwr yng Ngholeg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen, ac yn dychwelyd ar benwythnos i gyflwyno'r rhaglen yn fyw ar nos Sadwrn. Roedd felly yn iau na Williams, oedd yn 28 oed pan gyflwynodd ei gyfres gyntaf.<sup>125</sup> Erbyn hyn roedd Meredydd Evans wedi paru Williams gyda Ryan Davies a esgorodd ar bartneriaeth lwyddiannus Ryan a Ronnie, gan sefydlu un o frandiau mwyaf llwyddiannus yr Adran Adloniant o dan ei arweiniad.<sup>126</sup> Gellid cymharu y newid o Williams i Jones i'r gymhariaeth rhwng cyflwynydd *Juke Box Jury*, y tadol David Jacobs, a wyneb ffres a llais unigryw Bob Harris ar *The Old Grey Whistle Test* (1971–1988) a ddynodai oes newydd o geisio apelio at ardddegwyr.<sup>127</sup> Deuai Jones at y camera gyda phrofiad cyflwyno gan iddo gael cyfle i ymddangos ar sawl cyfres ers

---

<sup>121</sup> Mark Savage, BBC News, *An Incomplete history of pop on BBC television* (26 November 2022), <<https://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-63647648>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>122</sup> Railton, t. 330.

<sup>123</sup> Gweler t. 119, tn. 94.

<sup>124</sup> Huw Jones, cyfweliad gyda'r awdur.

<sup>125</sup> *ibid.*

<sup>126</sup> BBC Genome, *Ryan a Ronnie*, (1968–74), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=Ryan+a+ronnie#top>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022].

<sup>127</sup> Railton, t. 325. Gweler ymhellach, BBC: History of the BBC, *The Old Grey Whistle Test: 21 September 1971*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/september/the-old-grey-whistle-test>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].



yn ifanc.<sup>128</sup> Er bod y dechnoleg *autocue* wedi ei chyflwyno i fyd teledu yn 1954,<sup>129</sup> nid oedd hwylustod y dechnoleg honno gan Jones, a rhaid oedd dysgu'r linciau i gyd ar ei gof, gan wybod hefyd bod Price fel cynhyrchydd yn mynnu'r safon uchaf o ran cywirdeb ieithyddol. Gellid tybio bod hon yn flaenoriaeth a ddeilliai o'i chyfnod ar lawr y dosbarth.<sup>130</sup>

Mae'r dewis o Jones fel cyflwynwydd yn un fuasai wedi taro deuddeg gyda'r gynulleidfa ifanc, yr oedd wedi cychwyn canu gyda'r gitâr, ac yn symbol amlwg o'r union ddiwylliant y deisyfai cynhyrchwyr *Disc a Dawn* ei adlewyrchu yn fyw ar y sgrîn bob nos Sadwrn. Erbyn y cyfnod hwn roedd poblogrwydd yr idiom 'gwerin' cyfoes ar gyfer cyfathrebu negesuon gwleidyddol wedi ei sefydlu ei hun o fewn diwylliant ieuenctid Cymru, a chaiff yr idiom hynny ei arwyddo ganddo.<sup>131</sup> Caiff Huw Jones a Dafydd Iwan eu hystyried fel hyrwyddwyr y mudiad canu protest, techneg a berffeithiwyd ganddynt yng ngwersylloedd yr Urdd. Ym marn Roger Wallis a Krister Malm:

The style they represented was fast developing, as a new generation of youth with a Welsh schooling saw the potentiality for a music scene which had previously been reserved for audiences in rural areas where the Welsh language had survived intact.<sup>132</sup>

Erbyn diwedd y chwedegau roedd Iwan yn gadeirydd Cymdeithas yr Iaith, ac yn allweddol yn yr ymdrech i briodi cerddoriaeth a'r achos cenedlaethol, 'Iwan was one of the people who succeeded in mobilizing the Welsh popular music scene in a nationalist linguistic direction.'<sup>133</sup> Rhyddhaodd Jones ei sengl *Dŵr* yn 1969, a fynegai siom cenedl gyfan am foddï Capel Celyn a Chwm Tryweryn, a blwyddyn yn ddiweddarach rhyddhaodd y sengl *Paid Digalonnï*, oedd yn cyfarch ei gyfaill Dafydd

---

<sup>128</sup> Huw Jones, cyfweiliad gyda'r awdur. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Bryntaf a brofodd yn ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer sawl cynhyrchydd, gan gynnig ateb i'r broblem o geisio dod o hyd i blant a siaradai Gymraeg yn y brifddinas. Un o'r cyfresi a gyflwynwyd gan Jones oedd *Tipyn o Gamp*, sef rhaglen i blant, a gynhyrchwyd gan yr Adran Blant yn TWW o dan ofal Margaret Elin Gruffydd. Teleri Bevan oedd yn cyflwyno, a Jean Parry Jones yn cynhyrchu. O 1968, o dan drwydded HTV, a bellach Peter Elias Jones fel pennaeth yr Adran Adloniant a phlant, bu Jones yn cyfrannu at gyfresi fel *Tinseli*, *Dibyn Dobyn*, *Rydw i am Fod a Castell Cant a Mil*.

<sup>129</sup> John Davies, t. 259.

<sup>130</sup> Huw Jones, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>131</sup> Hill, t. 27. Noda Hill ymhellach, "'Folk' music, in the international sense of the word (embodied by such figures as Pete Seeger, Bob Dylan et al.), was eventually embraced by the Welsh establishment; popular (and political) youth culture became mainstream.'

<sup>132</sup> Roger Wallis a Krister Malm, t. 85.

<sup>133</sup> *ibid.*

Iwan yn ystod ei garchariad. Nid oes syndod efallai i George Thomas gyhuddo'r gyfres o fod yn 'weekly half-hour plug for Plaid Cymru',<sup>134</sup> ond fel y nododd Jones:

Roedd ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith yn eu hanterth,  
arwyddion ffyrdd ac yna sianel deledu. Roeddwn i'n aelod o  
Gymdeithas yr Iaith ac roedd cwmni Sain yn cael ei sefydlu  
bryd hynny, felly mi roedd hi'n un byd byrlymus, cyfoethog  
yn hwyl fawr i fod yn rhan ohono fo.<sup>135</sup>

Mae'r cyfeiriad at 'un byd' yn drawiadol, ac yn tystio i'r gymhariaeth nodwyd gan Hill rhwng 'African-American blues' yr Unol Daleithiau a cherddoriaeth Gymraeg yng Nghymru, 'singing of their experience of marginality is what located them within a community.'<sup>136</sup>

Drachefn caiff y cysyniad o gymuned ei chynnal gan gynnwys *Disc a Dawn* trwy hyrwyddo casgliad o recordiau newydd, sicrhau slot i Ddeg Uchaf *Y Cymro* a'r calendr digwyddiadau sy'n adlewyrchu prysurdeb y gymuned adloniant ysgafn yng Nghymru. Â Huw Jones yn wyneb newydd y gyfres, cadwyd at yr un gerddoriaeth agoriadol, ond mae'r teitlau agoriadol wedi eu diweddarau, ac ymddengys mwy o gysylltiad rhwng yr agoriad pwrpasol a'r cynnwys yn gyffredinol, sy'n fwy mentrus. Yn debyg iawn i'r symudiad o'r rhaglen *Juke Box Jury* i'r *Old Grey Whistle Test*, roedd yna symudiad graddol o'r hyn allai fod yn *hit*, i berfformiadau gan fandiau nad oedd yn chwennych cynhyrchu'r math hwnnw o gerddoriaeth.<sup>137</sup>

Ar raglen *Disc a Dawn* a ddarlledwyd ar 7 Tachwedd 1970 ymhlith yr artistiaid roedd Y Diliau, Pamela Post (merch o'r Iseldiroedd), Meic Stevens, Huw Jones ei hun yn canu, a'r grŵp Y Tebot Piws. Yn nhyb Hill, yn yr un modd ag y cynrychioliai'r Beatles esblygiad cerddoriaeth boblogaidd, roedd Y Tebot Piws yn arwyddo newid yng Nghymru. Ynghyd â'r Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog, cynrychiolent bont rhwng adloniant ysgafn a cherddoriaeth roc y 1970au, rhwng yr amatur a'r proffesiynol, ac mae hynny yn ei dro wedi dylanwadu ar deimlad y

---

<sup>134</sup> John Davies, t. 287.

<sup>135</sup> Huw Jones, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>136</sup> Hill, t. 30.

<sup>137</sup> Railton, t. 325.

rhaglen.<sup>138</sup> Yn y stiwdio roedd Dewi Pws, prif leisydd Y Tebot, yn gwneud pob math o ystumiau i'r camera wrth ganu am ddychwelyd i Flaenau Ffestiniog, gan gadw Price ar flaenau'i thraed.<sup>139</sup> Nid oedd y dwli yma o droi pethau ben i waered yn plesio pawb,<sup>140</sup> fel tystia Jones, 'Mi roedd hynny yn sioc i'r system genedlaethol ond yn sioc gynhyrfus i bobl ifanc. Roeddwn i o blaid beth oedd Tebot yn ei wneud ac yn falch o'r cynnwrf a'r ochr ddadleuol i'r peth.' Ar y rhaglen ceir cyfweiliad rhwng Jones a Dewi Pws, ac roedd y cyflwynydd yn ymdopi'n syndod o dda gyda'i gyfwelai anystywallt, mae'r ysgafnder a'r tynnu coes yn ychwanegu at y profiad ac yn ddarpariaeth fwy priodol i'r gynulleidfa darged na'r sgysio a welwyd yn y gyfres flaenorol rhwng Ronnie Williams ac aelodau ifanc benywaidd o'r gynulleidfa stiwdio. Un o'r eitemau nad yw'n taro deuddeg serch hynny yw fideo o Meic Stevens ar leoliad yn sefyll ar gei yn canu'r gân abswrdd *Mynd i'r Bala mewn Cwch Banana*, yn y cefndir mae yna long a dawnswraig yn perfformio arni nad yw'n berthnasol i gynnwys y gân. Bu'r fideos cerddoriaeth yn nodwedd gyson o'r gyfres ar hyd y blynyddoedd, gydag ond ambell un yn profi'n ddehongliadau llwyddiannus o ganeuon.

Er gwaethaf yr addewid a welwyd yng nghynnwys y cyfresi a gyflwynwyd gan Jones, roedd y gagendor rhwng yr adloniant ysgafn traddodiadol a blesiai'r gynulleidfa hyn a'r hyn a ddeisyfai pobl ifanc yn lledu, ac o'r herwydd roedd yn her eu diwallu o fewn yr un rhaglen. Derbyniwyd llythyron o gwyn i'r Adran Adloniant pan fu'r cantorion hir-walltog, Y Blew, ar y gyfres, ond roedd Merdydd Evans yn sgil ei brofiad yntau fel canwr ifanc, yn gadarn ei weledigaeth o gefnogi'r symud graddol o gerddoriaeth pop ysgafn at gerddoriaeth ag iddo ystyr.<sup>141</sup>

Mi roedd yna newid graddol o'r pwyslais ar eiriau, lleisio da a harmoni i'r rhythm, bêt a bas. Mi oedd Y Blew yn cynrychioli'r eithaf yn hyn o beth yn Gymraeg ar y pryd a toedd pawb ddim yn barod i'w dderbyn. "Ddim yn Gymreig" oedd y gwyn. Tybad? Mi oedd yn rhaid ei neud o fel petai'n perthyn i ni. Mi oedd yn rhaid dilyn greddf y bobl

<sup>138</sup> Hill, t. 67. Gwêl Meic Stevens ei grŵp Y Bara Menyn fel tarddiad y llinach a arweiniodd at Y Tebot Piws a'r Dyniadaon Ynfyd Hirfelyn Tesog, gweler Meic Stevens, *Meic Stevens: Hunangofiant y Brawd Houdini*, t. 170. Mae hanes sefydlu'r grŵp fel jôc, yn cadarnhau'r cysyniad o droi pethau pen i waered a herio'r sefydliad.

<sup>139</sup> *Teledu'r Cymry*, deunydd crai cyfweiliad Ruth Price, 2019.

<sup>140</sup> Railton, t. 327. Ymhellach mae tebygrwydd wedi ei adnabod rhwng Y Tebot Piws a chynnyrch cerddorion mewn gwledydd bychain eraill yn ystod y 1970au fel Pugh Rogefeldt a Rolf Wickström yn Sweden, a Røde Mor yn Nenmarc, gweler: Roger Wallis a Krister Malm, t. 94.

<sup>141</sup> Railton, t. 325.

ifainc, r'argian, nhw oedd yn iawn. Gydag amser mi oedd y dynwarad neu'r efelychu, fel yn y 40au, yn troi'n gynhenid.<sup>142</sup>

Yn nhrydedd cyfnod y gyfres penderfynwyd ceisio croesawu'r twf mewn cerddoriaeth ddisgo a roc trwy osod Mici Plwm fel prif gyflwynydd a gwahodd dawnsyr i'r stiwdio'n fwy cyson. Roedd Plwm wedi magu enw iddo'i hun fel DJ Plummy a gyda Disgo Teithiol Mici Plwm, mewn llefydd fel Manceinion ac ar draws Cymru. Oherwydd prinder recordiau Cymraeg addas i ddawnsio iddynt, roedd wedi mabwysiadu arfer o chwarae cerddoriaeth offerynnol, sy'n adlais o benderfyniadau cynhyrchu *Helo sut 'dach chi?*<sup>143</sup> Erbyn y cyfnod hwn, cynhyrchwyd nifer o raglenni *Disc a Dawn* gan Hywel Williams, ond erys y patrwm a osodwyd gan Price o amrywiaeth o eitemau wedi eu cysylltu gan gyflwynwydd, a amlygai arddulliau cerddorol amrywiol.

Gwelwyd Plwm ar y sgrîn am y tro cyntaf yn cyflwyno *Disc a Dawn* yn 1972, a gyda'i wallt hir a'i farf llaes, a'i ddec recordiau o'i flaen, roedd yntau fel Huw Jones o'i flaen yn ddewis pwrpasol er mwyn adlewyrchu'r sîn gyfredol ar y pryd. Mewn rhaglen a ddarlledwyd ym mis Rhagfyr 1972, daw ei arddull ysgafn ffwrdd-a-hir i'r amlwg; fe'i gwelir yn croesawu'r gwylwyr gyda linc agoriadol dros gerddoriaeth offerynnol fyw yn y stiwdio, 'Ia ia mewn du a gwyn, ond nid mewn lliw, ond yn amryliw, melyn ar felyn, blonde ar flonde, i chi!' ac yn hwyrach yn ystod y rhaglen, clywir *catchphrase* ganddo sy'n nodwedd hanfodol i bob DJ llwyddiannus, 'Record arbennig i chi, nid i mi, ond i chi'.<sup>144</sup> Mae'r math yma o linciau yn arwyddo ymdrech i ystwytho'r iaith, ac yn cyd-fynd gyda'r hyn roedd Gwynfryn yn ei arfer ar y tonfeddi radio ar y pryd. Yr oedd hefyd yn arwyddo ymdrech i droi pethau wyneb i waered a herio'r sefydliad sy'n adlais o'r gymhariaeth rhwng pop a'r *carnavalesque*.<sup>145</sup>

Un agwedd a ddaeth yn nodwedd gyson yn ystod y cyfnod hwn oedd cael cynulleidfa fyw yn dawnsio, a chlundwyd pobl ifainc o Goleg y Drindod, Caerfyrddin a Choleg

<sup>142</sup> Meredydd Evans, dyfynnwyd yn Hefin Wyn, t. 87.

<sup>143</sup> Mici Plwm, cyfweiliad gyda'r awdur, 8 Ebrill 2022. Roedd Plwm eisoes yn gwneud hyn gyda'i disgo teithiol ac yn chwarae deunydd artistiaid megis *Booker T and the MG's*, BBC Cymru Fyw, *Y Cob, T. Rex a DJ Plummy* (17 Mawrth 2016), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/35820274>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

<sup>144</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Disc a Dawn*, 9 Rhagfyr 1972. Rhif y rhaglen: PCL9146P.

<sup>145</sup> Gweler t.120, tn. 90.

Caerllion i'r stiwdio. Nodwyd gan John Hill bod y gynulleidfa stiwdio yn y gyfres *Six Five Special* yn gweithredu fel, 'an unofficial guide to the latest fashions in clothes, haircuts and above all dancing.'<sup>146</sup> Gellid nodi yr un peth am ddawnswyr *Disc a Dawn* a gwelwyd ambell fachgen ymysg y merched, oll yn adlewyrchu ffasiwn y cyfnod, gan ddilyn cyfarwyddyd y criw cynhyrchu i wisgo fel petaent yn mynd allan neu i ddisgo.<sup>147</sup> Fel cydnabu Plwm, roedd natur cerddorol rhai o'r grwpiau a ymddangosai ar y rhaglen yn gosod her i ddawnswyr,<sup>148</sup> er cyflwyno elfen o gerddoriaeth ddisgo, deil yr eitemau acwstig i gael eu cynnwys a deil y Gymanfa Ganu yn y calendr wythnosol, felly roedd y ddarpariaeth yn amlygu yn fwy fyth y tensiwn rhwng y traddodiadol a'r cyfredol.

Daeth *Disc a Dawn* i ben yn 1973, roedd y mater heriol o fodloni chwaeth cynulleidfaoedd amrywiol yn peri digon o drafodaeth i arwain at eitem ar yr union fater, a bu Mici Plwm yn crwydro'r wlad yn recordio vox pops am yr hyn y dylid ei gynnig mewn cyfres gwbl newydd.<sup>149</sup> O ymatebion brwdfrydig a gonest y bobl ifainc mae'n amlwg nad oedd modd diwallu eu holl anghenion a gaiff eu disgrifio fel gwerin, roc, pop ysgafn traddodiadol a disgo mewn un rhaglen. Er yr anghytuno mae brwdfrydedd eu hymatebion yn amlygu eu hangerdd dros gerddoriaeth wreiddiol yn y Gymraeg, ac fel y nodwyd gan un dyn ifanc hir-walltog, 'Wel dwi'n meddwl mai *Disc a Dawn* ydi'r peth gora' sydd wedi digwydd i ddiwylliant Cymraeg am hanner can mlynedd'.<sup>150</sup>

Erbyn hyn roedd cyfnod Meredydd Evans o ddeg mlynedd fel pennaeth yr Adran Adloniant yn dirwyn i ben. Tros y blynyddoedd ffurfiwyd uned glos o bobl ganddo a'i edmygai fel arweinydd, ac a rannai ei gred yn yr ymgyrch dros sefydlu adloniant cyfrwng Cymraeg safonol, ac yn gadarn wrth ei ochr yn y frwydr honno roedd Ruth Price. Yn yr un modd ag y gwnaeth Maschwitz yn y tridegau ennyn creadigrwydd criw o bobl adran *variety* y BBC yn theatr Neuadd St George, Llundain, felly y gwnaeth Evans gyda'r uned hon ar ail lawr yr adeilad yswiriant ar Heol Casnewydd, Caerdydd. Uned oedd hi a weithiai'n galed ac a chwaraeai'n galed, gyda'r 'Staff

---

<sup>146</sup> John Hill, 'Television and Pop: The Case of The 1950s', yn *Popular Television in Britain: Studies in Cultural History*, gol. gan John Corner (Llundain: BFI Publishing, 1991) t. 95.

<sup>147</sup> Mici Plwm, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>148</sup> *ibid.*

<sup>149</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Disc a Dawn*, 19 Mai 1973. PCL5032D/00.

<sup>150</sup> *ibid.*

Owting' yn cael ei gyhoeddi ar blacard yn y coridor gan Rhydderch Jones bob prynhawn Gwener, y siars i adael y swyddfa a thorri syched yn cael ei hyrwyddo gan Evans ei hun, a'i ddehongliad o'r gân *Hogia Ni* yn rhoi tân bwriadol ym moliau criw'r brwdfrydig.<sup>151</sup>

Meddai Price ar ddealltwriaeth o'r hyn a apeliai at gynulleidfaoedd, ac fel cynhyrchydd effeithiol gwyddai sut i'w becynnu a'i ddarparu ar deledu. Llwyddodd i feithrin to o artistiaid a thalentau ifainc, a hynny trwy anogaeth dawel ac agwedd famol heb gyfaddawdu ar y safonau oedd yn bwysig iddi. Bu iddi ganfod amrediad o artistiaid benywaidd a gwrywaidd fel ei gilydd, ond ni roddodd gyflwynydd benywaidd yn wyneb *Disc a Dawn*, yn hytrach dilyn patrwm y rhan fwyaf o'r cyfresi Prydeinig a wnaeth. O'r herwydd caiff ffigwr y cyflwynydd gwrywaidd a'i edmygwyr benywaidd ei gynnal, ac ymhlyg yn hynny y cysyniad o gerddoriaeth bop a'i gyswllt â theledu fel cyfrwng benywaidd. Er ei chred yng ngwerth adloniant ysgafn i ddarlledwr cyhoeddus profodd ei gweledigaeth i fod yn un llwyddiannus ac yn gyson ag un Evans, sef sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw a pherthnasol i bobl ifainc Cymru, ac yn sgil hynny hwyluso sîn ddiwylliannol a diwydiant cerddoriaeth pop Cymraeg. Fel y nodwyd gan Hill:

It must be stressed that the production and consumption of Welsh popular music with its political and social ramifications was central to the positioning of Welsh as a language of youth, and therefore as a cultural artifact to be re-considered in subsequent generations.<sup>152</sup>

Roedd gan deledu, trwy gyfrwng pop, y pŵer i hyrwyddo delwedd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng ag iddo berthnasedd i bobl ifainc, a deallai Price ac Evans hynny. Yn yr un modd yr oedd ymwybyddiaeth ymysg siaradwyr Cymraeg o bŵer teledu i ddylanwadu ar blant ifainc a'u defnydd hwy o'r iaith. Ar gychwyn y saithdegau bu dirprwyaeth o fudiad Urdd Gobaith Cymru a dirprwyaeth o Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg yng nghyfarfodydd Cyngor Darlledu Cymru i fynnu cynnydd yn oriau'r ddarpariaeth deledu ar gyfer plant. Nid galwad estron oedd hon i reolwyr y BBC yng Nghymru, ers cychwyn darlledu o Gaerdydd bu galwad i sicrhau darpariaeth *Awr y Plant* ochr yn ochr â *Children's Hour*. Bydd y bennod nesaf yn olrhain yr alwad

<sup>151</sup> *Teledu'r Cymry*, deunydd crai cyfweiliad Ruth Price. Hywel Gwynfryn, cyfweiliad gyda'r awdur.

<sup>152</sup> Sarah Hill, 'Blerwytirhwng?' *The Place of Welsh Pop Music*, t. 44.

gyson ac yn dadansoddi sut y bu i'r cynhyrchydd Evelyn Williams ateb yr alwad honno a darparu ar gyfer y segment penodol yma o'r gynulleidfa radio a theledu, sef plant.





### Pennod 3:

#### Y ddarpariaeth ar gyfer plant: Evelyn Williams

Crybwyllwyd eisoes i Evelyn Williams ymuno gyda'r BBC yng Nghaerdydd fel actores gyda'r *repertory company* yn 1946, cyn iddi droi at waith fel cynorthwy-ydd ar *Awr y Plant* yn 1951. Fe'i perswadiwyd i ymgymryd â'r gwaith gan Alun Oldfield-Davies yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Cymru y BBC,<sup>1</sup> gan olynu Ifan O. Williams oedd wedi symud i weithio yng Nghaerdydd.<sup>2</sup> Bydd y bennod hon yn ystyried cynyrchiadau radio Williams, ac yn archwilio sut yr aeth ati gyda chymorth grŵp cyson o artistiaid i gyfarch plant, a phlant bychain, oed cyn ysgol yn benodol. Gyda dyfodiad y cyfrwng teledu, caiff ei chynnyrch ar gyfer y gynulleidfa yma ei ystyried, a bydd modd canolbwyntio ar y dull o gyfarch a fabwysiadwyd ganddi ar gyfer cyfrwng gweledol. Yn ôl ei chyfoedion, mynnai Williams safon uchel o werthoedd cynhyrchu, ac ymhlyg yn hynny roedd pwylais pendant ar safon ieithyddol ac ynganiad cywir, sy'n dyst i'w chefnidir fel athrawes ac actores, ac yn adlewyrchu gwerthoedd tebyg i'r rhai a arddelwyd gan Ruth Price.<sup>3</sup> Yn ogystal roedd dull Williams o gynhyrchu yn darlunio'r cyfrifoldeb a osodwyd ar ysgwyddau'r darlledwyr cyhoeddus wrth ymdrin â'r segment penodol yma o'r gynulleidfa mewn cyfnod o newid cymdeithasol ac o esblygiad darlledu yng Nghymru.

Roedd darparu ar gyfer plant yn gyffredinol yn rhan greiddiol o waith y BBC o'r cychwyn cyntaf, a chlywyd y darllediad cyntaf o *Children's Hour* ar 23 Rhagfyr 1922 o Birmingham.<sup>4</sup> Roedd y ddarpariaeth yn gyson gyda'r weledigaeth o ddarlledu cyhoeddus, ac ystyriai Reith raglenni plant a'r ddrama radio fel ffurfiau unigryw y cyfrwng, oedd yn canfod eu lle yn naturiol yn yr amserlen ddarlledu.<sup>5</sup> Cai plant eu hystyried o ddifri, yn yr un modd ag unrhyw aelod arall o'r gynulleidfa, '...they

---

<sup>1</sup> Alun Oldfield-Davies (1905-1988). Bu'n Gyfarwyddwr Cymru rhwng 1945 ac 1948, ac yn Rheolwr Cymru, 1948-1967. John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 391.

<sup>2</sup> Evelyn Williams, 'Awr y Plant', yn *Babi Sam: yn dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, gol. gan Dyfnallt Morgan (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), tt. 96-101 (t. 96).

<sup>3</sup> Cyfeiriwyd at hyn yn annibynnol gan yr actores a'r sgriptwraig, Sheila Huw Jones mewn cyfweiliad gyda'r awdur, Medi 2022, a chan Christopher Somerville, y pypedwr, mewn cyfweiliad gyda'r awdur, Medi 2022. Soniwyd am hyn hefyd gan eraill yn eu cyfweiliadau gyda'r awdur, sef Endaf Emlyn (Ionawr 2022), Hywel Gwynfryn (Medi 2019 a Mawrth 2022), a John Watkin (Mawrth 2022). Y cyfweiliadau a nodir ym mediant yr awdur.

<sup>4</sup> Andrew Oswell, 'Early children's broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy', *Historical Journal of Film, Radio and Television*, 18.3 (1998), 375-93, (t. 375) <<https://dx.doi.org/10.1080/01439689800260241>>

<sup>5</sup> *ibid.*, t. 375.

were, after all *citizens in the making*'.<sup>6</sup> Bu llawer o drafodaeth ar beth yn union oedd yn addas i'w ddarlledu iddynt, ac fe'i crisialwyd gan Drefnydd *Children's Hour* yn Llundain, Derek McCulloch fel a ganlyn, 'a self-contained miniature of broadcasting as a whole.'<sup>7</sup> Nodwyd ganddo ymhellach:

Our wish is to stimulate their imagination, direct their reading, encourage their various interests, widen their outlook, and inculcate the Christian principles of love of God and their neighbour. It is our desire to try to help to mould the listening tastes of future citizens. There is no smugness in our attitude towards this vital task – only a feeling of great responsibility.<sup>8</sup>

O fewn y ddarpariaeth radio i blant, fel nodwyd gan Josephine Dolan, cafodd gwasanaeth radio ar gyfer plant ei greu, yn hytrach na gwasanaeth darlledu plant:

...this is a key distinction in that such discourses constitute the balance of power in the relationship between adult broadcasters and the audience as child. Whilst adult broadcasters cannot determine what might give pleasure or non-pleasure to an individual child, or what uses or meanings any individual child might produce from the broadcast text, they can determine which pleasures and texts are 'good' for the category 'children' and which are therefore suitable to be broadcast. Adults have the power to shape the contents of a broadcast culture for children: children have no rights or power in this matter.<sup>9</sup>

O'r herwydd adlewyrchai'r ddarpariaeth ddiddordebau, ffantasiâu a deisyfiadau oedolion, a'u cysyniad hwy o blentyndod, yn hytrach na'r hyn yr oedd plant o angenrheidrwydd am ei brofi. Yn 1942, rhannodd McCulloch bolisi ar gyfer y ddarpariaeth gyda'r rhanbarthau, gan osod blaenoriaethau ar gyfer trefnwyr y rhaglenni, 'Encourage the best development of the listening tastes of the future generation of adult listeners; interest children in contemporary life; interest them in their own part of the country and help to contribute towards their moral and religious

---

<sup>6</sup> David Hendy, *The BBC: A people's history* (Llundain: Profile Books, 2022), t. 318.

<sup>7</sup> Dereck McCulloch, dyfynnwyd yn Oswell t. 376. Cyflogwyd McCulloch yn wreiddiol fel Cyhoeddwr Llundain yn 1926, ac fe'i dyrcahwyd yn Drefnydd Hŷn, gyda chyfrifoldeb am *Children's Hour*, gweler Kate Lacey, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio' yn *The Child Savage 1890–2010*, gol. gan Elisabeth Wesseling (Farnham: Ashgate Publishing, 2016), tt. 151-69 (t. 155).

<sup>8</sup> Dereck McCulloch, dyfynnwyd yn Oswell t. 376.

<sup>9</sup> Josephine Dolan, 'Aunties and uncles: the BBC's children's hour and liminal concerns in the 1920s', *Historical Journal of Film, Radio and Television*, 23.4 (2003), 329-339 (t.331) <<https://dx.doi.org/10.1080/0143968032000126627>>

education.’<sup>10</sup> Nodwyd hefyd y dylai’r rhaglenni fod o gymorth i hyfforddi plant, ‘[to be] good citizens and loyal subjects of the Empire, however far-fetched this may seem.’<sup>11</sup>

Yn ogystal â’r amrediad o flaenoriaethau a gaiff eu hamlinellu uchod, buan y sylweddolwyd bod disgwyl i gynhyrchwyr yr arlwy o Gaerdydd i ddarparu mewn dwy iaith, gyda galwadau i sicrhau darpariaeth Gymraeg ar gyfer plant, gan bod llawer yn ohonynt yn uniaith Gymraeg yn ystod cyfnod y dauddegau a’r tridegau.<sup>12</sup> Ers sefydlu canolfan y BBC ym 1923, roedd staff Caerdydd wedi magu enw da am eu harlwy bywiog, a chanmolwyd y ddarpariaeth ym 1928 am fod yn llai plentynnaidd na’r ddarpariaeth o ganolfannau eraill.<sup>13</sup> Flwyddyn yn ddiweddarach gorchmynwyd i raglenni plant gael eu canoli yn Llundain, yn sgil hynny lleihawyd cyfraniadau o ganolfannau megis Caerdydd, a derbyniwyd mwy o oriau unffurf o’r metropolis canolog.<sup>14</sup> Yn dilyn penodiad Cymro Cymraeg, Elwyn Evans yn drefnydd y ddarpariaeth i blant o Gaerdydd yn 1935,<sup>15</sup> ymddangosodd y teitl *Awr y Plant* am y tro cyntaf ar 28 Hydref 1935,<sup>16</sup> a gwelwyd cynnydd yn yr oriau cyfrwng Cymraeg, ond arweiniodd hynny at alwad am gynnydd yn yr oriau cyfrwng Saesneg.<sup>17</sup> Erbyn y pumdegau roedd cyfanswm yr oriau yn y ddwy iaith yn weddol hafal, a rhwng 1945 a 1952, rhaglenni i blant oedd yn gyfrifol am chwarter allbwn canolfan Caerdydd.<sup>18</sup>

Un agwedd a brofai’n heriol i’r cynhyrchwyr oedd dod o hyd i blant o fewn cyrraedd y ddinas a fedrai’r Gymraeg i gymryd rhan mewn rhaglenni, a dramâu yn benodol.<sup>19</sup> Honnwyd bod ardegwyr Y Rhondda a fedrai’r Gymraeg i gyd wedi ymddangos ar

<sup>10</sup> McCulloch, dyfynwyd yn Lacey, t. 155-56.

<sup>11</sup> Lacey, t. 156. Cafodd yr agwedd uchel-ael yma ei chwestiynu o fewn y BBC, er enghraifft yn 1942 gan Gyfarwyddwr Rhanbarth y Gogledd, J. Coatman oedd yn amau ei haddasrwydd, gweler Lacey, t. 157.

<sup>12</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), t. 96. Roedd y sylw yma hefyd yn berthnasol i’r henoed.

<sup>13</sup> *ibid.*, t. 96.

<sup>14</sup> *ibid.*

<sup>15</sup> Apwyntiwyd Elwyn Evans i olynu Raymond Glendinning, fel cyhoeddwr yn wreiddiol yn 1934, ac fel llawer o’r cyhoeddwyr rhoddwyd cyfrifoldeb y ddarpariaeth plant iddo yntau. Gweler Elwyn Evans, ‘Deuparth Gwaith...’, yn *Babi Sam: yn dathlu hammer can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, gol. gan Dyfnallt Morgan (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), tt. 31-42 (t. 34).

<sup>16</sup> BBC Genome, *Awr y Plant*, 28 Hydref 1935, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/8203bb25919944ae853aa58bc7b1845d>> [cyrchwyd 12 Medi 2022].

<sup>17</sup> John Davies, t. 97. Gwyddys i’r Archdderwydd Edgar Phillips, (Trefin wrth ei enw barddol), ddarparu sgriptiau ar gyfer *Awr y Plant* yn 1934 ac 1936, ac ef a gyflwynodd y ditectif Bili Bach i blant Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, GB 2010 TREFIN, Papuraru Trefin Archdderwydd Cymru (1914-1971), Ffeil 148-62, sgriptiau radio teipiedig, 1934-55. Gweler hefyd Llyfrgell Genedlaethol, <[https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-PHIL-EDG-1889?&query=trefin&searchType=nameSearch&lang\[\]=cy&sort=sort\\_name&order=asc&rows=12&page=1](https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-PHIL-EDG-1889?&query=trefin&searchType=nameSearch&lang[]=cy&sort=sort_name&order=asc&rows=12&page=1)> [cyrchwyd 12 Medi 2022].

<sup>18</sup> Davies, t. 188.

<sup>19</sup> *ibid.*, t.116.

*Awr y Plant*, gan beri i bapurau newydd gogledd Cymru fel *Y Cloriannydd* ymosod ar fonopoloï'r shonis.<sup>20</sup> Cyfeiriodd Lorraine Davies at yr her hon hefyd, a hithau wedi cychwyn ar ei gwaith yn 1946, fel Trefnydd *Children's Hour* ac *Awr y Plant* gan olynu Morfudd Mason Lewis, meddai Davies, 'The planning of Welsh [language] programmes...is a miserable hand-to-mouth business...In Glamorgan, the problem of finding young [contributors] gets worse week by week. As far as Children's Hour...programmes are concerned, the sooner we move west the better'.<sup>21</sup>

Tra gofidiai Davies am ddiffyg plant i gymryd rhan mewn rhaglenni, mater arall a brofai'n ofid i Evelyn Williams ar drothwy'r pumdegau pan y'i hadleolwyd o Gaerdydd i Fangor. A hithau'n frodor o'r Rhondda ac wedi hyfforddi fel athrawes yng Ngholeg y Barri, symudodd i ran o'r wlad nad oedd yn gyfarwydd iddi. Mynegodd, wrth fwrw golwg yn ôl ar ei gyrfa, 'Doeddwn i ddim am fynd, a dweud y gwir, achos 'roedd yna hunllef yn fy meddwl i – ofn na fyddwn i byth yn gallu darganfod digon o awduron i ysgrifennu dramâu-cyfres.'<sup>22</sup> Roedd yr amserlen yn gofyn am bedair cyfres newydd, chwe phennod yr un bob blwyddyn, a'r ddarpariaeth yn darlledu o Fangor am yn ail â Chaerdydd.<sup>23</sup> Efallai mai'r gofid o fethu dod o hyd i awduron a'i sbardunodd i addasu nofel E. Morgan Humphreys, *Yr Etifedd Coll* ar gyfer ei chynhyrchiad cyntaf.<sup>24</sup> Yn y pen-draw, llwyddodd i ddod o hyd i ddigon o sgriptwyr, dynion oedd y mwyafrif a enwyd ganddi sef Aelwyn Roberts, Victor John, Ernest Dudley a Huw Lloyd Edwards.<sup>25</sup> Roedd comisiynu cyfraniadau gan ysgrifennwyr a sgriptwyr yn fenter rhatach nag addasu deunydd parod a gorfod cydnabod hawlfraint, ac roedd hyn yr un mor wir ar draws Prydain ag yr ydoedd yng Nghymru.<sup>26</sup> Buddsoddiad gwerth chweil felly oedd neilltuo amser i feithrin sgriptwyr addawol, a chafodd Edwards ei fentora gan Williams gan ddatblygu o fod yn storiwr i sgriptiwr drama radio, ac amlinellodd y broses a arweiniodd at hynny:

Roedd e' wedi danfon stori i mewn, a finnau'n meddwl:  
Mae'r bachgen yma, pwy bynnag ydy e, yn gallu 'sgrifennu –

<sup>20</sup> *Y Cloriannydd*, 27 Ebrill 1938, dyfynnwyd yn Davies, t. 116. Arweiniodd hyn at raglenni ar gyfer plant yn cael eu cynhyrchu yng nghanolfan y BBC yn Abertawe ac ym Mangor.

<sup>21</sup> Lorraine Davies, dyfynnwyd yn Davies, t. 192.

<sup>22</sup> Williams, 'Awr y Plant', yn *Babi Sam: yn dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, t. 96.

<sup>23</sup> *ibid.*

<sup>24</sup> *ibid.*, t. 96-97.

<sup>25</sup> Evelyn Williams, 'Awr y Plant', yn *Babi Sam: yn dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, t. 97.

Gweler hefyd, Huw Lloyd Edwards, (1916-1975), Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, *Cof Cwmwd: Huw Lloyd Edwards*, <[https://cof.uwchgwyrfai.cymru/wici/Huw\\_Lloyd\\_Edwards](https://cof.uwchgwyrfai.cymru/wici/Huw_Lloyd_Edwards)> [yrrchwyd 2 Medi 2022].

<sup>26</sup> Dolan, 'Aunties and uncles: the BBC's children's hour and liminal concerns in the 1920s', t. 334.

yn lliwgar a bywiog, a chreu cymeriadau. A dyma fi'n gofyn iddo fynd ati i lunio storïau-deialog, sef golygfeydd dramatig yn cael eu cysylltu gan storïwr. A bu llawer o drafod rhyngom ni ynghylch yr hyd priodol i olygfeydd, y math o effeithiau y gellid eu defnyddio, a sut i blethu rheiny i mewn i'r digwyddiadau.<sup>27</sup>

Y canlyniad oedd cyfres o'r enw *Bogo y Bwgan Brain*,<sup>28</sup> a Bogo yn cael ei bortreadu gan yr actor Charles Williams.<sup>29</sup> Eglurodd Williams ymhellach, "Nawr 'te Huw", meddwn i, "mae'n bryd ichi 'sgrifennu drama! Rwy' am gael cyfres newydd o chwe phennod!" Ac fe ysgrifennodd Huw ei gyfres gyntaf, 'Plant y Mynachdy', yn llawn antur a chyffro.'<sup>30</sup> Athro a darlithydd fu Huw Lloyd Edwards wrth ei alwedigaeth, ond meistrolodd y grefft o sgriptio gan ddatblygu yn ddramodydd o bwys yng Nghymru.<sup>31</sup>

Fel nodwyd eisoes ers cychwyn darlledu anelwyd y mwyafrif o'r ddarpariaeth ar draws Prydain at y rheiny o oedran ysgol gynradd ac ardegwyr iau, a dim ond yn achlysurol y diwallwyd anghenion plant o oedran meithrin, neu cyn-ysgol, a'r prif reswm am hynny oedd na wyddai'r BBC yn union sut i ddelio gyda'r gynulleidfa benodol hon, ac fel y nodwyd gan McCulloch, '[they cannot] be deliberately catered for.'<sup>32</sup> Ond daeth tro ar fyd ar drothwy'r 50au pan benderfynwyd ar ddarpariaeth gyson ar eu cyfer, a lansiwyd y rhaglen *Listen with Mother* (1950–82) ar 16 Ionawr 1950, gan ddarparu cymysgedd o rigymau, straeon a cherddoriaeth ar gyfer plant o dan bump oed a'u mamau.<sup>33</sup> Yn ogystal â'r dramâu cyson ar gyfer plant hŷn a grybwyllwyd eisoes, aeth Evelyn Williams hithau ati i ymrafael â darpariaeth ar gyfer y gynulleidfa plant oed cyn ysgol, ac o ystyried iddi gael ei hyfforddi fel athrawes, roedd hi'n gynorthwy-ydd y gellid ymddiried ynddi i ymgymryd â'r dasg.

<sup>27</sup> Evelyn Williams, 'Aw'r y Plant', t. 97.

<sup>28</sup> *Bogo y Bwgan Brain*. Nid yw'r gyfres yn ymddangos ar BBC Genome, efallai oherwydd ei bod yn rhan o arlwy *Aw'r y Plant* a heb ei nodi yn benodol yn *The Radio Times* ar y pryd. Ar y llaw arall, mae yna un cyfeiriad at y stori o eiddo Huw Lloyd Edwards fel rhan o arlwy Telwele ar 16 Tachwedd 1963. BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=bogo+y+bwgan+brain#top>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>29</sup> Charles Williams (1915–1990), *BBC Cymru Bywyd: Charles Williams*, <[https://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/pobl/tudalen/charles\\_williams.shtml](https://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/pobl/tudalen/charles_williams.shtml)> [cyrchwyd 13 Medi 2022].

<sup>30</sup> Evelyn Williams, 'Aw'r y Plant', t. 97.

<sup>31</sup> Am drafodaeth pellach ar waith Huw Lloyd Edwards, gweler: Manon Williams, 'Huw Lloyd Edwards: Fe'i Gwthiwyd i'r Cysgodion' yn *Ysgrifau Beirniadol* 34, gol. gan Angharad Price a Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2016).

<sup>32</sup> David Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', yn *In Front of the Children: Screen Entertainment and Young Audiences*, gol. gan Cary Bazalgette a David Buckingham (Llundain: BFI, 1995), tt. 34-46 (t. 36).

<sup>33</sup> *Listen with Mother* (1950–1982), BBC: History of the BBC, *Listen with Mother: 16 January 1950*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/january/listen-with-mother>> [cyrchwyd 7 Mai 2023]. Roedd darpariaeth debyg eisoes wedi ei lansio yn Awstralia yn 1942 sef *Kindergarten of the Air*. Gweler hanes sylfaenydd y gyfres: Sue Graham Taylor, *Australian Dictionary of Biography: Graham, Margaret (1899-1966)* (1996; 2006), <<https://adb.anu.edu.au/biography/graham-margaret-10339>> [cyrchwyd 14 Medi 2022].

Yn yr un modd â'r patrwm yn Llundain, roedd plant oed cyn ysgol Cymru wedi eu cyfarch yn achlysurol o dan y ddarpariaeth *Children's Hour* neu *Awr y Plant*, ac roedd y gyfres *Wil Cwac Cwac* (1951–63)<sup>34</sup> yn dyst i hynny. Ar gyfer y plant lleiaf y bwriadwyd y straeon yn wreiddiol yn y gyfrol *Llyfr Mawr y Plant*:

Mi roedd dyluniad y llyfr i fod yn eithriadol bwysig, yn yr un ffordd â'r teip. Sylwch chi fod teip *Wil Cwac Cwac* yn fwy o lawer nac ydi *Siôn Blewyn Coch* oherwydd stori i blant bach ydi *Wil Cwac Cwac*, stori i blant ychydig yn hynach ydi *Siôn Blewyn Coch*.<sup>35</sup>

Actores a gafodd gyfle prin i gymryd rhan yn y gyfres *Wil Cwac Cwac*, oedd Sheila Huw Jones o Lanfairfechan, a ddatblygodd yn sgriptwraig nodedig ar raglenni plant, ac a brofodd yn gymorth dibynadwy i Williams trwy gydol ei gyrfa.<sup>36</sup> Ar hap a damwain y cychwynnodd Jones ar ei gyrfa ym maes darlledu, a hynny yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor pan gytunodd i gefnogi ffrind oedd â'i bryd ar fod yn actores, a mynychu clyweliad ar gyfer gwirfoddolwyr i raglenni plant gyda'r BBC ym Mangor.<sup>37</sup> Bu hi'n llwyddiannus, yn wahanol i'w ffrind, ac wedi iddi raddio, yn hytrach na dilyn gyrfa fel athrawes ymunodd gyda chwmni *repertoire* canolfan BBC Bangor ar gais Sam Jones, y pennaeth.<sup>38</sup> Daeth cyfleoedd i'w rhan i bortreadu cymeriadau mewn amrediad o ddramâu a ddarlledwyd o'r gogledd, ac i gyfrannu at 'higher reaches' *Awr y Plant* a *Children's Hour* fel y dywedodd, sy'n awgrymu y bri a osodwyd ar y ddarpariaeth honno.<sup>39</sup> Mynegodd ymhellach mai'r actorion mwyaf profiadol a gai gyfle i bortreadu yr anifeiliaid amrywiol ar y gyfres *Wil Cwac Cwac* a seiliwyd ar straeon o'r un enw yn *Llyfr Mawr y Plant*.<sup>40</sup> Jennie Thomas, un o awduron a chyd-olygydd y gyfrol oedd yn gyfrifol am anturiaethau'r hwyaden, a'i chwaer Megan Rees oedd un o'r prif actorion. A hithau'n

<sup>34</sup> *Wil Cwac Cwac* (1951–1963), BBC Genome,

<<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=%22wil+cwac+cwac%22#top>> [cyrchwyd 7 Mai 2023]. Darlledwyd y straeon fel rhan o arlwy *Awr y Plant* i gychwyn, cyn cael eu darlledu fel cyfres o dan y teitl ei hun.

<sup>35</sup> Dr John Llywelyn Williams, mab J.O. Williams un o awduron a chyd-olygydd *Llyfr Mawr y Plant*. BBC Cymru Fyw, *Llyfr Mawr y Plant yn 90 oed* (14 Medi 2021), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/58550295>> [cyrchwyd 3 Medi 2022].

<sup>36</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones, Medi 2022. Ymgartrefodd Evelyn Williams yn Llanfairfechan, pentref genedigol Sheila Huw Jones, daeth y ddwy yn ffrindiau pennaf a daeth Williams yn fam fedydd i ferch Jones. Tystiodd Gwenyth Petty i gyfeillgarwch Williams hefyd, a chyfeiriai ei merch, Sarah Edwards at Williams fel 'Anti Evelyn'.

<sup>37</sup> *ibid.*

<sup>38</sup> *ibid.* Wrth adrodd yr hanes am Sam Jones yn cynnig swydd iddi, daeth i'r amlwg mai yn Saesneg yr oedd yn cyfathrebu â hi.

<sup>39</sup> *ibid.*

<sup>40</sup> BBC Cymru Fyw, *Llyfr Mawr y Plant yn 90 oed* (14 Medi 2021), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/58550295>> [cyrchwyd 3 Medi 2022]. Cynhaliwyd cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, 1939 o dan y teitl, 'Cyfrol o Straeon i Blant o dan 9 oed, addas i'w darlledu ar *Awr y Plant* gyda Jennie Thomas yn beirniadu. Gweler Archif Llyfrgell Genedlaethol Cymru, GB 0210 CYFANS, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, cyfansoddiadau a beirniadaethau (1887-2019), Ffeil 1939/18ff <<https://archives.library.wales/index.php/jennie-thomas-ar-cyfrol-o-straeon-i-blant-dan-9-oed-addas-iw-darlledu-yn-awr-y-plant-dyfarnwyd-hanner>> [cyrchwyd 7 Medi 2022].

sâl un waith daeth cyfle i Jones bortreadu mam Wil, sef Martha Plu Chwithig.<sup>41</sup> Dynodai *Llyfr Mawr y Plant* a gyhoeddwyd yn 1931 fenter arbennig ar ran Thomas a'i chyd-awdur, J.O. Williams, a chaiff y fenter ei chydnabod gan Siwan Rosser, 'Erbyn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd mae 'na ddipyn o amrywiaeth [mewn llyfrau plant] a fe welwch chi hefyd fod y pwyslais wedi symud oddi wrth yr addysgol at fydd mwy adloniannol, ac felly'n goron ar y cyfan mae *Llyfr Mawr y Plant*.'<sup>42</sup> Roedd yn gwbl briodol felly bod anturiaethau Wil Cwac Cwac yn cael eu haddasu ddwy ddegawd yn ddiweddarach ar gyfer *Awr y Plant*, oherwydd roedd ychydig o ysgafnder yn cael ei groesawu o fewn y ddarpariaeth radio i blant, fel y disgrifiwyd gan y gwleidydd Roy Hattersley, wrth edrych yn ôl ar ei brofiad o wrando ar *Children's Hour* fel plentyn, '[a] sense of fun which develops a zest for living in harmony with one's fellows' ac roedd tystiolaeth i blant ddysgu, 'to confuse education and enjoyment.'<sup>43</sup> Roedd naws y ddarpariaeth i blant ar draws darlledu cyhoeddus felly yn wahanol i'r ddarpariaeth ysgolion; anelwyd y naill at y plentyn yn ei gartref, a'r llall at ddisgyblion ysgol, gan eu cyfarch mewn dull mwy ffurfiol a chyfarwyddiadol ei natur.<sup>44</sup>

Ar anogaeth Evelyn Williams dechreuodd Jones sgriptio deunydd yn seiliedig ar syniadau ei chynhyrhydd ac mae'n cydnabod iddi ddysgu llawer ganddi, yn enwedig am grefft sgriptio, am werth cynildeb a sut i olygu gwaith yn effeithiol ac yn drylwyr.<sup>45</sup> Un o'r cyfresi y bu'n ymwneud â hi oedd *Ar Lin Mam*, (1959–75)<sup>46</sup> a ddarlledwyd ar gyfer y plant lleiaf, sef teitl a fathwyd gan Williams, yn debyg i *Listen with Mother*.<sup>47</sup> Awgryma'r teitlau yn y ddwy iaith yr arfer o wrando ar y cyd, y plentyn gyda'i fam, yn hytrach na'r plentyn yn gwranddo ar ei ben ei hun. Roedd yr ymdrech i greu perthynas rhwng y cyfrwng, a'r fam gyda'i phlentyn yn atsain yr ymdrechion i greu 'listening public',<sup>48</sup> a hynny mewn cyfnod ble roedd diwylliant yn

<sup>41</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones.

<sup>42</sup> Siwan Rosser, dyfynnwyd yn BBC Cymru Fyw, *Llyfr Mawr y Plant yn 90 oed* (14 Medi 2021), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/58550295>> [cyrchwyd 9 Mai 2023].

<sup>43</sup> Roy Hattersley, dyfynnwyd yn Wallace Grevatt, *The Children's Hour: A Celebration of Those Wonderful Years* (Lewes: Book Guild, 1988), t. 500.

<sup>44</sup> Oswell, 'Early children's broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy', t. 381.

<sup>45</sup> Cyfweliad Sheila Huw Jones. Ymagartrefodd Evelyn Williams yn Llanfairfechan, pentref genedigol Sheila Huw Jones, daeth y ddwy yn ffrindiau pennaf a daeth Williams yn fam fedydd i ferch Jones. Tystiodd Gwenyth Petty i gyfeillgarwch Williams hefyd, a chyfeiriai ei merch, Sarah Edwards at Williams fel 'Anti Evelyn'.

<sup>46</sup> BBC Written Archives, R6/243. Cyfeiriwyd at *Ar Lin Mam* yn adroddiad blynyddol Cyngor Darlledu Cymru, 1958-59, t. 7. 'Ar Lin Mam, a programme for the under-fives, made its first appearance during the year. There has also been a regular monthly television programme for children.' Gellid tybio mai *Telewele* oedd y gyfres deledu fisol.

<sup>47</sup> Cyfeiriwyd at hyn yn annibynnol gan Sheila Huw Jones mewn cyfweliad gyda'r awdur, Medi 2022, a chan Christopher Somerville, y pypedwr, mewn cyfweliad gyda'r awdur, Medi 2022.

<sup>48</sup> Lacey, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio', t. 151.

parhau i gael ei ddominyddu gan yr hyn a ddisgrifiwyd gan Lacey fel, 'the silent textuality of print'.<sup>49</sup> Roedd y teitl Saesneg *Listen with Mother* yn creu delwedd o'r gynulleidfa radio nodweddiadol a welwyd yn gyson mewn deunydd hyrwyddo a chynnwys beirniadol yn ystod oes aur y cyfrwng,<sup>50</sup> a gellid honni bod yr un cynodidadau ymhlyg yn y teitl Cymraeg, *Ar Lin Mam*.<sup>51</sup> Roedd y cysyniad o wrando ar y cyd yn cyfannu'r cysyniad o'r aelwyd radio,<sup>52</sup> ac yn arwyddo'r ddarpariaeth fel cynnyrch i'w dderbyn mewn cyd-destun teuluol a domestig.<sup>53</sup> Nodwyd gan Oswell, 'Broadcasting was used not only to incite the responsibilities of the mother to care for children's health and for the home but also to construct the care for her children's listening among those responsibilities.'<sup>54</sup> Mae'r cyfrifoldeb hwn a neilltuwyd i'r fam gan sefydliad darlledu yn estyniad o'r cysyniad o gyfrifoldeb gwraig y tŷ i drefnu y diwrnod domestig, a'i theulu, o gwmpas yr amserlen ddarlledu.<sup>55</sup> Ymhellach mae Oswell yn tynnu sylw at berthnasedd cysyniad Donzelot o 'government through the family' a'r arfer o osod y fam fel '[the] state's delegate, responsabilising her so as to form, through her care and attention, good citizens.'<sup>56</sup> Mae hyn yn cysylltu gyda gweledigaeth McCulloch a gyfeiriwyd ati eisoes, o blant fel dinasyddion oedd angen cael eu paratoi'n briodol, ac yn cadarnhau'r modd yr ystyriai darlledwyr y fenyw yn y cartref mewn rôl traddodiadol, domestig.

Ynghlwm wrth y cysyniad o'r fam yn ymgorffori arlwy'r set radio o fewn patrwm bywyd teuluol oedd y cysyniad o arwyddo ac amserlennu rhaglenni, a hynny'n cael ei rannu gyda'r cyhoedd yn y *The Radio Times*. Nid oedd cynnig slotiau cyson wythnosol yn rhan o feddylfryd darlledu cynnar, a hynny er mwyn osgoi arferion gwyllo cyson, yn hytrach cai darpar wrandawyr eu hannog i chwilio am gynnwys y tybient ei fod yn addas ar eu cyfer a meithrin eu hunain yn wrandawyr cyfrifol.<sup>57</sup> Erbyn i *Listen with Mother* gael ei lansio yn 1950 neilltuwyd slot cyson i'r rhaglen am 1.45pm, gan arwain at y rhaglen *Woman's Hour* (1946–) a anelwyd at fenywod; dynodai'r amseriad hwn felly adeg benodol, 'when children would be ready to

<sup>49</sup> *ibid.*, gweler hefyd y canlynol am drafodaeth ehanach ar y cysyniad a nodir: Kate Lacey, *Listening Publics: The Politics and Experience of Audiences in the Media Age* (Caergrawnt: Polity, 2013).

<sup>50</sup> Lacey, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio', t. 151.

<sup>51</sup> *Ar Lin Mam* ar y radio, (1959-1967), ac yna ar deledu, (1970-1975).

<sup>52</sup> Simon Frith, 'The Pleasures of the Hearth: the making of BBC light entertainment' yn *Formations of Pleasure*, gol. gan Ferderic Jameson, (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1983), tt. 101-123.

<sup>53</sup> Oswell, 'Early children's broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy', t. 381.

<sup>54</sup> *ibid.*

<sup>55</sup> Janet Thumim, *Inventing Television Culture: Men, Women, and the Box*, Rhydychen: Oxford University Press, 2004), t. 25.

<sup>56</sup> Oswell, t. 385. Am drafodaeth bellach ar y cysyniad hwn gweler Jaques Donzelot, *Policing Families*, (London: The Johns Hopkins University Press, 1979).

<sup>57</sup> Dolan, 'Aunties and uncles: the BBC's children's hour and liminal concerns in the 1920s', t. 333.



concentrate after their lunch, and mothers would have time to sit with them.’<sup>58</sup> Roedd hyn yn awgrymu math arbennig o gynulleidfa darged, fel y sylweddolwyd gan Richard D’A. Marriott, cyfarwyddwr darlledu sain:

They are the programmes of good children of the attentive and serious minded, the children of homes where parents are careful in the influences which are brought to bear upon them, and this is no doubt a minority of the children and the homes in this country.<sup>59</sup>

Hwyluswyd y berthynas rhwng y darlledwr ac uniad y plentyn a’i fam gan y cyflwynwyr, a gyfeiriwyd atynt yn ystod blynyddoedd cynnar *Children’s Hour* fel *uncles* ac *aunties*. Yn aml aelodau o staff y BBC a chanddynt gyfrifoldebau eraill yn eu swyddi o ddydd i ddydd yn un o’r canolfannau darlledu a weithredai fel yr ewyrth neu’r fodryb, a magasant ddilyniant a chryn statws ymhlith eu gwrandawyr.<sup>60</sup> Deallai Ella Fitzgerald, Trefnydd Canolog *Children’s Hour* o 1923 i 1925 werth y cysyniad oherwydd yn ei sgil daeth y sefydliad i feddu ar allwedd i’r aelwyd ac i’r plentyn a’i fam:

“[f]rom all that I personally have gleaned and opinion I have collected from parents and children it does seem that permanent uncles are the feature of the children’s hour that has really won children’s affection: they get to know the sort of story a serious uncle reads; the sort of remark a humorous uncle will make; and they build up personalities which are alive and lasting as no casual uncle or aunt can ever become’.<sup>61</sup>

Er bod Fitzgerald yn eiriol o blaid yr arfer, bu cryn drafodaeth ar y rolau deuol hyn o fewn y BBC; mynegwyd bod perygl i’r cyflogai lastwreiddio ei broffesiynoldeb trwy ymwneud â rhaglenni plant yn y modd hwn, ac y gallai arwain at arddull orgyfarwydd, ‘...it did not seem fitting for senior male executives such as Burrows and his Assistant Director of Programmes, Cecil Lewis (otherwise known as ‘Uncle

---

<sup>58</sup> BBC 100, *Listening with Mother: 16 January 1950* <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/january/listen-with-mother/>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>59</sup> Dyfynnwyd yn Oswell, ‘Early children’s broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy’, t. 389.

<sup>60</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 96. Nodwyd gan Davies, ‘...Aunt Lilian was distressed when she was deprived of her aunthood because she was “intelligent, beautifully dressed [and] rather too hard and cynical for Children’s Hour needs.”’

<sup>61</sup> Ella Fitzgerald, Trefnydd Canolog *Children’s Hour* (1923-25), dyfynnwyd yn Oswell, ‘Early children’s broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy’, t. 379.

Caractacus'), to be larking about on air.'<sup>62</sup> Diflannodd yr *uncles* ac *aunties* yn raddol, a nodwyd yn 1925 bod y termau wedi diflannu o *The Radio Times* ac na wnaed defnydd ohonynt ar raglenni gorsaf Llundain, deunaw mis yn ddiweddarach rhoddwyd pwysau ar y rhanbarthau i fabwysiadu yr un polisi. Fel nodwyd gan Dolan:

'Aunties' and 'Uncles' located on the threshold between leisure and work, between spontaneity and preparation, between professionalism and expertise, between broadcasters and audience as child. Like all thresholds, it threatens to unsettle and blur the differences constituted between the distinctive terrains it holds together... Thus the 'Aunties' and 'Uncles' threaten more than the dignity security and authority of the BBC; they threaten to destabilise the power relationship between adults and children in the constituted boundaries of broadcast culture. Little wonder that their place in BBC culture was never secure and was constantly attacked.<sup>63</sup>

Er y cyfarwyddyd o Lundain i ymddifrifoli, yn *billings* yn *The Radio Times* yn ystod y tridegau, cyfeirir at drefnydd *Awr y Plant*, Elwyn Evans, wrth ei enw cyntaf sy'n awgrymu bod yr awydd i greu awyrgylch cyfeillgar yn parhau.<sup>64</sup> Mae'n amlwg bod gan Evelyn Williams fel cynhyrchydd ymwybyddiaeth o'r angen i greu awyrgylch o'r fath ac i gyniwair perthynas gynnes rhwng yr artistiaid a ddarparai'r arlwy yng Nghymru â'u gwrndawyr hwythau. Nododd, wrth gyfeirio at raglen radio a anelwyd at blant bychain, *Jim Cro Crwstyn* (1951–1965):<sup>65</sup>

Un peth pwysig wrth ddarlledu i blant oedd ceisio mynd yn syth at galon pob un fel unigolyn. Fel dywedodd merch fach o Landysul wrth ei mam, "Mami, dim ond i fi mae Sassie yn canu on'te'fe, dim ond i fi?"<sup>66</sup>

<sup>62</sup> Lacey, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio', t. 153.

<sup>63</sup> Dolan, 'Aunties and uncles: the BBC's children's hour and liminal concerns in the 1920s', t. 337.

<sup>64</sup> BBC Genome, *Children's Hour*, 22 Mehefin 1936, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/8e9719c3eb1f4d9e9b42b4dbcede7148>> [cyrchwyd 18 Medi 2022]. Nodir yn y *billings*, 'Letters from Listeners, Elwyn will reply to some of our correspondence, Trombone and Piccolo duets by Hilary Evans and Reg Huxham, Some tips on Tennis'.

<sup>65</sup> BBC Genome, *Jim Cro Crwstyn*, 15 Tachwedd 1951 hyd at 27 Gorffennaf 1965, <[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_radio&q=jim+cro+crwstyn](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_radio&q=jim+cro+crwstyn)> [cyrchwyd 18 Medi 2022]. Benthycwyd y teitl o hwiangerdd i blant, 'Dacw mam yn dwad'. Dyma'r geiriau: 'Dacw mam yn dwad, dros y gamfa wen / Rhywbeth yn ei ffedog a phiser ar ei phen / Y fuwch yn y beudy yn breffu ar y llo / A'r llo yr ochor arall yn gweiddi Jim Cro! / Jim Cro Crwstyn, one-two-four / A'r mochyn bach yn eistedd yn ddel ar y stôl.' Ymddangosodd y teitl ar raglen deledu a fu'n darlledu rhwng 24 Awst 1965 a 9 Ebrill 1968. Yn 2020 yn ystod yr ymgyrch *Black Lives Matter*, tynnwyd sylw at arwyddocâd y geiriau. Hansh S4C (@hanshs4c, 27 Mehefin 2020), 'Ydi Dacw Mam yn Dwad yn hiliol?' (neges drydar) <<https://twitter.com/hanshs4c/status/1276900131510652928?lang=en-GB>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>66</sup> Williams, 'Awr y Plant', t. 98.

Daeth y gantores Sassie Rees, y cyfeilydd Maime Noel-Jones ac adroddwr y gyfres, Sheila Huw Jones, yn hen law ar feithrin perthynas gyda gwrandawyr ifainc. Yn ôl Williams derbyniwyd cannoedd o lythyron yn gofyn am straeon a chaneuon, '[nid] y caneuon yn unig oedd yn denu serch y plant, ond ffordd ddigymar Sassie Rees a Maime Noel-Jones o'u cyflwyno'.<sup>67</sup> Mae'r dystiolaeth uchod nid yn unig yn amlygu gallu'r cyfrwng radio yn benodol i greu perthynas agos gyda'r gwrandawr unigol ond hefyd yn darlunio gallu plentyn i greu perthynas gyda llais di-gorff.<sup>68</sup> Mae'r natur y cyfathrebu hwn yn dynodi dull gwbl newydd o gyfathrebu ar y pryd, ac a ddisgrifiwyd gan Lacey fel a ganlyn:

...acousmatic listening – listening to sounds from an absent source – breaks the traditional corporeal relations between adult and child, so the radio allows for a new mode of attention in children that is not bound by physical stillness, bodily proximity or a mutual gaze'.<sup>69</sup>

Yr hyn a gynigiwyd i ddal sylw'r plentyn ar *Listen with Mother* oedd stori wedi ei hadrodd, a rhigwm neu gân rwydd y gellid ei hailadrodd. Cai'r caneuon ar y gyfres eu trefnu gan Ann Driver, a'u canu gan Eileen Browne a George Dixon gyda Driver yn cyfeilio iddynt, a'r cyfan mewn arddull a ddisgrifiwyd gyda'r bwriad canlynol, 'to set up a good pattern of home singing'.<sup>70</sup> Arlwy tebyg a gynigiwyd gan *Jim Cro Crwstyn* ac *Ar Lin Mam*, gyda'r olaf a nodir yn cael ei ddisgrifio fel 'Rhigwm, stori a chân i'r plant lleiaf'.<sup>71</sup> Darlledwyd y rhaglenni Cymraeg ar adeg gynnar y prynhawn fel *Listen with Mother*, ar hynny ar ddydd Mercher, a gyda diflaniad y teitl *Children's Hour* yn 1961, daeth creu slotiau penodol ar gyfer rhaglenni i blant yn arfer cyson:

---

<sup>67</sup> Evelyn Williams, 'Awr y Plant', t. 98.

<sup>68</sup> Ian Hartley, *Goodnight Children Everywhere* (London: Midas Books, 1983) t. 69.

<sup>69</sup> Lacey, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio', t. 160.

<sup>70</sup> *ibid.*, t. 159, tn. 21. Memo gan Miss Jean E Sutcliffe (cynhyrhydd) i ACT (Mary Somerville ar 'Experimental Programme for Pre-School Children Beginning 16 Ionawr 1950'), 1 Rhagfyr 1949, WAC R99/26/1. Yr un modd ar y gyfres Awstralaidd, *Kindergarten of the Air*, roedd cyflwynydd a chyfeilydd cyson sef Margaret Graham a Mrs Jean McKinlay, yn ogystal cynhyrchwyd llyfr o'r caneuon a'r gerddoriaeth a ddefnyddiwyd yn y rhaglen, gweler: Sue Graham Taylor, *Australian Dictionary of Biography: Graham, Margaret (1899-1966)* (1996; 2006), <<https://adb.anu.edu.au/biography/graham-margaret-10339>> [cyrchwyd 14 Medi 2022].

<sup>71</sup> BBC Genome, *Awr y Plant*, 16 Mehefin 1959, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/d8b1af49c958780a737098ad21f6e91f>> [cyrchwyd 14 Medi 2022].

On Sound radio the title “Children’s Hour” was not longer to be used. While there would be no reduction in the programmes for children, this would allow for a variation in placing, and in the Welsh Home Service it had been decided to broadcast the programme for young children, “Ar Lin Mam”, from 1.40 to 2.0pm on Wednesdays... The new periods for children’s programmes in Welsh would therefore be Sunday, 4.55–5.0pm, Tuesday, 5.15–5.55pm. Wednesday, 1.40–2pm, Thursday, 6.40–7.10pm.<sup>72</sup>

Goruchwyliwyd y deunydd i’w ddarlledu ar y rhaglenni i blant cyn-ysgol yn ofalus, a chyfeiriodd Ruth Simonis a fu’n ysgrifennu straeon a rhigymau ar gyfer *Listen with Mother*, at restr o bethau y gofynnwyd iddi eu hosgoi megis gwrachod, dreigiau, plant oedd ar goll, rhieni oedd yn dioddef o salwch, tai gwag, stormydd a chreulondeb i anifeiliaid.<sup>73</sup> Mae’r cyfarwyddyd yn adlewyrchu’r cyfrifoldeb y teimlai’r BBC wrth gyfathrebu gyda phlant bychain, menter oedd yn gwbl newydd iddynt. Cywair diniwed oedd i gynnwys *Ar Lin Mam* hefyd, ac un a fu’n cyfrannu gyson i’r ddarpariaeth oedd Amy Parry-Williams.<sup>74</sup> Ymhlith ei chyfraniadau niferus oedd teitlau megis ‘Cewch gysgu’n dawel heno (Defi Dwdl-dw a’r gwdi-hw)’, a ‘Mi Hoffwn i fod yn hwyaden fach’, sy’n rhoi blas o’r naws a grewyd.<sup>75</sup> Treiddiai diniweidrwydd i holl hanfod y rhaglenni ar draws y degawdau ac mae cip ar sgript o raglen *Ar Lin Mam* a ddarllledwyd rhwng 1.40pm a 2.00pm ar 20 Chwefror 1962 yn fodd o archwilio’r modd y cai hynny ei gyfleu.<sup>76</sup>

Evelyn Williams oedd cynhyrchydd y rhaglen, gyda Shân Emlyn yn cael ei nodi fel cantores, Mary Kendall fel cyfeilydd a Lorna Davies fel storiwr, a hi yw angor y rhaglen, gan weithredu fel dolen gyswllt rhwng y plentyn a’r cyfranwyr i gyd.<sup>77</sup> Nodir ar y sgript i’r rhaglen gael ei recordio am 10.30am, 13 Chwefror 1962, wythnos cyn y darllediad, wedi i ymarfer gael ei gynnal am 9.00am, ac egyr y rhaglen gyda chyfarchiad wedi ei dargedu at y plant, yn eu hannog i wrando yn syth, ‘Prynhawn da! Tybed a ydych chi’n gwbod y gân yma? Gwrandewch ar Shân Emlyn yn ‘i chanu.’<sup>78</sup> Gellid honni bod y cyfarchiad ‘chi’ yn cyfeirio at y fam a’r plentyn yn

<sup>72</sup> BBC Written Archives, Caversham, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 23 Mehefin 1960, t. 2-3.

<sup>73</sup> Lacey, ‘Listening with Mother: The Cultivation of Children’s Radio’, t. 165.

<sup>74</sup> Amy Parry-Williams, (1910–1988), Rhidian Griffiths, *Parry-Williams, Amy (1910-1988), cantores ac awdur*, (2012) Y Bywgraffiadur Cymreig. <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-PARR-AMY-1910>> [cyrchwyd 14 Medi 2022].

<sup>75</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, GB0210 THPAIAMS, Papurau T.H. Parry-Williams ac Amy Parry-Williams (1873-1994), RH Rhaglenni Radio a Theledu, RH1-150, <<https://archives.library.wales/index.php/ar-lin-mam-i>>

<sup>76</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, Welsh Region Scripts, sgript *Ar Lin Mam*, 20 Chwefror 1962.

<sup>77</sup> *ibid.*

<sup>78</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, sgript *Ar Lin Mam*, 20 Chwefror 1962.

y cartref, neu at y gynulleidfa dorfol o blant a wrandawai ar y cyd ar yr un pryd ar draws Cymru ond mae'n fwy tebygol o ystyried awydd y BBC i gysylltu gyda'r gwrandawr unigol, mai'r cyfarchiad ail berson 'chi' parchus ydyw.<sup>79</sup> Rhigwm traddodiadol i'r robin goch a ganwyd gan Shân Emlyn,<sup>80</sup> ac yna dychwel Davies, y storïwr gan egluro, 'Ydi, mae Robin bach yn newynnog (sic.) – eisie bwyd arno yn ofnadwy. Ag mae e'n sefyll ar y rhiniog – wrth y drws – yn disgwyl am damed.'<sup>81</sup> Mae strwythur y brawddegau byrion yn peri bod y testun yn hawdd i'w ddilyn, ac mae'r sgript yn fodd o egluro rhai o eiriau llai cyfarwydd y pennill a ganwyd. Aiff y cyflwynydd ati i annog rhyngweithio pellach gan y plant, 'Pan fydd hi'n oer iawn, beth yw rhai o'r pethe y gallwn ni eu gwneud i gadw'n gynnes? Ie, clapio dwylo – a sgipio – a neidio. Gadewch i ni wneud rhai o'r pethe yna gyda Shân. Clapio'n gynta'.<sup>82</sup> Bellach, nid dau endid ar wahân yw y rhaglen a'r gwrandawr ifanc ond dau endid ynghyd, a chaiff hynny ei bwysleisio gan y cyfeiriad at y trydydd person lluosog 'ni'.

Mae'r cyflwynydd yn annog y plentyn i gymryd rhan yn y rhaglen o glydwch y cartref gan symud i'r gerddoriaeth yn unol gyda'r cyfarwyddiadau, 'Clapio'n gynta'. Gwelir bod ymdrech y cyflwynydd i feithrin perthynas gyda'r plentyn yn fodd o hwyluso'r broses o wrando acwmastig y cyfeiriwyd ati eisoes. Ar y sgript, ochr yn ochr â geiriau'r gân nodir yr alaw mewn hen nodiant, sef sol-ffa. Ni wyddys y rheswm am hyn, ond efallai bod bwriad i gyhoeddi'r caneuon ar ryw ffurf,<sup>83</sup> a buasai hyn wedi ategu bwriad *Listen with Mother* o feithrin arfer patrwm o ganu safonol yn y cartref y cyfeiriwyd ato eisoes, ac o fenter *Kindergarten of the Air*:

---

<sup>79</sup> Gwyddys i ddarlledu yn y Gymraeg osod sylfaen gyda'r defnydd o 'chi' rhwng cyfranwyr a'i gilydd, a gwyr awdur y traethawd o brofiad derbyn hyfforddiant fel cynhyrhydd radio mai dyna oedd yr arfer cydnabyddedig, rhag gwneud i'r gynulleidfa gartref deimlo eu bod wedi eu heithrio. Dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y clywyd cyfranwyr a chyd-gyflwynwyr yn cyfarch ei gilydd fel 'ti' (2022).

<sup>80</sup> Shân Emlyn, (1936–1997). Rhidian Griffiths, *Jones, Shân Emlyn (1936 - 1997), cantores* (2020), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-JONE-EML-1936>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>81</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, sgript *Ar Lin Mam*.

<sup>82</sup> *ibid.*

<sup>83</sup> Cyfeiriodd Evelyn Williams at y siom o fethu cyhoeddi caneuon ei rhaglenni mewn cyfarfod o Gyngor Darlledu Cymru, 'Many infant schools throughout Wales viewed and listened regularly, and Miss Williams said that it was most regrettable that the central authorities in London felt that to publish Welsh material was "not a financially viable project."' BBC Written Archive Centre, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6242/3, 19 Hydref 1973, t. 7.

*m d m m s'*  
Clap Clap Clap-i-ti-Lw

*r t, r r r f*  
Clap Clap Clap-i-ti-Lw

*m d m m s'*  
Clap Clap Clap-i-ti-Lw

*r ff m r d d*  
Clap i ti Lw, fy nghariad.<sup>84</sup>

Wedi iddynt glapio gyda'r gân cai'r plant eu hannog i sgipio ac yna i neidio, gyda'r geiriau yn cael eu haltro yn ôl y galw. I ddilyn, canwyd alaw werin gan Kendall ar y piano sef Croen y Ddafad Felan [sic.], ac yna darllenwyd stori gan Davies sef 'Oen Bach yr Eira' gan Ceinwen Parry. Stori am efeilliaid ydyw, Siôn a Dafydd, mewn cyd-destun traddodiadol ac un a fuasai'n gyfarwydd i'r mwyafrif o blant bychain, sef codi yn y bore a gwisgo gyda chymorth eu mam ar fore oer, cyn mentro allan i'r eira yng nghwmni Carlo'r ci, a'u mam, a chanfod oen bach yn eira. Roedd y sgript yn ddigon rhwydd i'w dilyn a rhoddwyd llawer o bwyslais ar liwiau gwahanol wrthrychau drwyddi draw, er galluogi'r gwrandäwr ifanc i ddychmygu'r darlun yn llygad y meddwl. Er mwyn dod â'r cymeriadau'n fyw, rhoddwyd geiriau yn eu genau, ond mae ffurfioldeb sgwrs y plant yn annaturiol, 'Mama...Mae Carlo yma, ag rwy'n siwr 'i fod e'n ceisio dweud rhywbeth wrthyf. A ddowch chi yma i'w weld?' Daw'r stori i'w therfyn gyda'r oen yn cael ei dwymo yn y tŷ a chlywir *The Barnyard Song* yn cael ei chanu ar y piano cyn i'r cyflwynydd arwain y gwrandäwr drachefn, 'Dyma Shân unwaith eto i ganu am oen, a iar [sic.], a chath. Wnewch chi ganu hefyd – fel hyn – (Ma, etc.).' Mae'r geiriau yn annog y plant i efelychu sŵn yr anifeiliaid yn y clo: Mae gen i oen sy'n wyn i gyd / Yr oen bach go-re yn y byd/ Meddai'r oen, me, me, me.<sup>85</sup>

Drachefn caiff yr hen nodiant ei nodi uwchben y geiriau a chaiff y pennill ei ailadrodd er mwyn ychwanegu sŵn yr iar a'r gath yn eu tro. Eitem olaf y rhaglen yw

<sup>84</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, sgript *Ar Lin Mam*. Cyfeirir at 'Alaw Poston, page 46', efallai mai cyfeiriad at Elizabeth Poston, y cyfansoddwr emynau a thonau poblogaidd i blant ar y radio oedd hyn, ond ni wyddys at ba lyfr y cyfeiriwyd ato. Buasai nodiant o'r fath yn gyfarwydd i lawer o blant yn ystod y cyfnod o dan sylw oherwydd fe'u defnyddid yn yr Ysgol Sul a'r Band of Hope er mwyn dysgu tonau emynau.

<sup>85</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, sgript *Ar Lin Mam*.

dau bos (*riddle*) ar ffurf penillion lle caiff y plentyn gyfle i ddyfalu am beth mae'r cyflwynydd yn sôn sef oen bach a dyn eira. Daw'r rhaglen i'w chlo gyda Shân Emlyn yn canu cân ffarwel, ac anogaeth drachefn i'r plentyn ymuno yn y diweddglô: 'Dau gi bach yn oer eu trwyn / Dau gi bach a'r llygaid mwyn, / Dau gi doeth a dau gi del, / Dau gi bach yn dweud ffarwél.'<sup>86</sup>

Daw llais Lorna Davies i gloi y rhaglen yn daclus drwy nodi, 'Ac mi ddweda i ffarwél – tan yr wythnos nesa.' Gellir ystyried y cyflwynydd fel yr un mewn awdurdod sy'n rheoli'r chwarae trwy gyfarwyddo'r plentyn yn ogystal â'r cyfranwyr, a hi yw'r un sy'n dod â'r chwarae i ben, sefyllfa a efelychai'r cartref ac y gallai'r fam a'r plentyn oedd yn gwrandio uniaethu ag ef. O ran trefn gynhyrchu cafodd y rhaglen ei gwau'n effeithiol gan y cyflwynydd o gân i stori ac i bos, a'r pwyslais yn gyson ar gynnwys y plentyn yn yr eitemau. Roedd thema gyffredinol o oerfel y gaeaf a'i effaith ar anifeiliaid bychan yn amlwg, a'r defnydd o rythm, rhigwm ac odl yn cyflwyno cysondeb arddull yn ogystal.

Yr un math o awyrgylch diniwed a gafwyd yn y cyfresi cyntaf ar deledu i blant ym Mhrydain. Y cyntaf ohonynt yn 1946 oedd *For the Children* (1946–1955),<sup>87</sup> a dyma lle ymddangosodd y pyped teledu cyntaf, *Muffin the Mule*,<sup>88</sup> ddatblygodd yn enw cyfarwydd ymhlith teuluoedd, a'i ddisgrifio gan y *Daily Express* fel '[the] biggest personality in television'.<sup>89</sup> Yn yr un modd ag y rhoddwyd trefn ar holl ganeuon, rhigymau a gweithgaredd y plant yn y gyfres *Ar Lin Mam*, trwy gyfrwng y cyflwynydd Lorna Davies, felly hefyd y rhoddai Annette Mills, prif gyflwynydd *For the Children* drefn ar y pyped mul a'i ffrinidau. Roeddent oll yn ddi-lais, a chai eu geiriau eu llefaru ganddi, oedd yn benderfyniad cynhyrchu bwriadol, 'Mills [the show's presenter] and Hogarth felt non-speaking characters better stimulated young imaginations'.<sup>90</sup> Rhoddwyd yr argraff felly eu bod yn medru siarad ond na roddwyd yr hawl iddynt wneud, ac fel nodwyd gan Oswell, 'Within such a discursive space the presence of the mother is at the cost of the voice of the child.'<sup>91</sup> Maent felly yn

<sup>86</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, sgript *Ar Lin Mam*.

<sup>87</sup> *For the Children*, (1946–55), BBC, BBC History, *For the Children, the first children's television programme: 9 June 1946*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/june/for-the-children>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>88</sup> BFI Screenonline, *Muffin the Mule (1946–1955)*, <<http://www.screenonline.org.uk/tv/id/443725/index.html>> [cyrchwyd 4 Medi 2022]. Trosglwyddwyd enw'r pyped i deitl y rhaglen yn 1952.

<sup>89</sup> W.E. Williams, *Daily Express*, 3 Mai 1949, dyfynnwyd yn Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', yn *In Front of the Children: Screen Entertainment and Young Audiences*, t. 38.

<sup>90</sup> Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', t. 38.

<sup>91</sup> Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', t. 38.

cynrychioli perthynas rhwng mam a'i phlentyn, sef y fam ag awdurdod a'r plentyn swil, drygionus ar adegau.<sup>92</sup>

Pan benodwyd Freda Lingstrom yn bennaeth Adran Deledu Plant y BBC yn 1951, lansiodd cyfres *Watch with Mother* (1953–73),<sup>93</sup> ganddi ac fe'i darlledwyd am y tro cyntaf gyda'r teitl penodol hwnnw yn 1953.<sup>94</sup> Roedd hi eisoes wedi magu profiad ar raglenni ysgolion ac roedd yn gyfrifol am osod slot darllen stori yn y gyfres radio *Listen with Mother*.<sup>95</sup> Ar gyfer teledu, trodd Lingstrom at grefft y pypedwyr hefyd gydag un o'i chyfresi cyntaf, *Andy Pandu* (1950–59), sef bachgen bach hoffus ar gortynnau a gynlluniwyd ar siâp a symudiadau plentyn 3 oed.<sup>96</sup> Siaradai'r adroddwr Maria Bird gydag ef, ond siaradai hefyd ar ei ran, gan ei fod yntau'n fud, ac eglurwyd rheswm ehangach am hynny gan Oswell, 'The BBC in the early 1950's considered it important to set up clear lines of authority between mother and child and to establish childhood as a space spoken and...supervised by the mother.'<sup>97</sup> Roedd hyn yn unol gyda bwriad y darlledwr o roi argraff ffafriol o deledu gan osod y fam yn ganolog i'r gwyllo, er tawelu unrhyw amheuan bod mamau yn gadael y plant o flaen y set deledu tra'u bod nhw'n parhau gyda'u gorchwylion yn y cartref.<sup>98</sup> Mae'n bwysig ystyried y meddylfryd hwn ochr yn ochr gyda thrafodaethau'r cyfnod am y cysyniad o blentyndod ac ymyriad y wladwriaeth yn y gyfundrefn addysg yn ogystal â lles ac iechyd plant. Roedd yna hefyd ddrwgdybiaeth ymhlith rhai am ddyllanwad teledu, fel nododd Saunders Lewis, 'Mae dod â cinema i'r tŷ...bob dydd o'r wythnos...yn berygl moesol...Fe all llwyr ddinistrio pob diwylliant', ond roedd y ddrwgdybiaeth gyffredinol yn fwy dwys ar gyfer y segment hon o'r gynulleidfa.<sup>99</sup>

Ar gychwyn y pumdegau roedd y BBC yn Llundain, ac yng Nghymru wedi sicrhau bod dwy fenyw abl yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni ar gyfer plant cyn oed ysgol, sef Lingstrom a Williams. Disgrifiwyd Lingstrom fel a ganlyn:

---

<sup>92</sup> *ibid.*, t. 46.

<sup>93</sup> David Buckingham, *Watch with Mother*, <<https://davidbuckingham.net/growing-up-modern/watching-with-and-without-mother-education-and-entertainment-in-television-for-pre-school-children/watch-with-mother/>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>94</sup> Alistair McGown, BFI Screenonline, *Freda Lingstrom, (1893-1983) writer, producer, executive*, <<http://www.screenonline.org.uk/people/id/464710/index.html>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>95</sup> *ibid.*

<sup>96</sup> *ibid.*, *Andy Pandu: 1950-59*, <http://www.screenonline.org.uk/tv/id/443679/index.html>

<sup>97</sup> Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', t. 41

<sup>98</sup> *ibid.*, t. 37-38.

<sup>99</sup> Saunders Lewis, dyfynnwyd yn John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 173.



She may have seemed a matriarchal, slightly stern, intellectual figure compared with the more 'theatrical', light entertainment leanings of her immediate predecessor Madden (rumour was that she was known as 'the old cough drop' among the department, but never to her face).<sup>100</sup>

Mae atgofion cyd-weithwyr o Williams oll yn awgrymu ei bod hithau yn meddu ar nodweddion tebyg, roedd hi'n annwyl iawn, heb fawr o hiwmor ond roeddent oll â pharchedig ofn ohoni.<sup>101</sup> Buddsoddai gryn amser er sicrhau trylwyrdwr sgriptio, a threuliai gyfnodau hir yn ymarfer cyn recordio neu ddarlledu; fel Lingstrom mynnai y safonau uchaf. Nodwyd am Lingstrom:

[She] fought hard to make BBC executives see Children's as a valid department deserving time, money and personnel, and had several frank exchanges with Cecil McGivern, Controller of TV Programmes. She despised Americanised fare, refused to screen imported Western series and even disliked Enid Blyton stories.<sup>102</sup>

Mynegwyd diddordeb gan BBC Llundain yn rhaglenni Williams, ond nid oedd diddordeb ganddi mewn addasu'r cynnwys i'r Saesneg, roedd cadw purdeb cynhenid Cymraeg ei rhaglenni yn bwysicach iddi.<sup>103</sup> Er ei hawydd i gyhoeddi caneuon ei chyfresi (syniad a feddai ar fwriad addysgol) bu iddi wrthsefyll unrhyw gynnig i fasnacheiddio'r cynnwys, gan droi ei chefn ar botensial creu teganau a nwyddau a apeliai at blant.<sup>104</sup>

Daeth y chwedegau â'r angen i gyflenwi rhaglenni teledu i ystod o oedrannau gwahanol, ac yn 1961 a hithau newydd ei had-leoli i Gaerdydd, nodir i Williams gyfarwyddo cyfresi stiwdio i blant ar ei hunion o fis Ionawr y flwyddyn honno, am yn ail ag Ifan O. Williams a Teleri Bevan. Roedd rhaglenni Cymraeg ar gyfer plant o wahanol oedrannau wedi eu darlledu ar deledu ers 1953 ac yn achlysurol defnyddiwyd y teitl ymbarél *Telewele* (1953–1974) arnynt.<sup>105</sup> Er hyn ni rodd

---

<sup>100</sup> McGown, BFI Screenonline.

<sup>101</sup> Ceir tystiolaeth o hyn yng nghyflweliad Sheila Huw Jones (Medi 2022) a Chris Somerville (Medi 2022) gyda'r awdur.

<sup>102</sup> McGown, BFI Screenonline.

<sup>103</sup> Cyflweliad Chris Somerville.

<sup>104</sup> *ibid.*

<sup>105</sup> BBC Genome, *Telewele*, 13 Tachwedd 1953, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/af9bdd122de3429caed12c7f9fa8514d>> [cyrchwyd 18 Medi 2022]. Cynhyrchwyd cwis gan Lorraine Davies o dan ofal y cyflwynydd Alun Williams, ac mae fformat y cwis yn ymddangos yn gyson mewn gwahanol ffurfiau yn y ddarpariaeth trwy gydol y pumdegau. Yn ogystal cafwyd rhaglenni

Williams y gorau i'w gwaith radio, felly roedd cryn bwysau arni i gynhyrchu amrediad o raglenni ar gyfer cynulleidfa oedd gwahanol, a hynny ar ddau gyfrwng. Wrth iddi gychwyn ymgymryd â dyletswyddau cyfrwng gweledol, dewisodd gadw teitlau a hanfod y cyfresi a lansiwyd ganddi ar y radio a'u cymhwyso i deledu. Mabwysiadwyd y teitl *Jim Cro Crwstyn* gan y cyfrwng teledu yng Nghymru yn 1965 o dan faner *Telewele*,<sup>106</sup> ac *Ar Lin Mam* yr un modd yn 1969.<sup>107</sup> Ym mis Chwefror y flwyddyn honno estynnwyd gwahoddiad iddi ymuno gyda chyfarfod o Gyngor Darlledu Cymru am ran o'u cyfarfod i sôn am ei gwaith, a daw ystod ei llwyth gwaith i'r amlwg:

After mentioning her radio programme, 'Ar Lin Mam', for the youngest viewers, Mis Williams went on to talk about the format and variety of the two television programmes or which she was responsible, namely, 'Ar Lin Mam' (twice weekly) and 'Telewele' (once weekly). The former was designed for children between 2 and 5 year of age, and the latter for children between 6 and 15, although, she added, the latter often appealed to grown-ups.<sup>108</sup>

Aiff ymlaen i sôn am y llythyron a dderbyniwyd gan wrandawyr ac am yr her o ddod o hyd i berfformwyr a sgrïptwyr. Ond yr her fwyaf a'i hwynebai oedd yr amrediad o gynnwys y disgwylid iddi gynhyrchu, nodwyd ar ddiwedd ei chyfraniad i'r cyfarfod, 'Head of Programmes paid tribute to Miss Williams as a pioneer in the field of children's programmes, and as one of the most industrious and enthusiastic members of BBC Wales staff.'<sup>109</sup>

Un o'r technegau a ddefnyddiwyd gan Williams i hwyluso'r trawsnewid o radio i deledu oedd comisiynu artistiaid i greu lluniau llonydd o'r hyn a ddisgrifiwyd mewn geiriau. Fel ag ar draws y BBC yn gyffredinol nid oedd cyllid digonol ar gael i greu animeiddiadau, ac o'r herwydd prynwyd cynnwys o'r fath o'r Unol Daleithiau. Un o'r artistiaid y trodd atynt oedd yr artist a'r cartwnydd Hywel Harris, oedd yn athro

---

cerddorol, straeon gan T. Llew Jones, ymweliadau y tu hwnt i'r stiwdio, sylw i Eisteddfod yr Urdd, rhaglenni gwyddonol gyda Glyn O. Phillips heb anghofio straeon i'r plant lleiaf wedi eu darllen gan Gwenyth Petty.

<sup>106</sup> BBC Genome, *Jim Cro Crwstyn*, darlledwyd y cyntaf ar 24 Awst 1965 a'r olaf ar 29 Ebrill 1968.

<[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_tv&q=jim+cro+crwstyn](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_tv&q=jim+cro+crwstyn)> [cyrchwyd 17 Medi 2022].

<sup>107</sup> BBC Genome, *Ar Lin Mam*, darlledwyd y cyntaf ar 4 Ionawr 1970 a'r olaf ar 5 Mai 1975,

<[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_tv&q=ar+lin+mam](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_tv&q=ar+lin+mam)> [cyrchwyd 17 Medi 2022].

<sup>108</sup> BBC Written Archive Centre, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6242/3, 21 Chwefror 1969, t. 2.

<sup>109</sup> *ibid.*

celf ar y pryd yn Ysgol Ardwyn, Aberystwyth.<sup>110</sup> Dull rhad arall o ateb gofynion y cyfrwng, fel y nodwyd eisoes, oedd defnyddio pypedwyr, a throdd Williams hithau at eu crefft. Nododd Sheila Huw Jones ei bod hi'n arbennig o dda am 'sbotio talent', a daeth ar draws dau bypedwr *marionette* sef Eric Bramall<sup>111</sup> a Christopher Somerville yng ngogledd Cymru.<sup>112</sup> Ym 1958, agorwyd theatr bypedau gyntaf Prydain ym Mae Colwyn, sef The Harlequin Puppet Theatre gan Bramall.<sup>113</sup> Talodd y canfyddiad ar ei ganfed i Williams oherwydd meddai'r pypedwyr ar ddawn creu stori yn ogystal â chrefft pypeda. Roedd Bramall eisoes wedi cael profiad o weithio gyda phypedau ar deledu y tu hwnt i Gymru, bu'n gweithredu pyped o'i wneuthuriad ei hun ar y gyfres *Time for Rhythm* (1956), sef arlwy *variety* masnachol a gynhyrchwyd gan ddeiliaid trwydded ITV yn ardal Manceinion, ABC Television,<sup>114</sup> a chafodd brofiad o weithio gyda'r meistri pyped theatr Jan Bussell a'i wraig Ann Hogarth ar *For the Children*.<sup>115</sup>

Ar gyfer ei chyfresi teledu cynnar manteisiodd Williams ar ddeunydd parod y pypedwyr a lwyfannwyd ganddynt trwy gyfrwng y Saesneg yn eu theatr ac roedd y broses cyn-gynhyrchu yn un a brofodd yn llwyddiannus am nifer o flynyddoedd.<sup>116</sup> Buasai Sheila Huw Jones yn cyd-weithio â Bramall i greu addasiadau Cymraeg o'r straeon parod, yna lluniwyd sgript ganddi i'w darllen wrth i Bramall a Somerville weithredu'r pypedau ar lawr stiwdio deledu.<sup>117</sup> A hithau bellach wedi ei lleoli yng Nghaerdydd, yn hytrach na cheisio dod o hyd i bypedwyr yn y de, ac artistiaid i gymryd lle Sassie Rees, Maimie Noel-Jones a Sheila Huw Jones, parhaodd Williams i weithio gyda hwy, gan drefnu iddynt oll deithio o'r gogledd ac aros yng Nghaerdydd ar gyfer darllediadau.<sup>118</sup> Parhaodd yr arfer hwn am flynyddoedd lawer, a gellid dadlau ei fod yn darlunio ei gwerthfawrogiad o dîm effeithiol ond hefyd ei hawydd i lynu at drefn gyfarwydd, ddi-risg wrth weithio ar gyfrwng oedd yn newydd iddi, a

---

<sup>110</sup> Hywel Harries (1920–1990). Dr Brinley Francis Roberts, *Harries, Hywel (1921-1990), athro celf, arlunydd, cartwnydd* (2012), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-HARR-HYW-1921>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>111</sup> Christopher Somerville, *A Tribute to the late Eric Bramall, who built the Harlequin, by the current director* (1996), <<http://www.puppets.uk.com/eht.htm>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>112</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones.

<sup>113</sup> *The Harlequin Theatre: Britain's first permanent puppet theatre*, <<http://www.puppets.uk.com>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>114</sup> *ABC Television: Variety and Comedy Shows*, <<http://www.78rpm.co.uk/abc.htm>> [cyrchwyd 4 Medi 2022]. Buasai'r rhaglen wythnosol yn ymweld â threfi gwahanol ar draws gogledd orllewin Lloegr, trefi a fuasai'n gyfarwydd i Bramall, ac yntau yn hanu o Wallasey.

<sup>115</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Somerville.

<sup>116</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones.

<sup>117</sup> *ibid.*

<sup>118</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones. Erbyn hyn roedd Jones a Williams yn ffrindiau da, a buasai Jones yn lletya gyda hi pan fuasai yn gweithio yng Nghaerdydd.

gellir gwerthfawrogi yr opsiwn parod hynny pan oedd cymaint o ofynion ar ei hamser.

Un o'r cyfresi a grewyd gan Williams ac a gynhyrchwyd gan y criw cyson oedd *Lili Lon*, a gyfeiriai at ddol ar gortynnau.<sup>119</sup> Daeth y rheiny a rannai'r tŷ gyda hi yn gyfarwydd i'r gwylwyr ifainc, sef tri chymeriad o'r enw Popi Pwdl, a Wili a Wali Panda a roddai help llaw gyda thasgau dydd i ddydd fel golchi dillad.<sup>120</sup> Fel nodwyd gan Somerville, 'it was a peculiar household,'<sup>121</sup> ond profodd yn llwyddiant gyda phlant, a bu'n darlledu tan 1975. Pyped mud oedd Lili Lon, yn union fel Andy Pandy; crewyd straeon ar ei chyfer gan Williams, eu datblygu gan Bramall a Jones, ac adroddwyd y sgript gan Jones wrth i'r pypedau gael eu gweithredu ar set.<sup>122</sup>

Agorai pob rhifyn o *Lili Lon* gyda llais Sassie Rees i gyfeiliant Maime Noel Jones, yn canu'r rhigwm canlynol dros saethiad allanol o dŷ dol: 'Lili Lon yn ei thŷ bach twt / Llygaid glas a thrwyn bach smwt / Mae Lili Lon yn ffrind i mi, ffrind i ni, ffrind i chi / Helo Lili Lon.'<sup>123</sup>

Torrwyd o lun llonydd allanol y tŷ dol i set cegin gyfyng gyda dreser draddodiadol llawn llestri, ac yno roedd Lili Lon i'w gweld. Clywyd llais Jones yn ei chyfarch, 'Helo Lili Lon, ydach chi'n barod i chwarae gyda ni? Go dda.'<sup>124</sup> Trwy gydol yr agoriad byr hwn, mae'r ddol yn symud mewn ymateb i'r geiriau sy'n cael eu llefaru ac eir ati'n syth wedyn i gychwyn ar y stori. Mae cyflwyno pyped i'r broses o adrodd stori yn fodd o ddod â'r cyfan yn fyw i blentyn, ac yn hwyluso'r profiad o ymdrochi mewn stori, fel nodwyd gan Champlin:

---

<sup>119</sup> Mae yna ddiffyg eglurder pa bryd y cychwynnodd y gyfres *Lili Lon* a phryd y daeth i ben. Mae BBC Genome yn nodi *Lili Lon* yn darlledu dwy raglen yn unig yn 1972, ar 17 Mawrth 1972 a 14 Ebrill 1972, BBC Genome, *Ar Lin Mam: Lili Lon*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=Ar+Lin+Mam%3A+Lili+Lon#top>> [cyrchwyd 18 Medi 2022]. Mae dwy raglen ar gael yn Archif BBC Cymru Wales, recordiwyd y ddwy ar 28 Ionawr 1974, darlledwyd y naill ar 8 Chwefror 1974, (Rhif rhaglen: PCC9060D/01), ond ni wyddys pa bryd y darlledwyd y llall, (Rhif rhaglen PCC9061X). Mae'r wefan ganlynol yn rhoi rhediad y gyfres o 1959 i 1975, *Lili Lon: 1959 to 1975 BBC Wales Television*, <<http://www.puppets.uk.com/images/tv/lililongal.htm>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>120</sup> *Lili Lon: 1959 to 1975 BBC Wales Television*, <<http://www.puppets.uk.com/images/tv/lililongal.htm>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>121</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Chris Somerville.

<sup>122</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Sheila Huw Jones.

<sup>123</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Lili Lon*, 8 Chwefror 1974, Rhif rhaglen: PCC9060D/01.

<sup>124</sup> *ibid.*

The storyteller, because so much of the attention is focused upon the puppet, gains a degree of anonymity not possible in ordinary storytelling circumstances. The puppet becomes a transparent shield behind which the storyteller may 'disappear', freeing herself or himself to experiment with elements of the presentation. Voice, gesture, and expression become the context for change, the vehicles for experimentation in interpretation.<sup>125</sup>

Defnyddiai Jones ei llais mewn modd hynod o effeithiol, gan ynganu yn glir ac yn ddealladwy, Wrth iddi lefaru daeth i'r amlwg bod tair swyddogaeth i'w sgrïpt, medrai gyfarch y plentyn oedd yn gwylio, cyfarch y pypedau ar y set gan annog eu hymateb, ac adrodd y stori a gai ei phortreadu gan y pypedau, ac mae'r newid o'r naill swyddogaeth i'r llall yn digwydd yn esmwyth.<sup>126</sup> Cyfeiriodd Oswell at y gyfres *Andy Pandy* fel a ganlyn, a gellid cymhwyso ei eiriau i gynhyrchiad *Lili Lon*:

The mother in *Andy Pandy* is presented as omniscient and omnipotent narrator...Through her maternal commands to Andy and her questions and invitations to the children at home, the viewer is brought within the terms of this maternal gaze: a gaze which is panoptic but not voyeuristic. It is the gaze of the mother as supervisor.<sup>127</sup>

Mae'r stori sy'n ffocws i'r rhaglen yn darlunio tymor yr haf a thymor y gaeaf gyda Lili Lon yn cynrychioli blodyn sy'n hoff o'r haul, a Phopi Pwdl yn cynrychioli'r gaeaf. Mae'r cysyniad yn un heriol i wylwr ifainc ei werthfawrogi, ond caiff ei dealltwriaeth ei hwyluso gan bropiau gweledol megis y blodyn fel addurn yng ngwallt Lili Lon. Trwy gydol y cyfan mae Jones yn cyfarwyddo'r digwyddiadau a'r pypedau yn ymateb yn unol â'i geiriau.<sup>128</sup>

Daw'r rhaglen i'w chlo gyda Jones yn arwyddo hynny, 'Mae'n bryd i ni fynd blant. Dywedwch Ta ta! Ta ta Popi Pwdl! Ta Ta Lili Lon! Fe ddewn ni i'ch gweld chi eto cyn bo hir!'<sup>129</sup> Caiff y pypedau gyfle i ffarfwelio yn y saib rhwng pob cyfarchiad, cyn i gyfeiliant Noel-Jones a llais Rees ganu cân i gloi ar yr un alaw â'r agoriad, a dychwel y saethiad i lun o'r tŷ dol a welwyd yn y teitlau agoriadol: 'Lili Lon yn ei

---

<sup>125</sup> Connie Champlin, *Storytelling with Puppets* (Chicago a Llundain: American Library Association, 1998) t. 5.

<sup>126</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Lili Lon*, 8 Chwefror 1974.

<sup>127</sup> Oswell, 'Watching with Mother in the Early 1950s', t. 41-42.

<sup>128</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Lili Lon*, 8 Chwefror 1974.

<sup>129</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Lili Lon*, 8 Chwefror 1974

thŷ bach twt / Llygaid glas a thrwyn bach smwt, / Mae'n amser i ni fynd yn wir /  
Cawn chwarae eto cyn bo hir / Ta-ta Lili Lon.'<sup>130</sup>

Pan ddechreuwyd ar y fenter deledu gyda phypedau ar raglenni'r BBC yng Nghymru cai'r cynrychiadau eu darlledu'n fyw, o gapel yn Y Sblot a addaswyd yn stiwdio. Neilltuwyd amser i ymarfer yn drylwyr cyn darlledu, ac wedi i'r rhaglen orffen roedd yn rhaid i'r cast aros yn dawel a llonydd wrth i'r camerâu droi eu sylw at ran arall o'r stiwdio, lle cai'r bwletin newyddion ei ddarllen a'i ddarlledu'n fyw.<sup>131</sup> Tystia'r atgof hwn gan Somerville i amodau cyntefig dyddiau cynnar darlledu teledu yng Nghymru, a phrinder adnoddau at ddefnydd cynhyrchwyr rhaglenni.

Bu'r cam i bypedwyr *marionette* o'r theatr i fyd teledu yn un cymharol esmwyth gan bod teledu yn ei fabandod, nid oedd saethiadau agos ar y pypedau, ac roedd ansawdd y llun yn golygu nad oedd y cortynnau mor amlwg â hynny. Darparwyd cynhyrchwyr ag ateb syml i ddiwallu anghenion gweledol, gan addasu a chyfuno syniadau o'r ddarpariaeth radio a *variety* ar gyfer plant. Roedd pypedau felly yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth deledu ar gyfer plant o'r cychwyn cyntaf:

The Giant Leap for puppets came in the 1950's when network television blasted them into the electronic age. Puppets took to television as if it were the new Shangria La...Puppets revelled in visibility such as they had never known before...Puppets were sitting on top of the world at last.<sup>132</sup>

Felly roedd yr hyn a wnaeth Williams yn unol gydag arferion sianeli teledu eraill, ond yr hyn oedd yn unigryw am ei gwaith oedd iddi gadw at yr union arddull o gynhyrchu ar gyfer y plant lleiaf gyda'r un tîm a phypedau am flynyddoedd lawer, ac roedd yn greidnol yng ngwerth y math hyn o gynnyrch ar gyfer plant o dan bump, '[the puppet show is] considered to be the best means of story presentation, satisfying the inquisitive and creative instincts'.<sup>133</sup> Er iddi ymwneud gyda'r gyfres deledu *Telewle* ar gyfer plant hŷn, daeth gŵr o'r enw John Watkin Jones i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd wedi ymuno gyda'r BBC yn 1964 fel

---

<sup>130</sup> *ibid.*

<sup>131</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Chris Somerville.

<sup>132</sup> George Latshaw, *The Complete Book of Puppetry* (Chatham: Dover Publications Ltd, 2003), t. 15.

<sup>133</sup> BBC Written Archive Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6242/3, 19 Hydref 1973, t. 7.

Rheolwr Stiwdio (radio) ac yntau newydd gymhwyso fel athro o Goleg y Drindod.<sup>134</sup> Yn raddol gofynnwyd iddo rannu ei amser rhwng ei waith fel rheolwr stiwdio a rhoi cymorth i Evelyn Williams yn yr Adran Blant, eglurodd fel a ganlyn:

Y rhaglen oedd gyda Evelyn ar y pryd oedd *Telewele*, ac roedd e'n amrywio o wythnos i wythnos. Ond oedd un wythnos o bob mis yn mynd at Tom Davies yn yr Adran Chwaraeon, felly roedd pethau ar chwaraeon yn cael eu gwneud. Bryd arall o't ti'n cael ffilmiau o Lloegr a bydde ti'n ail-dybio nhw yn Gymraeg ac yn y blaen. Roedd e'n gawdel o raglenni a dweud y gwir felly o'dd y plant ddim yn gallu uniaethu eu hunain gyda dim byd arbennig.<sup>135</sup>

Er y sylweddoliad hwn o ddiffygion *Telewele*, ni chafodd Watkin Jones gyfle digonol i roi trefn ar bethau oherwydd fe'i danfonwyd ar gwrs cyfarwyddo teledu i Lundain, ac yna derbyniodd wahoddiad i barhau yn Llundain i weithio ar y rhaglen gylchgrawn i blant sef *Blue Peter* (1958–).<sup>136</sup> Dyma gyfnod y cyflwynwyr Christopher Trace<sup>137</sup> a Valerie Singleton,<sup>138</sup> a'r newydd-ddyfodiad John Noakes,<sup>139</sup> a ddanfonwyd ar anturiaethau o bob math ar leoliad, a bu Watkin Jones yn gwmni iddo.<sup>140</sup>

Yn 1970 dychwelodd Watkin Jones i'r BBC yng Nghaerdydd a'i benodi yn Gynorthwy-ydd Cynhyrchu wedi ei arfogi â dealltwriaeth o hanfod darpariaeth addas i blant rhwng 8 ac 11 oed.<sup>141</sup> Aeth ati i gyflwyno agweddau mwy mentrus i *Telewele*, a chredai ei bod yn bwysig llunio cynnwys a arweiniai at blant yn ymgyrraedd yn uwch, er enghraifft ni fyddai'n debygol o roi plant o'r un oedran â'r gwylwyr ar y sgrîn, os oedd yn rhaid cynnwys plant, dewisai rai o ystod oedran hŷn.<sup>142</sup> Mewn ysbryd tebyg aeth â'r gyfres y tu hwnt i gyfyngiadau'r stiwdio ac i wledydd tramor er

<sup>134</sup> Cyfweliad yr awdur gyda John Watkin Jones, Mawrth 2022. Bu'n ymddangos mewn gwahanol gynrychiadau yn ystod ei gyfnod yng Ngholeg y Drindod, trefnwyd rhain gan y darlithydd Norah Isaac ac roedd ganddi gynlluniau ar ei gyfer a arweiniodd ato'n cychwyn ar ei union ar yrfa ym maes darlledu.

<sup>135</sup> *ibid.* Ymhellach, eglurwyd cynnwys *Telewele* gan Evelyn Williams yn 1973 fel a ganlyn, 'The content of this programme varied from week to week, and covered a wide range of topics, including sport, music, competitions, Outside Broadcasts from schools, documentaries etc.' BBC Written Archive Centre, Caversham, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/232/2, 19 Hydref 1973, t. 6.

<sup>136</sup> Cyfweliad yr awdur gyda John Watkin Jones. Ar gyfer hanes y gyfres *Blue Peter* gweler: Alistair McGown, BFI Screenonline, *Blue Peter (1958-)*, <<http://www.screenonline.org.uk/tv/id/462144/index.html>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>137</sup> Christopher Trace, (1933–1992), BBC, *Classic TV, Blue Peter, Christopher Trace*, <<https://www.bbc.co.uk/cult/classic/bluepeter/presenters/trace.shtml>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>138</sup> Valerie Singleton, (1937–), Alistair McGown, BFI Screenonline, *Singleton, Valerie (1937 - )*: presenter, actor, <<http://www.screenonline.org.uk/people/id/1140290/index.html>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>139</sup> John Noakes, (1934–2017), Stuart Jeffries, 'Blue Peter's Daredevil: John Noakes obituary', *Guardian*, 29 Mai 2017. <<https://www.theguardian.com/tv-and-radio/2017/may/29/john-noakes-obituary>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

<sup>140</sup> Cyfweliad yr awdur gyda John Watkin Jones.

<sup>141</sup> BBC Written Archives, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 16 Ionawr 1970, t. 3.

<sup>142</sup> Cyfweliad yr awdur gyda John Watkin Jones.

mwyn ehangu gorwelion gwylwyr ifainc, a chafwyd rhaglenni o dan y teitl *Cant tua'r Haul* (1974) gyda Hywel Gwynfryn yn ymweld â'r Dwyrain Pell.<sup>143</sup>

Cyfeiriwyd at lwyddiant y teithiau tramor gan Evelyn Williams yn un o gyfarfodydd o'r Cyngor Darlledu, ac mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau, nododd er bod teithiau o'r fath yn ddurd, roeddent yn bwysig, a dymunai weld un ymweliad tramor bob blwyddyn.<sup>144</sup> Mynegodd hefyd bod amseriad y gyfres *Telewele* yn anffodus gan ei bod yn darlledu ar yr un pryd â rhaglen gylchgrawn ar gyfer yr un oedran ar ITV, sef *Magpie* (1968–1980),<sup>145</sup> ond yr hyn sy'n amlwg yn natur ei sylwadau yw ei rhwystredigaeth oherwydd diffyg adnoddau yn sgil diffyg cyllid.<sup>146</sup>

Roedd trafodaethau eisoes ar y gweill am addasrwydd cynnwys *Telewele*,<sup>147</sup> a chododd trafodaeth ehangach am ddiffyg rhaglenni Cymraeg i blant ar y teledu, a'r hyn a nodweddi'r dadleuon oedd diffyg cyllid er mwyn ateb anghenion plant. Ers y pumdegau dim ond ambell sylw a gafwyd yng nghofnodion y Pwyllgor Darlledu parthed y ddarpariaeth i blant, ond ar drothwy'r saithdegau daeth galwadau cynyddol am sylw i'r segment yma o'r gynulleidfa o du'r cyhoedd. Ym mis Mai 1972 cyfarfu y Rheolwr Cyffredinol, Cadeirydd y Cyngor Darlledu a'r Pennaeth Rhaglenni gyda chynrychiolwyr o fudiad Urdd Gobaith Cymru:

The deputation had made a strong and moving plea for more Welsh language broadcasts, particularly for children and young people. Controller reminded Council that they had already decided that additional Welsh programmes for children should be the first priority for any increase in programme output. Until additional resources were made available, any such increase could only be achieved by cutting down on existing adult programmes.<sup>148</sup>

Flwyddyn ynghynt rhoddwyd cyfle i ddau gynrychiolydd o Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg i gyflwyno eu gofynion o safbwynt rhaglenni plant yn y Gymraeg i

---

<sup>143</sup> BBC Genome, *Cant tua'r Haul* (1974), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=cant+tua%27r+haul#top>> [cyrchwyd 19 Medi 2022].

<sup>144</sup> BBC Written Archives, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 19 Hydref 1973, t. 7.

<sup>145</sup> Alistair McGown, BFI Screenshot, *Magpie (1968–80)*, <<http://www.screenonline.org.uk/tv/id/591387/index.html>> [cyrchwyd 19 Medi 2022].

<sup>146</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 19 Hydref 1973, t. 7.

<sup>147</sup> *ibid.*, 16 Gorffennaf 1971, t. 10. Mynegwyd yn y cyfarfod bod y Pennaeth Rhaglenni wedi gofyn i'r Cyngor am eu barn ar y gyfres *Telewele*, 'He had a feeling of unease about it and felt that it was not now making the desired impact. The Chairman and one member agreed with this view.' Awgrymwyd gollwng *Heddiw* am un noson yr wythnos a darlledu *Heddiw* ifanc yn lle hynny.

<sup>148</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 19 Mai 1972.



aelodau'r Cyngor Darlledu.<sup>149</sup> Y ddau riant o dan sylw oedd Gwynfor Davies a'r Athro Dewi Eirug Davies, a nodwyd yn y cofnodion, 'Television was not as important to him [Dewi Eirug Davies] as it was for his sons. He had formed the pattern of his life, but television was vitally important to young people – it helped form their minds.'<sup>150</sup> Eu prif ofid oedd diffyg cyfle i blant Cymraeg a'r rheiny o gartrefi di-Gymraeg i glywed yr iaith y tu hwnt i'r dosbarth ysgol. Mynegwyd ganddynt bod angen cynyddu'r oriau darlledu, ac awgrymwyd ganddynt pa fath o raglenni y tybient oedd yn addas, er enghraifft gofynnodd y naill am gartŵn wedi ei ddybio i'r Gymraeg rhwng 5 a 7 pm nos Lun i nos Iau, a'r llall am raglenni chwaraeon â sylwebaeth Gymraeg, 'the natural language of sport for [his son].'<sup>151</sup> Gofynnwyd am raglen gylchgrawn hefyd:

He [Dewi Eirug Davies] praised the programme 'Blue Peter' and said that he felt that this programme helped to teach young people how to live in this world as responsible human beings. He was not asking for a slavish imitation of the programme in Welsh, but he would like to see this done for the Welsh child in his own language and would like to see it on television.<sup>152</sup>

Eglurwyd ganddynt bod angen rhoi sylw i hyn ar fyrder er galluogi 'Cymricisation' i ddiwydd yn y cartref, a'r allwedd i hynny fedru digwydd oedd y cyfrwng teledu.<sup>153</sup>

Yn dilyn yr ymweliad gan Gwynfor Davies a'r Athro Dewi Eirug Davies, roedd yn amlwg bod cefnogaeth ymhlith aelodau'r Cyngor Darlledu a'r rheolwr i'r syniad o raglen tebyg i *Blue Peter*, ac awgrymwyd gan un aelod, 'He would like to suggest a regular half-hour programme, providing, of course, the right people could be found.'<sup>154</sup> Y gŵr a lwyddodd i wireddu'r weledigaeth oedd John Watkin Jones, a chynigodd gyfres newydd i'r Pennaeth Rhaglenni ar y pryd, Geraint Stanley Jones, ar gyfer plant hyd at 11 oed, a'r enw a ddewiswyd ar ei chyfer oedd *Bilidowcar*.<sup>155</sup> Yn

---

<sup>149</sup> *ibid.*, 16 Gorffennaf 1971, tt. 7-10.

<sup>150</sup> *ibid.*, t. 8.

<sup>151</sup> *ibid.*

<sup>152</sup> *ibid.*

<sup>153</sup> *ibid.*, 16 Gorffennaf 1971, tt. 7-10.

<sup>154</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 16 Gorffennaf 1971, tt. 9-10.

<sup>155</sup> Cyfweiliad John Watkin Jones. Yn ôl Jones, John Bevan a ddewisodd yr enw, a chaiff ei darddiad ei egluro gan Hywel Gwynfryn fel a ganlyn, 'Mae'r aderyn bilidowcar yn un sy'n dowcio o dan y dŵr yn pysgota ac yn chwilota, a fel hynny oeddwn i'n gweld y rhaglen. Rhaglen oedd yn chwilota ac yn pysgota am eitemau amrywiol a diddorol.' Gweler BBC Cymru Fyw, *Bilidowcar yn dathlu'r deugain* (22 Ebrill 2015), <[https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/32316256?fbclid=IwAR18qhPXAV76jxHjFHV3hr4kRYje8UhAaW8HfqKWPZF3\\_p9RzXbtVQlmp8](https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/32316256?fbclid=IwAR18qhPXAV76jxHjFHV3hr4kRYje8UhAaW8HfqKWPZF3_p9RzXbtVQlmp8)> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

hytrach na defnyddio pob math o gyflwynwyr gwahanol fel a wnaed ar *Telewele*, rhoddwyd dau gyflwynydd ifanc ac y sgrîn sef Hywel Gwynfryn a Marged Esli.<sup>156</sup> Roedd eu cytundebau yn eu clymu wrth waith y rhaglen, a gwnaeth hynny fyd o wahaniaeth yn ôl Watkin Jones, bellach roedd gan blant Cymru gyfres gyson yn darlledu ar yr un adeg bob wythnos, gyda chyflwynwyr a ddaeth yn wynebau cyfarwydd.<sup>157</sup> Yn sgil ei hyfforddiant yn Llundain, a'i brofiad ar *Blue Peter*, roedd Watkin Jones yn deall teledu fel cyfrwng a sut i'w gymhwyso ar gyfer plant, meddai, 'Person iaith oedd Evelyn, doedd hi ddim yn gynhyrchydd gweladwy naturiol. Fel byddet ti gyda teledu, wel, bydde ti eisiau gwneud defnydd da o lun. Hynny yw mae'r llygaid yn bwysicach na'r glust.'<sup>158</sup> Eglurodd mai'r prif wahaniaeth rhyngddo ef a Williams yn eu gwaith dydd i ddydd fel cynhyrchwyr oedd ei fod e'n sgrïptio ei raglenni yn fanwl, a rhoddai bwyslais ar y *recce* er mwyn medru gweld drosto'i hun beth oedd yn bosib wrth iddo strwythuro stori, mynegodd nad oedd Williams yn gweithredu yn yr un modd, gan ei bod yn perthyn i gyfnod gwahanol.<sup>159</sup>

Ar gyfer rhaglenni i blant oed cyn ysgol roedd gweledigaeth Williams a'r gwerth a osodai ar y gair wedi ei medru addasu ei hun i'r trawsnewidiad o radio i deledu, ond nid oedd hynny mor effeithiol ar gyfer cynnyrch i blant hŷn oedd wedi cychwyn cyfarwyddo gyda chartwnau, rhaglenni byw a dramâu ar sianeli eraill. Ar gyfer y plant cyn ysgol glynodd at ddawn y pypedwyr a chynnwys diniwed rhaglenni fel *Ar Lin Mam* hyd at ddiwedd ei gyrfa, ac mae'n ddiddorol sylwi y disgwyliai yr un ymroddiad gan y fam wrth ymwneud â rhaglenni yn 1974, ag a ddisgwyliai dros ugain mlynedd ynghynt pan gychwynnodd ar ei gyrfa gynhyrchu yn 1951, '...Miss Williams emphasised the importance of parent participation in stimulating reproduction of what the child had seen and heard.'<sup>160</sup> Erbyn iddi ymddeol yn 1974,<sup>161</sup> roedd cymdeithas wedi newid, a'r sefyllfa o'r fam a'r plentyn yn gwrando ar y cyd yn llai tebygol, gyda chynnydd mewn mamau yn mynd allan i weithio a phlant yn derbyn gofal mewn meithrinfeydd neu ysgolion meithrin.<sup>162</sup> Er i'w hagwedd

---

<sup>156</sup> BBC Cymru Fyw, *Bilidowcar yn dathlu'r deugain* (22 Ebrill 2015).

<sup>157</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda John Watkin Jones.

<sup>158</sup> *ibid.*

<sup>159</sup> *ibid.*

<sup>160</sup> BBC Written Archives, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 19 Hydref 1973, t. 7

<sup>161</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 17 Mai 1964, t. 2. 'Controller reminded Council that Miss Evelyn Williams, Children's Programmes Orgniser, would be retiring on June 5<sup>th</sup>, and he paid tribute to her outstanding dedication and creative talent. Council recorded its great appreciation of Miss Williams' work, and expressed its very best wishes on her retirement.'

<sup>162</sup> Gwnaeth Gwynfor Davies, un o ddau gynrychiolydd Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg gerbron Cyngor Darlledu Cymru, gais i symud amser darlledu *Ar Lin Mam* oedd yn adlewyrchu'r newid mewn cymdeithas, fel a ganlyn, '*Ar Lin Mam* was transmitted

ddyddio erbyn y saithdegau, o edrych yn ôl ar ei gyrfa ni ellir llai nag edmygu cyfanswm ei chyfraniad i ddarpariaeth plant cyn oed ysgol. Cyflwynodd iddynt hafan diogel o Gymraeg a Chymreictod ar radio a theledu a gynhyrchwyd i'r safon uchaf, o ran cynnwys a defnydd o iaith a hynny gydag adnoddau cyfyngedig.

Dyfed Glyn Jones a'i holynodd fel Pennaeth yr Adran Blant,<sup>163</sup> a bu i waith John Watkin Jones ac yntau anadlu chwa o awyr iach cyfredol i'r ddarpariaeth. Dynodai 1975 gyfnod newydd felly gydag *Ar Lin Mam* yn dod i ben y flwyddyn honno.<sup>164</sup> Fe'i disodlwyd gan addasiad llwyddiannus o gynhyrchiad y BBC, *Camberwick Green* (1966–1985),<sup>165</sup> sef *Nant-y-pant* (1975–1978),<sup>166</sup> a chroesawyd y gyfres y bu cymaint o aros amdani, sef *Bilidowcar*, 'a magazine for the older age group...being appropriate also for viewing by adult audiences.'<sup>167</sup>

Er i Watkin Jones benderfynu gadael Cymru i weithio gyda'r BBC yn Brunei,<sup>168</sup> aeth *Bilidowcar* (1975–1988) o nerth i nerth gan ddiweddarau cyflwynwyr a chynnwys wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaen.<sup>169</sup> Cafodd plant Cymru gyfres Gymraeg, fodern ei gwedd, a chyfredol ei chynnwys allai ddal ei thir ochr yn ochr â *Blue Peter* a *Magpie*, ac a lwyddodd i wireddu y gobaith o beri yr un ardrawiad â *Heddiw* i oedolion, o ystyried ei hirhoedledd.<sup>170</sup> Y gyfres newyddion cylchgrawn *Heddiw* fydd ffocws rhan nesaf y traethawd, ac yn sgîl hynny droi sylw'r darllenydd at ddeunydd ffeithiol, gan ganolbwyntio yn eu tro ar y ddarpariaeth i fenywod a rhaglenni nodwedd Nan Davies.

---

at 1.40 p.m. – could this be changed to 11.00 a.m. whilst the children were still in nursery school? Nursery schools would be only to willing to buy television sets if a programme could be braoadcast at that time.' BBC Written Archive Centre, Caversham, cofnodion Pwyllgor Darlledu Cymru, R6/242/3, 16 Gorffennaf 1971, t. 9.

<sup>163</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 19 Ebrill 1974, t. 3.

<sup>164</sup> *ibid.*, 18 Ebrill 1975, t. 6.

<sup>165</sup> BBC Genome, *Camberwick Green*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=camberwick+green#top>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>166</sup> BBC Genome, *Nant-y-pant*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=nant+y+pant#top>> [cyrchwyd 7 Mai 2023].

<sup>167</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 12 Medi 1975, t. 3.

<sup>168</sup> *ibid.*, 14 Tachwedd 1975, t. 2.

<sup>169</sup> *Bilidowcar* (1975–1988), BBC Cymru Fyw, *Bilidowcar yn dathlu'r deugain*, (22 Ebrill 2015).

<sup>170</sup> BBC Written Archives Centre, Caversham, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 16 Gorffennaf 1971, t. 9. Cyfeiriodd un o aelodau Cyngor Darlledu Cymru at *Heddiw*, 'He instanced the impact of *Heddiw* upon adult audiences – a programme that was broadcast regularly. If this sort of impact could be achieved with the younger generation, the this would be far better service to Wales than an increase in other types of programmes.'



## Pennod 4

### Y cylchgrawn newyddion *Heddiw*: Nan Davies, Beti George, Mary Middleton ac Elinor Patchell

Hon yw'r bennod gyntaf o dair fydd yn ystyried yr arlwy ffeithiol o fewn rhaglenni'r BBC yng Nghymru. Mae'r sylw yn troi yn gyntaf at y rhaglen gylchgrawn newyddion ar y teledu sef *Heddiw* gan ddadansoddi cyfraniad Nan Davies fel cynhyrchydd a golygydd ym mlynnyddoedd cynnar y gyfres (1961–1965). Rhoddir sylw hefyd i'r menywod eraill a fu'n ymwneud â'r gyfres yn ystod gweddill y chwedegau a chychwyn y saithdegau, naill ai ar y sgrîn neu y tu cefn i'r llenni, megis Mary Middleton a Beti George. Bydd Pennod 5 yn troi'r sylw at gynyrchiadau ffeithiol a gynhyrchwyd gan Davies ar gyfer teledu yn ystod ysbaid o ofynion y gyfres ddyddiol ac wedi iddi roi'r gorau i olygyddiaeth *Heddiw*. Nodweddwyd y cyfnod cyntaf gan ymweliad â Phatagonia i baratoi cynnyrch ar gyfer dathlu canmlwyddiant yr ymfudo ym 1965 gan ddarparu cip gyfredol ar y gymuned Gymraeg yn ystod canol yr ugeinfed ganrif. Yn ddiweddarach, ym mlynnyddoedd olaf ei gyrfa cafodd gyfle i gynhyrchu rhaglenni unigol a chyfresi ar bynciau o'i dewis a amlygodd ei diddordeb parhaus yn y Gymru wledig. Darpariaeth a fu'n nodwedd o'i gyrfa gynnar oedd rhaglenni radio wedi eu hanelu yn benodol at fenywod, ond er gwaethaf ei hymdrechion ni lwyddodd i sicrhau cyfres gyson o'r fath yn yr amserlen ddarlledu. Gwireddwyd hynny ar gyfer gwrandawyr yng Nghymru yn 1965 gyda lansio *Merched yn Bennaf*, gyda Marion Griffith Williams (nee Eames) ac yna Teleri Bevan yn cynhyrchu, a dyna fydd ffocws Pennod 6.

Honwyd gan Andrew Crisell mai yr arlwy newyddion teledu oedd prif fethiant y BBC yn wyneb cystadleuaeth fasnachol, gydag ITN yn darparu gwasanaeth newyddion modern a chwbl addas i'r cyfrwng newydd ers lansio ITV ym mis Medi 1955.<sup>1</sup> Rhan o apel eu gwasanaeth oedd cyflwynwyr ar y sgrîn, 'They were authoritative, and journalistic and known not by that rather passive term 'newsreaders' but as *newscasters*, which implied, – accurately – that they had something to say in their own right'.<sup>2</sup> Glynai'r BBC at fformat newyddion o luniau

---

<sup>1</sup> Andrew Crisell, *An Introductory History of Broadcasting*, 4ydd argraffiad (Llundain: Routledge, 2003), t. 97.

<sup>2</sup> *ibid.*

*newsreel* gyda sylwebaeth, neu lun llonydd o Big Ben a llais di-wyneb yn adrodd y bwletin a hynny hyd at dair wythnos cyn lansio y gwasanaeth masnachol.<sup>3</sup> Adlewyrchai hyn safbwynt anystyriol o'r cyfrwng newydd yn nhyb Grace Wyndham Goldie, a gaiff ei hadwaen fel *the first lady of television*, 'Sound was the father figure, established and responsible, television was the spendthrift and tiresome adolescent.'<sup>4</sup> Cyfeiriodd Wyn Roberts at 'the BBC's slow and ponderous television development', a'r modd y'i denwyd ef o'r herwydd at gyfleoedd heriol a chreadigol teledu masnachol yng Nghymru.<sup>5</sup> Estynnai yr ymagwedd hon ar ran y BBC at ddrwgdybiaeth o ddelwedd ac o wyneb ar sgrîn a ystyriwyd yn fygythiad posib i ddi-ddueddrwydd.<sup>6</sup> Amlygai hyn ddiffyg dealltwriaeth ymhlith uwch staff uwch o anghenion cyfrwng gweledol, ac o afael cyfrwng geiriol arnynt, yn benodol y pennaeth newyddion Tahu Hole, a gredai bod peryg i newyddion ar gyfrwng gweledol gael ei ddifwyno gan bersonoliaeth y darlennydd,<sup>7</sup> 'He was convinced that news could not properly be told in pictures and concerned...lest the use of television would impair the authority of the BBC in news broadcasting'.<sup>8</sup> Nododd Goldie yn ei hunangofiant bod modd olrhain agwedd y BBC tuag at newyddion ar deledu i'r pwysigrwydd a osodwyd ar y cyfrwng radio a sancteiddrwydd y gair yn natblygiad y sefydliad. Eglurodd bod pryderon penodol am ddarlledu newyddion, a hanai ar un llaw o ofnau cenfigennus y Wasg y gallai newyddion darlledu effeithio ar werthiant papurau newydd, ac ar y llaw arall o'r ofn gwirioneddol a fynegwyd gan y Pwyllgorau Darlledu cynnar, y buasai'n ddigon hawdd darlledu newyddion anghyfrifol neu newyddion ag iddo duedd.<sup>9</sup>

Yn rhengoedd ITV, roedd yna agwedd gwbl wahanol at y cysyniad o'r cyflwynydd newyddion o dan gyfarwyddyd cyn-aelod o staff y BBC, sef Aidan Crawley,<sup>10</sup> 'Crawley recognized that if the element of personality could not be eliminated from

---

<sup>3</sup> Crisell, t. 96

<sup>4</sup> Charlotte Higgins, 'Prejudice and a BBC pioneer - the amazing story of Grace Wyndham Goldie', *The Guardian*, 12 Mehefin 2015. <<https://www.theguardian.com/books/2015/jun/12/grace-wyndham-goldie-bbc-producer-1940s-1950s-invented-tv-formats>> [cyrchwyd 4 Gorffennaf 2021].

<sup>5</sup> Wyn Roberts (1930-2013), yn ddiweddarach Arglwydd Roberts o Gonwy. Wyn Roberts, *Right from the Start*, (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2006), t. 57. Bu Roberts ymhlith y cyntaf o staff deiliad y drwydded fasnachol, *Television Wales and the West (TWW)*, wedi iddo adael ei swydd fel gohebydd newyddion gyda'r BBC yng Nghymru. <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/25378573>> [cyrchwyd 23 Awst 2021].

<sup>6</sup> Tise Vahimagi ar ran y BFI, *British television: an illustrated guide* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1994), t. 43.

<sup>7</sup> Stuart Hood, *Radio and Television (The Professions)*, (Caerwysg: David and Charles, 1975), t. 30.

<sup>8</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Sound & Vision*, Cyfrol IV (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1979), t. 545.

<sup>9</sup> Grace Wyndham Goldie, *Facing the Nation: Television & Politics, 1936-77*, (Llundain: The Bodley Head, 1977), t. 41.

<sup>10</sup> Aidan Crawley (1908-1993). Patrick Cosgrave, Obituary: Aidan Crawley, *The Independent*, 23 Hydref 2011. <<https://www.independent.co.uk/news/people/obituary-aidan-crawley-1502189.html>> [cyrchwyd 23 Ionawr 2021].

television, it should be used to best effect'.<sup>11</sup> Er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno daeth â thair personoliaeth i gyfarch cynulleidfa y darparwr Independent Television News (ITN) sef Robin Day,<sup>12</sup> Christopher Chataway<sup>13</sup> a Barbara Mandell sef y fenyw gyntaf i gyflwyno'r newyddion ar deledu rhwydwaith ym Mhrydain.<sup>14</sup> Dylid nodi mai rhaglen amser cinio a neilltuwyd iddi ac fe gyflwynai o flaen cefnlen a ddarluniai gegin ddomestig.<sup>15</sup> Felly er y penderfyniad i roi menyw ar y sgrîn i gyflwyno'r cynnwys, parhau wnaeth y cynodiadau traddodiadol. Nid oedd y dewis o gefnlen yn rhoi unrhyw awgrym bod Mandell yn newyddiadurwraig wrth ei galwedigaeth. Mewn gwirionedd bu'n gweithio ar y *Rand Daily Mail* yn Ne'r Affrig, lle y'i magwyd, gan ddilyn yn ôl troed ei thad i'r maes, ac yna fel golygydd newyddion radio i'r *South African Broadcasting Company*.<sup>16</sup>

Pan ddisodlwyd Tahu Hole gan Stuart Hood fel pennaeth newyddion y BBC yn 1958, manteisiodd ar y cyfle i gasglu criw o wynebaw at ei gilydd i ddarparu'r newyddion a'u gosod ar y sgrîn, ond nid oedd un menyw yn eu plith.<sup>17</sup> Yn yr un modd, pan gafodd y rhaglen gynnar y nos ei lansio flwyddyn ynghynt, sef *Tonight* (1957–1965), ni roddwyd yr un newyddiadurwraig ar y sgrîn ond yn hytrach y darlledwr Cliff Michelmore fel yr angor a chriw o ohebwy'r gwrywaidd, sef Fyfe Robertson, Trevor Philpott ac Alan Whicker, gyda Donald Baverstock yn cynhyrchu.<sup>18</sup> Yn dilyn difodiant y *Toddler's Truce* rhwng 6pm a 7pm,<sup>19</sup> daeth y slot hwn i gynrychioli brwydr firwd rhwng y BBC ac ITV am gynulleidfa, gan y gwelai'r ddau ddarlledwr gyfle euraidd i fachu cynulleidfa a'u rhwydo am weddill y nos.

---

<sup>11</sup> Crisell, t. 98.

<sup>12</sup> Robin Day, ac yn hwyrach Sir Robin Day (1923-2000). BBC News, *Sir Robin Day dies*, (7 Awst 2000), <<http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/870113.stm>> [cyrchwyd 23 Ionawr 2021].

<sup>13</sup> Christopher Chataway, ac yn hwyrach Sir Christopher Chataway (1931-2014). BBC, *Obituary: Christopher Chataway* (19 Ionawr 2014), <<https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-12991697>> [cyrchwyd 23 Ionawr 2021].

<sup>14</sup> Barbara Mandell (1920-1998), Anthony Hayward, 'Obituary: Barbara Mandell', *The Independent*. 4 Medi 1998. <<https://www.independent.co.uk/arts-entertainment/obituary-barbara-mandell-1196010.html>> [cyrchwyd 23 Ionawr 2021].

<sup>15</sup> A Night in with the Girls, BBC2, 15 Mawrth 1997, dyfynnwyd yn Janet Thumim, 'Mrs Knight *must* be balanced', *News, Gender and Power*, gol. gan Cynthia Carter, Gill Branston a Stuart Allan, (Efrog Newydd: Routledge, 1998), tt. 91-104, (t. 97).

<sup>16</sup> Hayward, *The Independent*.

<sup>17</sup> Y cyflwynwyr newydd oedd Robert Dougall, Richard Baker, Kenneth Kendall, a Michael Aspel. Crisell, t. 100.

<sup>18</sup> BBC, *Tonight Launched*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/february/tonight-launched>> [cyrchwyd 18 Rhagfyr 2020].

<sup>19</sup> Yn sgil pwysau o gyfeiriad darlledu masnachol cytunwyd yn Hydref 1956 i gael gwared ar yr awr o dawelwch darlledu rhwng 6pm a 7pm a gyfeiriwyd ati fel y *Toddler's Truce*. Ei bwriad gwreiddiol oedd cynorthwyo rhieni i gael eu plant i'w gwelyau, ond fe'i hystyriwyd gan Charles Hill, y Postfeistr Cyffredinol ar y pryd, fel enghraifft o agwedd dadol ddi-angen y BBC tuag at y gynulleidfa. Daeth y penderfyniad i'w waredu i rym ym mis Chwefror 1957. Am fwy o wybodaeth gweler pennod 30, Bernard Sendall, *Independent Television in Britain: Volume 1 – Origin and Foundation 1946–62* (Llundain: Macmillan Press, 1982).

Disgrifiwyd cynnwys *Tonight* fel ‘a topical programme for all the family’,<sup>20</sup> rhaglen a gyfunai ddeunydd caled gydag arlwy ysgafnach:

Its items varying in mood, pace and style, yet each lasting no more than a few minutes, *Tonight* offered a blend of political and current affairs with light entertainment. Yet underlying it was a serious philosophy: the programme was meant to be “on the side of the viewer”.<sup>21</sup>

Dyna union natur y gyfres *Heddiw* (1961–1982) a lansiwyd gan y BBC yng Nghymru bedair blynedd yn ddiweddarach yn Ebrill 1961. Fel y nodwyd gan Ifor Rees, penderfyniad ‘politicaidd’ a arweiniodd at Hywel Davies yn lansio’r gyfres; gydag Adroddiad Pilkington ar y gorwel, ei fwriad oedd profi bod modd cynnal rhaglen deledu ddyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>22</sup>

Mae’r disgrifiad (*billings*) yn *The Radio Times* ar ddiwrnod cyntaf darlledu’r gyfres am 13.05 ar ddydd Llun, 17 Ebrill 1961, yn plannu’r cysyniad o gyfuniad cynnwys ym meddwl y gynulleidfa; mae’r cyfieithiad Saesneg ar y diwedd yn amlygu hyn ac yn efelychu’r modd y disgrifiwyd *Tonight* gan y BBC ei hun,<sup>23</sup> ‘Edrych ar y byd a’i bethau. Cwrdd a [sic.] phobl. Ymweld a [sic.] lleoedd. Ymdrin a [sic.] phynciau yng nghwmni Aled Rhys Wiliam. Rhaglen ddyddiol dan ofal Nan Davies, Ifor Rees, Jack Williams. Today: a topical magazine’.<sup>24</sup> Yn yr un modd â *Tonight*, dyn oedd yn sedd y cyflwynydd, a nodwyd gan adolygydd *Y Cymro* bod Aled Rhys Wiliam yn ‘hollol gartrefol’ wrth gyflwyno.<sup>25</sup> Roedd ei lais eisoes wedi ei glywed ar arlwy’r BBC gan y bu’n cyflwyno *Sunday Half-hour* o Eglwys y Bedyddwyr, Albany Road, Caerdydd ar *The Light Programme* yn 1957,<sup>26</sup> ac ef oedd wyneb y gyfres newyddion fisol *Cefndir* (1957–9) a fu’n braenaru’r tir i *Heddiw* ar ddiwedd y 1950au. Mae’r disgrifiad o *Cefndir* yn *The Radio Times* fel ‘Pigion o newyddion y mis yng Nghymru, gan gynnwys ffilmiau o ddigwyddiadau’r wythnos a aeth heibio’ yn

<sup>20</sup> BBC Genome, *Tonight*, 18 Chwefror 1957, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/037a2fa2616a49c79ae6f0fd7e43be6d>> [cyrchwyd 23 Ionawr 2021].

<sup>21</sup> Crisell, t. 99.

<sup>22</sup> *Llwyddda*, 22 Mawrth 1981, Archif BBC Cymru, PCGG170F. Darlledwyd ar achlysur ymddeoliad Ifor Rees yn 1981.

<sup>23</sup> BBC Newswatch, 1957: *Tonight heralds new interviewing style*,

<<http://news.bbc.co.uk/1/shared/spl/hi/newswatch/history/noflash/html/1950s.stm>> [cyrchwyd 18 Ionawr 2021].

<sup>24</sup> BBC Genome, *Heddiw*, 17 Ebrill 1961, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/760eafc724ca4e6ca287a4d37425de24>> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2020].

<sup>25</sup> ‘Gwyllo a Gwrando efo Meic’, *Y Cymro*, 20 Ebrill 1961, t. 3.

<sup>26</sup> BBC Genome, *Sunday Half-hour*, 7 Ebrill 1957, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/b812d09c1907465f93a7bb8e26d8fbc>> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2020].



amlygu ei natur caletach na *Heddiw* gyda'r pwyslais ar newyddion.<sup>27</sup> Nid yw hynny'n syndod o weld mai'r newyddiadurwr T. Glynne Davies fu yng ngofal y gyfres ac yntau wedi gweithio ar bapurau megis *The Cambrian News*, *Y Cymro* a'r *South Wales Evening Post* cyn ymuno gyda'r BBC yn 1957.<sup>28</sup>

Ar ddiwrnod cyntaf darlledu *Heddiw* cafwyd amrywiaeth o eitemau, y difrif a'r ysgafn, a ddisgrifiwyd yn *Y Cymro* fel a ganlyn:

Ffilm annwyl a gafwyd i agor y gyfres gyda Llew Jones yn rhoi hanes diwrnod cyntaf tair geneth fach yn yr ysgol; dilynwyd hynny gan adroddiad cymharol drwm o'r Congo gan Angus McDermid a ddychwelodd oddi yno'n ddiweddar. I derfynu cafwyd Jacob Davies yn holi R.O. Roberts yn Abertawe a rhai o drigolion Llanelli am eu syniadau ar y Gyllideb.<sup>29</sup>

Canmoliaeth colofnydd *Y Cymro* oedd bod yr eitem ar y Gyllideb yn un amserol, ond roedd yn feirniadol ei bod wedi ei ffilmio dair wythnos ynghynt.<sup>30</sup> Gellid dychmygu tîm *Heddiw* yn casglu ynghyd bentwr o eitemau o flaen-llaw wrth iddynt wynebu her enfawr darlledu rhaglen deledu ddyddiol o'r fath am y tro cyntaf yn y Gymraeg. Dewiswyd Nan Davies yn gynhyrchydd ac yna'n olygydd ar y gyfres, ac roedd yn ddewis perffaith, fel mae argraff Ifor Rees ohoni yn ei amlygu, 'Roedd Nan yn dod â'r meddwl miniog 'ma o'dd gyda hi, a'r galon gynnes a rhyw gyfuniad o'r ddau beth yna, yn hyfryd iawn o'n i'n meddwl, o'dd yng nghymeriad Nan'.<sup>31</sup> I Davies roedd cydbwysu'r trwm gyda'r ysgafn yn rhan o'i hanfod fel y mynegodd flynyddoedd yn ddiweddarach wrth edrych yn ôl ar ei gyrfa,

Dwi'n lico tipyn o eli i'r galon, chi'n gwybod, ynghanol problemau bywyd, ma rheini ar eich pen chi fel cwmwl, a ma'n dda cael dihangfa ambell waith dwi'n meddwl... a phrydferthwch chi'n gwybod, a rhywbeth creadigol, dwi'n meddwl bod lle i rywbeth fel 'na.<sup>32</sup>

<sup>27</sup> BBC Genome, *Cefndir*, 24 Tachwedd 1957 <<https://genome.ch.bbc.co.uk/18befd831b33448980f2f47378b1b34a>> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2020].

<sup>28</sup> T. Glynne Davies (1926-1988). Bu John Ormond yn ei gynorthwyo ar y rhaglen gyntaf, ac yna disodlwyd Ormond gan Wynford Jones o'r ail raglen hyd at ddiwedd 1958. Davies fu wrth y llyw yn llwyr wedi hynny. Am fwy o wybodaeth gweler: BBC, *Cymru Bywyd*, T. Glynne Davies, <[http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/pobl/tudalen/t\\_glynne\\_davies.shtml](http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/pobl/tudalen/t_glynne_davies.shtml)> [cyrchwyd 18 Ionawr 2021].

<sup>29</sup> 'Gwyllo a Gwranddo efo Meic', *Y Cymro*, 20 Ebrill 1961, t. 3.

<sup>30</sup> *ibid.*

<sup>31</sup> *Llunydda*, 22 Mawrth 1981, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>32</sup> *Heddiw Ddoe I*, 17 Ebrill 1961, Archif BBC Cymru Wales.

Caiff ei hagwedd at fywyd ei wireddu ar y sgrîn ym mlynnyddoedd cynnar y gyfres *Heddiw*, tra bu hi'n olygydd, ac fel nododd Geraint Stanley Jones oedd yn gywyfarwyddwr yn ystod y cyfnod cynnar hwn, 'Ni fwriadwyd i *Heddiw* fod yn rhaglen newyddion fel y cyfryw. Er ei bod yn cael ei darlledu'n ddyddiol, yr oedd y rhai ohonom oedd yn gweithio arni – ac yn enwedig ein golygydd cyntaf, Nan Davies – yn gwarchod ein rhyddid 'creadigol' yn rhy gryf i fentro i faes newyddion cyfyngedig'.<sup>33</sup> Fel tystiodd, un o staff ifanc arall y gyfres, William Aaron, ychydig iawn o ymwneud a wnaï Davies gyda'r deunydd caled, yr elfen gylchgrawn oedd yn mynd â'i bryd.<sup>34</sup> Pan ymunodd ef â thîm *Heddiw* roedd newydd raddio mewn Saesneg o Brifysgol Rhydychen – daeth y cyfle iddo pan ddigwyddodd ei fam gyfarfod â Nan Davies ar y prom yn Aberystwyth, ac fe gynigodd hithau swydd iddo. Dyna sut roedd hi'n gweithredu yn ôl Aaron, tueddai i wneud cyswllt gyda phlant pobl amlwg yr oedd yn eu hadnabod. Yn nhyb Arwel Ellis Owen, a ymunodd gyda'r tîm yn ddiweddarach, (a chael ei gyfweld gan John Roberts Williams a Geraint Stanley Jones oedd yn gynhyrchwyr ar y gyfres):

Nid oedd yn ddigon i chi fod yn gyflwynydd da, rhaid i chi fod yn ddyn da... roedd [Nan] eisiau gwybod am eich diddordebau chi, lle oeddech chi wedi bod, beth oedd eich dylanwadau chi ac yn y blaen.<sup>35</sup>

Ar dîm cynhyrchu *Heddiw* yn ystod y cyfnod cynnar hwn roedd mab Iorwerth Peate, un o sylfaenwyr Sain Ffagan, sef Dafydd Peate a weithiai fel cyfarwyddwr, a mab Syr Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd Urdd Gobaith Cymru, oedd Owen Edwards a ddaeth yn brif gyflwynydd y gyfres yn ddiweddarach. Tad William Aaron oedd Richard I. Aaron, Athro Athroniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dengys yr arfer hwn absenoldeb proses recriwtio gydnabyddedig, arfer allai arwain at ddiffyg amrywiaeth o ran cyfansoddiad aelodau o dîm cynhyrchu, ac o bosib at wraidd cyhuddiadau ar lawr gwlad o neigaredd y cyfryngau cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.<sup>36</sup>

---

<sup>33</sup> Geraint Stanley Jones, dyfynnwyd yn *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams*, golygydd gan Nan Elis a Gwenno Ffrancon, (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2006), t. 94.

<sup>34</sup> William Aaron, cyfweliad gyda'r awdur Gorffennaf 2016.

<sup>35</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Arwel Ellis Owen, 10 Mehefin 2021.

<sup>36</sup> Un o'r rhai fu'n llafar am neigaredd siaradwyr Cymraeg oedd y cyfarwyddwr ffilm Karl Francis, gan gyfeirio yn benodol at y diwydiant cyfryngau. Gweler y cyfweliad am ei ddrama *Bedwas Boy Mandela* (2012) yn Martin Shipton, 'Murdered Cardiff prostitute Lynette White appears as an angel in new play', *Wales Online*, 29 Hydref 2012.

<<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/murdered-cardiff-prostitute-lynette-white-2023006>> [cyrchwyd 7 Gorffennaf 2021].

Treuliodd Aaron gyfnod byr yng Nghaerdydd gyda'r tîm cyn iddo gael ei adleoli i Lundain. Wrth edrych yn ôl ar ei gyfnod, disgrifiodd Aaron ei hun fel rhyw fath o ymchwilydd, er ni chyfeiriwyd ato yn y modd hwnnw ar y pryd, a'i dasg oedd dod o hyd i gynnwys fuasai'n creu un eitem yr wythnos ar gyfer *Heddiw*. Ni fyddai'n darparu cynnwys ar leoliad o Lundain, eitem ar ffurf sgwrs stiwdio fuasai hi bob tro, a hynny o stiwdio fechan o dan eglwys gyferbyn â Broadcasting House. Y nod oedd canfod Cymro neu Gymraes i gyfrannu oedd yn gwneud swydd ddiddorol neu ag awdurdod i fedru siarad am ddigwyddiad o bwys, er enghraifft arddangosfa neu sioe. Roedd Llundain ar y pryd yn fwrlwm o weithgareddau Cymraeg, er enghraifft roedd yna ddawns bob nos Sadwrn yn y ganolfan i Gymry Llundain ar Gray's Inn Road, achlysur a ddenai Gymry o dde ddwyrain Lloegr yn ogystal ag o'r brif ddinas ei hun.<sup>37</sup> Gellid ystyried y chwedegau fel ffanffer olaf 'arweinyddiaeth Cymry Llundain' gan i Gaerdydd ddechrau 'edrych yn ystyrllon fel prifddinas', ac yn ystod y degawd dilynol daeth i ddisodli Llundain fel cyrchfan o ddewis i nifer o bobl ifainc yr ardaloedd gwledig Cymraeg.<sup>38</sup>

Enghraifft o'r math o eitem a ddarledwyd o Lundain oedd eitem stiwdio ar *Heddiw* ym mis Medi 1961 pan ddaeth dau ŵr, Emrys Walters a Sarjant Jenkins, i siarad am heddlua yn y brifddinas, a hynny ar ddiwedd wythnos a welodd eitemau ar Gyngres yr Undebau Llafur, Gŵyl Gelfyddyd Caeredin a sgwrs am athroniaeth yn cael eu darlledu o stiwdios yn Southampton, Caeredin a Manceinion. Defnyddiwyd stiwdio Manceinion yn fynych gan nad oedd cyfleuster stiwdio deledu yng ngogledd Cymru, gyda Harri Gwynn yn cyfweld unigolion a deithiai yno o ogledd Cymru, fel y ddau athronydd a gafodd eu cyfweld yn dilyn Ysgol Haf Athronwyr Cymru a gynhaliwyd ym Mangor.<sup>39</sup> Mae'r amrediad o bynciau yn darlunio ymhellach anian y gyfres yn ystod y cyfnod cynnar hwn ac yn amlygu sut y medrai Davies fanteisio ar stiwdios y BBC ar draws Prydain i ddarparu cyfraniadau gan Gymry y tu hwnt i Glawdd Offa gan gynnig arlwy na chyfyngid i Gymru.

Roedd llawer o ddiddordeb gan bobl y tu allan i Gymru yn *Heddiw* fel nododd Aaron, gan mai hon oedd y rhaglen Gymraeg gyntaf i gael ei darlledu y tu hwnt i Gymru yn gyson, fe'i gosodwyd hefyd ar amser darlledu parchus (13.05 neu 13.10)

<sup>37</sup> Cyfweliad yr awdur gyda William Aaron, Gorffennaf 2016.

<sup>38</sup> John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin Press, 1990), t. 642.

<sup>39</sup> 'Gwyllyo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 14 Medi 1961, t. 3.

o'i gymharu â rhaglenni Cymraeg eraill y Gorfforaeth oedd yn darlledu yn hwyr y nos. Nododd ymhellach fod y gyllideb ar gyfer y rhaglen yn hynod o dynn sef £10 y rhaglen, gyda Davies yn arbenigwraig ar gadw costau'n isel, gan fanteisio ar rwydwaith o bobl a fedrai wneud gwaith iddi yn rhad ac am ddim, er enghraifft gwaith camera yn Llundain, a hynny gan unigolion oedd yn ysu am gael troed yn nrws y diwydiant cyfryngol.<sup>40</sup>

Wedi i Aaron dreulio llai na blwyddyn yn Llundain, roedd yn falch o gael ei ad-leoli at y tîm yng Nghaerdydd, a daeth cyfle iddo weithio ochr yn ochr â'r cyfarwyddwyr Geraint Stanley Jones a Dafydd Peate, y cynhyrchydd a chyfarwyddwr Jack Williams ac Ifor Rees oedd yn gynhyrchydd a chyflwynydd. Ar y staff hefyd yr oedd aelodau benywaidd yn ysgrifenyddesau, megis Mair Lloyd (nee Jones) ac Elizabeth Cameron. Fel ysgrifenyddesau i'r pwll ysgrifenyddol y penodwyd y ddwy yn wreiddiol cyn iddynt symud ymlaen i weithio ar raglenni penodol. Wrth fwrw golwg yn ôl ar eu gyrfaedd, mynegodd y ddwy faint eu parch at Nan Davies a'u gwerthfawrogiad o'i rôl fel pennaeth a neilltuai ei hamser i feithrin pobl ifanc fel Aaron ac Owen Edwards.<sup>41</sup> Ar gychwyn y chwedegau ymddengys y bu prinder ysgrifenyddesau yn y BBC yng Nghaerdydd, a chafodd pennaeth y pwll ysgrifenyddol Mag Watkins, a hanai o Dregaron, berswâd ar Elizabeth Cameron, un arall o drigolion y dref honno, i ymgymryd â swydd fel ysgrifenyddes.<sup>42</sup> Cafodd gyfle i weithio ar *Heddiw*, gan ddod yn rhan o griw clos gyda Nan Davies yn 'edrych ar eu holau fel criw ifanc'.<sup>43</sup> Roedd Cameron eisoes yn adnabod Davies cyn iddi gychwyn gweithio ar *Heddiw*, gan bod y ddwy yn dod yn wreiddiol o Dregaron, a chanddi gof plentyn o Davies yn cynnal Aelwyd yr Urdd yn y dre ddiwedd y pedwardegau pan gafodd ysbaid o'i gwaith darlledu. Yn ôl Cameron, gwerthfawrogi Davies ofynion trwm ac ailadroddus gwaith ar raglenni ddyddiol a rhoddai gyfle i fenywod fel hi i fynd ar leoliadau ffilmio, er enghraifft i Gernyw ac i Eisteddfod Genedlaethol Llandudno (1963), er mwyn cael ysbaid o'r swyddfa. Derbyniodd Lloyd yr un math o gyfleoedd, ac mae'n ddiddorol mai yn nhermau 'cyfleoedd' mae hithau a Cameron yn disgrifio'r profiadau a gynigiwyd iddynt. O edrych ar amrediad y tasgau a roddwyd iddynt, roedd cryn bwysau ar eu

---

<sup>40</sup> Cyfweliad yr awdur gyda William Aaron.

<sup>41</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Elizabeth Cameron, Mai 2016; cyfweliad yr awdur gyda Mair Lloyd, Mehefin 2016.

<sup>42</sup> *ibid.*, Elizabeth Cameron.

<sup>43</sup> *ibid.*, Mai 2016. Roedd hyn yn ystod cyfnod byrlymus gyda Dai Williams yn ddiwyd gyda'r canu a Bessie Williams gyda gweithgareddau dawnio. Nododd Cameron mai yn llaw Davies y gwelodd beiro yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

hysgwyddau. Er enghraifft cyn cychwyn darlledu *Heddiw*, cafodd Lloyd fynd ar leoliad i Rydlewis i ffilmio'r rhaglen *Prynhawn o Fai* (1960) gyda Nan Davies, ac aros yng ngwesty'r Emlyn Arms, Castellnewydd Emlyn dros gyfnod y ffilmio.<sup>44</sup> Roedd wedi ymuno gyda'r BBC wedi iddi ysgrifennu llythyr yn gofyn am waith, ac fe'i penodwyd i'r pwl ysgrifenyddol yn 1957, cyn ei dyrchafu'n hwyrach yn ysgrifenyddes i Davies. Roedd wedi derbyn hyfforddiant fel ysgrifenyddes yng Ngoleg St Godric's Llundain, a thybiai y buasai gweithio fel ysgrifenyddes i'r BBC yn fwy diddorol nag i gwmnïau eraill. Fe'i magwyd ym Mhonrhydfendigaid, nepell o Dregaron, yn swm y radio, a chai flas yn ei harddegau ar gyfresi fel *S.O.S. Galw Gari Tryfan*. Gellid disgrifio elfennau o'r gwaith a wnaed ganddi yn ystod ei hamser yn y swyddfa fel gwaith ymchwilydd, gan gysylltu gyda phobl amlwg yng Nghymru er mwyn trefnu iddynt gymryd rhan mewn rhaglenni fel *Heddiw*, ond nid oedd y gwaith yma wedi ei ddiffino fel swydd ymchwilydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Ar leoliad buasai'n gweithredu fel cynorthwy-ydd cynhyrchu, fel y gwnaei Cameron, ac mae'n amlwg bod natur swydd y ddwy yn ehangu y tu hwnt i ddyletswyddau ysgrifenyddol. Caiff hyn ei amlygu yn y disgrifiad swydd ar gyfer cynorthwy-ydd cynhyrchu o fewn y BBC yn ystod y cyfnod hwn:

Production assistants' duties were diverse. Under the broad heading of "assisting the producer or director in the planning, execution and accounting associated with a programme", PAs were expected to be a central hub for communication throughout a programme's production. They were also expected to provide a "high class secretarial service" to their senior colleagues.<sup>45</sup>

Mae ieithwedd y disgrifiad swydd drwyddi draw yn amlygu gogwydd rhywedd, gyda deiliad y swydd yn cael ei chyfeirio ati mewn termau benywaidd *her* a *she*, a'r cyfarwyddwr neu'r cynhyrchydd fel *he*.<sup>46</sup> Yn aml ar leoliad, y cynorthwy-ydd cynhyrchu fuasai'r unig aelod benywaidd o'r criw, a chyfeiriwyd at y PA's yn fynych fel y 'sweetie girls' gan bod ganddynt stoc o losin wrth-law i gadw'r criw yn hapus. Mae'r term a'i oblygiadau o ofal yn un annwyl ond yn un dibrisiol ar yr un

<sup>44</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Mair Lloyd. BBC Genome, *Prynhawn o Fai*, 19 Mehefin 1960, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ab6234b58d0d4712bb717ab161db55cd>> [cyrchwyd 11 Awst 2021].

<sup>45</sup> How Television Used to be Made, ADAPT: Researching the history of television production technology, *Television Producers' Assistants: Job Description*, <<https://www.adapttvhistory.org.uk/stories/objects/television-producers-assistants-job-description/>> [cyrchwyd 13 Gorffennaf 2021].

<sup>46</sup> *ibid.*

pryd gan ei fod yn cuddio dyfeisgarwch ac amrediad eu sgiliau, ac yn crisialu agwedd y sefydliad tuag atynt.<sup>47</sup>

Roedd Nan Davies yn eithriad felly ymhlith staff y BBC fel cynhyrchydd a golygydd benywaidd. Fe'i disgrifiwyd gan Lloyd fel menyw ddiwyd a gweithgar ac os oedd rhaglen yn darlledu yn hwyr y nos, buasai Nan Davies yno fore trannoeth yn y gwaith fel arfer, ac roedd disgwyl iddi hithau fod hefyd.<sup>48</sup> Parhaodd Cameron i weithio i'r BBC trwy gydol ei gyrfa gan ei dyrchafu yn ysgrifenyddes bersonol i Geraint Stanley Jones, y cyfarfu ag ef gyntaf yn ystod cyfnod *Heddiw*. Dewis gadael y BBC wnaeth Mair Lloyd yn 1963, flwyddyn wedi iddi briodi, gan symud gyda'i gŵr i Beulah, Castellnewydd Emlyn pan gynigiwyd iddo swydd prifathro. Wrth gofio'r cyfnod, nododd Lloyd y buasai wedi aros yn ei chyflogaeth gyda'r BBC petai hi wedi aros yn ardal Caerdydd gan ei bod wrth ei bodd yn ei gwaith. O ddychwelyd i'r gorllewin canfu nad oedd swyddi ysgrifenyddol diddorol yn yr ardal, felly, wedi iddi fagu ei dwy merch, penderfynodd ddychwelyd at addysg a hyfforddi fel athrawes, gan ei dyrchafu'n brifathrawes yn Nhrewyddel lle gwasanaethodd tan ei hymddeoliad. Dengys y penderfyniad hwn iddi flaenoriaethu ei dyletswyddau fel mam cyn neilltuo amser i'w datblygiad proffesiynol a'i gyrfa.<sup>49</sup>

Yn wahanol i Cameron a Lloyd, y cam nesaf naturiol i William Aaron yn y gweithle oedd hyfforddi fel cyfarwyddwr. Mae'r dosraniad swyddi a ddisgrifiwyd ar gyfer aelodau benywaidd tîm *Heddiw* a'r aelodau gwrywaidd yn cyd-fynd gyda chanfyddiadau bod dynion yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu penodi i swyddi lle roedd potensial ar gyfer dringo yr ysgol yrfaol, yn wahanol i fenywod a benodwyd i swyddi a'u hamddifadai o bŵer.<sup>50</sup> Ymddangosai swyddi crefft a chynhyrchu tu hwnt iddynt, sef swyddi a gynigai botensial ar gyfer datblygiad pellach a chyfle i ddylanwadu ar gynnwys a phenderfyniadau.<sup>51</sup> Derbyniodd Aaron hyfforddiant gan Jack Williams oedd yng ngofal stiwdio *Heddiw*, cyn mynd allan i gyfarwyddo eitemau ar leoliad. Mae'n cofio treulio wythnos yn paratoi pedair o eitemau o ogledd

---

<sup>47</sup> How Television Used to be Made, ADAPT, *Alex Branson: Production Assistant*, <<https://www.adapttvhistory.org.uk/16mm/crew-profiles/alex-branson/>> [cyrchwyd 13 Gorffennaf 2021].

<sup>48</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Mair Lloyd.

<sup>49</sup> *ibid.*

<sup>50</sup> Carolyn M. Byerly, 'Women and the concentration of media ownership' yn Raomna R. Rush, Carol E. Oukrop, Pamela J. Creedon (goln.), *Seeking Equity for Women in Journalism and Mass Communication Education* (Mahwah: NJ: Lawrence Erlbaum Associates, 2004), tt. 245-73.

<sup>51</sup> *Patterns of Discrimination Against Women in the Film and Television Industries* (Llundain: ACTT, 1975).

Cymru cyn treulio wythnos yn eu ffilmio gan ddarparu pedair eitem ar leoliad, ac yna wythnos yn golygu, sy'n egluro sut y rheolwyd ac y trefnwyd y gwaith. Cafodd hefyd gyfle i deithio i Lydaw gydag Owen Edwards i greu portread o bentref gwledig ar thema di-boblogi.<sup>52</sup> Erbyn i Aaron adael tîm *Heddiw* yn 1965 i deithio'r byd, y newyddiadurwr John Roberts Williams oedd wrth y llyw, a chafodd ei gyflogi ganddo i gynnig eitemau i'r rhaglen yn ystod ei deithiau.<sup>53</sup>

Mae'n ddiddorol cymharu cyfansoddiad tîm *Heddiw* a rôl Nan Davies fel cynhyrchydd, ac yna fel golygydd y gyfres gyda strwythur staff rhaglenni ffeithiol a newyddion rhwydwaith y BBC dan arweiniad Grace Wyndham Goldie. Cyfeiriwyd at y criw a weithiai iddi fel y 'Goldie Boys', sy'n amlygu prinder menywod mewn darpariaeth ffeithiol yr ymwnai Goldie ag ef, 'there were no girls among Children of Grace'.<sup>54</sup> Deilliodd y term *Goldie Boys* o deitl erthygl yn *The New Statesman* yn 1973 ac fe'i defnyddiwyd eilwaith yn yr *Evening Standard* yn 1977, a'r honiad yn yr erthygl gyntaf oedd i *the first lady of television* unwaith nodi,<sup>55</sup> 'I don't want too many women on my staff – they burst into tears. It is a tiresome thing that women do'.<sup>56</sup> Mae'r gosodiad hwn yn atseinio y duedd amlwg yn y broses recriwtio y cyfeiriwyd ati yn y bennod flaenorol, a thebyg oedd y patrwm staffio ar dîm *Heddiw* gyda Nan Davies wrth y llyw – dynion oeddent i gyd ag eithrio'r ysgrifenyddesau. Eglurodd Arwel Ellis Owen a ddaeth yn rhan o dîm *Heddiw*, bod Davies, fel y gellid tybied am Goldie, yn fenyw gref ac yr oedd gofyn iddi fod felly i fedru cystadlu mewn gweithle oedd yn cael ei redeg gan ddynion. Llwyddodd y ddwy i gyrraedd y pinacl golygyddol ar y pryd, a choleddent farn a ddeilliai o brofiad bywyd, 'roedden nhw

---

<sup>52</sup> Mae motif y pentref gwledig yn ymddangos yng ngwaith Davies a chaiff ei drafod yn ail ran y bennod hon, sef *Prynhawn o Fai* (1960), *Y Tir Di-dal/Uncertain Harvest* (1968) a'r rhaglenni o Batagonia (1962, 1965).

<sup>53</sup> John Roberts Williams 1914-2004. Golygydd *Y Cymro* rhwng 1945 ac 1962. Bu'n bennaeth newyddion gyda'r cwmni masnachol byrhoedlog Teledu Cymru rhwng 1962 ac 1963, cyn ymuno â'r BBC a thîm *Heddiw*. Cynhyrchodd *Yr Etifeddiaeth / The Heritage* (1949), yr ail ffilm iaith Gymraeg i'w chreu. Ym 1970 fe'i penodwyd yn bennaeth Adran Gogledd Cymru y BBC tan ei ymddeoliad ym 1976. Daeth ei lais yn enwog i wrandawyr radio yng Nghymru yn ei 'golofn' wythnosol *Dros fy Sbeclol*, a chyhoeddwyd saith casgliad o'i sgyrsiau rhwng 1984 a 2003. Cyhoeddodd ei hunangofiant *Yr Eiddoch yn Gywir* yn 1990, sy'n darparu cip ar y cyfryngau yng Nghymru. Gweler teyrnged iddo: Meic Stephens, 'John Roberts Williams: Longtime editor of 'Y Cymro' and pioneer of Welsh cinema', *Independent*, 9 Hydref 2011.

<<https://www.independent.co.uk/news/obituaries/john-roberts-williams-545471.html>> [cyrchwyd 5 Tachwedd 2020]. Gweler: *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams*, golygydd gan Nan Elis a Gwenno Ffrancon (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2006). I William Aaron, wedi i'r teithio ddod i ben dychwelodd i weithio i BBC Cymru am gyfnod cyn symud i Lundain i weithio ar raglen newyddion y BBC *Twenty-Four Hours* (1965-1972).

<sup>54</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Competition*, Cyfrol V, t. 393 (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1970).

<sup>55</sup> Tise Vahimagi i BFI Screenonline, *Goldie, Grace Wyndham (1900-1986)*,

<<http://www.screenonline.org.uk/people/id/1401847/index.html>> [cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020].

<sup>56</sup> Dyfynwyd yn Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom cyfrol V*, t. 393, tn. 62.

wedi gorfod cwfio eu ffordd i'r top, roedden nhw'n benderfynol wedyn bod na safonau da, bod unigolion â'r egwyddorion iawn, roedd 'na elfen gref o burdeb'.<sup>57</sup>

Roedd gwreiddiau Goldie, fel Davies ym myd radio, yn gyntaf fel beirniad radio a teledu yn y tridegau cyn ei phenodi yn gynhyrhydd *Talks (Sound)* ddegawd yn ddiweddarach.<sup>58</sup> Er hyn synhwyrail Goldie yn ystod cyfnod arbrofol teledu cyn yr Ail Ryfel Byd, yn wahanol i'w chydweithwyr, bod yna botensial i'r cyfrwng gweledol, '...as soon as I heard of the possible development of television I knew that radio would be eclipsed, and that television would become not of national but of world-wide importance.'<sup>59</sup> Wedi i'r gwasanaeth teledu ail-gychwyn yn 1946 nododd drachefn, 'television is a bomb about to burst'.<sup>60</sup> Sylweddolai bosibiliadau y cyfrwng yng nghyd-destun democratiaeth:

What could sight add to [sound in] political communication? Vision was more concrete than sound; words were better suited than vision to conveying ideas. But could not the very concreteness of vision increase understanding of the actual world if it could be added to words? And was it not possible that vision could convey truths which words disguised? <sup>61</sup>

Aeth ati o ddifrif i ymaflyd â'r her o gyfleu cyfathrebu gwleidyddol ar sgrîn gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfrwng gweledol i ennyn diddordeb gwylwyr mewn gwleidyddiaeth.<sup>62</sup> Roedd ei brwdfrydedd dros y cyfrwng yn allweddol i ddatblygiad darlledu gwleidyddol, ac ar anogaeth menyw arall sef Mary Adams,<sup>63</sup> pennaeth *Television Talks* ar y pryd, aeth ati'n fwriadol i weddnewid y modd y cai canlyniadau eu darlledu ar noson etholiad.<sup>64</sup>

---

<sup>57</sup> Cyfweiliad yr awdur gydag Arwel Ellis Owen, Mehefin 2021.

<sup>58</sup> Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom*, cyfrol V, t. 215.

<sup>59</sup> Goldie, *Facing the Nation: Television & Politics, 1936-77*, t. 13.

<sup>60</sup> Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom*, cyfrol V, t. 159.

<sup>61</sup> Goldie, *Facing the Nation: Television & Politics, 1936-77*, tt. 56-57.

<sup>62</sup> Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom*, cyfrol V, t. 665.

<sup>63</sup> ibid. Mary Adams (1898-1984). Gweler Kate Murphy, *About the BBC Blog: Mary Adams, first woman television producer at the BBC* (2016), <<https://www.bbc.co.uk/blogs/aboutthebbc/entries/68cc5f84-700f-421e-a6ab-22df2d58b006>> [cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

<sup>64</sup> Grace Wyndham Goldie, *Facing the Nation: Television and Politics, 1936-76*, tt. 62-67. Hyd at 1950 ar y radio yn unig yr oedd y BBC wedi darlledu canlyniadau etholiad. Ar noson etholiad y 23 Chwefror 1950 aeth Goldie ati i greu rhaglen aeth ar yr awyr am 10.45pm ac oddi ar yr awyr am 2.00am, gan gyflwyno rhai o'r nodweddion yr ydym yn gyfarwydd â hwy heddiw mewn darllediad ar noson etholiad. Cafwyd yn eu plith, er enghraifft, arbenigwr *in vision* gyda chyflwynydd yn y stiwdio, cysylltiad gydag uned allanol, a defnydd o dechnegau gweledol i gyfleu gwybodaeth (e.e. diagramau). Gweler Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Sound and Vision*, Cyfrol IV, t. 608; John Grist, *Grace Wyndham Goldie: The First Lady of Television* (Llundain: New Generation Publishing, 2006), tt. 75-77.



Yr oedd nod Nan Davies ychydig yn wahanol. Roedd yn driw i her Hywel Davies o sicrhau arlwy safonol ar ffurf rhaglen deledu ddyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fanteisio ar ei rheolaeth o'r cyfrwng i gyfleu ffordd Gymreig a gwledig o fyw oedd yn prysur ddiflannu. Enghraifft o gynnyrch o'r fath oedd eitem a ddarllledwyd ar 4 Gorffennaf 1962, ac a leisiwyd ganddi, am yr hen arfer o dorri mawn ym mro ei mebyd. Mae nodiadau'r rhaglen yn Archif BBC Cymru yn ei disgrifio fel a ganlyn, 'Nan Davies narrates report on peat cutting in Cors Caron, Tregaron describing process as carried out by locals Tom Jones and Stephen Owen'.<sup>65</sup>

Eitem arall wledig ei natur a ddarllledwyd ar *Heddiw* oedd Teulu'r Cilie – Y Fedel.<sup>66</sup> Gofynnodd Nan Davies fel golygydd, i deulu fferm Y Cilie, Cwm Tydu a'u cymdogion i ail-greu'r arferion cynaeafu a gofiai hi fel plentyn.<sup>67</sup> Mae yma adlais o arloeswr cynnar y genre dogfen, Flaherty, a fynnai roi ar gof a chadw seliwloid arferion cenedlaethau a fu.<sup>68</sup> Yn eitem Davies caiff arferion y gorffennol eu hail-greugan y genhedlaeth gyfredol, a'u cyfosod ochr yn ochr â'r presennol trwy gyfrwng naratif clir sy'n cychwyn gyda'r presennol. Yn agoriad yr eitem, gwelir dau fachgen ifanc yn neidio ar dractor a threlar a mynd ati i gynaeafu'r llafur. Yn eu gwyllo wrth bwysu ar wal gerrig mae hen ŵr, sef Dafydd Jones – y bardd Isfoel, yn hel atgofion. Yn wahanol i waith Flaherty caiff y neges mai arfer o'r gorffennol oedd y dull yma o gynaeafu ei arwyddo'n glir i'r gwylwyr pan ddaw gŵr a dwy wraig heibio iddo wedi eu gwisgo mewn dillad cyfnod, gyda chlociau am draed un o'r gwragedd. Ânt ati i gynaeafu gyda'u pladurau, gan ymuno gyda dynion sydd wedi eu gwisgo mewn dillad o'r un cyfnod sydd eisoes yn gweithio'n y cae. Gwelir un o'r menywod yn clymu'r sypynnau a daw dwy arall yn ymuno â hwy gan gario based o fwyd, te a llieiniau. Mae'n amlwg bod y gweithwyr yn barod am egwyl ac yn falch o'u gweld,

<sup>65</sup> *Heddiw*, 4 Gorffennaf 1962. Archif BBC Cymru Wales. PCA5026P – 10760511.

<sup>66</sup> LLGC, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, *Teulu'r Cilie: Y Fedel*, c. 1961.

<sup>67</sup> Roedd y BBC yng Nghymru eisoes wedi troi at deulu'r Cilie i gynhyrchu rhaglen o sgubor y fferm o dan y teitl *Cynhaeaf y Cilie* a ddarllledwyd ar 9 Hydref 1960. Caiff y rhaglen ei disgrifio fel a ganlyn yn *The Radio Times*, 'Ymweliad A [sic.] fferm y Cilie, ger Llangrannog, i gyfarfod ag aelodau llangar a Hawen [sic. 'llawen'] y teulu adnabyddus hwn.' Caiff T. Llew Jones, Alun Jones (Isfoel) a Tudfor [sic.] Jones eu henwi fel cyfranwyr. Cafodd y rhaglen ei chynhyrchu gan Ifor Rees, ac ni nodir bod Nan Davies yn gysylltiedig â hi. Gellir tybio mai'r 'Tudfor Jones' a enwir yw'r Tydfor Jones a ddaeth i amlygrwydd fel un o banelwyr y gyfres adloniant ysgafn boblogaidd *Penigamp* gyda Marie James, Llangeithio; Cassie Davies a Dic Jones gyda D. Jacob Davies yn ceisio cadw trefn arnynt. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/dfda8a6f15344cf6b2251fe37879bea1>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021]. Caiff y gyfres ei thrafod ym mhennod 6, 'Y Ddarpariaeth i Fenywod: Marion Griffith Williams a Teleri Bevan'.

<sup>68</sup> Robert Flaherty (1884-1951). Enghreifftiau o'i waith: *Nanook of the North* (1922), *Moana* (1926), *Man of Aran* (1934). Gweler ymhellach: Robert J Christopher, Frances Hubbard Flaherty and Robert Joseph Flaherty, *Robert and Frances Flaherty: a Documentary Life, 1883-1922* (Montreal: McGill-Queen's University Press, 2005); Barry Keith Grant a Jeannette Sloniowski, *Documenting the Documentary: Close Readings of Documentary Film and Video*, (Detroit, MI: Wayne State University Press, 2014).

ânt i eistedd a bwyta ac yna mae un yn cynnau pibell, mae'n amlwg nad oes awydd gan yr un ohonynt i ail-gydio yn y gwaith wedi'r gorffwys. Daw'r ffilm i'w therfyn gyda'r hen ŵr yn parhau i bwyso ar y wal, y gweithwyr yn pasio heibio iddo a'u pladurau a'u crymanau ar eu cefnau.

Gwnaed y gwaith camera ar yr eitem hon gan Barrie Thomas, ac mae'n amlwg bod amser wedi ei fuddsoddi yn ansawdd gweledol yr eitem. Mae lleoliad y camera yn amrywio dipyn yn y saethiadau byrion agoriadol sy'n darlunio'r tractor, a hynny er mwyn amlygu symudiad cyflym y peiriant. Mae arddull y saethiadau hwy o'r cynaeafu traddodiadol yn gwrthgyferbynnu'n hyfryd gyda'r agoriad, a chaiff amser ei dreulio yn amlygu symudiad cyson y pladurau a'r rhesi o weithwyr yn cyd-symud. Ceir nifer o saethiadau agos o'r gweithwyr wrth iddynt eistedd i gael bwyd sy'n pwysleisio'r mwyniant a geid o gymdeithasu wrth gymryd ysbaid o'r gwaith. Nid oes sain ar y ffilm, buasai hyn wedi ei ychwanegu ar ffurf sylwebaeth yn hwyrach, ond nodir i T. Llew Jones weithio ar y sgript. Enwir Geraint Stanley Jones yn ogystal, ac er na nodir ei swyddogaeth gellir tybio mai cyfarwyddo'r eitem ydoedd ac mae atgofion William Aaron am ei gydweithwr yn cadarnhau hyn.<sup>69</sup>

Llwyddwyd i wireddu bwriad Nan Davies, ac mae'r modd mae'r ffilm yn pwysleisio'r elfen gymdeithasol rhwng y dynion a'r gwagedd yn amlygu bod rhywbeth yn cael ei golli gyda hwylustod y peiriant, y ceir ond cip ohono ar gychwyn yr eitem. I Davies, a fagwyd mewn ardal wledig amaethyddol, mae'r tensiwn rhwng hwylustod amlwg y peiriant a swyn arferion traddodiadol amaethyddol yn cael eu cyfod ar sgrîn, ac yn atsain o'r paradocs a welir yn ffilmiau y dogfennwr Humphrey Jennings a fagwyd yn Swydd Suffolk ac a fu'n ddyllanwadol yn ystod y 1930au a'r 1940au.<sup>70</sup> Er nad oes sain ar eitem Davies mae modd y cafodd yr eitem ei chyfarwyddo, a'r saethiadau eu cyfod yn peri bod y gwyliwr yn clywed siffrwd y llafur, ac yn dychmygu dwndwr y tractor yn boddi'r sgwrs rhwng cymdogion. Buasai profiad y cynhaef gwair yn un byw i Davies, gan y dychwelai bob haf at ei theulu i gynorthwyo gyda hynny, ac mae ei nai Gwyn

<sup>69</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda William Aaron, Gorffennaf 2016.

<sup>70</sup> Humphrey Jennings (1907-1950). Ymhlith ei ffilmiau enwocaf mae *English Harvest* (1938), *The Farm* (1938), a *Listen to Britain* (1942), a Jennings oedd cyfarwyddwr y ffilm *The Silent Village* (1943) a dalodd deyrnged i drigolion pentref Lidice yn y Weriniaeth Tsiec drwy ailddychmygu'r digwyddiadau erchyll a hynny ar dir Cymru a'u ffilmio yng Nghwmgiedd. Gweler ymhellach: Keith Beattie, *Humphrey Jennings* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2010); Kevin Jackson, *The Humphrey Jennings Film Reader* (Manceinion: Carcanet, 2004). Gweler trafodaeth benodol ar *The Silent Village* yn Gwenno Ffranco, 'Y Pentref Gwyn ar Ffilm', *Llên Cymru*, 19 (2006), tt.119-36.

Davies, yn cofio amdani'n glir yn teithio nôl i Dregaron mewn ceir atyniadol fel y *Ford Cossaire 2000E*.<sup>71</sup> Gellid honni bod yr eitem hon gan deulu'r Cilie yn sentimental ac yn amlygu hiraeth am gyfnod a fu, ond, fel y nododd Aaron, roedd Davies yn adnabod ei chynulleidfa ac yn deall gwerth *nostalgia*.<sup>72</sup>

Er mai y Gymru draddodiadol oedd ysbrydoliaeth yr eitemau a grybwyllwyd uchod, roedd rhai o'r eitemau a welwyd ar *Heddiw* yn adlewyrchu materion cyfredol ehangach. Ym 1963, ychydig wedi i Wal Berlin gael ei chodi, teithiodd uned ffilm *Heddiw* i'r ddinas ranedig gan sicrhau hawl i ffilmio am ddwy awr yn yr ardal ddwyreiniol oedd o dan reolaeth yr Undeb Sofietaidd. Ifor Rees oedd y cyflwynydd a nododd yntau i'r hawl i ffilmio gael ei hwyluso gan ei gysylltiad gyda'r Fyddin.<sup>73</sup> Derbyniodd gwylwyr yng Nghymru luniau o deuluoedd wedi eu rhannu gan y wal yn codi llaw ar ei gilydd, a delweddau o'r murlun enfawr ym Mharc Treptow yn coffâu ymdrech y Rwsiaid i orchfygu Natsiaeth.<sup>74</sup> Dyma enghraifft o dîm *Heddiw* yn gosod pwysigrwydd ar ohebu newyddion y tu hwnt i Gymru trwy gyfrwng y Gymraeg ac o berspectif Cymreig. Mynegwyd pwysigrwydd hyn gan Davies mewn cyfarfod o Bwyllgor Darlledu Cymru rai blynyddoedd ynghynt, 'We should attempt as far as possible to keep abreast with what is happening in Wales, and also with what is happening outside Wales as far as it affects conditions here'.<sup>75</sup> Mae'n amlwg iddi weld pwysigrwydd mewn gohebu amodau byw yn Berlin ac effaith codi'r wal i gynulleidfa orllewinol. Yr hyn a gyflawnodd Davies a chriw *Heddiw* yn ystod blynyddoedd ffurfiannol y gyfres oedd rhoi cyfle i Gymry Cymraeg weld y byd trwy lygaid Cymreig ac yn eu mam-iaith, a phery y sefyllfa fanteisiol yma yng nghydestun darlledu newyddion yn berthnasol i Gymry Cymraeg yn wahanol i Gymry di-Gymraeg.

Caiff pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ar y cyfrwng teledu ei amlygu gan Nan Davies mewn rhifyn arbennig o *Heddiw* a ddarlledwyd ar 16 Ebrill 1971, er mwyn dathlu degawd o ddarlledu'r gyfres. Cyfeiriwyd at y gyfres gan Owen Edwards, y cyflwynydd a gysylltir yn bennaf â hi, fel 'y rhaglen gylchgrawn ddyddiol gynta yn y

---

<sup>71</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Gwyn Davies, Mai 2016.

<sup>72</sup> Cyfweliad yr awdur gyda William Aaron, Medi 2019.

<sup>73</sup> *Llwyddda*, 22 Mawrth 1981, Archif BBC Cymru, PCGG170F.

<sup>74</sup> *Heddiw*, 1 Gorffennaf 1963, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>75</sup> BBC/WAC: RBCW/54/55 BBC Written Archive Centre RBCW54/55, 'Precis of statement made by Miss Nan Davies, Talks Producer', t. 2.

Gymraeg ar deledu, oedd yn her aruthrol'.<sup>76</sup> Gofynnodd i Davies sut oedd hi'n teimlo o gael ei phenodi i arwain y gyfres:

Hywel Davies wrth gwrs ofynnodd am hyn, o'dd e'n gweld yr angen am raglen fel hyn, a'r hyn o'n i'n awyddus, wa'th o'n i'n teimlo bod y Gymraeg yn ddigon hyblyg ac yn ddigon ystwyth i fedru trin pob pwnc. Y duedd yn Gymraeg yw meddwl mai crefydd, llenyddiaeth, amaethyddiaeth a'r pynciau sy'n Gymraeg chi'n gw'bod, wel dwi'n credu y cytunwch chi Owen bod ni wedi trin tipyn o bopeth a o'dd y byd i gyd yn agored i ni yn Gymraeg yn oedd?<sup>77</sup>

Ganol yr 1950au cafodd Davies ei gwahodd i siarad am ei gwaith mewn cyfarfod o Bwyllgor Darlledu Cymru, ac wedi mynegi gofid staff y *Talks Department* yng Nghymru nad oedd digon o arbenigwyr cyfrwng Cymraeg mewn meysydd llai traddodiadol fel gwyddoniaeth, a bu'n amhosib hyd at hynny i gynhyrchu cyfres wyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg:

We are not yet confident that we have sufficient speakers who could present scientific material competently and interestingly in the Welsh language for such a series. We still hope that a scheme may be evolved some time in the future to trace such speakers.<sup>78</sup>

Gellid dadlau i *Heddiw* bum mlynedd yn ddiweddarach wireddu'r cynllun hwnnw, gan fod angen cyfranwyr cyson ar raglen ddyddiol i egluro pynciau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel cynhyrchydd, gŵyr awdur y traethawd hwn sut y gall arfer cyson o siarad am bwnc ar radio neu deledu fagu hyder unigolion i fynegi eu hunain yn gyhoeddus ar bwnc penodol, ac yn sgil hynny ddatblygu yn gyfranwyr cyson ac yn arbenigwyr y gellir dibynnu arnynt i gyflenwi deunydd ar fyr-rybudd, sef cyddestun rhaglen ddyddiol. Yn y sector darlledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, gall cynhyrchydd hefyd deimlo dyletswydd i feithrin to o arbenigwyr all gyfathrebu amrediad o bynciau yn y Gymraeg, er nad yw'r unigolion hynny o angenrheidrwydd yn ymwneud â'u maes o ddydd i ddydd trwy gyfrwng y Gymraeg. O ystyried nod Hywel Davies o brofi dichonoldeb rhaglen deledu ddyddiol trwy

<sup>76</sup> *Heddiw*, 16 Ebrill 1971, Archif BBC Cymru, BWD111897.

<sup>77</sup> *ibid.*

<sup>78</sup> BBC Written Archive Centre, Caversham, RBCW54/55, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 'Precis of statement made by Miss Nan Davies, Talks Producer', t. 3.

gyfrwng y Gymraeg ar drothwy Adroddiad Pilkington, gellid dychmygu i Nan Davies brofi'r dyletswydd hwn sy'n darlunio cyfrifoldeb y tu hwnt i ddarlledu cyhoeddus yn unig, cyfrifoldeb a gysylltai â datblygiad yr iaith Gymraeg yn uniongyrchol.<sup>79</sup> Un o ohebwy'r cyson materion gwyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y wasg ar y pryd oedd Eirwen Gwynn, ond nid yw ei henw'n ymddangos rhyw lawer ar eitemau *Heddiw*. Efallai am fod ei gŵr Harri Gwynn yn un o dîm cyflwyno'r gyfres, ni theimlwyd ei fod yn briodol gofyn iddi gyfrannu'n gyson.

Roedd darparu eitemau celfyddydol yn dasg dipyn haws i griw *Heddiw*, ac ym mlwyddyn gyntaf darlledu'r gyfres darlledwyd o bedair gŵyl genedlaethol sef Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru. Fel gwyddys awdur y traethawd hwn, mae darlledu o ddigwyddiadau o'r fath yn cynnig cyfoeth o ddeunydd ar blât, ac yn darparu profiad unigryw i'w groesawu i ddarlledwyr ar ôl misoedd o ddiwydrwydd a chwilio dyfal am ddeunydd ar gyfer diwallu awch rhaglen ddyddiol. Mae'r digwyddiadau a gaiff eu henwi uchod yn achlysuron sy'n tynnu pobl o bob cwr o Gymru at ei gilydd fel yr eglurodd John Roberts Williams:

Un o dasgau blynyddol mawr *Heddiw* fyddai teledu'r holl raglenni o'r Brifwyl – y troeon cyntaf i hyn ddigwydd. Ar wahân i deledu Wimbledon dyma un o delediadau allanol mwya'r BBC yn y cyfnod cynnar ac yma fe gasglwyd profiadau a fu'n werthfawr iawn yn nyddiau datblygu gwasanaeth i'r Cymry Cymraeg.<sup>80</sup>

Gellid dadlau bod yr arlwy cyfryngol a ddarparwyd o wyliau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol wedi hyrwyddo'r cysyniad o genedl Gymreig a Chymraeg ers cychwyn eu darlledu.<sup>81</sup> Buasai'r gynulleidfa yn cyfarwyddo â gweld traddodiad llenyddol a cherddorol yn cael ei ddarlunio ar sgrîn ynghyd â diddordebau

<sup>79</sup> Mae'r cyfrifoldeb ar y darlledwyr gan i ddarlledu newyddion dyddiol ddatblygu cyn papur newyddion dyddiol Cymraeg.

<sup>80</sup> *Llais Cenedl*, t. 98. Nododd Williams ymhellach i'r profiad darlledu o'r Eisteddfod Genedlaethol ei alluogi ef a Jones i ddarlledu o'r wyl ryngwladol yn Llangollen 'yn ddi-drafferth, ond yn llai pleserus ar gyfer BBC2.'

<sup>81</sup> Darlledwyd seremoni'r coroni o Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pŵl ar 5 Awst 1924 o orsaf Caerdydd. BBC Genome, 1 Awst 1924, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/c0eec7022a0a4208932a59ca4564a0ad>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2020]. Ar 22 Gorffennaf 1931 y darlledwyd am y tro cyntaf o'r Sioe Frenhinol, sef araith gan Dywysog Cymru pan oedd y sioe ar ymweliad â thref Llanelli, BBC Genome, 17 Gorffennaf 1931, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/8d250b4f8b5c4c3481eb2924a6733350>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2020]. Darlledwyd o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y tro cyntaf o Machynlleth yn 1932, a hynny o orsaf Caerdydd ac ar wasanaeth y National Programme ar 28 Mai 1932, BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/af1c9c86f9f14863824d912b01b8f90e>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2020]. Er i rai sgyrsiau gael eu darlledu am Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ar yr Home Service, ar 17 Mehefin 1948 y darlledwyd oddi yno am y tro cyntaf, a hynny ar wasanaeth y Light Programme, BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/page/8d250b4f8b5c4c3481eb2924a6733350>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2020].

a ffordd o fyw y Gymru wledig. Mae modd perthnasu hyn gyda'r cysyniad y cyfeiriodd yr hanesydd John Davies ato, sef bod Cymru yn 'artefact' wedi ei greu gan ddarlledu. Caiff pwysigrwydd y chwedegau yn y broses honno ei amlygu ganddo gyda sefydlu BBC Cymru Wales yn 1964, yr un flwyddyn ag y crewyd swydd Ysgrifennydd Cymru a sefydlu cynifer o sefydliadau Cymreig, a hyn oll yn digwydd i gefnlen o ymgyrchu cenedlaetholgar.<sup>82</sup>

Ar drothwy'r chwedegau, Aberdâr oedd y lleoliad ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 1961, a darlledwyd dau o rifynnau *Heddiw* oddi yno ar ddyddiau Iau a Gwener, gan ddangos cystadlu o'r llwyfan, goreuon yr ŵyl o'r 'stiwidio ganfas' a ffilmiau perthnasol.<sup>83</sup> Cafwyd rhaglen o dan y teitl *Pigion y Dydd* ar y radio dan ofal Evelyn Williams a James Williams, ac fe'i 'cyflwynwyd yn ddeheuig' gan Teleri Bevan,<sup>84</sup> oedd yn ddewis priodol i gyflwyno o Wyl Ieuentid fwyaf Ewrop, gan ei bod eisoes yn llais cyfarwydd ar *Awr y Plant*.<sup>85</sup> Y digwyddiad nesaf ar y calendr oedd Gŵyl Ryngwladol Llangollen, a bu i *Heddiw* ddarlledu ychydig o eitemau oddi yno, gyda David Bevan a Hywel Davies yn eu cyflwyno.<sup>86</sup> Gelli Aur, Dyffryn Tywi oedd y lleoliad ar gyfer Sioe Frenhinol 1961, a hynny ddwy flynedd cyn i'r Sioe ymgartrefu'n barhaol yn Llanelwedd.<sup>87</sup> Cafwyd eitemau dyddiol o'r sioe ar *Heddiw*, a neilltuwyd rhifyn dydd Iau o'r rhaglen iddi yn llwyr gydag Ifor Rees yng ngofal y rhaglen, a Teleri Bevan yn cyflwyno. Fel y nododd adolygydd teledu a radio *Y Cymro*, '...yr oedd gwaith Teleri Bevan yn cyflwyno rhai o'r eitemau, ac yn sgysio'n gartrefol a deallus gyda ffermwyr a phobl eraill yn gampus. Ysgafn-galon a defnyddiol ydoedd ei sgwrs â'r cigydd Dewi Richards'.<sup>88</sup> O ystyried ei chefnid addysgol a'i gwaith hyd at ei chyflogaeth gyda'r BBC yn 1955, buasai Bevan wedi bod yn ei helpen. Dim ond un cyflwynydd benywaidd arall y cyfeirir ati ym mlwyddyn gyntaf darlledu *Heddiw* sef Lenna Harries, a gaiff ei chanmol gan ohebydd *Y Cymro* am 'holi'n ddi-ffwdan ac yn gwbl naturiol' wraig o'r enw Mrs Margaret Thomas ar dermau Cymraeg cadw tŷ.<sup>89</sup> Mae 'Meic' yn llai canmoliaethus

<sup>82</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 319.

<sup>83</sup> 'Gwyllo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 1 Mehefin 1961, t. 3. Nodwyd mai ffilmiau yn unig a geid gan TWW, hynny yw eitemau wedi eu ffilmio ar leoliad ar hyd a lled maes yr eisteddfod.

<sup>84</sup> *ibid.*

<sup>85</sup> *Y Cymro*, 29 Mehefin 1961, t. 3. Cyfeirir at Bevan yn benodol yn cyflwyno rhaglen gyda detholiadau o recordiau gramaffon, a phwt o gân gan Meredydd Evans.

<sup>86</sup> *Y Cymro*, 20 Gorffennaf 1961, t. 3.

<sup>87</sup> Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, *Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru*, <<http://www.cafc.cymru/y-gymdeithas/>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2020].

<sup>88</sup> 'Gwyllo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 3 Awst 1961, t. 3.

<sup>89</sup> 'Gwyllo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 18 Mehefin 1961, t. 3.

ohoni fis yn ddiweddarach pan y'i gwelwyd yn cyflwyno rhaglen gyfan o *Heddiw* a gysegrwyd i ffasiynau merched, a hynny yn ystod wythnos lle neilltuwyd pwnc penodol i bob dydd. Nododd bod 'angen personoliaeth fwy hyderus' i gynnal rhaglen gyfan, rhywun tebyg i Teleri Bevan neu Myfanwy Howell gan fod 'Lena Harris [sic.] yn dangos gormod o ôl pryder'.<sup>90</sup> Mae'n amlwg o'r eitemau a neilltuwyd i Harries mai swyddogaeth y cyflwynydd benywaidd ar *Heddiw* (ag eithrio cyfraniadau achlysurol Teleri Bevan) oedd darparu cynnwys y tybiwyd ei fod o ddiddordeb i fenywod ac mae hyn yn atsain patrymau oedd i'w canfod yn ystafelloedd newyddion y wasg. Yn draddodiadol nodweddyd cyflogaion y diwydiant newyddiaduraeth gan naws oes a fu, sef dynion hŷn, gwyn, profiadol ond llai addysgedig, a system recriwtio a ffafriai lwybr ysgol brofiad dros drywydd ysgolheictod, 'Traditionally, British journalism has been a male-dominated craft; a stronghold of patriarchy in the cultural sphere, with women relegated to the wifely, otherhood-oriented pages of *Woman's Own* or, in the mainstream media, to 'women's issues' and problem pages.'<sup>91</sup>

Mewn modd traddodiadol y gwelwyd cyfraniad Teleri Bevan o Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru Dyffryn Maelor ym mis Awst 1961, gan iddi gyflwyno ar y cyd â'i gŵr, David Bevan, mewn rhaglen o dan y teitl *Yesterday at the National*.<sup>92</sup> Wyneb newydd *Heddiw* o'r ŵyl oedd Owen Edwards a cheir llun o'r gŵr ifanc yn cael colur yn rhifyn yr wythnos honno o *Y Cymro*, gyda'r pennawd, 'Pawb ar ei Orau' gan ategu, 'Nid y merched sy'n unig yn ymbincio – yn wir hwy sy'n harddu'r dynion weithiau. A chyn mynd ymlaen i gyflwyno HEDDIW ar y teledydd o'r Ŵyl fe ofala Judy Taring o'r BBC, fod Owen Edwards yn edrych ar ei orau'.<sup>93</sup> Caiff Edwards ei ganmol am ei waith cyflwyno er iddo golli ei lais un diwrnod, a chaiff y tîm cyfan eu llongyfarch, am eu 'cyfraniad rhagorol i'r Eisteddfod'.<sup>94</sup> Llwyddwyd i gael eitemau o'r Pafiliwn a recordiad o eitemau eraill, 'ni lynodd y camerau [sic.] yn rhy glos wrth y stiwdio ganfas, ond yn hytrach crwydro'r maes yma ac acw'.<sup>95</sup> Er y clod yma, caiff criw TWW eu canmol am eu hyblygrwydd, gan 'adael i

---

<sup>90</sup> *ibid.*, *Y Cymro*, 27 Gorffennaf 1961, t. 3.

<sup>91</sup> Brian McNair, *News and Journalism in the UK*, 4ydd argraffiad (Llundain: Routledge, 2003), tt. 19-20.

<sup>92</sup> *Y Cymro*, 17 Awst 1961, t. 3. Roedd y BBC wedi rhoi y pâr i gyflwyno gyda'i gilydd yn gynharach y flwyddyn honno mewn rhaglen radio ddwyieithog o dan y teitl *Double Chance / Rhyngom ein Dau*, a feirniadwyd yn hallt gan ohebydd radio a theledu *Y Cymro*, 9 Chwefror 1961, t. 3.

<sup>93</sup> *Y Cymro*, 11 Awst 1961, t. 3.

<sup>94</sup> *ibid.*

<sup>95</sup> *Y Cymro*, 17 Awst 1961, t. 3.

ddigwyddiadau'r dydd liwio a llywio cynnwys eu rhaglenni', sy'n awgrymu arlwy llai haearnaidd.<sup>96</sup>

Roedd *Y Cymro* yn rhoi sylw mynych i deulu Owen Edwards ac i fudiad Urdd Gobaith Cymru. Ar gychwyn 1961, pennawd dalen flaen *Y Cymro*, oedd 'Y mab yn dilyn llwybr y tad i helpu'r Urdd', a chafodd y gŵr ifanc ei ganmol am 'ymddeol' o'i swydd gyda'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn neilltuo 'y rhan helaethaf o'i amser o hyn ymlaen i hybu'r mudiad ieuenctid'.<sup>97</sup> Cafodd hanes ei briodas â Shan Emlyn ei gohebu dair blynedd ynghynt gyda nifer o luniau,<sup>98</sup> felly, er bod Edwards yn enw newydd ar y rhaglen ddyddiol, nid oedd yn enw anghyfarwydd. Nid oedd ychwaith yn wyneb dieithr ar y sgrîn fach gan iddo gyflwyno rhai rhaglenni yn y gyfres *Dewch i Mewn* (1957–1961) ar deledu masnachol o stiwdio Granada ym Manceinion.<sup>99</sup> Bu i fenter Nan Davies i'w osod yn wyneb y rhaglen ddyddiol dalu ar ei ganfed, canfu ynddo y rhinweddau a grisialai'r *newscaster* oedd ei angen ar wasanaeth newyddion teledu'r BBC yng Nghymru, 'He had an authoritative voice, fluent Welsh, dark good looks, and an affable interviewing manner – all the very stuff of television – and it soon became clear that here was a man cut out for the new medium'.<sup>100</sup> Caiff y disgrifiad hwn ei ategu gan Gareth Price, cyn-gyfarwyddwr y BBC yng Nghymru (1985–1990), 'He was good-looking, possessed a good short-term photographic memory, and was an expert on the standard three-minute interview, always preparing carefully the last question but one in order to finish on time'.<sup>101</sup>

Erbyn y cyfnod hwn roedd y cyfweliad heb ei sgriptio wedi sefydlu ei hun fel confensiwn mewn rhaglenni ffeithiol, ac yn llai gwrthwynebiadol ei natur ym Mhrydain o'i gymharu â'r Unol Daleithiau. Caiff Richard Dimpleby ei gydnabod fel y cyfwelydd anffurfiol cyntaf ar y gyfres *Down Your Way* (1946–1992);<sup>102</sup> llwyddodd i feistroli crefft a ddisgrifiwyd ganddo fel, 'this ticklish form of

---

<sup>96</sup> *ibid.*

<sup>97</sup> *ibid.*, 5 Ionawr 1961, t. 1.

<sup>98</sup> *ibid.*, 24 Ebrill 195, t. 2.

<sup>99</sup> *Dewch i Mewn*, (Granada, 1957-1961). Am fwy o fanylion gweler cyfrol Jamie Medhurst, *A History of Independent Television in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), tt. 28-29.

<sup>100</sup> 'Pioneering television executive and architect of S4C', *Independent*, 7 Medi 2010.

<<https://www.independent.co.uk/news/obituaries/owen-edwards-pioneering-television-executive-and-architect-s4c-2072091.html>> [cyrchwyd 3 Ionawr 2021].

<sup>101</sup> Gareth Price, *The Broadcasters of BBC Wales: 1964-1990* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017), t. 75.

<sup>102</sup> BBC Genome, *Down Your Way*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=%22down+your+way%22#top>> [cyrchwyd 6 Mai 2023].



broadcasting,' a nododd ymhellach, 'You can encourage, cajole, lure, egg on, even trap but you can't make a person talk who doesn't want to'.<sup>103</sup>

Cyflwynydd arall ddaeth yn feistr ar y grefft oedd Robin Day, a ddisgrifiwyd gan Sir Geoffrey Cox fel 'the first of the probing interviewers'. Er yr argraff o gyfweiliad heb ei sgriptio, amlygodd Arwel Ellis Owen a dreuliodd gyfnod o flwyddyn yn gweithio ar y rhaglen *Tonight*, fel yr oedd Day yn 'plotio' ei gyfweiliadau o flaen-llaw, gan geisio rhagdybio atebion gwestai i gwestiynau penodol, a hynny o bosib i'w briodoli i'w alwedigaeth fel bargyfreithiwr cyn iddo fentro i fyd darlledu.<sup>104</sup> Nododd bod gweithio gydag ef yn agoriad llygad, dyma'r tro cyntaf iddo ddod ar draws y dull yma o baratoi ar gyfer cyfweiliad ac mae'n cydnabod iddo ddysgu llawer ganddo. Cyn hynny yr unig hyfforddiant a gafodd oedd yn canllawiau cyffredinol ar gyfer cyfweiliad tair munud, sef bod angen pedwar cwestiwn ond, i rywun tawedog, efallai buasai angen chwech. Nod Day oedd cael y gwestai i ddatgelu rhywbeth newydd, ac os nad oedd hynny'n bosib, eid ati i'w groesholi am rhywbeth a fynegwyd ganddo yn y gorffennol.<sup>105</sup>

Yn wahanol i'r BBC oedd yn ymwybodol o ffynhonnell eu ffrwd ariannu roedd darparwyr rhaglenni y gwasanaeth masnachol yn fwy parod i herio gwleidyddion mewn cyfweiliadau, a chafodd hyn yn ei dro ddylanwad ar ansawdd rhaglenni y darlledwyr cyhoeddus. Gweddai'r agwedd hon i gyfnod newydd lle roedd cymdeithas yn gyffredinol yn cwestiynu awdurdod mewn cyd-destun ehangach. Disgrifiodd Day ei arddull fel a ganlyn, 'The interviewer should be firm and courteous. Questioning should be tenacious and persistent, but civil. I shudder to watch interviewers who think it clever to be snide, supercilious, or downright offensive'.<sup>106</sup> Nododd Goldie ymhellach wrth gyferio at *Tonight*, 'It was not necessary to be respectful; experts were not invariably right, the opinions of those in high places did not have to be accepted'.<sup>107</sup> Credai'r gynhyrchwraig mor belled â bod maes neu bwnc y sgwrs wedi ei gadarnhau o flaen-llaw, bod angen cael gwared ar sgriptio manwl oedd wedi nodweddu cyfraniadau a chyfweiliadau'r BBC ers y

---

<sup>103</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Sound and Vision*, Cyfrol IV (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995), t. 907.

<sup>104</sup> Cyfweiliad yr awdur gydag Arwel Ellis Owen, 10 Mehefin 2021. Treuliodd Owen flwyddyn ar *attachment* yn BBC Llundain.

<sup>105</sup> *ibid.*

<sup>106</sup> BBC News, 'Sir Robin Day dies'. Gweddill y nodyn?

<sup>107</sup> Goldie, t. 216.

cychwyn. Fe'i dylanwadwyd yn hyn o beth gan ddarlledu yn yr Unol Daleithiau, creodd ymagwedd naturiol pobl gyffredin a gyfrannai i raglenni argraff arni, 'She was especially interested in the relaxed style of many of the programmes and the friendly address to the audience that American programmes achieved.'<sup>108</sup>

Yn nhyb colofnydd *Y Cymro* mabwysiadwyd arddull gyfeillgar ac ymlacedig o'r fath yn llwyddiannus gan gyflwynwyr teledu masnachol yng Nghymru, '...mae'r hyn a ddarperir yn ffres, yn fywiog, ac yn llawen. 'Does dim golwg wedi hanner startsio ar y bobl a ddaw ar y sgrîn – a thipyn o orchest, fel y gwn fy hunan, yw medru osgoi golwg felly.'<sup>109</sup> Â yn ei flaen i rannu profiad y rheiny a fu yn darlledu o stiwdio Granada ym Manceinion:

...[ni] roddir fawr o bwys yno ar ymarfer manwl ymlaen llaw, ac nad yw'r teledwyr o'r herwydd yn ymwybodol eu bod mewn stiwdio. Rhywbeth tebyg i dynnu dant o dan gwsgbair – goruchwyliaeth ddi-boen felly... Bron na ddywedwn mai'r datblygiad pwysicaf yn hanes teledu a fydd hwnnw pan ellir gwthio'r camera a'i amryfal wifrau o'r golwg fel y byddai ei lygad creulon yn edrych ar ddydd megis trwy dwll clo.<sup>110</sup>

Llwyddodd *Heddiw* yn nwylo Owen Edwards i ddod â nodweddion llai ffurfiol darlledu yr Unol Daleithiau a'r ddarpariaeth fasnachol yng Nghymru i sgrîn darlledu cyhoeddus, a daeth yn feistr ar y cyfweiliad di-sgript. Fe'i cynorthwyd yn hyn o beth gan gyd-gyflwynwyr fel John Bevan, Harri Gwynn a 'the serious Mary Middleton', fel y'i disgrifiwyd gan Price.<sup>111</sup> Dyma'r ferch gyntaf i'w chysylltu'n gyson gyda'r gyfres ac ymddangosodd ei henw yn *The Radio Times* am y tro cyntaf ar 2 Ionawr 1967 ynghyd â Harri Gwynn a Hywel Gwynfryn. Erbyn hyn roedd Nan Davies wedi rhoi'r gorau i olygyddiaeth *Heddiw* ac roedd John Roberts Williams wrth y llyw, a thybiai, '... roedd angen merch, ac o'r diwedd fe gafwyd arian byw o Went – Mary Middleton'.<sup>112</sup> O'r eitemau sydd wedi goroesi ohoni'n cyflwyno, mae'n ddiddorol ystyried beth a olygai Price yn ei ddisgrifiad ohoni, oherwydd mae'n creu awyrgylch cyfeillgar ar y sgrîn a darlun Williams ohoni yn fwy addas. Nododd na dderbyniodd

<sup>108</sup> John Grist, *Grace Wyndham Goldie: The First Lady of Television*, tt. 92-95. Yn 1953 derbyniodd Goldie Gymrodoriaeth Smith Mundt, sef rhaglen i Arweinwyr, ac a gynigwyd i unigolion yr ystyriwyd eu bod yn debygol o ddal swydd o bwys yn eu gwlad eu hunain yn y dyfodol. Treuliodd bron i dri mis yno, gan gyfarfod gyda dau o ddarlledwyr amlycaf materion cyfoes ar y pryd, Ed Murrow a Fred Friendly yn swyddfeydd y darlledwr CBS yn Efrog Newydd.

<sup>109</sup> 'Yma ac Acw' gan Idris Roberts, *Y Cymro*, 23 Ionawr 1958, t. 7.

<sup>110</sup> *ibid.*

<sup>111</sup> Price, t. 75.

<sup>112</sup> *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams*, t. 98.

unrhyw hyfforddiant ar y grefft o gyfweld, ond wedi iddi gynnal rhai cyfweiliadau ar sgrîn dywedodd Williams wrthi, “Mae digon o dân yn dy fol, defnyddia fo.” A’r cyngor roedd pob un ohonom yn ei gael ganddo oedd, “Gwna fo’n ddiidan” – gan grychu ei drwyn wrth ei ddweud.<sup>113</sup> Ar leoliad y buasai Middleton a Hywel Gwynfryn gan amlaf yn hytrach nag yn y stiwdio, a’r argraff a roddid oedd eu bod yn crwydro Cymru benbaladr yn creu eitemau.<sup>114</sup>

Enghraifft o eitem a gyflwynwyd gan Middleton oedd un ysgafn fer, munud a hanner o Gwm-ann yn Sir Gâr yn canolbwyntio ar achlysur cyson noson chwarae draffts. Mae’r eitem yn agor gyda saethiad canolig o Middleton a chanddi steil gwallt ffasiynol byr, *poloneck* dywyll a chot *sheepskin*, yn gwneud darn i gamera anffurfiol ar y Stryd Fawr yn Llanbedr Pont Steffan o flaen gwesty’r Llew Du, gan graffu ar y digwyddiad yn cael ei hysbysebu yn *The Cambrian News*. Darn i gamera yn dilyn confensiwn eitem deledu a geir, ac er bod pryd a gwedd Middleton yn cyd-fynd â ffasiwn y cyfnod i fenywod, a’i llais ar draw uchel benywaidd, nid yw’r camera yn ei thrin yn wahanol i’r ffordd y buasai’n fframio cyflwynydd gwrywaidd.

Mae’r eitem yn torri wedyn i saethiadau cyffredinol ac agos ar wynebau amrediad o fynychwyr yn Neuadd St James, dynion a menywod yn eu plith a’u sŵn i’w glywed yn glir cyn torri i saethiad o du ôl i Middleton yn eistedd gyda grŵp o ddynion, y meicroffon yn ei llaw yn barod i gyfweld un ohonynt wrth iddo chwarae. Yn raddol mae’r camera yn tynnu mewn i saethiad agos ar y siaradwr sy’n smocio pibell wrth chwarae, gan egluro iddo deithio o Faenclochog, ond nid yw’n edrych ar Middleton gan ei fod yn canolbwyntio ar y gêm. Caiff ficer o Gei Newydd ei gyfweld ac yna gwelir saethiad o Middleton ei hun yn chwarae’r gêm yn erbyn dyn arall; mae’n rhoi’r argraff nad yw’n siŵr beth i’w wneud, ac wedi iddi symud darn, mae ei gwrthwynebydd yn cipio un o’i darnau hi. Mae’n amlwg bod y dynion gafodd eu cyfweld ganddi yn hollol gyfforddus yn ei chwmni ond nid yw’r eitem yn caniatáu iddi fod ar y blaen yn y gêm. Gellid disgrifio’r eitem hon fel rhyw fath o *vox pop* estynedig, oherwydd mae Middleton yn mynd o’r naill berson i’r llall, nid oes linc yn

---

<sup>113</sup> *ibid.*

<sup>114</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Hywel Gwynfryn, Medi 2019.

cysylltu'r cyfweiliadau ac nid yw'r gwyliwr yn cael gwybod enw unrhyw gyfrannydd.<sup>115</sup>

Daeth y *vox pops* yn nodwedd gyson yn eitemau ar leoliad *Heddiw*, a gwnaed llawer o eitemau o'r fath gan Hywel Gwynfryn. Yn nhyb Arwel Ellis Owen dyma'r cam cyntaf tuag at ddemocrateiddio darlledu, y nod oedd cynnwys un eitem *vox pops* bob wythnos ar *Heddiw* er mwyn rhoi cyfle i acenion gwahanol ar draws y wlad gael eu clywed.<sup>116</sup> Gellir priodoli'r defnydd ar raglenni'r BBC i'r cyflwynydd Alan Whicker,<sup>117</sup> ac roedd yn gonfensiwn a ffafriwyd hefyd gan newyddiadurwyr ITN,<sup>118</sup> gyda Barbara Mandell yn eu plith, er bod natur cynhyrchu cynnwys o'r fath yn herio'r norm cymdeithasol, 'At the time, it was controversial for a woman to approach a male stranger in public, but Mandell was helped by the presence of a film cameraman and sound recordist'.<sup>119</sup> Buasai'r sefyllfa yr un peth i Middleton gyda chriw o ddynion wrth ei hochr yn trin y camera a'r sain.

Mewn eitem arall o 1967 cafodd Middleton gyfle i gyfweld â gŵr o'r enw Mr Morgan, oedd wedi troi at y grefft o nyddu wedi iddo ymddeol. Egyr yr eitem hon gyda Middleton yn cyfarch Mr Morgan cyn eistedd wrth ei ymyl i'w gyfweld yn ei gartref, ond y tro hwn dim ond cip a gawn arni, cyn i'r camera ganolbwyntio ar y gŵr pedwar ugain oed. Mae'n ymlacio yn ei chwmni gan ei fod yn parhau i siarad yn huawdl gyda'i acen Wenhwyseg hyfryd wedi iddo ateb cwestiwn Middleton, gan amlygu parodrwydd i fod yn agored iawn ynglŷn â'i deimladau o anobaith ac iselder wedi ymddeol, cyn iddo ymddiddori yn y nyddu. Yn weledol, un saethiad yn unig a gawn o du cefn i Middleton, ond yr un modd â'r eitem o Gwm-ann nid ydym yn cael y saethiad wrthol (*reverse shot*) arni hi. Caiff ambell saethiad o dystysgrif ac enghreifftiau o ddarnau o ddefnydd eu dangos fel *trosluniau*, ond am y rhan fwyaf

---

<sup>115</sup> John Harris a John Domokos, 'We spent 10 years talking to people. Here's what it taught us about Britain', *The Guardian*, 3 Rhagfyr 2009. <<https://www.theguardian.com/news/2019/dec/03/anywhere-but-westminster-vox-pops-understanding-uk-political-landscape>> [cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020]. Talfyriad yw *vox pop* o'r Lladin *vox populi* sy'n golygu llais y bobl. Roedd yna gyfres radio yn yr Unol Daleithiau yn y 1930au o dan y teitl *Vox Pop* a gychwynnodd yn 1932 ac a ganolbwyntiai ar farn pobl am yr etholiad arlywyddol a welodd Roosevelt yn dod i rym. Roedd y *vox pops* wedi bod yn rhan o'r arlwy radio yng Nghymru hefyd, gyda Wynford Vaughan-Thomas yn sefyll o dan ysgol ar stryd yn Mai 1938 gan ofyn i'r rheiny oedd yn pasio a oeddent yn ofergoelus, 'thus causing a near riot in Swansea'. Yn gynharach y flwyddyn honno, roedd wedi bod yn gofyn barn siopwyr ar fargeinion y Flwyddyn Newydd, a ddarluniai fath o ddarlledu nad oedd wedi ei greu tu hwnt i'r Unol Daleithiau tan hynny. Dynodai hyn destun balchder i ddarlledwyr yng Nghymru eu bod yn arwain y ffordd cyn i'r rhaglen *In Town Tonight* (BBC, 1933-1960) fabwysiadu'r *vox pops*. Gweler John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 113.

<sup>116</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur ag Arwel Ellis Owen, 10 Mehefin 2021.

<sup>117</sup> Harris a Domokos, 'We spent 10 years talking to people. Here's what it taught us about Britain', *The Guardian*, 3 Rhagfyr 2009.

<sup>118</sup> Crisell, *An Introductory History of Broadcasting*, t. 99.

<sup>119</sup> Barbara Mandell (1920-1998). Anthony Hayward, 'Obituary: Barbara Mandell', *The Independent*, 4 Medi 1998. <<https://www.independent.co.uk/arts-entertainment/obituary-barbara-mandell-1196010.html>> [cyrchwyd 12 Rhagfyr 2020].

o'r pum munud a hanner mae'r camera yn canolbwyntio ar saethiad agos o'r gŵr yn eistedd wrth ei beiriant nyddu sy'n amlygu mai ef yw ffocws yr eitem, nid y cyflwynydd. Mae hyn yn gwrth-ddweud y cysyniad o dalent ar y sgrîn, gyda'r cyflwynydd benywaidd yno i ni edrych arni. Nid yw'r *male gaze* yn cael ei fodloni gan mai cynnwys yr eitem sydd o bwys gyda Middleton yn gweithredu fel buasai cyflwynydd gwrywaidd.<sup>120</sup> Yr hyn sydd ganddi i'w ddweud sydd o bwys nid ei phryd a'i gwedd, sy'n fodd efallai o egluro sylw Price am ei difrifoldeb.

Yn ogystal â'r dynion cyffredin uchod, cafodd Middleton gyfle i gyfweld ag unigolion amlycach fel y llenor T. Llew Jones. Yn 1966 teithiodd i Dalgarreg i ymweld â Jones yn ei gartref a'i holi am ei brofiad o fod yn awdur llawn amser am dri mis. Yn ystod y cyfweiliad 5 munud 20 eiliad eistedda Jones mewn cadair esmwyth gan egluro mai yn yr ystafell honno yr ysgrifennai. Eglura'r rhyddid a brofwyd ganddo i fedru canolbwyntio'n llwyr ar ysgrifennu heb ofidio am ei ddyletswyddau fel prifathro ysgol a sut y gallai cynlluniau o'r fath arwain at fwy o ddeunydd darllen Cymraeg i blant. Ar gychwyn yr eitem clywn yr awdur yn darllen ffrwyth ei ymdrechion sef darn o'r nofel antur i blant, *Corn Pistol a Chwip* (a gyhoeddwyd dair blynedd yn ddiweddarach), gyda llun llonydd o'r Goets Fawr yn cael ei ddefnyddio fel troslun cyn torri i saethiad agos o'r awdur wedi ei leoli (yn unol â chonfensiwn saethiad cyfweld), ychydig i un ochr o'r ffrâm, sef y chwith, gyda'r gofod anadlu i'r dde. Clywn lais Middleton oddi ar gamera yn gofyn iddo am ei brofiad yn ystod y tri mis, ac yn ystod ei ateb mae'r saethiad yn lledu i un canolig gan osod yr awdur ynghanol y saethiad. Mae'r ddwy nodwedd hyn yn annisgwyl mewn cyfweiliad teledu, oherwydd yr arfer yw cynnal y gofod un ochr, a thynnu mewn yn dynnach wrth i gyfweiliad fynd yn ei flaen. Bwriad hyn yw efelychu datblygiad manylach cyfweiliad a'r dechneg weledol yn cyflwyno i'r gwylwr y cysyniad o gael ei ddenu at galon y sgwrs. O edrych yn fanylach, daw'r rheswm dros y saethiad lletach i'r amlwg oherwydd yn y blaen, ar waelod chwith y saethiad mae'r llun llonydd a welwyd fel troslun ar y cychwyn ond ychydig allan o ffocws. Dengys hyn gynllunio bwriadol a chreadigrwydd o ran cyfarwyddo a fframio saethiad. Wrth i'r cyfweiliad fynd yn ei flaen dychwela'r camera at saethiad agos traddodiadol unwaith eto a'r gofod un ochr. Ni chaiff y gwylwr weld Middleton tan yn

---

<sup>120</sup> Laura Mulvey, *Visual and Other Pleasures*, 2il rifyn (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2009)

ddiweddarach yn y cyfweiliad, pan geir saethiad gwrthol mewn ffrâm agos ohoni yn gofyn un cwestiwn byr, ond fe dorro yn ôl at wrthrych yr eitem, T. Llew Jones, cyn iddi orffen y cwestiwn. Cawn gwestiwn arall mewn saethiad canolig ond mae'r sylw yn bendant ar brif wrthrych y cyfweiliad, yn hytrach na'r cyfwelydd sy'n cadarnhau safle Middleton fel cyflwynydd â hygredd fuasai'n ennyn parch y gwylwyr. Buasai eitem fel hon wedi ei saethu gydag un camera, gan gofnodi cwestiynau'r cyfwelydd eilwaith wedi i'r ffilmio orffen ar y prif gyfweiliad er mwyn darparu'r saethiad gwrthol, ac mae Middleton yn swnio'n gwbl naturiol yn gofyn y cwestiynau hynny â'r camera arni. Daw'r eitem i'w therfyn wrth iddi wahodd Jones i ddarllen darn drachefn o'i nofel, a gwelwn lun llonydd arall sy'n darlunio'r olygfa mae'n ei disgrifio.

Er natur yr eitemau a drafodwyd hyd yma, sef ysgafnder adloniant noson o ddrafft, a'r cyswllt gyda phynciau traddodiadol i ferched sef ffasiwn a llenyddiaeth plant, dengys Middleton ei bod yn medru tywys cyfweiliad i gyfeiriad mwy dwys sy'n cadarnhau ymhellach ei statws fel cyflwynydd â hygredd o fewn darpariaeth ffeithiol. Aiff ati i lywio'r cyfweiliad gyda T. Llew Jones at drafodaeth o ansawdd gan annog yr awdur i egluro ei weledigaeth ar berthnasedd yr awen i fardd o'i gymharu â llenor. Mynega Jones ei gred bod yr awen yn hanfodol i lwyddiant bardd, ond mai disgyblaeth ysgrifennu yn ddyddiol oedd cyfrinach llwyddiant y llenor. Rhydd sylw hefyd i'r cysyniad o Gymraeg byw a chred yr awdur ym mhwsigrwydd Cymraeg naturiol. Mae Middleton yn gallu delio'n hyderus gyda'r drafodaeth hon, ac mae'r bardd a'r llenor yn ymateb yn effeithiol i'w chwestiynau.

Ymddiriedwyd ymhellach yng ngallu Middleton fel cyfwelydd yn 1968 pan gafodd gyfle i deithio gyda llenor arall sef y Gŵr o Baradwys, Ifan Gruffydd o Sir Fôn, wrth iddo ail-ymweld â ffosydd Armentières yn Normandi lle bu'n ymladd yn filwr ifanc hanner canrif ynghynt.<sup>121</sup> Caiff tri lleoliad yn y ffos eu darlunio ac un y tu allan iddo lle mae Gruffydd yn egluro iddo gael *blighty* a'i ddanfôn gartref. Mae Middleton sydd wedi ei gwisgo mewn dull ifanc ac anffurfiol o anorac ysgafn, siwmpwr *poloneck* olau a throwsus tynn yn dilyn Gruffydd o gwmpas y ffos wrth iddo ail-fyw

---

<sup>121</sup> Cai Ifan Gruffydd o Langristiolus, Ynys Môn ei adnabod fel Y Gŵr o Baradwys yn dilyn teitl ei gyfrol hunangofiannol, *Y Gŵr o Baradwys* (Dinbych, Gwasg Gee, 1963). Cyhoeddwyd ail gyfrol hunangofiannol ganddo sef *Tân yn y Siambar* (Dinbych: Gwasg Gee, 1966). BBC Cymru Fyw, 'Atgofion Ifan Gruffydd o'r Rhyfel Mawr', 5 Tachwedd 2018. <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/46071531>> [cyrchwyd 4 Ionawr 2021].

gwahanol sefyllfaoedd. Er iddo ddisgrifio erchyllterau a chyfeirio at golli cydnabod nid yw'r naws yn drist nac ychwaith yn drwm, yn hytrach mae yna elfen sgysiol a storïol i'r hanes gyda Middleton yn porthi'r sgwrs gyda chwestiynau sy'n arwain at egluro sefyllfaoedd gan Gruffydd. Darluniwyd y ddau mewn saethiad hir wedi ei chymryd o lefel uchel sy'n edrych i lawr arnynt yn y ffos, a gellid tybied bod y cyfarpar ffilmio yn rhy drwm i'w osod yn y ffos gul ac yn rhy lletchwith i'w symud yn gyflym er mwyn dilyn symudiadau'r ddau. Mae yna ymdrech i ail-fyw y profiad yn weledol wrth i'r camera efelychu'r hyn welai'r milwr ifanc wrth osgoi *snipers*. Gwelir saethiad agos o wyneb Gruffydd yn syllu uwchben y parapet ac yn disgrifio symudiad llygoden fawr wrth ei ffroenau ganol nos. Mae'n amlwg bod gan dîm *Heddiw* hyder yng ngallu Middleton i drin pwnc difrifol mewn eitem a ddynodai hanner canrif ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae mwyafrif yr eitemau a gyflwynwyd gan Middleton sydd wedi goroesi a drafodwyd uchod yn ei darlunio yn cyfweld dynion. Mewn astudiaethau yn canolbwyntio ar raglenni newyddion yn ystod y 1980au nodwyd bod dynion yn fwy tebygol o fynegi barn na menywod, a'u bod yn fwy tebygol hefyd o gael eu cyfweld. Gellid tybied bod hyn yn ganfyddiad perthnasol hefyd i'r ddau ddegawd blaenorol.<sup>122</sup> Y sffêr cyhoeddus yw canolbwynt newyddion ac felly gellid honni bod y duedd hon yn ddisgwyliadwy gan nad oedd menywod yn flaen-llaw mewn rolau cyhoeddus yn ystod y cyfnod. Ond mae'r un canfyddiad yn amlygu ei hun mewn rhaglenni sy'n ymgorffori barn y cyhoedd, fel yr eitem *vox pops* a ddadansoddwyd uchod, y dynion sy'n fwyaf tebygol o ymddangos,<sup>123</sup> 'Who is invited to speak as commentators on and in the news says crucially important things about who 'counts' in society, whose voices have legitimacy and status'.<sup>124</sup> Os yw adroddiadau newyddion wedi eu seilio ar 'selective articulation of certain voices about a given topic', fel y deil Ross, yna mae cryn ddylanwad gan newyddiadurwyr yn y broses o ddewis, neu hepgor lleisiau.<sup>125</sup> Dengys ymchwil bod newyddiadurwyr yn tueddu i ddyfynnu neu drefnu

---

<sup>122</sup> Gweler: Margaret Gallagher, *Women and Television in Europe* (Brwsel: Comisiwn y Cymunedau Ewropäaidd, 1998); Lynn M. Zoch a Judy VanSlyke Turk, 'Women making news: gender as a variable in source selection and use', *Journalism & Mass Communication Quarterly*, 75.4 (1998), 762–75.

<sup>123</sup> Sung Tae Kim a David H. Weaver, 'Reporting on globalization: a comparative analysis of sourcing patterns in five countries' newspapers', *Gazette: The International Journal for Communication Studies* 65.2 (2003), 121–44 (t.125).

<sup>124</sup> Karen Ross, 'The journalist, the housewife, the citizen and the press: Women and men as sources in local news narratives', *Journalism*, 8.4 (2007), 449–73.

<sup>125</sup> Karen Ross, 'The journalist, the housewife, the citizen and the press: Women and men as sources in local news narratives', *Journalism*, 8.4 (2007), 449–73.

cyfweiliadau gyda phobl sy'n debyg iddynt eu hunain ac sy'n coleddu barn debyg,<sup>126</sup> o ystyried cyfansoddiad tîm *Heddiw* a'r criwiau ar leoliad nid yw'n syndod felly bod y diwylliant yn arwain at eitemau fel y rhai a ddadansoddwyd uchod:

... much of what we see, hear, and read about in mainstream news is a result of a newsroom culture which continuously reproduces itself. This culture is not specific to particular national contexts but rather has been revealed as operating in many different global environments, manifesting as a repressive structure of newstink which locks its practitioners (both women and men) into stereotypical modes of reporting which masquerade as 'neutral' news values, but which perpetuate a male-ordered environment which is often hostile to women.<sup>127</sup>

Dim ond pan fo newid yn digwydd yn y tîm cynhyrchu sy'n peri ymyrraeth ffeminyddol y mae newid yn debygol o'i ganfod ar y sgrîn, a chafwyd enghraifft o hynny yng nghyfnod John Roberts Williams fel golygydd a Middleton fel gohebydd. Cofnodwyd ganddi iddi gael ei danfon i ohebu stori yn ardal Y Parc ger Y Bala, ar orchymyn Williams, 'Mae ryw ferchaid wedi cerdded allan o'r WIs, a mae'n nhw'n mynd i sefydlu cymdeithas i ferchaid Cymraeg. *Raid* i chdi fynd.'<sup>128</sup> Roedd Zonia Bowen a Sulwen Davies yn aros i gael eu cyfweld ganddi am eu gweithredoedd a arweiniodd at sefydlu y mudiad Merched y Wawr.<sup>129</sup> Mae'n ddiddorol ystyried a fuasai Williams wedi mynd ar drywydd y stori hon pe na bai menyw ganddo ar y tîm gohebu.

Agwedd arall y gellid ei ystyried fel ymyrraeth ffeminyddol yw menywod yn cyflwyno newyddion o'r stiwdio, ac yng Nghymru y ddarpariaeth newyddion masnachol a dorrodd y cwys hwnnw. Honnir yn gyffredinol mai Eirwen Davies oedd y wraig gyntaf i gyflwyno newyddion ar deledu yn Gymraeg a hynny yn 1958 pan ddigwyddodd lenwi bwlch pan nad oedd darllenwyr newyddion arferol TWW ar gael. Ond cyn hynny roedd Megan Tudur (nee Davies) wedi cael cyfle i gyflwyno'r newyddion a ddarlledwyd cyn y rhaglen *Amser Te* (1958–1968), a hithau'n ferch

<sup>126</sup> Paul Manning, *News and News Sources: A Critical Introduction* (Llundain, Sage, 2001).

<sup>127</sup> Karen Ross, *Gendered Media: Women, Men and Identity Politics* (Lanham: Rowman & Littlefield Publishers, 2009), t. 68.

<sup>128</sup> *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams*, t. 101.

<sup>129</sup> Mai 1967 yw'r dyddiad a gaiff ei gydnabod fel cychwyn y mudiad, ond ni wyddys ai bryd hynny y darlledwyd yr eitem ar *Heddiw* gan nad yw'r eitem wedi goroesi. Am fwy o wybodaeth am gychwyn y mudiad gweler gwefan y mudiad, <<https://merchedywawr.cymru/am-y-mudiad/einhanes/>> [cyrchwyd 24 Awst 2021].



ysgol ddwy ar bymtheg oed, wedi iddi ymateb i gystadleuaeth ac ennill.<sup>130</sup> Eglurodd mai Wyn Roberts oedd ei chyswllt yn TWW, roedd Eleanor Mathias yn sgriptio ar ei chyfer a Dorothy Williams hefyd yn cynorthwyo gan mai hi oedd cynhyrchydd *Amser Te*. Darllen y sgrïpt a wnai, gan godi ei phen i edrych ar y camera bob yn hyn a hyn, ac ni dderbyniodd hyfforddiant penodol ond roedd wrth ei bodd yn cael cyflog a mwynheai'r profiad o deithio o'r Rhondda ar y bws neu'r trê'n lawr i Bontcanna i wneud y gwaith. Cynigiwyd swydd lawn amser i Tudur gan Roberts, ond gan iddi ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth, roedd ei bryd ar fynd yno.<sup>131</sup> Yn dilyn hyn daeth y cyfle i ran Eirwen Davies oedd eisoes yn gyfarwydd â darlledu gan iddi dreulio cyfnod yn gweithio i'r BBC ar raglenni addysgol ac ar y gyfres ddrama *Teulu'r Mans*, cyn trosglwyddo i TWW yn 1958 i gyflwyno stori i blant un waith yr wythnos ar y rhaglen *Amser Te*.<sup>132</sup> Cymryd yr awenau oddi wrth Sian Phillips wnaeth Davies a mynegodd ei gofid am orfod cofio'r storïau ar ei chof, ond roedd y cyflwynydd Myfanwy Howell yn addo rhoi *prompt* os oedd angen. Ar y pryd roedd Davies yn ysgrifenyddes gyda'r Bwrdd Glo a theimlai'n ffodus mai Cymro oedd ei phennaeth a roddai ganiatad iddi fynd i gyflwyno rhaglenni, ond ei llwyddiant fel adroddwraig a arweiniodd at gyfleoedd darlledu, gan i feirniad adrodd ei hannog i wrando ar y radio er mwyn gwella ei chreffft.

Arweiniodd y profiad adrodd stori at Roberts yn cynnig swydd lawn amser i Davies i gyflwyno rhaglen newyddion un waith yr wythnos, *O Ddydd i Ddydd*, a ddatblygodd ymhen chwe blynedd yn rhaglen nosweithiol *Y Dydd*.<sup>133</sup> Yn ôl Davies, yn ystod ymweliad â'r Unol Daleithiau roedd Wyn Roberts wedi gweld menyw yn cyflwyno newyddion ar y sgrîn, sef Barbara Walters, a meddyliodd y gellid mentro a chyflogi

---

<sup>130</sup> Cyfweliad rhwng yr awdur â Megan Tudur, Ionawr 2021. Roedd Megan Tudur yn ferch i'r llenor Kitchener Davies ac yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Porth, Y Rhondda pan ymatebodd i gystadleuaeth i gyflwyno'r newyddion ar deledu. Wedi iddi raddio bu'n gyflwynydd newyddion ar y rhaglen *Dewch i Mewn* o stiwdio Granada pan oedd yn byw ym Mhrestatyn, lle trigai Rhydwen Williams, cynhyrchydd y rhaglen. Cofiai Owen Edwards ac Ednyfed Hudson-Davies yn gyflwynwyr ar y rhaglen gylchgrawn. Er i Tudur ymgeisio am swyddi parhaol gyda'r BBC wedi hyn ni fu'n llwyddiannus ac aeth i weithio fel athrawes yn Ysgol Maes Garmon. Flynyddoedd yn ddiweddarach cafodd gyfle i fod yn ohebydd lleol ar y rhaglen *Helo Bobol* yn ardal Abertystwyth lle rhedai hi a'i gŵr Gwilym Tudur y siop Gymraeg, Siop y Pethe.

<sup>131</sup> Wyn Roberts, *Right from the Start: The Memoirs of Sir Wyn Roberts* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2006). Ymunodd fel un o'r aelodau staff cyntaf y deiliad trwydded fasnachol TWW, gan adael ei swydd gyda'r BBC. Nodir ganddo, 'I was also responsible for Welsh-language programmes and had poached two very able young women, Dorothy Williams from the BBC and Eleanor Mathias who had worked with me in BBC news.', t. 59.

<sup>132</sup> *Beti a'i Phobol*, BBC Radio Cymru, 19 Mai 2005, podlediad, BBC Sounds, <<https://www.bbc.co.uk/programmes/p02rzvyy>> [cyrchwyd 21 Ionawr 2021]. Ar y rhaglen hon mae Beti George yn cyfweld Eirwen Davies.

<sup>133</sup> BBC Cymru Fyw, *50 mlynedd ers Y Dydd* (9 Medi 2014) <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/29045715>> [cyrchwyd 21 Ionawr 2021].

menyw i ddarllen y newyddion ar deledu yng Nghymru.<sup>134</sup> Gellir ystyried Eirwen Davies yn arloesol yn ei chyfnod, fel y nododd Euryn Ogwen Williams a fu'n gydweithiwr iddi:

Bydde' hi byth yn ystyried ei hun yn arloesydd er ei bod hi wedi arloesi yn fawr fel yr unig ferch yn ystod y 60au oedd yn darllen newyddion ar y sgrîn drwy Brydain. Roedd hynny'n dipyn o garreg filltir...fe wnaeth y BBC dro ar brawf ar ddiwedd y 50au gyda gwraig oedd yn newyddiadurwraig o fri, Nan Winton, yn cyflwyno'r newyddion. Ond roedd 'na ormod o lythyrau yn dweud y gallai merch byth gynnal digon o awdurdod i ddarllen y newyddion.<sup>135</sup>

Ym Mehefin 1960 y gwelwyd Winton yn cyflwyno ar y BBC am y tro cyntaf,<sup>136</sup> ond digon llugoer oedd ymateb cydweithwyr i awgrym y pennaeth newyddion Stuart Hood o gael menyw ar y sgrîn:

I thought it would be rather nice to have a woman news reader on television. Now this was greeted with alarm and dismay and resistance by my editors. The thought that a woman could be the conveyer of truth and authority on the television screen was something they just couldn't imagine, couldn't accept.<sup>137</sup>

Profodd yr arbrawf i fod yn fyrhoedlog; tynnwyd y gyflwynwraig oddi ar yr awyr ym mis Mawrth 1961, lai na blwyddyn wedi iddi ymddangos, ac wrth edrych yn ôl nododd Winton, 'I didn't have any trouble from the press or the public...It was the editorial staff who were a bit dodgy.' Yn yr ysgrif goffa iddi yn *The Guardian* nodwyd ymhellach, 'She linked this to the middle-aged, male dominated newsroom culture of Fleet Street which many had been shaped by. Her daughter Tina said her mother viewed the year in the BBC newsroom as the unhappiest of her life.'<sup>138</sup>

---

<sup>134</sup> *Beti a'i Phobol*. Barbara Walters, (1929– ), *Encyclopaedia Britannica*, 'Barbara Walters, American Journalist' <https://www.britannica.com/biography/Barbara-Walters>>. Cyhoeddodd ei chofiant yn 2008 o dan y teitl *Audition*, wedi ei enwi felly oherwydd iddi deimlo drwy gydol ei gyrfa iddi orfod profi ei hun dro ar ôl tro.

<sup>135</sup> BBC Cymru Fyw, *Cofio darlledwraig arloesol* (14 Mawrth 2014) <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/26575219>> [cyrchwyd 21 Ionawr 2021].

<sup>136</sup> Nan Winton (1925–2019). Deuai Winton, fel Eirwen Davies, o gefndir perfformio yn hytrach na newyddiaduraeth fel Mandell. Maggie Brown, 'Nan Winton Obituary: First woman to read the national television evening news on the BBC', *The Guardian*, 27 Mai 2019. <<https://www.theguardian.com/tv-and-radio/2019/may/27/nan-winton-obituary>> [cyrchwyd 7 Rhagfyr 2020].

<sup>137</sup> Thumim, 'Mrs Knight *must* be balanced', yn Cynthia Carter, Gill Branston a Stuart Allan (goln), *News, Gender and Power*, t. 97.

<sup>138</sup> Brown, 'Nan Winton Obituary: First woman to read the national television evening news on the BBC', *The Guardian*, 27 Mai 2019.

Roedd atgofion y cyflwynydd Eirwen Davies o gyflwyno'r newyddion ar deledu masnachol yng Nghymru yn cofnodi profiad tipyn hapusach.<sup>139</sup> Pan sefydlwyd darpariaeth newyddion *Y Dydd* (1964–1982) daeth Gwyn Thomas i ymuno â hi, ac yn hwyrach daeth Vaughan Hughes, Huw Llywelyn Davies ac Elinor Jones yn wynebau cyson.<sup>140</sup> Nid oes cofnod i Middleton gyflwyno eitemau o stiwdio *Heddiw* a bu'n rhaid aros tan 1973 cyn i ferched ymddangos fel cyflwynwyr stiwdio ar y rhaglen, a'r ddwy gyntaf i wneud hynny oedd Beti George ac Elinor Patchell (nee Profit). Cyd-gyflwynai'r naill gydag Emyr Daniel a'r llall gyda R. Alun Evans. Erbyn hyn yr oedd Owen Edwards wedi symud o du blaen y camera i du ôl y llenni gan gychwyn ar yrfa lewyrchus mewn gweinyddiaeth darlledu. Ni welwyd menyw arall yn cyflwyno rhaglen newyddion ar wasanaeth rhwydwaith y BBC tan 1975, sef Angela Rippon.

Gellid honni bod y sefyllfa yn TWW yn wahanol gan fod Dorothy Williams ac Eleanor Mathias yn ymwneud â'r ochr gynhyrchu, ac mae'n amlwg bod Wyn Roberts fel pennaeth yn allweddol wrth hyrwyddo'r fenter o fenywod yn cyflwyno'r newyddion a pheri ymyrraeth ffeminyddol, er mae ei hunangofiant yn tystio i gymeriad traddodiadol ei agwedd.<sup>141</sup> Mae yna ystyriaeth bellach sy'n bwysig i'w nodi, sef y darlledwyd newyddion TWW mewn slot cyn y rhaglen *Amser Te* a anelwyd at y gynulleidfa fenywaidd ac efallai bod hynny i'w gyfri am y dewis o fenyw i gyflwyno. Er bod Nan Davies wrth y llyw yn *Heddiw* ni arweiniodd hynny at fenywod yn cyflwyno'r rhaglen yn y stiwdio nac ychwaith ar leoliad yn ystod ei chyfnod hi fel golygydd.

Erbyn i gyfres *Heddiw* gyflwyno y fformat dyn a menyw yn cyflwyno ar y cyd yn 1973 roedd yna gystadleuaeth frwd rhyngddi â rhaglen *Y Dydd*, er y nododd Beti George mai rhwng y timau cynhyrchu roedd hynny ar ei fwyaf amlwg yn hytrach na rhyngddynt hwy fel cyflwynwyr.<sup>142</sup> Pan wahoddwyd Patchell i ymuno ag R. Alun Evans yn stiwdio *Heddiw*, cyw-gyfreithiwr oedd hi ar y pryd yn cwblhau ei herthyglau gyda chwmni o gyfreithwyr yn ardal Pontypridd.<sup>143</sup> Roedd wedi cyfrannu i raglenni yn achlysurol yn y gorffennol, ac yn sgil hynny fe'i gwahoddwyd gan

<sup>139</sup> *Beti a'i Phobol*, BBC Radio Cymru, 19 Mai 2005.

<sup>140</sup> Medhurst, *A History of Independent Television in Wales*, t. 137.

<sup>141</sup> Wyn Roberts, *Right from the Start: the memoirs of Wyn Roberts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006).

<sup>142</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Beti George, Medi 2019.

<sup>143</sup> Cyfweiliad yr awdur gydag Elinor Patchell, Ionawr 2021.

olygydd *Heddiw*, Arwel Ellis Owen, i gyflwyno'r rhaglen ddwy noson yr wythnos. Ni hysbysebwyd y swydd ac ni chafodd gyfweiliad ffurfiol, sy'n ategu cofnod William Aaron am brosesau recriwtio'r cyfnod. Eitemau ysgafn a neilltuwyd iddi ac mae dwy o'r eitemau hynny wedi llwyddo i aros yn y cof, efallai am eu bod o ddiddordeb personol iddi meddai Patchell. Cafodd gyfle i gyfweled â John Albert Evans, cadeirydd pwyllgor Canolfan yr Urdd, Heol Conwy yn y stiwdio ar adeg pan roedd *dry rot* wedi gorfodi cau'r safle am gyfnod.

Yr eitem arall oedd cyfweiliad gyda gwestai oedd mewn stiwdio wahanol, sef *air hostess* a weithiodd ar un o'r awyrennau olaf i gludo plant allan o Saigon. Ar un olwg mae cynnwys y cyfweiliad hwn yn drwm ei natur ond oherwydd mai plant oedd canolbwynt y stori, tybiai Patchell mai dyna pam y cafodd gyfle i'w gynnal. Dylid nodi hefyd bod y sgwrs yn digwydd gyda menyw arall oedd mewn swydd a gaiff ei chysylltu'n draddodiadol â menywod. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau Karen Ross, sef pan fo menyw yn cael ei gwahodd i gyfrannu mewn rhaglen newyddion mae'n debygol o fod am reswm yn gysylltiedig â'i bioleg, a hynny sy'n diffinio ei hawl i siarad.<sup>144</sup> O ran yr eitem am ganolfan yr Urdd, gan bod y mudiad ar gyfer plant a phobl ifainc, gellid honni ei bod yn addas i gyflwynwraig gynnal yr eitem. Neilltuwyd eitemau mwy difrifol a chyfweiliadau trymion i R. Alun Evans, a nododd Patchell bod hyn yn hollol deg oherwydd cyflwynydd amatur oedd hi mewn gwirionedd ac Evans yn ddarlledwr a chanddo flynyddoedd o brofiad. Yr oedd yntau wedi bod yn rhan o'r broses o baratoi y rhaglen drwy gydol y dydd, o benderfynu ar drywydd eitemau ac yna sgriptio ei linciau. Deuai Patchell mewn i'r gwaith ychydig oriau cyn darlledu gan ddysgu sgript cyn mynd ar yr awyr (gan nad oedd *autocue* ar gael yn y stiwdio ar yr adeg honno).

Er i Patchell fwynhau y profiad ar y pryd, nododd, 'O'dd e ddim i fi, oedd e'n fydd gwrywaidd iawn, o'n i ddim yn hoffi'r agwedd rywiaethol, o'n i ddim yn licio'r *sexism* o gwbl, ym myd y gyfraith o'ch chi'n cael eich derbyn'.<sup>145</sup> Mewn dwy astudiaeth a gafodd eu cynnal ar gyfnod diweddarach sef diwedd y 1990au, amlygwyd bod menywod mewn gweithloedd sy'n gysylltiedig â chynhyrchu

---

<sup>144</sup> Karen Ross, *Gendered Media: Women, Men and Identity Politics* (Lanham: Rowman & Littlefield Publishers, 2009), t. 82.

<sup>145</sup> Cyfweiliad yr awdur gydag Elinor Patchell.

newyddion wedi dod ar draws ymddygiad gwahaniaethol,<sup>146</sup> ac wedi profi ymddygiad rhywiaethol.<sup>147</sup>

Er mwyn delio gydag awyrgylch o'r fath mewn gweithleoedd mae menywod yn ymateb mewn un o dair ffordd a gaiff eu diffinio gan Melin-Higgins a Djerf-Pierre fel *incorporation*, *feminist* neu *retreat*.<sup>148</sup> Dengys y cyntaf yr arfer o doddi mewn i'r awyrgylch a dod yn *one of the boys* gan fabwysiadu gwerthoedd gwrywaidd a steil o ohebu sy'n arfer gwrthrychedd. Mae'r ail ymateb yn amlygu canfod *niche* sy'n adlewyrchu nodweddion benywaidd, megis gohebu ar faterion sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol o ddiddordeb i fenywod megis iechyd neu'r teulu. Awgryma'r ymateb olaf sef *retreat* nodweddion o orfod rhoi'r gorau iddi lle mae'r cyflogai yn troi at waith llawrydd yn hytrach na gorfod brwydro'n barhaus o fewn gweithle gwrywaidd ei natur. Er mai gadael y byd newyddion a wnaeth Patchell, ni ellir ei ddiffinio'n briodol gyda'r term *retreat* sy'n awgrymu cilio o heriau byd gwaith, yn hytrach gellir ei ddarllen fel penderfyniad gorchfygol. Roedd wedi dechrau cael blas ar waith cyfreithol, a phenderfynodd aros yn y maes gan ddatblygu gyrfa i'w hun fel cyfreithwraig.<sup>149</sup> Caiff y persbectif cadarnhaol hwn ei amlygu gan Ross, sef bod menywod sy'n penderfynu gadael y prif ffrwd o gynhyrchu newyddion yn dehongli eu gweithred fel un yn flaengar, yn hytrach nag fel gweithred oddefol. O safbwynt Patchell, dim ond yn rhan-amser y medrai ymwneud â chyflwyno'r newyddion, ac mae'n tybio o'r herwydd na ddatblygodd yr un awch am waith darlledu ag y gwnaeth am waith cyfreithiol. Teimlai yn ystod y cyfnod na fedrai ymroi i'w gwaith fel cyfreithwraig gan ei bod yn gorfod gadael yn gynnar ddeuddydd yr wythnos, ac ni allai ychwaith neilltuo mwy o'i hymdrechion i ddarlledu oherwydd gofynion ei swydd.

Gellid dadlau bod elfen o'r cysyniad *retreat* ym mhrofiad Beti George hefyd gan iddi barhau i weithio fel gweithwraig lawrydd trwy gydol ei gyrfa a hynny o'i dewis ei hun, ac felly gellir darllen ei phrofiad hithau fel un gorchfygol.<sup>150</sup> Yn ystod y cyfnod

---

<sup>146</sup> Mary Ann Sieghart a Georgina Henry, *The Cheaper Sex: How Women Lose Out in Journalism* (Llundain: Women in Journalism, noddwyd gan Tesco, 1998). Seiliwyd yr ymchwil ar gyfweiliadau gyda 537 o ddynion a menywod a weithiai i bapurau a chylchgronau cenedlaethol. <<https://womeninjournal.wpengine.com/wp-content/uploads/2020/06/The-Cheaper-Sex-1998.pdf>>

<sup>147</sup> Kim Walsh-Childer, Jean Chance a Kristin Herzog, 'Sexual Harassment of Women Journalists', *Journalism and Mass Communication Quarterly*, 73.3 (1996), tt. 559-81.

<sup>148</sup> Melin-Higgins a Djerf-Pierre, cyfeiriwyd atynt yn Ross, *Gendered Media: Women, Men and Identity Politics*, t. 84.

<sup>149</sup> Karen Ross, *Gendered Media: Women, Men and Identity Politics*, t. 84.

<sup>150</sup> Cyweliad yr awdur gyda Beti George, Medi 2019.

hwn pan benderfynodd Patchell neilltuo ei gyrfa i fyd y gyfraith newidiodd fformat *Heddiw*, ond cadwyd y tri chyflwynydd oedd yn weddill sef R. Alun Evans, Emyr Daniel a Beti George. Cyn ymuno â thîm *Heddiw* yn 1973, roedd George wedi magu tipyn o brofiad newyddiadurol ac felly roedd ei rôl hi ar *Heddiw* yn wahanol i un Patchell gan ei bod yn sgriptio ei straeon ei hun fel y gwnai Barbara Mandell ar ITV. Ond yr hyn sy'n nodweddu profiad George o'i gymharu gyda newyddiadurwraig ITN oedd iddi barhau yn wyneb cyson y brif raglen newyddion, tra diflannodd Mandell o'r sgrîn fel cyflwynydd dyddiol gydag ITN yn Ionawr 1956, gwta bedwar mis wedi lansio'r rhaglen. Ar y pryd roedd ITV yn profi heriau ariannol, ac o'r herwydd lleihawyd cyllid ITN a phenderfynwyd diddymu'r rhaglen newyddion hanner dydd a gyflwynwyd ganddi.<sup>151</sup>

Er bod George yn sgriptio ei straeon ei hun, dywedodd ni chai gyfle i gyflwyno eitemau caled ar y cychwyn.<sup>152</sup> Cai gyflwyno'r strand Help gan Heddiw, sef eitem gyson a ddarparai gymorth i ddefnyddwyr i ddatrys problemau.<sup>153</sup> Mae hyn yn ein hatgoffa o'r cysyniad o raglen ar ochr y gwylwr, fel y disgrifiwyd *Tonight*, ond teimlai George ei bod 'back to square one' oherwydd, fel y'i cyfyngwyd i eitemau ysgafn ar gychwyn ei gyrfa ddarlledu, fe'i cyfyngwyd drachefn i'r *soft beats* a'r eitem am y beic ymarfer yn nodweddiadol o'r math o ddeunydd y gofynnwyd iddi ei gyflwyno.<sup>154</sup> Nododd George fel hyn:

O'dd yr *exercise bike* wedi dod i fodolaeth ac o'n nhw am ddod â hwnnw mewn i'r stiwdio i ddangos i bobol, ac wrth gwrs o'dd e'n gyfle i ddangos coese Beti George, anghofia'i byth o hynny. Wrth gwrs o'n i mor ddiniwed, o'n i ddim yn meddwl dim byd aboutu'r peth, o'dd e'n waith, ac falle sen i'n gwrthod wel fydden i'n cael y *sack*, ond o'n i ddim yn meddwl fel 'na, sen i'm yn neud e nawr...achos fydde hynny ddim yn digwydd nawr. Dyna beth oedd y bwriad, o'dd dangos y ngoese i.

<sup>151</sup> Arweiniodd hyn at ymddiswyddiad y golygydd Aidan Crawley a'r cyflwynydd Christopher Chataway. Parhaodd Mandell serch hynny gydag ITN fel cyflwynydd achlysurol a newyddiadurwraig tan ei hymddeoliad yn 1980.

<sup>152</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Beti George, Medi 2019.

<sup>153</sup> Ibid., Aled Glyn Davies oedd yn ymchwilio deunydd ar gyfer y slot hwn, sef mab T. Glynne Davies. Darlledwyd cyfres boblogaidd a roddai gymorth i ddefnyddwyr gan ITV o'r enw *On the Braden Beat* (1962-7), a gyflwynwyd gan Bernard Braden, a drosglwyddodd i'r BBC yn hwyrach gyda'i gyfres o dan y teitl *Braden's Week* (1967-72). Ystyriwyd hon yn sail i'r gyfres *That's Life* (1973-94). Roedd i *Nationwide* strand ar gyfer defnyddwyr hefyd o dan y teitl *Watchdog*, a ddatblygodd yn gyfres o dan yr un teitl yn ddiweddarach ac mae'n parhau i'w chael ei darlledu.

<sup>154</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Beti George.

Mae'r profiad hwn yn amlygu'r cysyniad o dalent ar y sgrîn, y cysyniad niwlog hwnnw sy'n ymwneud â phryd a gwedd.<sup>155</sup> Ei chyd-gyflwynydd, Emyr Daniel oedd yn cael cyflwyno'r eitemau trymion a holi'r gwleidyddion, ac fel yr edmygai Patchell ddawn cyflwyno a chyfweld ei chyd-gyflwynydd R. Alun Evans, roedd George yn llawn edmygedd o ddawn gyffelyb Daniel, 'roedd neb tebyg iddo fel am holi gwleidyddion, roedd e'n ardderchog, gwyllo y ffordd i dynnu pethe mas o wleidyddion heb fod yn ymosodol ond mewn ffordd resymegol. O'n i ddim yn gwrthwynebu hyn o gwbl.'<sup>156</sup> Mae'r cyfeiriad hwn yn atsain profiad Arwel Ellis Owen o weithio gyda Robin Day, ac ymagwedd y darlledwr tuag at gyfweld.

Felly, er na wrthwynebai George natur yr eitemau a neilltuwyd iddi oherwydd gallu ei chyd-gyflwynydd yr hyn yr oedd yn anfodlon ag ef oedd y cyflog a dderbynai o'i gymharu â'i chyd-gyflwynydd. Er nad oedd yn arfer i gyflwynwyr llawrydd gymharu cyflogau, fe ddatgelodd Daniel faint a dderbynai, sef £30 y rhaglen, tra derbynai George £8 y rhaglen. Cafodd ei hannog ganddo i wneud cais am godiad cyflog, ond ateb negyddol a gafodd gan y wraig oedd yn trefnu cyflogau gweithwyr llawrydd, a fynegodd wrthi, 'Mae 'na *queue* o ferched mas fan 'na fydde wrth eu bodd yn cael eich job chi'. Wedi cwyno pellach a chefnogaeth golygydd *Heddiw*, Arwel Ellis Owen, codwyd y gyflog i £10 y rhaglen. Gellir cysylltu ymateb y trefnydd cyflogau gyda'r cysyniad o ddyled diolchgarwch, lle caiff menywod eu gorchymyn i fod yn ddiolchgar am yr hyn sydd ganddynt, agwedd all lyfetheirio gyrfaoedd unigolion, a'u hannog i fod yn werthfawrogol o'u sefyllfa heb chwennych cynnydd pellach.<sup>157</sup> Er hyn, pan oedd Daniel yn methu cyflwyno'r rhaglen un noson, ac R. Alun Evans yn sylwebu ar gêm bêl-droed oddi cartref, gofynnwyd i George i gyflwyno ar ei phen ei hun. Cytunodd i wneud os y cai ei thalu yr un faint â'i chyd-gyflwynwyr gwrywaidd ac fe gytunwyd. Am un noson felly derbyniodd £30. Dychwelodd y ffi i'r swm gwreiddiol ar gyfer y rhaglenni dilynol. Mae hyn yn amlygu gwahaniaeth sylweddol yn nhâl George o'i gymharu â Daniel, ac yn cyfleu'r awgrym bod ei chyfraniad fel cyflwynydd benywaidd yn llai gwerthfawr er bod yr amodau cyflogaeth llawrydd yr un peth.

---

<sup>155</sup> Gweler y drafodaeth yn yr Adolygiad Llenyddol, t. 16.

<sup>156</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Beti George.

<sup>157</sup> Rowan Aust, 'A debt of gratitude? The inhibition of women's careers in British television production: early reporting from The Currency of Gratitude project for the Screen Industry Growth Network', papur heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd yn y gynhadledd 'Doing Women's TV and Film History Network' (Prifysgol Maynooth, 10-11 Gorffennaf 2021).

Nid oedd natur y profiad hwn yn un newydd i George; roedd wedi dod ar draws agweddau rhywiaethol o'r fath yn y byd darlledu cyn iddi ymuno â thîm stiwdio *Heddiw*. Buasai ei hwyneb eisoes yn gyfarwydd i wylwyr y gyfres gan iddi gyflwyno eitemau ar leoliad yng nghyffiniau Abertawe, ac roedd ei llais yn gyfarwydd ers cychwyn y saithdegau fel gohebydd ar y rhaglen radio *Bore Da* a gyflwynwyd gan T. Glynne Davies. Bryd hynny roedd George yn byw yn Abertawe gyda'i gŵr oedd yn filfeddyg a'u mab, a oedd erbyn y cyfnod hwnnw wedi cychwyn yn yr ysgol. Ni themlai George ei bod yn gweddu i rôl draddodiadol, 'o'n i ddim yn hoffi bod gartre, a threulio 'mywyd yn mynd i gael coffi gyda hwn a'r llall'.<sup>158</sup> Er mwyn cael ei hystyried ar gyfer swydd gohebydd gofynnwyd iddi baratoi dwy eitem ac fe'i derbyniwyd, gyda'r siars 'Cofia nid ti fydd *number 1*'. Y *number 1* oedd prif ohebydd ardal Abertawe sef Ceri Garnon ac ef a gyflwynai'r eitemau trymion.

Gosodwyd George yn y *soft beats*, a'r mathau o eitemau a neilltuwyd iddi oedd sut i atal pobl rhag chwynnu, a recordiwyd ganddi yn Yr Allt-wen, ac eitem yn gofyn os oedd gormod o ddŵr ar y cwrw a recordiwyd mewn tafarn yn Ystradgynlais. Nodwyd eisoes i waith *vox pop* gael ei hwyluso ar deledu i Mandell a Middleton oherwydd bod ganddynt gefnogaeth criw ffilmio gwrywaidd, ond roedd George oherwydd natur ynysig y cyfrwng radio yn cyflawni hyn ar ei phen ei hun. Dylid nodi er mai *vox pop* oedd ansawdd yr eitemau ni recordiwyd mohonynt ar hap - fe'u trefnwyd o flaen-llaw gan George trwy gysylltu gyda'r capeli a chymdeithasau fel Merched y Wawr yn yr ardal, dau o'r rhwydweithiau hanfodol i unrhyw ymchwilydd cyfryngol fel gŵyr awdur y traethawd hwn. Yn ystod y cyfnod cychwynol hwn yn ei gyrfa fel yr unig lais benywaidd ymhlith staff cyflwyno *Bore Da* mae'n cydnabod iddi dderbyn hyfforddiant a chynghorion ardderchog gan T. Glynne Davies a ddysgodd gymaint iddi am grefft radio.<sup>159</sup>

---

<sup>158</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda Beti George. Daeth tair swydd i'r amlwg, swydd ysgrifenyddol yn y coleg hyfforddi, swydd ddysgu mewn ysgol yn y cyffiniau a swydd fel gohebydd yn cyflenwi eitemau i *Bore Da* gan bod Mair Roberts a fu'n gwneud y gwaith yn symud i Fangor gyda'i gŵr Alwyn Rees. Nid oedd George am ddychwelyd at ddysgu, swydd y bu'n ei gwneud wedi iddi briodi, a hynny yn yr ysgol ramadeg i fechgyn yn Aberhonddu, ond apeliai swydd y gohebydd ati.

<sup>159</sup> Roedd Anita Morgan yn darparu eitemau o ganolfan y BBC yn Abertawe trwy gyfrwng y Saesneg, ac eitemau cymdeithasol, ysgafn eu natur a neilltuwyd iddi hithau hefyd. Hi gafodd y fraint o fod y llais cyntaf i'w glywed ar orsaf BBC Radio Wales ar 13 Tachwedd 1978. Cafodd ei chyfweld ar achlysur dathlu 40 mlynedd ers cychwyn darlledu'r orsaf, gweler: BBC Radio Wales, *Good Morning Wales*, 13 Tachwedd 2018. <<https://www.bbc.co.uk/programmes/p06rp5cn>> [cyrchwyd 8 Awst 2021].



Daeth cyfle yn 1971 i George gamu, ar hap, o'r *soft beats* i ddeunydd caletach. Roedd damwain wedi digwydd yng nglofa Cwm Gwili a gan nad oedd Ceri Garnon ar gael gofynnwyd iddi hi ohebu'r stori. Roedd angen cyfweld gwragedd dau löwr a anafwyd (lladdwyd un glöwr arall), a chytunodd un ohonynt i siarad â George o blith yr holl newyddiadurwyr oedd yno, gan bod yn well ganddi siarad yn Gymraeg. Rhannodd ei phrofiad â George, gan ddatgelu pa fath o fywyd oedd bod yn wraig i löwr a sylweddolodd George mai dyna oedd newyddiadura go iawn, ac wrth gwrs roedd wedi bachu egsliswif.

Wedi iddi fwrw ei phrentisiaeth yn y maes penderfynodd George ymgeisio am docyn Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr oedd yn rheidrwydd yn ystod y cyfnod er mwyn gallu mynychu cyfarfodydd undeb. Gwrthodwyd ei chais cyntaf, '*pin-money* o'n i'n ennill gan bod fy ngŵr yn filfeddyg a mod i hefyd yn gwneud gwaith fel gohebydd', y gred ar y pryd oedd nad oedd angen i wraig briod fod yn gweithio os oedd ei gŵr yn llwyddiannus.<sup>160</sup> Teimlai bod y ffaith iddi gael ei gwrthod yn hollol annheg oherwydd roedd ei chyd-ohebydd yn yr ardal, Ceri Garnon, yn weinidog llawn amser. Gwnaeth gais drachefn, a chafodd gefnogaeth ffotograffydd ar y *Neath Guardian* a ddaeth yn gyfarwydd ag ef wrth ohebu ar wahanol straeon, a'r tro hwn bu'n llwyddiannus. Daeth cyfleoedd pellach i gyfweld teuluoedd glöwyr ac i fynychu cyfarfodydd Undeb y Glöwyr yn ystod cyfnod a nodweddiwyd gan streiciau yn y diwydiant glo a dur. Gwelwyd cynnydd yn nifer y straeon diwydiannol, felly gorfu i'r i'r BBC droi at George i ohebu'r straeon caled, ac roedd hithau wrth ei bodd gan i wleidyddiaeth ei diddori ers yn blentyn.<sup>161</sup>

Arweiniodd y gwaith radio at gyfleoedd i George ddarparu eitemau i deledu ac i *Heddiw* yn benodol er fe'i gwelodd yn anodd addasu i deledu i gychwyn. Teimlai bod cyfweld pobl yn ddigon rhwydd gan ei bod yn anghofio amdani hi ei hun, ond roedd cyflwyno i'r camera yn heriol. Mae'n cydnabod iddi dderbyn llawer o

---

<sup>160</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Beti George. Tybiwyd bod gan George swydd arall, a daeth i'r amlwg flynnyddoedd wedi hynny bod yna athrawes ar y pryd â'r un enw â hi, er na chyfarfu â hi.

<sup>161</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Beti George. Cofiai George fynd i dŷ cymydog i wrando ar ganlyniadau'r etholiad ddiwedd yr Ail Ryfel Byd ar y radio pan etholwyd Attlee yn Brif Weinidog a Churchill yn cael ei wrthod, hithau'n methu deall pam fod ei chymydog yn cefnogi Churchill gan ei bod hi wedi ei magu ar aelwyd lle oedd ei thad yn Llafurwr. Sylwodd hefyd yn ystod ei gyrfa os oedd hi'n cyfweld teuluoedd ar bwnc gwleidyddol, petai hi'n gofyn i'r gwragedd am eu barn, yr ymateb fuasai 'gofynnwch i'r gŵr' fel petai dim hawl ganddynt drafod gwleidyddiaeth. Yn ystod y cyfnod nododd petai'r wraig yn pleidleisio yn erbyn ei gŵr mewn etholiad buasai hynny yn cael ei ystyried yn eithriad.

gefnogaeth yn hyn o beth gan David Parry-Jones (1933–1997), y cyflwynydd a'r sylwebydd chwaraeon,<sup>162</sup> a ddaeth yn bartner iddi am dros ddeugain mlynedd.<sup>163</sup>

Roedd Parry-Jones yn brofiadol eisoes ym maes teledu, a bu'n gymorth i George i ddatblygu ei sgiliau, yn benodol i addasu ei llais. Yn ôl George, fe'i beirniadwyd yn y wasg gan Jennie Eirian, ac ym marn George nid oedd yr adolygydd o blaid menywod yn darlledu. Ei chwyn oedd bod George yn meddu ar lais ar draw uchel, ac mae hithau'n cydnabod hynny, oherwydd llais top soprano oedd ganddi wrth ganu. Aeth Parry-Jones ati i'w helpu i ostwng traw ei llais, i swnio yn llai benywaidd, oherwydd tybiai'r ddau bod llais uchel yn medru bod yn ansoniarus ar radio a theledu. Mae hyn yn enghraifft o gyflwynydd yn ymateb i feirinadaeth yn y wasg ac sy'n adlewyrchu'r rhagdybiaeth bod lleisiau naturiol menywod yn annerbyniol ar y cyfryngau darlledu.<sup>164</sup> O wrando ar George yn darlledu heddiw, mae ei llais ar draw isel, ac mae hi wedi rhoi hyfforddiant i eraill ar ostwng eu lleisiau.

Yn yr un modd ag y caiff lleisiau menywod ar y cyfryngau eu trin yn wahanol i leisiau dynion, yr un modd eu gwisg a'u gwedd, ac mae hyn yn fwy amlwg mewn gwaith stiwdio. Fel nododd George nid oedd gwahaniaeth beth a wisgai ar leoliad, gallai fod yn anffurfiol, ond yn y stiwdio disgwylid mwy o ffurfioldeb. Nid oedd cyllideb gwisgoedd ar gyfer *Heddiw*, a buasai'n gwisgo beth a fynnai, penderfyniad a wnaed yn haws iddi gan ei bod yn weithwraig llawrydd. Mae'n cyfaddef ei bod bob amser wedi dilyn ffasiwn ac wedi adlewyrchu hynny ar y sgrîn. Cafodd gyngor un tro gan gynhyrchydd petai hi'n lliwio ei gwallt yn *blonde* buasai'n cael llawer mwy o waith, ond er iddi liwio ei gwallt sawl tro gan gynnwys *highlights* porffor nid aeth yn olau. Y dybiaeth yn ôl George oedd bod gwallt *blonde* yn *glamorous*, ond ni ddeisyfai hynny er y sylweddolai ei fod yn denu sylw ym myd teledu.

---

<sup>162</sup> David Parry-Jones (1934–2017). Roedd Parry-Jones yn dipyn o seren, ac yntau wedi sylwebu ar gêm enwog y Scarlets yn ennill yn erbyn y Cyrsau Duon yn 1972 a chyflwynai'n gyson ar *Wales Today*, y rhaglen newyddion ddyddiol cyfrwng Saesneg. BBC Cymru Fyw, *Y darlledwr David Parry-Jones wedi marw* (10 Ebrill 2017). <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39553221>> [cyrchwyd 21 Mehefin 2021].

<sup>163</sup> Cyfweliad yr awdur gyda Beti George. Cyfarfu ag ef gyntaf pan oedd yn gohebu ar is-etholiad Merthyr ym 1974 ac ymhen amser wrth i'w cyfeillgarwch ddyfnhau, daeth priodasau'r ddau i ben, ac aeth George i fyw gydag ef yng Nghaerdydd ym 1975. Erbyn hyn roedd yn gyflwynydd stiwdio ar *Heddiw*, ac mae'n disgrifio'r cyfnod hwn fel un anodd dros ben yn bersonol, roedd yn hynod o lwcus bod ganddi waith ac roedd hynny yn cadw ei thraed ar y ddaear. Roedd Owen Edwards yn gefnogol i'r ddau, ac Arwel Ellis Owen fel golygydd *Heddiw* yn gefnogol iddi hithau. Ni ffrwydrodd y stori yn y wasg, a chred George mai'r ffaith bod golygyddion llawer o'r papurau newydd yn ffrindiau gyda'i phartner oedd i gyfri am hynny.

<sup>164</sup> Myra McDonald, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media* (Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2002), t. 45.

Mae'n ddiddorol i ystyried pa fenywod eraill oedd i'w gweld mewn rhaglenni ffeithiol yn ystod y cyfnod hwn. O fwrw golwg ar deledu rhwydwaith y BBC, lansiwyd rhaglen newydd gyda'r nos yn 1969 sef *Nationwide*, cyfres a fu ar yr awyr tan 1989.<sup>165</sup> Ymhlith y cyflwynwyr cyntaf oedd Frank Bough, ac o 1972 gwelwyd menyw yn cyd-gyflwyno ag ef sef Sue Lawley. Roedd Lawley fel George yn enghraifft o fenyw oedd wedi derbyn addysg uwch ac wedi bwrw ei phrentisiaeth ym maes newyddiaduraeth, yn gyntaf fel gohebydd ar *The Western Mail* a *The South Wales Echo* rhwng 1967 ac 1970, ac yna fel is-olygydd gyda BBC Plymouth cyn ymuno â thîm *Nationwide*. Yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd yn 1998 nododd y sefydliad *Women in Journalism* bod tri degawd o ymgyrchu ffeminyddol wedi graddol newid cyfansoddiad staff ar bapurau newyddion a chylchgrawn ac agweddau tuag at newyddiadurwyr benywaidd.<sup>166</sup> Yr un modd ym maes darlledu, wrth i fwy o fenywod a dderbyniodd addysg uwch gamu i ystafelloedd newyddion darlledu gwelwyd newid graddol yng nghyfansoddiad y gweithlu a llai o bwyslais ar ddiwylliant a ddeilliai o ystafelloedd newyddion y wasg. Trosglwyddodd Lawley o ddesg *Nationwide* i ddesg prif raglenni newyddion rhwydwaith y BBC am 6pm a 9pm yn ystod yr wythdegau, a daeth George yn un o brif gyflwynwyr rhaglen newyddion S4C pan lansiwyd y sianel yn 1982, sef *Newyddion 7* a ddaeth i olynu *Heddiw*.

Mae George erbyn hyn (2022) yn ei hwythdegau ac yn parhau ar yr awyr, a'i rhaglen sgyrsiol *Beti a'i Phobol* yn un o gonglfeini gwasanaeth BBC Radio Cymru. Cafodd Lawley hithau gyfle i gyflwyno *Desert Island Discs* (1942–) o 1988 i 2006. Mae hirhoedledd George i'w briodoli i'r ffaith nad yw wedi ystyried ei hun fel talent neu'r bersonoliaeth *glamorous* ar y sgrîn, ac o'r herwydd nid yw ei gyrfa wedi ei effeithio ganddi'n heneiddio fel y mae wedi gwneud i rai cyflwynwyr benywaidd.<sup>167</sup> Mae edmygedd ei chynulleidfa ohoni yn deillio o'i hygredd fel newyddiadurwraig a'i phresenoldeb fel cyflwynydd gwybodus.

---

<sup>165</sup> *Nationwide*, (BBC, 1969–1983). Gweler: BBC Archive, *Looking Back at an Institution*,

<<https://www.bbc.co.uk/archive/greatest-programme-nationwide/zh6cf4j>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>166</sup> Sieghart a Henry, *The Cheaper Sex: How Women Lose Out in Journalism*. Roedd dynion yn tueddu i fod wedi cychwyn ar eu gyrfa yn eu harddegau tra bod menywod wedi cychwyn arni'n hwyrach, yn eu hugeiniau. Dim ond 12% o'r menywod oedd wedi treulio mwy nag 20 mlynedd yn y proffesiwn o'i gymharu gyda 35% o ddynion.

<sup>167</sup> Yr enghraifft amlycaf yn ystod y cyfnod diweddar yw pan aeth y gyflwynwraig Miriam O'Reilly â'r BBC i dribiwnlys cyflogaeth yn 2011, yn dilyn diwedd ei chyflogaeth fel cyflwynydd y rhaglen *Countryfile*. Enillodd O'Reilly ei hachos ar sail rhagfarn oed, ond nid o ran rhagfarn rhyw. John Plunkett, 'Countryfile's Miriam O'Reilly wins BBC ageism claim', <<https://www.theguardian.com/media/2011/jan/11/countryfile-miriam-oreilly-tribunal>> [cyrchwyd 19 Ionawr 2021].

Y rhaglenni a roes y cyfle i George fwrw ei phrentisiaeth a magu hyder mewn siarad a'i 'phobol' oedd *Bore Da* a *Heddiw*, ac mae modd deall cyfrinach llwyddiant *Heddiw* wrth ystyried disgrifiad Lawley o *Nationwide*:

*Nationwide* existed to talk to the ordinary man in the street in a way that he understood and enjoyed. And it would be – it was a great trick. The trick is to explain things very carefully, to spell them out, but never to patronise. Very, very difficult line to tread but if you tread it you have success on your hands, because people like you and trust you. And you respect them in return and there becomes – *Nationwide* was the nation talking to itself really.<sup>168</sup>

Daeth *Heddiw* i ben gyda dyfodiad S4C ar yr awyr yn Nhachwedd 1982, ac fel nododd Gwyn Llewelyn '... marw i fyw a wnaeth *Heddiw*', gan fraenaru'r tir ar gyfer gwasanaeth newyddion y sianel newydd.<sup>169</sup> Enillodd y gyfres ei phlwyf o dan arweiniad y cyflwynydd ifanc Owen Edwards, a mynegodd ei ddyled i waddol y gyfres o safbwynt gwasanaethu cenedl, ac yn benodol i Nan Davies:

Tasa *Heddiw* di methu fasa na ddim S4C a mi garwn i feddwl fod Nan, a ma gynnon ni gymaint o ddyled iddi – Nan Davies, tasa hi dal efo ni heddiw yn falch bod y datblygiad yma wedi digwydd. Ac mai o *Heddiw* y tarddodd yr estyniad mawr yma o raglenni teledu Cymraeg.<sup>170</sup>

I Davies felly, nid sicrhau cyfleoedd i fenywod o fewn y ddarpariaeth oedd y flaenoriaeth; yn yr un modd â nifer o'r ymgyrchwyr cenedlaetholgar benywaidd y cyfeiriwyd atynt eisoes yn yr adolygiad llenyddol, brwydr yr iaith ac nid y frwydr hawliau merched a brofodd fantais eu hymdrechion. Yr hyn a arweiniodd at wynebau benywaidd ar y sgrîn fel Mary Middleton, Elinor Patchell a Beti George oedd ymdrechion dau ddyn, sef John Roberts Williams ac Arwel Ellis Owen. Yr hyn a gyflawnodd Davies trwy ymdrechion ei gwaith o ddydd i ddydd o fewn strwythur Prydeinig y BBC oedd sicrhau bod yna ddarpariaeth safonol ddyddiol ar deledu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a fuasai'n cynnig i Gymry Cymraeg ffenestr eang nid yn unig ar eu gwlad eu hunain ond ar y byd. Un cornel penodol o'r byd a ddarluniwyd ganddi mewn llun a sain i wylwyr Cymraeg oedd Patagonia, ac arweiniodd ei

<sup>168</sup> Helen Wood, *Speaking to you at Home*. History of the BBC,

<<https://www.bbc.com/historyofthebbc/100voices/pioneeringwomen/speaking-to-you-at-home>> [cyrchwyd 19 Ionawr 2021].

<sup>169</sup> Gwyn Llywelyn, dyfynwyd yn *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams*, t. 85.

<sup>170</sup> *Heddiw Ddoe* 2, 7 Medi 1982, Archif BBC Cymru Wales.

dealltwriaeth o fywyd cefn-gwlad at raglenni unigryw o'r Wladfa. Bydd y bennod nesaf yn canolbwyntio ar y deunydd hwnnw ac ar gynyrchiadau eraill o eiddo Davies a roddodd gyfle iddi osod ar gof a chadw ffordd o fyw wledig oedd yn prysur ddiplannu.



## Pennod 5

### Rhaglenni nodwedd: Nan Davies

Yn ystod ei hwythnosau cyntaf yn gweithio i'r BBC ym Mangor yn 1935 buasai Nan Davies wedi dod ar draws cynhyrchiad rhaglen a ddynodai 70 mlynedd ers glaniad yr ymfudwyr cyntaf ym Mhatagonia sef *Rhamant y Wladfa* (1935).<sup>1</sup> Caiff y rhaglen ei disgrifio fel a ganlyn, 'Heno, ceisiwn fynd a (sic.) chwi i'r Wladfa a'i dangos fel yr oedd yn y dechreuad ac atgynhyrchu rhai o'r digwyddiadau mwyaf cyffrous a fu yn ei hanes'.<sup>2</sup> Ni wyddys ai elfennau o ffuglen wedi eu seilio ar ddiwyddiadau hanesyddol a gafwyd neu drafodaeth i ysgogi dychymyg y gwrandawyr. Nid dyma'r tro cyntaf i'r Wladfa ddenu diddordeb darlledwyr, oherwydd saith mlynedd ynghynt, yn 1928 darlledwyd y sgwrs gyntaf ar y pwnc gan ŵr o'r enw Mr D. Rhys Phillips o dan y teitl, *The Welsh Settlement in Patagonia* (1928),<sup>3</sup> ac mae'r diddordeb yn y mudwyr yn parhau yn rhaglenni achlysurol y BBC yn ystod y degawdau i ddilyn. Ynddynt caiff dwy fath o driniaeth eu hamlygu, yn ddibynnol ar lle y'u cynhyrchwyd. Yn y rhaglenni a hanai o Gymru, yr ymfudwyr Cymreig oedd canolbwynt y sylw, tra mai'r tirlun neu arferion amaethyddol oedd yn denu sylw y rhaglenni a gynhyrchwyd y tu hwnt i Gymru.<sup>4</sup>

Un o'r unigolion a fu'n ddiwyd trwy gydol ei oes yn darparu gwybodaeth am gysylltiad Y Wladfa a Chymru oedd Y Parch R. Bryn Williams,<sup>5</sup> a chafwyd ganddo fewnwelediad unigryw i fywyd y Gwladfawyr mewn llyfrau teithio, ffuglen i blant ac mewn rhaglenni. Mae modd priodoli hyn i'r ffaith iddo dreulio ei fachgendod yn Y Wladfa, a rhannodd ei brofiadau ar gyfres radio yn 1936 o'r enw *Rown i Yno*, a'r teitl yn amlygu'r pwyslais ar brofiad personol.<sup>6</sup> Yn 1955 rhannodd darlledwr arall, W.R. Owen ei brofiad o deithio i'r Wladfa gyda gwylwyr teledu i ddynodi 90 mlynedd ers

---

<sup>1</sup> BBC Genome, *Rhamant y Wladfa*, 5 Hydref 1935, cyfarwyddwyd y rhaglen gan Sam Jones. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/a4606ce32b2d4072b49c70e3e818515e>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021]

<sup>2</sup> Ibid.

<sup>3</sup> BBC Genome, *The Welsh Settlement in Patagonia*, 7 Chwefror 1928. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/bd5ce8383e7e4f93bf84fae0b9dd8a30>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>4</sup> Er enghraifft, BBC Genome, *Travel Talk: Life and Work: 4: Sheep-ranching in Patagonia*, 15 Chwefror 1935. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/9e00964f269747799b3fb7ed342b0311>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>5</sup> Richard Bryn Williams (1902–1981). Am restr o'i gyhoeddiadau gweler: <<https://www.worldcat.org/identities/lccn-n81-063338/>>

<sup>6</sup> BBC Genome, *Rown i Yno*, 6 Mai 1936. Noda'r *billing*, 'Treuliodd y Parch. R. Bryn Williams, Bwlan, Sir Gaernarfon, ei fachgendod yn y Wladfa Gymreig, ym Mhatagonia. Yn y sgwrs hon rhydd ddisgrifiad o'r wlad a'i phobl fel y gwelodd ef hwynt, ac edrydd hanes rhai o'r digwyddiadau y bu ef yn dyst ohonynt.' <<https://genome.ch.bbc.co.uk/f32bb818f51342ddae2b2c39029aae62>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

yr ymfudo.<sup>7</sup> Yn y rhaglen o dan y teitl, *Teithio'r Wladfa* (1955) rhannodd Owen ei ddelweddau ei hun a delweddau gan Luis Choucino, gŵr a gaiff ei ddisgrifio fel aelod o staff Hysbysebu Llywodraeth Ariannin.<sup>8</sup> Yn ogystal â'r sylw i hanes yr ymfudo, caiff gwylwyr eu denu i 'weld *asado* yn Nhir Halen a'r Cymry yn yfed *mate*' – dau o arferion y wlad; cip ar brydferthwch llynnoedd yr Andes; a'r datblygiadau diweddar ar lannau'r Camwy.<sup>9</sup> Mae'r pwyslais ar y gweledol yn *billings* y rhaglen, ac ar ymdrech glir i amlygu gallu'r cyfrwng teledu i ddarlunio'r Wladfa. Mae hyn yn agwedd bwysig i'w nodi gan mai fel cynhyrhydd a chyflwynydd radio yr oedd W.R. Owen wedi meithrin ei grefft, a daeth â phellaoedd byd yn fyw i wrandawyr Cymru trwy gyfrwng y gair.<sup>10</sup> Er hyn cadwai gofnod gweledol o'i deithiau gan iddo gymryd ffotograffau ar y daith yn 1955 (ac ar daith arall yn 1965).<sup>11</sup> Gwnaed y gwaith ffilmio gan Luis Choucino fuasai'n gyfarwydd â'r tirlun a'r cynhyrchu gan Selwyn Roderick oedd newydd ei benodi yn gynhyrhydd teledu. Yn 1954 ac yntau yn 26 oed, fe roddwyd iddo'r cyfrifoldeb o greu rhaglenni teledu i Gymru a gweddill Prydain gyda dyfodiad Uned Ddarlledu Allanol i ganolfan y BBC yn Nghaerdydd.<sup>12</sup> Datblygodd ddealltwriaeth o ofynion y cyfrwng gweledol gan fagu enw da iddo'i hun fel cynhyrhydd teledu, a chredai bod gan deledu swyddogaeth bwysig i ddarlunio Cymry oddi cartref. Nododd flynyddoedd yn ddiweddarach, 'Information about the world's ways may come from somewhere else, Welsh broadcasters have an unchallenged responsibility to keep an eye on our own wherever they may be. Nobody else will do it for us – nobody else would want to.'<sup>13</sup> Mae'r dyfyniad hwn yn amlygu'r cyfrifoldeb a deimlai staff fel Roderick i ddarlunio bywyd y Cymro lle bynnag y bo, ond at un o wŷr eraill y cyfrwng teledu yng Nghymru y trodd y BBC er mwyn portreadu'r Cymry oddi cartref ar gyfer canmlwyddiant y Glaniad ym Mhatagonia yn 1965, sef John Ormond, a hynny er

---

<sup>7</sup> W.R. Owen (1906–1982), Morfudd Nia Jones, *Owen, William Richard (1906–1982), arloeswr darlledu yng Nghymru*, (2014), Y Bywgraffiadur Cymreig. <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-OWEN-RIC-1906>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>8</sup> BBC Genome, *Teithio'r Wladfa*, 20 Hydref 1955, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/918b632c149649ae9845ce34bfbdb8dd>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>9</sup> *ibid.*

<sup>10</sup> Morfudd Nia Jones, Y Bywgraffiadur Cymreig.

<sup>11</sup> Casgliad Dwynwen Belsey, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, <<https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/ffotograffau/casgliad-dwynwen-belsey/>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>12</sup> 'Selwyn Roderick: pioneering television producer in Wales', *Independent*, 23 Hydref 2011, <<https://www.independent.co.uk/news/obituaries/selwyn-roderick-pioneering-television-producer-in-wales-2288115.html>> [cyrchwyd 23 Gorffennaf 2021].

<sup>13</sup> Selwyn Roderick, symposiwm *Wales in Vision*, 1990; dyfynnwyd yn *The Independent*, 23 Hydref 2011. Dychwelodd Roderick at bwnc yr ymfudo i Batagonia pan gynhyrchoedd gyfres o raglenni o dan y teitl, *Plant y Paith* a gyflwynwyd gan Owen Edwards ac a ddarlledwyd gyntaf ym mis Mai 1980. BBC Genome, 2 Mai 1980. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/p00d41fd>> [cyrchwyd 11 Awst 2021].



mwyn cynhyrchu ffilm Saesneg.<sup>14</sup> Roedd wedi ei gyflogi gan y BBC yn 1955 fel cynorthwy-ydd newyddion teledu, ac yn gyfrifol am gasglu straeon newyddion ar hyd a lled Cymru ar gyfer y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.<sup>15</sup> Erbyn y cyfnod hwn roedd wedi sefydlu ei hun fel cynhyrchydd ffilmiau dogfen, â'i ffilm o dan y teitl, *Borrowed Pastures* (1960) wedi denu cryn sylw.<sup>16</sup> Portread ydoedd o fywyd dau Bwyliad alltud ar fferm yn Sir Gaerfyrddin ac fe'i lleisiwyd gan Richard Burton, felly roedd wedi llwyddo eisoes i bortreadu tirlun gwledig a ffordd o fyw amaethyddol ar y sgrîn. At Nan Davies y trodd y BBC i gynhyrchu cynnwys cyfrwng Cymraeg o'r Wladfa ar gyfer radio a theledu, ac fe'i rhyddhawyd o'i dylestwyddau gyda *Heddiw* i wireddu'r deunydd.

Dau unigolyn o rigolau cynhyrchu ffeithiol, felly, a deithiodd i'r Wladfa yn 1962, gan dreulio eu cyfnod yno yn lletya gyda theuluoedd yn y Gaiman a Threlew gan sicrhau adnabyddiaeth o nodweddion eu bywyd bob dydd.<sup>17</sup> Ceir ffotograff hyrwyddo ym meddiant nai Nan Davies, Gwyn Davies, sy'n dangos y ddau yn ffarwelio gyda Hywel Davies, Pennaeth Rhaglenni y tu allan i adeilad *Broadcasting House* yn Park Place a hwythau ar gychwyn eu hantur. Yn y llun mae Davies wedi ei gwisgo yn ei chot orau, a chanddi het a bag llaw sy'n dod â steil amlwg i'r achlysur ac yn cyfleu cyffro'r fenter. Os nad oedd llawer o wylwyr teledu Prydain wedi profi menter o'r fath eu hunain, roeddent wedi dechrau cyfarwyddo â chael eu tywys gan y cyfrwng i bellafodd byd gan gyflwynwyr fel Alan Whicker mewn slot cyson ar yr rhaglen *Tonight*,<sup>18</sup> a arweiniodd at sefydlu'r gyfres boblogaidd *Whicker's World* (1965–68).<sup>19</sup> I Whicker, y cyn-newyddiadurwr *suave*, y rhyfedd a'r unigryw a'i denai yn y rhaglenni cynnar, ond i Davies, yn ei chynnyrch o Batagonia, pobl gyffredin a'r nodweddion a rannent â'u cefndryd Cymreig oedd o ddiddordeb. Roedd ei hamcan yn nes at y cysyniad Grierson-aidd o egluro cymdeithas i gymdeithas,<sup>20</sup> ac o

<sup>14</sup> John Ormond Thomas (1923–1990), bardd a gwenuthurwr ffilm. Am wybodaeth bellach ar Ormond, gweler cyfrol Keiron Smith, *John Ormond's Organic Mosaic* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2019).

<sup>15</sup> M. Wynn Thomas, *John Ormond* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 27. Yn 1957 gwnaed Ormond yn bennaeth ar uned ffilm ddogfen, a nododd, 'In the new unit a number of things I was committed to could come together: my social concerns, my involvement with the graphic (I had always been a keen cinema-goer), my writing and my love of music.' t. 33.

<sup>16</sup> <<https://www.bbc.co.uk/programmes/p00gxvjj>> [cyrchwyd 9 Awst 2021].

<sup>17</sup> *The Radio Times*, (Argraffiad Cymru), 'Y Gymru Bell: Taith i Batagonia', 7 Hydref 1962. Archif BBC Cymru Wales.

<sup>18</sup> *Tonight* (1957-1965). Sefydlwyd y slot yn 1958.

<sup>19</sup> Tise Vahamagi, BFI Screenonline, 'Whicker, Alan (1925 - )'.

<<http://www.screenonline.org.uk/people/id/531470/index.html>> [cyrchwyd 9 Awst 2021].

<sup>20</sup> John Grierson, dyfynnwyd yn Paddy Scannell, 'The Social Eye of Television, 1946-1955', *Media Culture and Society*, 1.1 (1979), 97–106 (t. 101).

ddarparu gwybodaeth sy'n unol ag egwyddorion darlledu cyhoeddus o hysbysu, addysgu ac adlonni.<sup>21</sup>

I gychwyn, bu Davies yn recordio cyfweiliadau sain ac Ormond yn cynllunio ei waith ffilmio, ac mae'r ffaith bod y gwaith recordio wedi cael ei wneud yn annibynnol ganddi heb gymorth person sain yn arwyddo ei bod yn hyderus yn y defnydd o dechnoleg.<sup>22</sup> Cynhyrchodd bedair rhaglen radio yn darlunio'r gymuned o dan y teitl *Cwlwm*, ac fe'u darlledwyd ar bedair nos Sul yn olynol yn ystod mis Hydref 1962, a'r teitl yn pwysleisio perthynas y Gwladfawyr a'r Cymry.<sup>23</sup> Yn ystod y prynhawn ar y pedwar Sul hwnnw buasai gwylwyr teledu wedi profi Y Wladfa ar y sgrîn mewn cyfres o dan y teitl *Y Gymru Bell*.<sup>24</sup> Mae'r awydd i roi sylw i gynnwys tebyg ar ddau gyfrwng ar yr un diwrnod darlledu yn un diddorol y gellid ei ystyried fel ymdrech farchnata i fachu sylw a magu diddordeb cynulleidfa i ddychwelyd at y deunydd dros gyfnod o bedair wythnos.

O'r lluniau a saethwyd gan Bill Greenhalgh,<sup>25</sup> (a deithiodd i Batagonia wedi iddo dreulio cyfnod ffilmio yn Peru gyda *Panorama*) a'r sain a recordiwyd gan Norman Allen, creodd Davies bedair rhaglen deledu hanner awr yr un. Mae is-deitlau'r pedair, sef 'Y Dyddiau Cynnar', 'Wrth droed yr Andes', 'Y Wladfa Heddiw' a 'Pwyso a Mesur', yn dynodi ymdrech ar ei rhan i roi trefn ar wybodaeth ddaearyddol, hanesyddol a chyfredol.<sup>26</sup> Yr hyn sy'n nodweddu'r rhaglenni o ran technegau cydnabyddedig y genre ffilm a rhaglenni dogfen, yw cyfweiliadau gydag amrediad o drigolion Y Wladfa a gaiff eu cynnal gan Davies ei hun.<sup>27</sup> Cânt eu gwau at ei gilydd trwy ddefnydd o sylwebaeth a gaiff ei leisio ganddi, a defnydd o

<sup>21</sup> Asa Briggs, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: the birth of broadcasting, Vol 1*, (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1961), t. 54.

<sup>22</sup> *The Radio Times*, (Argraffiad Cymru), 'Y Gymru Bell: Taith i Batagonia', 7 Hydref 1962. Archif BBC Cymru Wales.

<sup>23</sup> Archif BBC Cymru Wales, *BBC Radio Times* (Argraffiad Cymru), *Cwlwm*, darlledwyd ar y dyddiadau canlynol: 7 Hydref 1962, 14 Hydref 1962, 21 Hydref 1962, 28 Hydref 1962. Nid yw'r gyfres hon wedi goroesi.

<sup>24</sup> Archif BBC Cymru Wales, *BBC Radio Times* (Argraffiad Cymru), *Y Gymru Bell*, 7 Hydref 1962, '1. Y Dyddiau Cynnar'; 14 Hydref 1962, '2. Wrth droed yr Andes'; 21 Hydref 1962, '3. The Colony Today' (ni cheir teitl cyfatebol yn y disgrifiad Cymraeg); 28 Hydref 1962, '4. Pwyso a Mesur'. Ail-ddarlledwyd y gyfres ym mis Gorffennaf 1963 gan arwain at raglen drafod o dan yr un teitl ar nos Wener, 2 Awst 1963, cyn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno. Nodwyd y wybodaeth ganlynol yn *The Radio Times*: 'Yr wythnos nesaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol bydd trafod ar gynituniau [sic.] i ddatlu can-mlwyddiant y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia yn 1965. Ffurf y dathlu hwn a'r posibilrwydd o greu rhagor o gyfathrach rhwng Cymru a'r Wladfa fydd pwnc y drafodaeth heddiw. Siaradwyr, Syr Ben Bowen Thomas, Y Fonesic Megan Lloyd George, Bryn Williams, Valmai Jones. Cadeirydd Gwilym Prys Davies.' <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ab266114c0bb4ac0b13bcfdbe2cceb98>> [cyrchwyd 30 Ionawr 2018].

<sup>25</sup> Roedd Bill Greenhalgh wedi gweithio gyda Davies ar gynrychiadau fel *Prynhawn o Fai*, 19 Mehefin 1960. BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ab6234b58d0d4712bb717ab161db55cd>> [cyrchwyd 30 Ionawr 2018] a *Cynhaef y Cilie*, 9 Hydref 1960, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/dfda8a6f15344cf6b2251fe37879bea1>> [cyrchwyd 30 Ionawr 2018].

<sup>26</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Y Gymru Bell*, 7 Hydref 1962, '1. Y Dyddiau Cynnar'; 14 Hydref 1962, '2. Wrth droed yr Andes'; 21 Hydref 1962, '3. The Colony Today' (ni cheir teitl cyfatebol yn y disgrifiad Cymraeg); 28 Hydref 1962, '4. Pwyso a Mesur'.

<sup>27</sup> Bill Nichols, *Introduction to Documentary*, trydydd rhifyn (Indiana: Gwasg Prifysgol Indiana, 2017), gweler pennod 1: 'How can we define documentary film', tt. 1–28.

gerddoriaeth Sbaenaidd ei naws neu glasurol dros saethiadau eang o'r tirlun sy'n amlygu'r arferion amaethu.

Nod sgript ffeithiol ar gyfer y cyfrwng radio a theledu yw efelychu nodweddion yr iaith lafar, ond mae natur sylwebaeth Davies yn ffurfiol ei gywair. Caiff hynny ei amlygu gan ddefnydd y ferf, er enghraifft, 'Deuid o hyd i aur',<sup>28</sup> a chan ddewis o ansoddair lluosog i ddilyn enw lluosog, 'mentrodd rhai o'r bechgyn ar gyrchoedd meithion',<sup>29</sup> ynghyd â'r defnydd o'r dull traddodiadol o gyfri, 'Dau gant a phedwar ugain o erwau' wrth ddisgrifio maint y rhandiroedd a neilltuwyd i'r mewnfudwyr cynnar'.<sup>30</sup> Effaith hyn oll yw bod y sgript yn tynnu sylw ati'i hun fel sgript a gaiff ei darllen gan y dylai sgript ar gyfer teledu fynd â'r gwyliwr ar siwrnai weledol.<sup>31</sup> Yn ogystal mae yna naws Feiblaidd i'r mynegiant, er enghraifft wrth gyfeirio at y gobaith o diroedd newydd, 'Roedd ystyr newydd i Dir yr Addewid' ac yn hwyrach wrth gyfeirio at y ddatblygiad y camlesi, 'Gwyrth y dŵr bywiol ar y crindir' lle mae'r 'egin yd yn sychedu am ei fendith'.<sup>32</sup> Gellid tybied bod cyfeiriadaeth o'r fath yn dod yn naturiol i Davies o ystyried ei chefnidir, mae'n fodd iddi fynegi profiad y gwladawyr fel un ysbrydol ac mae hyn yn gweddu gyda'r sylw i grefydd Gristnogol Y Wladfa. Mae hi hefyd yn barod i ddefnyddio trosiadau er mwyn cyfoethogi'r sylwebaeth, wrth ddisgrifio egwyl y siesta, 'tan bydd yr haul 'di colli peth o'i fflam',<sup>33</sup> ac wrth gyfeirio at y tir heriol, 'dofi diffeithwch a'i droi yn dir cyfannedd'.<sup>34</sup> Gellid dadansoddi ei dewis o ieithwedd ar gyfer y sylwebaeth fel arwydd o barch i'r gynulleidfa ac o'i hawydd i anelu at y safon uchaf, er nad yw hynny o angenrheidrwydd yn gwbl addas i gyfrwng gweledol.

Er ffurfioldeb y sylwebaeth, mae'r modd y cafodd y rhaglenni eu torri yn rhoi cyfle i'r llun i adrodd y stori, a gellid priodoli hynny i ddylanwad John Ormond sy'n cael ei nodi fel cyfarwyddwr y rhaglenni. Er enghraifft, caiff y gwyliwr brofi yr olygfa o Fae Madryn o'r môr sy'n efelychu profiad y mudwyr cynnar,<sup>35</sup> a themlo tawelwch y siesta ar y sgrîn gyda golygfeydd y tu mewn i gartref traddodiadol.<sup>36</sup> Yn ogystal caiff

<sup>28</sup> *Y Gymru Bell*, '2. Wrth droed yr Andes', 14 Hydref 1962, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>29</sup> *ibid.*

<sup>30</sup> *Y Gymru Bell*, '1. Y Dyddiau Cynnar', 7 Hydref 1962, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>31</sup> Alan C. Hueth, *Scriptwriting for Film, Television and New Media*, (New York: Focal Press, 2019), t. 2.

<sup>32</sup> *Y Gymru Bell*, '1. Y Dyddiau Cynnar'.

<sup>33</sup> *Y Gymru Bell*, '3. Y Wladfa Heddiw', 21 Hydref 1962, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>34</sup> *Y Gymru Bell*, '4. Pwyso a Mesur', 28 Hydref 1962, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>35</sup> *Y Gymru Bell*, '1. Y Dyddiau Cynnar'.

<sup>36</sup> *Y Gymru Bell*, '3. Y Wladfa Heddiw', 21 Hydref 1962.

y gwyliwr gyfle i brofi rhai eiliadau o olygfa ar y sgrîn cyn i Davies gychwyn ar ei sylwebaeth berthnasol. Mae hyn yn caniatáu i'r gwyliwr ystyried y delweddau ac yn gadael iddo benderfynu drosto'i hun beth yw eu harwyddocâd cyn i sylwebaeth angori'r ystyr.

Yn ystod y pedair rhaglen caiff amrediad o ddynion a menywod eu cyfweld, gyda nifer o'r gwragedd yn adrodd eu hatgofion o'r ymfudwyr cyntaf, yn eu plith wraig oedd yn cofio'r siwrnai i ganfod Cwm Hyfryd, oedd 'fel gardd pan ddaethon ni yma.'<sup>37</sup> Yn achlysurol gwelir darn i gamera gan Davies ac mae'n ddigon cyfforddus yn wynebu'r camera wrth iddi gyflwyno linc sy'n arwain i gyfweliad, llai naturiol yw ei hymateb yn y saethiadau gwrthol wrth iddi geisio porthi sgwrs neu ofyn cwestiwn. Yn fynych mae'n digwydd ymddangos mewn saethiad ar hap oherwydd y dewis o ffrâm y saethiad wrth ffilmio cyfweliad, ac o'r herwydd fe ymddengys ei bod yn ei hystyried ei hun fel gohebydd yn hytrach na chyflwynydd, ac yn sicr nid yw'n ystyried ei hun fel seren deledu mewn unrhyw ffordd. Mae ei gwisg yn ategu'r canfyddiad hwn gan ei bod wedi ei gwisgo mewn gwisg ymarferol o got ysgafn ac esgidiau gwastad, a'r meicroffôn yn ei llaw. Arddull cyfeillgar o gyfweld sydd ganddi sy'n annog atebion ffeithiol neu fynegiant o emosiwn gan y cyfranwyr, a chaiff y gwyliwr y teimlad bod Davies yn eu hadnabod. Gallai hynny fod yn bosibliad gan iddi dreulio cyfnod o rai wythnosau yn Y Wladfa yn lletya gyda theuluoedd amrywiol fel y nodwyd eisoes.

Ymhlith y cyfweliadau gyda menywod daw cyfle i sgysio gyda mam i bump o blant, yn eu plith blentyn croenddu a fabwysiadwyd gan y teulu, er ni chaiff hynny (yn rhyfedd iawn) ei archwilio gan Davies. Caiff y plant eu casglu at ei gilydd yn eu gardd i ganu yr emyn i blant *Iesu Tirion*, a'u mam yn eu harwain. Er mwyn dal sain eu lleisiau ifainc gyda'r meicroffôn, mae angen i Davies fod yn agos atynt, a rhag tarfu arnynt yn ormodol mae'n penderfynu penglinio lawr wrth eu hymyl gyda'i meicroffôn, ychydig yn anghyfforddus i ddechrau, ond yna daw'r Davies roedd ei theulu, ac yn enwedig ei nai, yn siarad yn gynnes amdani i'r amlwg, ac mae'r plant yn gyfforddus yn ei chwmi. Mae'r olygfa hon yn ddyfais weledol effeithiol er mwyn amlygu ymdrech un genhedlaeth i drosglwyddo traddodiad ac iaith i'r

---

<sup>37</sup> *Y Gymru Bell*, '2. Wrth droed yr Andes', 14 Hydref 1962.

genhedlaeth nesaf. Caiff y cysyniad hwnnw ei grisialu hefyd yng nghyfweliad Davies gyda golygydd benywaidd cyntaf papur newydd *Y Drafod*, a gaiff ei ddisgrifio fel y cyfrwng pwysicaf i gadw'r Cymry mewn cysylltiad â'i gilydd. Cyfeiria at y fenyw ifanc fel rhywun a fedr 'ysgrifennu a barddoni mewn Cymraeg gloyw er na fu erioed ar gyfyl Cymru.'<sup>38</sup>

Er i'r ddwy fenyw uchod gael eu cyfweld yn yr awyr agored, mae'r menywod a welir yn y trosluniau yn cael eu portreadu mewn mangre draddodiadol y sffêr preifat sef y cartref. Er enghraifft fe'u gwelir yn yfed y te traddodiadol, y *mate* ac yn pasio'r cwpan o'r naill i'r llall neu yn cynorthwyo i weini'r bwyd yn yr *asado* ond nid ydynt yn cael llais. Ymddengys menywod eraill yn y rhaglenni yn hollol fud ar y sgrîn ochr yn ochr â'u gwŷr sy'n cael eu cyfweld, ac mae hyn yn taro'r gwyliwr yn rhyfedd tu hwnt. Er eu bod ar y sgrîn yn weledol, mae yna ddiddymiad symbolaidd yn digwydd gan nad yw Davies yn eu galluogi i leisio eu profiadau, ac o'r herwydd ymddengys nad yw eu profiadau yn rhai dilys i'w cofnodi fel y mae ymchwil Tuchman a'i chyd-academyddion yn cadarnhau.<sup>39</sup> Caiff dynion eraill eu cyfweld ar eu pennau eu hunain ar eu tir a hynny am broblemau dyfrhau, agweddau economaidd ac arferion amaethyddol a daw gwybodaeth Davies am amaethyddiaeth i'r amlwg wrth iddi gynnal cyfweliadau ffeithiol a chaled eu natur. Ceir cyfweliad gwrthgyferbyniol, mwy ysgafn ei natur gyda dau ŵr sy'n ffermio defaid Merino; nodweddion y cnu yw'r thema, a daw dealltwriaeth Davies o amaethu i'r amlwg. Mae yna flas cyfranogol i'r cyfweliad hwn wrth i'r saethiad hir ei dangos yn sefyll ochr yn ochr â'r ffermwyr gyda'u hwrdd a hynny'n hollol gyfforddus, gan deimlo gwlan yr hwrdd ar gais un ohonynt.<sup>40</sup> Daw ei chymeriad i'r amlwg yn y sgwrs anffurfiol, mae un o'r ffermwyr yn huawdl iawn am ei anifail, ond llwydda Davies i ddod â'r sgwrs i ben trwy nodi â gwên ar ei hwyneb, 'Chi'n neud i'r hwrdd swnio'n greadur deniadol iawn!'

Arddull caled sy'n nodweddu ei chyfweliad gyda dau weinidog yr efengyl am ddiffyg pobl ifanc yn y gwasanaethau Cymraeg yng nghapeli'r Wladfa, ac mae'n trin y cyfweliad yn ddeheuig gan annog y ddau i sgysio gyda'i gilydd heb iddi gollu

<sup>38</sup> *Y Gymru Bell*, '4. Pwyso a Mesur', 28 Hydref 1962.

<sup>39</sup> Tuchman et al., *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media*, 1978.

<sup>40</sup> Nichols, pennod 7, 'How Can We Describe the Observational, Participatory and Performative Modes of Documentary Film?' tt. 132–58.

rheolaeth ar y sefyllfa. Mae'n hyderus hefyd yng nghynnwys y cyfweiliad ac yn eu herio'n ddigyfaddawd am eu diffyg gallu yn yr iaith Sbaeneg gan ofyn yn uniongyrchol 'A ddylai gweinidog yn Y Wladfa fod yn ddwyieithog?' Caiff gŵr ifanc mewn cyfweiliad arall driniaeth gyffelyb ganddi wrth iddi ofyn iddo yn uniongyrchol, 'Pa mor aml chi'n mynd i'r capel?' Er uniongyrchedd y cwestiynu, mae'r bobl ifainc yn gyfforddus yn ei chwmmi, ac mae un ohonynt yn ymdrechu i egluro wrthi'n agored y gwahaniaeth rhwng rhamant y 'Lladinwyr' a chulni'r Cymry yn eu crefydd, gan symud yn ôl ac ymlaen rhwng ymadroddion Sbaeneg a'r Gymraeg. Mae'r cyfuniad o gynnwys caled ei natur â'i arddull cyfatebol a'r cynnwys cylchgronol ei natur â'i arddull perfformiadol yn nodweddu'r pedair rhaglen, ac mae hyn yn fodd o gynnal diddordeb y gwyliwr ac yn adlais o'r cyfuniad o genres ar *Heddiw*.

Er i Davies gydnabod caledi profiad yr ymfudwyr cynnar, mae yna duedd ganddi i ramantu profiad y preswylwyr presennol. Er enghraifft, wrth i'r gwyliwr weld saethiadau o ddiwrnod nodi'r gwartheg ar y sgrîn, gyda phlant ifainc yn gwyllo'r cenedlaethau hŷn yn marchogaeth eu ceffylau a thafu rhaffau er mwyn dal anifail ynghanol cyfarth y cŵn, mae'n nodi yn ei sylwebaeth, 'Bywyd agored braf heb linell rhy bendant rhwng gwaith a hwyl'. Drachefn mae'n mynegi wrth iddi gloi y drydedd rhaglen:

...hwyrach y gwêl y dyffryn ddyddiau gwell, yn faterol, ond tybed na chollir elfennau pwysicach sydd wedi bod yn amlwg iawn ym mywyd Cymry'r dyffryn o'r dechrau, y gymdeithas ddi-ddosbarth, gymodogol a'r ysbryd hamddenol sy'n cydfynd â gwlad yr haul a'r siesta.<sup>41</sup>

Mae'r sylwadau yma'n awgrymu ei hymdeimlad tuag at arferion amaethu traddodiadol a ffordd o fyw oedd yn erydu ymhlith ei chyd-Gymry. Agwedd arall o'r rhamantu hwn yw'r dadansoddiad o'r berthynas rhwng y Gwladfawyr a'r Indiaid brodorol 'anwar',<sup>42</sup> noda Davies bod y 'gyfathrach rhyngddyn nhw bron drwy'r amser yn gyfeillgar', sy'n bwydo'r myth o berthynas heddychlon a hynny dros luniau o ddisgynyddion yr Indiaid.<sup>43</sup>

---

<sup>41</sup> *Y Gymru Bell*, '3. Y Wladfa Heddiw'.

<sup>42</sup> *Y Gymru Bell*, '1. Y Dyddiau Cynnar'.

<sup>43</sup> *ibid.* Gweler hefyd yr erthygl ganlynol am drafodaeth ar y cysyniad o wladychiad Patagonia gan y Cymry: Geraldine Lublin, 'Welsh Keywords: Gwladfa' yn *Planet: The Welsh Internationalist*, 240 (2020), tt. 22-28.

Yr un *footage* ag oedd wrth law i Davies ar gyfer y gyfres o bedair a ddefnyddiwyd gan John Ormond i greu ei ffilm *The Desert and the Dream* (1962),<sup>44</sup> ac fe'u defnyddiwyd eil-waith gan Davies i greu y rhaglen unigol neu ffilm-gasgliad *Patagonia 1865–1965* a ddarlledwyd yn 1965 i ddynodi canmlwyddiant Y Glaniad.<sup>45</sup> Er bod y deunydd crai yn gyffredin rhyngddynt mae gweithiau'r ddau yn wahanol o ran eu natur, gydag Ormond yn rhoi mwy o ryddid i'r llun adrodd y stori o'i gymharu â Davies.<sup>46</sup> Gellid priodoli hynny i'w gefndir gyda'r *Picture Post* cyn iddo ymuno â'r BBC, ac i'w allu fel bardd sy'n creu delweddu a throsiadau (er mai'r gair yw'r cyfrwng).<sup>47</sup> Hywel Davies sy'n lleisio ffilm Ormond, ac mae'r sript yn llai ffurfiol na sript Nan Davies ar y rhaglenni Cymraeg, er bod cyfeiriad Beiblaidd drachefn at 'the land of milk and honey'.<sup>48</sup> Ni chafodd yr un cyfweiliad ei gynnwys gan na fedrai cyfranwyr y gyfres o bedair rhaglen *Y Gymru Bell* siarad Saesneg. Caiff eu profiad ei grynhoi fel un gymuned unedig, gan golli yr amwysedd cyfoethog a glywir ar draws amrediad rhaglenni Davies.

Yn y rhaglenni Cymraeg clywyd y genhedlaeth hŷn yn hel atgofion am yr arloeswyr cynnar, yn adrodd eu profiad o'r olwg gyntaf ar Gwm Hyfryd a'i feysydd blodau, a'r genhedlaeth iau yn mynegi eu hunaniaeth. Ag eithrio *actuality* dau *gaucho* yn sgysio a'i gilydd yn agoriad *Desert and the Dream*, caiff y gynulleidfa Saesneg ei hiaith eu hamddifadu o glywed y brodorion yn mynegi eu hunain ar bynciau perthnasol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg â'u hacen Sbaenaidd. Digon rhwydd felly yw i'r gwyliwr gredu sylwebaeth Hywel Davies sy'n nodi, 'The Welsh language is slowly dying in Patagonia and most young people aren't worried. They have never seen Wales and there are more urgent problems than what language they speak.'<sup>49</sup> Mae'r ffaith i gynhyrchion Davies ac Ormond gael eu golygu o'r un *footage* yn amlygu pwynt a wnaed gan Kieron Smith sy'n cymharu'r ffilm Gymraeg *Patagonia 1865–1965*, a ddarlledwyd yn 1965, â ffilm Ormond, 'Viewed together, they emblematised a deep

---

<sup>44</sup> *The Desert and the Dream*, 20 Rhagfyr 1962, Archif BBC Cymru Wales. Gweler: BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/0b9335ef9090400f91df38d72c8c680e>> [cyrchwyd 9 Awst 2021]. Cafodd y ffilm ei lleisio gan Hywel Davies, ac R. Bryn Williams oedd yn gyfrifol am yr ymchwil. Nodir enw Bill Greenhalgh fel y person camera, a Douglais Mair fel y golygydd.

<sup>45</sup> *Patagonia 1865-1965*, 25 Mai 1965, Archif BBC Cymru Wales. Gweler: BBC Genome, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/p00d4lhc>> [cyrchwyd 10 Medi 2021].

<sup>46</sup> *The Desert and the Dream*, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>47</sup> Thomas, *John Ormond*, tt. 15–6.

<sup>48</sup> *The Desert and the Dream*, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>49</sup> *The Desert and the Dream*, Archif BBC Cymru Wales.

rift in Welsh historiography'. Mae'n disgrifio gwaith Davies fel ffilm-gasgliad sy'n portreadu, 'the ongoing activities of Y Wladfa' (sy'n adlewyrchu'r amcan a amlinellwyd ganddi yn *The Radio Times*) tra bod ffilm Ormond yn meddu ar, 'a somewhat gloomy emphasis on cultural decline'.<sup>50</sup> Ymhellach, gwêl Smith gyhoeddiad dwyieithog R. Bryn Williams, *Gwladfa Patagonia: The Welsh Colony, 1865–1965*,<sup>51</sup> fel ymdrech i bontio'r bwlch a gaiff ei amlygu rhwng gweithiau Davies ac Ormond.<sup>52</sup>

Dylid nodi ei bod yn decach cymharu ffilm Ormond gyda'r gyfres bedair rhan o eiddo Davies na'r ffilm-gasgliad, gan i'r rheiny, fel *The Desert and the Dream*, gael eu cynhyrchu a'u darlledu yn agos at y profiad o ymweld â'r Wladfa. I Davies, profiad eildwym fuasai'r broses o gynhyrchu'r ffilm-gasgliad wedi bod, gan fod tair blynedd o ysbaid rhwng y profiad o ymweld â'r Wladfa a'r cynhyrchu ei hun, sef ail-olygu'r *footage* gwreiddiol ac ail-sgriptio. Rhydd ysbaid o'r fath gagendor anorfod rhwng y profiad ei hun a'r profiad ohono ar ffilm, ac o'r herwydd buasai Davies wedi dod at y broses olygu o berspectif gwahanol. Er hyn ceir cynhyrchiad sy'n amlygu tapestri cyfoethog bywyd y Gwladfawyr ac erys y pwyslais ar obaith i'r dyfodol, sy'n pwysleisio'r bwlch rhwng gwaith Davies ac Ormond drachefn.

Yn y ffilm, *Patagonia: 1865–1965*, yn yr un modd â'r gyfres o bedair, Davies yw'r cyflwynydd a chaiff Ormond ei nodi fel y cyfarwyddwr.<sup>53</sup> Ynndi gwelir llawer o'r un lluniau a chyfweliadau ag a ddefnyddiwyd yn y gyfres o bedair rhaglen a ddarlledwyd dair blynedd ynghynt. Ond, oherwydd y ffocws bwriadol ar sefyllfa gyfredol Y Wladfa, cafodd rhai o'r cyfweliadau gyda'r menywod a gofiai'r arloeswyr cynnar eu hepgor ac yn hytrach, sylw i ddulliau cyfoes o amaethu y dynion sy'n ymddangos ar y sgrîn fwyaf aml. Ar gychwyn y ffilm-gasgliad, ceir lluniau o'r *gauchos* yn dal gwartheg a'r cenedlaethau yn dod at ei gilydd i fwyta pryd a mwynhau yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr agored, a thros y lluniau yma gwelir y

<sup>50</sup> Kieron Smith, 'John Ormond and the BBC Film Unit: poetry, documentary, nation', traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe, 2014), t. 209.

<sup>51</sup> R. Bryn Williams (1902-1981). Llenor, bardd, hanesydd a dramodydd. Gweler: Gwasg Prifysgol Cymru, Awduron. <<https://www.gwasgprifysgolcymru.org/author/2904/>> [cyrchwyd 10 Awst 2021].

<sup>52</sup> Er na chyhoeddwyd llyfr Williams tan 1965, darparwyd y proflenni i'r ddau gynhyrhydd wrth iddynt fynd ati i baratoi ac ymchwilio eu deunydd. *The Radio Times* (Argraffiad Cymru), 'Y Gymru Bell: Taith i Batagonia', 7 Hydref 1962. Archif BBC Cymru Wales.

<sup>53</sup> Ar ffeil y ffilm ceir clip di-sain o Davies ac Ormond yn gadael yn y tywyllwch am Yr Ariannin o faes awyr, ond ni wyddys os defnyddiwyd y clip hwn ar unrhyw raglen, er enghraifft newyddion, ac nid yw'n rhan o'r ffilm-gasgliad ei hun. Roedd y gydnabyddiaeth hon o ymadael yn nodweddu rhaglenni dogfen teithiol cynnar ar deledu Prydeinig lle roedd ymadawiad y cyflwynydd neu'r prif gymeriad o Lundain yn rhan o naratif y rhaglen ei hun. Tise Vahamagi, BFI Screenonline, 'Alan Whicker, (1925 - )'. <<http://www.screenonline.org.uk/people/id/531470/index.html>> [cyrchwyd 9 Awst 2021].



teitl *Y Gymru Bell*, ac ychydig yn hwyrach yr is-deitl *Taith i Batagonia gyda Nan Davies*. Yn gyfeiliant i'r cyfan mae alaw Sbaenaidd yn cael ei chwarae ar y gitâr, ac wedi munud o hanner o *montage* ceir linc agoriadol bedair munud o hyd o sylwebaeth ddi-dorr gan Davies dros luniau o'r tirlun a graffeg o fapiau yn egluro'r lleoliad. Ni chaiff y lluniau gyfle i gyfathrebu gyda'r gwyliwr gan fod sylwebaeth gyfoethog Davies yn mynnu sylw parhaus. Rhan o grefft sylwebaeth deledu yw cynnal cyd-bwysedd effeithiol rhwng cyfathrebiad gweledol a chyfathrebiad llafar: fe ddylai'r sylwebaeth ategu at y lluniau. Ond fel nododd Crisell, 'Television embodies an old paradox: often the more we see the less we learn, the less we see the more we learn.'<sup>54</sup> Ymddengys bod Davies yn benderfynol o addysgu'r gynulleidfa Gymraeg trwy fanipiweiddio yn llwyr ystyr y lluniau ar sgrîn gan sicrhau nad oedd unrhyw amwysedd.<sup>55</sup> Mae'r grefft o adael i'r llun anadlu, ac i'r llun adrodd y stori, dau arddull a nodweddi y gyfres o bedair rhaglen deledu o'r Wladfa wedi eu rhoi o'r neilltu, bellach ar y gair mae'r pwyslais. Cyfeiriodd R. Alun Evans at y nodwedd hon yng ngwaith y rheiny fu'n meithrin eu crefft ar y cyfrwng radio ac a welodd y cam i ateb gofynion teledu yn un heriol.<sup>56</sup> Ategwyd hynny gan Aaron, credai bod sgrïpt geiriau yn cyniwair ym mhen Davies cyn iddi fynd ati i feddwl am sgrïpt lluniau. Bellach mae Aaron yn sylweddoli bod y cyfrwng teledu yr un mor newydd iddi hi ag yr oedd iddo yntau ar y pryd fel newydd-ddyfodiad i'r diwydiant ar gychwyn y 1960au, ac felly hefyd i arloeswyr eraill darlledu yng Nghymru fel Aneurin Talfan Davies a John Roberts Williams.<sup>57</sup> Gellid tybied i Davies wrth iddi droi at y gwaith o gynhyrchu'r rhaglen unigol sgrïptio'r cynnwys fel fframwaith ac yna ychwanegu'r lluniau, o'r herwydd y geiriau yn hytrach na'r ddelwedd sy'n llywio'r ystyr.

Mae arddull Davies o gyflwyno'r sylwebaeth yn gyflym ac mae'n ynganu geiriau ac enwau lleoedd Sbaenaidd yn hyderus, gyda'r iaith honno yn un ffonetig fel y Gymraeg. Aiff pum munud o'r rhaglen heibio cyn i ni weld Davies yn ymddangos ar y sgrîn wrth iddi gyfweld unigolyn, a phrin yw'r defnydd o'r darn i gamera cyn cyfweliad yn y ffilm hon, prinach fyth yw saethiad agos neu saethiad wrthol ohoni fel cyflwynydd. Caiff yr unigolyn sydd i'w gyfweld ei gyflwyno i'r gwyliwr yn y sylwebaeth gan dorri wedyn i saethiad sengl neu saethiad dwbwl o Davies gydag ef

---

<sup>54</sup> Crisell, *Introductory History of Broadcasting*, t. 155.

<sup>55</sup> *ibid.*, t. 161.

<sup>56</sup> Cyfweliad yr awdur ag R. Alun Evans, Hydref 2015.

<sup>57</sup> Cyfweliad yr awdur â William Aaron, Medi 2019.

neu hi. Yn ystod cyfweiliad caiff yr opsiwn o drosluniau ei ffafrio er mwyn gorchuddio toriadau cyfweiliad yn hytrach na'r saethiad gwrthol. Mae'n amlwg wrth iddi fynd ati i ail-olygu'r deunydd ei bod yn osgoi gosod ei hun ar y sgrîn os yn bosib, ac effaith y penderfyniad hwn yw bod y sylw yn cael ei wyro'n fwriadol oddi wrthi hi fel cyflwynydd at y rheiny sy'n cael eu cyfweld.

Drachefn mae natur y sylwebaeth yn ffurfiol, sy'n atseinio yr hyn a glywyd ar sylwebaeth y gyfres o bedair rhaglen, er enghraifft wrth ddisgrifio'r tirlun, 'Lle unwaith y codid cnydau braf o wenith d'oes dim ond rhoncwellt garw di-fudd... y gwenith a arferid ei godi yn y dyffryn.'<sup>58</sup> Yn yr enghraifft hon mae'r defnydd o ferfau amhersonol wedi eu rhedeg gyda'r amser amherffaith yn amlygu cywair ffurfiol. Mae Davies yn defnyddio trosiadau drachefn i gynorthwyo dealltwriaeth y gynulleidfa, fel a welir yn yr enghraifft ganlynol, 'Hyd yn oed Y Gaiman, y pentref cyntaf a sefydlodd y Cymry a'r Cymreicia o hyd o bentrefi'r dyffryn, mae'r byd newydd yn rhoi hergwd go eger ym mhenelin yr hen fywyd gwerinol syml.'<sup>59</sup> Wrth gyfeirio at y gwasanaethau crefyddol yn dilyn cyfweiliad gydag un wraig, mae'n tynnu cymhariaeth ddiddorol, 'I Barbara Llwyd, Y Gymraeg o hyd yw iaith y nefoedd, d'oes mor un dyfnder yn y gair *misericordia* ag sydd mewn trugaredd', sy'n tynnu ar emosiwn y gwyliwr.<sup>60</sup> Unwaith eto, mae'r dewis o arddull yn amlygu'r parch at y gynulleidfa trwy anelu at y safon uchaf yn ieithyddol, fel a welwyd yn y gyfres o bedair o raglenni, ond yn y cynhyrchiad hwn nid oes ystyriaeth ddigonol i rym y lens.

Trwy gyfrwng y pedair rhaglen a'r ffilm-gasgliad llwyddodd Davies i greu darlun cynhwysfawr o Batagonia a chreu cofnod gwerthfawr ar gyfer canmlwyddiant y glaniad cyntaf. Cynigodd gip ar yr ymfudo trwy brofiadau y rheiny a gofiai'r arloeswyr cynnar, a darparwyd ganddi bortread o bobl Y Wladfa a'u hunaniaeth a grisialwyd gan ŵr ifanc o'r enw Geraint Edmwnd, a ddisgrifiodd ei hun fel cyfuniad o'r banjo a'r delyn. Llwyddodd hefyd i gynhyrchu a chyflwyno rhaglen gyfoes oedd yn portreadu sefyllfa amaethyddiaeth, economi, a chrefydd ym Mhatagonia o'i gymharu â Chymru, gan gloi gyda blas o obaith am y dyfodol. Fe brofodd y canmlwyddiant yn drobwynt arwyddocaol i gymuned Gymraeg Patagonia ac mae'r

---

<sup>58</sup> *Patagonia 1865-1965*, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>59</sup> *ibid.*

<sup>60</sup> *ibid.*

hanner can mlynedd diwethaf wedi gweld datblygiad y gobaith hwnnw y rhoddodd Nan Davies gipolwg i ni arno. Mae is-deitl y ffilm *Taith i Batagonia gyda Nan Davies* yn rhag-fynegi'r teimlad a geir drwyddi draw mai hi yw'r meddwl creadigol y tu ôl i'r lluniau, ac mae hyn digwydd bod yr un mor berthnasol i'r gyfres o bedair rhaglen ag ydyw i'r rhaglen unigol. Trwy gydol ei gyrfa aeth Davies ati i gyfathrebu portread o dirlun a phobl oedd yn gyfarwydd iddi, a manteisiodd ymhellach ar y cyfrwng teledu i'w darlunio, ynghyd â'u ffordd o fyw cyn iddo ddiflannu'n llwyr, fel a welwyd yn yr eitem gynaeafu a ddarlledwyd ar *Heddiw*.<sup>61</sup>

Bwriad tebyg oedd i'r rhaglen *Prynhawn o Fai* (1960) a gynhyrchwyd gan Davies ar gychwyn y chwedegau yng ngwaelod Sir Aberteifi, ac a grybwyllwyd eisoes. Cynigiai'r cynhyrchiad, 'darlun ar ffilm o osteg prynhawn o haf ym mhentre Rhydlewis, Sir Aberteifi.'<sup>62</sup> Nid oes copi o'r rhaglen hon wedi goroesi, ond fe'i disgrifiwyd yn *The Radio Times* fel 'simffoni ar ffilm mewn pedwar symudiad, y cyfan yn cyfleu prynhawn swrth ym mis Mai mewn pentref gwledig yng Nghymru.'<sup>63</sup> Y cyntaf o bedwar cyfnod y dydd a gaiff eu hadnabod gan yr awdur di-enw yw 'diwedd cyffro'r bore a dechrau gwaith y p'nawn. Amser "gosteg y gwragedd" yw hwn, a'r plant bach o'r diwedd wedi cysgu'. Yr ail gyfnod yw portread o'r hen bobl yn dod 'allan o'u tai a cherdded yn hamddenol tua'r Post i nôl eu pensiwn.' Dychweliad y plant o'r ysgol sy'n dynodi'r trydydd cyfnod ac mae'r rhaglen yn cloi gyda'r haul yn cilio dros y bryn, a'r 'pentref yn tawelu unwaith eto at y nos.'<sup>64</sup> Darlun sy'n dal gafael ar ffordd o fyw draddodiadol sy'n cael ei beintio gan Davies, a chafodd y rhaglen ei channol gan ohebydd teledu a radio'r *Cymro* fel 'un o raglenni unigol gorau'r flwyddyn'.<sup>65</sup> Mae'r *billing* yn y *Radio Times* yn adrodd pennill sy'n paratoi'r gwylwr o ran ei gynnwys a'i ffurf delynegol am ddarlun rhamantus o gefn-gwlad, 'Rhowch imi bentre diarffordd, unig/ A'r llethrau'n gwarchod ei glwstivr [sic] tai / Lie [sic.] ni ddaw mwstwr diwydiant i dorri / Ar flwsig [sic.] y gwenyn ym mherthi Mai.'<sup>66</sup>

<sup>61</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, *Teulu'r Cilie: Y Fedel*.

<sup>62</sup> BBC Genome, 19 Mehefin 1960. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/ab6234b58d0d4712bb717ab161db55cd>> [cyrchwyd 11 Awst 2021]. Gweler hefyd t.165, tn. 44.

<sup>63</sup> *BBC The Radio Times* (Argraffiad Cymru), Archif BBC Cymru Wales, 'Prynhawn y Pentref', 14 Mehefin 1960, t. 2.

<sup>64</sup> *ibid.*

<sup>65</sup> 'Gwyllo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 5 Rhagfyr 1961, t. 3.

<sup>66</sup> BBC Genome, *Prynhawn o Fai*, 19 Mehefin 1960.

T. Llew Jones oedd yn gyfrifol am y sgript, neu ‘y geiriau’ fel y cyfeirir atynt yn y *The Radio Times*, ac yntau ar y pryd yn brifathro yn mhentref Coed-y-Bryn nepell o Rydlewis.<sup>67</sup> Buasai Davies yn troi yn gyson at griw o unigolion o’r fath y gallai ddibynnu arnynt i ddarparu deunydd o safon.<sup>68</sup> Cyfeiriodd y llenor yntau at Davies mewn recordiad o dan y teitl *Y Llwybrau Gynt (1960–80)*, lle mae’n bwrw golwg yn ôl ar yr unigolion a ddylanwadodd arno yn ystod ei fywyd, a hi yw’r unig fenyw sy’n cael ei henwi ganddo:

Ges i’r fraint o gydweithio â Miss Nan Davies am nifer o flynyddoedd, a’r hyn sy’n aros yn fy nghof i yw ei thrylwyredd hi, y gofal a’r amynedd oedd hi’n fodlon roi i ba bynnag raglen oedd yn gweithio arni, ac roedd y peth yn dangos, wath gynhyrchodd hi rhai o’r rhaglenni gorau ‘rioed i’r BBC.’<sup>69</sup>

Davies ei hun oedd yn gyfrifol am y ‘trefnu a’r cyfarwyddo’ ar *Prynhawn o Fai*, a nodir yn ‘bod y sgript yn llawn o linellau cofiadwy’ a hynny yn cael ei briodoli i’r ffaith bod Jones wedi ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith.<sup>70</sup> ‘Meddai ar awen felys a rhoddai, fel bardd a beirniad, fri ar ganu swynol, clir a thelynegol’,<sup>71</sup> a buasai’r arddull honno wedi cynorthwyo Davies i lanw cyfnas y sgrîn fach fel y deisyfai gyda blas o *nostalgia*. Dyfnallt Morgan oedd yn lleisio’r sgript, ac fe’i disgrifir fel ‘y Llefarydd’.<sup>72</sup> Yntau oedd y sylwebydd ar raglen arall, wledig ei natur o eiddo Davies, sef *Cwmbach: Uncertain Harvest* a ddarlledwyd yn 1968.<sup>73</sup>

<sup>67</sup> BBC Genome, *Prynhawn o Fai*, 19 Mehefin 1960. T. Llew Jones (1915-2009). Aeth yn brifathro i Goed-y-bryn yn 1957 a bu yno tan ei ymddeoliad yn 1975. Bywgraffiadur Cymru, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-JONE-LLE-1915>> [cyrchwyd 13 Awst 2021].

<sup>68</sup> Cyfweiliad yr awdur gyda William Aaron, Medi 2019.

<sup>69</sup> T. Llew Jones, *Y Llwybrau Gynt*, Casgliad Llyfrgell Ceredigion (1960-1980), Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

<sup>70</sup> *The Radio Times* Argraffiad Cymru, Archif BBC Cymru Wales, ‘Prynhawn y Pentref’. Gweler nodiadau Thomas Llewelyn Jones yn Bywgraffiadur Cymru, sy’n nodi ‘Enillodd gadair Glynbeby yn 1958 am ei awdl ‘Caerllion-ar-Wysg’. Flwyddyn yn ddiweddarach yng Nghaernarfon enillodd eto, ar y testun *Y Dringwr*, gan efelychu camp Dewi Emrys, yr unig brifardd arall i gael ei gadeirio ddwy flynedd yn olynol. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth ar gyfer oedolion, sef *Sŵn y Malu* yn 1967 a *Canu’n Iach!* yn 1987.’

<sup>71</sup> *The Radio Times* (Wales edition), Archif BBC Cymru Wales, ‘Prynhawn y Pentref’.

<sup>72</sup> *BBC The Radio Times*, 19 Mehefin 1960. Nodir ymhellach, ‘Tynnwyd y lluniau i’r ffilm gan Bill Greenhalgh a’u golygu gan Terry Laurie.’ Dyfnallt Morgan (1917-1994); bardd, beirniad llenyddol a chyfieithydd. Gweler Bywgraffiadur Cymru, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-MORG-DYF-1917>> [cyrchwyd 9 Awst 2021]. Gwybodaeth bellach: Tomos Morgan (gol.), *Rhywbeth i’w Ddweud: Detholiad o Waith Dyfnallt Morgan* (Llandysul, Gwasg Gomer, 2003).

<sup>73</sup> *Cwmbach: Uncertain Harvest*. Yn argraffiad Cymru o *The Radio Times* nodir i’r rhaglen gael ei darlledu o dan y teitl hwn ar 17 Medi 1968, ond nid yw’n ymddangos ar gronfa y BBC Genome. Er hyn cafodd rhaglen o dan y teitl *Y Tir Di-ddal* ei darlledu ar BBC One London ar 20 Medi 1968, gyda’r disgrifiad canlynol; ‘A feature on the country district of Cwmbach in Carmarthenshire,’ a’r wybodaeth iddi gael ei darlledu yn gyntaf ar BBC Wales. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/64877878228549edaa34cae57df92fc8>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

Yn wahanol i *Prynhawn o Fai*, mae'r cipolwg a gawn ar gymuned Cwmbach yn Sir Gaerfyrddin yn ystyried y presennol ac yn edrych tua'r dyfodol, ac yn debycach i'r ffilm-gasgliad ar Batagonia yn hyn o beth.<sup>74</sup> O dan ystyriaeth mae'r newidiadau sydd ar droed mewn ardal wledig yn sgil y mewnlifiad o Loegr, a gellid ystyried Cwmbach fel meicrocosm o'r hyn oedd yn digwydd mewn cymunedau tebyg ar draws Cymru. Y rheswm a nodir yn y rhaglen dros y mewnlifiad yw y cynnydd pris mewn tir amaethyddol yn Lloegr, a gofynnir y cwestiwn, 'What will be the effect of the newcomers on the traditionally Welsh-speaking community of Cwmbach?'.<sup>75</sup> Mae'r ffilm yn ymdrin â dwy agwedd sef yr iaith Gymraeg sydd o dan fygythiad ac arferion amaethyddol newydd sy'n fodd i'r rhaglen ystyried ai ffordd o fyw yw ffermio neu ddull o ennill bywoliaeth yn unig.

Roedd Morgan yn ddewis diddorol i leisio'r rhaglen, ac yntau wedi ymadael â'i swydd gyda'r BBC bedair blynedd ynghynt yn 1964. Er iddo gael ei fagu yn Nowlais, treuliai ei wyliau haf fel plentyn yn Llanddewi Brefi ger Tregaron gyda'i fodrybedd, sef yr ardal y magwyd Nan Davies ynddi ac y dychwelai iddi bob haf i gynorthwyo gyda'r cynhaeaf gwair.<sup>76</sup> Gellid dadlau nad dewis sylwebydd ar hap a wnaeth Davies, llais a ddisgrifiwyd gan Islwyn Ffowc Elis fel 'y llais mwya' persain a glywais i erioed gan Gymro', ond personoliaeth wybodus a ddeallai anian y rhaglen.<sup>77</sup> Yn nau o'i weithiau llenyddol rhodd Morgan sylw i themâu sy'n berthnasol i'r anian hwnnw sef ei bryddest o dan y teitl *Y Llen* a ddisgrifiwyd fel 'un o'r ymatebion creadigol mwyaf trawiadol i'r broses o seciwlareiddio a Seisnigeiddio a brofwyd yng nghymoedd de Cymru yn hanner gyntaf yr ugeinfed ganrif'.<sup>78</sup> Yn ogystal, ei ddrama fydryddol *Rhwng Dau*, sy'n darlunio'r 'ffin rhwng dwy ffordd o fyw a dau ddiwylliant a phwysigrwydd gwneud dewis ymarferol, ymwybodol i warchod yr hen ffordd o fyw rhag cael ei draflyncu gan y newydd'.<sup>79</sup> Er nad yw fel sylwebydd yn dangos tuedd, yn arddull cydnabyddedig darlledwr cyhoeddus cenedlaethol o greu rhaglenni dogfen, mae deall hanfod perchennog y llais yn rhoi gogwydd gyfoethocach ar y portread o'r gymuned a geir yn y rhaglen.

<sup>74</sup> *Uncertain Harvest*, 17 Medi 1968, Archif BBC Cymru Wales, Rhif catalog 9082359.

<sup>75</sup> *Uncertain Harvest*, Archif BBC Cymru Wales.

<sup>76</sup> Dyfnallt Morgan (1917-1994), Llion Wigley, *Morgan, Dyfnallt (1917-1994), bardd, beirniad llenyddol a chyfeithydd*, (2016) Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-MORG-DYF-1917>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021]. O ran Nan Davies, gweler cyfeiriad blaenorol at y cynhaeaf gwair yn y bennod newyddion rhan 1. Tud 14, tn. 67.

<sup>77</sup> Llion Wigley, Y Bywgraffiadur Cymreig.

<sup>78</sup> *ibid.*

<sup>79</sup> Llion Wigley, Y Bywgraffiadur Cymreig.

Egyr y ffilm gyda sylwebaeth Morgan yn crynhoi natur nifer o ffermydd bychain a'u perchnogion yn ardal Cwmbach, a hynny'n cyd-fynd â lluniau a saethwyd o'r awyr sy'n ffordd ardderchog o amlygu natur wledig y tirlun a maint bychan y ffermydd. Erbyn hyn (2022) mae gwylwyr teledu yn gyfarwydd â gweld tirlun o'r awyr wedi dyfodiad y *drone*, ond hanner can mlynedd yn ôl gellid dychmygu bod y dechneg yn cynnig persbectif unigryw i wylwyr. Gwelir rhai o ddeiliaid y ffermydd, yn wŷr a gwragedd, yn y caeau wrth eu gwaith ac mae'r sylwebaeth yn pwysleisio mai'r unig weithwyr ar fwyafrif y ffermydd yw'r gŵr a'r wraig. Er y rhannu baich a gaiff ei grybwyll yn y sylwebaeth, mae mwyafrif o gyfweiliadau'r rhaglen yn cael eu cynnal gyda'r dynion sy'n amaethu; cânt gyfle i fynegi eu barn ar eu sefyllfa, a chlywn amrediad o safbwyntiau gan ffermwyr o dras Cymreig a Seisnig. Yn ystod dau o'r cyfweiliadau hyn mae un o'r gwragedd yn cael ei darlunio yn coginio, ac mae'r wraig yn y cyfweiliad arall yn eistedd yn dawel wrth ochr ei gŵr wrth iddo yntau fynegi ei deimladau o orfod gwerthu y fferm oherwydd colledion.

Mae'n ddewis o saethiad sy'n dilyn yr un arddull â'r cyfweiliadau a gafwyd yn *Patagonia 1865-1965*. Ni ellir llai na theimlo i Davies golli cyfle i glywed safbwyntiau gwerthfawr y gwragedd, y naill o olynu ei thad ar y fferm a'r llall o orfod gadael a setlo eilwaith mewn ardal newydd gyda dau o blant ifainc. Mae'n ddiddorol ystyried pam y dewisodd Davies beidio â gwneud hyn, a dim ond un fenyw yn unig a gaiff ei chyfweld trwy gydol y rhaglen sef gwraig fferm a ddaeth yn wreiddiol o Loegr ac mae'n sôn am ei phrofiad o fyw mewn ardal ddieithr. Caiff y cyfweiliad ei gynnal tra'i bod yn sefyll wrth ymyl y bwrdd bwyd, a hwyliwyd ganddi ynghynt wrthi iddi groesawu ei dau blentyn o'r ysgol uwchradd. Felly, er thema'r cyfweiliad o ganolbwyntio ar ymgartrefu, thema nad yw'n ymwneud â'i rhywedd o angenrheidrwydd, mae'r cynodiadau gweledol yn pwysleisio ei rôl draddodiadol fel gwraig y tŷ a mam. Yng ngweddill y rhaglen mae'r saethiadau a gaiff eu defnyddio fel trosluniau yn darparu'r gwyliwr ag ambell gip o'r gwragedd yn cynorthwyo o gwmpas y fferm, a darluniau amlycach ohonynt yn chwarae rôl draddodiadol, er enghraifft yn glanhau neu yn tywys un o'r wyrion o gwmpas y fferm.

Darlun trwy lens draddodiadol drachefn a geir o amaethu yng nghynhyrchiad olaf Davies i'r BBC sef *Bugail Cwm Prysor*, a ddarlledwyd ychydig fisoedd cyn ei

marwolaeth ym Mai 1970.<sup>80</sup> Cawn gyfle i ddilyn y ffermwr defaid, Iorwerth Williams, wrth ei waith yng Nghwm Prysor a hynny dros bedwar tymor y flwyddyn. Rhaglen hanner awr o hyd ydyw, yn canolbwyntio yn llwyr ar y prif gymeriad a'i frwydr yn erbyn yr elfennau ar y llethrau rhwng Llyn Tryweryn a Thrawsfynydd.

Egyr y rhaglen gyda saethiadau eang wedi eu golygu'n araf, o dirlun llawn eira a hynny dros drac cerddoriaeth clasurol. Ymhen hir a hwyr daw Williams i'r golwg yn cerdded gyda'i ffon fugail a'i gi defaid wrth ei draed, ar hyd llwybrau'r mynyddoedd. Caiff ei lais ei glywed ar ffurf sylwebaeth, techneg sy'n ei sefydlu fel storiwr y rhaglen, 'Beth sy'n bwysig i ffarmwr mynydd ydi nabod 'i fynydd, nabod 'i ddefaid, a nabod rheola' bob tymor. Ddaw hi ddim os nac ydi'r ffarmwr mynydd yn nabod y tri pheth yna.'<sup>81</sup> Mae cynnwys y sylwebaeth ynghyd â'r cyfuniad o saethiadau eang a dorwyd yn araf a'r dewis o gerddoriaeth yn sicrhau teimlad rhamantaidd o gynnal hen arferion a gaiff eu deddfu gan y tywydd. Caiff patrwm bywyd yn rhod y tymhorau ei bwysleisio gan ddychweliad y ddiadell i'r mynydd wedi iddynt fod yn gaeafu yn Sir Gaernarfon. Noda Williams, 'Rhyfedd fel y mae rhain yn nabod eu cynefin ar ôl bod ffwrdd am rai misoedd. Hyd yn oed pa buasai neb yn eu hanfon, dwi'n sicr y buasen nhw'n siwr o gael hyd i'w hen lwybra''<sup>82</sup> Caiff y gwyliwr yr argraff bod adnabyddiaeth y ddiadell o'r mynyddoedd mor ddwfn ag adnabyddiaeth Iorwerth Williams o'r tirlun.

Trafodwyd eisoes eitem a ddarllledwyd ar *Heddiw* yn ystod cyfnod Davies fel golygydd, sef Teulu'r Cilie – Y Fedel, lle cipiwyd lluniau o arferion amaethu oedd bron â diflannu o'r cof. Yn *Bugail Cwm Prysor*, fel a welwyd yn y rhaglen *Prynhawn o Fai* a'r eitem ar dorri mawn a ddarllledwyd ar *Heddiw*, mae'n llwyddo i gofnodi arferion a ffordd o fyw oedd ar fin dirwyn i ben. Caiff hynny ei bwysleisio yn y sylwebaeth sy'n cyd-fynd â golygfa'r cneifio ar fferm Bryn Celynog, gyda Iorwerth Williams a'i gymdogion yn eistedd mewn rhes ar feinciau bychain a dafad yr un yn barod i'w chneifio ganddynt. Yr unig sain a glywir yw achlust o *actuality* eu sgysio a sŵn clir y gwellau yn brysur wrth eu gwaith.<sup>83</sup> Yn yr eitem Teulu'r Cilie, er nad

---

<sup>80</sup> BBC Genome, *Bugail Cwm Prysor*. Fe'i darllledwyd gyntaf ar BBC One London ar 16 Ionawr 1970, a'i darlledu ar BBC One Wales ar 30 Ebrill 1971. <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?q=cwm+prysor#top>>. Er gwybodaeth y darllledwr a'r awdur Dewi Prysor yw ŵyr Iorwerth Williams.

<sup>81</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, *Bugail Cwm Prysor* (BBC, 1971).

<sup>82</sup> *ibid.*

<sup>83</sup> Gwellau yw'r term Cymraeg am *shears* yn Saesneg.

oedd sain ar y copi o'r ffilm sydd wedi goroesi, cyfeiriwyd at y modd yr oedd yn hawdd i'r gwyliwr ddychmygu dwndwr y tractor yn boddi'r sgysiau rhwng aelodau'r gymuned. Yn y fan hon mae'r gwyliwr yn cael yr argraff bod y gwellau ar fin tawelu a'r peiriannau cneifio ar eu ffordd.

Ar gae'r cneifio mae'r camera yn cofnodi menyw ifanc yn lapio'r gwlan (swydd a gaiff ei neilltuo i ferched gan amlaf) a chwilfrydedd plentyn bychan sy'n darparu awgrym o ddilyniant y genhedlaeth nesaf. Yng ngweddill y ffilm, mae'r rolau gwahanol sydd wedi eu neilltuo i ddynion a menywod wedi eu dosrannu'n glir, gyda'r dynion ar y tir yn yr awyr agored a gwraig y fferm oddi mewn i furiau'r cartref. Caiff hi ei darlunio mewn dilyniant o luniau yn corddi menyw, ond llais Iorwerth Williams sy'n cael ei glywed dros y lluniau, yn egluro bod angen sicrhau digon o fenyn ar gyfer diwrnod cneifio. Er bod ei delwedd yn ymddangos ar sgrin mae yna ffurf ar ddiddymiad symbolaidd ohoni yn digwydd gan nad yw'n cael ei henwi ac nid yw ei pherthynas ag ef yn cael ei hegluro.<sup>84</sup> Wrth y bwrdd bwyd caiff y ffermwyr eu gweini ganddi wedi'r cneifio, ac mae'r ferch a fu'n lapio'r gwlan yn eistedd gyda hwy. Mae'r fenyw a welwyd yn corddi'r menyw ynghynt yn sicrhau bod y plentyn yn hapus wrth y bwrdd sy'n cwblhau'r portread traddodiadol ohoni fel rhywun sy'n darparu ac yn gofalu.

Mae'r modd y caiff Iorwerth Williams ei bortreadu yn weledol yn pwysleisio ei fychander yn y tirlun, ac mae ei sylwebaeth yn ategu at y cysyniad hwn trwy iddo egluro pa mor ddibynnol ydyw ar yr elfennau. Er y cynodiadau rhamantaidd drwyddi draw, ni chaiff realiti bugeilio defaid ei guddio wrth lens y camera. Er enghraifft, mewn un olygfa gwelwn ddafad yn cael trafferth geni, a chaiff ei hoen ei dynnu - caiff ei gorff llipa ei osod ar y borfa a daw Williams i anadlu bywyd i'w enau. Mewn golygfa arall caiff dwy goes oen oedd wedi trigo eu torri ymaith yn ddisymwth, ei got o wlan ei diosg a'i rhoi ar oen arall, dull sy'n cael ei arfer er mwyn twyllo'r famfaeth i'w fagu.

Dros y cyfan oll mae sylwebaeth Iorwerth Williams yn parhau, a'i swyddogaeth yn amrywio rhwng disgrifio y sefyllfa yn gyffredinol, ymateb yn uniongyrchol i

---

<sup>84</sup> Gaye Tuchman, Arlene Kaplan Daniels a James Benét, *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1978).



gynnwys y saethiad sydd ar y sgrîn neu ail-greu sain yr olygfa. Mae'r ddau gyddestun cyntaf a gaiff eu nodi yn effeithiol ac yn gwbl naturiol, ond nid yw'r olaf mor effeithiol, a buasai cymryd *actuality* y sain ar y pryd wedi bod yn fwy derbyniol. Trwy gydol y ffilm mae'r sŵn sy'n rhan naturiol o'r tirlun yn cael ei glywed yn y cefndir, megis sŵn y defaid a sgwrs rhwng cymdogion, ond prin yw'r enghreifftiau o lais Williams ei hun yn y tirlun hwnnw ag eithrio ambell waedd ar y ci. Ni chaiff ei gyfweld yn uniongyrchol, ni chaiff un o'i gydnabod eu cyfweld ac nid yw Williams yn siarad i lygad y camera. O'r herwydd mae'r portread ohono yn teimlo braidd yn amheronol, ni chaiff y gwyliwr gyfle i ddod i'w adnabod yn drylwyr. Portread o bell ydyw, a gwyllo o bell yw'r profiad. Gallwn ond ceisio dyfalu pam y dewisodd Davies yr arddull hwn o gynhyrchu a ffilmio, gellir ond tybio bod sgript eiriol ar flaen ei meddwl cyn datblygu'r lluniau, ac mae'r dybiaeth honno'n cyd-fynd gyda'r hyn a wyddom amdani trwy brofiadau y rhai a fu'n cyd-weithio â hi ar ei chynrychiadau eraill.

Gellir olrhain y deunydd a gynhyrchwyd gan Davies y tu hwnt i arlwy *Heddiw* fel parhad o'r rhaglenni gwledig y bu'n ymwneud â nhw yn ystod cyfnod cynnar ei gyrfa gyda'r BBC ym Mangor, megis y gyfres radio o dan y teitl *Cefn Gwlad* (1939-1951).<sup>85</sup> Mae modd olrhain datblygiad pellach y math hwn o arlwy darlledu sy'n darlunio bywyd gwledig Cymru i ddwy gyfres a ellid eu hystyried yn gonglfeini arlwy darlledu cyfrwng Cymraeg hyd heddiw. Ar y naill law mae'r gyfres deledu *Cefn Gwlad* a gyflwynwyd tan yn ddiweddar gan Dai Jones, Llanilar, lle bu sylw i gymeriadau a'u hymlyniad at hen ddulliau o amaethu yn rhan annatod o apêl y gyfres.<sup>86</sup> Ar y llaw arall mae modd olrhain datblygiad y sylw i ddulliau cyfredol o amaethu i'r gyfres *Ffermio* a gaiff ei chynhyrchu gan gwmni teledu Telegop.<sup>87</sup> Y cwmni hwnnw sydd hefyd yn cynhyrchu y bwletin amaeth i BBC Radio Cymru, o dan y teitl *Troi'r Tir*. Yn ystod ei gyrfa gynnar sicrhaodd Davies bod agweddau traddodiadol ar fywyd gwledig ac amaethyddol yn cael lle dyladwy ar y tonfeddi radio. Wedi i'w gyrfa droi at gynhyrchu teledu, manteisiodd ar y cyfrwng i bortreadu tirlun a ffordd o fyw oedd yn agos at ei chalon ond ni ildiodd yn llwyr i bŵer y

---

<sup>85</sup> *Cefn Gwlad*, (1939–1951) cyfres radio gweler tudalen 7, troednodyn 42 yn y bennod Cefndir yr Arloeswyr.

<sup>86</sup> *Cefn Gwlad*, (S4C, 1983–). BBC Cymru Fyw, *Dai Llanilar: 'diolch am rannu'r daith gyda mi'*, (17 Rhagfyr 2020). <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/55352139>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

<sup>87</sup> *Ffermio*, (S4C, 1997–). Lleol.cymru, *Cyfres Ffermio yn dathlu'r 20 oed*, 05 Ionawr 2017, <<https://lleol.cymru/blog/cyfres-ffermio-yn-dathlu-20-oed.html>> [cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021].

ddelwedd gan bod hualau radio yn dal eu gafael yn rhy dynn ar ei chreffft fel cynhyrchydd. s

Darpariaeth arall y bu i Davies ymwneud ag ef yn ystod ei chyfnod ym Mangor oedd rhaglenni i fenywod, a bu iddi bledio dros le dyladwy iddynt yn yr amserlen ddarlledu ar y radio, ond ni fu'n ymwneud gyda'r math yma o ddarpariaeth weddill ei gyrfa a'r rheswm pennaf am hynny mae'n debyg oedd i'r gyfres *Heddiw* fynnu ei holl sylw. Gwraig o gefndir cwbl wahanol iddi, sef Marion Griffith Williams a ymgymerodd â'r cyfrifoldeb hwnnw, er mai ei gwaddol llenyddol sy'n fwy cyfarwydd i Gymru na'i chyfraniad i ddarlledu.



## Pennod 6:

### Darpariaeth i fenywod: Marion Griffith Williams a Teleri Bevan

Cychwynnodd y gyfres *Merched yn Bennaf* ym mis Ionawr 1965, a hynny ar gais Hywel Davies, pennaeth rhaglenni y BBC yng Nghymru ar y pryd.<sup>1</sup> Marion Griffith Williams,<sup>2</sup> a ddaeth yn adnabyddus i'r genedl ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach fel yr awdures Marion Eames, a ddewiswyd ganddo i ymgymryd â'r gwaith cynhyrchu a chafwyd erthygl ganddi yn hyrwyddo'r fenter newydd yn *The Radio Times* fis ynghynt. Esboniodd yn ei herthygl, 'Gan fod diddordebau merched heddiw wedi ymledu tu hwnt i'r gegin bydd y rhaglen yn ceisio adlewyrchu pob agwedd ar ddiddordebau merch, boed hi'n ifanc, hen, priod, di-briod, gartref neu'n dal swydd.'<sup>3</sup> Roedd yr ymdrech i gadw cydbwysedd rhwng rolau traddodiadol y wraig yn y cartref a'r profiadau y tu hwnt i'r aelwyd yn fater yr oedd y gyfres rwydwaith *Woman's Hour* wedi bod yn ymrafael ag ef am bron i ugain mlynedd ers ei sefydlu yn 1946.<sup>4</sup> Yn ei hunangofiant nodwyd gan un o gyflwynwyr y gyfres, Olive Shapley, mai nod y rhaglen oedd, fel a ganlyn, 'It should be balanced, just as life should be ideally',<sup>5</sup> a cheir awgrym o'r hyn a amlygwyd gan ysgolheigion ffeminstaid mwy diweddar, sef nad dau begwn pell wrth ei gilydd oedd profiadau'r sffêr preifat a'r sffêr cyhoeddus ym mywydau dydd i ddydd menywod, ond yn hytrach cymysgedd o'r ddau.<sup>6</sup>

Wrth i'r gyfres *Woman's Hour* sefydlu ei hun a chynnig yr amrywiaeth o eitemau y tybiwyd eu bod yn briodol, daeth yn amlwg i'w chynhyrchwyr bod nifer cynyddol o ddynion yn gwrando, ac felly datblygodd arlwy unigryw ar y tonfeddi nad oedd yn gyfyngedig i fenywod, er nid dyna oedd y bwriad gwreiddiol, '...the programme

---

<sup>1</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, GB 0210 MEAMES, M4/2, Erthyglau, Anerchiadau a Darlithiau, (1970–2007).

<sup>2</sup> J.B. Smith, *Eames, Gwladys Marion (Williams, Gwladys Marion Griffith) (1921-2007) nofelydd hanes*, (2012), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-EAME-MAR-1921>> [cyrchwyd 21 Mehefin 2022].

<sup>3</sup> 'Cylchgrawn i Ferched', *The Radio Times*, 31 Rhagfyr 1964, t. 43.

<sup>4</sup> BBC 100, *Woman's Hour: 7 October 1946* (2022), <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/october/womans-hour>> [cyrchwyd 24 Awst 2022].

<sup>5</sup> Olive Shapley, *Broadcasting a life: the autobiography of Olive Shapley* (Llundain: Scarlet Press, 1996), t. 127. Bu Shapley yn cyflwyno'r rhaglen rhwng 1949 ac 1953.

<sup>6</sup> Tracey E. Higgins, 'Reviving the Public/Private Distinction in Feminist Theorizing', *Chicago-Kent Law Review*. 75 (1999), tt. 847-67. Caiff y rhaniad 'cyhoeddus-preifat' ei amlygu fel 'unfinished business' gyda Higgins yn galw ar ffeministiaid yr Ail Don i roi'r gorau i'r rhaniad gan nad yw yn adlewyrchiad teg o fywydau menywod.

unusually in broadcasting history, placed them [men] as the second sex.’<sup>7</sup> Mae *billing The Radio Times* ar gyfer y gyfres Gymraeg yn dynodi croeso agored o’r cychwyn cyntaf, ‘Merched yn Bennaf ond croeso i bawb’,<sup>8</sup> ac mewn erthygl yn yr un cyhoeddiad nododd Williams bod dewis teitl o’r fath yn gadael y drws yn agored i ddynion, ‘Oherwydd os yw’r rhaglen i adlewyrchu bywyd merch, mae gennym syniad mai bywyd llwm iawn fyddai hwnnw heb ynddo ddyn o gwbl!’<sup>9</sup> Mae’r agwedd hon yn osgoi unrhyw neges ffeminyddol gref, ymhellach nododd ei bod yn awyddus i gynnwys lleisiau dynion yn y rhaglen ‘nid yn unig am mod i’n licio dynion, ond am fod lleisiau merched yn unig fel lleisiau dynion yn unig, yn gallu mynd yn undonog.’<sup>10</sup> Caiff y croeso eang ei bwysleisio yn linc agoriadol y rhaglen gyntaf, ‘Pnawn Da. Dyma ddechrau cyfres newydd i ferched yn bennaf. Ond croeso i bawb.’<sup>11</sup> Caiff y gyfres groeso twymgalon gan Mari Ellis, golygydd tudalen i fenywod *Y Cymro* sef ‘Tŷ Ni’, meddai, ‘...os clywsoch [y rhaglen], rwy’n sicr eich bod yn llawenhau bod rhywun, o’r diwedd, wedi sylweddoli bod yna ferched sy’n hoffi gwranddo, ac nid gwyllo, o hyd ac o hyd.’<sup>12</sup> Canmoliaeth sydd gan Meic hefyd, colofnydd gwrywaidd teledu a radio’r papur a gaiff ei adnabod ond wrth ei enw bedydd, a hynny mewn erthygl o dan y pennawd ‘Diddorir y dynion yn aml gan yr hyn sydd o ddiddordeb i’r merched’, ac aiff ati i dynnu sylw’r darllynydd at arlwy lwyddiannus *Woman’s Hour*, ‘Er nad yw’r gyfres hon yn ceisio bod yn ddim ond “cylchgrawn i ferched”, y mae’n amlwg ddigon bod llawer o ddynion yn ei gwranddo’n bur gyson, ac yn cyfrannu iddi wrth gwrs.’<sup>13</sup>

Yn y rhifyn cyntaf o *Merched yn Bennaf* mae’r cydbwysedd rhwng y traddodiadol a’r llai traddodiadol yn cael ei gynnal o’r cychwyn cyntaf, cydbwysedd a fuasai’n gyfarwydd i wrandawyr Cymraeg eu hiaith, oherwydd dyna oedd natur ymdrechion Mari Ellis gyda thudalen ‘Tŷ Ni’. Cafwyd cyfarchion y Calan o du hwnt i Gymru, gan Mary Myrddin Lloyd o’r Alban,<sup>14</sup> ac o Iwerddon gan y nofelydd Menna Gallie<sup>15</sup>

<sup>7</sup> Maggie Andrews, *Domesticating the Airwaves: Broadcasting, Domesticity and Femininity* (Llundain: Bloomsbury Publishing, 2013), t. 120. Erbyn canol y pumdegau roedd traean o gynulleidfa *Woman’s Hour* yn ddynion.

<sup>8</sup> ‘Merched yn Bennaf’, *The Radio Times*, 31 Rhagfyr 1964, t. 42.

<sup>9</sup> BBC, ‘Croeso i Ddynion’, *The Radio Times*, 1 Ionawr 1965, t. 43.

<sup>10</sup> *ibid.*

<sup>11</sup> BBC Written Archive Centre, Ffilm 117, Welsh Region Scripts, sgript *Merched yn Bennaf*, 7 Ionawr 1965. Mae holl sgriptiau *Merched yn Bennaf* y cyfeirir atynt yn y traethawd ar Ffilm 117 (microfiche).

<sup>12</sup> Mari Ellis, ‘I Ferched yn Bennaf: Ar flaen fy nhafod ond fedrai mo’i gofio’, *Y Cymro*, 14 Ionawr 1965, t. 15.

<sup>13</sup> Meic, ‘Diddorir y dynion yn aml gan yr hyn sydd o ddiddordeb i’r merched’, *Y Cymro*, t. 3. Mae Meic hefyd yn cyfeirio at gyfres deledu ar gyfer menywod a lanswyd gan TWW y Rhagfyr blaenorol (1964) sef *O Gwmpas y Tŷ*.

<sup>14</sup> Roedd Mary Myrddin Lloyd yn briod gyda D. Myrddin Lloyd, Ceidwad Llyfrau Printiedig Llyfrgell Caeredin. B.F.Roberts, *Lloyd, David Myrddin (1909–1981), llyfrgellydd ac ysgolhaig Cymraeg* (2015), *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-LLOY-MYR-1909>> [cyrchwyd 21 Mehefin 2022].

sy'n rhoi cip ar agwedd eangfrydig y cynhyrchydd.<sup>16</sup> Roedd agwedd o'r fath yn nodweddu gwaith cynhyrchwyr darpariaeth rhaglenni i fenywod ar wasanaeth y BBC y Mhrydain, CBC yn yr Unol Daleithiau ac ABC yn Awstralia, fel dengys gwaith ymchwil Justine Lloyd. Nododd, '...the repeated gestures of reaching out beyond national boundaries by women producers and presenters within all three broadcasters...underscore radio as a medium that cannot be stopped and checked at national borders.'<sup>17</sup>

Ymhellach, yng ngweddill y rhaglen gyntaf o *Merched yn Bennaf*, cafwyd eitemau ar ffasiwn *haute couture* ar ffurf cyfweiliad ar dâp rhwng y gohebydd Ann Clwyd ac Emrys Davies, sylfaenydd cwmni ffasiwn Ap Arthur oedd 'wedi llwyddo i gael brethyn glan [sic.] defaid mân Cymru i mewn i dai mawr ffasiwn y byd'; eitem wedi ei recordio gan Dr Kate Roberts yn canolbwytio ar enwau Cymraeg ar fwydydd gwahanol,<sup>18</sup> a sgwrs fyw rhwng Teleri Bevan a dau westai benywaidd yn trafod faint o arian poced y dylai plant ei dderbyn.<sup>19</sup>

Rhwng yr amrywiaeth yma cafwyd dau drac cerddorol a linciau a gyflwynwyd gan Annet Wiliam, ond yr eitem gyntaf un oedd darn ar dâp o'r hyfforddwr rygbi Carwyn James, oedd yn athro yng Ngholeg Llanymddyfri ar y pryd, yn mynegi ei farn ar bwy oedd yn haeddu'r teitl Cymraes y Canrifoedd.<sup>20</sup> Arglwyddes Llanofar a ddewiswyd ganddo ac yn rhifynnau dilynol y gyfres gofynnwyd i 'wŷr amlwg' eraill wneud eu dewis,<sup>21</sup> sef y nofelydd John Rowlands, y ffisegydd Glyn O. Phillips a'r darlledwr Owen Edwards.<sup>22</sup> Y rheiny a osodwyd ganddynt hwy ar y brig oedd Morwyn Llyn y Fan Fach, Ann Griffiths a Madam Bevan.<sup>23</sup> Er mai'r argraff a roddir yw mai'r gwŷr a'u dewisodd, roedd gan Williams ddiddordeb yn y thema gwragedd o bwys o Gymru a chaiff hyn ei adlewyrchu ganddi yn ei chasgliad papurau, gydag

---

<sup>15</sup> J.P. Jenkins, *Gallie, Menna Patricia (1919–1990) awdur* (2016), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c11-GALL-MEN-1919>> [cyrchwyd 21 Mehefin 2022].

<sup>16</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 7 Ionawr 1965.

<sup>17</sup> Justine Lloyd, *Gender and Media in the Broadcast Age* (Efrog Newydd: Llundain: Bloomsbury Academic, 2020), t. 4.

<sup>18</sup> Dr Kate Roberts (1891–1985), Katie Gramich, *Roberts, Kate (1891-1985), llenor* (2015), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-ROBE-KAT-1891>> [cyrchwyd 18 Awst 2022].

<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-ROBE-KAT-1891#?c=0&m=0&s=0&cv=11&manifest=https%3A%2F%2Fdamssl.lgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F4633932%2Fmanifest.json&xywh=-219%2C571%2C4394%2C3792>

<sup>19</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 7 Ionawr 1965.

<sup>20</sup> Carwyn James (1929–1983), Llyr James, *James, Carwyn Rees (1929-1983), athro, chwaraewr a hyfforddwr rygbi* (2016), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c11-JAME-REE-1929>> [cyrchwyd 18 Awst 2022].

<sup>21</sup> 'Croeso i Ddynion', t. 43.

<sup>22</sup> BBC Written Archive Centre, Sgriptiau *Merched yn Bennaf*, 7 Ionawr 1965, 14 Ionawr 1965, 21 Ionawr 1965 a 28 Ionawr 1965.

<sup>23</sup> 'Croeso i Ddynion', t. 43.

un araith yn benodol a ysgrifennwyd ganddi yn Saesneg a hynny mewn arddull anffurfiol i annerch cynulleidfa.<sup>24</sup> Ymhlith yr amrediad eang o wragedd y mae'n eu cyflwyno mae Gwerful Fechain a Chranogwen, ond yn eu plith caiff Arglwyddes Llanofer ei chrybwyll a rhoddir sylw manwl a deheuig i ddwy o Gymry benywaidd y canrifoedd sef Ann Griffiths a Madam Bevan. Rhydd disgrifiad Williams o'u cyfnodau perthnasol a dadansoddiad o'u hanfod a'u cyfraniadau fewnwelediad i'r gwragedd hyn, gyda'r dogfennau'n gipolwg ar ei meistrolaeth ar ddiwylliant a hanes Cymru ac yn rhagfynegiant o gynnwys cyfoethog ei nofelau hanesyddol a chrefyddol.<sup>25</sup> O'r dystiolaeth yma gellid ond tybied iddi fel cynhyrhydd gwybodus fod yn weithredol yn hytrach na goddefol yn y broses gynhyrchu gan ddylanwadu ar y drafodaeth a'r dewis o Gymraes y Canrifoedd.

Cyfeiriodd Williams at ddefnyddioldeb eitem o'r fath ar Gymry benywaidd amlwg wrth gynhyrchu rhaglen wythnosol:

When I had the honour to produce *Merched yn Bennaf*, I was sometimes at my wits' end to know how to fill the 40 minutes every week, and in desperation I would scan the *Bywgraffiadur* in the hope that it was the centenary or bicentenary of some remarkable Welsh woman.<sup>26</sup>

Nododd iddi gribo'r *Bywgraffiadur* gan ddod o hyd i 28 o enwau menywod o'r fath allai arwain at eitemau.<sup>27</sup>

Er y cyfaddefiad hwn o chwilio'n ddyfal dan bwysau am eitemau, roedd yn amlwg ar gychwyn y gyfres bod trefn ar bethau a'r gwaith cynhyrchu eisoes wedi digwydd i sicrhau cynnwys.<sup>28</sup> Yn erthygl *The Radio Times* a grybwyllwyd uchod, hyrwyddwyd eitemau o natur penodol y bwriadwyd eu trafod a chaiff y sylw ei dynnu tuag at 'ambell sgwrs gan ferch a gafodd brofiad personol dwfn', fel gwraig yr heddwas Arthur Rowlands a gollodd ei olwg<sup>29</sup> a menyw a gafodd ysgariad.<sup>30</sup> Roedd dwyn

<sup>24</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Marion Eames, M4/2.

<sup>25</sup> Ymhlith nofelau Marion Griffith Williams (nee Eames) i oedolion mae'r canlynol: *Y Stafell Ddirgel* (Llandysul, Gwasg Gomer, 1969) a *Y Rhandir Mwyn* (Llandybie: Christopher Davies, 1972) a ganolbwyntia ar gymunedau'r Crynwyr, *I Hela Cnau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1978), *Seren Gaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985), *Y Ferch Dawel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).

<sup>26</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, M4/2.

<sup>27</sup> *Ibid.*

<sup>28</sup> 'Croeso i Ddynion', t. 43.

<sup>29</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 4 Chwefror 1965.

pobl gyffredin at y meicroffôn yn rhan bwysig o weledigaeth *Woman's Hour*, ac mor gynnar â 1947 wrth ofyn i'r rhanbarthau am ddeunydd, gwnaed cais penodol i gael clywed profiadau menywod cyffredin, 'Could the regions supply us with some really good housewives describing the circumstances of their lives – their favourite local dishes, methods of pleasure etc.'<sup>31</sup> Llwyddodd Williams i ymgorffori'r agwedd hon ym mis cyntaf darlledu *Merched yn Bennaf*, gydag adolygydd *Y Cymro*, Meic, yn nodi ei fod yn ffafrio cyfranwyr 'ar ddweud eu neges yn syml', fel Dr. Kate Roberts yn rhoi cyfarwyddiadau ar wneud coffi, ac Ann Clwyd:

...yn trafod yn chwyrn y tro chwithig a gafodd pan brynodd gacen siocled oedd yn llwydni drosti...Ond pan fo ambell un yn ceisio gwneud 'ysgrif lenyddol glyfar' ar bwnc fel symud tŷ neu lanhau'r gwanwyn, bydd safon mwynhad y gwrandawr yn disgyn.<sup>32</sup>

Datblygodd y naturioldeb di-sgriptio yn nodwedd lwyddiannus ar gyfer darpariaeth i fenywod yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg ar *Woman's Hour*, 'It was this rediscovery of the power of the ordinary and of orality that was to energize women's programming and its relationship with its audience.'<sup>33</sup> Dyma arddull o sgysio sy'n llwyddo i greu perthynas effeithiol rhwng cynnwys a gwrandawr, gan roi'r argraff bod darlledu yn agored i bawb, nid yr arbenigwyr yn unig.

Nodwedd arall lwyddiannus o'r gyfres *Woman's Hour* a fabwysiadwyd gan Williams oedd mentro ymgorffori eitemau ar bynciau iechyd a lles a oedd o ddiddordeb penodol i fenywod. Yn aml deilliai trafodaethau o'r fath ar *Woman's Hour* o lythyron a dderbyniwyd gan wrandawyr.<sup>34</sup> Rhoddwyd sylw i'r *menopause* yn ystod cyfnod Olive Shapley fel cyflwynydd, '...I am proud of my own role over the years in helping to push back the frontiers of broadcasting acceptability.'<sup>35</sup> Cafwyd trafodaeth ar wrywgydiaeth yn 1955, clefyd canser yn 1956 a'r thema o gyplau yn cyd-fyw heb briodi yn 1967.<sup>36</sup> Aeth Williams ati â'r un fenter i gynnig eitemau

---

<sup>30</sup> 'Croeso i Ddynion', t. 43. Darlledwyd darn a ysgrifennwyd gan y wraig a gafodd ysgariad sef Meriel Price, a'i ddarllen gan Rhiannon Lloyd, ar y 28 Ionawr 1965, sgript *Merched yn Bennaf*, BBC Written Archives.

<sup>31</sup> BBC Written Archive Centre, R51/640/3, dyfynnwyd yn Andrews, t. 122.

<sup>32</sup> Meic, 'Radio', *Y Cymro*, 18 Mawrth 1965, t. 17.

<sup>33</sup> Lloyd, *Gender and Media in the Broadcast Age*, t. 42.

<sup>34</sup> Andrews, *Domesticating the Airwaves*, t. 120.

<sup>35</sup> Shapley, *Broadcasting a life*, t. 127.

<sup>36</sup> Andrews, t. 120.



megis yr ‘angen am glinigau canser,<sup>37</sup> pryder gwagedd a’u gwŷr ar streic<sup>38</sup> a dewis mamau di-briod i gadw eu plant.’<sup>39</sup>

Tystia hyn i ryddid a deimlai Williams, gan ddewis testunau trafod a ystyrid yn faterion llosg neu hyd yn oed dabŵ yn gyhoeddus yn ystod y cyfnod.<sup>40</sup> Roedd yn ddigon ewn hefyd i’w gosod ar gychwyn y rhaglen yn ddi-gyfaddawd, ar ôl y gerddoriaeth agoriadol eid yn syth at y mater o dan sylw, er enghraifft dyma eiriau cyntaf Anest Wiliam ar un rhifyn, ‘Ysgariad. Dyna’r pwnc cynta dan sylw heddiw.’<sup>41</sup> Mae’n benderfyniad cynhyrchu sy’n tynnu sylw ac yn ddewis a fuasai wedi rhwydo gwrandawyr. Yn ogystal, efallai i Williams benderfynu ar drefn o’r fath gan fod y rhaglen yn dilyn y newyddion am 1.00pm felly roedd parhau mewn cywair caled yn addas gan droi at eitemau ysgafnach yn hwyrach yn y rhaglen, penderfyniad fyddai’n fwy tebygol o etifeddu gwrandawyr i’r arlwy.

Mae’r eitemau uchod yn rhoi sylw dyladwy i brofiadau menywod ac i faterion perthnasol y dydd. Er y dewis o ddynion i benderfynu ar Gymraes y Canrifoedd, a bod y drws yn agored i ddynion wrando ar y gyfres, mae Williams yn amlygu penderfyniad cydwybodol i osod y fenyw yn y canol wrth gynhyrchu, nid yn unig o ran y pynciau a ddewiswyd ond o ran y cyfranwyr a’r gohebwy amrywiol sydd oll, gyda’i gilydd, yn creu rhaglen gyfoethog a llawn o’r naill wythnos i’r llall. A hithau mewn sefyllfa lle meddai ar ryddid creadigol, gallai reoli pwy oedd yn ymddangos ar ei rhaglenni fel cyflwynwyr, gohebwy a chyfranwyr, ac felly medrai roi hawl i fenywod i siarad ar yr awyr yn gyhoeddus. Ers cychwyn darlledu bu llawer o drafodaeth am addasrwydd lleisiau menywod fel cyhoeddwyr a chyflwynwyr radio, ond rhoddodd y dechnoleg lwyfan iddynt fynegi eu hunain, a fforwm iddynt gamu o sffêr preifat y cartref i’r sffêr gyhoeddus, fel nodwyd gan Ann McKay:

---

<sup>37</sup> BBC Written Archive Centre, sgrïpt *Merched yn Bennaf*, 11 Mawrth 1965. Bu Teleri Bevan yn cyfweid â Mr B. Huw Thomas a drefnodd betisiwn am glinig ‘cervical cancer’ yng Nghaerdydd. Diddorol mai termau Saesneg sy’n cael eu defnyddio yn hytrach na rhai Cymraeg, sef ‘deiseb’ a ‘chlinig canser y groth’, sy’n awgrymu nad oedd y termau Cymraeg wedi ennill eu plwy.

<sup>38</sup> *ibid.*, sgrïpt *Merched yn Bennaf*, 21 Ionawr 1965. Eitem wedi ei recordio o flaen-llaw gydag Ann Clwyd yn cyfweid gwagedd glöwyr y Rhigos.

<sup>39</sup> *ibid.*, sgrïpt *Merched yn Bennaf*, 8 Ebrill 1965, Ann Clwyd yn cyfweid â mam ddi-briod.

<sup>40</sup> BBC Written Archive Centre, Sgrïpt *Merched yn Bennaf*, 1 Ebrill 1965. Cafwyd eitem ar hunan-laddiad gydag Ann Clwyd yn cyfweid sefydlydd elusen y Samariaid yng Nghaerdydd. Dengys ei hunangofiant i Clwyd fod yn weithredol yn cefnogi elusen iechyd meddwl a adnabyddwyd yn ddiweddarach fel MIND. Gweler cofiant Ann Clwyd: Joanna Masters, *Ann Clwyd: rebel with a cause*, (Llundain: Biteback Publishing, 2017), t. 37.

<sup>41</sup> BBC Written Archive Centre, sgrïpt *Merched yn Bennaf*, 28 Ionawr 1965.

Walter Ong has suggested that the technology of voice amplification is significant for women's advancement because it helped to open the word of public participation previously closed to them by natural vocal deficiency and reinforced by custom and lack of training.<sup>42</sup>

Gellid ystyried Williams felly fel asiant o fewn y Model ar gyfer Gweithredaeth Cyfryngol Menywod sy'n peri newid gan arwain at darfiad ffeminyddol yn y llif rhaglenni radio cyfrwng Cymraeg.<sup>43</sup> Dewisodd gyflwynwyr benywaidd, rhoddodd gyfle i ohebwy'r benywaidd i arfer eu creadigrwydd a sicrhodd le i westeion benywaidd yn ei heitemau, ochr yn ochr gyda chyfranwyr gwrywaidd.

O fwrw gorolwg dros natur yr eitemau a ddewiswyd gan Marion Griffith Williams yn ystod blwyddyn gyntaf ei darlledu yn 1965, clywyd yr ysgafn a'r trwm, y traddodiadol a'r cyfoes, y Cymreig a'r cynnwys y tu hwnt i Gymru. Er enghraifft, ceir eitem arddio gyson gan Richard Bowering,<sup>44</sup> ac fel y crybwyllwyd eisoes, ffocws ar y ddefod *spring clean*<sup>45</sup> a themau Cymraeg am fwyd gan Dr. Kate Roberts,<sup>46</sup> oll yn adlewyrchu cynnwys traddodiadol. Ochr yn ochr â hynny rhoddir sylw i'r gyllideb a gyhoeddwyd wythnos ynghynt yng nghwmni economegydd gwrywaidd<sup>47</sup> a chlywir cyngor cyfreithiol ar fabwysiadu plant.<sup>48</sup> Caiff Williams gyfle hefyd i fanteisio ar ei diddordeb mewn llenyddiaeth a cherddoriaeth, sy'n arwain at drafodaeth ar lenorion benywaidd ifainc,<sup>49</sup> a sylw i wyl delynau yn Y Fenni.<sup>50</sup> Rhydd materion newyddion cyfredol fachyn cyfleus i osod trafodaeth neu linc, er enghraifft dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ar effaith y cyfryngau ar blant a chyfeiriad at Gorfforaeth Ddarlledu Canada.<sup>51</sup> Roedd Williams yn defnyddio cynfas eang i gynhyrchu, a rhoddwyd sylw i ddigwyddiadau fel Blwyddyn Cydweithrediad Cydwladol, gyda'r gohebydd Ann Clwyd yn teithio i Drebanws i gyfweld ag

---

<sup>42</sup> Ann McKay, 'Speaking Up: Voice Amplification and Women's Struggle for Public Expression', yn *Technology and Women's Voices: Keeping in Touch*, gol. gan Cheris Kamarac (Efrog Newydd: Routledge & Kegan Paul, 1988), tt. 160-78 (t. 160).

<sup>43</sup> Carolyn M. Byerly a Karen Ross, *Women and Media: A Critical Introduction* (Rhydychen: Blackwell Publishing, 2006).

<sup>44</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 28 Ionawr 1965. Dyma'r dyddiad y cychwynnodd Richard Bowering, Swyddog Garddwriaeth Sir Frycheiniog ei slot garddio cyson.

<sup>45</sup> *ibid.*, sgript *Merched yn Bennaf*, 4 Mawrth 1965, eitem gan Dilys Gunston Jones. Dylid nodi i Gunston Jones fod yn gyfaill i Williams ers dyddiau Aelwyd yr Urdd yn Aberystwyth ar drothwy'r pedwardegau. Gweler Richard R. Evans, *Llên y Llenor: Marion Eames* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2004), t. 51.

<sup>46</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 7 Ionawr 1965.

<sup>47</sup> *ibid.*, 1 Ebrill 1965.

<sup>48</sup> *ibid.*, 11 Chwefror 1965. Mae'n ddiddorol nodi bod Marion Griffith Williams a'i gŵr wedi ystyried mabwysiadu plentyn ond iddynt roi gorau i'r syniad yn y pen-draw. Daeth y thema mabwysiadu yn sail i'r nofel *Y Ferch Dawel* (Llandysul: Gomer, 1992). Gweler Evans, t. 103.

<sup>49</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 25 Chwefror 1965.

<sup>50</sup> *ibid.*, 16 Gorffennaf 1965.

<sup>51</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Merched yn Bennaf*, 21 Ionawr 1965.

athrawes am waith plant yr ysgol ar eu dewis wlad, sef India.<sup>52</sup> Roedd y cynnwys felly yn annog y gynulleidfa i ymwneud â'r hyn oedd yn gyfarwydd iddynt yn y cartref, sef eu sffêr preifat, ond yn eu cyflwyno i sffêr cyhoeddus y tu hwnt i'r aelwyd. Fe'u tywyswyd hefyd i sffêr eang y tu hwnt i ffiniau Cymru sy'n cadarnhau agwedd eangfrydig Williams ymhellach, a'i pharodrwydd i drafod amrediad o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel y dengys rhai o'r eitemau uchod, cafwyd rhai cyfranwyr gwrywaidd oedd yn dilyn arfer *Woman's Hour*. Nodwyd gan Norman Collins a fu'n gyfrifol am lansio'r gyfres bod croeso i gyfranwyr gwrywaidd fel rhai benywaidd a'r nod bob amser oedd sicrhau y siaradwr gorau.<sup>53</sup> Yn ogystal â lleisiau menywod cyffredin, clywyd hefyd leisiau menywod adnabyddus fel Cassie Davies,<sup>54</sup> Jennie Eirian<sup>55</sup> ac Eigra Lewis Roberts<sup>56</sup> yn cyfrannu at eitemau a recordiwyd o flaen-llaw neu yn cymryd rhan mewn sgysiaau byw. Clywyd llais Dr. Kate Roberts yn aml ar *Merched yn Bennaf*, wrth iddi ddarparu sgysiaau ar bynciau amrywiol megis y coffi a grybwyllwyd eisoes,<sup>57</sup> aros mewn gwestyau, a'r profiad o fod yn wraig, nofelydd a darlledydd cyson.<sup>58</sup> Yn ogystal, mewn llythyr sydd fel petai'n ymateb i gais am eitem gan Williams mae'n cynnig sgwrs am 'ein pentrefi sy'n prysur droi yn ddim ond lleoedd cysgu i bobl sy'n gweithio ym Manceinion' a hithau ar y pryd yn byw yn Ninbych.<sup>59</sup> Erbyn hyn roedd hi'n llenor oedd wedi hen ennill ei phlwy ond awdures ifanc oedd Eigra Lewis Roberts, a oedd wedi ennill cystadleuaeth stori fer *Y Cymro* gyda stori feiddgar 'am ddau fath o gariad, y corfforol a'r teimladol',<sup>60</sup> a hi a enillodd Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1965.<sup>61</sup> Profodd y flwyddyn honno yn un arwyddocaol i Jennie Eirian Davies (nee Howells) hefyd gan iddi ennill gwobr Cymraes y Flwyddyn o dan nawdd Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid.<sup>62</sup>

---

<sup>52</sup> *ibid.*, 29 Ebrill 1965.

<sup>53</sup> BBC 100, *Women's Programmes: Programmes for Women by Women*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/pioneering-women/womens-programmes/>> [cyrchwyd 19 Awst 2022].

<sup>54</sup> Cassie Davies (1898–1988), Llion Wigley, *Davies, Cassie Jane (1898-1988), addysgydd a chenedlaetholwraig*, (2018), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-DAVI-JAN-1898>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>55</sup> Jennie Eirian Davies (1925–1982), Elin Angharad, *Davies, Jennie Eirian (1925-1982), newyddiadurwraig*, (2015) Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-DAVI-EIR-1925>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>56</sup> Eigra Lewis Roberts (1939–), Y Lolfa, *Eigra Lewis Roberts* <<https://www.ylolfa.com/awduron/1279/eigra-lewis-roberts>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]. Gweler ei hunangofiant: Eigra Lewis Roberts, *Eigra: Hogan fach o'r Blaena* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2021).

<sup>57</sup> Gweler t. 224.

<sup>58</sup> BBC Written Archives, Sgriptiau *Merched yn Bennaf*.

<sup>59</sup> BBC Written Archives, Sgriptiau *Merched yn Bennaf*.

<sup>60</sup> Roberts, tt. 64-5. Bu cryn sylw i natur y stori fer, ac yn ôl Roberts ei hun cyfeiriodd nifer ati fel 'yr hogan yna sy'n sgwennu straeon budur'.

<sup>61</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Marion Eames, M4/2.

<sup>62</sup> Elin Angharad, *Davies, Jennie Eirian (1925-1982), newyddiadurwraig*, (2015), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-DAVI-EIR-1925>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

Roedd hi'n gyn-ymgeisydd seneddol gyda Phlaid Cymru ac yn olygydd cylchgrawn *Trysorfa'r Plant*, a Cassie Davies yn gyn-ddarlithydd yng Ngholeg y Barri ac wedi ymddeol o'i gwaith fel arolygydd ysgolion.<sup>63</sup>

Roedd y gwagedd hyn felly yn enghrefftau o fenywod a chanddynt rôl gyhoeddus, ond mae eu cyfraniad ar *Merched yn Bennaf* yn cwmpasu'r sfferau preifat a chyhoeddus, ac o'r herwydd roeddent yn medru darparu adlewyrchiad teg o amrywiaeth bywydau menywod. Eu teilyngdod a'u harweiniodd at y meicroffôn, nid am eu bod yn 'satellite women' a enillodd eu lle ar y tonfeddi yn sgil amlygrwydd eu gwŷr neu eu cysylltiad â dynion eraill.<sup>64</sup> Mae i hyn berthnasedd â hunaniaeth y gyfres, a gaiff ei gyfleu yn y teitl *Merched yn Bennaf*, yn yr un modd ag y cai hunaniaeth y gyfres Saesneg ei gyfleu yn ei theitl, fel nodwyd gan Andrews:

The decision to title the programme according to the gender of its perceived listeners, rather than their role, was legitimating for women; it affirmed their place within the schedules of the national broadcasters, not because they performed a role but because they were part of society.<sup>65</sup>

Yn unol â'i hymdrech i osod y fenyw wrth galon y cynyrchiadau, yn gyhoeddus bu Marion Griffith Williams yn llafar ei safbwynt ar faterion yn ymwneud â Hawliau Menywod ac yn ei nofelau a'i phapurau dangosodd ymwybyddiaeth glir o faterion ffeminyddol. Menywod yw prif gymeriadau y mwyafrif o'i nofelau hanesyddol, a seiliodd prif gymeriad ei nofel *Seren Gaeth* (1985) ar hanes Morfudd Llwyn Owen a fu'n briod gyda'r seicolegydd Ernest Jones.<sup>66</sup> Rhydd teitl y nofel awgrym o'i thynged o dan gysgod ei gŵr llwyddiannus a hynny ar droad yr ugeinfed ganrif, cyfnod a ddisgwyliai i wragedd priod lesteirio'u breuddwydion er cefnogi gyrfaodd eu gwŷr a chadw tŷ. Yn ei phapurau cyfeiriodd Williams at Hawliau Menywod fel ystyriaeth bwysig yn ystod Blwyddyn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, a

<sup>63</sup> Llion Wigley, *Davies, Cassie Jane (1898-1988), addysgydd a chenedlaetholwraig*, (2018), Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-DAVI-JAN-1898>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>64</sup> Gladys Lang, 'The Most Admired Woman: Image-Making in the News', yn *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media*, gol. gan Gaye Tuchman, Arlene Kaplan Daniels a James Benét, (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1978) tt. 147-160.

<sup>65</sup> Andrews, t. 119.

<sup>66</sup> Marion Eames, *Seren Gaeth* (Llandysgul: Gomer, 1998); Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, M4/2. Yn un o'i phapurau mae'n egluro 'pam y dewisais sgrifennu nofel am gymeriadau dychmygol yn lle cadw at fy mwriad cyntaf i lunio drama deledu ar briodas y ddau berson 'go iawn'. Roedd eisoes wedi creu rhaglen ddogfen am Morfudd Llwyn Owen gyda chymorth Nia Hall Williams fel cyflwynydd, a sylweddolodd, '...dyma sefyllfa ffeministaidd wedi'i wneud ar gyfer drama deledu'. Er iddi geisio creu sgrif drama deledu gyda chefnogaeth Gwenlyn Parry a John Hefin yn adran ddrama y BBC, ni chafodd lawer o lwyddiant a phenderfynodd yn y pen-draw i 'ganolbwyntio ar ddefnyddio sefyllfa eu priodas i sgrifennu nofel am gymeriadau dychmygol'.

nododd i Gyngres yr Undebau Llafur yn y wlad hon hawlio tâl hafal i fenywod am waith hafal a arweiniodd at ddeddf statudol yn 1975.<sup>67</sup> Caiff Diwrnod Rhyngwladol y Merched o dan nawdd Cymorth Cristnogol ei grybwyll ganddi, sy'n rhoi sylfaen i drafod lle menywod yn yr eglwys, 'Rhywsut mae pawb yn cymryd yn ganiataol mai'r chwiorydd sydd i baratoi'r bwyd, trefnu sosial, ymweld a'r [sic.] cleifion, tra bo'r dynion yn trafod busnes ac weithiau bynciau diwinyddol.'<sup>68</sup> Ysai am gael gweld menywod yn mentro mewn byd proffesiynol:

And I don't mean the housewife who would like to make a bob or two on the side between washing up and trimming the sprouts, but the girl who is prepared, like Gwerful Fychan was, to do a professional job in competition with men.<sup>69</sup>

Yn ei thyb hi menywod oedd ar fai am beidio ag ymgymryd â swyddi oedd ar gael iddynt, a gwelai yr un nodwedd o fewn rhengoedd ei chyflogwr, y BBC. Nododd o blith 150 o staff mewn cyfarfodydd misol mai dim ond tua 6 menyw y medrai eu cyfri yn eu plith, ac yn ddiddorol, mae hi'n nodi ymhellach, 'I'm prepared to swear that of all institutions the BBC has the least discrimination against appointing women.'<sup>70</sup> Mae'r datganiad hwn yn arwydd o deyrngarwch Williams tuag at y BBC, ond hefyd yn adlewyrchu barn bersonol nad yw'n gyson gyda chanfyddiadau eraill o fewn y traethawd hwn am brofiad menywod fel dengys profiad Ann Clwyd.

Yn unol ag arfer *Woman's Hour* (ag eithrio yn achos y cyflwynydd cyntaf),<sup>71</sup> cyflwynydd benywaidd a roddwyd gan Williams y tu ôl i'r meic, ond roedd ganddi hefyd 'dim [sic.] o riortars da iawn', ac roedd yn falch o nodi 'mai'r rhaglen hon oedd cyfle cyntaf darlledwyr fel Ann Clwyd a Beti George.'<sup>72</sup> Cyfaddefodd Williams bod cynhyrchu *Merched yn Bennaf* yn waith pleserus ond heriol:

---

<sup>67</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, M4/2.

<sup>68</sup> *ibid.*

<sup>69</sup> *ibid.*

<sup>70</sup> *ibid.*

<sup>71</sup> Y cyflwynydd cyntaf oedd Alan Ivimey, gweler: BBC 100, *Woman's Hour: 7 October 1946* (2022), <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/october/womans-hour>> [cyrchwyd 24 Awst 2022].

<sup>72</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrifau a Phapurau Marion Eames, M4/2. Ychwanegwyd enw 'Lenna' mewn llawysgrifen ar ddiwedd y frawddeg a nodwyd, a gellid tybio mai at Lenna Pritchard Jones (nee Harries) yr oedd Williams yn cyfeirio.

One was to find a sufficient number of reporters, women who were prepared to drop everything and go off to Haverfordwest or Holyhead at the drop of a hat...An ideal job for an adventurous young woman just leaving university you would have thought...Women in Wales rarely thought to equip themselves for doing that sort of work.<sup>73</sup>

Mae'n nodi ymdrechion i gysylltu gyda phrifysgolion i ofyn am raddedigion posib, ac am dreialu menywod ifaine gwahanol, ond gadael o'u gwirfodd a wnelent, yn aml gan fynegi bod swydd ddysgu yn opsiwn mwy apelgar.<sup>74</sup> Ategai hyn at gred Williams bod diffyg menter ymhlith menywod eu hunain yn y cyfnod o ran swyddi proffesiynol.

Un llais newydd a ymddangosodd fel gohebydd ar *Merched yn Bennaf* oedd Nia Hall Williams o Abertawe. Roedd wedi ymddangos ar rifyn *Woman's Hour* o Gymru fel gwetai i sôn am ei phrofiad fel cyd-olygydd cylchgrawn newydd i ferched sef *Hon*,<sup>75</sup> a blwyddyn yn ddiweddarach ymddangosodd ar *Merched yn Bennaf* gan gyflwyno eitemau amrywiol.<sup>76</sup> Dengys hyn i Williams nid yn unig ddod ag eitemau Cymreig eu natur at arlwy *Woman's Hour* ond iddi hefyd fanteisio ar hap wrth chwilio am ohebyddion benywaidd newydd. Fel nodwyd eisoes, un fenyw ifanc a fentrodd ar waith o'r fath oedd Ann Clwyd, ac mae'n cyfeirio at Williams fel rhywun oedd yn 'ceisio rhoi cyfle i ferched. Odd Nan Davies ddim yn dda iawn felna, dwi ddim yn meddwl, o roi cyfle i ferched, tra roedd Marion Eames yn arbennig'.<sup>77</sup> Mae hwn yn osodiad sy'n cadarnhau'r gymhariaeth a wnaed yn y bennod flaenorol rhwng Davies a'i thîm grwywaidd ifanc ar y gyfres *Heddiw* a Grace Wyndham Goldie a'i *Goldie boys*.

Fel rheolwr stiwdio y cafodd Clwyd ei phenodi yn wreiddiol, ac yn ei thyb hi, yn ystod y cyfnod hwnnw, 'yr unig ffordd i chi fynd mewn i'r BBC oedd trwy'r *studio manager*'.<sup>78</sup> Derbyniodd hyfforddiant yn BBC Llundain ochr yn ochr â menywod fel

---

<sup>73</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrifau a Phapurau Marion Eames, M4/2.

<sup>74</sup> *ibid.*

<sup>75</sup> BBC Written Archive Centre, sgript *Woman's Hour*, 11 Mehefin 1964. Roedd tri rhifyn o *Hon* wedi ymddangos, a'r golygydd arall oedd Marion Arthur Jones, hithau fel Nia Hall Williams yn fam i blant ifaine a dim profiad cyhoeddi.

<sup>76</sup> *ibid.*, sgript *Merched yn Bennaf*, 8 Ebrill 1965, eitem ar yr Undodwyr. Nia Hall Williams a gyflwynodd y rhaglen ddogfen ar Morfudd Llwyn Owen a grybwyllwyd yn nhroednodyn rhif 62 uchod.

<sup>77</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur ag Ann Clwyd, 29 Mawrth 2022. Recordiad o'r cyfweiliad ym meddiant yr awdur.

<sup>78</sup> Cyfweiliad yr awdur ag Ann Clwyd.

Esther Rantzen<sup>79</sup> a Joan Bakewell,<sup>80</sup> ond hi oedd yr unig reolwr stiwdio benywaidd o Gymru ar hyfforddiant yno ar y pryd. Roedd wrth ei bodd ym mwrlwm darlledu a chafodd gyfle i brofi amrediad o genres megis drama, newyddion ac adloniant ysgafn:

I loved it all and the glamour, excitement and buzz suited me down to the ground; this was show business! I was rubbing shoulders with household names such as Jack de Manio on the *Today* programme, the cast of the radio soap *Mrs Dale's Diary* and Wilfred and Mabel Pickles on the quiz programme *Have a Go*.<sup>81</sup>

Mae'r cyffro a gaiff ei gyfleu gan Clwyd yn y dyfyniad uchod yn adlais o'r cyffro a goleddwyd gan Teleri Bevan tuag at y byd adloniant a chyfryngol, ac yn awgrymu argraff o ddiwydiant a ddisgrifiwyd gan Born fel '[a] wealthy and glittering establishment profession'.<sup>82</sup> Wedi cyfnod o hyfforddiant yn Llundain dychwelodd Clwyd i Gaerdydd i weithio, ac mae'n cydnabod i'r swydd brofi'n feithrinfa dda gan fod cynhyrchwyr fel Lorraine Davies ac Evelyn Williams yn mynnu perffeithrwydd, gyda staff yn eu hofni a'u parchu.<sup>83</sup>

Roedd cyfleusterau y stiwdios teledu cyntaf yn Y Sblot yng Nghaerdydd yn gyntefig tu hwnt gyda llawer o'r offer y deliai Clwyd ag ef allan yn y coridorau, a olygai ei bod yn gweithio o dan amodau heriol, ond roedd hi'n ymwybodol mai dysgu eu crefft oedd pawb o'i chwmpas.<sup>84</sup> Ymrodd i waith rheolwr stiwdio am rai blynyddoedd ond fe'i gwelai'n anodd dringo'r ysgol i swydd uwch, er iddi ymgeisio am swyddi eraill o fewn y BBC ni fu'n llwyddiannus, ac roedd hyn yr un mor wir am y rheolwyr stiwdio eraill.<sup>85</sup> Bu i Dorothy Williams weithio yn yr un rôl cyn symud i

<sup>79</sup> Esther Rantzen, (1940–). IMDB, *Esther Rantzen: producer, director, actress*, <<https://www.imdb.com/name/nm0710497/>> [cyrchwyd 20 Mehefin 2022]. Gweler hunangofiant, Esther Rantzen, *Esther: the autobiography*, (Llundain: BBC Books, 2001).

<sup>80</sup> Joan Bakewell, (1933–). IMDB, *Joan Bakewell: writer, actress, producer*, <<https://www.imdb.com/name/nm0049051/>> [cyrchwyd 20 Mehefin 2022]. Gweler hunangofiant: Joan Bakewell, *The centre of the bed: an autobiography* (Llundain: Hodder and Stoughton, 2003).

<sup>81</sup> Masters, t. 33. *Today*, (BBC, 1957–). BBC 100, *First edition of Today: 28 October 1957*,

<<https://www.bbc.com/historyofthebbc/anniversaries/october/today>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]; *Mrs Dale's Diary*, (BBC, 1948-1969); Dr Anthony McNicholas, BBC 100, *Soaps on the BBC: From the Front Line to the Queen Vic*, <<https://www.bbc.com/historyofthebbc/research/soaps-on-the-bbc>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]; *Have a go*, (BBC, 1946-1967); History of the BBC, *Wilfred Pickles presents Have a Go*, <<https://www.bbc.co.uk/programmes/p05h73ck>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]. Yn ei chyfweliad gyda'r awdur (Mawrth 2022), cyfeiriodd Ann Clwyd at y rhaglen fel 'Have a go, Joe' a dyna oedd un o linellau bachog y cyflwynydd, 'Have a go Joe, come on and have a go, You can't lose owt, it costs you nowt, To make yourself some dough. So hurry up and join us, don't be shy and don't be slow. Come on Joe, have a go!'

<sup>82</sup> Georgina Born, *Uncertain Vision: Birt, Dyke and the Reinvention of the BBC* (Llundain: Secker & Warberg, 2005), t. 70.

<sup>83</sup> Cyfweliad rhwng yr awdur ag Ann Clwyd.

<sup>84</sup> *ibid.*

<sup>85</sup> *ibid.*

gynhyrchu rhaglenni teledu gyda TWW, ac mae'n ddiddorol ystyried ai diffyg cyfleoedd o fewn y BBC a'i gwthiodd hi at ddarlledu masnachol.<sup>86</sup> Mae profiad Clwyd yn adlewyrchu absenoldeb system o hyfforddi er mwyn galluogi unigolion i symud i fyny'r ysgol yrfaol a dibynnai unrhyw siawns i ehangu profiad ar fympwy cynhyrchwyr unigol. Ymddengys bod yr un her yn wynebu staff y tu hwnt i Gaerdydd, fel y tystiodd ffrind i Joan Bakewellm Claire Delavenay wrth ymgeisio am swydd fel hyfforddai gyda'r BBC yn Llundain. Er gwaethaf ei gradd dosbarth cyntaf mewn Saesneg a'i hawydd i ymuno â'r Gorfforaeth, derbyniodd ateb swta i'w chais am swydd o'r fath, 'Is is not the policy of the BBC to consider women for the general trainee scheme.'<sup>87</sup>

Roedd y mater o recriwtio aelodau o staff cynhyrchu addas, yn enwedig staff cyfrwng Cymraeg, yn destun gofid i weinyddwyr y BBC yng Nghaerdydd, a chafwyd trafodaeth ar hyn ym mhwyllgor y Cyngor Darlledu yn nhymor yr Hydref 1962.<sup>88</sup> Eglurwyd dulliau recriwtio'r cyfnod, gan bwysleisio bod swyddi newydd yn cael eu cynnig yn fewnol yn gyntaf cyn eu hysbysebu'n allanol, a mynegwyd y gellid gwneud mwy i ennyn diddordeb pobl ifainc mewn gyrfoedd o fewn y BBC.<sup>89</sup> Mae'n rhyfedd meddwl bod unigolion cymwys fel Ann Clwyd o dan eu trwynau, ac er iddi dderbyn cyfleoedd diddorol fel cyflwynydd ar gyfres i blant (a gynigiwyd iddi gan Evelyn Williams)<sup>90</sup> ac fel cyflwynydd ar y cyd â Robin Jones ar gyfres adloniant, nid oedd y profiadau hynny yn ei bodloni'n llwyr.<sup>91</sup>

Yn ystod y cyfnod hwn y bu i Williams ddigwydd troi at Clwyd i ddarparu eitemau wythnosol ar gyfer *Merched yn Bennaf*, 'roedd hi'n rhoi cyfle i chi holi rhywun a'u defnyddio nhw yn y rhaglen'.<sup>92</sup> Ym marn Ann Clwyd, gwraig llawn syniadau oedd

---

<sup>86</sup> Teleri Bevan, *Years on Air* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2004), t. 67. Fel Studio Manager yn BBC Llundain y penodwyd Dorothy Williams cyn iddi symud i Gaerdydd i weithio yn yr un rôl. Nodwyd gan Bevan, 'She survived Lorraine's demanding instructions for studio effects, such as opening doors and running up and down steps, to illuminate the action for hair-raising children's adventure plays.' Daeth cyfle iddi ymuno gyda TWW fel un o'r cyflogeion cyntaf, gan ddatblygu yn un o gynhyrchwyr mwyaf blaenllaw darlledu masnachol yng Nghymru. Ceir cyfeiriad ati mewn pamffled hyrwyddo gan TWW fel un o'r pump unigolyn (dynion yw'r gweddill) oedd yn gyfrifol am raglenni Cymraeg y sianel, TWW, *Teledu yng Ngwlad y Gân* (23 Mai 1960), <<http://rhaglenni.televault.rocks>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>87</sup> Bakewell, *The centre of the bed*, t. 116.

<sup>88</sup> BBC Written Archive Centre, R6/242/3, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 21 Medi 1962, tt. 2-3.

<sup>89</sup> *ibid.*, 26 Hydref 1962, t. 3. Gellid dadlau i'r system recriwtio fod yn effeithiol, oherwydd yng nghofnodion y Cyngor ar 24 Mehefin 1963 cyfeiriwyd at 830 o ymgeiswyr ar gyfer 20 o swyddi newydd, t. 2. Ymhlith y rheiny a benodwyd oedd pedwar cynhyrchydd teledu sef Meredydd Evans, J. Roberts Williams, Wilbert Lloyd Roberts a David Bevan, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 12 Gorffennaf 1963, t. 2.

<sup>90</sup> Efallai mai'r gyfres y cyfeiriodd Clwyd ati oedd *O Bant i Bantan* o dan gwmpawd eang y gyfres *Telewele*. Nodir ei henw fel Ann Clwyd Williams ar un o naw rhaglen yn y gyfres fer i blant. BBC Genome, *O Bant i Bantan* (1961-62), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=o+bant+i+bentan>> [cyrchwyd 23 Awst 2022].

<sup>91</sup> Cyfweiliad rhwng yr awdur ag Ann Clwyd.

<sup>92</sup> *ibid.*



Marion Griffith Williams, ‘roedden i’n teimlo bod Marion Eames yn fwy eang na Teleri a Nan achos roedd hi’n dod o gefndir gwahanol’; wrth gwrs rhannai Bevan a Davies wreiddiau dwfn yng nghefn-gwlad Ceredigion.<sup>93</sup> Mae hyn yn codi cwestiwn diddorol ynglŷn â natur cynhyrchedd o fewn genres a darpariaethau ffeithiol; ai dealltwriaeth drylwyr o ardal a ffordd o fyw benodol, neu ehangder profiad ac adnabyddiaeth o gymunedau amrywiol sydd fwyaf manteisiol o safbwynt creu cynnwys i’w ddarlledu? Llwyddodd Davies i elwa i’r eithaf ar ei magwraeth a’i chefnidir i gynhyrchu cyfoeth o gynnwys darlledu fel yr amlygwyd eisoes yn y traethawd hwn, ond i Williams roedd ei diffyg hymlyniad i unrhyw ardal benodol yn arwain at amrediad o syniadau ac adnabyddiaeth eang o bobl. Mae modd olrhain y nodwedd hon yn ei llenyddiaeth yn ogystal:

O’i safbwynt fel nofelydd, os oes yna rywbeth yn ei gwaith sy’n adlewyrchu ei bywyd a’i phersonoliaeth hi ei hun, mae’n debyg mai’r ffaith na fu hi erioed yn teimlo o ddifrif ei bod hi’n perthyn i unman yw hynny, sydd, fe ddichon, yn ymddangos yn drist. Fodd bynnag, ni fyddai hi’n cytuno, oherwydd ei bod yn credu mai’r dieithrwech hwn a’i hysgogodd i ysgrifennu o’r cychwyn cyntaf; dyma’r hyn a’i helpodd i aros ar wahân – ‘ar y cyrion [...] yn gwranddo, gwranddo’...er mwyn meithrin clust fain am sgysiau a chynefino ag edrych yn wrthrychol a sylwi’n fwy manwl ar ymddygiad pobl mewn sefyllfaedd neilltuol.<sup>94</sup>

Gwyddys i’r agwedd hon arwain at gyfoeth llenyddol ond arweiniodd hefyd at syniadau eangfrydig ym maes cynhyrchu radio. Roedd yr agwedd unigryw yma yn anian Williams yn apelio at Clwyd;<sup>95</sup> magwyd y ddwy mewn ardaloedd nad oedd yn gadarnleoedd y Gymraeg, Williams ym Mhenbedw a Clwyd yn Sir y Fflint. Nid y Gymraeg oedd iaith gyntaf Clwyd ac ni chyfarfu â phobl o’r un oedran â hi a fedrai’r Gymraeg tan iddi fynychu Prifysgol Bangor.<sup>96</sup> Er i deulu Williams symud i Ddolgellau pan oedd hi’n bedair oed, roedd ei Chymraeg llafar yn wahanol i’r plant eraill yn yr ysgol gynradd a thueddent i chwerthin ar ei phen, gan droi i’r Saesneg, a arweiniodd at atgasedd ynddi tuag at yr iaith.<sup>97</sup> Ymhellach, pan enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Dr Williams yn y dref, fel opsiwn y cynigiwyd y Gymraeg ochr yn ochr â’r

<sup>93</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Ann Clwyd.

<sup>94</sup> Evans, *Llên y Llenor: Marion Eames*, t. 10.

<sup>95</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Ann Clwyd.

<sup>96</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Ann Clwyd.

<sup>97</sup> J. Beverly Smith, ‘Tribute to Marion Griffith Williams [Marion Eames]’, *Y Dydd*, 14 Ebrill 2007, t. 5.

Ffrangeeg, ac roedd Williams ond yn rhy falch i droi ei chefn ar ei mamiaith fel pwnc astudiaeth.<sup>98</sup>

Gellid tybio bod Clwyd a Williams felly yn medru uniaethu â'i gilydd i ryw raddau, ac er i Clwyd nodi ei bod yn bleser gweithio i gynhyrchwyr gwahanol, nododd '[bod] Marion yn arbennig, roedd ganddi hi ddiddordeb os oeddech chi'n cynnig syniad a hi'n meddwl eu bod nhw'n dda roedd hi'n eich canmol chi ac yn rhoi siawns i chi ddatblygu'r syniad.'<sup>99</sup> Mae'r awyrgylch cefnogol yma tuag at werth syniadau yn atseinio natur tîm cynhyrchu *Woman's Hour* gyda chynhyrchwyr yn teimlo'n gyfforddus i gynnig syniadau, gan roi ystyriaeth i farn gwrandawyr mewn modd democrataidd.<sup>100</sup> Er bod Clwyd yn ddigon bodlon gwneud gwaith cyflwyno i gynhyrchwyr gwahanol, roedd Williams yn medru cynnig rhywbeth amgenach iddi sef y rhyddid i gynhyrchu ei syniadau ei hun a'u datblygu, ac roedd apêl yn 'y cyfle i fynd i rywle a gwneud rhywbeth roeddwn i'n teimlo bo fi eisiau gwneud.'<sup>101</sup>

Ymhlith y math o ddeunydd mae Clwyd yn cofio ei ddarparu i *Merched yn Bennaf* oedd eitem ar gynhyrchu gwlan yn Iwerddon, ac eitem ar lwyddiant Coleg Celf Caerdydd mewn cystadleuaeth ffasiwn yn Helsinki a olygai cario offer recordio trwm i bob math o leoliadau.<sup>102</sup> Hwyluswyd cyfle gan Williams iddi hefyd ddarparu eitemau i *Woman's Hour* a pharhaodd y trefniant hwn o gyflenwi deunydd i'r ddwy gyfres wedi i Clwyd benderfynu gadael y BBC a gweithio'n llawrydd. Bu i'r penderfyniad wneud iddi deimlo 'yn fwy rhydd, yn fwy hapus a llon', gan arwain at lai o bwysau arni na gwaith rheolwr stiwdio a fyddai'n aml yn peri iddi ddiodef *migraines* difrifol.<sup>103</sup> Datblygodd i ennill ei bywoliaeth yn gwneud eitemau ar ofyn ar gyfer rhaglenni penodol, ond caniatwyd iddi gan Williams i ddilyn ei diddordebau ei hun a arweiniodd yn y pen-draw at yrfa fel newyddiadurwraig ar

---

<sup>98</sup> Eleri Hopcyn, *Dylanwadau* (Llandysul: Gomer, 1995), t. 5. Caiff perthynas Williams a'r Gymraeg ei drafod fel a ganlyn yn y gyfrol; roedd prinder tai ym Mhen-bedw fel nifer o rannau eraill o'r wlad wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac roedd ei rhieni oedd yn Gymry Cymraeg wedi gorfod lletya gyda Saesnes leol. Pan ganed eu plentyn cyntaf, teimlent nad oedd yn fonheddig i siarad Cymraeg â hi yn y cartref hwnnw, ond erbyn i Marion a'i chwaer iau gael eu geni, sylweddolwyd effaith yr arfer ar y ferch hynaf, a phenderfynwyd symud y teulu i Ddolgellau. Er hyn parhaodd y merched i siarad Saesneg â'i gilydd. Yn hytrach, nifer o brofiadau bywyd a feithrinodd gariad Marion Griffith Williams tuag at yr iaith a'i llenyddiaeth.

<sup>99</sup> Cyfweliad rhwng yr awdur ag Ann Clwyd.

<sup>100</sup> David Hendy, tt. 342-43.

<sup>101</sup> Cyfweliad rhwng yr awdur ag Ann Clwyd.

<sup>102</sup> *ibid.*, arweiniodd y diddordeb ffasiwn ati'n sefydlu ei siop ddillad ei hun ym Mhontcanna, Caerdydd o'r enw An-an, gweler Masters, tt. 38-42.

<sup>103</sup> Cyfweliad yr awdur gydag Ann Clwyd.

bapurau *The Observer* a *The Guardian*, cyn iddi sefyll fel ymgeisydd seneddol dros y Blaid Lafur.<sup>104</sup>

Yn ogystal â'r eitemau a ddarparwyd ar leoliad gan unigolion fel Ann Clwyd, ceisiai Marion Griffith Williams sicrhau bod ganddi 'o leiaf ddau siaradwr gwadd yn y stiwdio er mwyn medru tynnu'r rhaglen i'w derfyn mewn pryd'.<sup>105</sup> Darlledwyd *Merched yn Bennaf* yn fyw ac fel gwyddys awdur y traethawd hwn, dyma dacteg effeithiol mewn math o ddarlledu sy'n rhoi cryn bwysau ar gynhyrchydd i beidio mynd dros amser. Mae'r penderfyniad i gael siaradwyr yn y stiwdio yn fodd o gynorthwyo cynhyrchydd, rhag iddo gael ei gaethiwo gan amseriad eitemau a recordiwyd yn cael eu darlledu yn rhy agos at ddiwedd rhaglen. Er bod *Merched yn Bennaf* yn gyfres newydd, roedd Williams wedi bwrw ei chreffft cynhyrchu tra'n aelod o dîm cynhyrchu y rhaglen foreol, *Good Morning Wales*,<sup>106</sup> a thrwy ddarparu rhifynnau Cymru o'r cyfresi *Woman's Hour* a *Home This Afternoon*.<sup>107</sup> Roedd yn gyfarwydd felly gyda phwysau darlledu byw a gwyddai sut i reoli amser stiwdio mewn sefyllfa o'r fath. Er enghraifft, ar *Woman's Hour* roedd yn rhaid sicrhau bod y bwletin newyddion ar hanner yr awr yn digwydd ar amser, yn ogystal â gorffen y rhaglen mewn pryd ar gyfer y prif fwletin ar yr awr.

Llenwyd rhaglenni *Merched yn Bennaf* i'r ymylon ag eitemau amrywiol, er enghraifft ceir rhwng pump a saith o eitemau ym mhob rhaglen gyda'r mwyafrif yn eitemau a recordiwyd o flaen-llaw.<sup>108</sup> Fel gŵyr awdur y traethawd hwn, mewn rhaglen hanner awr fyw, wythnosol mae hynny yn dipyn o goflaid gwaith ac yn golygu llawer o gynllunio a recordio rhag-blaen. Cai'r cyfan ei wau at ei gilydd gan y sgrïpt a'i chyflwyno gan Anest Wiliam, er i Rhiannon Lloyd, Dilys Price a Rhiannon Evans ymddangos fel cyflwynwyr yn nhymor yr Hydref 1966.<sup>109</sup> Ymddengys nad oedd lle i gyflwyno byrfyfyr i ddigwydd, a dyna oedd yr arfer ar y pryd, hyd yn oed ar raglenni ysgafn megis *Helo, Sut dach chi?* gydag Hywel

---

<sup>104</sup> Masters.

<sup>105</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, M/42.

<sup>106</sup> *Good Morning Wales* (BBC, 1963–). BBC Wales News, *Good Morning Wales marks its 50<sup>th</sup> year of broadcasting*, 4 Hydref 2013, <<https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-24394945>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>107</sup> *Home this Afternoon*, (BBC, 1964–1970). Darlledwyd y rhaglen gyntaf ar 30 Mawrth 1964, 'A new magazine of interest to all, but with older listeners specially in mind', BBC Genome, *Home this Afternoon* (28 Mawrth 1964), <<https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-24394945>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>108</sup> BBC Written Archive Centre, sgrïptiau *Merched yn Bennaf*.

<sup>109</sup> BBC Written Archive Centre, sgrïptiau *Merched yn Bennaf*.

Gwynfryn a roddai argraff o fyrfyfyrio.<sup>110</sup> Er bod sgript *Merched yn Bennaf* yn dynn mae'r cywair yn anffurfiol, a cheir ymdrech glir i sefydlu perthynas agos gyda gwrandawr yn hytrach na chyda cynulleidfa, er enghraifft, yn linc agoriadol yr ail raglen:

Fuoch chi erioed yn breuddwydio am gael bwthyn bach yn y wlad i fyw ynddo, rhyw dŷ bach twt ymhell o bobman? Mae'n debyg fod hyn yn freuddwyd i'r rhan fwyaf ohonom ni, ond dim ond y rhai dewr fydd yn ceisio troi'r freuddwyd yn reality [sic.], a chan amlaf Saeson ydyn nhw, ond ma 'na o leiaf un Gymraes fydd wedi gwneud hyn, Nest Humphreys, a dyma hi'n siarad am ei phrofiadau.

Roedd arddull *Merched yn Bennaf* yn agosach at arddull a chywair sgriptiau *Home this Afternoon* a ddeuai o Gaerdydd, yn hytrach na rhifynnau *Woman's Hour* o Gymru.<sup>111</sup> Roedd Williams yn cynhyrchu *Home this Afternoon* yn yr un cyfnod ag y cynhyrchai *Merched yn Bennaf*, ond nid oes tystiolaeth iddi ail-gylchu eitemau hyd yn oed pan ddigwyddai'r ddwy raglen ddarledu o fewn deuddydd i'w gilydd.<sup>112</sup> Cyfeiriodd at y pleser o ddiwallu chwaeth pobl hŷn oedd wedi ymddeol, oherwydd cai gyfle i ddewis cerddoriaeth rhwng yr eitemau ac i fwynhau mwy o ryddid nag a ganiatawyd iddi gan gynhyrchwyr *Woman's Hour*:

Roedd WH [*Woman's Hour*] yn Llundain yn dal gafael go finiog ar yr hyn a oedd yn mynd allan o'r Rhanbarthau (fel y'i [sic.] gelwid), a doeddwn i ddim yn cael fy ffordd fy hun bob tro. Ond roedd H.T.A. [*Home this Afternoon*] yn rhaglen hapus iawn, oherwydd rown i'n cael rhyddid llwyr i ddewis f'eitemau fy hun.<sup>113</sup>

Gellid tybio i Williams deimlo yr un rhyddid wrth gynhyrchu *Merched yn Bennaf*, ac mae'n ddiddorol nodi nad oes un sylw i'r gyfres ym mlwyddyn gyntaf ei darledu yng nghofnodion pwyllgor Cyngor Darledu Cymru lle roedd barn yr aelodau ar

<sup>110</sup> BBC Written Archive Centre, sgriptiau *Helo*, sut 'dach chi, (1968–1972).

<sup>111</sup> BBC Written Archive Centre, sgriptiau rhifynnau *Home this Afternoon* o Gymru (1965–1969) gyda Philip Phillips neu Harry Soan yn cyflwyno, a sgriptiau rhifynnau *Woman's Hour* o Gymru (1954–1974) gyda Gwenyth Petty'n cyflwyno. Cadarnhaodd Gwenyth Petty yn ei chyfweiliad gyda'r awdur bod angen cryn ddifridoldeb wrth gyflwyno *Woman's Hour*, a phan oedd hi a Teleri Bevan yn cydweithio, fe'i gwelai'n anodd iawn peidio â chwerthin wrth geisio ymgynraedd at yr arddull priodol.

<sup>112</sup> BBC Written Archive Centre, sgriptiau *Merched yn Bennaf*. Er enghraifft, darledwyd *Merched yn Bennaf* ar 15 Gorffennaf 1965 gydag eitem ar ysgol haf i delynorion yn Y Fenni, sgwrs rhwng Dillwyn Owen a'r delynores Ann Griffiths, a thrafodaeth rhwng Dr Kate Roberts a llenorion benywaidd am yr angen i Sefydliad y Merched gael cangen i Gymru. Drannoeth, ar 16 Gorffennaf 1965 darledwyd *Home This Afternoon* o Gaerdydd, gyda Dilys Breese Jones ar ymweliad ag Eisteddfod Llangollen a chafwyd sgwrs rhwng Eynon Evans a'i fam oedd yn 83 oed ac yn hel atgofion am ei ffrog barti gyntaf.

<sup>113</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames.

raglenni yn eitem agenda gyson. Daw'r sylw cyntaf flwyddyn a hanner wedi ei sefydlu, ym Mehefin 1966, pan gaiff ei disgrifio fel 'an excellent series.'<sup>114</sup> Mae'r diffyg diddordeb hwn yn debyg iawn i brofiad Monica Sims gyda'r ddarpariaeth rhaglenni i fenywod ar deledu a radio, na ddenai sylw y rheiny yn rhengoedd uwch y BBC:

...[it] gave us the freedom to experiment and do, sometimes, quite adventurous things, at least we thought they were at the time, but also meant that it was a bit discouraging, because if you did do something which you thought really was breaking new ground, nobody noticed, mind you if we made mistakes, it was just as well, you didn't get in to too much trouble.<sup>115</sup>

Yn y sgrïptiau, yn ogystal ag enw Ann Clwyd fel gohebydd sy'n darparu rhai o eitemau caled y gyfres a hefyd rhai ysgafnach, enw arall a ymddangosai'n rheolaidd oedd un Teleri Bevan. Ers ei phenodi yn 1955, magodd Bevan brofiad helaeth yn cynhyrchu cyfresi radio a theledu mewn amrediad o genres.<sup>116</sup> Meddai hefyd ar ddealltwriaeth o gynhyrchu cynnwys ar gyfer cynulleidfa fenywaidd yn benodol gan iddi gyfrannu at rifynnau Cymru o *Woman's Hour* a bu'n gynhyrchydd ar gyfres deledu wythnosol chwarter awr o hyd o dan y teitl *Gwraig y Ty* (1960–61), gyda Nest Williams yn cyflwyno.<sup>117</sup> Buasai'r teitl hwnnw yn gyfarwydd eisoes i wrandawyr yng Nghymru gan i gyfres o sgysiau radio pum munud o dan yr un teitl gael eu darlledu tua dwy waith y mis o fis Ionawr 1951 hyd at fis Mawrth 1954, ac yna yn llai aml o Ionawr 1956 hyd at fis Rhagfyr 1957.<sup>118</sup> Nid yw'n glir ai'r gyfres deledu yn unig y bu i Bevan yn ymwneud â hi, neu a fu'n trefnu'r sgysiau radio oedd ag iddynt flas cwbl wahanol i *Merched yn Bennaf*. Clywyd themâu traddodiadol yn cael eu trafod yn gyson megis 'Gwahanol ffyrdd i ddefnyddio pysgod'<sup>119</sup> a

<sup>114</sup> BBC Written Archive Centre, R6/242/3, Cofnodion Pwyllgor Darlledu, 17 Mehefin 1966, t. 4.

<sup>115</sup> History of the BBC, *Interview with Monica Sims* (1989), <<https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p06r6czf>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>116</sup> Bevan, t. 11.

<sup>117</sup> BBC Genome, *Gwraig y Ty* [sic.], <<https://genome.ch.bbc.co.uk/7914f42b88884cc7af755dd318d4fb1a>> [cyrchwyd 23 Awst 2022]. Darlledwyd am 13.05 ar ddydd Mawrth a'r disgrifiad yn y *billings* oedd 'Cylchgrawn ar gyfer y ty [sic.] a'r teulu.' Roedd yr un teitl wedi ei ddefnyddio ar ffurfiau gwahanol ar ddilyniant o raglenni tebyg a anelwyd at gynulleidfa fenywaidd rhwng 1940 a 1942, er enghraifft, *Cwestiynau Gwraig y Ty* [sic.] (26 Medi 1940),

<<https://genome.ch.bbc.co.uk/6c206c34d8b0444cbfe4d48b8b56a0b5>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]; *Problemau Gwraig y Ty* [sic.], (27 Mawrth 1941), <<https://genome.ch.bbc.co.uk/4f0203e5eff549f39b30c78b57fb63d0>> [cyrchwyd 22 Awst 2022];

*Problemau Gwraig y Ty* [sic.] a'r *Teulu Da* (8 Ebrill 1942),

<<https://genome.ch.bbc.co.uk/6fb89393d2e04ce7a2c7b03b0fed5e71>> [cyrchwyd 22 Awst 2022]. Cynhwysai'r rhifyn olaf a nodwyd sgwrs gan Dr. Kate Roberts.

<sup>118</sup> BBC Genome, *Gwraig y Ty* [sic.],

<[https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is\\_radio&q=gwraig+y+ty&after=1950-01-01T00%3A00%3A00.000Z&before=1959-12-31T23%3A59%3A59.999Z#top](https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&filt=is_radio&q=gwraig+y+ty&after=1950-01-01T00%3A00%3A00.000Z&before=1959-12-31T23%3A59%3A59.999Z#top)> [cyrchwyd 23 Awst 2022].

<sup>119</sup> *ibid.*, 17 Chwefror 1953, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/0b8ba77276033182019025ba70fc3cc9>> [cyrchwyd 23 Awst 2022].

‘Gloywi Dodrefn’<sup>120</sup> gan gyfranwyr amrywiol fel Myfanwy Howell a Myfanwy Eames,<sup>121</sup> yn ogystal â chan enwau llai adnabyddus.<sup>122</sup>

Er y profiad hwn a feddai Bevan o ddarparu ar gyfer cynulleidfa fenywaidd, pan benderfynodd Hywel Davies bod angen cyfres radio gyson yn y Gymraeg wedi ei hanelu at fenywod, nid ati hi y trodd ond at Williams.<sup>123</sup> Y rheswm tebygol am hynny oedd i Bevan gymryd ysbaid o’i gwaith darlledu ar gychwyn y chwedegau i fagu ei mab, ac nid oedd bellach ar staff y BBC.<sup>124</sup> Er iddi gydnabod yn ei hunangofiant iddi fwynhau treulio amser gartref cyfaddefodd:

In two years, I became restless...Returning to full-time work was not an option at that stage, and I lacked the confidence and the cheek to tout my skills around the broadcasting fraternity, asking for ad hoc work as a producer or presenter.<sup>125</sup>

O ystyried profiad helaeth Bevan fel cyflwynydd a chynhyrchydd mae’r diffyg hyder wedi cyfnod o’r gwaith yn amlygu ei hun yn dyfyniad uchod, ac efallai mai dyna’r rheswm iddi droi at grefft llai cyhoeddus a haws ei reoli sef ysgrifennu, a chynnig sgetsus i’r gyfres ddychanol *Stiwidio B*.<sup>126</sup> Datgelodd yn ei hunangofiant iddi dderbyn adborth gwerthfawr gan gynhyrchydd y rhaglen, Jack Williams, ac iddi deimlo balchder wrth glywed geiriau a ysgrifennwyd ganddi yn cael eu hynganu gan eraill.<sup>127</sup> Yn ystod y cyfnod hwn roedd ei gŵr, David Bevan, yn prysur ddringo’r ysgol yrfaol, gan ei ddyrchafu o fod yn gyhoeddwr i fod yn gynhyrchydd rhaglenni cyffredinol,<sup>128</sup> ac yna yn gynhyrchydd teledu.<sup>129</sup> Ond daeth cyfle byr-rybudd, o natur gwahanol i’w rhan hi, sef cynnig gan y cynhyrchydd Dorothy Williams i gyflwyno cyfres gêm gwis ysgafn i TWW, a hynny gan fod Myfanwy Howell wedi ei chymryd yn wael.<sup>130</sup> Arweiniodd hyn at gysylltiad achlysurol gyda darlledu masnachol am

<sup>120</sup> BBC Genome, *Gwraig y Ty* [sic.], 17 Chwefror 1953.

<sup>121</sup> Cyfeiriwyd at Myfanwy Eames yn y bennod ar hanes yr arloeswyr. Cyflwynwyd y gyfres *Byd Merched* (1937–1939), ganddi, hi oedd awdur y llyfr *Llyfr Prydiau Bwyd: Llawlyfr i Rianedd Cymru* (1932) a hi oedd yn gyfrifol am dudalennau’r merched yng nghylchgrawn *Y Ford Gron* (1930–35).

<sup>122</sup> *ibid.*, rhwng 17 Ebrill 1958 a 29 Awst 1958 cafwyd cyfres o chwech o raglenni radio chwarter awr gyda’r hwyr, *Y Ty* [sic] a’r *Teulu*, a ddisgrifiwyd fel ‘Welsh housewives’ discussion’.

<sup>123</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames. M/42.

<sup>124</sup> Bevan, tt. 56–65. Gadawodd Bevan y BBC ym Medi 1961 a ganed ei mab yn Ionawr 1962.

<sup>125</sup> *ibid.*, t. 66.

<sup>126</sup> *ibid.*, t. 66.

<sup>127</sup> Bevan, tt. 56–65.

<sup>128</sup> Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 28 Mawrth 1962, t. 2.

<sup>129</sup> *ibid.*, R6/242/3, 12 Gorffennaf 1963, t. 2. Yn 1972 penodwyd David Bevan fel olynydd i Morfudd Mason Lewis fel trefnydd yr adran gyflwyno, 17 Tachwedd 1972, t. 2.

<sup>130</sup> Bevan, t. 67.

dair blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw sylweddolodd Bevan pa mor wahanol oedd awyrgylch stiwdios TWW i'r hyn yr oedd yn gyfarwydd ag ef:

The atmosphere at TWW's Pontcanna studios was liberating and not so hierarchical or as engulfed with correctness as the BBC. A few of their executives and directors were steeped in the entertainment business; they believed in popular programmes and the company, through its Welsh Board, had a strong commitment to the Welsh language.<sup>131</sup>

Cydnabu iddi ddysgu gwersi gwerthfawr am sut i greu rhaglenni adloniant ysgafn, a, rhwng y profiad hwnnw a'r profiad o ysgrifennu, dyfnhaodd ei dealltwriaeth o ddarlledu gan ennill mewnwelediad i ddulliau gwahanol o gynhyrchu rhaglenni ar amrediad o genres. Yn ddiweddarach yn ei gyrfa bum odd iddi elwa ymhellach ar y profiadau hyn wrth iddi ymgymryd â swyddi golygyddol a rheoli.

Wedi iddi gyflwyno tair cyfres o raglenni ysgafn i TWW daeth cynnig gan Marion Griffith Williams iddi gynhyrchu *Merched yn Bennaf*. Roedd Williams yn symud o'i swydd fel cynhyrchydd rhaglenni cyffredinol i fod yn gyfrifol am raglenni nodwedd, ac roedd angen cynhyrchydd profiadol i lenwi bwlch dros dro gan ofalu ar ôl y ddarpariaeth i fenywod tan bod penodiad parhaol.<sup>132</sup> Er bod ei mab yn yr ysgol erbyn hyn, roedd Bevan yn awyddus i beidio â tharfu ar ei drefniadau dydd i ddydd, felly magodd digon o blwc i ofyn i reolwyr y BBC os cai ryddid i beidio â gweithio oriau swyddfa arferol o 9am tan 5pm:

An enlightened management or a desperate one, confirmed that I could be as flexible as was necessary, but transmissions and programme standards were paramount... Within ten days, I had a splendid office and a secretary in the newly opened Broadcasting House in Llandaff. In 1967, I felt like a new girl, beginning a new job, all over again.<sup>133</sup>

Cododd yr un her ymhen tri mis pan hysbysebwyd y swydd cynhyrchydd fel cytundeb dwy flynedd, ac yn ei chyfweliad ar gyfer y swydd gwnaeth Bevan gais i cadw cydbwysedd rhwng bywyd teuluol a gwaith:

---

<sup>131</sup> Bevan, t. 68.

<sup>132</sup> Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 19 Mehefin 1967. Cynigwyd cytundeb tymor byr i Bevan fel cynhyrchydd radio ym mis Medi 1967, a thrachefn ym mis Ionawr 1968.

<sup>133</sup> Bevan, t. 74.

The all-male panel didn't blink. They took my concerns seriously; a sign of changing times, and after consideration, they came to an enlightened decision. I could maintain flexible hours, leaving the building at 3.30 every day; I could remain on contract. I took the job offer at the correct salary, and signed a two-year agreement.<sup>134</sup>

Roedd hwn yn brofiad dipyn gwahanol i'r cyfweiliad a gafodd pan ymunodd â'r BBC, a thybiodd Bevan bod hwyluso ychydig o hyblygrwydd mewn cytundebau penodol yn drobwynt i staff, er na theimlai iddi hi yn bersonol herio'r system.<sup>135</sup> Ond gellid dadlau bod yna newid ar droed yn y system beth bynnag, oherwydd yn ogystal â chynhyrchu *Merched yn Bennaf*, derbyniodd Bevan wahoddiad gan John Rowley, rheolwr newydd y BBC yng Nghymru i ymuno â phwyllgor penodol sef Y Grŵp Astudiaeth Radio.<sup>136</sup> Fel dengys trafodaethau'r Cyngor Darlledu roedd datblygiad teledu cyhoeddus yng Nghymru wedi mynnu sylw, ac roedd angen rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth radio.

Roedd sefydlu'r Grŵp Astudiaeth Radio yn ddatblygiad arwyddocaol o ran cyfraniad menywod i ddarlledu yng Nghymru, oherwydd dyma'r dystiolaeth gyntaf o aelodau staff benywaidd yn cyfrannu at weinyddiaeth darlledu ac yn cael cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad strwythurau darlledu yn hytrach na chyfrannu at gynnwys ar yr awyr yn unig.<sup>137</sup> Y wraig a ddewiswyd i gadeirio'r grŵp oedd Lorraine Davies. Bu farw ei gŵr Hywel Davies ym mis Medi 1965 a daeth cyfle iddi hi ddychwelyd i'r BBC yng Nghaerdydd. Fe'i penodwyd yn gyntaf ar gytundeb dros dro tra bod Gareth Price o'r gwaith am gyfnod ac yna, yn eirionig iawn, i'r swydd oedd y tu hwnt i'w gafaal ddegawd ynghynt oherwydd ei phriodas, sef cynhyrchydd drama. Bellach ni fuasai'n cael ei chyfyngu i gynhyrchu dramâu o fewn y ddarpariaeth i blant, ond cai gyfle i

---

<sup>134</sup> Bevan, t. 77.

<sup>135</sup> *ibid.*

<sup>136</sup> *ibid.*

<sup>137</sup> Dylid nodi i fenyw, sef Rachel Jones gadeirio Cyngor Darlledu Cymru yn ystod y cyfnod o dan sylw (1958-1974), ac i rai menywod wasanaethu ar y pwyllgor, megis Y Fonesig Olwen Carey-Evans a Mrs D.B. Jones. Ymhellach, mae'n ddiddorol bod menywod yn cael y fraint o eistedd ar Bwyllgor Apeliadau Ymgynghorol Cymreig y BBC yng Nghymru, ond mai dynion yn unig a fu'n gwasanaethu ar y pwyllgorau ymgynghorol eraill yn ystod y cyfnod dan sylw, sef y Pwyllgor Amaeth Ymgynghorol Cymreig a'r Pwyllgor Crefydd Ymgynghorol Cymreig. Roedd y Pwyllgor Apeliadau yn cynnig cyngor ar elusennau a dyrannu arian i achosion da, sy'n unol â'r cysyniad traddodiadol o fenywod yn cynnig cymorth dyngarol i'r gymuned, yn hytrach na chynnig arbenigedd mewn maes penodol megis crefydd a materion amaethyddol. Er hyn nodwyd yng nghofnodion y Cyngor Darlledu bod Teleri Phillips yn parhau i fod yn gyfrifol am raglenni amaethyddol ac yn gweithredu fel ysgrifenyddes i'r Pwyllgor Amaeth, R6/242/1, 19 Chwefror 1958. Buasai'n ddiddorol ystyried a fuasai yr un dasg wedi dod i ran cynhyrchydd gwrywaidd.



gynhyrchu dramâu i brif orsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn ogystal â'r ddarpariaeth yng Nghymru, a gwnaeth hynny tan ei hymddeoliad yn 1976.<sup>138</sup>

Fel nododd Bevan roedd cadeirydd Y Grŵp Astudiaeth Radio yn ei helfen, 'Lorraine was back to her old form: her mind sparking ideas and generating argument and discussion.'<sup>139</sup> Ynghanol y trafod, ochr yn ochr â Davies a Bevan (a nodwyd fel Cynhyrchydd Sgyrsiau Radio), roedd pedwar aelod arall y pwyllgor sef Gareth Price (Pennaeth Rhaglenni Cynorthwyol), Emyr Jenkins (Trefnydd Rhaglenni, Cymru), David Bevan (Trefnydd Cyflwyno) a Gareth Bowen (Golygydd, *Good Morning Wales*).<sup>140</sup> Bwriad gwreiddiol y grŵp oedd, '...to discuss the possibility of BBC Wales providing two separate services in Radio, one in Welsh and one in English. It had given detailed consideration to the content of the proposed new services.'<sup>141</sup> Crewyd amlinelliad o amserlenni posib ar gyfer y ddau wasanaeth, ac mae hyn yn amlygu'r ffaith bod Teleri Bevan ynghanol bwrlwm y drafodaeth am botensial dau wasanaeth radio i Gymru o'r cychwyn cyntaf ac fel y nododd ei hun, o ddychwelyd i'r gwaith, 'I was soon in the thick of things.'<sup>142</sup>

Yn ogystal â gwaith y Grŵp Astudiaeth Radio fe'i cedwid yn brysur gan y gyfres *Merched yn Bennaf*, gan adeiladu ar waith Marion Griffith Williams. Un o'r prif newidiadau a wnaed ganddi yn 1968 oedd ymgorffori datblygiad technolegol cyfredol yn arferion cynhyrchu radio byw yn y Gymraeg, sef y *phone-in*, sy'n ddull hwylus o ddwyn lleisiau pobl gyffredin i'r tonfeddi. Yr Americanwyr a'u gorsafoedd masnachol a gaiff eu cydnabod fel arloeswyr y *phone-in*,<sup>143</sup> ac fe'i defnyddiwyd am y tro cyntaf ym Mhrydain ar orsaf leol BBC Radio Nottingham yn 1968. O edrych yn ôl mae modd deall apêl y dechneg i ddarlledwyr masnachol a chyhoeddus lleol fel ei gilydd, '...part of their 'democratic' achievement was to make radio something of a two-way medium by using the phone-in as a staple of their output.'<sup>144</sup> Ni ddefnyddiwyd yr arfer ar wasanaethau radio rhwydwaith y BBC tan 1970, felly roedd Bevan ar flaen y gad.<sup>145</sup> Mae'n ddatblygiad sy'n dynodi'r cam cyntaf yn

---

<sup>138</sup> BBC Written Archives Centre, BBC Staff List, 1976.

<sup>139</sup> Bevan, t. 78.

<sup>140</sup> BBC Written Archive Centre, R242/3, 19 Gorffennaf 1974, tt. 7-8.

<sup>141</sup> *ibid.*

<sup>142</sup> Bevan, t. 77.

<sup>143</sup> Burton Paulu, *Television and Radio in the United Kingdom* (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1981), t. 219.

<sup>144</sup> Andrew Crisell, *An Introductory History of Broadcasting* (Hoboken: Taylor and Francis, 2012), t. 147.

<sup>145</sup> Andrew Crisell, *Understanding Radio* (Llundain: Routledge, 1994), t. 191.

rhyngweithedd y cyfrwng torfol a hedyn y cysyniad o'r *prosumer* sydd wedi dod i'w lawn dwf yn yr oes ddigidol,<sup>146</sup> '...it enabled the ordinary listener to become a broadcaster, not because she was a guest of the radio station, an expert or an interviewee, but simply because she chose to initiate the broadcast from her own private environment.'<sup>147</sup> Er llwyddiant y *phone-in* ar orsafoedd eraill, roedd yna ofid na fyddai'n cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus yng Nghymru:

In Wales, there was a general belief among broadcasters that the Welsh were too inhibited to take part in phone-ins, but in 1968, the producer Teleri Bevan adopted the practice in her programme, *Merched yn Bennaf*... The results delighted her. 'I felt', she wrote, 'that at last the programme was in touch with its audience.'<sup>148</sup>

Dyma felly adnodd gwerthfawr yn cael ei roi ar waith, a Bevan yn gweld posibiliadau'r dechneg fel y sylweddolwyd gan gynhyrchwyr gorsafoedd lleol y BBC. Ond o brofiad awdur y traethawd fel cynhyrchydd radio ar raglenni byw, efallai ei bod yn deg gofyn y cwestiwn ai cyfuniad o drefnu o flaen-llaw ac o ddibynnu ar y cyhoedd oedd hi yn enwedig yn y Gymru Gymraeg. Er hyn rhaid cydnabod bod y *phone-in* yn ddull o hwyluso gwaith cynhyrchu, yn hytrach na gorfod trefnu recordiad o flaen-llaw, sgwrs fyw mewn stiwdio neu gyfweiliad, gallai sgwrs ddigwydd o glydwch cartrefi'r cyfranwyr, ac felly arbed costau. Y brif fantais i ddarlledwyr hyd heddiw o ymgorffori'r dechneg yn eu gwaith cynhyrchu yw rhoi'r argraff bod y rhaglen a'r orsaf o dan sylw mewn cysylltiad clos a'u cynulleidfa, ac am y tro cyntaf yn hanes darlledu rhoddwyd yr argraff bod modd pontio y gagendor rhwng darlledwr a gwrandaŵr trwy roi cyfle i'r gwrandaŵr fod yn ddefnyddiwr gweithredol yn hytrach na goddefol.

Dull arall o amlygu'r cysylltiad rhwng gorsaf radio a'i gwrandaŵr yw dwyn y cynnwys o dawelwch stiwdio i ganol cynnwrf cymuned, a dyna a wnaed gan Bevan gyda'i chyfres *Penigamp*, a ddisgrifiwyd fel 'a game of words and wit'.<sup>149</sup> Roedd y

<sup>146</sup> Cyflwynwyd y cysyniad o'r *prosumer* gan Alvin Toffler; gweler Alvin Toffler, *The Third Wave* (Llundain: Pan mewn cydweithrediad gyda Collins, 1981); ehangwyd ar y cysyniad hwn o fewn cyd-destun cyfryngol gan Henry Jenkins, gweler Henry Jenkins, *Convergence Culture: where old and new media collide* (Efrog Newydd: New York University Press, 2008).

<sup>147</sup> Crisell, *An Introductory History of Broadcasting*, t. 147.

<sup>148</sup> John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 324.

<sup>149</sup> Bevan, t. 79. Nid yw'n glir pryd cychwynnodd y gyfres *Penigamp* ar y radio, a phryd daeth i ben. Nid yw'n ymddangos wrth chwilio ar wefan BBC Genome. Er hyn, mae cofnodion am y gyfres deledu yn darlledu o 1974 i 1975. BBC Genome, *Penigamp*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=penigamp&after=1968-01-01T00%3A00%3A00.000Z&before=1980-12-31T23%3A59%3A59.999Z#top>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

Grŵp Astudiaeth Radio wedi cydnabod bod angen bywiogi y ddarpariaeth raglenni Cymraeg, a daeth y gyfres hon ynghyd â rhai newydd eraill â chwa o awyr iach i'r slot amser cinio yn ystod yr wythnos.<sup>150</sup> Fel yr oedd degawd y chwedegau yn mynd rhagddo bu'n rhaid i'r rheiny oedd yn gyfrifol am ddarpariaeth y cyfrwng radio ar draws Prydain gydnabod bod teledu wedi dwyn sylw'r cyhoedd gyda'r hwyr:

Listeners had always been able to use radio as an accompaniment to other activities, but they had come to use it almost exclusively in this way as a consequence of television, for television had replaced radio as the main leisure medium.<sup>151</sup>

Sylweddolwyd bod amser brecwast, cinio a min nos yn datblygu yn dair ton o wrando brig,<sup>152</sup> ac o'r herwydd daeth y patrwm o ddarlledu cymysg, rhywbeth-i-bawb a fu'n nodwedd gyson o ddarlledu cyhoeddus i ben. Dechreuwyd darparu darlledu llifol a gynigai yr un math o gynnwys rhagweladwy ar yr un amser bob dydd (ag eithrio'r penwythnos) a phery'r arfer hwn ar y tonfeddi hyd heddiw (2022).<sup>153</sup>

Profodd y panelwyr a ddewiswyd ar gyfer *Penigamp* i fod yn gyfuniad llwyddiannus dros ben i Bevan. Ar un tîm yr oedd Marie James, cynghorydd a phostfeistres<sup>154</sup> a'r ffermwr, Y Prifardd Dic Jones;<sup>155</sup> ar y tîm arall roedd Cassie Davies a'r ffermwr a'r bardd Tydfor Jones.<sup>156</sup> Deuai'r cadeirydd D. Jacob Davies, oedd yn weinidog gyda'r Undodiaid yntau o'r un sir,<sup>157</sup> ac yn nhyb Bevan, fel Cardi arall, '...the special genetic characteristics of that county had given them a wonderful ability to communicate their deep sense of place, identity and roots.'<sup>158</sup> Yn gyffredinol yr oedd aelodau'r Pwyllgor Darlledu yn ganmoliaethus o'r gyfres, a nodwyd yn eu cofnodion, 'A member found Mrs. James, a panel member, most amusing',<sup>159</sup> er cafwyd un gwyn bod dim digon o sylw i'r gogledd gyda phedwar o banelwyr

---

<sup>150</sup> Bevan, t. 79. Ymhlith y cyfresi newydd oedd y canlynol, '... documentaries on contemporary social issues, *Byw a Bod*; a regular discussion series on topical affairs, *Clwb Cinio*; and a sequence of half hour talks/essays by writers on childhood influences, which we called *Llwybrau Gynt*.'

<sup>151</sup> Crisell, *Understanding Radio*, tt. 29-30.

<sup>152</sup> Bevan, t. 79.

<sup>153</sup> Crisell, *Understanding Radio*, t. 64.

<sup>154</sup> Marie James (1918–1995). *Cyfrol Deyrnged Marie James*, gol. gan Myrddin ap Dafydd (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1987).

<sup>155</sup> Dic Jones (1934–2009), Idris Reynolds, *Jones, Richard Lewis ('Dic') (1934-2009), bardd ac amaethwr*, (2015), Y Bywgraffiadur Cymreig, <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-JONE-LEW-1934>> [cyrchwyd 25 Awst 2022].

<sup>156</sup> Tydfor Jones, (1935–1983), Ann Francis Evans, Llyfgell Genedlaethol Cymru, *Tydfor yr Hiwmor a'r Hwyl* (2020), <<https://blog.llyfgell.cymru/tydfor-jones/>> [cyrchwyd 26 Awst 2022].

<sup>157</sup> D. Jacob Davies (1917–1973), <<https://www.worldcat.org/identities/lccn-no2007-003055/>> [cyrchwyd 25 Awst 2022].

<sup>158</sup> Bevan, t. 79.

<sup>159</sup> Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, R6/242/3, 20 Mawrth 1970, t. 3.

deheuol bob wythnos.<sup>160</sup> Ond nid ar yr awyr yn unig y clywyd chwerthin, fe'i clywyd yng nghoridorau canolfan y BBC yn Llandaf, sŵn a arwyddai newid dyfnach i Bevan, 'The highbrow attitude of 'sound broadcasting' was slowly disappearing.'<sup>161</sup>

Yr hyn oedd yn araf ddiflannu hefyd oedd rhaglenni a ddominyddwyd yn llwyr gan leisiau dynion, ac roedd dewis dwy fenyw i fod yn banelwyr cyson ar *Penigamp* yn ddatblygiad pwysig o ran cyfraniadau menywod ar raglenni cyffredinol y BBC yng Nghymru. Er i fenywod ymddangos yn achlysurol ar raglenni'r Chwedegau Hirion, y dynion oedd yn dominyddu'r tonfeddi fel cyfranwyr.<sup>162</sup> Gellid dadlau bod Bevan fel Williams o'i blaen yn peri ymyrraeth ffeminyddol ar yr awyr gan herio unffurfiaeth cynnwys rhaglenni'r BBC yng Nghymru o safbwynt rhywedd. O fod mewn swydd cynhyrchu rhaglenni cyffredinol llwyddodd Bevan i beri ymyrraeth y tu hwnt i gyfyngiadau'r ddarpariaeth rhaglenni i fenywod a dylanwadu ar y prif ffrwd o raglenni yn ystod oriau brig yr awr ginio gyda *Penigamp*, gan adeiladu ar lwyddiannau Williams fel asiant peri newid.

Dengys llyfryn o bigion *Penigamp* a gyhoeddwyd yn 1971 y math o ddeunydd a gynhyrchwyd, ac mae rhagymadrodd gan D. Jacob Davies, golygydd y llyfryn, yn amlygu naws y gyfres a rôl y cynhyrchwyr benywaidd yn ei datblygiad:

'Jiw, jiw, gadwch i'r bobol enjoio mas draw,' mynte Lorraine Davies y gaffer geirie. 'Gwd-w fe gân-nhw chwerthin ar 'u traws,' mynte Teleri Bifan. A dyma Megan yn coglis deial y ffôn yn Llandaf a chyn pen munud roedd pump cloch yn chwerthin yn Sir Aberteifi. Felna dechreuodd hi. Penigampwaith!<sup>163</sup>

Ymhlith y campweithiau a gynhyrchwyd gan y panelwyr roedd y prif bwyslais ar glyfrwch geiriau, nodwedd nad yw'n amlygu ei hun gystal ar ddalen llyfryn o bigion ag a fuasai ar lafar mewn neuadd bentref o flaen cynulleidfa. Caiff y clyfrwch ei

---

<sup>160</sup> Yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru mae lluniau gan y ffotograffydd Geoff Charles o recordiad o raglen *Penigamp* yn Llanberis ar 20 Chwefror 1973. Gwelir y cadeirydd arferol. D. Jacob Davies, ond y panelwyr yw Harri Gwyn a Rol Williams ar un tîm, a Gruffydd Parry a Robin Williams ar llall. Gwelir Teleri Bevan yn sgysio gyda Harri Gwyn yn rhai o'r lluniau. Ni wyddys os y gwnaed rhaglenni cyson yn y gogledd, ond mae'n amlwg bod yna ymdrech ar ran Bevan i ymdrin â'r cwynion am ddiffyg gogleddwyr. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Geoff Charles, F05/40/B-C.

<sup>161</sup> Bevan, t. 81.

<sup>162</sup> Er enghraifft yn y gyfres *Dylanwadau* a ddarlledwyd ar radio a theledu rhwng 1960 ac 1968, dwy fenyw yn unig a gafodd eu cyfweld gan Aneirin Talfan Davies, sef Norah Isaac a Dr Kate Roberts, ymhlith pedwar ar ddeg o ddynion megis Esgob Bangor y Gwir Barchedig Ddr. G.O. Williams, Iorwerth Peate prif guradur Sain Ffagan a'r llenor D.J. Williams. BBC Genome, *Dylanwadau*, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=dylanwadau>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

<sup>163</sup> *Penigamp: Pigion o'r Rhaglen Radio*, gol. gan D. Jacob Davies (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1971), t. 1. Dyranwyd elw'r cyhoeddiad i goffrau Cymdeithas yr Iaith.

fynegi mewn amrediad o ffurfiau barddonol megis limrigau a chaneuon ysgafn, ond ambell i englyn hefyd fel hwn, sy'n folawd i Bontrhydfendigaid:

Lle'r Llewcohoic licer – mwyna man  
Moc a Dai'r Shŵmecer,  
Patshyn pob champion potsher  
A hen ŵyl y miliwnêr.<sup>164</sup>

Er i Tydfor ganu ar y ffurf caeth mae'r dewis o eiriau yn rhoi argraff ffwrdd-â-hi, trwy ddefnydd o dafodiaith a geiriau Saesneg, ochr yn ochr â hynny ceir cymal mwy barddonol yn y strac, 'mwyna man'. Mae'r cyfuniad hwn o anffurfioldeb a nodweddion traddodiadol i'w gweld yn holl gynnyrch y llyfryn sy'n rhoi blas o ysgafnder a chlyfrwch y rhaglen.

Gellir tybio bod y cyfeiriadau mynych at enwau llefydd a molawd i ardal yn gyfle i'r panelwyr gysylltu ag ardal benodol yr oedd y rhaglen yn ymweld â hi i recordio ac mae hyn yn treiddio i'r tasgau rhyddiaith yn ogystal. Er enghraifft, cafwyd sawl ymgais i egluro tarddiad enw lle, fel Alltyblaca gan Marie James a'r Ferwig gan Cassie Davies.<sup>165</sup> Roedd cyfle hefyd i osod posau a chreu brawddegau ar lythyren benodol, er enghraifft, 'Diflannodd dannedd doddi Daniel da'r darten; dychwelasant drannoeth.'<sup>166</sup> Er mai Tydfor Jones bia'r frawddeg hon roedd yna duedd i'r cystadlaethau rhyddiaith gael eu cwblhau gan y panelwyr benywaidd a'r tasgau barddonol gan y dynion, a gellid tybio bod hynny i'w briodoli i'w cefndir fel beirdd cydnabyddedig.

Yn 1973 trosglwyddwyd *Penigamp* o'r tonfeddi radio i'r sgrîn fach, ac o wyllo'r rhaglenni hynny gellir gweld yn glir y berthynas oedd rhwng y panelwyr â'i gilydd ac â'u cynulleidfa.<sup>167</sup> Yr hyn sy'n amlygu ei hun yw cyflymder a blaengaredd y pedwar wrth iddynt adfyfyrio rhwng y tasgau a osodwyd, a pha mor gryf oedd eu hacenion. Mae'n fodd o ddeall hefyd natur rhai o'r cystadlaethau, er enghraifft buasai tasg yn cael ei gosod i Cassie Davies a Tydfor Jones i'w datrys gan Marie James a Dic Jones. Cyflwynwyd hefyd eitem oedd yn addas i gyfrwng gweledol, ac sy'n

---

<sup>164</sup> Jacob Davies, t. 2.

<sup>165</sup> *ibid.*, t. 3 a t. 22.

<sup>166</sup> *ibid.*, t. 7.

<sup>167</sup> BBC Genome, *Penigamp*, 25 Mai 1973, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=penigamp&after=1968-01-01T00%3A00%3A00.000Z&before=1980-12-31T23%3A59%3A59.999Z#top>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

parhau i nodweddu rhaglenni'r genre adloniant ysgafn, sef dyfalu'r gwestai cudd trwy ofyn rhes o gwestiynau. Mewn pennod a recordiwyd mewn neuadd orlawn yn ardal y Preselau, y gwestai cudd oedd yr actores Rachel Thomas, a chaiff hithau, wedi iddi ymuno â'r panelwyr gyfle i osod tasg iddynt.<sup>168</sup> Bu farw'r cadeirydd, Jacob Davies yn sydyn yn 1974, ac yn y bennod hon, y cadeirydd oedd y gweinidog a'r darlledwr o'r gogledd, Robin Williams, sy'n arwydd efallai i Teleri Bevan gyfaddawdu a phlygu i'r alwad am gynrychioliaeth o ogledd Cymru ar y gyfres. Er bod Williams yn gyflwynydd derbyniol, collwyd sbarc y gyfres radio lle bu Jacob Davies wrth y llyw, a bu i Bevan ei hun gyfaddef na fu *Penigamp* mor llwyddiannus ar deledu. Gellid dadlau mai'r cyfrwng clywedol yw cartref naturiol cyfres o'r fath sy'n dibynnu ar batrwm odl a chlyfrwch y gair, yn hytrach na chyfrwng gweledol.

Er y newidiadau arloesol y bu Bevan yn ymwneud â nhw, a'r awyrgylch ysgafnach a brofwyd yn Llandaf, mae bwrw cipolwg ar restrau staff y cyfnod yn darlunio agwedd gwbl draddodiadol tuag at y cyfrwng radio. Yn rhestr staff y BBC ym mis Ebrill 1976 nodwyd i Bevan gael ei dyrchafu yn uwch-gynhyrchydd radio, sef swydd a adawyd yn wag gydag ymddeoliad Lorraine Davies a hynny yn yr adran 'Drama and Features (R)' a'r 'R' yn dynodi'r cyfrwng radio.<sup>169</sup> Pery'r adran hon ar wahân i'r adran ddrama ar gyfer teledu (gyda John Hefin yn uwch-gynhyrchydd a George Owen yn gynhyrchydd), ac ar wahân i'r swydd 'Radio Talks producer', sy'n adlewyrchu ymlyniad tuag at wreiddiau'r cyfrwng radio a'r pwyslais ar gyfoeth y gair.<sup>170</sup>

Yr unig gynhyrchydd arall oedd yn parhau yn Adran Ddrama a Nodwedd y gwasanaeth radio oedd Marion Griffith Williams, oedd erbyn hynny wedi cyhoeddi y nofel *Y Stafell Ddirgel* yn 1969, ac a addaswyd yn gyfres radio lwyddiannus gan BBC Cymru a'i darlledu yn 1971.<sup>171</sup> Roedd hefyd wedi derbyn bwrsariaeth gan Gyngor y Celfyddydau yn 1970 i ysgrifennu nofel arall, oedd yn caniatáu iddi gael ei rhyddhau o'r gwaith am chwe mis, fel y nododd John Rowley, rheolwr newydd y BBC yng Nghaerdydd, yn obeithiol, 'She hoped to complete a sequel to 'Y Stafell Ddirgel' and it was hoped that this would provide the BBC with material for a further

<sup>168</sup> Archif BBC Cymru Wales, *Penigamp*, 24 Hydref 1974, Rhif rhaglen: PCL0121L.

<sup>169</sup> BBC Written Archive Centre, BBC Staff List, Ebrill 1976.

<sup>170</sup> BBC Written Archive Centre, BBC Staff List, Ebrill 1976.

<sup>171</sup> BBC Genome, *Y Stafell Ddirgel*, darlledwyd cyfres ddrama ddeg pennod yn wythnosol rhwng 12 Chwefror 1971 a 23 Ebrill 1971, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=y+stafell+ddirgel>> [cyrchwyd 23 Awst 2022].

series.’<sup>172</sup> Cyhoeddwyd *Y Rhandir Mwyn* yn 1972,<sup>173</sup> a’i haddasu yn gyfres deledu a ddarlledwyd y flwyddyn ddilynol.<sup>174</sup> Mae’n amlwg i Williams ddechrau cael llwyddiant a blas ar ysgrifennu nofelau, gan iddi yn y pen-draw adael fel aelod o staff llawn amser ym 1973, ac yn hytrach gael ei chyflogi ar gytundeb chwe mis y flwyddyn am dair blynedd. Nodwyd drachefn gan Rowley, ‘It was hoped that this arrangement would prove to be of advantage to both parties.’<sup>175</sup> Adlewyrchai’r farn hon agwedd gadarnhaol ac o anogaeth gan y BBC yng Nghymru tuag at ei staff, a bu i Emyr Humphreys a John Ormond hwythau hefyd fanteisio ar y rhyddid i ddilyn eu diddordebau creadigol.<sup>176</sup>

Yn y pen-draw gadael eu swyddi fel staff y BBC a wnaeth Emyr Humphreys a Marion Griffith Williams, y naill yn 1963 a’r llall yn 1976, a’r ddau yn dewis neilltuo eu gyrfaedd yn llwyr i ysgrifennu, er i Williams barhau ei chysylltiad gyda’r BBC trwy ysgrifennu i’r opera sebon *Pobol y Cwm* a lanswyd ym 1974.<sup>177</sup> Dal ati yn rhengoedd staff y darlledwr cyhoeddus a wnaeth Bevan a daeth tasg weinyddol o bwys i’w rhan sef adolygu y ddarpariaeth ddarlledu ac arferion gwaith y pedwar prif ddigwyddiad darlledu allanol, sef Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen, Yr Eisteddfod Genedlaethol a’r Sioe Frenhinol.<sup>178</sup> Yr oedd yn hen law ar weithio ar y digwyddiadau hyn ond sylweddolai bod cyfleoedd i gymhwyso datblygiadau technolegol newydd er budd adlewyrchu’r gwyliau traddodiadol hir-sefydledig hyn mewn golau newydd, ‘Outside-broadcasting equipment was becoming lighter, more flexible, and radio microphones had widened the range, but our programme coverage was moribund, confined to old ways, mainly recording programme material during the day and broadcasting highlights in the

<sup>172</sup> BBC Written Archives Centre, R/242/3, cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 25 Mehefin 1971.

<sup>173</sup> Nodwyd gan Williams ei bod yn ystyried y ddwy nofel ‘yn un cyfanwaith...yr un yw’r ddwy stori yn y bôn.’ Victor John, ‘Victor John yn holi Marion Eames’, Barn, Nadolig 1972, tt. 50-51.

<sup>174</sup> BBC Genome, *Y Rhandir Mwyn*, darlledwyd cyfres o ddeg pennod rhwng 2 Ebrill 1973 a 18 Mehefin 1973, <<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?order=first&q=y+rhandir+mwyn&after=1968-01-01T00%3A00%3A00.000Z&before=1980-12-31T23%3A59%3A59.999Z#top>> [cyrchwyd 25 Awst 2022].

<sup>175</sup> BBC Written Archive Centre, R6/242/3, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 20 Gorffennaf 1973, t. 3.

<sup>176</sup> Ym mis Mawrth 1961, nodwyd bod Emyr Humphreys wedi gwneud cais am chwe mis o absenoldeb o’r gwaith heb dâl er mwyn gorffen nofel ac ymwneud â darnau eraill o waith ysgrifennu oedd ganddo ar y gweill. Nodwyd yng nghofnodion Cyngor Darlledu Cymru, ‘The Council sympathised with his predicament and recommended that the Corporation should grant the request.’ Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 17 Mawrth 1961, t. 2. Cymerwyd y chwe mis ganddo rhwng Hydref 1961 a Mawrth 1962, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 14 Ebrill 1961, t. 1. Ffrwyth ei ymdrechion oedd y nofel *The Gift*, a gyhoeddwyd yn 1963, nododd aelodau Cyngor Darlledu Cymru eu balchder o weld adolygiad canmoliaethus yn *The Times*, *ibid.*, 18 Ionawr 1963, t. 2. Yn y pen-draw gadawodd Humphreys ei swydd gyda’r BBC ym 1963, *ibid.*, 14 Chwefror 1963, t. 3. Yn 1966 caniatwyd i John Ormond gael ei ryddhau am dri mis i greu ffilm ym Montreal ar gyfer Bwrdd Ffilm Canada, ‘It was confidently believed that this experience would be a refreshment for Mr. Ormond and that in the long run the BBC would gain from the assignment.’ Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 16 Rhagfyr 1966, t. 3. Ym 1973 derbyniodd Ormond fwrsariaeth gan Gyngor y Celfyddydau a ganiatodd iddo gymryd blwyddyn o’i swydd gyda’r BBC, Cofnodion Cyngor Darlledu Cymru, 20 Gorffennaf 1973.

<sup>177</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau a Llawysgrifau Marion Eames, M/42

<sup>178</sup> Bevan, t. 112.

evenings.’<sup>179</sup> Deisyfai ddod â chyffro’r cystadlu yn fyw i wrandawyr, a rhoddodd ei syniadau ar waith yn Eisteddfod Genedlaethol Cricieth yn 1975. Am y tro cyntaf cafodd y gynulleidfa gartref glywed oriau estynedig o’r digwyddiadau yn uniongyrchol o’r llwyfan, gan sefydlu strwythur darlledu sydd wedi parhau hyd heddiw (2022). Roedd Bevan wrth ei bodd gyda’r canlyniad, ‘Being part of something new and witnessing ideas developed on paper turn into live reality is a joy. Success is a bonus.’<sup>180</sup> Daeth â’r un fenter at ddarlledu y Sioe Frenhinol, gan fenthg darn o offer a ddefnyddiwyd mewn twrnaint Golff Agored yn Yr Alban, sef y *backpack*, i fywiogi’r darlledu o Lanelwedd:

Presenters and reporters were no longer tied to one spot; it allowed them to walk and talk and to broadcast interviews and impressions from all areas of the show ground. It transformed our coverage. Listeners were there, in the middle of it all, capturing the atmosphere.<sup>181</sup>

Drachefn, dyma sefydlu patrwm darlledu sydd wedi nodweddu darllediadau allanol nid yn unig o’r Sioe Frenhinol ond o brif ddigwyddiadau eraill ers hynny. Dengys ymgorfforiad y *backpack* mewn darlledu, recordio darllediadau allanol o flaen cynulleidfa fyw, a’r defnydd o’r *phone-in* ar *Merched yn Bennaf* bod Bevan yn adnabod pwysigrwydd mabwysiadu’r datblygiadau technolegol diweddaraf yn ei chynrychiadau a’i fod yn rhan bwysig o’i gwaith er mwyn gwireddu potensial y cyfrwng radio yng Nghymru i symud gyda’r oes.

O ystyried amrediad y gwaith cynhyrchu a wnaed ganddi, a’r ddealltwriaeth a feddai ar ofynion y cyfrwng radio nid yw’n syndod iddi gymryd awenau gorsaf Radio Wales wyth mis cyn ei lansio ar yr awyr ar 13 Tachwedd 1978.<sup>182</sup> Er mawr syndod i rai, hi fel Cymraes Gymraeg a benodwyd yn olygydd BBC Radio Wales, ac i rai cydweithwyr, roedd fel petai’n troi ei chefn ar achos yr iaith mewn darlledu.<sup>183</sup> Tybiai eraill na fedrai ddeall nac adlewyrchu barn ac agweddau y mwyafrif di-Gymraeg yng Nghymru, a dechreuodd amau ei hun, ‘I began to doubt my capabilities and skills, and to ask myself why I had agreed to take on the job, but the challenge was

---

<sup>179</sup> Bevan, t. 112-13

<sup>180</sup> *ibid.*, t. 113.

<sup>181</sup> *ibid.*, t. 114.

<sup>182</sup> BBC Cymru Fyw, *Teleri Bevan, ‘arloeswr darlledu yng Nghymru wedi marw* (18 Tachwedd 2020), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/54992271>> [cyrchwyd 25 Awst 2022].

<sup>183</sup> Bevan, t. 134.



irresistible.’<sup>184</sup> Atgof Gareth Price o’r cyfnod oedd, ‘The birth of Radio Wales was difficult. In November 1978, the new early morning schedule caused huge controversy. Teleri Bevan, the editor...was caught in the headlights on two counts.’<sup>185</sup> Meiddiodd herio golygydd dylanwadol yn yr ystafell newyddion sef Gareth Bowen a disodli y rhaglen *Good Morning Wales* a gyflwynwyd gan Vincent Kane ac Anita Morgan gyda rhaglen newydd, *AM*, wedi ei chyflwyno gan gynnewyddiadurwr gyda’r *Western Mail*, Chris Stuart.<sup>186</sup> Cafwyd cwynion di-ri gan aelodau o’r gynulleidfa oedd yn gyfarwydd gyda darpariaeth oedd yn gyson ag arlwy BBC Radio 4 ac a oedd yn anffodlon gyda’r cywair newydd, mwy poblogaidd.<sup>187</sup> Daliodd Bevan ei thir ac aeth ati i saernïo hunaniaeth unigryw i’r gwasanaeth newydd. Er iddi gael ei llusgo o flaen sanhedrin y Cyngor Darlledu, roedd ymateb gwrandawyr ar ffurf galwadau ffôn a llythyron yn dyst i lwyddiant, a daeth ffigurau gwrandao i gadarnhau hynny.<sup>188</sup>

Er gwaethaf yr amheuon cynnar wedi iddi gael ei phenodi, roedd rhuddin cryf yng nghymeriad Bevan ac o edrych yn ôl dros ei gyrfa llwyddodd i wrthsefyll heriau proffesiynol a phersonol dros y blynyddoedd. Er enghraifft ar ddiwedd y pumdegau cynigiwyd cyfnod o dri mis o waith iddi gan olygydd *Woman’s Hour* (1946–) ond gwrthodwyd iddi gael ei rhyddhau gan reolwyr Caerdydd. Ychydig wedi hynny ymgeisiodd am swydd fel cyfarwyddwr teledu ar awgrym T. Glynne Davies i weithio gydag ef yn yr adran newyddion, ond ni fu’n llwyddiannus, ‘It was a blow and a huge disappointment’.<sup>189</sup> Mae ei phrofiad yn adlais o’r heriau a wynebodd Ann Clwyd i gamu allan o swydd y rheolwr stiwdio ac i ddringo’r ysgol yrfaol. Daeth cyfle i ran Bevan drachefn ar gychwyn y saithdegau i droi at gynhyrchu teledu, ac yn benodol swydd Pennaeth Rhaglenni Plant, ond ni fu’n llwyddiannus, ‘television was a young man’s game and I was the wrong side of forty’.<sup>190</sup> Yn ogystal, chwalodd ei phriodas gyda David Bevan, ac er iddi gael cyfnod o’r gwaith i ddelio gyda’r sefyllfa, penderfynu dychwelyd i’r gweithle hwnnw a wnaeth, a pharhau gyda gyrfa

---

<sup>184</sup> *ibid.*

<sup>185</sup> Gareth Price, *The Broadcasters of BBC Wales, 1964-1990* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2007), t. 187.

<sup>186</sup> *ibid.*

<sup>187</sup> Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 347.

<sup>188</sup> *ibid.*

<sup>189</sup> Bevan, t. 53.

<sup>190</sup> *Ibid.*, t. 102.

mewn darlledu cyhoeddus.<sup>191</sup> Fel y nodwyd gan Rhodri Talfan Davies, Rheolwr Cyffredinol y BBC ar adeg ei marwolaeth:

Dylem gofio hefyd i Teleri dorri tir newydd i fenywod ym maes darlledu. Bu iddi gefnogi a hyrwyddo rôl menywod ar draws y cyfryngau – a hynny ar draul bersonol eithriadol – a gwnaeth fwy nag unrhyw un i ddechrau dadwneud degawdau o siofiniaeth yn y diwydiant.<sup>192</sup>

O fwrw golwg yn ôl ar waith Bevan a Marion Griffith Williams, bu'r ddwy yn asiantwyr a barodd newid, a gellid cymharu eu hymdrechion gydag ymdrechion y gwneuthurwyr rhaglenni cyntaf i fenywod ar rwydwaith y BBC, fel Isa Benzie a Janet Quigley, 'Together they created what one fresh recruit called a place of "real blue-stockings". It was also one of the most forward-looking places at the BBC'.<sup>193</sup> Crewyd hafan o flaengaredd gan y ddwy Gymraes o fewn y ddarpariaeth i fenywod Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, ac ni ddaeth eu gwir a'u llawn werth fel pobl greadigol i sylw uwch-reolwyr tan iddynt gamu allan o ddarpariaeth segmentau penodol, sef rhaglenni plant a rhaglenni i fenywod i'r ddarpariaeth prif ffrwd.

---

<sup>191</sup> *ibid.*, tt. 82-87.

<sup>192</sup> BBC Cymru Fyw, *Teleri Bevan, 'arloeswr darlledu yng Nghymru wedi marw* (18 Tachwedd 2020), <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/54992271>> [cyrchwyd 25 Awst 2022].

<sup>193</sup> David Hendy, *The BBC: A people's history*, (Llundain: Profile Books, 2022), t. 338.



## Y Casgliad

Bellach, gydag ysgolheigion wedi cofnodi hanes datblygiad darlledu yng Nghymru, daeth cyfle i adeiladu ar eu gwaith a darparu mewnwelediad pellach i'r cynnwys a grewyd gan ganolbwyntio ar gyfnod penodol, sef y Chwedegau Hirion. Dewiswyd y cyfnod hwn gan i nifer o'r arloeswyr benywaidd y penderfynwyd canolbwyntio arnynt ddod i ben-llanw eu gyrfaedd yn ystod y cyfnod o dan sylw, a rhydd yr 16 mlynedd o 1958 i 1974 amrediad o flynyddoedd sy'n cwmpasu cyfnod cymdeithasol diddorol yn y Deyrnas Unedig. Roedd yn gyfnod o dyndra, gydag agweddau eangfrydig cyfredol yn milwrio'n erbyn parchusrwydd a moesau cyfnod a fu, ac er i'r chwedegau gael eu cydnabod yn hwyrach fel y *Swinging Sixties* a'u tadogi â'r label y Gymdeithas Oddefol, roedd realiti bywyd dydd i ddydd dipyn gwahanol. Yng Nghymru, gyda chynnydd mewn amser hamdden a thwf y cyfryngau torfol a'u natur Eingl-Americanaidd, daeth dylanwadau estron i fwrw eu cysgod ar ddiwylliant a iaith leiafrifol, a gwelwyd dirywiad yn yr ymlyniad i grefydd gyfundrefnol. Er hyn, daliodd y capeli Anghydfurfiol eu gafael moesol ar gymdeithas, ac ar rannau gorllewinol Cymru yn fwy na'r rhai dwyreiniol, tuedd a adlewyrchwyd gan y bleidlais cau tafarndai ar y Sul yn ystod y degawd o dan sylw. Yn ystod y cyfnod o dan sylw adeiladwyd ar yr arbrofion cynnar i ddarlledu lluniau, gan arwain at y set deledu yn sefydlu ei hun fel dodrefnyn hanfodol yn y cartref, a daeth y cyfrwng newydd i ddisodli'r hen, gan ddirwyn Oes Aur radio i ben.

Er mwyn darparu ffocws a threiddio i faes na dderbyniodd sylw hyd yma, penderfynwyd canolbwyntio ar gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus y BBC yng Nghymru. Gwnaed hynny o berspectif ffeminyddol, gan archwilio eu gyrfaedd o fewn sefydliad oedd yn gweithredu ar hyd patrymau rhywiaethol trwm erbyn cychwyn y chwedegau, er meddai ar agwedd dipyn gwahanol pan y'i sefydlwyd ddeugain mlynedd ynghynt. Daeth y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd â ffocws newydd ar fenywod a'u gyrfaedd, yn enwedig menywod priod. Yn ystod y rhyfel profwyd sffêr cyhoeddus y gweithle ganddynt ynghyd â chyflog gyson, ond wedi'r rhyfel, dychwelodd nifer i sffêr preifat y cartref, er ar raddfa lai nac a wnaed wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ni chai'r Gwaharddiad Priodas ei weithredu o fewn y BBC erbyn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd, ond roedd ei adlais yn parhau i atsain ym mholisiau'r sefydliad.

Yn y traethawd amlygwyd cyfraniad pump o fenywod blaen-llaw a weithiai i'r BBC yng Nghymru sef Nan Davies, Evelyn Williams, Ruth Price, Marion Griffith Williams a Teleri Bevan. Davies oedd yr unig un o'u plith i ymuno â'r Gorfforaeth cyn yr Ail Ryfel Byd, wedi iddi raddio o Brifysgol Aberystwyth, a threulio cyfnod byr fel llyfrgellydd yng Nghaerdydd cyn cychwyn ar ei swydd fel ysgrifenyddes ym Mangor yn ystod y tridegau. Fel actores y cyflogwyd Williams yn ystod y pedwardegau, cyn iddi symud at ddarparu rhaglenni ar *Children's Hour* ac *Awr y Plant* yn ystod y ddegawd ddilynol. At raglenni plant y denwyd Lorraine Davies, un o'r arloeswyr eraill y rhoddir cipolwg ar ei gyrfa o fewn y traethawd, gan adael ei swydd fel athrawes yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Yng Ngholeg Hyfforddi Morgannwg, Y Barri y'i hyfforddwyd, felly hefyd Williams cyn iddi gychwyn ar ei gyrfa fel actores; a phrifathrawes oedd Ruth Price cyn iddi droi o ddysgu plant at gyflenwi rhaglenni ar eu cyfer a hynny ar drothwy'r chwedegau. O'r herwydd, daeth y tair at gynhyrchu rhaglenni o broffesiwn a roddai bwyslais ar gynnal safonau uchel, ac estynnodd hynny i'w cynyrchiadau. Meddai Evelyn Williams a Lorraine Davies ar set o safonau ymddygiad proffesiynol oedd yn perthyn yn agosach i gyd-destun ysgol nag awyrgylch y stiwdio radio neu deledu; ymddengys i Price feddu ar agwedd llai ffurfiol, ond dylid cofio ei bod yn perthyn i genhedlaeth iau na Davies a Williams.

Roedd trywydd Bevan at ei swydd ddarlledu gyda'r ddarpariaeth i blant, ychydig yn wahanol i'r gweddill a grybwyllwyd; cymhwyster gwyddonol oedd ganddi a bu'n gweithio i fudiad y Ffermwyr Ifainc yn Lloegr cyn cychwyn gyda'r BBC yng Nghaerdydd ddiwedd y pumdegau. Yn ystod yr un cyfnod yr ymunodd Marion Griffith Williams gyda'r BBC yng Nghaerdydd, fel Swyddog Cyhoeddusrwydd ac yna fel cynhyrchydd, ac roedd ei llwybr hithau at ddarlledu yn wahanol i'r gweddill. Bu'n olygydd ar gyfnodolyn *Y Dydd* ac yn ysgrifennu i gylchgrawn y *Women's Institute*, a chyfyngwyd ei gyrfa gynhyrchu i'r cyfrwng radio. Yn hytrach na chamu i fyd teledu, dewisodd adael darlledu fel swydd llawn amser a neilltuo ei gyrfa i ysgrifennu nofelau hanesyddol o dan ei henw bedydd, Marion Eames. Addaswyd rhai o'i nofelau yn gyfresi teledu ganddi, a bu'n sgriptio i'r opera sebon *Pobol y Cwm* (1974-) yn hwyrach yn ei gyrfa. Y gair ysgrifenedig a chlywadwy felly a fu'n ffocws gyrfa Griffith Williams, gyda nofelau a rhaglenni radio yn nodweddu ei phrofiad darlledu.

Fel nodwyd, yng Nghaerdydd y cychwynnodd gyrfaoedd Bevan, Lorraine Davies a Griffith Williams, ond i'r tair arall, BBC Bangor fu'r feithrinfa, cyn iddynt gael eu hadleoli i Gaerdydd. Gwelodd Nan Davies y fenter ddarlledu yn cychwyn ym Mangor yn ystod y tridegau, yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifenyddes i'r pennaeth Sam Jones. Profodd felly awyrgylch cartrefol y ganolfan, mewn cyfnod lle yr oedd pawb yn gorfod bwrw iddi a chyfrannu at bob math o genres a darpariaethau, awyrgylch tebyg i'r un a brofwyd yn Llundain ddegawd ynghynt wrth i ddarlledu sefydlu ei hun. Caiff amrediad gwaith Davies ei adlewyrchu yn y math o raglenni y bu'n ymwneud â nhw, o ddeunydd newyddion i ddramâu, ac o ddarpariaeth i fenywod i raglenni cefn-gwlad. Buan yr esgynnodd o swydd ysgrifenyddol i faes cynhyrchu a daeth Morfudd Mason Lewis i'w holynu fel ysgrifenyddes i Sam Jones.

Unigolyn arall a gaiff ei grybwyll yn y traethawd hwn yw Myfanwy Howell o Sir Fôn, oedd yn allweddol yn natblygiad darlledu cyhoeddus o Fangor yn ystod y blynyddoedd cynnar, er tueddir i gysylltu ei henw gyda TWW a'r rhaglen deledu *Amser Te* (1958–68) a gyflwynwyd ganddi yn ystod y chwedegau. Deuai Howell o gefndir addysgol disglair; bu'n astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt ac yn gweithio fel athrawes wyddoniaeth am gyfnod byr. Cynhyrchai a chyfrannai hithau at bob math o raglenni o Fangor yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, ond pytiog fu patrwm ei chyflogaeth, fel petai'n llenwi bwlch pan oedd angen, sef nodwedd o gyflogaeth sefydliadau fel y BBC yn ystod cyfnod y rhyfel. Wedi'r rhyfel disgwyliid i fenywod adael eu swyddi, fel bo gwaith ar gael i'r dynion oedd yn dychwelyd o wasanaeth milwrol. Medrai Howell droi ei llaw at gynnwys o bob math, ac roedd yn un o'r unigolion prin hynny a allai drafod pynciau gwyddonol yn hyderus, agwedd y mynegwyd ei fod yn heriol trwy gyfrwng y Gymraeg sawl tro dros y degawdau oherwydd diffyg siaradwyr arbenigol cymwys. Roedd hithau a'i gŵr wedi ymgartrefu yng Nghasnewydd a dychwelodd i'r de, manteisiodd TWW ar ei dawn gyflwyno, ond gallent hwy fel y BBC fod wedi manteisio ar gymaint mwy oedd ganddi i'w gynnig.

Yn groes i'r graen y perswadiwyd Evelyn Williams i symud o ganolfan y BBC yng Nghaerdydd i Fangor, ac i newid trywydd ei gyrfa fel actores gyda'r cwmni *repertory* i yrfa gyda'r ddarpariaeth i blant. Yn ogystal â chynhyrchu dramâu cyfres i

blant hŷn, darparai gyfresi i'r plant lleiaf o dan faner *Awr y Plant*, fel helyntion yr hwyaden, *Wil Cwac Cwac* a deunydd trwy gyfrwng y Saesneg ar *Children's Hour*. Pan adleolwyd Williams i Gaerdydd ar drothwy'r chwedegau apwyntiwyd Ruth Price i weithio ar y ddarpariaeth i blant ym Mangor, ond byr fu ei harhosiad, a byr ei hymwneud gyda'r cyfrwng radio. Fe'i penodwyd i'r Adran Adloniant yng Nghaerdydd, o dan arweiniad Merdydd Evans a dewisodd neilltuo rhan helaethaf ei gyrfa i'r cyfrwng teledu, gan gynhyrchu cyfresi fel *Hob y Deri Dando* (1964–68) a *Disc a Dawn* (1967–73).

Cychwynnodd gyrfaoedd pob un o'r arloeswyr benywaidd a grybwyllwyd felly yn y cyfrwng geiriol, ac mae ehangder eu profiadau radio wedi dylanwadu i raddau gwahanol ar y modd y bu iddynt ymdopi gyda chyfrwng newydd a'i awch am ddelweddau. Po hiraf eu cyfnod yn cynhyrchu rhaglenni radio, y mwyaf heriol y profodd y cyfrwng teledu iddynt. Nod y BBC yn ganolog oedd hwyluso trefniadau i staff weithio ar y ddau gyfrwng, ac i fedru symud yn rhwydd o'r naill i'r llall, gan dybio bod teledu yn gyfrwng union yr un peth â radio, ond gyda lluniau. Buan y sylweddolwyd bod y cyfrwng newydd yn hawlio ei grefft ei hun, ac fel nodwyd eisoes profodd y trawsnewid o raglenni radio i deledu yn fwy o her i rai nag eraill, yn benodol, Nan Davies ac Evelyn Williams.

Fel yr âi'r pumdegau rhagddynt, daeth teledu i sefydlu ei hun fel prif gyfrwng a gwelwyd ehangiad yn yr oriau darlledu; cododd yr angen felly am fwy o staff i gael eu cyflogi ar draws y BBC, gan gynnwys yng Nghymru. Daeth rheidrwydd felly i arbenigo, ac yn 1961 rhoddodd Hywel Davies, y pennaeth rhaglenni, y cyfrifoldeb i Nan Davies o lywio'r gyfres deledu newyddion ddyddiol gyntaf yn y Gymraeg sef *Heddiw* (1961–1982). Llyncwyd ei hamser yn llwyr gan y ddarpariaeth hon, ac o'r herwydd, gellid honni iddi arbenigo ar raglenni ffeithiol, a newyddion cylchgrawn yn benodol fel y cai *Heddiw* ei ddisgrifio. Er hyn, fel y dangoswyd yn y traethawd, yr elfen gylchgrawn oedd yn mynd â'i bryd, a bu i'w rheolaeth olygyddol gadw'r arlwy rhag mynd i gyfeiriad caled yn unig. O gadw'r ddysgl yn wastad a chynnal y cydbwysedd o newyddion a chylchgrawn, cadwodd yr opsiwn am bocedi o ryddid creadigol ar ei chyfer ei hun, yn ogystal â'i chriw cynhyrchu. Galluogai hyn iddi flaengynllunio, gan adeiladu stoc o eitemau na chyfyngwyd mohonynt gan bwysau amser, hynny yw, gellid eu darlledu ar unrhyw adeg er gwrthbwysu'r eitemau trwm,

caletach oedd ynghlwm wrth ddigwyddiadau'r dydd. O fabwysiadu'r dull hwn o gynhyrchu, profodd bod modd cynnal rhaglen ddyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y genre hwn, sef prif amcan Hywel Davies ar drothwy Adroddiad Pilkington, a bod modd trafod amrediad o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na dibynnu ar feysydd traddodiadol. Yn absenoldeb gwasg ddyddiol cyfrwng Cymraeg roedd yn rhaid hefyd i eiriau a themau gael eu bathu yn sydyn, a daeth yr agwedd hon i nodweddu darlledu newyddion yn y Gymraeg. Yn wahanol i nifer o ddiwylliannau lleiafrifol Ewropeaidd eraill sefydlwyd gwasanaeth newyddion ar y cyfryngau darlledu yng Nghymru cyn i bapur newyddion dyddiol ymddangos. Sefydlodd *Heddiw* ei hun ym mhatrymau gwyllo pobl Cymru, a phrofi'n feithrinfa ar gyfer nifer o unigolion a ddaeth yn amlwg fel prif ddarlledwyr Cymru ymhen amser, fel Owen Edwards, Geraint Stanley Jones a William Aaron. Parhaodd yn rhan o ddarpariaeth y BBC tan i S4C gael ei sefydlu yn 1982, ac roedd y sylfaen a osodwyd gan Davies ar gychwyn y chwedegau yn allweddol i'r cysyniad o ddechongli digwyddiadau'r byd o berspectif Cymreig a Chymraeg. Parhaodd y sefyllfa hon hyd heddiw (2022), ac mae gan Gymry Cymraeg fantais dros eu cymrodyr di-Gymraeg sydd wedi gorfod derbyn eu newyddion o'r canol Llundainig, ac o'r herwydd trwy lygaid Prydeinig. Tybiwyd y buasai elfen o hunan-lywodraeth i Gymru yn arwain at newid yn y sefyllfa hon, ond pery'r prif fwletin newyddion ar wasanaeth rhwydwaith y BBC i ddominyddu'r amserlen, gyda newyddion o'r *nations and regions* yn cael ei ddarlledu wedi hynny.

Golygydd *Heddiw* oedd Davies, ac o'r herwydd delio gyda syniadau a wnai, yn hytrach na chynhyrchu eitemau gweledol yn uniongyrchol, yn y stiwdio neu ar leoliad. Ni ddaeth ei harddull teledu yn amlwg tan iddi gynhyrchu a chyflwyno clwstwr o raglenni o'r Wladfa er mwyn dathlu canmlwyddiant Y Glaniad yn 1965, ac wedi ei chyfnod gyda *Heddiw* ddod i ben, pan gafodd gyfle i gynhyrchu rhaglenni nodwedd a dogfen ar bynciau gwledig. Dengys y cynyrchiadau hyn pa mor heriol oedd y grefft o sgriptio ar gyfer teledu iddi, ac yn hytrach na gadael i'r llun siarad gyda'r gwyliwr, sef hanfod teledu da, mynnai reoli dealltwriaeth y gwyliwr o'r cynnwys gyda sgript eiriol, ffurfiol a di-dorr. Y dybiaeth yw iddi sgriptio'r geiriau cyn y lluniau, gan adael i luniau ychwanegu at gynnwys sgript yn hytrach na gadael i eiriau gyfannu lluniau. Er gwaethaf y gwendid hyn, agorodd ffenest ar dirlun Y Wladfa, a pheri i leisiau'r trigolion gael eu clywed, gan roi cyfle iddynt fynegi eu



hunain a'u hunaniaeth ar sgrîn. Ffilmiwyd cynhyrchiad Saesneg gan John Ormond ar gyfer y BBC ar yr un adeg ac mae ei waith yntau a Davies yn rhannu llawer o'r un saethiadau. Er hyn mae eu dull o ymdrin â'r wlad a'i phobl yn gwbl wahanol; dominyddwyd cynhyrchiad Ormond gan sylwebaeth awdurdodol Hywel Davies sy'n cyd-fynd yn effeithiol gyda'r lluniau, sy'n awgrymu i'r cyfarwyddwr gychwyn ar y broses greadigol gyda lluniau yn flaen-llaw yn ei feddwl. Ond mae ei ffilm *The Desert and the Dream* (1962) yn amddifad o leisiau'r Gwladfawyr, ac o'r herwydd un dehongliad yn unig o'r Wladfa a geir, a hwnnw yn un pesimistaidd. Ym mlynnyddoedd olaf ei gyrfa, yn union fel yr aeth ati i bortreadu'r Gwladfawyr trodd Davies ei sylw at bobl cefn-gwlad Cymru, a llwyddodd i ddal ar sgrîn ffordd o fyw ac arferion amaethyddol oedd ar fin diflannu, a hynny mewn cynyrchiadau fel *Bugail Cwm Prysor* (1970). Ymddengys arddull y rhaglenni hyn yn fwy naturiol ond ni lwyddodd Davies i ryddhau ei hun yn llwyr o hualau'r cyfrwng radio.

I Evelyn Williams, gellid dadlau oherwydd natur cynulleidfa darged ei phrif gynnyrch, sef rhaglenni ar gyfer plant bychain, cyn-ysgol, roedd cymryd y cam cynhyrchu o fyd radio i deledu yn haws nag o fewn cyd-destun genres a darpariaethau eraill a anelwyd at gynulleidfa hÿn. A hithau wedi ei had-leoli i Gaerdydd ar gychwyn y chwedegau, parhaodd i ddarparu'r arlwy arferol o ganeuon, rhigymau a straeon gyda'r un criw cyson o'r gogledd a nodweddai ei chyfresi radio, sef y sgriptwraig a'r storiwraig, Sheila Huw Jones, y gantores Sassie Rees a'r cyfeilydd Maime Noel-Jones. Er mwyn ateb gofynion cyfrwng gweledol trodd at grefft pypedwyr i ddod â stori'n fyw ar sgrîn, arfer oedd yn gyffredin ymysg cynhyrchwyr rhaglenni teledu i blant ar draws Prydain yn ystod cyfnod ffurfiannol y cyfrwng. Daeth â phypedwyr o Fae Colwyn, Eric Bramall a Chris Somerville at gynnyrch Cymraeg, a daethant hwythau â'u harbenigedd adrodd stori a'u crefft pypedu at gynnwys cyfarwydd. Ond yr hyn sy'n gwahaniaethu Williams wrth ddarparwyr rhaglenni plant eraill yw iddi lynu at yr un arferion cynhyrchu, ac at y tîm bychan hwn o bobl tan ddiwedd ei gyrfa yn y saithdegau. Er iddi gyfrannu yn achlysurol at y gyfres deledu *Telewele* (1953–1974), fel cyfarwyddwr stiwdio a chyflwynydd, ni chofleidiodd y cyfrwng teledu ar gyfer plant o ystod oedran hÿn, a daeth y cyfrifoldeb hwnnw i ran John Watkin Jones a Dyfed Glyn Jones. Mae'r traethawd hwn wedi gweld tebygrwydd rhwng Williams a Freda Lingstrom, pennaeth cyntaf yr Adran Deledu i Blant gyda'r BBC yn ganolog, oherwydd eu

hagwedd o ddiogelu'r ddarpariaeth i blant bychain ac o fynnu'r safonau uchaf. Er hyn, yn ystod y chwedegau, llwyddodd yr Adran Blant yn ganolog i symud gyda'r oes, i adlewyrchu'r newid mewn cymdeithas a'r modd yr ystyriwyd plentyndod. Ni ddigwyddodd hynny o fewn darlledu cyhoeddus yng Nghymru tan ganol y saithdegau pan lansiwyd y gyfres *Bilidowcar* (1975–1988) gan John Watkin Jones, yn dilyn cyfnod yn gweithio ar y gyfres rwydwaith *Blue Peter* (1959–). Bu i'r ddarpariaeth i blant yng Nghymru ddatblygu'n dawel bach o'r pumdegau ymlaen, heb fawr o sylw yn cael ei thalu iddi o gyfeiriad y rheolwyr na'r Cyngor Darlledu. Nid tan gychwyn y saithdegau y dechreuwyd edrych o ddirif ar raglenni plant yn sgil galwadau o du'r cyhoedd i ehangu'r nifer o oriau i blant, ac yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sydyn cafodd y ddarpariaeth ei gosod o dan y chwyddwydr, ac arweiniodd hynny at sicrhau cyllideb i lansio rhaglen gylchgrawn i blant, sef *Bilidowcar*, ac at droi dalen newydd yn y ddarpariaeth ar gyfer y plant lleiaf, datblygiad a hwyluswyd gydag ymddeoliad Evelyn Williams yn 1974.

Yn unol â'r diffyg sylw i raglenni plant ymysg rheolwyr y BBC yng Nghymru, digon tebyg oedd yr agwedd tuag at raglenni a anelwyd at fenywod, sef darpariaeth y daeth Teleri Bevan a Marion Griffith Williams i arbenigo arni. Nid ffenomenon a nodwedddai'r ddarpariaeth yng Nghymru yn unig oedd hyn, ond fe'i profwyd gan y BBC yn ganolog hefyd. Mae modd ystyried darpariaethau ar gyfer segmentau a gaiff eu diffinio yn ôl eu cynulleidfa, sef plant a menywod, (hynny yw nid y grŵp dominyddol, sef dynion) fel ymdrech arbennig ar ran darlledwr cyhoeddus i ddiogelu'r gynulleidfa darged rhag peryglon posib dylanwadau anaddas neu ddi-chwaeth. Er hyn nid yw darpariaethau o'r fath yn meddu ar ddigon o statws i gael eu trafod ar lefel uwch o fewn y sefydliad. Yn hytrach ymddiriedai'r BBC yng ngallu menywod tebol fel Williams, Griffith Williams a Bevan i ymgymeryd â'r gwaith a bwrw ymlaen, heb yr angen am fawr o ymyrraeth na goruchwyliaeth. Ar un llaw gall sefyllfa fel hyn brofi'n fanteisiol i gynhyrchydd, gan arwain at ymdeimlad o ryddid, ond dros amser, gall ddi-brisio ymdrech, ac arwain at ddiffyg cyfle i dderbyn beirniadaeth er mwyn esblygu, fel y gwelwyd gyda ddarpariaeth i blant yng Nghymru.

Marion Griffith Williams a gafodd y cyfrifoldeb o gynhyrchu y ddarpariaeth gyson wythnosol gyntaf trwy gyfrwng y Gymraeg i fenywod sef *Merched yn Bennaf*, ar

gais Hywel Davies. Daeth Teleri Bevan i'w chynorthwyo pan ddychwelodd o'i chyfnod mamolaeth, a hi ddaeth yn gynhyrchydd y gyfres pan benderfynodd Williams ganolbwyntio ar ysgrifennu nofelau. Mae'r traethawd hwn wedi amlygu sut y bu i'r gyfres hon ddatblygu yn fangre unigryw o fewn yr amserlen ddarlledu ar y radio yng Nghymru, gan ddwyn pynciau cyfredol a thabŵ at y tonfeddi yn union fel y gwai *Woman's Hour* ar y gwasanaeth radio rhwydwaith. Roedd y ffaith i Williams a Bevan gael cyfle i gynhyrchu'r gyfres honno pan y deuai rhifynnau o Gymru wedi datblygu eu sgiliau cynhyrchu, ac fe'u cymhwyswyd yn eu tro i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni ddaeth y ddwy i sylw rheolwyr y BBC yng Nghymru tan iddynt fentro i feysydd eraill, Williams fel nofelydd a gafodd gyfle i addasu ei gwaith i'r sgrîn, a Bevan i ymwneud â'r ddarpariaeth radio yn ehangach. Er i Bevan geisio fwy nag unwaith i sicrhau swydd cynhyrchu rhaglenni teledu, ni fu'n llwyddiannus ac yn y pen-draw cynigiodd y cyfrwng radio gyfleoedd iddi ehangu ei gorwelion.

Fel nodwyd eisoes, y cyfrwng teledu aeth â bryd Ruth Price; cwta ddwy flynedd y bu'n ymwneud gyda rhaglenni radio ac o'r herwydd meistrolodd y cyfrwng teledu yn fwy llwyddiannus na rhai o'i rhagflaenwyr. Ymunodd â'r Adran Adloniant pan y'i sefydlwyd yn 1963; roedd yn gyfnod cyffrous i fod yn rhan o'r bwrlwm wrth i Meredydd Evans gasglu criw o bobl i ddarparu rhaglenni adloniant ysgafn, a chanfu Evans y gongl-faen yr oedd ei angen arno sef Ryan Davies,. Roedd symudiad Davies o'i swydd ddysgu yn Llundain i weithio yn llawn amser ym myd darlledu yng Nghaerdydd yn arwydd o symudiad ehangach, sy'n berthnasol i ddisgrifiad John Davies o'r chwedegau fel cyfnod olaf dylanwadol Cymry Llundain. Bellach roedd gan Gymry ifainc eu prifddinas eu hunain i dyrru iddi. Arweiniodd profiad Price ar y gyfres radio *Tipyn o Fynd* (1963–66) at ddealltwriaeth o bobl ifainc fel cynulleidfa darged, ac aeth ati i'w diwallu gyda rhaglenni teledu, gan ddeall pŵer cerddoriaeth bop ac ysgafn i'w denu. Cymhwysodd hyn i'w gwaith cynhyrchu ar *Hob y Deri Dando* (1964–1968), a *Disc a Dawn* (1967–1973), ac aeth ati i ddod o hyd i artistiaid newydd ar hyd a lled Cymru.

Mae'r gallu i ddod o hyd i dalent newydd yn thema gyson o fewn llwyddiant cynhyrchu cyfryngol, ac fe'i gwelwyd yn nodweddu gwaith Myfanwy Howell a Nan Davies ym Mangor, felly hefyd Evelyn Williams, a Mai Jones y cynhyrchydd

adloniant ysgafn, y cyfeiriwyd ati yn y traethawd hwn. Roedd Jones wedi magu blynyddoedd o brofiad yn y maes adloniant yn Llundain, a daeth â'r profiad hwnnw at gynnyrch o Gymru. Y gyfres a gysylltir â hi yn bennaf yw *Welsh Rarebit* (1938–1957) a fu'n darparu adloniant i wrandawyr ar draws Prydain yn ystod cyfnod Yr Ail Ryfel Byd. Yn sgil llwyddiant ysgubol y gyfres, parhaodd ar yr awyr wedi'r rhyfel a dyrchafwyd Jones yn gynhyrchydd adloniant ysgafn gyda'r BBC yng Nghaerdydd, er bu cryn drafod os fuasai menyw yn gallu ymgymryd â gwaith o'r fath. Er mai gyda darpariaeth cyfrwng Saesneg y tueddir i gysylltu ei henw, bu'n cydweithio gydag artistiaid ar raglenni Cymraeg eu hiaith gan gynnwys ar y *Noson Lawen* pan y'i lansiodd gan Sam Jones, gan ddod ag ychydig o arddull poblogaidd y *variety* a'r *music hall* Prydeinig i'r ddarpariaeth adloniant ysgafn Cymraeg.

Un o artistiaid y *Noson Lawen* oedd Meredydd Evans, a adwaenid fel *Bing Bangor*, sef un o aelodau Triawd y Coleg. Yn union fel y bu iddo *groonio* geiriau Cymraeg i alawon Americanaidd cyfarwydd yn ystod y pedwardegau, deallai yntau a Price fantais ymgorffori dylanwadau Eingl-Americanaidd y chwedegau yn y diwylliant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sefydlu'r Gymraeg fel iaith gyfredol a pherthnasol i bobl ifainc. Deallent ei gilydd i'r dim, a bu Price yn allweddol wrth gyntwair diwydiant recordiau pop ffyniannus a diwylliant cerddoriaeth ysgafn yng Nghymru, gan sicrhau bod y gyfres y cysylltir â hi yn bennaf, *Disc a Dawn* a gychwynnodd yn 1967 yn rhan annatod o'r bwrlwm. Cadwai lygad barcud ar recordiau y siartiau Prydeinig gan drefnu cyfieithiadau o ganeuon ar gyfer y rhifyn dilynol o *Disc a Dawn* bob wythnos. Er i hyn ddenu peth beirniadaeth o safbwynt artistiaid di-Gymraeg yn canu caneuon yn y Gymraeg, mae'n rhaid edmygu ei hymdrech, a'i diwydrwydd i sicrhau cyfredoldeb y deunydd a ddarlledwyd. Digwyddai hyn oll i gefnlen o ymgyrchu ieithyddol, gyda Chymdeithas yr Iaith wedi ei sefydlu yn 1962 a'r ymgyrch arwyddion yn ei hanterth. Pan ddewiswyd Huw Jones i olynu Ronnie Williams fel ail gyflwynydd y gyfres, ac yntau yn aelod o Gymdeithas yr Iaith ac yn ganwr protest, sicrhawyd bod *Disc a Dawn* yn ganolog i gynnwrf y cyfnod. O fwrw golwg ar drefn rhaglen ac ansawdd linciau'r cyflwynwyr ar *Hob y Deri Dando* a *Disc a Dawn*, daw gallu Price fel cynhyrchydd i'r amlwg; deallai sut i gyfosod eitemau gwahanol mewn modd cymhellol gan gadw diddordeb cynulleidfa wrth eu tywys o ganwr i ddeuawd i grŵp, ac o'r ysgafn i'r dwys. Bu i gyfweiliadau gyda'r rheiny fu'n gweithio ar *Disc a Dawn* dystio i'w hamynedd a'i gallu i feithrin pobl mewn modd tawel ond cadarn,

gan amlaf o dan bwysau darllediad byw neu recordiad un cynnig, gan fynnu y safon uchaf ymhob agwedd o'u gwaith.

Fel yr amlygwyd uchod, wrth i'r oriau ddarledu ehangu a nifer y staff gynyddu roedd yn anorfod bod ffurfioli a phroffesiynoli yn digwydd, er mwyn hwyluso prosesau cynhyrchu yn ogystal â threfniadau cyflogaeth. Daeth yr awyrgylch clos, a phawb yn gwneud ychydig o bob dim i ben wrth i adrannau gwahanol a drefnwyd yn ôl genre gael eu lleoli ar draws dinas Caerdydd. Agorwyd y ganolfan newydd yn 1966, ond aeth nifer o flynyddoedd heibio cyn i'r holl staff symud o'u cartrefi amrywiol ar draws y ddinas a sefydlu yn Llandaf. Bu i'r arloeswyr sefydlu eu hunain o fewn amrywiaeth o genres neu ddarpariaethau penodol, trefniant a ddigwyddodd yn naturiol ac a ddeilliodd o'u cefndiroedd a'u diddordebau yn hytrach nag yn sgil unrhyw bolisi bwriadol ar ran y BBC yn Nghymru. Cynigodd hyn strwythur cyfleus i'r traethawd hwn a threfnwyd y penodau yn ôl y genres a'r darpariaethau y bu iddynt ymwneud â nhw. Cyd-darodd hynny gyda'r traddodiad o drefnu gwaith ymchwil o fewn astudiaeth o'r cyfryngau yn ôl genre, gan gynnig fframwaith pwrpasol i ysgolheigion.

Un thema sydd wedi amlygu ei hun drwyddi draw yn y traethawd hwn yw bod yr arloeswyr oll yn gosod disgwyliadau uchel o ran safon yn eu rhaglenni radio a theledu. Ymddengys iddynt ystyried eu gwaith o fewn y BBC nid yn unig fel cyflogaeth broffesiynol a pharchus, ond hefyd fel crwsâd i sicrhau cyfundrefn ddarlledu gwerth chweil i Gymru ac yn y Gymraeg. Y gŵr oedd yn allweddol yn yr ymdrech honno oedd Hywel Davies, ac yng ngwaith John Davies ar hanes y BBC yng Nghymru, ac mewn cyhoeddiadau poblogaidd gan weithwyr y Gorfforaeth mae'n amlwg ei fod yn ffigur pwysig a dylanwadol dros ben a edmygwyd gan ei staff. Fel Pennaeth Rhaglenni y bu'n allweddol wrth sefydlu *Heddiw* yn 1961, ac ef a hwylusodd sefydlu'r ddarpariaeth wythnosol, gyson i fenywod sef *Merched yn Bennaf* yn 1965. Bu'n ddiwyd ei ymdrechion i sefydlu hunaniaeth ddarlledu i Gymru, a gwelwyd sefydlu endid BBC Cymru Wales yn 1964. Gellid tybio bod ei arweiniad wedi dylanwadu ar gynhyrchwyr, ac o archwilio rhaglenni'r arloeswyr a'u dulliau o gynhyrchu, ymddengys eu bod yn eiriol dros gynnwys safonol a defnydd safonol o iaith o fewn eu dewis genre neu ddarpariaeth, a disgwyliwyd i'r rheiny a gydweithiai â hwy i anelu, a chyrraedd at yr un safon.

Heblaw am arweiniad Hywel Davies, mae'n ddiddorol ystyried beth arall allai fod yn gyfrifol am yr agwedd hon. Roedd Evelyn Williams a Lorraine Davies wedi bod yn fyfyrwyr yng Ngholeg Hyfforddi Morgannwg, y Barri, a dengys cylchgrawn y sefydliad, *Tân y Ddraig* y pwyslais a roddwyd ar y Gymraeg a thraddodiadau Cymreig gan y brifathrawes Ellen Evans, a'r darlithydd Cassie Davies. Pwysleisiwyd eu cyfrifoldeb hwythau fel darpar athrawesau i hyrwyddo Cymreictod a'r iaith, ac fe'u cyflwynwyd i fudiad Urdd Gobaith Cymru a'i werthoedd. Er i Davies a Williams dreulio cyfnodau yn gweithio mewn meysydd eraill cyn dod at y BBC, gyda Davies yn treulio cyfnod y tu allan i Gymru, mae'n rhaid bod y ddwy flynedd ffurfiannol yng Ngholeg y Barri wedi gadael eu hól arnynt o safbwynt eu hagwedd at y Gymraeg a'r hyn a olygid wrth safon.

Yng Ngholeg Abertawe yr hyfforddwyd Ruth Price, ac wedi iddi dreulio rhai blynyddoedd fel athrawes, cafodd gynnig swydd fel prifathrawes yn Ysgol Gymraeg Pontarddulais. Roedd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar dwf yn ystod y chwedegau, ond profodd Price gryn wrthwynebiad fel y dangoswyd yn y traethawd. Daliodd ei thir a mynegodd ei chred yng ngwerth, a dulliau addysgu cyfrwng Cymraeg yng ngwasg y cyfnod. Daeth â'r un rhuddin cymeriad at waith cynhyrchu, ynghyd â dealltwriaeth o'r hyn a apeliai at blant a phobl ifainc y cyfnod. Bu i hithau ymwneud gyda mudiad yr Urdd gan baratoi disgyblion i gystadlu yn eisteddfodau'r mudiad, yn enwedig ar gystadlaethau llefaru oedd o ddiddordeb personol iddi, a hithau'n adroddwraig ei hun.

Yn ystod ysbaid o waith darlledu, a ysgogwyd gan yr angen i ddychwelyd i Dregaron i ofalu ar ôl ei mam yn ei gwaeledd, treuliodd Nan Davies gyfnod yn gweithio i'r Urdd fel Trefnydd Aelwydydd, ac yn swyddfa'r mudiad yn Aberystwyth. Er iddi ymhen rhai blynyddoedd barhau â'i chyflogaeth gyda'r BBC ym Mangor, daliodd ei chysylltiad gyda'r mudiad trwy gydol ei gyrfa gan hwyluso darlledu o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a chyfrannu at ddigwyddiadau'r mudiad. Deuai Davies o gefndir Cymraeg a chwbl Gymreig yn Nhregaron, a gellid tybio i'w chefnidir yn ogystal â'i chyfnod ym Mangor yn sefydlu'r ganolfan ddarlledu ddylanwadu ar ei hagwedd tuag at yr iaith.

Deuai Marion Griffith Williams o gefndir cwbl wahanol i weddill yr arloeswyr, ac roedd ei diffyg ymlyniad wrth unrhyw ardal benodol yn arwain at gysylltiadau ar draws Cymru. Bu mudiad yr Urdd yn allweddol yn ei datblygiad hithau hefyd, gan ddarparu modd o'i chroesawu nôl at y Gymraeg wedi iddi dreulio cyfnod anodd yn Ysgol Gynradd Dolgellau, wedi i'r teulu symud i'r dref o Benbedw. Trwy fynychu'r Aelwyd yn Aberystwyth daeth yn gyfarwydd gyda cherddoriaeth a llenyddiaeth Cymru, gwaddol na rannwyd â hi yn yr ysgol uwchradd, sef Ysgol Dr Williams, Dolgellau. Arweiniodd ei phrofiad yn canu'r delyn ati'n cael lle i astudio yn y Guildhall yn Llundain ac arweiniodd ei gwerthfawrogiad o lenyddiaeth a hanes Cymru ati'n troi at ysgrifennu nofelau wedi eu seilio yng ngorffennol ei gwlad. Dylid nodi hefyd i Griffith Williams ennill profiad yn y wasg, a olygai sicrhau cywirdeb a safon ieithyddol er mwyn cyhoeddi, boed hynny mewn papurau newydd, cylchgronau neu ddeunydd hyrwyddo rhaglenni a gyhoeddwyd gan y BBC, fel *The Radio Times*. Er hyn dengys sgriptiau *Merched yn Bennaf* ei bod yn barod i ystwytho iaith at bwrpas darlledu, gan greu cywair cyfeillgar i raglen fel a wnaed yn Saesneg ganddi ar y rhaglen *Home this Afternoon* (1964–70) a ddarlledwyd yn achlysurol o Gaerdydd.

Magwyd Bevan yng nghefn-gwlad Ceredigion fel Nan Davies, ac nid yw mor hawdd olrhain ei hagwedd hi tuag at y Gymraeg a Chymreictod, o'i gymharu gyda'r arloeswyr eraill. Er hyn, cafodd ei meithrin yn y ddarpariaeth i blant gan Evelyn Williams a Lorraine Davies, a gellid ond dychmygu iddynt blannu yr agwedd uchelgeisiol ynndi tuag at safonau uchel o ran cynnwys, a defnydd o iaith. Llwyddodd Bevan a Nan Davies i gloddio'n ddwfn yn eu cefndir gwledig ac amaethyddol am ddeunydd ar gyfer rhaglenni, a meddai'r ddwy ar adnabyddiaeth drylwyr o'r gymdeithas wledig. Arweiniodd cefndir Marion Griffith Williams a'i diffyg ymlyniad i unrhyw ardal benodol at ehangder syniadau a chyfranwyr amrywiol. Cyfyd y cwestiwn felly, beth yw'r nodweddion gorau i gynhyrchydd o fewn darpariaeth ffeithiol? Ai adnabyddiaeth drylwyr o faes, a ffordd o fyw benodol, neu ehangder profiad a chysylltiadau amrywiol? Gellid dadlau bod y ddwy agwedd yr un mor werthfawr, a bod angen y cyfuniad o gynhyrchwyr o'r fath er cynnal gwasanaeth cenedlaethol ac arlwy gyfoethog.

Daeth profiad awdur y traethawd fel cynhyrchydd teledu a radio o fewn darlledu cyhoeddus â gogwydd ychwanegol i'r gwaith ymchwil, gan alluogi'r broses o godi'r clawr ar greadigrwydd yr arloeswyr. Prin yw ymchwil academiaidd sy'n dadansoddi cynnwys rhaglenni a'r llwybr creadigol a arweiniodd atynt; mae tuedd i ganolbwyntio ar effaith y cynnwys ar gynulleidfa. Ni wyddys y rheswm am hyn, ond efallai ei fod yn gysylltiedig gyda chefnidir ysgolheigion: prin yw'r ysgolheigion hynny sydd wedi cael y fraint o feddwl am egin syniad, ei ddatblygu a'i wireddu ar y tonfeddi radio neu ar y sgrîn. Rhan fechan o'r broses greadigol yw rhaglen orffenedig, a bu modd olrhain penderfyniadau creadigol a wnaed gan yr arloeswyr wrth ddarllen sgriptiau rhaglenni, gwylio eu cynnyrch yn yr archif, cyfweld â chyfoedion, darllen sylwadau yn y wasg a'u cyhoeddiadau.

O fwrw golwg ar yr arloeswyr gwahanol, gellid dadlau eu bod oll yn unigolion creadigol o fewn eu genres neu eu darpariaethau eu hunain. Cynigodd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfleoedd i Nan Davies greu cyfresi newydd sbon o fewn amrywiaeth o genres yn ystod ei chyfnod ym Mangor, gan lansio cyfresi fel *Cefn Gwlad* (1939–1951) a *Congl y Cartref* (1949–50). Bu iddi hefyd greu rhaglenni o Gymru o fewn y ddarpariaeth rwydwaith ar gyfresi fel *Country Magazine* (1942–54) a *Woman's Hour* (1946– ) gan ddilyn canllawiau golygyddol a osodwyd gan eraill. Ar gyfer ei chlwstwr o raglenni radio a theledu o'r Wladfa, dangosodd gryn greadigrwydd wrth drefnu pedair rhaglen deledu a phedair rhaglen radio o dan themâu unigol a fu'n cydreddeg ar yr awyr, yn ogystal â ffilm gasgliad. Yn ystod ei chyfnod gyda *Heddiw*, cymhwysodd ei chreadigrwydd i ymateb i faterion y dydd ac i ddarparu eitemau poblogaidd, a'r ail elfen, boblogaidd ei natur oedd yn mynd â'i bryd. Er iddi ddarlunio ffordd o fyw ac arferion amaethyddol ar eitemau byrion o fewn y gyfres *Heddiw*, cafodd gyfle cyn diwedd ei gyrfa i greu rhaglenni nodwedd unigol ar y Gymru wledig, gan greu portreadau cyfoethog o unigolion yn eu tirlun.

Roedd angen i Evelyn Williams arddangos cryn greadigrwydd yn ystod blynyddoedd cynnar ei gyrfa, trwy ddod o hyd i sgriptwyr a storïwyr ar gyfer y ddarpariaeth ar *Awr y Plant* neu *Children's Hour*. Dwy a fu'n darparu deunydd yn gyson dros y blynyddoedd oedd Amy Parry-Williams a Sheila Huw Jones, gyda'r ddwy yn dod at y microffôn i adrodd eu straeon. Ar gyfer ei rhaglenni radio a theledu ar gyfer y plant lleiaf, unwaith y daeth Williams o hyd i fformiwla llwyddiannus, glynodd ato,



ac fe'i darparwyd gan y criw bychan cyson y cyfeiriwyd ato eisoes gan beri iddi drosglwyddo llawer o'r pwysau creadigol i eraill.

Rhan bwysig o greadigrwydd cynhyrchydd yw penderfynu pwy sy'n ymddangos ar raglenni fel cyflwynwyr, actorion, artistiaid neu gyfranwyr. Nodweddyd llawer o gynnyrch cyfryngol yn gyffredinol yn ystod y cyfnod dan sylw gan ddiddymiad symbolaidd o fenywod, a hynny ar draws amrediad o genres. O safbwynt ffeminyddol bu'n ddiddorol archwilio'r cysylltiad rhwng yr arloeswyr fel cynhyrchwyr benywaidd a'r penderfyniadau cynhyrchu a wnaed ganddynt, ac i ystyried unrhyw ymyrraeth ffeminyddol a ysgogwyd ganddynt. Fel yr awgrymwyd eisoes, roedd y ddarpariaeth i fenywod a gynhyrchwyd gan Griffith Williams a Bevan yn unigryw yn narpariaeth rhaglenni'r BBC yng Nghymru, ac er y teitl *Merched yn Bennaf*, a'r croeso i unrhyw un wrando, gan gynnwys dynion, llwyddwyd i osod y fenyw yn ganolog yn y broses gynhyrchu. Dewiswyd menywod i gyflwyno a gohebu, ac yn eu plith Ann Clwyd. Yn unol ag arfer *Woman's Hour*, daeth y gyfres â menywod cyffredin yn ogystal â rhai adnabyddus mewn bywyd cyhoeddus, at y meic. Cynigiwyd felly adlewyrchiad teg o fywyd menywod yng Nghymru, sef cyfuniad o'r sffêr preifat a chyhoeddus, gan sicrhau cywair llai rhywiaethol na'r hyn a glywyd ar fwyafrif o ddarpariaeth y cyfnod yn y Gymraeg. Cyfeiriwyd yn yr adolygiad llenyddol at y cysyniad o'r *satellite women*, oedd yn ymddangos ar y cyfryngau yn sgil llwyddiannau eu gwŷr, ond ni welwyd enghreifftiau o hynny yn sgriptiau *Merched yn Bennaf*. Roedd y rheiny a gymrai ran mewn bywyd cyhoeddus yn gwneud hynny ar eu telerau eu hunain, ac yn haeddu eu lle ar y tonfeddi. Ar un llaw gellid disgwyl i'r arlwy fod yn un blaengar ar ddarpariaeth o'r fath, ond mae'n amlwg i'r cynhyrchwyr wneud penderfyniadau bwriadol a arweiniodd at ymyrraeth ffeminyddol yn llif rhaglenni Cymraeg y BBC.

Mae'n werth cyfeirio hefyd at ymdrech Bevan y tu hwnt i *Merched yn Bennaf*, ac yn benodol ar y gyfres radio *Penigamp*. Hyd at hyn roedd rhaglenni prif ffrwd y gwasanaeth radio yn y Gymraeg wedi ei ddominyddu gan leisiau dynion, ond gyda'r gyfres adloniant ysgafn yma parodd Bevan ymyrraeth ffeminyddol yn ystod oriau brig darllediad amser cinio. Ar y gêm banel lluniwyd dau dîm i gystadlu yn erbyn ei gilydd, ar y naill dîm roedd Dic Jones a Marie James, ac ar y llall, roedd Tydfor Jones a Cassie Davies. Er y linciau traddodiadol a rhywiaethol eu natur gan y

cadeirydd, D. Jacob Davies, roedd cyfraniadau'r ddwy fenyw yn hyderus a heriol, ynghyd â'r sgysio anffurfiol rhyngddynt hwy â'r ddau gystadleuydd gwrywaidd. Roedd James yn gynghorydd sir, yn bostfeistres ac yn un o'r menywod cyntaf i'w dewis fel blaenores a hynny yng nghapel Llwynpiod yng Ngheredigion. Roedd Davies yn gyn-ddarlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Morgannwg, Y Barri fel y cyfeiriwyd ati eisoes, ac wedi ymddeol o'i gwaith fel arolygydd ysgolion, a thrwy eu dewis hwy llwyddodd Bevan i osod dwy fenyw lwyddiannus oedd yn rhan o'r sffêr gyhoeddus yng Nghymru ar yr awyr. Roedd hwn yn gam pwysig o ran cydnabod y cyfraniad oedd gan fenywod i'w wneud y tu hwnt i'r ddarpariaeth rhaglenni i fenywod a'r ddarpariaeth i blant, a gellir ystyried Bevan fel asiant peri newid.

Roedd y sefyllfa gyda'r gyfres *Heddiw* ychydig yn wahanol, ac yn ystod cyfnod Nan Davies fel golygydd ni fu unrhyw fenywod yn rhan o dîm cynhyrchu'r gyfres. Gweithredai yr ysgrifenyddesau fel cynorthwywyr cynhyrchu allan ar leoliadau ffilmio, ac yn y swyddfa gofynnwyd iddynt ymgymryd â thasgau a fuasai'n rhan o orchwylion ymchwilydd mewn cyfnod diweddarach, er na chydabuwyd eu cyfraniad felly. Yn absenoldeb system recriwtio ffurfiol, cymharwyd arferion Davies ag arferion Grace Wyndham Goldie, *the first lady of television* a'i *Goldie Boys*, sef cyfeiriad at y criw o ddynion ifainc a weithiai ar ei rhaglenni ffeithiol. Dros y blynyddoedd bu beirniadaeth gan rai o'r modd y cyflogwyd unigolion o fewn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae modd gweld gwraidd beirniadaeth o'r fath a chyhuddiadau o neigaredd yn deillio o'r cyfnod hwn. O dan deyrnasiad Davies, Owen Edwards fu prif gyflwynydd *Heddiw*, a bu'n rhaid aros tan i John Roberts Williams ac Arwel Ellis Owen gymeryd awenau golygyddol y gyfres cyn i fenywod ymddangos ar y sgrîn sef Mary Middleton, Beti George ac Elinor Patchell. Tueddwyd i'w gosod yn y *soft beats*, sef straeon ysgafn y tybiwyd eu bod yn addas i fenywod eu cyflwyno, fel y canfuwyd mewn gwaith ymchwil gwledydd eraill. Er hyn cydnabu George allu ei chyd-gyflwynydd sef Emyr Daniel, a Patchell hithau broffesiynoldeb R. Alun Evans ac yntau yn treulio'r diwrnod yn y swyddfa gynhyrchu a hithau yn dod o'i swydd fel cyw-gyfreithwr i ddarllen sgrïpt. Er hyn, mae'r enghraifft hon o'r gyfres *Heddiw* wedi darlunio nad yw presenoldeb menyw mewn sefyllfa o reoli neu gynhyrchu o angenrheidrwydd yn arwain at newidiadau mewn cynnwys na phersonnêl ar yr awyr. Yn yr achos hwn, penderfyniadau a wnaed gan ddynion a arweinodd at ymyrraeth ffeminyddol o fewn darpariaeth newyddion

darlledu cyhoeddus yn y Gymraeg a gellid ystyried John Roberts Williams ac Arwel Ellis Owen hwythau fel asiantwyr peri newid.

Bu'n ddiddoroli archwilio'r modd y portreadwyd menywod ar sgrîn yng nghynrychiadau ffeithiol Davies y tu hwnt i'w phrofiad ar *Heddiw*, sef ei chyfres o bedair rhaglen ddogfen a ffilm gasgliad ar Batagonia. Cafodd menywod eu cyfweld ganddi yn rhinwedd ei swyddi neu eu diddordebau penodol, ond fel yr amlygwyd yn y traethawd, y dynion a gafodd y sylw mwyaf ganddi, yn enwedig yn y ffilm gasgliad oherwydd y pwyslais ar ddulliau amaethu'r cyfnod. Yn y gyfres o bedair rhaglen, pan gai'r dynion eu cyfweld buasai eu gwagedd yn aros neu eistedd yn dawel wrth eu hymyl, ac er bod eu presenoldeb o fewn y saethiad dwbl yn tystio i'w bodolaeth, ni roddwyd y cyfle iddynt siarad. Fe'u gwelwyd hefyd yn y trosluniau yn cwblhau tasgau a gysylltwyd gyda'r cartref neu gyda pharatoi bwyd yn yr awyr agored, ond lluniau dros sylwebaeth Davies ydynt, neu dros eiriau'r dynion sy'n cael eu cyfweld. Yn yr un modd yn y rhaglenni a gynhyrchwyd ganddi tuag at ddiwedd ei gyrfa, a bortreadai y Gymru wledig, er i wragedd ymddangos ar y sgrîn, drachefn fe'u cadwyd yn fud wrth ochr eu gwŷr, neu yn y deunydd trosluniau yn gwneud tasgau a gaiff eu cysylltu'n draddodiadol â thasgau menywod mewn cymuned amaethyddol. Er eu presenoldeb gweledol fe'u diddymwyd yn symbolaidd gan y diffyg cyfle i ddefnyddio eu llais, ac i roi llais i'w profiadau. Gellid ond tybio bod agwedd Davies yn deillio o'i magwraeth mewn cymuned wledig, ac iddi ail-adrodd y patrymau hynny ar sgrîn.

Dengys ymchwil mai tueddu i glystyrru yn y darpariaethau a ystyriwyd yn llai caled wnaï gweithwyr benywaidd o fewn y diwydiant, megis rhaglenni i blant neu fenywod, ac mae'n arwyddocaol i'r mwyafrif helaeth o'r arloeswyr o dan sylw gychwyn ar eu gyrfaedd yn y naill ddarpariaeth neu'r llall. Yn achos Evelyn Williams a lynodd at y ddarpariaeth i blant, trodd at ddynion i ddarparu sgriptiau i gyfresi drama a anelwyd at blant hŷn, ond arwyddodd y ddarpariaeth i blant bychain, oed cyn ysgol, fel hafan i fenywod yn unig, ag eithrio'r pypedwyr. Gellid dadlau bod Williams, Sheila Huw Jones, Sassie Rees a Maime Noel-Jones yn debyg i glwstwr o fenywod mewn teulu estynedig, a gan eu bod yn uned sefydlog, buasai plant wedi dod yn gyfarwydd iawn â hwy fel y menywod o fewn eu teuluoedd eu hunain. Fel yr amlygwyd yn yr adolygiad llenyddol, mae'r pwyslais a roddir ar y teulu mewn

diwylliannau lleiafrifol yn rhan bwysig o hunaniaeth genedlaethol, ac mae gan famau a menywod rôl hanfodol o fewn y teulu i drosglwyddo traddodiadau, arferion ac iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall. O ystyried y pwyslais ar rigymau, penillion a chaneuon a gai eu hailadrodd mewn rhaglenni fel *Ar Lin Mam* (1959–1975) a *Jim Cro Crwstyn* (1951–1965), roedd y ddarpariaeth yn unol â rôl y fam, ac yn cael ei harwyddo felly fel rhywbeth gwerth chweil yn natblygiad y plentyn, oedd yn gyson gydag awydd y BBC yn ystod y cyfnod o dan sylw. Mae'n amlwg felly mai dilyn patrymau rhywedd traddodiadol a wnai'r ddarpariaeth hon, ac ni chyflwynwyd lleisiau na wynebaw gwrywaidd i'r ddarpariaeth blant oed cyn ysgol yn ystod cyfnod Evelyn Williams, er i *Play School* (1964–1988) arloesi gyda hynny yn ystod y chwedegau.

O fewn y ddarpariaeth adloniant ysgafn rhoddodd Ruth Price gyfleoedd i artistiaid benywaidd i ymddangos ar *Hob y Deri Dando* a *Disc a Dawn*, gan ddenu cyfranwyr ar draws Cymru i ddarlledu'n fyw neu recordio yng Nghaerdydd. Daeth enwau megis Mary Hopkin a Sue Roderick (neu Broderick fel oedd hi ar y pryd) i'r amlwg fel unawdwyr, a grwpiau benywaidd megis Y Diliau i sylw ochr yn ochr ag unawdwyr gwrywaidd fel Meic Stevens, y ddeuawd gymysg Tony ac Aloma a'r grŵp Hogia'r Wyddfa. Er hyn ni osodwyd cyflwynydd benywaidd i gyflwyno'r rhaglen naill ai ar ei phen ei hun nac ochr yn ochr â chyflwynydd gwrywaidd, fel a wnaed ar rai rhalgenni cymharus ar deledu Prydeinig y BBC ac ITV. Yn eu tro bu Ryan Davies a Glan Davies yn gyflwynwyr *Hob y Deri Dando*, a Ronnie Williams, Huw Jones a Mici Plwm yn gyflwynwyr ar *Disc a Dawn*. Cadarnhaodd y dewisiadau a'r dull o gyflwyno y rhaglen bop fel adloniant benywaidd, yn gynnwys i'w edmygu dros dro, ac y disgwyliad i ferched ifainc golli diddordeb ynddo wrth iddynt aeddfedu. O ran y dewis o gyflwynwyr, roedd Ronnie Williams wrth law gan y gweithiai fel cyhoeddwr gyda'r BBC yng Nghaerdydd, ac roedd ganddo eisoes gysylltiad gyda'r Adran Adloniant gan y cyfrannai i'r ddarpariaeth yn achlysurol. Arweiniodd y cysylltiad yn y pen-draw at Merdydd Evans yn ffurfio partneriaeth rhyngddo a Ryan Davies, gan greu y pâr comedi enwocaf yn y Gymraeg. Pan gychwynnodd cyfres gyntaf Ryan a Ronnie, daeth ei gysylltiad gyda'r rhaglen bop wythnosol i ben, a dewiswyd Huw Jones i gyflwyno. Roedd y dewis yn un da, roedd yn fyfyrwr ifanc y gallai'r gynulleidfa darged uniaethu ag ef, ac fel nodwyd eisoes roedd ynghanol bwrlwm ieuentid cyfrwng Cymraeg ar y pryd. Drachefn wrth i'r sîn ddisgo ledaenu ar draws Cymru roedd Mici Plwm yn ddewis cymwys ar gyfer cyfleu ysbryd y cyfnod. Felly

er bod gan Price reolaeth dros pwy a gai ymddangos ar y rhaglen, ni ysgogwyd ymyrraeth ffeminyddol ganddi o ran y dewis o gyflwynwyr, er gwnaed hynny o safbwynt yr artistiaid. Gellid tybio i'r penderfyniad i wahodd artistiaid benywaidd ddeillio o'r awydd i sicrhau amrywiaeth a digon o gynnwys er mwyn darparu 42 o raglenni'r flwyddyn a fuasai'n cadw diddordeb y gwylwyr.

O ystyried gwaith yr arloeswyr yn ei gyfanrwydd felly, gellid dadlau mai dim ond o fewn y ddarpariaeth i fenywod yr ysgogwyd ymyrraeth ffeminyddol ar yr awyr, a hynny gan Marion Griffith Williams a Teleri Bevan. Fe'i gwnaed i raddau llai gan Ruth Price o fewn y genre adloniant ysgafn ar deledu, ymhlith yr artistiaid a ddewiswyd i ymddangos ar raglenni pop a cherddoriaeth ysgafn. Glynodd yr arloeswyr eraill, Nan Davies ac Evelyn Williams at batrymau rhywiaethol o fewn y genres ffeithiol (nodwedd a newyddion cylchgrawn), a'r ddarpariaeth i blant oed cyn ysgol. Yr hyn a aeth â'u bryd fel arloeswyr oedd yr ymdrech i sicrhau darpariaeth ddarlledu safonol yn y Gymraeg o ran cynnwys a defnydd o iaith, a hynny wrth i'r BBC sefydlu endid BBC Cymru Wales ganol y chwedegau. Ymddengys nad oedd sicrhau lle canolog i'r fenyw wrth gynhyrchu rhaglenni wrth galon eu gweledigaeth, ag eithrio Marion Griffith Williams a Teleri Bevan o fewn y ddarpariaeth i fenywod.

Mae modd cymharu'r sefyllfa hon gyda chyfraniad menywod dros eu hawliau yn y Gymru Gymraeg, yn ystod y cyfnod o dan sylw. Yr ymgyrch iaith a hunaniaeth Cymru aeth â'u bryd, yn hytrach na materion ffeminyddol ac ymgyrchoedd y Mudiad Rhyddid Menywod. Roedd byrdwn neges y ffeministiaid Prydeinig ac Americanaidd yn bell o'u profiad, ac roedd yna faterion pwysicach oedd angen eu sylw ar y pryd. Nid oedd y sefyllfa yr un peth i fenywod di-Gymraeg yng Nghymru, ac fe'u gwelwyd hwy yn uniaethu gyda neges y Mudiad Rhyddid Menywod, yn enwedig yn ne Cymru. Er hyn, i'r menywod Cymraeg eu hiaith, arweiniodd y sylweddoliad o'r hawl i un rhyddid at sylweddoliad o ryddid arall, a gwelwyd sawl un o'r ymgyrchwyr iaith yn troi eu sylw at ymgyrchoedd eraill yn hwyrach yn eu bywydau, megis yr ymgyrch heddwch a gwrthwynebu ynni niwcliar.

Yn ogystal â'r awydd i greu darpariaeth ddarlledu o safon trwy gyfrwng y Gymraeg, agwedd arall sy'n nodweddu gwaith yr arloeswyr oedd eu cynneddf i feithrin eraill, sy'n cysylltu gyda'u rhywedd a'r cysyniad o ofalu am eraill. Tystiodd artistiaid,

personél cynhyrchu a chyflwynwyr a ymddangosodd ar *Disc a Dawn*, ynghyd â chyflwynydd ar *Hob y Deri Dando* i gymeriad tawel ond cadarn Price. Pwysleisiwyd ganddynt oll y modd y cawsant eu meithrin ganddi, a'u hannog i ddatblygu yn eu dewis grefft. Parhaodd ei diddordeb ynddynt hefyd y tu hwnt i stiwdio *Disc a Dawn*, ac mae artistiaid a ddaeth yn fyd enwog fel Max Boyce ac Iris Williams wedi cyfeirio at ei dylanwad a'i chefnogaeth trwy gydol eu gyrfaoedd.

Mynegwyd profiad tebyg gan y rheiny a fu'n gweithio gydag Evelyn Williams, fel Sheila Huw Jones a gafodd ei meithrin ganddi, ac a arweiniodd at yrfa iddi fel sgriptwraig a storiwraig ar y ddarpariaeth i blant ifainc. Tystiodd geiriau Williams ei hun i'r modd iddi feithrin y sgriptiwr Huw Lloyd Edwards, a'r broses o'i ddatblygu o fod yn storiwr da i sgriptiwr effeithiol.

Dengys yr enghreifftau hyn awydd i fuddsoddi amser mewn pobl, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial, a ystyriwyd ganddynt hwy fel cymorth gwerthfawr gan unigolyn gwybodus. Yr oedd y buddsoddiad yn un gwerth chweil i'r cynhyrchwyr hefyd wrth gwrs, oherwydd roedd yn fodd o sicrhau ffrwd cyson o gynnwys a fuasai'n arwain at ddeunydd parhaus i gyfresi. Cyfeiriwyd yn y bennod a ganolbwyntiai ar hanes y Chwedegau Hirion (Pennod 1: Rhan 2) at y cysyniad o gyfalaf diwylliannol, a'r modd y cai ei feithrin mewn cymunedau gwledig, yn benodol mewn gweithgareddau oedd yn gysylltiedig gyda'r capeli Anghydfurfiol. Caiff cyfalaf diwylliannol ei gysylltu gyda chaffael gwybodaeth a sgiliau, all arwain at statws uwch mewn cymdeithas, ac mae rhywedd yn allweddol yn y broses o drosglwyddo'r cyfalaf hwn trwy broses o feithrin eraill. Mae modd felly ystyried y cynhyrchwyr benywaidd fel fectorau diwylliannol oedd yn hwyluso cynnydd unigolion eraill, ac yn allweddol yn eu datblygiad. Gellir cymhwyso'r syniad hwn i waith Nan Davies yn ogystal; cyfeiriodd yr ysgrifenyddesau ar *Heddiw* at y modd yr oedd hi'n eu meithrin hwy trwy roi cyfleoedd iddynt, a'r modd yr âi ati i feithrin y newyddiadurwyr gwrywaidd ar y tîm cynhyrchu. Mae'n ddiddorol eu bod yn ystyried y profiad o fynd allan i ffilmio ac i ddod o hyd i westeion fel cyfleoedd i ddatblygu, yn hytrach na chael eu hecsplitio y tu hwnt i ffiniau disgrifiad eu swyddi fel ysgrifenyddesau.

Yr un modd cyfeiriodd Ann Clwyd at anogaeth a chefnogaeth gan y cynhyrchydd Marion Griffith Williams wrth iddi gael syniadau am eitemau a'u recordio ar gyfer *Merched yn Bennaf*, a *Woman's Hour*. Profodd y profiadau hyn yn rhai ffurfiannol iddi gan fagu ei hyder ac arwain ati'n creu gyrfa i'w hun fel newyddiadurwraig a gwleidydd. O ran Teleri Bevan, mae'r dystiolaeth iddi feithrin eraill yn llai amlwg, ond tystiodd hi ei hun i feithrinfa wrth draed Evelyn Williams a Lorraine Davies wrth weithio ar *Awr y Plant* a *Children's Hour* ar gychwyn ei gyrfa.

Mae Bevan yn unigryw ymhlith yr arloeswyr y canolbwyntiwyd arnynt oherwydd dim ond hi a lwyddodd i esgyn i lefel rheoli o fewn BBC Cymru, gan adael y rhengoedd cynhyrchu. Mae'n ddiddorol ystyried bod y menywod dylanwadol hyn yn gynhyrchwyr ar amrediad o genres a darpariaethau o fewn BBC Cymru ar yr un pryd yn ystod y cyfnod o dan sylw, a thystiodd Huw Jones i brofiad tebyg yng nghydestun darlledu masnachol, gan mai dim ond cynhyrchwyr benywaidd y bu ef yn ymwneud â nhw wrth gymryd rhan fel cyflwynydd neu gyfrannydd ar raglenni. Bron na ellid tybio eu bod hwy, o ystyried eu proffesiynoldeb a'u hagwedd benderfynol o sicrhau safon uchel yn asedau rhy werthfawr i'w colli o'r sector cynhyrchu. Cyfannwyd y nodweddion hyn gan eu medrusrwydd o dan bwysau a'u hagwedd famol, felly gellid dadlau ei fod yn fwy buddiol i'w cadw fel cynhyrchwyr yn hytrach na'u dyrchafu i lefel rheoli, a cheisio recriwtio unigolion newydd i ymgymeryd â chynhyrchu rhaglenni.

Er ehangder profiad Nan Davies fel cynhyrchydd a golygydd *Heddiw*, ni chafodd gyfle i gymhwysu'r profiad a'i dealltwriaeth o ddarlledu o fewn swydd weinyddol. Gellid dadlau i Evelyn Williams brofi yr un diffyg cyfle oherwydd fe'i cedwyd gan ystod ei phrofiad a'i diwydrwydd yn yr un rôl o fewn y ddarpariaeth i raglenni plant trwy gydol ei gyrfa. Meddai Ruth Price ar ddealltwriaeth drylwyr o'r genre adloniant ysgafn a gwerthfawrogai pa mor hanfodol ydoedd (fel y genre chwaraeon) i oroesiad darlledwr cyhoeddus; er hyn, nid oes dystiolaeth i BBC Cymru fanteisio ar ei mewnwelediad ar lefel rheoli. Dewisodd Marion Griffith Williams adael ei swydd gynhyrchu a chanolbwyntio ar ysgrifennu a sgriptio, ac felly nid oes modd ystyried ei llwybr gyrfa hi yn yr un modd â'r gweddill. Bu i Bevan ymgeisio sawl gwaith am swyddi o fewn darpariaethau eraill er mwyn ehangu ei phrofiad a dringo'r ysgol yrfaol, ond yn ofer. Cynigiwyd iddi dri mis o brofiad ar *Woman's Hour* yn Llundain,

ond gwrthodwyd y cyfle iddi; ymgeisiodd am swydd fel cyfarwyddwr teledu ar awgrym cydweithiwr gwrywaidd ond ni fu'n llwyddiannus, ac wrth geisio cael troed yn nrws cynhyrchu teledu fel Pennaeth Rhaglenni Plant fe'i gwrthodwyd drachefn. Bodlonodd ar gyfyngu ei hun i fyd radio a bu hynny o fantais i'r cyfrwng yng Nghymru ac iddi hithau yn y pen-draw. Fel cynhyrchydd radio ymgorfforodd y datblygiadau diweddaraf yn yr arlwy, megis y dechneg ffôn, y *phone-in*, ar *Merched yn Bennaf*, bellach roedd y ddarpariaeth Gymraeg yn rhoi'r argraff o agosrwydd at y gynulleidfa gan adael iddynt ymddangos ar raglenni o glydwch eu cartrefi. Aeth ati hefyd i arbrofi gyda dyfais y *back-pack* er mwyn bywiogi'r ddarpariaeth o'r prif ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru, sef Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, y Sioe Frenhinol Amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Trwy alluogi cyflwynwyr i grwydro'r meysydd perthnasol ynghanol y bwrlwm a sgysio gyda phobl, daeth awyrgylch bywiog y digwyddiadau awyr agored yn fyw i wrandawyr.

Arweiniodd dealltwriaeth Bevan o'r cyfrwng ati'n cael ei gwahodd i fod yn aelod o'r Grŵp Astudiaeth Radio a sefydlwyd o fewn BBC Cymru ar ddiwedd y chwedegau, i archwilio'r ddarpariaeth radio. Ochr yn ochr ag aelodau o staff blaen-llaw gwrywaidd eraill, aeth ati i fraenaru'r tir ar gyfer dau wasanaeth radio yng Nghymru, a chreu gweledigaeth ar gyfer yr arlwy radio oedd wedi ei esgeluso braidd yn sgîl y sylw a fynnwyd gan ddatblygiad teledu. Ffrwyth y gwaith hwn oedd sefydlu BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, ac ymddangosiad y rhaglen *Penigamp* ar yr awyr, y cyfeiriwyd ati eisoes. Er i unigolion fel Nan Davies ac Evelyn Williams gael cyfle i gyflwyno eu gwaith i Gyngor Darlledu Cymru, ac i lwyddiannau llenyddol Griffith Williams gael eu canmol, dyma'r unig dystiolaeth y daethpwyd ar ei draws lle cafodd un o'r arloeswyr benywaidd gyfle i effeithio ar bolisi yn hytrach na darparu cynnwys ar yr awyr.

Wedi sawl siom yn ystod ei gyrfa, Bevan a ddewiswyd fel golygydd cyntaf BBC Radio Wales er i hynny beri syndod i ddwy garfan, credai rhai nad oedd modd i Gymraes Gymraeg ddeall anghenion y gynulleidfa ddi-Gymraeg yng Nghymru, credai eraill iddi droi ei chefn ar yr ymdrech hir i sicrhau darlledu yn y Gymraeg. Er yr amheuon, aeth Bevan ati i wneud newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth a achosodd dipyn o gynnwrf ar y pryd, ond tystiodd y ffigurau gwrando i lwyddiant ei



gweledigaeth. Magodd hyder yn ei gallu, ac fe'i hapwyntiwyd yn Rheolwr Cymru dros dro yn 1990, y fenyw gyntaf i arwain y BBC yng Nghymru. Mae'n ddiddorol ystyried pam y llwyddodd Bevan i esgyn yn y modd hwn, yn wahanol i'r arloeswyr eraill. Yn ddiau roedd ei gallu, ei phenderfyniad yn ogystal â'i phrofiad yn bwysig, ond roedd yna newid ar droed yn rhengoedd y BBC. Roedd galwadau y Mudiad Rhyddid Menywod am welliant mewn cynrychiolaeth menywod ar y sgrîn ac yr awyr yn dechrau cael eu clywed, ac roedd cynnydd yn aelodau benywaidd yr undebau darlledu yn galw am well cynrychiolaeth benywaidd ar dimau cynhyrchu y tu hwnt i'r rolau rhywiaethol traddodiadol megis ysgrifenyddesau a chynorthwy-wyr cynhyrchu. Sylweddolwyd hefyd bod llawer o fenywod profiadol a gychwynnodd ar eu gyrfaedd yn ystod y tridegau a'r pedwardegau yn dod at benllanw eu gyrfaedd, ac at oedran ymddeol, heb fod yna olynwyr benywaidd yn barod i gymeryd yr awenau.

Bu i bolisiau'r BBC effeithio ar yrfa un cynhyrchydd benywaidd yn benodol sef Lorraine Davies. Fe'i penodwyd i ddarpariaeth *Awr y Plant* a *Children's Hour* yn ystod y cyfnod diwedd yr Ail Ryfel Byd, fel llawer o weithwyr benywaidd y Gorfforaeth. Er hyn cafodd barhau yn ei swydd wedi'r rhyfel, efallai am ei bod yn weddw, wedi iddi gollu ei gŵr yn ystod un o'r cyrchoedd awyr ar ddinas Efrog. Canolbwyntiodd ei hymdrechion ar gynhyrchu dramâu, a phan ddaeth cyfle iddi ymgeisio am swydd Pennaeth yr Adran Ddrama yn ystod y pumdegau, hi oedd y dewis amlwg. Yng nghanolfan y BBC yng Nghaerdydd cyfarfu â Hywel Davies a phriodwyd y ddau, ond gan ei fod ef wedi ei ddirchafu yn bennaeth rhaglenni, nid oedd hawl gan ei wraig i ennill dyrchafiad. Roedd y Gwaharddiad Priodas wedi ei ddiddymu o fewn y BBC, ac roedd hawl gan fenyw i barhau yn ei swydd hyd yn oed os oedd yn briod gydag aelod o staff ond roedd yr uniad priodasol yn parhau i atal y wraig rhag dyrchafiad. Er i reolwyr y BBC yng Nghaerdydd a'r Cyngor Darlledu bledio ei hachos, mynnodd y rheolwyr yn Llundain lynu at y polisi. Yn y pen-draw penodwyd Emyr Humphreys i'r swydd a phenderfynodd Davies adael y BBC. Collwyd cynhyrchydd profiadol, a chollwyd cyfle i osod menyw mewn safle dylanwadol o fewn y ddarpariaeth ffuglen. Bu farw Hywel Davies yn sydyn yn 1965 ac yntau ond yn 46 oed, digwyddiad a barodd gryn sioc i'w gydweithwyr yn y BBC yng Nghymru, oherwydd tybiwyd mai ef oedd yr olynnydd naturiol ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol BBC Cymru. Cododd cyfle i'w weddw ddychwelyd at

ddarlledu, estynnwyd gwahoddiad iddi gadeirio'r Grŵp Astudiaeth Radio, cynigwyd swydd iddi fel cynhyrchydd drama a hynny tan ei hymddeoliad yn 1976, a bu iddi hefyd ddychwelyd o'i hymddeoliad am gyfnod er mwyn arwain yr Adran Gyflwyno. Yn dilyn marwolaeth drasig ei gŵr cyntaf, llwyddodd i adfer ei hiechyd er mwyn ymgymryd â swydd fel athrawes ac yna fel cynhyrchydd o fewn y ddarpariaeth i blant gyda'r BBC. Ond gwrthodwyd y cyfle iddi ddringo'r ysgol yrfaol a chynhyrchu drama y tu hwnt i'r ddarpariaeth i blant, am iddi ganfod hapusrwydd ail briodas gyda Hywel Davies. Yn ddigon eirionig bu iddi wireddu ei breuddwyd yrfaol wedi iddi ei golli yntau.

O ystyried amgylchiadau personol Lorraine Davies, mae'n werth crybwyll sefyllfa bersonol yr arloeswyr eraill: roedd Nan Davies ac Evelyn Williams yn ddi-briod, ond bu i Ruth Price briodi yn hwyrach yn ystod ei bywyd. Roedd Marion Griffith Williams yn briod â'r newyddiadurwr Griffith Williams, ond yn ddi-blant, fel ag yr oedd Lorraine a Hywel Davies. Chwalodd priodas Teleri Bevan a'i chydweithiwr John Bevan, ond roedd ganddynt un plentyn a bu i'r BBC er mawr syndod i Bevan hwyluso trefn ei diwrnod gwaith er mwyn gweddu gyda'i threfniadau personol. Ni wyddys union amgylchiadau personol yr arloeswyr, ond dengys ymchwil bod menywod â phlant wedi ei gweld yn anodd dros y blynyddoedd i gyfuno gyrfa ddarlledu gyda magu teulu, mae tuedd felly iddynt weithio o fewn arlwy rhaglenni stiwdio seiliedig gydag oriau sefydlog yn hytrach na rhaglenni sy'n gofyn am ffilmio ar leoliad ac oriau anodd eu rhag-weld. Dyna un rheswm eu bod i'w canfod mewn rhaglenni ysgafn a *day-time*. Y dewis arall yw gadael y proffesiwn ac mae'r patrwm hynny yn amlygu ei hun pan fo menywod y tu hwnt i'w dauddegau a'u cyfrifoldebau gofal yn cynyddu. Mae camp Bevan felly i'w edmygu: llwyddodd i gyfuno ei rôl fel mam gyda gyrfa ddarlledu ddisglair.

Heddiw, yn 2022 mae amodau cyflogaeth wedi newid er gwell er hwyluso cyfleoedd i fenywod fedru cyfuno gyrfa a magu teulu, megis trefniadau gofal plant yn cael eu gosod mewn gweithloedd a chyfle i weithio'n rhan-amser neu rannu swydd. Er hyn pery'r bwloch rhywedd a daeth ymddygiad yn y gweithle o dan y chwyddwydr fel y bu i'r traethawd hyn amlygu yn y cyflwyniad.

Ers troad yr ugeinfed ganrif, mae'r BBC yng Nghymru wedi gweld menywod yn dringo'r ysgol yrfaol ym maes cynhyrchu a gweinyddu, sy'n awgrymu gwell strwythuraeth cyflogaeth a chyfleoedd am ddyrchafiad. Gwelwyd Menna Richards yn Rheolwr Cyffredinol BBC Cymru rhwng 2000 a 2011.<sup>1</sup> Ymunodd Sian Gwynedd â'r BBC yn 1994 fel ymchwilydd gyda newyddion BBC Radio Cymru, fe'i penodwyd yn Olygydd BBC Radio Cymru yn 2006, ac wedi pedair blynedd wrth y llyw fe'i dyrchafwyd yn Bennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Bellach mae'n Bennaeth Pobl, Diwylliant a Phartneriaethau'r Gorfforaeth yng Nghymru.<sup>2</sup> Menyw arall a fu'n Olygydd BBC Radio Cymru (2013–2018) oedd Betsan Powys, sy'n parhau yn llais a wyneb cyfarwydd ar raglenni'r BBC.<sup>3</sup> Gyda'r BBC y cychwynnodd Rhuanedd Richards ei gyrfa ddarlledu, bu'n gweithio ym maes gwleidyddiaeth cyn dychwelyd fel golygydd BBC Radio Cymru a gwefan BBC Cymru Fyw yn 2018 a bellach mae'n Gyfarwyddwr BBC Cymru.<sup>4</sup>

Mae'r traethawd hwn wedi amlygu trywydd gyrfa ystod o arloeswyr benywaidd, gyda Nan Davies, Evelyn Williams, Ruth Price, Marion Griffith Williams a Teleri Bevan yn destun y prif sylw. Crybwyllwyd gyrfaoedd Myfanwy Howell a Mai Jones a fu'n bwysig yn natblygiad darlledu o Gymru, trafodwyd ychydig hefyd ar waith Lorraine Davies, ac mae'n fwiad gan yr awdur yn y dyfodol i archwilio ei chyfraniad o fewn y ddarpariaeth ddrama i blant a nodweddodd ei gyrfa gynnar a'i gwaith ar y ddarpariaeth ddrama prif ffrwd yn ddiweddarach yn ei hanes. Ymhellach, mae angen codi'r clawr ar gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus a masnachol a ddarparwyd gan ddeiliaid y drwydded fasnachol yng Nghymru. Yng nghwrs yr ymchwil testunol a'r cyfweliadau gydag unigolion ar gyfer y traethawd hwn, daeth enwau nifer o gynhyrchwyr benywaidd megis Dorothy Williams, Eleanor Mathias, Jean Parry Jones a Marged Elin Griffith i'r amlwg, ond ni wyddys fawr ddim amdanynt. Yr un modd ag ysgolheictod fu'n canolbwyntio ar hanes y BBC yng Nghymru, rhoddwyd blaenoriaeth, yn ddigon dealladwy i ddatblygiad sefydliadol y

---

<sup>1</sup> BBC Newyddion, Pennaeth BBC Cymru yn Gadael, 10 Tachwedd 2010, <[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_9170000/newsid\\_9174200/9174292.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_9170000/newsid_9174200/9174292.stm)> [cyrchwyd 6 Mai 2023].

<sup>2</sup> BBC Cymru Wales, Sian Gwynedd: Pennaeth Pobl, Diwylliant a Phartneriaethau, <<https://www.bbc.com/aboutthebbc/cymruwales/about/how-we-work/sian-gwynedd/cy>> [cyrchwyd 6 Mai 2023].

<sup>3</sup> BBC Cymru Fyw, Betsan Powys yn gadael fel golygydd Radio Cymru, 12 Mehefin 2018, <<https://www.bbc.com/aboutthebbc/cymruwales/about/how-we-work/sian-gwynedd/cy>>

<sup>4</sup> BBC Cymru Wales, Rhuanedd Richards: Cyfarwyddwr, BBC Cymru, <<https://www.bbc.com/aboutthebbc/cymruwales/about/how-we-work/rhuanedd-richards/cy>> [cyrchwyd 6 Mai 2023].

darlledwyr amrywiol, ac ymhlyg yn hynny y dynion a fu'n gyfrifol am eu gweinyddu yn hytrach na'r rheiny fu'n gyfrifol am gynhyrchu rhaglenni.

O ddadansoddi cynyrchiadau'r pum arloeswraig o fewn y BBC y penderfynwyd canolbwyntio arnynt, daeth cyfraniad cyflwynwyr, sgriptwyr ac artistiaid benywaidd eraill i'r amlwg, yn eu plith rai a gafodd eu meithrin gan yr arloeswyr. Bu i Evelyn Williams feithrin Sheila Huw Jones yn y ddarpariaeth i blant, a Marion Griffith Williams feithrin Ann Clwyd fel gohebydd yn y ddarpariaeth i fenywod. O fewn yr arlwy newyddion cylchgrawn *Heddiw*, daeth cyfraniad Mary Middleton i'r amlwg fel gohebydd benywaidd, nodwedd brin mewn deunydd ffeithiol yn ystod y cyfnod o dan sylw. Gwelwyd y cyflwynwyr benywaidd cyntaf ar y sgrîn sef Beti George ac Elinor Patchell a hwyluswyd presenoldeb y tair gan ddynion, oedd wrth y llyw ar y pryd, sef John Roberts Williams ac Arwel Ellis Owen. Nid oedd gosod menywod yn ganolog i'r broses gynhyrchu fel petai'n rhan o ymwybyddiaeth Nan Davies, ac er i Ruth Price osod artistiaid benywaidd yn stiwdio *Disc a Dawn*, ni roddwyd cyflwynydd benywaidd ar y sgrîn. Ar y cyfrwng radio sicrhawyd ymyrraeth ffeminyddol o fewn arlwy BBC Cymru gan Marion Griffith Williams a Teleri Bevan, a hynny trwy gyfrwng y ddarpariaeth i fenywod, *Merched yn Bennaf*. Trosglwyddwyd yr un weledigaeth gan Bevan i raglenni prif ffrwd yr oriau brig, gan osod panelwyr benywaidd, sef Cassie Davies a Marie James, ar y rhaglen gwis *Penigamp* a ddarlledwyd amser cinio.

Daeth i'r amlwg felly, nid peri ymyrraeth ffeminyddol oedd prif nod mwyafrif yr arloeswyr benywaidd. Yr hyn oedd yn flaen-llaw yn eu meddyliau oedd sefydlu gwasanaeth darlledu safonol yn y Gymraeg, ar y sgrîn ac ar y tonfeddi radio yng Nghymru. Digwyddodd i'w diddordebau a'u profiad eu harwain i arbenigo mewn genres a darpariaethau gwahanol, ac o'r herwydd bendithiwyd rheolwyr y BBC yng Nghymru gan unigolion cydwybodol a phroffesiynol a sicrhodd bod sylfaen gadarn yn cael ei gosod ar gyfer darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y sylfaen honno yr adeiladwyd y sianel Gymraeg, S4C a'r gwasanaeth radio cyfrwng Cymraeg, BBC Radio Cymru.

## **Atodiad**

### **Ffurflenni moeseg a chyfweliadau**

#### **Ffurflen wybodaeth a chanllawiau GDPR**

**Traethawd PhD:** Dadansoddiad o gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y chwedegau hirion

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Cyn i chi benderfynu cymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam y mae'r ymchwil yn cael ei wneud a'r hyn a fydd ynghlwm ag ef. Darllenwch yr wybodaeth ganlynol yn ofalus.

#### **Beth yw diben yr ymchwil?**

Rydym yn gwneud ymchwil i gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y chwedegau hirion (1958—1974). Y bwriad yw deall y gyfundrefn yr oedd menywod a gai eu cyflogi gan y Gorfforaeth yn rhan ohono yn ystod cyfnod cymdeithasol diddorol y chwedegau, a beth oedd natur y cysylltiad rhwng cynhyrchwyr benywaidd a'r deunydd ar sgrin. Bydd eich cyfranogiad yn yr astudiaeth hon yn para tua 1 awr (cyfweliad).

#### **Pwy sy'n gyfrifol am yr ymchwil?**

Cesglir y data gan Non Vaughan Williams, Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu o dan oruchwyliaeth Dr Gwenno Ffrancon, Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe. Cymeradwywyd yr ymchwil gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

#### **Beth fydd yn digwydd os ydw i'n cytuno i gymryd rhan?**

Byddwn yn gofyn i chi ateb cwestiynau mewn cyfweliad wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn gyda'r fyfyrwraig, Non Vaughan Williams, am eich profiad o weithio i'r BBC. Byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gefndir a phersonol, megis eich oedran, sefyllfa deuluol a lefel addysgol.

#### **Oes unrhyw risgiau ynghlwm wrth gymryd rhan?**

Mae'r ymchwil wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Ni nodwyd unrhyw risgiau arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan.

#### **Diogelu Data a Chyfrinachedd**

Caiff eich data ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Byddwn yn ymdrin â'r holl wybodaeth a gesglir amdanoch mewn modd hollol gyfrinachol. Ni fydd neb ond yr ymchwilydd/tîm ymchwil yn cael gweld eich data.

Caiff yr holl ddata electronig ei storio ar ffeil gyfrifiadurol a ddiogelir gan gyfrinair ar gyfrifiadur Non Vaughan Williams. Caiff yr holl gofnodion papur eu cadw dan glo mewn cabinet ffeilio yn swyddfa'r fyfyrwraig Non Vaughan Williams fel aelod o

staff Prifysgol Abertawe. Cedwir manylion eich cydsyniad ar wahân i'ch atebion i leihau risg rhag ofn y bydd digwyddiad torri diogelwch data.

Bydd y goruchwyliwr yn gyfrifol am dministrio'r data a chaiff yr holl ddata a gasglwyd, y gellid ei ddefnyddio i adnabod unigolyn, ei dministrio ar neu cyn 31 Gorffennaf 2026 (sef cyfnod o bum mlynedd).

### **Trosglwyddo Data'n Rhyngwladol**

Nid yw hyn yn berthnasol.

### **Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth byddaf yn ei darparu?**

Bydd dadansoddiad o'r wybodaeth yn rhan o draethawd PhD, a'r bwriad yw addasu'r traethawd i'w gyhoeddi fel llyfr yn y dyfodol.

### **Ydy cymryd rhan yn wirfoddol a beth fydd yn digwydd os ydw i'n penderfynu tynnu'n ôl yn ddiweddarach?**

Rydych yn cymryd rhan o'ch gwirfodd yn llwyr - does dim rhaid i chi gymryd rhan os nad ydych chi am wneud hynny. Os penderfynwch gymryd rhan, ond os penderfynwch dynnu'n ôl yn ddiweddarach, cewch dynnu'n ôl unrhyw bryd, heb roi rheswm a heb gosb.

### **Hysbysiad Preifatrwydd Diogelwch Data**

Prifysgol Abertawe fydd rheolydd data'r prosiect hwn. Mae Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn goruchwylio gweithgareddau'r Brifysgol sy'n cynnwys prosesu data personol a gellir cysylltu â'r unigolyn hwnnw yn Swyddfa'r Is-ganghellor: [dataprotection@abertawe.ac.uk](mailto:dataprotection@abertawe.ac.uk).

Caiff eich data personol ei brosesu at y dibenion a nodir yn y daflen wybodaeth hon. Yn ôl gweithdrefnau moesegol safonol, gofynnir i chi ddarparu'ch cydsyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon drwy lenwi'r ffurflen gydsynio a ddarparwyd i chi.

Byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol i brosesu'ch data personol - bod angen ei brosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd. Mae'r cyfiawnhad hwn ar sail budd y cyhoedd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe. Byddwn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol i brosesu categorïau arbennig o ddata - bod angen prosesu'r data at ddibenion archifo, er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol.

### **Am ba gyfnod y caiff eich gwybodaeth ei chadw?**

Byddwn yn cadw unrhyw ddata personol a chategorïau arbennig o ddata am bum mlynedd.

### **Penderfynu a phroffilio awtomataidd**

Nid yw hyn yn berthnasol.

## **Pa hawliau sydd gennych?**

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad at eich gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol am ragor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)  
Swyddfa'r Is-ganghellor  
Prifysgol Abertawe  
Parc Singleton  
Abertawe  
SA2 8PP  
E-bost: [dataprotection@abertawe.ac.uk](mailto:dataprotection@abertawe.ac.uk)

## **Sut i gwyno**

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae'ch data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn parhau'n anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,  
Wycliffe House,  
Water Lane,  
Wilmslow,  
Swydd Gaer,  
SK9 5AF  
[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

## **Beth os oes gennyf gwestiynau eraill?**

Os oes rhagor o gwestiynau gennych ynglŷn â'r astudiaeth hon, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Non Vaughan Williams  
Adran Cyfryngau a Chyfathrebu  
Prifysgol Abertawe  
[REDACTED]

Dr Gwenno Ffrancon  
Academi Hywel Teifi  
Prifysgol Abertawe  
[REDACTED]

## Ffurflen Ganiatâd Cyfranogwr

Teitl y prosiect: Dadansoddiad o gyfraniad menywod i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y chwedegau hirion (1958—1974).

Enw a Chyswllt y prif ymchwilydd a'r goruchwyliwr: Non Vaughan Williams:

/ Dr Gwenno Ffrancon:

	Blaenlyt hren ( <i>initials</i> ) y Cyfranogwr
1. Rwyf i (y cyfranogwr) yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth ar gyfer yr astudiaeth uchod sydd ynghlwm â'r ffurflen hon.	
2. Rwy'n deall mai gwirfoddol yw fy nghyfraniad a fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb reswm.	
3. Rwy'n deall beth fydd fy rôl yn yr ymchwil hon a llwyddwyd i ateb fy holl gwestiynau yn foddhaol.	
4. Deallaf fy mod yn rhydd i ofyn unrhyw gwestiwn ar unrhyw adeg cyn ac yn ystod yr astudiaeth.	
5. Deallaf y bydd y wybodaeth a roddaf yn cael ei diogelu.	
6. <b>Naill ai:</b> Rwy'n fodlon i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio (yn ddi-enw) mewn papurau academiaidd a chynnyrch ymchwil arall ffurfiol (e.e. llyfr)	
7. <b>Neu:</b> Rwy'n fodlon i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio (gan fy enwi) mewn papurau academiaidd a chynnyrch ymchwil arall ffurfiol (e.e. llyfr)	
8. Rwy'n fodlon i fy ngwybodaeth gael ei recordio (e.e. ar zoom).	
9. Cefais gopi o'r Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr.	
10. Rwy'n fodlon i'r ymchwilwyr brosesu fy nata personol yn unol ag amcanion yr astudiaeth a ddisgrifir yn y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr.	



Diolch am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Gwerthfawrogir eich cymorth yn fawr iawn.

<hr/> <b>Enw'r cyfranogwr</b>	<hr/> <b>Llofnod</b>	<hr/> <b>Dyddiad</b>
<hr/> <b>Enw'r ymchwilydd</b>	<hr/> <b>Llofnod</b>	<hr/> <b>Dyddiad</b>

Mae'r astudiaeth hon yn cael ei chynnal gan Brifysgol Abertawe, Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu

Ar ôl cwblhau: Copi gwreiddiol i'r cyfranogwr, un copi i'w gadw gan yr ymchwilydd

## **Cyfweliadau**

**William Aaron: Gorffennaf 2016,\* Medi 2019.**

Teleri Bevan: Ebrill 2014\*

**Max Boyce: Hydref 2021 \***

Elizabeth Cameron: Mai 2016 \*

**Ann Clwyd: Mawrth 2022**

**Glan Davies: Mawrth 2022 \*\***

Gwyn Davies: Mai 2016 \*

**Endaf Emlyn: Ionawr 2022**

**R. Alun Evans: Ionawr 2020.**

**Beti George: Medi 2019**

**Hywel Gwynfryn: Medi 2019 a Mawrth 2022**

**Rhiannon Ifans: Ionawr 2020**

**Huw Jones: Tachwedd 2021**

**John Watkin Jones: Mawrth 2022**

Sheila Huw Jones: Medi 2022\*\*

Mair Lloyd: Mai 2018 \*

**Olive Tarr (nee Michael): Medi 2019**

**Arwel Ellis Owen: Mai 2021**

**Elinor Patchell: Ionawr 2021**

**Gwenyth Petty: Medi 2022**

**Mici Plwm: Ebrill 2022**

**Sian Phillips: Medi 2021**

**Ruth Parry: Ebrill 2021**

**Chris Somerville: Medi 2022**

\* y rheiny a gafodd eu cyfweld cyn i'r gyfundrefn foeseg gael ei sefydlu gan Brifysgol Abertawe;

\*\*y rheiny a gafodd eu cyfweld wedi i'r gyfundrefn foeseg gan ei sefydlu, ond ni recordiwyd mohonynt, felly gwnaed nodiadau gan yr awdur.

Ar y tudalennau canlynol gwelir copïau o Ffurflenni Caniatâd Cyfranogwyr a arwyddwyd gan y rheiny a nodir mewn ffont bold yn y rhestr uchod.

Signed participant consent forms p 288-312 removed  
to protect potentially sensitive information.

LRST 18/07/2023

## **Cylchgronau a Phapurau Newydd**

Barn

The Radio Times

The Western Mail

Y Cymro

## **Casgliadau ac Archif**

Archif BBC Cymru Wales,

Archif BBC Cymru Wales: Archif Ddigidol Ar-lein

Archifdy Gwynedd, Prifysgol Bangor

Archifau Morgannwg

BBC Written Archive Centre, Caversham

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Marion Eames, M4/2

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Yr Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol

## **Gwefannau**

BBC 100 <<https://bbc.com/historyofthebbc>>

BBC Cymru Fyw <<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw>>

BBC Genome <<https://genome.ch.bbc.co.uk>>

BBC Wales News <<https://www.bbc.co.uk/news/wales>>

IMDB <<https://www.imdb.com>>

Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru>>

## Llyfryddiaeth

Aaron, Jane, *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane

Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

ACTT, *Patterns of Discrimination Against Women in the Film and Television Industries*,

(Llundain: ACTT, 1975)

ADAPT, How Television Used to be Made: Researching the history of television production technology, *Television Producers' Assistants: Job Description*,

<<https://www.adapttvhistory.org.uk/stories/objects/television-producers-assistants-job-description/>> [cyrchwyd 13 Gorffennaf 2021].

Andrews, Maggie, *Domesticating the Airwaves: Broadcasting, Domesticity and Femininity*

(Llundain: Bloomsbury Publishing, 2013).

Ann Francis Evans, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, *Tydfor yr Hiwmor a'r Hwyl* (2020),

<<https://blog.llyfrgell.cymru/tydfor-jones/>> [cyrchwyd 26 Awst 2022].

Anthony Good, *Oh Boy! (ITV, 1958-59)*,

<<http://www.screenonline.org.uk/tv/id/561801/index.html>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]. Symudodd

Archif Llyfrgell Genedlaethol Cymru, GB 0210 CYFANS, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, cyfansoddiadau a beirniadaethau (1887-2019), Ffeil 1939/18ff  
<<https://archives.library.wales/index.php/jennie-thomas-ar-cyfrol-o-straeon-i-blant-dan-9-oed-addas-iw-darlledu-yn-awr-y-plant-dyfarnwyd-hanner>> [cyrchwyd 7 Medi 2022].

Arts UK, <[https://artuk.org/discover/artists/griffiths-david-b-1939/view\\_as/grid/search/artists:griffiths-david-b1939/page/1](https://artuk.org/discover/artists/griffiths-david-b-1939/view_as/grid/search/artists:griffiths-david-b1939/page/1)> [cyrchwyd 10 Mawrth 2022].

Aull-Davies, Charlotte, 'Women, nationalism and feminism' yn Aaron, Jane, *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt. 242-255

Aust, Rowan, 'A debt of gratitude? The inhibition of women's careers in British television production: early reporting from The Currency of Gratitude project for the Screen Industry Growth Network', papur heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd yn y gynhadledd 'Doing Women's TV and Film History Network' (Prifysgol Maynooth, 10-11 Gorffennaf 2021)

Baehr, Helen a Anne Gray, *Turning it on: A reader in Women and Media* (Llundain: Arnold, 1996)

Bakewell, Joan, *The centre of the bed: an autobiography* (Llundain: Hodder and Stoughton, 2003).

BBC Cymru: Newyddion, *Dathlu cyfraniad cantores o Fôn* (24 Mai 2004)

<[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_3750000/newsid\\_3756900/3756933.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3750000/newsid_3756900/3756933.stm)>

[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_3750000/newsid\\_3756900/3756933.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3750000/newsid_3756900/3756933.stm)

[cyrchwyd 28 Mawrth 2022].

BBC Radio Cymru, *Beti a'i Phobol*, 19 Mai 2005, podlediad, BBC Sounds,

<<https://www.bbc.co.uk/programmes/p02rzvyw>> [cyrchwyd 21 Ionawr 2021].

BBC Radio Cymru, *Beti a'i Phobl*, 7 Mai 2015,

<<https://www.bbc.co.uk/programmes/b05t3gnf>> [cyrchwyd 7 Mai 2020]

BBC Radio Cymru, *Cofio: Dyma 1967: Y penawdau, y pethau, y bobl*,

<[https://www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru/safle/cofio/pages/1967\\_fffeithiau.shtml](https://www.bbc.co.uk/cymru/radiocymru/safle/cofio/pages/1967_fffeithiau.shtml)>

[cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

BBC, *An Audience Research Report: Luxembourg Listening*, Mawrth 1963. (LR/63/838),

<[file:///Users/emanon/Downloads/r9-9-27---luxembourg-listening---march-](file:///Users/emanon/Downloads/r9-9-27---luxembourg-listening---march-1963.pdf)

[1963.pdf](file:///Users/emanon/Downloads/r9-9-27---luxembourg-listening---march-1963.pdf)> [Cyrchwyd 6 Mawrth 2022].

BBC, *BBC Handbook 1959* (Llundain: BBC, 1958).



- Beddoe, Deidre, *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-Century Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)
- Beattie, Keith, *Humphrey Jennings* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2010);
- Bertrand, Ina a Peter Hughes, *Media Research Methods: Audiences, Institutions, Texts* (Llundain: Palgrave, 2018)
- Bevan, Alun Wyn a Glan Davies, *Glan Davies: O'r Aman i'r Ystwyth*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2021).
- Bevan, Teleri, *Years of my Time: Glimpses from a Cardiganshire Upbringing* (Llandysul: Gomer, 1997)
- , *Years on Air* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2004)
- Board of Education, Wales. *Welsh in Education and Life* (Llundain: H.M. Stationery off, 1927), t. 164.
- Born, Georgina, *Uncertain Vision: Birt, Dyke and the Reinvention of the BBC*, (Llundain: Secker & Warberg, 2005).
- Briggs, Asa, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Volume 1: The Birth of Broadcasting, 1896-1927*, (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1961).
- , *The History of Broadcasting in the United Kingdom, Vol. IV: Sound and Vision* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1995)

——, *The History of Broadcasting in the United Kingdom: Competition*, Cyfrol V, t. 393  
(Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1970)

Brown, Brian J. a Sally Barker, *Mothers, Wives and Changing Lives*, (Caerdydd: Gwasg  
Prifysgol Cymru, 2011)

Brunsdon, Charlotte, 'Crossroads: Notes on a Soap Opera' yn *Screen* 22 (1981), 32-7

——, 'Identity in feminist television criticism', *Media, Culture and Society*, 15 (1993),  
309-20

——, 'The role of soap opera in the development of feminist television scholarship', yn *To  
Be Continued...Soap Operas Around the World*, gol. gan Robert C. Allen (Llundain:  
Routledge, 1995), tt. 49-65

——, *The Feminist, the Housewife and the Soap Opera* (Rhydychen: Oxford University  
Press, 2000)

Bryman, Alan ac eraill, *Bryman's Social Research Methods* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol  
Rhydychen, 2021)

Burman, Erica ac Ian Parker, *Discourse analytic research: repertoires and reading of texts in  
action* (Llundain: Routledge, 1993)

Burns, Tom, *The BBC: Public Institution and Private World* (London; Basingstoke: The  
Macmillan Press, 1977)

Busby, Linda Jane, 'Defining the Sex-Role Standard in Network Children's Programs' yn *Journalism Quarterly*, 51.4 (Gaeaf 1974), 690-6

Byerly, Carolyn M. 'Women and the concentration of media ownership' yn *Seeking Equity for Women in Journalism and Mass Communication Education*, golygwyd gan Raomna R. Rush, Carol E. Oukrop, Pamela J. Creedon (Mahwah: NJ: Lawrence Erlbaum Associates, 2004), tt. 245-73

Byerly, Carolyn M. a Karen Ross, *Women and Media: A Critical Introduction* (Rhydychen: Blackwell Publishing, 2006)

Cain, John, *The BBC: 70 years of Broadcasting* (Llundain: BBC, 1992), t. 63.

Canolfan Hanes Uwchgwyrfa, *Cof Cwmwd: Huw Lloyd Edwards*,

Cantor, Muriel G., 'Women and Public Broadcasting' yn *Journal of Communication*, 27.1 (Gaeaf 1976), 14-9

Carter, Bill, 'CBS turns out 'Guiding Light'', *New York Times*, 1 Ebrill 2009.

Ceulemans, Mieke a Guido Fauconnier, *Mass Media: The Image, Role, and Social Conditions of Women: A collection and analysis of research materials* (Paris: UNESCO, 1979)

Chapman, Robert, *Selling the sixties: the pirates and pop music radio* (Llundain; Efrog Newydd: Routledge, 1992).

———, *Saints and Avengers: Adventure Series of the 1960s* (Llundain: Efrog (Llundain: Efrog Newydd: I.B.Tauris, 2002)

Collis, Marion, 'Marital conflict and men's leisure: how women negotiate male power in a small mining community', *Journal of Sociology*, 3 (1999), 60–76  
<<https://doi.org/10.1177/144078339903500104>>

Connery, Christopher a Hortense J. Spillers, 'Introduction: The Still Vacillating Equilibrium of the World', *boundary 2*, 36.1 (2009), 1–5

Cooke, Lowri Haf, *Pobol y Cwm: Pen-blwydd Hapus yn 40* (Llandysul: Gomer, 2014)

*Cool for Cats*, (ITV, 1956-61), IMDB, <<https://www.imdb.com/title/tt3884470/>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

Creeber, Glen, golygydd, *The Television Genre Book*, gol. gan Glen Creeber, 2il rifyn (Llundain: BFI, 2008)

Christopher, Robert J, Frances Hubbard Flaherty and Robert Joseph Flaherty, *Robert and Frances Flaherty a Documentary Life, 1883-1922* (Montreal: McGill-Queen's University Press, 2005)

Crisell, Andrew, *Understanding Radio* (Llundain: Routledge, 1994).

——, *An Introductory History of Broadcasting* (Hoboken: Taylor and Francis, 2012).

Dafydd, Myrddin ap, (golygydd), *Cyfrol Deyrnged Marie James* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1987)

Daniel, Nia Mai, Blog Y Llyfrgell Genedlaethol, *Phyllis Kinney: Y gantores o Michigan* (2020), <<https://blog.llyfrgell.cymru/phyllis-kinney-y-gantores-o-michigan/>> [cyrchwyd 8 Mawrth 2022].

David Berry, *Emlyn, Endaf: director, writer, producer, Actor, Musician*,

<<http://www.screenonline.org.uk/people/id/554528/index.html>> [cyrchwyd 18 Mawrth 2022].

Davies, D. Jacob Davies, (golygydd), *Penigamp: Pigion o'r Rhaglen Radio* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1971).

Davies, Janet, *The Welsh Language: A History* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014)

Davies, John, *Broadcasting and the BBC in Wales*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984)

——, *Hanes Cymru*, (Llundain: Allen Lane, The Penguin Press, 1990)

Davies, Máire Messenger *'Dear BBC': Children, Television Storytelling and the Public Sphere*, (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2001)

- Denzin, Norman K. a Yvonna S. Lincoln, *Handbook of qualitative research*, (Thousand Oaks, CA; Llundain: Sage, 2005)
- Doctor, Jennifer, *The BBC and Ultra-Modern Music, 1922-1936: Shaping a Nation's Tastes* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2000).
- Dolan, Josephine, Aunties and uncles: the BBC's children's hour and liminal concerns in the 1920s', *Historical Journal of Film, Radio and Television*, 23.4 (2003), 329-339
- Donzelot, Jaques, *Policing Families* London: The Johns Hopkins University Press, 1979)
- Downing, Mildred, 'Heroine of the Daytime Serial' yn *Journal of Communication*, 24.2 (Gwanwyn 1974), 130-7
- Dumais, Susan A., 'Cultural capital, gender and school success: the role of habitus', *Sociology of Education*, 75.1 (2002), 44-68 <[http://doi.org/ doi:10.2307/3090253](http://doi.org/doi:10.2307/3090253)>
- Dyer, Richard ac eraill *Coronation Street* (Llundain: BFI, 1981)
- Elfyn, Menna, *Mynd Lawr i'r Nefoedd*, (Llandysul, Gwasg Gomer, 1986)
- , 'Writing is a bird in hand', yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994) tt. 280-86

Elis, Nan a Gwenno Ffrancon, (golygyddion), *Llais Cenedl: Cyfrol Deyrnged John Roberts Williams* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2006)

Elin Angharad, *Davies, Jennie Eirian (1925-1982), newyddiadurwraig*, (2015) Y Bywgraffiadur Cymreig <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-DAVI-EIR-1925>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

Emmett, Isabel, *A North Wales village: a social anthropological study* (Llundain: Routledge & K. Paul, 1964)

English Heritage, *Emily Davies (1830–1921)*, <<https://www.english-heritage.org.uk/visit/blue-plaques/emily-davies/>> [cyrchwyd 31 Gorffennaf 2020].

Evans, Alun R., ‘Bywyd a gwaith Sam Jones, a hanes dechrau a datblygu darlledu yn y Gogledd: BBC Bangor 1935–63’ (thesis doethurol heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 1998)

———, *Stand-by: Bywyd a Gwaith Sam Jones* (Llandysul: Gomer, 1998)

Evans, Eluned, golygydd, *Merêd: dyn ar dân* (Talybont: Y Lolfa, 2016)

Evans, Elwyn, , ‘Deuparth Gwaith...’, yn *Babi Sam: yn dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, gol. gan Dyfnallt Morgan (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), tt. 31-42.

Evans, Richard R., *Llên y Llenor: Marion Eames* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2004).

Ffrancon, Ann a Geraint H. Jenkins, golygyddion, *Merêd: detholiad o ysgrifau Dr.*

*Meredydd Evans* (Llandysul: Gomer, 1994).

Fogarty, Michael ac eraill, *Women in Top Jobs: Four Studies in Achievement* (Llundain:

George Allen & Unwin Ltd., 1971)

Francis, Becky, *Girls, and Achievement Addressing the Classroom Issues* (Llundain, Efrog

Newydd: Routledge Falmer, 2000)

Ffrancon, Gwenno, 'Y Pentref Gwyn ar Ffilm', *Llên Cymru*, 19 (2006), tt.119-36.

Friedman, Betty, *The Feminine Mystique* (Llundain: Penguin, 1965)

Frith, Simon, 'The Pleasures of the Hearth: the making of BBC light entertainment' yn

*Formations of Pleasure*, gol. gan Frederic Jameson (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1983), tt. 101-123.

——, 'Look! Hear! The uneasy relationship of Music and Television', *Popular Music*, 21.3 (2002), 277-290.

Gallagher, Margaret, *An Unfinished Story: Gender Patterns in Media Employment*

(UNESCO Publishing, 1995)

——, *Women and Television in Europe* (Brwsel: Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd, 1998)



——, *Gender Setting: New Agendas for Media Monitoring and Advocacy* (Llundain: Zed Books, 2001)

Gauntlett, David ac Annette Hill, *TV Living Television, Culture and Everyday Life* (Llundain ac Efrog Newydd: BFI, 1999)

Gill, Rosalind, 'Justifying injustice, broadcasters' accounts of inequality in radio' yn

Goldie, Grace Wyndham, *Facing the Nation: Television and Politics, 1936–76* (Llundain, Bodley Head, 1977)

Gracie, Carrie, *Unequal: A Story of Women, Men and Money* (Llundain: Virago Press, 2019)

Grant, Barry Keith a Jeannette Sloniowski, *Documenting the Documentary: Close Readings of Documentary Film and Video*, (Detroit, MI: Wayne State University Press, 2014)

Gray, Ann ac Erin Bell, *History on Television*, (Efrog Newydd: Routledge, 2013)

Greer, Germaine, *The Female Eunuch* (Llundain: McGibbon & Kee, 1970)

Grevatt, Wallace, *The Children's Hour: A Celebration of Those Wonderful Years* (Lewes: Book Guild, 1988)

Griffith, Robert Emrys, *Urdd Gobaith Cymru: 1946-1960, Cyfrol 2* (Aberystwyth: Urdd Gobaith Cymru, 1972)

Griffiths, Alison, 'National and Cultural Identity in a Welsh-language Soap Opera', yn *To Be Continued...Soap Operas Around the World*, gol. gan Robert C. Allen (Llundain: Routledge, 1995) tt. 81-97

Grist, John, *Grace Wyndham Goldie, First Lady of Television* (Authorsonline, 2006)

Gwasg Prifysgol Cymru, <<https://www.uwp.co.uk/author/1214/>> [cyrchwyd 14 Ebrill 2020]

Gwynfryn, Hywel, *Y dyn 'i hun* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2004)

Habermas, Jurgen, *The Structural Transformation of the Public Sphere: An Inquiry into a Category of Bourgeois Society* (Cambridge: Massachusettes: The MIT Press, 1991)

Hajkowski, Thomas, *BBC and National Identity in Britain, 1922-53* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2010)

Hall, Stuart, *Policing the Crisis: mugging, the state and law & order* (Llundain: Red Globe Press, 2013)

Hallam, Janet, *Lynda La Plante* (Manceinion: Manchester University Press, 2011)

Hansh S4C (@hanshs4c, 27 Mehefin 2020), 'Ydi Dacw Mam yn Dwad yn hiliol?' (neges drydar) <<https://twitter.com/hanshs4c/status/1276900131510652928?lang=en-GB>> [cyrchwyd 18 Medi 2022].

- Hartley, Ian, *Goodnight Children Everywhere* (London: Midas Books, 1983)
- Heale, Michael J., 'The Sixties as History: A Review of the Political Historiography',  
*Reviews in American History*, 33.1 (2005), 133-152,
- Hearn, Jeff, *Men in the Public Eye*, ail rifyn (Llundain: Routledge, 1992)
- Hemblem, Charles a Jane Deverson, *Generation X* (Llundain: Tandem Books Limited, 1964)
- Hendy, David, *The BBC: A people's history* (Llundain: Profile Books, 2022)
- Higgins, Charlotte, 'Prejudice and a BBC pioneer - the amazing story of Grace Wyndham Goldie', *The Guardian*, 12 Mehefin 2015  
<<https://www.theguardian.com/books/2015/jun/12/grace-wyndham-goldie-bbc-producer-1940s-1950s-invented-tv-formats>> [cyrchwyd 4 Gorffennaf 2021]
- Hill, Sarah, 'Blerwytirhwng?' *The Place of Welsh Pop Music*, (Aldershot, Swydd Hampshire, Lloegr; Burlington, VT: Ashgate, c.2007)
- Himmelweit, H.T., Oppenheim a P. Vince, *Television and the child: An empirical study of the effects of television on the young* (London: Oxford University Press, 1958)
- Hobsbawm, Eric, *The Age of Extremes: The Short Twentieth Century 1914-1991*, (Llundain: Michael Joseph, 1994)

Hobson, Dorothy, *Crossroads: drama of a soap opera* (London: Methuen Publishing, 1982)

Hofferle, Caroline M., *British Student Activism in the Long Sixties*, (Oxon. Abingdon: Routledge, 2013)

Holland, Patricia, 'When a Woman Reads the News', yn *Boxed In: Women and Television*, gol. gan Helen Baehr a Gillian Dyer (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1987), tt.133-150

Hood, Stuart, *Radio and Television (The Professions)*, (Caerwysg: David and Charles, 1975)

Hopcyn, Eleri, *Dylanw dau* (Llandysul: Gomer, 1995).

Hueth, Alan C., *Scriptwriting for Film, Television and New Media*, (New York: Focal Press, 2019)

Jackson, Kevin, *The Humphrey Jennings Film Reader* (Manceinion: Carcanet, 2004)

Jackson, Vanessa, 'Women pushed their way forward and became quite a force within the BBC': women's roles in television production and the production of programmes for women', yn *Television for Women: New Directions*, tt. 53-70

Jameson, Frederic, 'Periodizing the 60s', *Social Text*, 9/10 (1984), 178-209

<<http://dx.doi.org/doi:10.2307/466541>>.

Jenkins, Geraint H. a Mari A. Williams, *Eu Hiaith a Gadwant: Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

Jenkins, Henry, *Convergence Culture: where old and new media collide* (Efrog Newydd: New York University Press, 2008).

John Hill, 'Television and Pop: The Case of The 1950s', yn *Popular Television in Britain: Studies in Cultural History*, gol. gan John Corner (Llundain: BFI Publishing, 1991) t. 95.

John, Victor, 'Victor John yn holi Marion Eames', Barn, Nadolig 1972.

Johnes, Martin, *Wales since 1939* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 2013)

Jones, Huw, *Dwi Ishio Bod yn Sais*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2020).

Jones, Merfyn, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Jones, Rhydderch, *Cofiant Ryan*, (Abertawe: Gwasg y Mynydd Du, 1979).  
*Journal of Consumer Research*, 22.1 (1995) 75–8

Karpf, Anne, 'Women and radio' yn *Women's Studies International Quarterly: Women and Media*, 3.1 (1980), 41-54 (t. 43)

Kantor, Jodi a Twohey, Megan, 'Harvey Weinstein Paid Off Sexual Harassment Accusers for Decades', *New York Times*, 5 Hydref 2017.

<<https://www.nytimes.com/2017/10/05/us/harvey-weinstein-harassment-allegations.html>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]

Katzman, Nathan, 'Television Soap-Operas: What's Been Going On Anyway?', yn *Public Opinion Quarterly*, 36.2 (Haf 1972), 200-12

Koerber, Carmel, 'Television' yn *Is This Your Life? Images of Women in the Media*, gol. gan Josephine King a Mary Stott (Llundain: Virago: 1977), tt. 123-142

Kim, Sung Tae, a David H. Weaver, 'Reporting on globalization: a comparative analysis of sourcing patterns in five countries' newspapers', *Gazette: The International Journal for Communication Studies* 65.2 (2003), 121-44

Lacey, Kate, *Listening Publics: The Politics and Experience of Audiences in the Media Age* (Caergrawnt: Polity, 2013)

—, 'Listening with Mother: The Cultivation of Children's Radio' yn *The Child Savage 1890–2010*, gol. gan Elisabeth Wesseling (Farnham: Ashgate Publishing, 2016), tt. 151-69.

Lang, Gladys, 'The Most Admired Woman: Image-Making in the News', yn Tuchman et al., *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media*, tt. 147-160

Latshaw, George, *The Complete Book of Puppetry* (Chatham: Dover Publications Ltd, 2003)

Lavin, Marilyn, 'Creating Consumers in the 1930s: Irna Phillips and the Radio Soap Opera',

Lewis, Caroline, 'Welsh soap: "Pobol Y Cwm" and Welsh national identity', *Critical Survey*, 7.2 (1995), 152-157

Lipman, Beata, 'Diary of a Welsh Liberationist', *Planet*, 15 (1973), tt. 33-36.

Llewellyn, Meic, 'Popular Music in the Welsh Language and the Affirmation of Youth Identities', *Popular Music*, 19.3, (2000), 319-339.

Lloyd, Justine, *Gender and Media in the Broadcast Age* (Efrog Newydd: Llundain: Bloomsbury Academic, 2020).

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Yr Archif Sgrîm a Sain Genedlaethol, *Cywain: Dathlu 50 mlynedd o ddarlledu*, 16 Chwefror 1973, Hywel Gwynfryn, Ednyfed Hudson Davies. Cymru: BBC Cymru.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Elwyn Evans, 'We'll Keep a Welcome in the Hillsides', *Cofnodion Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion*, (1991)  
<<https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1386666/1423792/310#?xywh=-1343%2C-321%2C4948%2C3913>> [cyrchwyd 1 Mai 2020]

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Geoff Charles, F05/40/B-C.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, GB 2010 TREFIN, Papuraru Trefin Archdderwydd Cymru (1914-1971), Ffeil 148-62, sgrïptiau radio teipiedig, 1934-55.

Llywodraeth San Steffan: <<https://history.blog.gov.uk/2015/05/26/a-perfect-nuisance-the-history-of-women-in-the-civil-service/>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020].

Llywodraeth San Steffan: <<https://www.gov.uk/reduced-national-insurance-married-women>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020]

Long, Michelle L., a Rita J. Simon, 'The Roles and Statuses of Women on Children and Family TV Programs' yn *Journalism Quarterly*, 51.1 (Gwanwyn 1974), 107-10.

Lucas, Rowland, *Voice of a Nation: A concise account of the BBC in Wales* (Llandysul: Gomer, 1981)

Lublin, Geraldine, 'Welsh Keywords: Gwladfa' yn *Planet: The Welsh Internationalist*, 240 (2020)

Manning, Paul, *News and News Sources: A Critical Introduction* (Llundain, Sage, 2001)

*Made in Dagenham*, cyf. gan Nigel Cole (BBC, DeLuxe London, Number 9 Films Ltd., 2010)

Margolis, Jon, *The Last Innocent Year: America in 1964 – the Beginning of the Sixties*, (Efrog Newydd: William Morrow, 1999)



Marwick, Arthur, *The Sixties: Cultural Revolution in Britain, France and the United States, c.1958-c.1964*, (Llundain: Bloomsbury, 2012)

Marzolf, M., *Up from the Footnote: A History of Women Journalists* (Efrog Newydd: Hastings House, 1977)

Masters, Joanna, *Ann Clwyd: rebel with a cause* (Llundain: Biteback Publishing, 2017).

Mattelart, Michèle ac Armand Mattelart, *The Carnival of Images: Brazilian TV Fiction* (Efrog Newydd: Bergin & Garvey, 1990)

MacDonald, Myra, *Representing Women: Myths of Femininity in the Popular Media* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 2002)

McKay, Ann, 'Speaking Up: Voice Amplification and Women's Struggle for Public Expression', yn *Technology and Women's Voices: Keeping in Touch*, gol. gan Cheris Kamarae (Efrog Newydd: Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1988), tt. 160-178.

McNair, Brian, *News and Journalism in the UK*, 4ydd argraffiad (Llundain: Routledge, 2003)

Medhurst, Jamie, 'You Say A Minority, Sir; We Say A Nation': *The Pilkington Committee on Broadcasting (1960–2) and Wales*, *The Welsh History Review*, 22.2, (2004), <https://doi.org/10.16922/whr.22.2.6>

——, ‘Minorities with a Message’: *The Beveridge Report on Broadcasting (1949–1951) and Wales*, *Twentieth Century British History*, 19.2 (2008)

——, *A history of independent Television in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010).

Milano, Alyssa (@alyssa\_milano, 15 Hydref 2017) ‘If you’ve been sexually harassed or assaulted write ‘me too’ as a reply to this tweet’ (neges drydar)  
<[https://twitter.com/alyssa\\_milano/status/919659438700670976?lang=en](https://twitter.com/alyssa_milano/status/919659438700670976?lang=en)>  
[cyrchwyd 6 Medi 2019].

Mitchell, Caroline, (golygydd) *Women and Radio: Airing Differences*, (Llundain: Routledge,

Modleski, Tania, *Loving With a Vengeance: mass-produced fantasies for women* (Efrog Newydd, Llundain: Routledge, 1982)

Morgan, D. Densil, *The Span of the Cross* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999)

Morgan, Dyfnallt, (golygydd), *Babi Sam* (Dinbych: Gwasg Gee, 1985)

Morgan, Elaine, *The Descent of Woman: The Classic Study of Evolution* (Llundain, Souvenir Press, 1972)

Morgan, Enid, ‘Identity and religion’ yn *Our Sister’s Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation: 1880-1890*, (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982)

Moseley, Rachel, Helen Wheatley a Helen Wood, 'Introduction: Television in the Afternoon', *Critical Studies in Television: The International Journal of Television Studies*, 9.2 (2014), 1-19

Mulvey, Laura, *Visual and Other Pleasures*, 2il rifyn (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2009)

Kate Murphy, *About the BBC Blog: Mary Adams, first woman television producer at the BBC* (2016), <<https://www.bbc.co.uk/blogs/aboutthebbc/entries/68cc5f84-700f-421e-a6ab-22df2d58b006>> [cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

———, *Behind the Wireless, A History of Early Women at the BBC* (Llundain: Palgrave Macmillan, 2016)

Nichols, Bill, *Introduction to Documentary*, trydydd rhifyn (Indiana: Gwasg Prifysgol Indiana, 2017) O'Connell, Sean, *The Car and British Society: Class, Gender and Motoring, 1896-1939*, (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 1989), t. 46.

Oram, Alison, *Women Teachers and Feminist Politics, 1900-39* (Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion, 1996)

Oswell, Andrew, 'Early children's broadcasting in Britain, 1922-1964: programming for a liberal democracy', *Historical Journal of Film, Radio and Television*, 18.3 (1998), 375-93, <https://dx.doi.org/10.1080/01439689800260241>

Oswell, David, , 'Watching with Mother in the Early 1950s', yn *In Front of the Children: Screen Entertainment and Young Audiences*, gol. gan Cary Bazalgette a David Buckingham (Llundain: BFI, 1995), tt. 34-46

Owain, Owain, *Tafod y Ddraig*, 4 Ionawr 1964.

Owens, Edward, *The Family Firm: Monarchy, mass media and the British public, 1932-53* (Llundain: Gwasg Prifysgol Llundain, 2019)

Patton, Michael Quinn, *Qualitative Evaluation and Research Methods* (Newbury Park, CA: Sage, 1990)

Paulu, Burton, *Television and Radio in the United Kingdom* (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1981).

Pecora, Norma, John P. Murray a Ellen Ann Wartella, *Children and Television: Fifty Years of Research* (Llundain: Lawrence Erlbaum Associates, 2006)

Percival, G., 'The Government's Industrial Estates in Wales 1936 –1975' (thesis doethurol heb ei gyhoeddi)

- Petigny, Alan, *The Permissive Society: America 1941-1965* (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2009)
- Piette, Brec'hed, , 'Identity and Language: The Example of Welsh Women', *Feminism and Psychology*, 7.1 (1997), 129–137 <<https://doi.org/10.1177/0959353597071013>> [cyrchwyd 9 Ebrill 2020]
- Plwm, Mici, *Cyfres y Cewri 25: Meical Ddrwg o Dwll y Mwg*, (Pwllheli: Gwasg Gwynedd, 2002).
- Price, Elain, *Nid Sianel Gyffredin Mohoni!: Hanes Sefydlu S4C* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016)
- Price, Gareth, *Broadcasters of BBC Wales, 1964–1990*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017)
- Railton, Diane, 'The Gendered Carnival of Pop', *Popular Music: Gender and Sexuality*, 20.3 (2001) 321-331.
- Rantzen, Esther, *Esther: the autobiography* (Llundain: BBC Books, 2001).
- Reith, John C.W., *Broadcast over Britain*, (Llundain: Hodder & Stroughton, 1924).
- Rendall, Jane, 'Women and the Public Sphere', *Gender and Society*, 11.3 (1999), tt. 475-468
- Roberts, Eigr Lewis, *Eigra: Hogan fach o'r Blaena* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2021).

Wyn Roberts, *Right from the Start*, (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2006)

Ross, Karen, 'The journalist, the housewife, the citizen and the press: Women and men as sources in local news narratives', *Journalism*, 8.4 (2007), 449–73

——, *Gendered Media: Women, Men and Identity Politics* (Lanham: Rowman & Littlefield Publishers, 2009)

Ross, Mileva, 'Radio' yn *Is This Your Life? Images of Women in the Media*, gol. gan Josephine King a Mary Stott, tt. 9-35

S4C, *Teyrnged i Owen Edwards* (2010), <<https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/27441/teyrnged-i-owen-edwards/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]

S4C, *Teyrnged S4C i Brif Weithredwr, Geraint Stanley Jones* (2015), <<https://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/28177/teyrnged-s4c-i-gyn-prif-weithredwr-geraint-stanley-jones/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]

Sandbrook, Dominic, *Whiteheat: a history of the swinging sixties* (Llundain: Little, Brown, 2006)

Scannell, Paddy, 'The Social Eye of Television, 1946-1955', *Media Culture and Society*, 1.1 (1979), 97–106

——, 'Review of books by R. le Roy Bannerman and A. Crisell', *Media, Culture and Society*, 10.3 (1998) 385-88

- Scannell, Paddy a David Cardiff, 'Serving the nation: public service broadcasting before the war', yn *Popular Culture Past and Present*, gol. gan B. Waites, A. Bennet a G. Thompson, (Llundain: Routledge, 1982).
- , *A Social History of British Broadcasting: Volume One 1922–1939 Serving the Nation* (Oxford: Basil Blackwell Ltd., 1991)
- Schulman, Bruce J., *The Seventies: The Great Shift in Culture, Society and Politics*, (Efrog Newydd: The Free Press, 2001)
- Sieghart, Mary Ann a Georgina Henry, *The Cheaper Sex: How Women Lose Out in Journalism* (Llundain: Women in Journalism, noddwyd gan Tesco, 1998)
- Seiter, Ellen, '“To Teach and to Sell”: Irna Phillips and her Sponsors, 1930-1954', *Journal of Film and Video*, 41.1 (1989) 21–35
- Shapley, Olive, *Broadcasting a life: the autobiography of Olive Shapley* (Llundain: Scarlet Press, 1996).
- Shiach, Morag, *Discourse on Popular Culture: class, gender and history in cultural analysis: 1730 to the present* (Caergrawnt: Polity Press, 1998), t. 194
- Skirrow, Gillian, 'Women/acting/power' yn *Boxed In: Women and Television*, gol. gan Baehr a Dyer, tt. 164-183

Smith, Kieron, 'John Ormond and the BBC Film Unit: poetry, documentary, nation',  
traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe, 2014)

——, *John Ormond's Organic Mosaic* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2019)

Somerville, Christopher, *A Tribute to the late Eric Bramall, who built the Harlequin, by the  
current director* (1996), <<http://www.puppets.uk.com/eht.htm>> [cyrchwyd 18 Medi  
2022]

Spender, Dale, *Man Made Language* (Llundain: Routledge & Kegan Paul, 1980)

Spigel, Lynn a Denise Mann, golygyddion, *Private Screenings: Television and the Female  
Consumer* (Minneapolis: University of Minnesota Press, 1992)

Stacey, Margaret a Marion Price, *Price, Women, Power and Politics* (Llundain: Efrog  
Newydd: Tavistock, 1981)

Stevens, Catrin, *Voices from the Factory Floor: The Experiences of Women Who Worked in  
the Manufacturing Industries in Wales, 1945-1975* (Stroud: Amberley, 2017)

Stevens, Meic *Hunangofiant Y Brawd Houdini*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2003); Meic Stevens,  
*Y Crwydryn a Mi*, (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2009); Meic Stevens, *Mas o 'Ma*, (Tal-y-  
bont: Y Lolfa, 2013).

Stone, Vernon A., 'Attitudes towards Television News-women', *Journal of Broadcasting*,  
17.1 (Gaeaf 1973-74), tt. 49-62



Streeter, Thomas a Wendy Wahl, 'Audience Theory and Feminism: Property, Gender, and the Television Audience', yn *Camera Obscura*, 11-12.3-1. (1994), 243-61

Sue Graham Taylor, *Australian Dictionary of Biography: Graham, Margaret (1899-1966)* (1996; 2006), <<https://adb.anu.edu.au/biography/graham-margaret-10339>> [cyrchwyd 14 Medi 2022]

Tarana Burke, *Me Too*, <<https://metoomvmt.org>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]

Thomas, Ned, 3ydd argraffiad, *The Welsh Extremist: Modern Welsh Politics, Literature and Society* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1991).

Thomas, Nick, 'Will the real 1950s please stand up? Views of a contradictory decade', *Cultural and Social History*, 5.2 (2008), 227-235

Thomas, M. Wynn, *John Ormond* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997)

Thumim, Janet, 'Mrs Knight *must* be balanced', *News, Gender and Power*, gol. gan Cynthia Carter, Gill Branston a Stuart Allan, (Efrog Newydd: Routledge, 1998)

———, *Small Screens, Big Ideas: Television in the 1950s* (Llundain: I.B.Tauris & Co Ltd, 2002)

———, *Inventing Television Culture: men, women and the box* (Rhydychen: Oxford University Press, 2004)

Toffler, Alvin, *The Third Wave* (Llundain: Pan mewn cydweithrediad gyda Collins, 1981).

Tomos, Angharad, 'A Welsh lady' yn *Our Sister's Land: the changing identities of women in Wales*, gol. gan Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994)

Tracey E. Higgins, 'Reviving the Public/Private Distinction in Feminist Theorizing', *Chi.-Kent L. Rev.* 75 (1999), tt. 847-867.

Tracy, Sarah J., *Qualitative Research Methods* (Chichester: Wiley Blackwell, 2013)

Tuchman, Gaye, Arlene Kaplan Daniels a James Benét, *Hearth and Home: Images of Women in the Mass Media* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1978)

Turow, Joseph, 'Advising and Ordering: Daytime Prime Time' yn *Journal of Communication*, 24.2 (1974) 138-41

TV Pop Diaries, *Pop Music on British Television, Discs-a-gogo* (1955 - 1999), <<http://www.tvpopdiaries.co.uk/credits.html>> [cyrchwyd 27 Ebrill 2022].

TWW, *Teledu yng Ngwlad y Gân* (23 Mai 1960), <<http://rhaglenni.televault.rocks>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

Vickery, Amanda 'Golden Age to Separate Spheres? A Review of the Categories and Chronology of English Women's History', *Historical Journal*, 36, 2 (1993), tt. 383-414

Wallis, Roger, a Krister Malm, 'Sain Cymru: the role of the Welsh phonographic industry in the development of a Welsh language pop/rock/folk scene', *Popular music* 3 (1983), 77-105.

Walsh-Childer, Walsh, Jean Chance a Kristin Herzog, 'Sexual Harassment of Women Journalists', *Journalism and Mass Communication Quarterly*, 73.3 (1996), tt. 559-81.

Weibel, Kathryn, *Mirror, Mirror: Images of Women Reflected in Popular Culture* (Efrog Newydd: Anchor Books, 1977)

Wheatley, Helen, 'Television in the Ideal Home' yn *Television for Women: New Directions* gol. gan Rachel Moseley, Helen Wheatley a Helen Wood (Abingdon: Routledge, 2017), tt. 205-222

Wigley, Llion, 'Y Tad a'r mab a'r merched: crefydd, ieuencid a diwylliant yn y Gymru Gymraeg c.1958- c.1970' (thesis doethurol heb ei gyhoeddi, Prifysgol Aberystwyth, 2011)

Williams, Alun a Manon Rhys, *Alun Williams* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1982)

Williams, Alun Llywelyn, *Gwanwyn yn y Ddinas: Darn o Hunangofiant* (Dinbych: Gwasg Gee, 1975)

Williams, Chris, *The People of Wales: A Millennial History*, gol. gan Gareth Elwyn Jones a Dai Smith (Llandysul: Gomer, 1999)

Williams, Evelyn, 'Awr y Plant', yn *Babi Sam: yn dathlu hanner can mlynedd o ddarlledu o Fangor, 1935-1985*, gol. gan Dyfnallt Morgan (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), tt. 96-101.

Williams, Gwyn Alf, 'Women Workers in Wales, 1968-1982', *Welsh History Review*, 11: 4, (1983), 530-48

Williams, Iolo Wyn, golygydd, *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2002).

Williams, Manon, 'Huw Lloyd Edwards: Fe'i Gwthiwyd i'r Cysgodion' yn *Ysgrifau Beirniadol 34*, gol. gan Angharad Price a Gerwyn Williams (Bethesda: Gwasg Gee, 2016)

Williams, Mari A., *A Forgotten Army* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002)

Williams, Marion Griffith, (nee Eames), *Y Stafell Ddirgel* (Llandysul, Gwasg Gomer, 1969)

——, *Y Rhandir Mwyn* (Llandybie: Christopher Davies, 1972)

——, *I Hela Cnau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1978)

——, *Seren Gaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1985)

——, *Y Ferch Dawel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).

Williamson, Judith, *Consuming Passions: the dynamics of popular culture* (Llundain: Boyars, 1986)

Wisniewska, Aleksandra, Billy Ehrenberg-Shannon, Cale Tilford a Caroline Nevitt, *Gender Pay Gap: women still short-changed in the UK* (2019), <<https://ig.ft.com/gender-pay-gap-UK-2019/>> [cyrchwyd 6 Medi 2019]

Wyn, Hefin, *Be Bop a Lula'r Delyn Aur: Hanes Canu Poblogaidd Cymraeg*, Tal-y-bont: Y Lolfa, 2002.

Y Lolfa, *Eigra Lewis Roberts* <<https://www.ylolfaf.com/awduron/1279/eigra-lewis-roberts>> [cyrchwyd 22 Awst 2022].

Yr Archif Genedlaethol, Cyfrifiad 1911 ar gyfer 40 Christchurch Road, Casnewydd cyfeirnod RG14PN31987 RG78PN1840 RD587 SD2 ED28 SN303/31987.

Yuval-Davies, Nira a Floya Anthias, *Woman, Nation, State* (Basingstoke: Macmillan, 1989)

Zoch, Lynn M. a Judy VanSlyke Turk, 'Women making news: gender as a variable in source selection and use', *Journalism & Mass Communication Quarterly*, 75.4 (1998), 762–

75

